This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

+ *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.

+ *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.

+ *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.

+ *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at `http://books.google.com/`

No. 2.

1853.

Bethus Gwersil Gosh.

1016. e. 209.



MYFYRDODAU

AR RAI O

Ranau Hanesol y Testament Newydd,

GAN Y DYSGEDIG A'R DUWIOL

JOSEPH HALL,

Gynt Esgob Norwich.

A GYFIEITHWYD GAN Y

PARCHEDIG JOHN HUGHES,

VICER LLANBADARN FAWR, CEREDIGION.

ABERYSTWYTH:

ARGRAPHWYD A CHYHOEDDWYD GAN J. COX;

AC AR WERTH GAN

H. HUGHES, LLUNDAIN; J. A J. PARRY, CAERLLEON;

A HOLL LYFR-WERTHWYR CYMRU.

1842.

D.

BODLEIAN
20·7·1897
LIBRARY

RHAGYMADRODD.



Ganwyd yr enwog Esgob Hall yn Mhlwyf Ashby-de-la-Zouch, yn Swydd Lestr, Gorphenaf 1, 1574. Ei fam oedd nodedig am ei duwioldeb, a mawr oedd ei gofal am ddwyn ei phlentyn i fynu yn ofn yr Arglwydd. Ei chynghorion iddo, a'i gweddiau taerion drosto, a fendithiwyd er ei ddwyn yn foreu i geisio teyrnas Dduw a'i gyfiawnder. "Ni chefais erioed," meddai, "y fath wersi teimladwy a duwiol ag a gefais o'i gwefusau hi."

Anfonodd ei rieni ef yn brydlon i brif-ysgol Rhydychain, lle yr ymroddodd mor llwyr i astudio, fel y tybiodd ei gyfeillion yn rheidiol ei berswadio oddiwrth ymröad mor llwyr i'w lyfrau. Ei ymddygiad tra fu yno oedd brydferth a sanctaidd.

Yn ol ymadael â'r lle hwn, ymsefydlodd yn Weinidog yn Holsted, Swydd Suffolc. Oddi yma aeth ar daith, er mwyn ei iechyd, dros ran o Gyfandir Ewrop, gydag un Syr Edward Bruen, lle y dysgodd lawer am ansawdd crefydd, ac yn enwedig am lygredigaethau Pabyddiaeth. Mawr oedd ei eofndra yn ymddiffyn y grefydd brotestanaidd, ac yn dinoethu cyfeiliornadau y grefydd babaidd, yn y gwledydd y teithiai trwyddynt.

Aeth yn nesaf i Waltham i weinidogaethu, oddeutu y flwyddyn 1612, ac yn mhen pedair blynedd wedi'n, aeth trwy orchymyn y Brenhin Iago I. gyda'r Dr. Carleton, Esgob Llandaf; y Dr. John Davenant, Meistr Coleg y Frenhines, yn Caergraint; y

Dr. Samuel Ward, Meistr Coleg Sydney, yn yr un lle, i Dort, tref yn yr Isel-diroedd, *(Holland)* i gyfarfod âg amryw o dduwinyddion o leoedd eraill, i benderfynu'r ddadl rhwng yr Arminiaid a'r Calfiniaid, yn nghylch etholedigaeth—prynedigaeth—pechod gwreiddiol—gras effeithiol—a pharhad mewn gras. Gorfu arno ddychwelyd yn fuan oherwydd afiechyd. Tra yr arosodd yn Dort, pregethodd yn odidog ger eu bron, yn Lladin, oddiar Preg. vii. 16.

Yn fuan ar ol ei ddychweliad, gwnaethpwyd ef yn Esgob Exeter, lle y gwnaeth ei oreu i roddi'r Esgobaeth mewn trefn dda, gan annog a chefnogi gweinidogion diwyd a ffyddlon, a rhoddi arwyddion o'i anfoddlonrwydd i'r sawl nad oeddynt felly. Yn nherfysg yr amseroedd, amddifadwyd ef o'i Esgobaeth a'i holl feddiannau, dyoddefodd ddirmyg a chreulondeb nid bychain, a rhoddwyd ef yn ngharchar, lle yr amlygodd yr ysbryd mwyaf amyneddgar, maddeugar, a charedig, Pan ryddhawyd ef o'r carchar, aeth yn mhen tro i Norwich, Esgobaeth yr hon a roddasid iddo.

Bu farw yn y flwyddyn 1656, yn 82 mlwydd oed. Yn ei ewyllys, neu lythyr-cymmun, gadawodd £30 i weddwon tlodion y dref y ganesid ef ynddi, a'r unrhyw swm o £30 i weddwon y ddinas a bu farw ynddi, a'i gladdedigaeth, yn ol ei orchymyn, oedd heb un math o orwychder daearol.

Os yw coffadwriaeth y duwiol a'r da yn fendigedig, haeddai enw Joseph Hall, Esgob Exeter, ac wedi hynny, Esgob Norwich, gael ei gadw rhag mewn un gwêdd iddo syrthio i annghof. Nid llawer a adawsant er eu hol dystiolaethau eglurach o ddysgeidiaeth, duwioldeb, a diwydrwydd o barth y gwirionedd nag efe. Seren oedd o'r maintioli mwyaf.

Y mae cyfansoddiadau yr enwog Esgob Hall mewn cymmeradwyaeth mawr yn Lloegr, ac wedi bod felly o'r dechreuad. Darllenir hwynt gyda'r hyfrydwch mwyaf gan Gristionogion o bob enwadau. Tybiwyd, gan hynny, mai addas a buddiol a fyddai eu gwneuthur yn hysbys i'r Cymry, y rhai a gawsant golled ddirfawr trwy gael eu cadw'n amddifad ohonynt cyhyd.

Y mae'n anhawdd cael unrhyw lyfr mwy cymmwys na hwn, o ran pwysigrwydd ei sylwedd, a'r dull rhagorol o'i drin, i'w ddarllen ger bron y teulu, o flaen y weddi deuluaidd. Dywaid un am dano fel hyn—"Yr oedd Esgob Hall yn wr o synwyr a dysgeidiaeth mawr. Yr oedd yn dra addfwyn, gostyngedig, a duwiol. Y mae ei ysgrifeniadau yn llawn o sylwadau hyfryd, moesoldeb rhagorol, a duwioldeb diffuant: y maent yn gorph cyflawn o dduwinyddiaeth. Mewn rhai, neu ychydig o dudalennau ac ymadroddion, cyfrennir mwy o wybodaeth nag mewn cyfrolau o bregethau a thraethodau'r oes hon. Ychydig a adnabyddai galon dyn megis efe."

Byddai yn hawdd rhoddi i lawr farn ffafriol llawer o enwogion o blaid ysgrifeniadau'r Esgob Hall, ond tybir yn ddigonol dyfynodi yr hyn a ddywaid y nefolaidd James Hervey, (Eglwyswr,) a'r tra enwog Doddridge, (Ymneillduwr,) am danynt. Dywaid Hervey fel hyn—"Caiff y darllenydd yn ei ysgrifeniadau gymmysgedd hyfryd o wir areithyddiaeth, a duwinyddiaeth iachus—dychymygion tra disglaer, yn nghyd âg addfwyn ysbryd duwioldeb.. Ei Fyfyrdodau ar hanesion yr Ysgrythyr a roddant bob amser ddifyrwch ac addysg. Er y defnyddia ambell dro ymadroddion afrwydd ac anarferadwy, nis gallaf lai na golygu ysgrifeniadau'r awdwr hwn yn mhlith y cyfansoddiadau gwychaf yn ein hiaith." Dywed Doddridge fod "ei Fyfyrdodau yn annghydmarol werthfawr, o ran iaith, nodiadau beirniadol, a duwiolder." Geilw'r Esgob "yn dduwiol, cymmedrol, a hyawdl," ac ychwanega, "na wyddai am unrhyw ysgrifeniadau defosiynol ar hanesion y Bibl, a roddent gymmaint difyrwch a'r eiddo ef."

O'i ysgrifeniadau lluosog, barnwyd yn ddoethaf argraphu yn gyntaf ei *Fyfyrdodau* ar rai o hanesion y Testament Newydd, ac nid oes lle i ammeu na fydd i'r gyfrol hon beri dymuniad yn y wlad am ei Fyfyrdodau ar yr Hen Destament hefyd.

Ni osodwyd ar lawr y rhannau hynny o'r Ysgrythyr, y cyfieithwyd y *Myfyrdodau* arnynt, rhag chwyddo'r llyfr i ormod maintioli, ac er gwneuthur ei bris mor isel, ag iddo fod

yn gyrhaeddadwy gan y werin. Darllener yr ysgrythyrau yn gyntaf yn y Bibl, ac yna'r Myfyrdodau: ac os gwneir hyn gyda thaer erfyniad am oleuni a bendith yr Ysbryd Glan, mawr fydd y lles a gaiff y darllenydd. Anaml y ceir gwaith, yr hwn a duedda'n fwy i genhedlu meddyliau uchel a pharchus am y Cyfryngwr—am dosturi ei galon—am ddoethineb ei ddywediadau—am rym ei fraich—am ei barodrwydd i gynnorthwyo—am rinwedd ei waed—a melusder ei enau. Ar iddo fod, dan Ysbryd Duw, yn arweinydd at Grist i'w ddarllenwyr, ac yn offeryn i'w sancteiddio trwyddo—yw

Taer ddymuniad a gweddi'r

CYFIEITHYDD.

Rhagfyr 1, 1842.

CYNNWYSIAD.

LLYFR I.

	TU DAL.
Yr Angel a Zacharias	1
Cyfarchiad Iesu Grist	9
Genedigaeth Crist	15
Y Doethion a'r Seren	20
Y Puredigaeth	27
Herod a'r Babanod	32

LLYFR II.

Crist yn mhlith y Doctoriaid	39
Bedydd Crist	46
Crist yn cael ei demtio	49
Simon yn cael ei alw	64
Y Briodas yn Cana	69
Y Canwriad da	75

LLYFR III.

Mab y Wraig Weddw yn cael ei gyfodi	82
Iachau Mab y Llywydd	86
Y Cythraul Mud yn cael ei fwrw allan	90
Galw Matthew	99
Crist yn mhlith y Gergesiaid	105

LLYFR IV.

Y Canaanead Ffyddlon	128
Iachau y Dyn Byddar a Mud	136
Zaccheus	142
Dihenyddiad Ioan Fedyddiwr	159
Y Pum Torth, a'r Ddau Bysgodyn	174
Crist yn Rhodio ar y Môr	186
Iachau'r Difer-lif Gwaed	198
Jairus a'i Ferch	208
Cais y Ddau Ddisgybl Tanllyd yn cael ei wrthod	212
Y Deg Gwahangleifion	219
Llyn Bethesda	228
Gwedd-newidiad Crist	246
Gwedd-newidiad Crist: yr ail Ran	250

CYNNWYSIAD.

	TU DAL.
Parhad y Gwedd-newidiad - - - - -	262
Y Wraig a ddaliasid mewn Godineb - - - -	266
Yr Edifeiriol Diolchgar - - - - -	276
Martha a Mair - - - - - -	288
Y Cardottyn a anesid yn Ddall yn cael ei iachau -	295
Y Cythraul Cyndyn yn cael ei fwrw allan - - -	303
Hatlingau'r Weddw - - - - -	310
Balchder Dau Fab Zebedeus - - - - -	313
Arian y Deyrnged yn cael ei dalu - - -	320
Lazarus wedi Marw - - - - -	324
Lazarus yn cael ei godi - - - - -	332
Crist yn myned i'r Deml - - - - -	345
Melldithio'r Ffigysbren - - - - -	353
Crist yn cael ei fradychu - - - - -	356
Yr Ing - - - - - - -	364
Petr a Malchus—neu Crist yn cael ei ddal - - -	369
Crist ger bron Caiaphas - - - - -	374
Crist ger bron Pilat - - - - - -	379
Y Croeshoeliad - - - - - -	390
Yr Adgyfodiad - - - - - -	407
Yr Esgyniad - - - - - -	427

MYFYRDODAU,

&c. &c.

LLYFR I.

YR ANGEL A ZACHARIAS.

Pan y mae pethau ar y gwaethaf, yna y dechreua Duw roddi tro arnynt. Yr oedd cyflwr yr Eglwys Iuddewig yn dra llygredig, yn y man cyn dyfod ar led newyddion yr Efengyl. Etto, er gwaethed oedd, parhauasai nid yn unig yr offeiriadaeth, eithr dydd-gylchoedd gwasanaeth, o oes Dafydd hyd amser Crist. Diobaith yw cyflwr llygredig yr Eglwys, pan na adewir ynddi unrhyw drefniadau da.

Aethai Juda trwy drallodau lawer, a newidiadau lawer: er hynny, y cyssylltiad trefngar hwn a barhaodd oddeutu un cant ar ddeg o flynyddoedd. Daioni sefydledig nid hawdd y dymchwelir ef, ond erys yr un yn nghyfnewidiad personau: ac os gorfydd arno ymadael, gâd arwyddion hygof ar ei ol. Os rhagwelodd Dafydd barhausrwydd yr ordinhad sanctaidd hon, pa mor fawr y llawenychodd yn y wybodaeth honno! Pwy na wnai ddaioni yn llawen ar yr ammod iddo aros cyhyd ar ei ol?

Parhaodd cylchoedd olynol Gweinidogaeth y ddeddf mewn llinell annhorredig. Gall fod, ïe, mewn eglwys ddiymgeledd a thruanaidd, olynoliad personol. Leied o les a gafodd yr Iuddewon oddiwrth hyn, yn ol colli o honynt yr Urim a'r Thummim, diragrithrwydd athrawiaeth a moesau! Arosodd hyn gyda hwynt, ïe, pan oeddynt hwy a'u meibion yn croeshoelio Crist. Beth sydd fwy cyffredin nà meibion drygionus i rieni sanctaidd? Parhad gwirionedd a sancteiddrwydd a gyfansodda ac a gyfiawnha eglwys, beth bynag a ddaw o'r personau.

Ni fu'r amser erioed mor ddigynnyrch, fel ag i beidio dwyn dim daioni. Yn y prinder mwyaf caiff y lloffwyr rai tywysenau rhagorol. Ni ddaethai Crist i'r byd heb gael rhai ffyddlon i'w groesawi. Parai Ef, yr hwn a bia llywio pob peth a phob dyn, i rai dynion sanctaidd hanfodi yn ei ddyddiau ei hun. Ni fuasai cyfartaledd, pe buasent oll wedi ei ragflaenu, neu oll i'w ddilyn, heb neb yn ei oes ef.

Zacharias ac Elisabeth ydynt yn gyfiawn, eill dau o waed Aaron, ac Ioan Fedyddiwr o'r eiddynt hwythau. O ba le y tarddai had sanctaidd, os nid o lwynau Lefi? Analluog yw rhieni i drosglwyddo purdeb i'w plant: bendith Duw a'u gwna yn etifeddion o rinweddau eu rhieni, megis y gwna eu rhieni hwynt yn etifeddion o'u pechodau. Nid oes sicrwydd, eithr y mae tebygolrwydd am had sanctaidd, pan fyddo'r tadau a'r mammau felly.

Yr oedd Elisabeth yn gyfiawn yn gystal a Zacharias, fel y byddai'n sanctaidd rhagflaenor y Gwaredwr o'r ddwy ochr. Oddieithr fod y pren a'r crefftyn eill dau yn dda, y mae perygl nid bychan o ran y ffrwyth. Gwych y briodas lle y mae'r gwr a'r wraig yn un—nid yn unig ynddynt eu hunain, ond yn yr Arglwydd; nid yn fwy felly yn y cnawd, nag yn yr ysbryd. Ni wna gras wahaniaeth rhwng y rhywiau: y wanaf yn hytrach a ddwg anrhydedd fwy am dderbyn o honi lai o gynnorthwyon.

Hawdd dirnad fod y Testament Newydd yn fwy ei ystor o wragedd duwiol nâ'r Hen. Elisabeth oedd y flaenaf o'r rhes drugarog hon: anmhlantadrwydd yr hon a derfynodd yn ngwyrthiol ffrwyth ei chorph a'i hamser.

Y cwpl crefyddol hwn a wnaeth gynnydd mor fawr mewn rhinwedd ag mewn blwyddau: er hynny ni allodd eu rhinwedd ffrwythloni y rhan oreu o'u bywyd. *Elisabeth oedd anmhlantadwy.* Gall crôth ddiffrwyth ac enaid ffrwythlon gyd-fyned â'u gilydd yn rhagorol. Yr oedd diffrwythder yn mhlith yr Iuddewon, nid yn ddiffyg yn unig, ond yn waradwydd hefyd: etto, tra yr oedd y wraig dda hon yn ffrwythlon mewn ufudddod sanctaidd, yr oedd yn anffrwythlon mewn plant. Megis yr oedd Ioan, yr hwn a gaed yn wyrthiol gan ddyn, yn addas ragflaenor o hono Ef, a gaed gan yr Ysbryd Glan: felly, addas oedd mam anmhlantadwy i ragflaenu gwyryf.

Nis gallasai ond mab i Aaron arogldarthu i Dduw yn y deml: ac nis gallasai pob mab i Aaron, na neb o'r cyfryw bob amserau. Duw a gar drefn: a chasha annghydfod megis annghrefydd.

Er na chyfyngodd ei hun dan yr Efengyl, fel ag i uno ei wasanaeth â phersonau a lleoedd, etto, nid yw ei ddewisiad yn awr yn llai cywrain am ei fod yn helaethach. Ni chymmeradwya ond y sawl a awdurdodwyd: ni awdurdoda ond y sawl sydd deilwng.

Yr arogldarth a arogla byth o'r llaw a'i hoffryma. Nid oes anmheuaeth ynof nad oedd yr arogldarth yn hyfryttach, yr hwn a esgynai o law rhyw Zacharias gyfiawn. "*Aberth y drygionus sydd ffiaidd gan yr Arglwydd.*"

Yr oedd dydd-gylchoedd o weinyddiadau yn ngwasanaeth y Ddeddf. Ni fwriadodd Duw erioed lwytho neb o'i greaduriaid â chyflawniadau defosiynol. O, mor wageddus yw uchel-gais unrhyw enaid, a lwytha ei hun â gofal cyffredinol holl blant dynion! O, mor ddiddiolch eu llafur hwy, y rhai, o'u bodd, a ymledant yn mhell ac yn agos, yn eu galwedigaethau cyffredinol.

Megis yr oedd gan Zacharias ddydd-gylch yn nhŷ Dduw, felly mawr ofalai am dano. Y seibiantau, â'r rhai y ffafrid ef a ddyblent ei ddiwydrwydd. Po uwchaf a sancteiddiaf ein swydd, enbyttaf oll yw esgeulusdod. Ein hanrhydedd yw caffael caniattad i ddisgwyl wrth Dduw y nefoedd yn y gwasanaethau digyfrwng hyn. Gwae i ni os ni a fyddwn ddifraw yn y dyledswyddau hynny, yn y rhai yr anrhydedda Duw ni yn fwy, nag y gallwn ni ei anrhydeddu ef!

Llawer o feibion Aaron, ïe, o'r un teulu, a wasanaethent ar unwaith yn y deml, yn ol amrywiaeth y gweinyddiadau. Er rhwystro annghydfod neu derfysg, cytunent, trwy goelbren, i ymroddi i wahanol ddyledswyddau'r dydd. Coelbren y dydd hwn a alwodd Zacharias i arogldarthu yn y deml. Nis cenfydd efunrhyw gyfarwyddyd dwyfol, am y dull neillduol hwn o'u hymdrefniad. Yr hyn a berthyn i drefn dda mewn pethau sanctaidd, a ellir ei reoli gan ddoeth osodiadau dynion, fel y mae rheswm a buddioldeb yn gofyn.

Digwyddodd yn dda i Zacharias gael ei ddewis trwy goelbren i'r gwasanaeth hwn; fel y byddai'n amlwg ddigyfrwng law Duw yn yr holl bethau a berthynent i'w brophwyd mawr; fel megis ag yr oedd y person o ddewisiad Duw ei hun, y byddai yr achlysur hefyd. Mewn coelbrenau, a'u llywodraethiad damweiniol o ran golwg, gall Duw roddi rheswm, er na fedrwn ni.

Eu deddf a alwai arnynt i arogldarthu i Dduw ddwywaith yn y dydd, sef boreu a hwyr, fel y byddai deuparth y dydd yn gyssegredig i wneuthurwr amser. Y deml allanol oedd gysgod

o'r holl Eglwys ar y ddaear, megis y cysgodai y Sanctaidd Sancteiddiolaf y nefoedd. Nis dichon un peth ddynodi yn rhagorach ein ffyddlon weddiau nag arogldarth peraidd. Y mae Duw yn disgwyl arnom (ar ei Eglwys oll) anfon y cyfryw i fynu atto yn foreuol a phrydnhawnol. Dylem dderchafu ein calon yn barhaus; ond os na chyflwynwn i Dduw ein dwys erfyniadau ddwywaith yn y dydd, gwnawn ddyledswyddau'r Efengyl yn llai nâ'r eiddo'r Gyfraith.

Fel y byddai amlwg y tebygolrwydd rhwng gweddiau ac arogldarth, tra yr anfonai'r offeiriad ei arogldarth i fynu o fewn y deml, rhaid i'r bobl anfon i fynu eu herfyniadau y tu allan o hono. Eu hanadl hwy a'r arogldarth hwnnw, er yn mhell oddi wrth eu gilydd yn eu cychwyniad cyntaf, a ymgyfarfyddent cyn eu myned i fynu i'r nefoedd.

Nis gallai y bobl fyned i'r lle sanctaidd, i offrymmu arogldarth gweddiau i Dduw, mwy nâ Zacharias i'r Sanctaidd Sancteiddiolaf. Tra y safodd mur y gwahaniaeth rhwng Iuddewon a Chenhedloedd, yr oedd hefyd y cyfryw rhwng yr Iuddewon a hwy eu hunain. Yn awr, y mae pob dyn yn offeiriad i Dduw, ac er pan rwygwyd llen y deml, gweddia pob dyn yn y deml. Beth well ydym er ein helaethach rhydd-did i ddyfod at Dduw dan yr Efengyl, oni ddefnyddiwn ein braint?

Tra yr oeddynt hwy yn gweddio ar Dduw, gwelodd yntau Angel Duw. Megis yr esgynodd Angel Gideon yn mwg yr aberth, felly Angel Zacharias a ddisgynodd yn hyfryd fwg ei arogldarth.

Newydd da yn wastadol oedd canfod Angel Duw, ond yn awr yn well fyth, am fod Duw, er ys amser maith, wedi tynnu oddi wrthynt bob dadguddiadau goruwch-naturiol. Megis yr oedd y bobl hyn yn estroniaid i Dduw yn eu hymarweddiad, felly Duw a aeth yn estron iddynt hwythau o ran ymweliadau: ond yn awr am agoshau amser yr Efengyl, ymwelodd â hwy trwy ei angelion, cyn ymweled â hwy trwy ei Fab. Anfona ei Angel at ddynion yn ffurf dyn, cyn anfon ei Fab i gymmeryd arno ei ffurf.

Nid peth newydd yw presennoldeb angelion, ond eu hymddangosiad. Y maent yn wastadol gyda ni, ond anfynych y gwelir hwynt, fel y dwfn barchom eu cennadwri, pan ganfyddom hwynt. Ar yr un pryd gall ein ffydd eu gweled, er na chenfydd ein synwyrau hwynt. Yr agweddau a gymmerant nis gwnant hwy yn fwy gwyddfodol, ond yn weledig.

Y mae gwahan-raddau yn mhlith yr angelion glân, er ei fod i ni yn anhysbys. Yr angel hwn, a ymddangosodd i Zacharias, nid oedd gydag ef yn ei weinyddiadau cyffredinol, ond anfonwyd ef gan Dduw, â'r gennadwri hon.

Paham yr anfonwyd angel? paham yr angel hwn? Buasai yn hawdd iddo dderchafu ysbryd prophwydol rhyw Simeon, i draethu'r brophwydoliaeth hon. Yr un Ysbryd Glan, a hysbysodd i'r gwr cyfiawn hwnnw, na welai angau cyn gweled y Messia, a allasai yn llwyr mor hawdd ddatguddio iddo enedigaeth rhagflaenor Crist, a thrwyddo ef i Zacharias. Ond mynnai Duw i'r llais hwn, yr hwn oedd i rhagflaenu ei Fab, ddyfod gydâ swn. Mynnai iddo ymddangos i'r byd, i ragflaenor y Messia gael ei ffurfio trwy ryfeddol allu y Duw hwnnw, dyfodiad yr hwn a gyhoeddodd. Addas i gyhoeddwr cyntaf yr Efengyl ddechreu yn rhyfeddol.

Yr Angel a ddaeth at y Wyryf fendigedig, â'r newydd o genhedliad Crist, a ddaeth at Zacharias â'r newydd o'r eiddo Ioan: er ei anrhydeddu ef, yr hwn oedd fwyaf o'r sawl a anesid o wragedd, ac er ei debygoli yn fwy iddo ef, yr hwn oedd had y wraig. Yr Efengyl oedd neges y ddau. Un oedd ei chennad, a'r llall ei hawdwr; y ddau a rag-gyhoeddir trwy yr un genau.

Pa adeg addasach i'r Angel ymddangos i Zacharias, na phan yr offrymid gweddiau ac arogldarth ganddo? P'le yr oedd yn gymmwysach iddo ymddangos nag yn y deml? Ac yn mha ran o honi nag wrth allor yr arogldarth? Ac oddeutu pa fan yn hytrach nag ar ei thu dehau? Yr ysbrydion gogoneddus hyn ydynt yn wastadol gyda ni, ond yn neillduol yn ein gweddiau: yn mhob man, ond yn bennaf oll yn nhŷ Dduw. Ymlawenhant fod gyda ni, tra f'om ni gyda Duw: megis i'r gwrthwyneb, y troant eu cefnau, pan ddychwelom at ein pechodau.

Efe, yr hwn a arferai fyw a gweini yn ngwydd y Meistr, a gythryblir wrth bresennoldeb y gweinidog. Cyfryw y gwahaniaeth rhwng ein ffydd a'n synwyrau, fel fod teimlad o bresennoldeb Duw'r ysbrydion trwy ffydd yn hyfryd gennym, tra y mae gweledigaeth angel yn ein dychrynu. Tybiodd Zacharias dduwiol, yr hwn oedd arferol o fyw trwy ffydd, y byddai farw pan ddechreuodd ei synwyr weithredu. Ei wendid ef, yr hwn a wasanaethai yn ddiarswyd wrth yr allor, oedd dychrynu wrth wyneb ei gyd-was. Ofer y chwiliwn am dduwiolion heb wendidau yn perthyn iddynt, pan gythryblwyd Zacharias ffyddlon yn ei ddefosiwn â'r hyn a ddylasai ei gyssuro. Ei

ddychryn a gododd mewn rhan oddiwrth ddisymwythdra, ac mewn rhan oddiwrth ogoniant, y weledigaeth.

Canfyddodd yr Angel da wendid Zacharias, a thosturiodd wrtho, ac a'i cyssurodd yn y fan, gan ddywedyd, *Nac ofna Zacharias.* Yr ysbrydion gwynfydedig, er na thraethant hynny yn fynych â'u llais, a dosturiant wrth ein gwendidau, ac yn ddirgel a gynhyrfant ddiddanwch pan na chanfyddom hynny.

Angelion da a drwg, megis yr amrywiant oddiwrth eu gilydd mewn cyflwr, felly hefyd mewn tueddiadau. Y rhai da a ewyllysiant symmud ofn, y rhai drwg ei ddwyn yn mlaen. Ffrwyth yr elyniaeth farwol rhwng Satan a ni, ydyw, y lladdai efe ni pe gallai â dychryn : tra nad yw'r angelion da, y rhai a ewyllysiant ein gwaredigaeth a'n dedwyddwch, yn ymhyfrydu ein brawychu, eithr llafuriant am ein tangnefeddrwydd a'n sirioldeb.

Nid oedd mwy o ddychryn yn y wyneb, nac o gyssur yn yr ymadrodd. *Gwrandawyd dy weddi.* Nid oedd modd i unrhyw angel roddi iddo newydd rhagorach. Ein dymuniadau a draethir yn ein gweddiau. Beth a allwn ei ddymuno ond caffael yr hyn a chwennychwn ?

Llawer o erfyniadau a wnaethai Zacharias, ac, yn eu plith, am fab. Diammau fod blynyddoedd lawer wedi myned heibio er pan wnaeth y cyfryw erfyniad ; canys yr oedd yn awr mewn gwth o oedran, ac wedi rhoi heibio disgwyl ; er hynny, trysorai Duw ef yn ei gof o hyd, ac y mae'n ei gyflawni pan nad yw yn meddwl am dano. Fel hyn y trina trugaredd Duw ei erfynwyr amyneddgar a ffyddlon. Tra y mae eu disgwyliad yn wresog, ceidw hwynt draw yn fynych ; a phan y meddyliant leiaf am y peth, gan fod wedi annghofio eu cais eu hunain, y mae yn rasol yn ymddarostwng. Ni ddylai gohiriad yr effaith wanhau ein ffydd. Gall fod Duw wedi rhoddi, yn mhell cyn y cawn ni wybod am ei rodd.

Llawer tad a alara oblegid ei ffrwythlonrwydd, gan fod ganddo y fath blant, ag y dymunai na's ganesid erioed ; ond caffael mab mor rasol a dedwydd, ag a ragfynegodd yr Angel, nis gallasai fod yn llai diddanwch nac anrhydedd i henaint Zacharias. Yr hyn a brofir oddiwrth blant sy'n eu gwneud yn fendithion neu'n groesau i'w rhieni. Cael clywed beth a fyddai ei Fab cyn ei fod, cael clywed y cai y cyfryw fab, mab, genedigaeth yr hwn a fyddai yn llawenydd i lawer, mab a fyddai fawr yn ngolwg yr Arglwydd, mab a fyddai yn gyssegredig i Dduw,

yn fendithiol i ddynion, yn rhagflaenor i'r hwn a fyddai Dduw a dyn, oedd y cyfryw newydd ag oedd ddigon i attal yr Angel, ac i ddistewi'r tafod hwnnw â syndod, yr hwn a ddistawyd oblegid annghredinaeth.

Yr oedd yr ymadrodd mor rhagorol, fel na chafodd yn uniongyrchol ei gredu. Gwnaeth i Zacharias synnu. Pe tracthesid ef gan bwyll, fel y gallasai ei feddyliau gael hamdden i ystyried y peth, dirnadasai yn hawdd anfeidrol allu yr Hwn a addawsai, yn ol esampl Abraham a Sara; a chasglasai yn ddioed fod ymddangosiad yr Angel yn fwy rhyfeddol na'i ragddywediad: tra yn awr, fel gwr wedi ei gythryblu â'r dieithr bethau a welodd ac a glywodd, y mae'n ammau'r gennadwri, ac yn gofyn—"*Pa fodd y gwybyddaf?*" Yr oedd natur o'i du, ac yn cyhoeddi'r peth yn annichonadwy o herwydd oedran a diffrwythder. Y mae newyddion goruwch-naturiol, ar y cyntaf, yn peri i'r galon synnu. a derbynir hwy gydag anmheuaeth gan y sawl, yn ol ychwaneg o adnabyddiaeth, a roddant iddynt y croesawiaid rhwyddaf.

Y mae syniadau gweinion ein ffydd anmherffaith yn teilyngu tosturi yn hytrach nâ cherydd.

Diogelwch y galon yw, ei bod wedi ei rhagfeddiannu â sicrwydd o hollalluogrwydd Duw, i'r hwn nid oes dim yn anmhossibl: felly y derbynir yn rhwydd trwy ffydd, y pyngciau anhawddaf eu credu. Os edrychwn i fynu â llygad ein meddwl, ni chyferfydd à dim i'w wyro neu i'w attal; ond os edrychwn rhag ein blaen, neu tua'r llawr, neu o'n hamgylch, y mae pob peth yn rhwystr ar ein ffordd.

Y mae gwahaniaeth rhwng dymuniad am sicrwydd ac annghrediniaeth. Nis gallwn lafurio gormod i geisio rhesymau er sefydlu ein ffydd; canys ni fyddai'n ffydd heb draed i sefyll arnynt. Os gellir yn y pethau a gredir ddwyn yn mlaen resymau er argyhoeddi gwrth-ddywedwyr, da yw: os cynnorthwyant ein cred, etto nid hwy yw ei sylfaen.

Y mae rhai gwreichion o anffyddiaeth yn y galon fwyaf crediniol: anaml y digwydda i gig a gwaed gredu fel na byddo dim anmheuaeth. Perffeithrwydd mawr ydyw, os darfu i ni lwyddo er gorchfygu ein hanmheuon.

Pa beth a gamarweiniodd Zacharias, ond yr hyn sy'n arferol o dywys eraill—sef rheswm? *Henafgwr wyf fi, a'm gwraig hefyd mewn gwth o oedran.* Megis pe gallai blynyddoedd a lwynau sychion ei rwystro Ef, yr hwn a all, ïe, o'r cerrig, godi plant i Abraham.

Y mae eu terfynau gan ffydd a rheswm ; lle y terfyna rheswm, dechreua ffydd ; ac os rheswm a drawsfeddianna derfynau ffydd, cymmerir hi yn ddioed yn gaeth gan annghrediniaeth. Nid ydym addas i ddilyn Crist, os na wadasom ein hunain ; a'r darn pennaf o honom ein hunain yw ein rheswm. Rhaid i ni addef, y gall Duw wneuthur yr hyn sydd tu draw i'n hamgyffred ; a rhaid i ni amgyffred trwy ffydd, yr hyn a wadir gan ein rheswm. Rhaid i Agar gael ei throi dros y drws, fel y rheola Sara yn unig.

Y mae awdurdod y llefarwr yn sylfaen crediniaeth o'r pethau, y rhai sydd anhawdd heb hyn eu credu ; er, yn mhethau Duw, ni ddylem brisio gymmaint pwy sy'n llefaru, a'r hyn a leferir, ac oddiwrth bwy. Yr Angel o hono ei hun a hysbysodd ei enw, ei sefyllfa, a'i swydd ; fel na thybiai Zacharias unrhyw newydd yn anhygoel, a ddygid iddo gan y fath gennadwr nefol.

Gwahaniaethir yr ysbrydion âg enwau, hyd yn oed lle nid oes gwasanaeth i iaith, a gŵyr pob un ei enw ei hun, a'r eiddo eraill. Yr hwn a ganiattaodd i ddyn, (ei ddelw,) i roddi enwau i'w holl weledig a'i îs-greaduriaid, a roddodd ei hun enwau i'r rhai ysbrydol ; ac fel y mae eu henw, felly y maent hwythau, yn alluog a gogoneddus.

Ond, rhag i Zacharias ammau natur y cennadwr, yn gystal a'r gennadwri ei hun, cadarnheir, ac ar yr un pryd, ceryddir ef, trwy fudanrwydd. Rhaid cylymu'r tafod a ymsymudodd i ammau. Ni chaiff ofyn cwestiynau mwy am ddeugain wythnos, oherwydd gofyn o hono hwn yn anffyddiog.

Ac nid yn unig ei dafod a gollodd Zacharias dros yr amser, ond hefyd ei glustiau. Nid oedd fud yn unig, ond yn fyddar hefyd ; canys, pe amgen, pan ddaethant i gael ei ganiattad gyda golwg ar enw ei fab, ni fuasai achos am iddynt ei geisio trwy arwyddion, ond geiriau. Nid â Duw heibio i feiau bychain yn ei blant goreu, a'r rhai mwyaf esgusodol, heb gerydd teimladwy. Nis gall ein sanctaidd lwyr hunan-ymroddiad i Dduw, ein diogelu yn y pechod lleiaf ; ïe, yn hytrach, po mwyaf yr adnabyddom Dduw, sicraf oll ydym o gael ein ceryddu pan dramgwyddom. Gall hynny sicrhau i ni fwy ffafr, pan fyddom yn gwneuthur da, ond nid llai cyfiawnder, pan fyddom yn gwneuthur drwg.

Zacharias a arosodd, a'r bobl a ddisgwyliodd. Nid wyf yn ymofyn, Pa un ai maithach ymddiddan â'r Angel, nag oedd reidiol i'w roddi i lawr, a'i daliodd, neu ynte syndod wrth y weledigaeth a'r newydd. Tybiodd y llu-

aws ei fod yn aros yn hir: etto er na fedrent weled o hirbell, nid ymadawent, nes ei ddychwelyd i'w bendithio. Eu hymddisgwyliad amyneddgar oddi allan a bair gywilydd i ni, y rhai y mae'n anhawdd ein perswadio i aros oddi mewn, tra y mae ein llygaid a'n clustiau yn cael eu harferyd yn ein gwasanaeth dwyfol, ac y canniatteir i ni fod yn gyd-weithwyr â'n Gweinidogion.

O'r diwedd daeth Zacharias allan yn fud, ac a wnaeth iddynt ryfeddu mwy wrth ei bresennoldeb nag wrth ei oediad. Llygaid y lluaws, y rhai nid oeddynt deilwng i ganfod ei weledigaeth, etto a ganfyddant arwyddion o'i weledigaeth, er rhoddi y byd mewn disgwyliad o ryw ganlyniad anarferol. Darpara ffordd i'w lais trwy ddistawrwydd. Nis gallasai ei iaith lefaru mor uchel a'i fudanrwydd.

Dymunai Zacharias lefaru, ond nis medrai: y mae gyda ninnau lawer o fudion; ond nid oes angen am iddynt fod felly. Esgeulusdra, ofn, partiaeth, a gauant eneuau llawer, y rhai a ddywedant ryw ddydd, "Gwae fi am fy nistawrwydd."

Llefarai ei law yr hyn ni allai ei wefusau, a defnyddiai arwyddion er eu dwyn i ddeall yr hyn a allent ddarllain yn ei wyneb. Rhaid i ni ddefnyddio'r galluoedd sydd gennym.

Ond er peidio o hono a llefaru, ni pheidiodd a gweini. Ni chymmer ei fudanrwyd fel gollyngiad ymaith, ond erys yn ei waith wyth ddydd ei gylch, fel un yn gwybod y derbynid y llygaid, y dwylaw, a'r galon, gan y Duw hwnnw, a gymmerasai ymaith ei dafod. Nid ydym ar ryw achosion dibwys i ymadael â gwasanaeth cyhoeddus ein Duw, yn enwedig dan yr Efengyl. Y Gyfraith, yr hon a bwysai lawer ar berffeithrwydd corphorol, a ryddhai henaint oddiwrth weinyddiadau. Yr Efengyl, yr hon sydd oll am yr enaid, a olyga alluoedd tumewnol, y rhai, tra y parhaont yn rymmus, a gauant allan bob esgusion yn erbyn gweinyddu.

CYFARCHIAD IESU GRIST.

Ni ddesgrifiodd yr Ysbryd Glan erioed un peth mor fanwl, a'r pethau sydd yn nglyn a chnawdoliaeth Duw. Addas oedd peidio esgeuluso unrhyw amgylchiad yn yr hanes hwnnw, ar yr hwn y sylfaenir ffydd ac iachawdwriaeth yr holl fyd. Nis gallwn gymmaint ag ammau y gwirionedd hwn, a bod yn gadwedig. Ni chollir na rhif y mis, nag enw yr Angel. Y mae yr oll a ddywedir yn amlygu cymmaint o sicrwydd, ag o ragoroldeb.

Yr amser oedd yn mhen chwech mis yn ol cenhedliad Ioan, dechreuad y gwanwyn. Cenhedlwyd Crist yn y gwanwyn, ganwyd ef yn ngorsaf yr haul. Efe, yn yr hwn y derbyniodd y byd fywyd newydd, a dderbyn fywyd yn yr unrhyw dymmor ag y derbyniodd y byd ei fywyd cyntaf oddi wrtho Ef; ac Efe, yr hwn a estyn allan ddyddiau ei Eglwys, gan ei hwyhau i dragywyddoldeb, a ymddengys, ar ol byr ac anmherffaith oleuni'r Gyfraith, i oleuo'r byd â'i ogoniant.

Angel yw'r Cennadwr. Dyn oedd ry wael i gludo'r newydd am genhedliad Duw. Ni ddygwyd erioed yn y nef un gorchwyl yn y blaen, a berthynai gymmaint i'r byd, â chenhedliad Duw'r nefoedd mewn bru ddaearol. Nid teilwng ond Archangel i gludo'r cyfryw newyddion: ac ni dderbyniodd angel erioed fwy anrhydedd na'r gennadwri hon.

Cymmwys oedd i'n hadgyweiriad gyfatteb i'n cwymp. Angel drwg oedd y cyntaf i ddwyn ein cwymp i ben trwy Efa, gwyryf, a ddyweddiasid yn awr i Adda, yn ngardd Eden: Angel da yw traethwr cyntaf y llall wrth Fair, gwyryf, a ddyweddiasid i Joseph yn y lle hwnnw, yr hwn, megis gardd Galilea, a gafodd ei Enw oddiwrth flaguriad.

Nis gallasai unrhyw angel da fod yn awdwr ein dychweliad, yr un wedd ag y buasai yr un drwg o'n dinystr. Ond gwych gan yr Ysbrydion gogoneddus hynny, hysbysu wneuthur y pethau gan Dduw'r Ysbrydion, yr hyn ni allasent eu gwneuthur eu hunain. Y mae newydd da yn llonni y cludwr o hono. "Gyda pha lawenydd y dygodd yr Angel sanctaidd hwn, y newydd am y Gwaredwr hwnnw, trwy yr hwn ein hachubir i fywyd.

Angel oedd y cyntaf a bregethodd yr Efengyl. Rhaid fod y swydd honno yn ogoneddus, yr hon a ddisgyn oddi wrth y fath ragflaenor. Duw a wnaeth ei Angel yn bregethwr cyntaf, ac yn ol hynny galwodd ei bregethwyr yn Angelion.

Y mae'r gennadwri yn dra addas. Daw Angel at wyryf: Gabriel at Mair: Efe, yr hwn a arwydda Nerth Duw, atti hi yr hon a arwydda Derchafedig gan Dduw, er cenhedlu yr hwn ydyw Duw'r nerth: at forwyn, ond wedi ei dyweddio i wr; at forwyn, er parchu gwyryfdod, yr hon a ddyweddiasid er parchu priodas. Gwnaethpwyd y briodas ond yr oedd heb ei chwblhau: trwy ei gymhelliad Ef, yr hwn ni fwriadai ei gwneuthur yn esiampl i wragedd, ond yn wyrth yn eu plith.

Ni fynnai Duw yn yr holl orchwyl hwn, ond a oedd anarferol. Addas iddi hi ymbriodi yn forwyn, yr hon oedd i fod yn wyryf-

fam. Efe, yr hwn a amcanai gymmeryd anian dyn heb ei lygredd, a fyddai'n Fab Dyn heb ei had ; a fyddai'n had y wraig heb ddyn, ac o blith yr holl wragedd, o forwyn bur ; ac yn mhlith morwynion, o un a ddyweddiasid, fel y byddai megis tyst ac amddiffynydd yn bod o'i ffrwythlon forwyndod. Pe na buasai yr un Duw yn Awdwr gwyryfdod a phriodas, ni chymmeradwyasai byth wyryfdod trwy briodas.

I ba le y deuai yr Angel gogoneddus hwn i gael ei Fam Ef, yr hwn oedd Dduw, ond i Galilea anenwog ? dosparth a ddirmygid, ïe, gan yr Iuddewon, megis amddifad o'u breintiau.

Wele Angel yn dyfod i'r Galilea honno, o'r hon nid oes brophwyd yn dyfod; ac ymostynga Duw'r prophwydi a'r angelion i gael ei genhedlu yn y Galilea honno, o'r hon ni chyfyd un prophwyd. Yr hwn a leinw bob man, ni wna wahaniaeth rhwng lleoedd. Y person a rydd anrhydedd a rhagorfraint i'r lle, ac nid y lle i'r person ; megis y crea bresennoldeb Duw y nefoedd : y nefoedd ni wna'r anrhydedd yn ogoneddus. Ni all congl tywyll yn Galilea guddio'r Wyryf fendigedig rhag yr Angel. Ffafr Duw a gaiff allan ei bobl, lle bynnag y maent.

Arfer Duw yw chwilio am y mwyaf dirmygedig i'w hanrhydeddu. Nis gallwn redeg oddiwrth drugareddau Duw, mwy nag oddiwrth ei farnedigaethau. Gwell gan Dduw fwthynod gwael Galilea nâ disglaer balasau Jerusalem. Nis gwaeth ganddo waeled y lle y cymdeithasa ynddo â'i bobl. Paham y gorfoleddwn yn ngogoniant allanol palasau, tra nad i'w ein Duw yn ei brisio. Nid ydym o archwaeth yr Angel, os na fyddai well gennym fod gyda'r Forwyn fendigaid yn Nazareth, na chyda'r boneddigesau beilchion yn llys Jerusalem. Gwagedd dirfawr prisio un peth uwchlaw daioni, a dibrisio daioni er mwyn un peth arall.

Cyfarcha'r Angel y Forwyn ; ni weddia arni. Cyfarcha hi fel sant, ni weddia arni fel duwies. Rhyfyg mawr ynom ni fyddai ei chyfarch megis ef ; canys nid ydym ni megis yr oedd ef, ac nid yw hithau fel yr oedd. Os ef, yr hwn oedd ysbryd, a gyfarchodd yr hon oedd gîg a gwaed ar y ddaear, nid ydym ni, y rhai ydym gîg a gwaed, i gyfarch yr hon sydd ysbryd gogoneddus yn y nefoedd. Pe gweddiem arni yn nghyfarchiad yr Angel, drwg arferem y Forwyn, yr Angel, a'r cyfarchiad.

Ond cefnogwn yn llawen yr Angel, yn ei waith yn canmol yr hon a berthyna i ni yn fwy nag iddo ef. Iawn y bendithiwn yr hon a alwodd yr Angel yn wynfydedig ! Teilwng yw hi o

anrhydedd gan ddynion, yr hon y dywedodd yr Angel ei bod yn anwyl gan Dduw. O Fair fendigaid, nis gall neb, os nid yw yn dy addoli, dy fendithio, a'th barchu yn ormodol. Prophwydaist am danat dy hun, yr hyn a ddywedodd yr Angel am danat. Credwn yr Angel a thithau. Yr holl genhedlaethau a'th alwant yn wynfydedig, yn ffrwyth bru yr hon pob cenedl a fendithir.

Os rhyfeddodd Zacharias wrth weled yr Angel, rhyfeddodd Mair lawer mwy. Ei rhyw a'i gwnae'n fwy darostyngedig i ofn. Pe buasai yr hwn a ddaeth atti mor ddirgelaidd a disyfyd ond dyn, nis gallasai lai na bod yn gythryblus; pa faint mwy pan ddyblodd disglaer ogoniant y person ei syndod?

Trallod eneidiau sanctaidd a derfyna mewn cyssur. Ar neges o lawenydd ac nid o ddychryn y daethai'r Angel. Ofn (fel yr holl anwydau) a derfysga'r galon, ac a'i hanaddasa, dros yr amser, i dderbyn cennadwri Duw. Buan y gwasgarodd yr Angel y niwl trallodus yn yr anwydau, trwy anfon allan belydrau cyssuron nefol, i gonglau eithaf ei henaid, trwy'r newydd diddanus am ei Gwaredwr. Pa fodd lai na ddeuai llawenydd i'w chalon hi, o groth yr hon y daw allan iachawdwriaeth. Pa le a all ofn gael yn y fynwes, i'r hon y rhoddir sicrwydd o ffafr Duw. "*Nac ofna, Mair, canys ti a gefaist ffafr gyda Duw.*" Ofnent hwy s'yn gwybod eu bod dan lid, ac nis gwyddant eu bod mewn ffafr. Dy gyflwr dedwydd di a ofyn am hyder, a'r cyfryw hyder am orfoledd. Beth a ddylent, ïe, beth a allant hwy ei ofni, a'r sydd yn ei ffafr Ef, ger bron yr Hwn y cryna'r cythreuliaid.

Nid presennoldeb angelion da, ond temtasiynau rhai drwg sydd yn peri i'n gwendid ddychrynu. Ni'n brawychid ganddynt, oni bai ein bod yn anghofio ein sefyllfa. *Nis derbyniasom ysbryd caethiwed drachefn i beri ofn, eithr yspryd mabwysiad, trwy'r hwn yr ydym yn llefain Abba Dad.* Os yr ysbryd hwnnw, O Dduw, a gyd-dystia â'n hysbryd ni ein bod yn eiddo ti, paham yr ofnwn un o'r drygau ysbrydol hynny? Rho sicrwydd o'th ewyllys da, a gwnaed galluoedd uffern eu gwaethaf.

Nid ffafr fechan a gafodd y Forwyn yn y nef; ni chafodd creadur marwol erioed y fath ras—iddo Ef gymmeryd rhan o'i nhatur, yr hwn oedd Duw natur; iddo Ef, yr hwn a wnaeth bob peth, wneuthur ei gorph o'r eiddo hi; i'w bru roddi y cnawd hwnnw, yr hwn a unwyd yn bersonnol â Duwdod, iddi

ei ymddwyn Ef, yr hwn a gynnal y byd. "*Wele, ti a gei feichiogi yn dy groth, ac a esgori ar fab, ac a elwi ei enw ef Iesu.*"

Anhysbys pa un oedd fwyaf rhyfeddol, y beichiogiad, ai'r ffrwyth o hono: beichiogiad y Forwyn, neu'r Iesu y beichiogasai arno. Y mae'r ddau yn rhyfeddol, ond nid yw'r blaenaf yn rhagori ar bob rhyfeddod mwy nâ'r olaf, canys plentyn morwyn ydyw ail ddefnyddio'r gallu a greasai'r byd: ond i Dduw ymgnawdoli mewn morwyn oedd y fath ostyngiad o'i fawrhydi, a'r fath dderchafiad o'r creadur, na fu erioed eu cyffelyb.

Addas oedd y plentyn hwnnw i wneuthur ei fam yn wynfyddedig. Wele yma ddwbl genhedliad; un yn mru ei chorph, y llall yn ei henaid. Os y blaenaf oedd fwyaf rhyfeddol, yr olaf oedd fwyaf bendithiol: yr oedd un yn fraint, a'r llall yn ddedwyddwch. Y cyntaf a berthynai iddi hi yn unig; yr olaf a berthynai'w holl rai dewisol. Nid oes galon w edi ei newyddu yn y hon, O Iesu, nid wyt wedi dy ffurfio. Bendigedig fyddot am ein bendigo'r wedd hon. Canys pa fru a all dy genhedlu heb gyfrannogi o honot? Pwy a all gyfrannogi o honot heb fod yn ddedwydd?

Diau i'r Forwyn ddeall yr Angel fel yn son (megis y gwnai) am genhedliad presennol; yr hyn a'i gwnai yn fwy ymofyngar, o ran dull a modd yr hyn oedd i ddygwydd. "*Pa fodd y bydd hyn, gan nad adwaen i wr?*" Nis gallasai beri syndod iddi genhedlu Mab trwy adnabod gwr, yn ol gorphen y briodas; ond pa fodd felly y gallai ei Mab hwnnw fod yn Fab Duw? Yr oedd y gofyniad hwn yn uwch. Pa fodd y byddai ei gwyryfdod yn ffrwythlon yn ddioed, oedd nid yn unig yn rhyfeddol, ond yn werth ymofyn am dano. Dymuniad am wybodaeth oedd yma, ac nid anmheuaeth annghrediniol, ïe, y cwestiwn hwn yn hyttrach a ddynoda ffydd: cymmer yn ganniattaol yr hyn a wrthodasai calon annghrediniol. Ni ddywaid Mair, "Pwy, ac o ba le yr wyt ti? Pa deyrnas yw hon? Pa bryd, ac yn mha le y gosodir hi i fynu?" Ond gan gredu'n rhwydd y deuai'r holl ddieithr bethau hyn i ben, ymofyna yn bennaf am y peth hwnnw yn unig, yn hwn yr oedd angenrheidrwydd am fwy o wybodaeth yn ei gylch. Ni ddywaid ychwaith, "Nis gall hyn fod," nac etto, "Pa fodd y gall hyn fod?" ond "*Pa fodd y bydd hyn?*" Atteba'r Angel fel yn gwybod nad oedd raid iddo

foddhau cywreinrwydd, ond goleuo barn, ac attegu ffydd. Ni ddywaid wrthi, gan hynny, am ddull, ond am awdwr y weithred hon. "*Yr Ysbryd Glan a ddaw arnat ti, a nerth y Goruchaf a'th gysgoda di.*" Digon gwybod pwy a gymmerodd y gwaith arno, a pha beth a wna.

O Dduw, paham y ceisiwn lawn oleuni, lle yr ydwyt ti yn ewyllysio fod cysgod. Nid oes mam a ddeall ddull ei chenhedliad naturiol: pa ryfyg, ynte, i gîg a gwaed ymofyn am y modd, y cymmerodd Mab Duw gîg a gwaed allan o'i greadur. Nis gall ond yr Hollalluog ei hun ddirnad y gweithredoedd a wna, mewn perthynas ddigyfrwng âg ef ei hun: y rhai a berthynant i ni, efe a'u hamlygodd; dirgeloedd i Dduw, dadguddiadau i ninnau.

Nid oedd yr atteb mor gyflawn, fel na allai anhawsderau filoedd godi, oddiwrth y pethau neillduol a berthynent i gennadwri mor ddieithr. Etto, yn ol esboniad yr Angel, ni chlywn am wrthddadleuon nac ymofyniadau. Y galon ffyddlon ni wrthddadleua, pan unwaith y dirnada ddaionus ewyllys Duw. Ond ymdawela yn hyfryd mewn disgwyliad. "*Wele wasanaethyddes yr Arglwydd: bydded i mi yn ol dy air di.*" Nid oes odidoccach prawf o'n ffydd, nâ darostwng ein holl ddeall a'n hewyllys i'r Creawdwr, a myned heb unrhyw gwestiynau anmheus, fel dan fwgwd i ba le bynnag y tywysa ni. Pob ymddadleu â Duw, yn ol gwybod ei ewyllys, a gyfyd oddiar annghrediniaeth. *Mawr yw dirgelwch duwioldeb.* Ac os caniattawn i natur wâg-wrthddadleu, nis gallwn fod yn Gristionogion. O Dduw, Tydi wyt ffyddlon a galluog. Dy air sydd ddigon. Ymroddwn i ti trwy ufudd-dod gostyngedig. Wele wasanaethwyr Duw; bydded i ni yn ol dy air.

Addased ei bru hi i genhedlu cnawd Mab Duw, trwy allu ei Ysbryd, mynwes yr hon, trwy allu'r unrhyw Ysbryd, a genhedlodd mor fuan gydsyniad âg ewyllys Duw! Ac yn awr, o fod yn llaw-forwyn i Dduw, anrhydeddir hi a bod yn fam iddo. Nid cynt y dywedodd *Bydded*, nag y bu. Yr Ysbryd Glan a'i cysgoda, ac a ffurfia ei Gwaredwr yn ei chorph ei hun.

Prin y gallasai, ïe, yr Angel a ymddiddanai â'r Forwyn fendigedig, amlygu, neu osod allan lawenydd ei chalon, o herwydd ei baich dwyfol. Ni chafodd creadur marwol erioed y fath achos i ymogoneddu. Pa fodd y gallai hi, yr hon oedd o Dduw yn llawn, lai na bod yn llawn o lawenydd y Duw hwnnw?

Cynnydda gofid trwy ei gelu: llawenydd, trwy ei osod ar

led. Deallodd y Forwyn sanctaidd oddiwrth yr Angel, fod ei chyfnither Elisabeth yn gymmaint perthynas â hi, o ran ei sefyllfa. Ffrwythlondeb henaint yr hon a gyfattebai, i ryw fesur, i ffrwythlondeb ei gwyryfdod hithau. Y mae dedwyddwch trwy ei gyfrannu yn dyblu ei hun. Nid oes yma sefyll gormod ar ddefodau. Y Forwyn fendigaid, nerth yr hon a'i cymmwysai yn well nâ'r llall i ymdaith, a frysiodd i'r wlad fynyddig, i ymweled â'r Fam rasol honno, yr hon a wnaethai Duw yn arwydd o'i chenedliad gwyrthiol ei hun. Nid oes ond ymgyfarfod seintiau yn y nef, a all fod yn debyg i eiddo'r ddwy gyfnither hyn, dau wyrthiau'r byd, a ymgyfarfyddant dan yr un gronglwyd, ac a gydlawenychant o ran eu happusrwydd. Pan genhedlir Crist yn ysbrydol ynom, nis gallwn esmwytho, hyd oni chyfrannom ein llawenydd.

Nid cynt y croesawodd y fam sanctaidd Elisabeth ei chares fendigedig, nag y croesawodd ei Maban ei Waredwr. Teimla'r ddau yn nirgel ystafelloedd bruau eu mammau, brsennoldeb eu gilydd: un trwy ei holl wybodaeth, a'r llall trwy gyffroad.

Ni redodd Ioan o flaen Crist yn fwy nag y rhedodd yn uwch na natur. Pa fodd y dylai ein calonnau lammu o'n mewn, pan yr ymostynga Mab Duw, i ddyfod i gyfrinach ein heneidiau: nid i ymweled â ni, ond i drigo gyda ni, ac ynom ni.

GENEDIGAETH CRIST.

Megis yr adwaenir gan Dduw holl weithredoedd dynion, felly adwaenir yn neillduol weithredoedd cyhoeddus personau cyhoeddus, i ddibenion a berthynant i eraill, yn gystal ag iddynt eu hunain. Nid aeth y gorchymyn hwn allan gymmaint oddi wrth Augustus, ac o lŷs y nef. Beth—a oedd Cesar yn adnabod Joseph a Mair? Ei orchymmyn ef oedd yn gyffredinol, at fyd o ddeiliaid, dros holl ymerodraeth Rhufain. Y trethiad a fwriedid gan Dduw er y Forwyn fendigedig a'i Mab yn unig: fel y genid Crist yn yr iawn le. Dyben Cesar oedd llenwi ei goffrau. Dyben Duw oedd cyflawni ei brophwydoliaethau, a hynny yn y cyfryw fodd, fel na theimlai y sawl a'i cyflawnent, eu bod yn eu dwyn i ben. Pe gorchymynasai Duw iddi yn ddigyfrwng fyned i fynu i Bethlehem, canfyddasai'r bwriad, a disgwyliasai am y canlyniad: ond y llywydd doeth cyffredinol

hwnnw, yr hwn a weithia ei ewyllys ynom, a gar wneuthur hyn, fel y byddo i ni leiaf ganfod ei ddyben rhagllaw, gan ddymuno i ni syrthio dan ei arfaethau yn ddiarwybod, fel yr arddelom yn fwy gwresog ddyfnderoedd ei Ragluniaeth. Y mae pob creadur yn rhodio fel â mwdwg arno. Efe yn unig, yr hwn a breswylia yn y goleuni, a genfydd i ba le y maent yn myned.

Diau mai amcan Mair oedd cael esgor ar ei Mab Dwyfol gartref: ychydig a feddyliodd wneuthur lle'r esgoreddfa'r yn amgen na lle'r cenhedliad. Anrhydeddasid y tŷ hwnnw gan yr Angel, ac ymgysgodiad yr Ysbryd Glan, nis gallasai arall yn gystal lenwi ei gobaith a'i dymuniad. Cymmwys oedd iddo Ef, yr hwn a ddewisasai'r fru i genhedlu ei Fab ynddi, ddewis hefyd y lle y cai'r Mab hwnnw ei eni ynddo. Megis mai ei eiddo Ef yw'r gwaith i gyd: felly Efe a drefna yr holl amgylchiadau er cyflawni ei ddybenion ei hun.

O anfeidrol ddoethineb Duw yn ei holl amcanion! Nid oes angen am fwy o brawf o Grist, nâ Cesar a Bethlehem. Ei lywodraeth, ei drethiad, a ddangosant Grist yn wir Fessia. Ei lywodraeth: yr oedd y byd yn awr mewn eithaf heddwch, dan y deyrnwialen dangnefeddol honno, yr hon a barottodd ei lwybr Ef, yr hwn yw Tywysog Tangnefedd: os rhyfeloedd a ragddangosant ei ail ddyfodiad, heddwch oedd nôd y cyntaf. Ei drethiad: yr oedd y deyrnwialen wedi ymadael o Juda, amser y Siloh a ddaeth. Nid oedd gallu wedi ei adael i'r Iuddewon ond i ufuddhau. Augustus yw Ymerawdwr y byd: dano ef teyrnasa Herod yn Judea, a Cyrenius a raglawia Syria. Nid oes gan Judea ddim o'i eiddo ei hun. Canys Herod, pe buasai'n Frenhin, nid oedd Iuddew: a phe buasai Iuddew, etto nid oedd Frenhin, ond mewn Enw, ac o dan deyrnged. Y gorchymyn a ddaethai oddiwrth Augustus, a gyflawnwyd gan Cyrenius. Nid oes gan Herod law yn y gwasanaeth hwn. Dyben y trethiad hwn yw elw a gogoniant. Pob dyn a addefai ei hun yn ddeiliad, ac a dalai am y fraint o'i wasanaeth. Yn awr nid eu heiddo eu hunain oedd eu pennau, ond rhaid talu am danynt i Bennaeth teyrnas ddieithr. Hwy, y rhai a feddylient mor uchel o'r blaen am eu rhydd-fraint, a blygant o'r diwedd. Gallasai iaith chwyddedig Judas y Galilead dywallt eu gwaed, a'u llenwi â balchder, eithr nis gallai esmwythau eu beiau: nid bwriad Duw ychwaith oedd i'w sancteiddrwydd, pe buasent yr hyn a gymmerent arnynt eu bod, eu diogelu rhag darostyngiad.

Gosodir treth ar bobl rydd yr Arglwydd. Y weithred gaethiwus hon a'u dwg i rydd-did. Bendithir hwy yn awr â Gwaredwr, pan yr ymddangosent fel wedi eu hesgeuluso fwyaf gan Dduw. Enfyn Duw iddynt Frenhin o'u heiddo eu hunain, i'r hwn y rhaid i Cesar ei hun ufuddhau, pan drallodid hwy fwyaf gan lywodraeth estronol. Daioni Duw a ddewis y tymhorau goreu er ein gwaredu a'n cyssuro. Po ingaf fyddo arnom, mwyaf oll o ogoniant a gaiff ynt au.

I ba le y rhaid i Joseph a Mair fyned i gael eu trethu, ond i Fethlehem, dinas Dafydd? Y lle ei hun a ddengys eu disgyniad. Yr hwn oedd i ddyfod ar ol Dafydd ar yr orsedd, a raid ddyfod ar ei ol, o ran lle ei Enedigaeth. Y lle hwn a nodasid i'r cyfryw anrhydedd mor eglur gan y prophwydi, fel y medrodd ie, yr Offeiriaid a'r Y sgrifenyddion gyfeirio Herod atto, gan sicrhau iddo, nas gallasai Brenhin yr Iuddewon gael ei eni mewn un man arall. Bethlehem a arwydda *Tŷ Bara:* yno y rhoddir i'r byd y bara a ddaeth i waered o'r nef. O ba le y caem fara'r bywyd, ond o dŷ bara? O Ddafydd Sanctaidd, ai hon oedd ffynnon Bethlehem, am yr hon y sychedaist mor fawr gynt, pan ddywedaist, *Pwy a'm dioda i â dwfr o bydew Bethlehem, yr hwn sydd wrth y porth?* Diau dywallt o honot ar y ddaear y dwfr arall hwnnw, a ddygasai dy enwogion it, ac nid yfet o hono. Hwn oedd y dwfr Bywiol, yr hwn y sychedai dy enaid am dano, ac am yr hwn y dywedaist, mewn lle arall, *Fel y brefa yr hydd am yr afonydd dyfroedd, felly yr hiraetha fy enaid am Dduw, am y Duw byw.*

Nid oedd lai na thaith pedwar diwrnod o Nazareth i Bethlehem. Y fath esgus cyfiawn a allasai'r Forwyn ei roddi, am beidio myned yno. Pa wraig erioed a anturiodd ar y fath daith, mor agos i amser ei hesgoreddfa? A diammau fod Joseph, yr hwn a ddysgwyd gan Dduw i'w charu a'i pharchu, yn anfoddlon i dywys ei wraig yn y fath gyflwr anhydwyth i berygl mor sicr. Ond yr oedd y gorchymyn yn bendant, a'r ufudddod yn batrynol. Y mae dymuniad rhoddi ufudd-dod didramgwydd, hyd yn oed i awdurdod baganaidd, yn myned dros ben bob anhawsderau. Ni ddylem ar achosion dibwys wrthod ufudd-dod i orchymynion Pennaethiaid. Pa fodd y darfu i ti, O Geidwad, trwy'r hwn y teyrnasa Augustus, roddi ufudd-dod iddo yn nghroth dy Fam! Y wers gyntaf a ddysgodd dy esiampl i ni oedd ufudd-dod.

Yn ol camrau lawer daeth Joseph a Mair i Fethlehem. Ni oddefai ei chyflwr wneuthur brys; ac y mae'r daith yn fwy trallodus, am orfod ei gwneuthur mor arafaidd. Gwaeth oedd diwedd y daith nâ'r ffordd: nid oedd esmwythder ar y ffordd, nid oedd lle yn y lletty. Rhaid bod amryw o garennydd Joseph a Mair yn Methlehem y pryd hyn, canys yno y ganesid eu henafiaid, os nid eu hunain, ac yno yr ymgasglodd eu perthynasau trwy waed oll: er hynny, y mae ar y Forwyn sanctaidd yr amser hwn eisiau yn Methlehem le i roddi ei phen a'i baich i lawr. Pe na buasai tŷ Ddafydd wedi colli pob cymmwynasgarwch, nis gallasai merch iddo fod heb letty yn ei ddinas, mor agos i amser ei hesgorfa.

Ychydig a feddyliai gwŷr Bethlehem, pwy yr oeddynt yn ei wrthod; onide, buan yr agorasent eu drysau iddo Ef, yr hwn a allai agor pyrth y nef iddynt hwy. Yn awr y mae eu diffyg o lettygarwch yn ddigonol gosp ynddo ei hun. Collasant yr anrhydedd a'r dedwyddwch o fod yn lettywyr eu Duw.

Yr ydwyt o hyd, O, Waredwr gwynfydedig, yn sefyll wrth ein drysau, ac yn curo. Dywaid pob cyffroad o eiddo dy ysbryd, dy fod yno. Deui yn awr yn dy Enw dy hun, a sefi yno, a'th ben yn llawn gwlith, a'th wyneb yn wlyb gan ddefnynau'r nos. Os goddefwn i chwantau cnawdol, a meddyliau bydol, feddiannu'r lletty yn ein calonau, a gloddesta ynom, a thithau yn disgwyl am ddyfodiad i mewn, diau y bydd ein barn yn drymach, oherwydd y gwyddom, pwy a gauwn allan. Paham y beiwn ar drigolion Bethlehem, tra yr ydym o'n bodd yn fwy crintachlyd ac anniolchgar?

Nid oes le ddigon yn fy nghalon, i'm syndod wrth yr ymostyngiad hwn. Efe, i'r hwn rhy gyfyng yw'r nef, yr hwn nis gall nef y nefoedd ei gynnwys, a orwedd yn nghaban bychan y fru: a phan y deuai allan er lles i'r byd, ni channiatteir iddo ystafell yn y lletty. Trigfanau niferiol y nef ydynt wrth ei lywodraeth: ei eiddo oedd y ddaear a'i chyflawnder, etto goddefai gael ei naccau o fwthyn, yn ddirwgnach. Beth a ddylai ein hanfoddhau ni ddynion annheilwng, pan y derbyni di, O Dduw, y fath driniaeth gan dy greaduriaid? Pa fodd y dylem ddysgu gennyt ti i ymhelaethu ac i fod yn newynog, yr hwn, er fod gogoniant a chyfoeth y nef yn eiddot, oeddyt foddlon i fod yn ddiletty, yn dy groesawiad cyntaf i'r byd! Deuaist at yr eiddo dy hun, a'th eiddo dy hun ni'th dderbyniasant. Paham y trallodir ni, os

gwrthodir ni gan y byd, yr hwn nid yw eiddo ni? Pa ryfeddod yw os crwydrodd dy weision mewn crwyn defaid a chrwyn geifr, pan nacceir preswylfod i'w Harglwydd?

Pa fodd y dylai'r byd oll wrido wrth ymddygiad annheilwng y Bethlehemiaid! Yr hwn a ddaethai i achub dynion, a ddanfonir i gael ei letty cyntaf gyda'r creaduriaid; yr ystabl yw ei annedd, y preseb ei wely. O gryd rhyfedd y Brenin mawr, yr hwn gallasai'r nef ei hun genfigenni wrtho! O Waredwr, Tydi, yr hwn wyt wneuthurwr a meddiannydd y nef a'r ddaear, a allesit wneud i ti dy hun balas nid o waith llaw, gallesit orchymyn 'stafell wag yn y tyau a adeiladesid gan dy greaduriaid. Pan ddarfu i ti roddi ond gorchymyn i'r angelion gilio o'u preswylfod gyntaf, syrthiasant o'r nef fel mellten: a phan y dywedaist yn unig, yn dy sefyllfa isel, *Myfi yw*, pwy allodd sefyll o dy flaen? Pa mor hawdd a fuasai i ti wneuthur lle i ti dy hun yn y llysoedd gorwychaf! Paham y mynet ymddangos mor wael, ond, trwy ddibrisio gogoniant daearol, i'n dysgu ninnau i ddibrisio yr unrhyw? i sancteiddio tlodi i'r sawl a osodi mewn prinder, fel na thybia'r neb sydd o angenrhaid yn goddef angen eu tlodi yn ofidus, gan i ti ddewis cael dy eni yn dlawd a dirmygedig, yr hwn a allaset ddewis dy sefyllfa yn y byd?

Nid oedd yma gyfaill i roesawi, na gweinidog i weini, na lle y gallesid derbyn gweinyddiad ynddo: y creaduriaid direswm, druain, yn unig, a giliant i roddi lle i Dduw yr holl fyd. Mawr ddirgelwch duwioldeb yw, i *Dduw ymddangos yn y cnawd*, a chael ei *weled gan angelion*. Ond yma, lle y mae y fwyaf o'r rhyfeddodau, gall, ïe, yr anifeiliaid ganfod eu Gwneuthurwr. Nid yw gymmaint rhyfeddod i'r ysbrydion hynny weled Duw yn y cnawd, ag i'r creaduriaid mudion ei weled Ef, yr hwn yw Duw ysbrydion. Efe, yr hwn a fynnai ei arwain i'r diffaethwch, i gael ei demtio yn mhlith anifeiliaid direswm, a ddeuai i gael ei eni yn eu tŷ, fel y byddai ei ymostyngiad yn fwy o uchder ei ogoniant dwyfol. Pa fodd y gallwn ymostwng digon er dy fwyn di, O Geidwad, yr hwn a ddibrisiaist dy hun y wêdd hon er ein mwyn ni?

Fel y byddai'r ymweliad yn cyfatteb i waeledd y lle, y gweinidogion, y ddarpariaeth, pwy a ddaw i'w gyfarch ar ei enedigaeth, ond bugeiliaid tlodion? Brenhinoedd y ddaear a orphwysant gartref: ac nis gwysir i weini iddo Ef, trwy yr Hwn y teyrnasa brenhinoedd. Duw a etholodd wan bethau y byd i

waradwyddo'r pethau cedyrn. Mewn amser tywyll (y nos) y dadguddia Duw oleuni ei Fab, trwy angelion gogoneddus, i ddynion dilewyrch, (sef bugeiliaid). Nis gall ein gwaeledd, O Dduw, ein cadw rhag y rhagoraf o'th drugareddau. Hyd yma y derbyni wyneb, sef, hyd at ddarostwng y galluog, a derchafu y rhai gwael.

Pe buasai'r bugeiliaid hyn yn cysgu yn eu gwelyau, ni welsent angelion, ac ni chlywsent newydd am Waredwr mwy nâ'u cymmydogion : eu gwiliadwriaeth a anrhydeddir â'r weledigaeth nefol hon. Y sawl sydd lafurus mewn unrhyw alwad, ydynt gymmwys i dderbyn bendithion mwy, tra nad yw'r dilafur gymmwys i ddim ond i'w temtio.

Nid llai na chôr cyflawn o angelion sydd deilwng i ganu'r Emyn o *ogoniant i Dduw* am gnawdoliaeth ei Fab : pa lawenydd sydd ddigonol i ni, natur y rhai a gymmerodd, a'r rhai y daeth i'w hadferyd trwy ei ymgnawdoliad ! Pe meddem ar dafodau angelaidd, nis gallem ganu'n ddigon uchel er clod i'n Gwaredwr gogoneddus.

Nid cynt y clywodd y Bugeiliaid y newydd am Geidwad, nag y rhedasant i Fethlehem i'w weled. Y sawl a adawsant eu gwelyau i wilio eu praidd, a adawsant eu praidd i ymofyn am eu Hiachawdwr. Nid oes un peth daearol yn rhy werthfawr i'w adael er mwyn Crist. Os caniattawn i unrhyw orchwyl daearol ein lluddias rhag myned i Bethlehem, y mae ein gofal am ein defaid yn fwy nag am ein heneidiau. Nid oes modd i galon ffyddlon glywed lle y mae Crist, heb lafurio am ei ganfod a'i fwynhau. Yn mha le yr wyt, O Geidwad, ond gartref yn dy dŷ dy hun, yn nghynnulleidfa'r Saint? Pa le y gellir dy gael, eithr yn dy Air a'th Sacramentau? Iē, yma y chwili di am danom ni : os na frysiwn yno i'th geisio, haeddwn fod hebot : haeddem i'n heisiau o honot ti yma, beri i ni fod mewn eisiau o wedd dy wyneb yn oes oesoedd.

Y DOETHION A'R SEREN.

Yr oedd y Bugeiliaid a'r preseb yn cyfatteb i'w gilydd yn dda : etto, ni welsant ddim a'r na allent ei ddirmygu ; ac nid oedd un o'r bugeiliaid hynny nad oedd debyccach i frenin, nâ'r Brenin hwnnw y daethent i'w weled.

Ond O, 'r dwyfol Fawrhydi a ddisgleiria yn y gwaeledd hwn! Yno y gorwedd y Baban yn yr ystabal, yn llefain yn y preseb, yr Hwn y daethai'r angelion i lawr o'r nef i'w gyhoeddu, yr Hwn y daw y doethion o'r dwyrain i'w addoli, yr Hwn a hysbysir i'r byd gan seren, fel y gwelai dynion yn awr fod nef a daear yn gwasanaethu'r Hwn a'i dibrisiodd ei hun.

Y goleuadau a grogir yn isel, nis gwelir o bell: ond y rhai a osodir yn uchel, a ganfyddir yn gyffelyb o bell ac o agos. Nid oedd dy oleuni di, O Waredwr, ddim llai na nefol. Y Dwyrain a welodd yr hyn a allai Bethlehem ei weled. Mynych y mae'r agosaf, o ran lle, yn bellaf o ran serchogrwydd. Gwrthddrychau mawrion, pan fyddont ry agos at y llygad, a'i gorlenwant, fel nas gellir eu canfod.

Y fath gywilydd oedd hyn i Bethlehem! Y doethion a ddaethant allan o'r Dwyrain, i addoli yr Hwn a wrthodwyd gan y dref honno.

Y Bethlehemiaid oeddynt Iuddewon; y Doethion oeddynt Genhedloedd. Y croesawiad cyntaf hwn i Grist oedd rag-argoel o'r hyn oedd i ganlyn. Y Cenhedloedd a ddeuent o bell i addoli Crist, tra y gwrthodai'r Iuddewon Ef.

Y dwyreinwŷr hyn a chwilient yn fawr i ddyfnderoedd natur: philosophyddion proffesedig. Y rhai hyn a etholodd Duw, er mawrygu ymddangosiad Crist. Dysgeidaeth ddynol, ond ei iawn ddefnyddio, a'u haddasa i dderbyn un nefol. Nid oes un gwybodaeth nad Duw yw ei awdwr. Nis rhoddasai unrhyw ddawn a'n tywysai oddiwrtho ei hun. Dychymyg yr anwybodus yw, fod chwilio natur yn gwneuthur dynion yn Atheistiaid. Nid oes neb mwy tebyg i ganfod Seren Crist, nâ diwyd ddisgybl philosophyddiaeth.

Diau i fwy o ddynion weled y goleuni hwn; hwy yn unig a'i dilynasant, y rhai a wyddent fod ynddo ryw beth mwy nâ natur. Doeth yn wir yw'r doeth tuag at ei enaid ei hun. Pe adwaenasai'r doethion hyn holl ser eraill y nef, heb adnabod Seren Crist, ni fuasai ganddynt ond digon o oleuni i'w tywys i'r tywyllwch eithaf. Philosophyddiaeth, heb y seren hon, nid yw ond gau oleuni, yn tywys i gamsyniadau.

Yr oedd y doethion hyn fel yn y canol rhwng yr angelion a'r bugeiliaid. Myn Duw rai yn mhlith holl raddau creaduriaid rhesymol, i fod yn dystion o'i Fab.

Yr angelion a gyfarwyddant y bugeiliaid; y seren, y doeth-

ion; y lleiaf eu hamgyffred a gant y cynnorthwyon egluraf a galluoccaf. Doethineb Duw daionus a addasa'r moddion yn ol tymmer y personau.

Eu seryddiaeth a ddysgasai iddynt, mai nid seren gyffredinol oedd hon o ran ei hymddangosiad, ei disgleirdeb, a'i symmudiadau. Gallasai llygaid natur ganfod yn hawdd ei bod yn rhagddangos rhyw newyddion rhyfedd i'r byd: ond yr oedd angen am oleuni mwy, er gwybod ei bod yn arwyddo genedigaeth y Messia. Pe na buasai esboniad oddiwrth Dduw, nis gallasai'r seren hon ond tywys y doethion i syndod aflesol. Caniattewch eu bod o lwynau Balaam, etto, nid digon o sicrhad oedd gwir rag-ddywediad y gau brophwyd hwnnw. Os dywedodd wrthynt y cyfodai'r Messia megis seren o Jacob, ni rag-ddywedasai y cyfodai seren yn mhell oddiwrth hiliogaeth Jacob, ar enedigaeth y Messia hwnnw. Yr hwn a osodasai y brophwydoliaeth honno yn ngenau Balaam, a osododd y goleuni hwn yn nghalon y doethion. Rhydd yw i Ysbryd Duw anadlu lle y mynno. *Llawer a ddeuant o'r Dwyrain ac o'r Gorllewin* i geisio Crist, tra y caffo plant y deyrnas eu cau allan. Ni chyfyngodd Duw, ïe, y pryd hwn, ei etholedigaeth felly o fewn *terfynau* yr Eglwys, fel na edrychai drosti weithiau am neillduol offerynau i ddangos iddynt ei ogoniant.

I ba le y daw'r doethion hyn ond i Jerusalem? Pa le y disgwyliant glywed am y brenin newydd, ond yn mam-ddinas y freniniaeth? Tywysodd y seren hwy ar y cyntaf yn gyffredinol i Judea: a'r gwaith am dro a adewir i ymofniadau. Nis dygwyd hwy yno er mwyn eu hunain, ond er mwyn Judea, er mwyn y byd; fel y cynnorthwyent i wneud yr Iuddewon yn ddiesgus, a'r byd yn ffyddlon. Dygir hwy gan hynny i brif ddinas Judea, i hysbysu ac i ymofyn, fel y gallai eu tafodau osod ar led enedigaeth yr Iesu.

Nis gallasai eu doethineb eu dysgu i ddychymygu y genid brenhin i Judea o'r fath enwogrwydd a mawredd, ag yr hysbysid Ef i'r byd rwy seren o'r nef, ac etto ei ddeiliaid heb wybod hyn: gan hynny, oherwydd y disgwylient fod yr hysbysiad yn gyffredinol, dywedant, *Pa le y mae'r hwn a anwyd yn Frenin yr Iuddewon?* Y mae llawer o dwyll mewn tebygolrwydd, yn neullduol mewn pethau ysbrydol; canys Duw o hyd a â ar hyd ffordd wrtho ei hun.

Os barnwn yn ol rheswm ac ymddangosiad, pwy sydd mor

debyg i ddeall gwirioneddau nefol, â doeth ddoctoriaid y byd. A Duw heibio i'r rhai hyn, ac a ddatguddia ei feddwl i fabanod. Pe cyfarfuasai'r doethion hyn â bugeiliaid y pentrefydd oddeutu Bethlehem, derbyniasent yr hysbysiad hwnnw am Grist, yr hwn a geisiasent yn ofer gan ddysgedig ysgrifenyddion Jerusalem. Nid y dysgedigion pennaf sydd bob amser y doethaf yn mhethau Duw. Trwy ddadguddiad y dygir y pethau hyn yn mlaen.

Nid cynt y dygodd y seren hwy o fewn sŵn Jerusalem, nag y diflanodd o'u golwg. Mynnai Duw i'w llygaid eu tywys, nes y gallent roi eu tafodau ar waith i ennill ardystiad yr archoffeiriaid a'r ysgrifenyddion i'r lle rhag-appwyntiedig i'r Ceidwad i gael ei eni ynddo. Pe dygasai'r seren hwy yn uniongyrchol i Bethlehem, ni chwiliasai'r Iuddewon am wirionedd y prophwydoliaethau hynny, o'r rhai, wedi hynny, y llwyr argyhoeddwyd hwynt. Ni chymmer Duw byth ein cynnorthwyon ymaith, ond er mwyn helaethach elw. Lle bynnag y siomir ein gobaith, os enw Duw a gaiff ennill, nis gallwn gwyno ein colled.

Ychydig a feddyliodd y doethion y buasai i'w cwestiwn drallodi Herod. Pe disgwyliasent y canlyniad, ofnaf, y celasent eu neges. Diau dybied o honynt mai rhyw fab neu ŵyr iddo Ef, yr hwn oedd y pryd hynny yn eistedd ar yr orsedd, ydoedd: felly buasai i hyn ennill ffafr Herod, yn hytrach na'i ofn anghroesawus o gyd-ymgeisiaeth. Diammau iddynt fyned yn gyntaf i'r llŷs: Yn mha le arall y chwilient am frenhin?

I'r gradd y buasai'r newydd hwn yn hyfryd, pe buasai am un o hiliogaeth Herod, yr oedd yn ofidus am y perthynai i estron. Pe na ddymunasai Herod fawredd yn ormodol, ni chwennychasai goron Judea, oherwydd yr ymadrodd tywyll hwn: mwyaf oll, gan hynny, yr ymofidiodd oherwydd clywed am ddilyniedydd: a hwnnw nid o'i lwynau ei hun. Nis gall mawredd sefydlog oddef newidiad na chyfranogaeth.

Pe buasai un o'i ddeiliaid yn gofyn y cwestiwn hwn, yr wyf yn ofni y buasai ei ben yn ei ateb. Da i enw dieithriaid ddiogelu'r doethion hyn.

Nis gallasai Herod gael ei ddwyn i fynu yn mhlith yr Iuddewon, heb glywed llawer o ymadroddion hyderus yn nghylch y Messia, yr hwn a gyfodai ar fyr o Israel: ac yn awr pan glywo hanes fod Brenhin wedi ei eni, yr hwn a nodasid gan Seren o'r nef, gwylltir ef gan y newydd. Pob peth a ddychryna'r

euog. Trawsfeddianniad sydd lawn o eiddigedd a dychryn—llawn o fwriadau a dychymygion. Par i ni dybied pob llwyn yn ddyn, a phob dyn yn lleidr.

Paham yr ymderfysgi, O Herod. Y mae Brenhin wedi cael ei eni: ond y cyfryw frenhin ag y mae brenhinoedd yn dal eu teyrnwialen, trwyddo ac nid yn eu colli. Os dywaid y doethion wrthyt am frenhin, dywaid y Seren mai un nefol ydyw. Dyma achos da o ddiogelwch, dim o ofn. Y gelyniaeth a'r gwrthwynebiad mwyaf cyffredin i'r hyn sydd dda, ydynt ffrwyth camsynied. Pe gwyddai dynion faint o ddiogelwch a melusder sydd yn mhob gwirionedd dwyfol, ni chai ganddynt ond croesawiad a derbyniad llawen. Cam-dybiau sydd wedi bod yn achosion o annghyfiawnder ac erledigaeth.

Ond os trallodwyd Herod, (canys y mae gormes yn ddrwgdybus,) paham y trallodwyd Jerusalem oll gydag ef? Jerusalem, yr hon a allasai yn awr obeithio am ryddhad o'i rhwymau, ac am adferiad ei rhydd-did a'i hiawnderau! Jerusalem, yr hon yn awr yn unig oedd ganddi achos i godi ei phen, oherwydd ei llawenydd a'i gwynfyd yn ei Gwaredwr. Etto, nid llŷs Herod yn unig a gythryblir, ond Jerusalem hefyd. Y ddinas druenus hon oedd wedi ei blino â chyfnewidiadau, fel yn awr, gan ymsefydlu mewn cyflwr drwg ond esmwyth, y trallodir hi gan y newydd o gyflwr rhagorach. Yr oeddynt yn awr wedi ymgynnefino â chaethiwed, ac â'r ïau, fel fod sŵn rhydd-did yn anhyfryd, yr hwn a dybient na allai ddychwelyd gyda llonyddwch. Y mae troi achosion llawenydd i dristwch, yn arwydd o eithaf ymollyngiad meddwl, ac o annobeithiol wyrni mewn barn.

Gwisga dychryn ymddangosiad defosiynol. Herod a eilw yn nghyd ei gynghor dysgedig; a chan nad oedd yn ammau fod y Messia i gael ei eni, gofynodd pa le y cae ei eni? Yn niflaniad y goleuni arall hwnnw, y mae Seren sefydlog yn wastadol yn disgleirio yn ysgrifeniadau'r Prophwydi, yr hon a dywys yr Archoffeiriaid a'r Ysgrifenyddion rhag eu blaen i Bethlehem. Hyd yma, nid oedd cenfigen a rhagfarn wedi dallu llygaid a gwyro calonau'r Athrawon Iuddewaidd; fel eu bod yn awr yn eglur yn cyfiawnhau y Crist hwnnw, yr hwn, yn ol hyn, a gondemniasant: a thrwy ei gyfiawnhau fel hyn, condemniant eu hunain am ei wrthod. Y dwfr na therfysgir, a adlewyrcha'r wynebpryd yn berffaith. Pe na buasai gan Dduw fwy o dyst-

ion na'i elynion, y mae genym sylfaen ddigonol i'n crediniaeth.

Ofnodd Herod, ond cuddiodd ei ofn: fel un â chywilydd arno i estroniaid ganfod, fod yn ddichonadwy i un person godi dano ef, yn haeddiannol o'i barch na'i arswyd. O'i anfodd, gan hynny, i amlygu gwendid ei nwyd, ymyrra ond ychydig â'r peth; eithr, yn ol holi yn ddirgelaidd am yr amser, anfona ei hysbyswyr i chwilio am y gŵr. *Ewch ac ymofynwch yn fanwl am y mab bychan.* Nid oedd Jerusalem neppell o Bethlehem. Mor hawdd y gallasai Herod greulon ddefnyddio rhai o'i lyswyr gwaedlyd, i ddwyn yn mlaen yr holiad a'r dihenyddiad hyn! Pe na fwriadasai Duw ei siomi, cyn ei siomi gan y doethion, buasai well ganddo anfon cyn iddynt fyned yno, nag yn ol iddynt ei siomi: ond y Duw hwnnw, yn llaw'r Hwn y mae pob calon, a'i pensyfrdanodd, fel na chai ffordd rydd i'r fath erchyll ddrygioni.

Nid oes un drwg mor ysgeler, na chuddia ei hun â delw duwioldeb. Herod hefyd a addola'r Plentyn. Nid yw hynawsedd gormesdeyrn namyn angau ei hun. Nid yw bwriad rhagrithiwr cyfrwys byth yn waeth nâ phan y mae ei ymadrodd deccaf.

Y mae'r doethion ar eu siwrnai yn fawr eu gobaith a'u dymuniad. Nis gwelaf neb o'r llŷs na'r ddinas yn myned gyda hwynt. Nid wyf yn ymofyn pa un ai anhyder ai ofn a'u rhwystrodd, ond o gymmaint o filoedd o Iuddewon, ni syfla un ei droed, i fyned i weled eu Brenhin hwnnw, yr hwn y daeth estroniaid o wlad mor bell i ymweled âg ef.

Er hynny, ni wangalonwyd y doethion dewrion hyn, oherwydd eu gadael i fyned wrthynt eu hunain, a'r diystyrwch a dderbyniasent, ac ni edifarhasent oherwydd eu siwrnai: fel yn meddwl, "I ba ddyben y deuwn i fan mor bell, i barchu Brenhin, yr hwn ni wna neb ei arddel? I ba beth y teithiasom gannoedd o filldiroedd i ganfod hwnnw, yr hwn ni wna'r trigolion gymmaint ag agor eu llygaid i'w ganfod?" Ond adnewyddasant eu taith yn siriol tua'r lle hwnnw, yr hwn a nodasid gan foreuol oleuni prophwydoliaeth.

Ac wele Duw yn awr yn calonogi eu prysurdeb duwiol o'r nefoedd, trwy anfon iddynt eu Harweinydd cyntaf, megis pe dywedasai, "Pa raid i chwi deimlo esgeulusdra dynion, tra y canfyddoch y nef yn anrhydeddu y Brenhin, yr hwn a geisiwch?"

Hwy yn unig a all draethu llawenydd y doethion, pan welsant ail-ymddangosiad y Seren hyfryd, y rhai, yn ol hir nos o brofedigaeth, a ganfyddasant dyner wyneb Duw yn disgleirio ar eu heneidiau. Os dilynwn alwad Duw mewn amgylchiadau enbydus, gydag ufudd-dod a gwroldeb, ni chawn fod yn ddigyssur. Na fydded i ni adael Duw; a sicr yw nas gadawa yntau ninnau.

Efe, yr hwn a dywysodd Israel i dir yr addewid â cholofn o dân, a dywys y doethion at yr had addawedig â Seren. Ei holl gyfeiriadau a gyfranant o'r goleuni hwnnw sydd ynddo Ef, canys *Goleuni yw Duw.* Y Seren a â rhagddi yn isel ac yn araf: fel ag i gyfatteb yn oreu â mynediad a dyben y pererinion hyn. Y mae Duw, yn ei ddaioni, yn ymostwng attom ni yn y pethau hynny, yn y rhai nis gallwn ei gyrhaeddyd Ef.

Diammau, pan welodd y doethion y Seren yn sefyll yn llonydd, iddynt edrych oddi amgylch i weled pa balas a ganfyddent yn agos, addas i Frenin gael ei eni ynddo: ac nis gallent gredu mai'r bwthyn hwnnw ydoedd, yr hwn y bwriadai'r Seren ei nodi allan: ond, gan weled eu harweinydd yn ymsefydlu wrth ben y gronglwyd ddilewyrch honno, aethant i mewn i weled pwy oedd yno. Ant i mewn, ac, O Dduw, pa fath Frenhin a welant! O waeled oedd! O mor ddirmygedig! Wedi ei rwymo â chadachau, yn gorwedd mewn gwellt, â'i gryd yn breseb, a'r anifeiliaid yn gwmni iddo! O'r fath olwg oedd hon, yn ol yr holl addewidion gogoneddus y Seren, rhagddywediadau'r prophwydi, a mawredd eu disgwyliad!

Ni chawsant un peth yn eu holl siwrnai mor ddirmygedig a'r Baban y daethent i'w addoli. Ond, megis rhai na allasent fod yn ddoethion, heb wybod fod y gogoniant mwyaf yn fynych yn codi oddiar ddechreuad gwael, syrthiant i lawr, ac addolant ei Fawrhydi cuddiedig. Y gwaeledd hwn ni pharodd ynddynt ddirmyg ond syndod. Gwyddent yn dda nas gallai'r Seren fod yn gelwyddog. Y sawl a welsent ei Seren yn mhell yn y Dwyrain, pan orweddai mewn cadachau yn Bethlehem, a ganfyddant hefyd ei frenhindod o bellach ffordd, yn ngwaeledd ei fabandod—brenhindod uwch nâ dynol. Da y gwyddent nad oedd sêr yn arferol o ymddangos ar enedigaeth brenhinoedd daearol: a phe na buasai eu hamcan yn uwch, beth oedd Brenin Iuddewaidd i estroniaid Persiaidd? Cyfattebol i hyn, ynte, oedd eu haddoliant.

Nidderchafasant ychwaith ddwylaw gweigion at Wrthddrych eu haddoliad: ond anrhegasant ef â nwyfau mwyaf costus eu gwlad—*aur, thus, a myrrh:* nid gyda'r meddwl o'i gyfoethogi, ond er ei addef trwy'r gwasanaeth hwn, yn Arglwydd y pethau hyn. Pe buasai'r doethion hyn yn frenhinoedd, ac yn offrymu y fath swm o aur ag a fuasai addas i dywysogion ei roddi, ni fuasai'r Forwyn Sanctaidd, yn ei phuredigaeth, yn offrymu dau gyw colomen fel arwydd o'i thlodi. Fel nad yw Duw yn caru dwylaw gweigion, felly y mesura gyflawnder wrth y serchogrwydd. Bydded ein hoffrwm iddo, yn aur, neu thus, neu fyrrh, nis gall lai na'i foddio Ef, yr hwn nid yw'n ymofyn am faintioli, ond am werthfawrogrwydd yr hyn a roddir.

Y PUREDIGAETH.

Nis gallasai fod anmhurdeb yn Mab Duw: ac os y rhan oreu o sylwedd y Forwyn a ddygai ynddo y rhan leiaf o lygriad Adda, llwyr symmudwyd ef trwy sancteiddiad yn y groth: er hynny, mynnai'r Mab ei enwaedu, a'r Fam ei phuro. Yr Hwn a ddaeth i fod yn bechod drosom, a fyddai aflan yn ein personau ni, yn ngolwg y gyfraith: fel, trwy foddhau'r gyfraith, y symmudai ein haflendid. Er ei fod yn rhydd oddiwrth gyflwr cyffredinol ein genedigaeth, etto, ni waredai ei hun oddiwrth y defodau cyffredinol hynny, y rhai a arwyddent wendid a beiusrwydd ein dynoliaeth. Cyflawnai un gyfraith, er ei diddymmu: un arall er ei boddloni. Yr hwn oedd uwchlaw'r gyfraith a ddaeth dani, i'n rhyddhau ni oddiwrthi. Ni newidiwyd diwrnod yn enwaediad Crist, nac ychwaith yn mhuredigaeth Mair.

Nid oedd yr Ystabal yn Bethlehem yn gyfleus o ran lle, na phethau angenrheidiol i'r fath orchwyl a hwn: er hynny, Efe, yr hwn a wnaeth ac a gadwodd y gyfraith, a'i ceidw gydag anhawsder, yn hytrach nâ'i thorri yn ddiboen.

Paham, Waredwr bendigedig, y goddefaist i'r blaen-groen sanctaidd hwnnw gael ei dorri ymaith, ond, fel trwy rinwedd dy enwaediad, y caffai'r unrhyw gael ei wneuthur i'n heneidiau ni, ag a wnaethid i'th gorph di? Nis gallwn, gan hynny, fod yn eiddo Ti, oddieithr i'n calonau gael eu henwaedu. Gwna

ynom yr hyn a wnawd i ti, er ein mwyn. Tor ymaith hel-aethrwydd ein malais, fel y byddem sanctaidd ynot a thrwot ti, yr Hwn a ymfoddlonaist i fod yn anmhur yn nghyfrif y gyfraith.

Yr oedd gwaradwydd yn dy enedigaeth; poen yn dy enwaediad. Yn ol dy groesawiad dirmygedig i'r byd, y mae dy drugaredd ryfeddol i'w glodfori am oddef o honot, yn dy ymostyngiad boreuol, i ellyn llym fyned trwy dy groen er ein lles ni, y rhai, prin y gwaedwn er elw i ni ein hunain. Pa boen a dirmyg a ddylem ni ei wrthod er dy fwyn di, yr hwn nid arbedaist dy hun er ein mwyn ni?

Y mae Bethlehem yn awr yn ormod ei hanrhydedd. Yno y genir, yr addolir, ac yr enwaedir Crist.

Nid cynt ag y gall, ac y caniatteir i'r Forwyn Fendigedig rodio, nag y teithia i Jerusalem i gyflawni'r defodau sanctaidd drosti ei hun a'i mab; i'w phuro ei hun, a'i gyflwyno yntau. Nid â i'w thŷ ei hun yn Nazareth, ond i dŷ Dduw yn Jerusalem: os cysgod oedd puredigaeth, etto yr oedd diolchgarwch yn sylwedd. Y sawl a fendithiwyd gan Dduw â ffrwyth y groth, ac â rhyddhad ymwaredol, os eu siwrnai cyntaf ni fydd i deml Duw, cyfrannogant fwy o anniolchgarwch Efa, nag o dduwiolder Mair.

Nid cynt gan hynny y diweddwyd eu deugain niwrnod, nag y cyrcha Mair i'r ddinas sanctaidd. Y sôn am Frenhin newydd wedi ei eni yn Mhethlehem, oedd etto yn fyw yn Jerusalem, er pan glywyd yr hyn a ddywedai'r doethion; ac o'r fath newydd da oedd hwn i unrhyw wenieithiwr ei gludo i'r llys! "Wele'r Baban a arwyddwyd gan y Seren, a ymofynwyd am dano gan y doethion, a gyhoeddwyd gan yr angelion, a lefarwyd yn ei gylch gan y bugeiliaid, a nodwyd gan yr Ysgrifenyddion a'r Archoffeiriaid, a chwilir am dano gan Herod." Etto, daw Crist i'r Jerusalem honno, yr hon a drallodwyd gan y newydd am ei enedigaeth, a chylymir i fynu bob tafod, fel fod Herod, yr hwn a anfonodd o Jerusalem i Fethlehem i'w geisio, yn methu a'i gael Ef, yr hwn a ddaethai o Bethlehem i Jerusalem, fel mewn gwrthweithrediad iddo. Ni ddylai peryglon o bell, a galluadwy yn unig, ac heb fod yn sicr, ein lluddias rhag ein cyflawniadau defosiynol. Nid oedd Duw yn ei ganfod yn amser addas etto i dynnu'r attalfa oddiar gynddaredd ei elynion, y rhai a gadwynai fel gwaed-gwn creulon, ac a'u

rhyddhai pan fwyaf y gwaradwyddent eu hunain, ac y gogoneddant yntau.

Da y gallasai'r Forwyn Fendigaid ymddadleu à'r gyfraith, a gofyn am ei rhyddhau oddiwrth holl ddefodau puredigaeth. "Pwy eisiau glanhad sydd arnaf fi, a minnau heb feichiogi mewn pechod? Hyn sydd addas i'r mammau hynny sydd aflan yn eu cenhedliadau; oddiwrth Dduw y mae'r eiddo fi, yr Hwn purdeb ei hun yw. Cyfraith Moses a gyrhaedda at y gwragedd hynny yn unig, y sawl a genhedlasant had; nis cenhedlais i yr had hwn, ond yr Ysbryd Glan ynof fi: cyrhaedda at fammau y plant hynny, y rhai ydynt dan y Ddeddf; fy Mab i sydd uwch na hi!" Ond fel un a brisiai ei heddwch o flaen ei braint, ac a ddymunai fod yn ddidramgwydd yn hytrach nâ dilafur a digost, cyflawna yn ufudd ddeddf y Duw hwnnw, yr Hwn a ddygai yn ei bru a'i breichiau; fel ei Fam Ef, yr hwn a wyddai fod plant y deyrnas yn rhyddion, etto a dalai deyrnged i Cesar; fel ei Fam Ef, yr hwn yr oedd yn weddus iddo gyflawni pob cyfiawnder. Ac os oedd mor fanylaidd mewn defodau, fel na esgeulusodd, hyd yn oed, yn y pethau amgylchiadol a berthynent i'w hufudd-dod, pa faint mwy felly yr ydoedd yn mhrif ddyledswyddau moesoldeb! Addas yw'r enaid hwnnw i genhedlu Crist yn ysprydol, yr hwn a arfera fanylrwydd cydwybodol yn ei ufudd-dod i orchymynion Duw, gan ffieiddio pob cyfeillach âg esgeulusdod a chyndynrwydd.

Cyhoedda deddf y puredigaeth ein haflendid. Ni chaniatteir i'r fam yn ol ei hesgorfa i ddyfod i'r cyssegr, neu i gyffwrdd âg unrhyw beth sanctaidd, nes i'w hamser gosodedig redeg allan. Beth ydym, pan y mae, hyd yn oed, ein genedigaeth yn halogi y sawl a'n hymddygant?

O'r diwedd daw i'r deml, gydag offrymau, naill ai oen a cholomen, neu gyw turtur, neu, mewn amgylchiadau isel, pâr o durturod, neu ddau gyw colomen. O'r rhai y mae un yn aberth llosg, a'r llall yn aberth dros bechod—un yn aberth diolch, a'r llall yn aberth cymmod—cymmod am ddau bechod—sef eiddo'r Fam a genhedlodd, a'r plentyn a genhedlwyd.

Genir ni oll yn bechaduriaid, ac anhawdd penderfynu pa un ai ni sy'n llygru y byd fwyaf, ai'r byd ni. Gwenieithwyr mawrion natur yw'r sawl a ddywedant wrthi ei bod yn lân. Dygwn ddigon o bechod gyda ni, pe byddai'n buchedd rydd oddiwrtho. Y baban, yr hwn ni fydd byw i bechu fel Adda, etto a bechodd ynddo, ac y mae'n bechadurus ynddo ei hun.

Ond O, anrhaethadwy drugaredd ein Duw! Darparwn ni y pechod, yntau a ddarpara'r waredigaeth. Wele gymmod, bron mor gynted a'r bai; gwaed oen neu golomen, yn hytrach ei waed Ef, diniweidrwydd yr hwn a arwyddid gan y ddau, a'n glanha'n gyflym oddiwrth ein haflendid.

Aeth yr enwaediad yn gyntaf; yna'r aberth: fel trwy ddwy weithred sanctaidd y sancteiddid i Dduw, yr hyn oedd ynddo ei hun yn ansanctaidd. Dan yr Efengyl, gwna bedydd y ddau. Diddyma ein llygredd, os bydd dwfr yr Ysbryd yn cyd-fyned â gwaed Crist hefyd, trwy yr hwn y'n golchir. O na allem fawrygu daioni ein Duw, yr hwn nis gadawodd, ïe, ein mabandod yn ddiymgeledd, ond a ddarparodd gynnorthwyon, trwy y rhai y gallwn gael ein gwaredu oddiwrth ein drygau treftadol.

Cyfryw yw gofal tyner ein Duw doeth, fel na ewyllysia i ni ein gorlwytho ein hunain â'n cyflawniadau. Rheola ei gais gennym wrth ein gallu. Nid oedd pob mam dlawd yn gallu dwyn oen yn offrwm; ond nid oedd neb mor dlawd na allasai gyrhaeddid pâr o ddurturod, neu o golomenod. Ordeinia Duw y rhain i dlodion, a derbyn hwy nid llai nag anifeiliaid ar fil o fynyddoedd. Disgwylia ryw beth gan bawb, ac nid yr unrhyw oddiwrth bob un. Gan mai Ef sy'n gwneuthur gwahaniaeth o ran galluoedd, yr Hwn a allai yn hawdd gyfoethogi pawb, ni wna ei drugaredd wahaniaeth yn y derbyniad. Corona Ef wiredd a chalonogrwydd ufudd-dod yn ei weision gwaelaf. Y mae hatling y weddw yn fwy ganddo ef, na thalentau y cyfoethog.

Yn ol holl anrhegion yr addolwyr dwyreiniol hynny, y rhai fwriadent barch yn hytrach nâ chyfoethogiad, daw'r Forwyn Sanctaidd, mewn agwedd dlawd, â dwy golomen at Dduw. Nis gallasai, heb ryw gymmaint o gost, aros cyhyd yn Bethlehem, ac ymdeithio o Bethlehem i Jerusalem. Eglura ei hoffrwm ei thlodi. Nid y gyfoethoccaf sydd bob amser y dduwiola. Pwy a all ddirmygu neb o achos ei brinder, pan nad oedd Mam Crist yn alluog i ddwyn oen i'w phuredigaeth? Gallwn fod mor ddedwydd mewn brethyn cartrefig, ag mewn gwisg o sidan aur-frodiog.

Pan ddygodd y Forwyn Fendigedig ei Mab i'r deml gyda'r colomenod, yr oedd yno fwy nâ phâr o'r cyfryw. Yr oeddynt hwy, er mwyn y rhai y gwnaethpwyd yr offrwm hwnnw, yn fwy yn golomenod, na'r colomenod a ddygasid i'w hoffrymu. Ei Mab, er mwyn yr Hwn y dygasai hi'r golomen honno yn

aberth, oedd yr aberth a bortreiadid gan y golomen. Nid oedd ynddo ond perffaith ddiniweidrwydd, a'r offrymiad o hono Ef, yw'r hwn sydd yn cyflawn lanhau y mammau oll a'r plant. Yn gymmaint ag nad ydym yn ddiniweid ynom ein hunain, dedwydd ydym os gallwn gael y golomen ddiniweid yn aberth drosom, er ein gwneuthur ni yn ddiniweid ynddo Ef.

Yr oedd gan y Forwyn Fendigedig, waith i'w wneud yn y Deml, heblaw ei heiddo ei hun. Daethai i gyflwyno ei Mab, yn gystal ag i buro ei hun. Pob gwrryw cyntaf-anedig oedd sanctaidd i'r Arglwydd. Efe, yr hwn oedd Fab Duw trwy dragywyddol genhedliad cyn amser, a thrwy genhedliad gwyrthiol mewn amser, ydoedd trwy drefn cyffredin natur gyssegredig i Dduw. Addas i'r Fam sanctaidd gyflwyno ei Mab i Dduw. Ei chyntaf-anedig oedd gyntaf-anedig pob creadur. Efe oedd yr Hwn, yn nheml yr Hwn y cyflwynwyd Ef, i'r Hwn y cyssegrid pob cyntaf-anedig, gan yr Hwn y derbynid y cyfryw: ac yn awr dygir Ef yn mreichiau ei Fam, i'w dŷ ei hun, a chyflwynir Ef megis dyn, iddo ei hun fel Duw. Pe nad ysgrifenasai Moses y ddeddf o neillduol berchenogaeth Duw o'r cyntaf-anedig, cymerasai y cyfryw Fab Duw feddiant o'r deml, trwy rinwedd ei Hanfodiad a'i Gariad. Buasai ei hawl yn ddeddf berffaith iddo ei hun. Yn awr, y mae ei ufudd-dod i'r ddeddf a roddasai ei hun, yn ei alw yno ddim llai na honniad o'i feddiant neillduol ei hun.

Efe, yr hwn yw Arglwydd yr holl greaduriaid, a gleimia gyntaf-anedig bob creadur, er pan darawodd gyntaf-anedigion yr Aiphtiaid, i gael ei gyssegru iddo Ef, yn ddyn ac yn anifail. Yn ol y rheol hon cawsai Duw wasanaeth gan etifeddion Israel yn unig. Ond yn gymmaint ag i Dduw, er anrhydeddu a gwobrwyo Lefi, ddewis y llwyth hwnnw i weini iddo, rhaid cyflwyno yn awr cyntaf-anedigion holl Israel i Dduw, megis yn ddyledus iddo, ond caniatteir eu rhyddhau i'w rhieni. Ond gyda golwg ar yr anifeiliaid, rhaid i'r gwrryw cyntaf-anedig gael ei aberthu; o'r rhai aflan cyfnewidir ef, am yr hyn oedd ei werth. Cymmaint yw'r moesoldeb sydd yn yr holl osodiad hwn o eiddo Duw, fel fod y goreu o bob rhyw i gael ei gyssegru i Arglwydd y cwbl. Y mae pob peth a feddom yn rhy dda i ni, os tybiwn un peth a feddom yn rhy dda i Dduw. O ddisgleiried yr ymddangosai'r Deml yn awr, a'i Meddiannydd o fewn ei muriau! Wele'r awr a'r Trigianydd wedi dyfod, oherwydd y rhai y rhagora'r ail Deml ar y gyntaf. Hwn oedd ei dŷ

Ef, a adeiladasid ac a gyssegrasid iddo: yn y llall preswyliodd yn hir, yn ei bresennoldeb ysbrydol, ac mewn cysgodau. Ni osodasid ac ni chyflawnasid un peth o fewn ei muriau, a'r na chysgodasai Crist: ac yn awr y mae sylwedd y cysgodau hynny wedi dyfod, a chyflwyna ei hun, lle y portreiasid Ef yn wastadol. Y mae Jerusalem yn awr yn mhob man: nid oes Eglwys, nid oes calon gristionogol, a'r nad yw yn deml y Duw byw. Nid oes teml i Dduw, lle nis cyflwynir Crist i'w Dad. Edrych, O Dduw, arno Ef, yn yr hwn y'th lwyr foddlonwyd, ac ynddo, ac erddo ymfoddlona ynom ninnau.

Dan yr Efengyl, cyntaf-anedigion, etifeddion ydym oll: y mae pob enaid i fod yn sanctaidd i'r Arglwydd: yr ydym yn genhedl frenhinol, yn offeiriadaeth sanctaidd. Ein bedydd yw ein cyflwyniad i Dduw, nid oes dim yn gweddu i ni ond sancteiddrwydd, O Dduw, i'r hwn y'n cyssegrir, myn wasanaeth oddi wrthym, gogonedda dy hun ynom, hyd y'n gogonedder gennyt gyda thydi.

HEROD A'R BABANOD.

Iawn y gallasai'r doethion hyn ddrwg-dybied dirgelion ymddygiad Herod. Os oedd ei ddyben yn dda, pa raid am y sibrwd yna? Yr hyn a gyhoeddent yn yr heolydd, ymofyna ef yn ei gylch yn ei ystafell ddirgel: er hynny, hwy, heb ammau ei fwriad, a amcanant gyflawni ei orchymyn. Yn ol eu barn hwy, nis gallasai fod amgen nag anrhydedd mawr iddynt, wneuthur eu llwyddiant yn adnabyddus: fel y gallai brenhin a phobl ganfod mai nid dychymyg a'u harweiniai, ond sicr dadguddiadau.

Y Duw hwnnw a'u dygodd hyd yma, a barodd iddynt ddychwelyd ffordd arall, a pharodd i'w llygaid gau, fel y gallai eu tywys y ffordd oreu adref.

Y doethion hyn a gymmerasant daith ddedwyddol: canys yn awr cynnyddant mewn adnabyddiaeth o Dduw. Anrhydeddir hwy âg ail gennadwr o'r nef. Gwelsant y seren ar y ffordd: yr angel yn eu gwelyau: y seren a'i tywysodd at Grist; yr angel a gyfarwyddodd eu dychweliad. Gwelsant seren liw dydd: gweledigaeth liw nos. Llefarodd Duw wrth eu llygaid trwy'r seren, wrth eu calon trwy freuddwyd. Diammau iddynt adael sŵn mawr ar eu hol am Grist. Y sawl a gyhoeddasant ei ened-

igaeth, trwy eu hymofyniad yn Jerusalem : nis gallasent fod yn ddistaw yn ol ei weled yn Methlehem.

Pe dychwelasent heibio Herod, yr wyf yn ofni na chyrhaeddasent eu cartref. Yr hwn a fwriadai ladd y Baban am ei alw'n Frenhin, a fwriadai'r unrhyw iddynt hwy, y rhai a anrhydeddent ac a gyhoeddent frenhin newydd, gan dderchafu gorsedd heblaw yr eiddo ef. Cyflawnasent eu hamcan yn eu taith : ac yn awr, y Duw hwnnw, yn nghylch gwaith yr Hwn y daethent, a ofalodd ar unwaith am ddiogelwch ei Fab a hwythau. Ni chychwyna Duw, yr hwn sydd berffeithrwydd ei hun, unrhyw orchwyl beb ei orphen, a'i orphen yn ddedwyddol. Pan fyddom yn ei lwybrau ef, nid oes berygl i ni fethu.

Gwych y gwyddai'r Doethion hyn wahaniaeth breuddwydion yn gystal a ser : dysgasent wahaniaeth rhwng rhai naturiol a dwyfol : ac wedi unwaith dirnad Duw yn eu cwsg, dilynant Ef yn ol dihuno, o dychwelant ffordd arall.

Nid oeddynt ddeiliaid i Herod : ei orchymyn, gan hynny, oedd yn llai ei bwys ganddynt. A phe byddai bod o fewn ei deyrnas yn eu rhwymo fel y rhai a anesid ynddi, etto, lle yr oedd Duw yn gwrth-orchymyn, nid oedd achos dadleu pwy yr oeddynt i ufuddhau iddo. Ni ddywedasant, " Yr ydym mewn gwlad ddieithr : gall Herod gyfarfod â ni ; angau yw cellwair âg ef yn ei deyrnas ei hun ;" ond rhoddant eu hunain yn siriol ar y ffordd, a hyderant ar Dduw am lwyddiant. Lle y mae dynion yn gorchymyn gyda Duw, rhaid i ni ufuddhau dynion er mwyn Duw, a Duw mewn dynion ; pan orchymynant yn ei erbyn, yr ufudd-dod goreu yw naccau ufudd-dod, a throi ein cefnau ar Herod.

Y doethion a ddychwelasant yn iach adref ; a gwnaethant y byd mor llawn o ddisgwyliad, ag oeddynt eu hunain o syndod.

Y mae Joseph a Mair wedi dychwelyd i'r Jerusalem honno, lle yr ymofynasai'r doethion am ei enedigaeth. Yr oedd y ddinas, yn ddiau, yn llawn o'r newydd hwn ; ac ychydig a feddyliai, fod yr Hwn a ymofynai am dano, mor agos atti.

Y maent ar eu ffordd i Nazareth, lle yr amcanant breswylio : Duw a'i rhagflaena â'i angel, ac a'i henfyn, er diogelwch, i'r Aipht.

Nid oedd Joseph arferol bod mor llawn o weledigaethau. Nid hir cyn hyn er pan ymddangosodd yr angel iddo, er cyfiawnhau diniweidrwydd y Fam, a duwdod y Mab ; yn awr ymddengys er cadwraeth y ddau, trwy ffoedigaeth.

A allasai Joseph lai na meddwl, "Ai hwn yw'r Brenhin sydd

i achub Israel, yr hwn y mae arno angen am waredigaeth ar fy llaw i? Os Mab Duw ydyw, pa fodd y mae'n ddarostyngedig i gynddaredd dynion? Pa fodd y mae ef yn Hollalluog, yr hwn sy'n rhaid iddo achub ei hun trwy ddiangc? neu, pa fodd y dianga, i achub ei hun, allan o'r wlad honno y daethai i'w gwaredu?" Ond Joseph ffyddlon, yn ol ei ddysgu gan yr Angel, a chlywed yr hyn a ddywedodd y doethion am y seren, a'r hyn a ddywedodd Simeon ac Anna yn y deml, nid yw'n gofalu gymmaint am gyssoni ei feddyliau, ag am eu darostwng; ac fel un yn gwybod mai gwell yw cadw i lawr anmheuon na'u hatteb, gredu yr hyn nid yw yn ei ddeall, a rhyfeddu pan nad all amgyffred.

O gyflwr rhyfedd Brenhin yr holl fyd! Nis gallasai gael ei eni mewn gwaelach ystad; ac nis gall fyw yn hon yn ddiberygl. Nid oedd lle iddo yn Bethlehem; ni fydd lle iddo yn Judea. Nid cynt y daw at ei eiddo ei hun, nad yw yn gorfod ffoi oddiwrthynt: rhaid cilio oddiwrthynt er eu hachub.

Oni fuasai yn hawdd i ti, O Iachawdwr, mewn mil o ffyrdd, dy waredu dy hun o law Herod? Beth a allasai braich o gnawd ei wneud yn erbyn Duw'r ysbrydion? Beth a fuasai i ti anfon Herod bum mlynedd cyn hyn i'w le ei hun? Beth, i orchymyn tân o'r nef ar y rhai a ddeuai i'th ddal? i orchymyn i'r ddaear i'w derbyn hwy yn fyw, y rhai a fwriadai eu llyngcu yn feirwon? Goddefwn ni drallod, am fod yn rhaid i ni; tydi, am dy fod yn ewyllisio. Yr un ewyllys a'th ddygodd o'r nefoedd i'r ddaear, a'th anfona o Judea i'r Aipht. Megis ag y dymunaist gael dy eni yn dlawd, ac mewn gwaeledd; felly y mynnet fyw yn agored i orthymderau, fel y byddai i ti, yr hwn a'n dysgaist ddäed yw dwyn yr iau yn ein hieungctyd, sancteiddio i ni gystuddiau boreuol.

Neu, O Dad, gan mai dy fwriad doeth oedd amlygu dy Fab yn raddol i'r byd, ai'th ewyllys oedd fel hyn, ei guddio dros amser a'n gwendidau? Beth ond hyn yw ein cyflwr ein hunain? Nid cynt y delom yn eiddo ti trwy ein hail eni, nag y'n herlydir. Os yr Eglwys a esgor ar fab gwrryw, y mae mewn perygl o afonydd y ddraig. Paham yr achwyna'r aelodau oherwydd yr un driniaeth ag a offrymwyd i'r Pen? Dagrau sydd yn nglyn â'n genedigaeth ni, a'r eiddo yntau.

Y mae mabandod y sawl mewn oedran addfedach a ddirfawr drallodir, yn gyffredin yn ddiofid. Ond yma y mae bywyd a gofid yn cyd-ddechreu.

O, Wyryf Fendigedig, y mae'r cleddyf eisioes yn dechreu gwanu dy enaid. Rhaid i ti, yr hon y gorfu arnat ddwyn dy Fab yn dy fru o Nazareth i Fethlehem, yn awr ei ddwyn yn dy freichiau o Judea i'r Aipht: etto, nid oedd i ti achos cwyno am y ffordd, oherwydd fod dy Waredwr gyda thi. Yr oedd ei bresennoldeb yn ddigon i droi ystabal yn deml: yr Aipht yn Baradwys: y ffordd yn hyfryttach ná llonyddwch.

Ond i ba le y dygi dy faich bendigedig, trwy'r Hwn y cynhelir y byd a thithau? I'r Aipht lladd-dŷ pobl Dduw, ffwrnais hen gystuddiau Israel, llyngclyn budreddi'r byd? *O'r Aipht y gelwais fy Mab*, medd Duw. Nid rhyfedd, O Dduw, i ti alw dy Fab o'r Aipht: y rhyfeddod yw, i ti ei alw i'r Aipht—ond ein bod yn gwybod mai dy eiddo yw'r holl ddaear, a bod lleoedd a dynion oll megis darluniau ar bapur, yn ol dy drefniad di.

Y fath gyfnewidiad sydd yma! Israel, cyntaf-anedig Duw, sydd yn ffoi o'r Aipht i wlad yr addewid, sef Judea; ond Crist, cyntaf-anedig pob creadur, sydd yn ffoi o Judea i'r Aipht. Yr Aipht a ddaeth yn noddfa, Judea yn chwil-lŷs, Mab Duw. Yr hwn sydd yn mhob man yr un, a wna bob lle yr un i'w bobl. Gwna'r ffwrn dân yn rhodfa hyfryd, ffau'r llewod yn dŷ amddiffyn, bol y morfil yn lletty, yr Aipht yn borthladd.

Ffoa Ef, yr hwn a all ddiogelu ei hun rhag perygl: er ein dysgu ei fod yn gyfreithlon i ni ffoi rhag y peryglon y rhai nis gallwn un ffordd arall eu gochelyd. Gwroldeb na ofynir yw cynnyg ein gwddf i'r gyllell. Yr Hwn a ddaeth i farw drosom, a ffodd er diogelu ei hun, ac a orchymynodd i ninnau wneuthur yr unrhyw. *Pan y'ch erlidiant yn y ddinas hon, ffowch i un arall.* Ni feddwn ond y defnydd a wnawn o'n bywyd: ac yr ydym yn rhwym i'w ddiogelu er elw i Dduw a'i eglwys. Ni wnaeth Duw ni fel nodau i ergydio attom yn barhaus.

Yr oedd yn ddigon i Joseph a Mair, i Dduw orchymyn iddynt ffoi: etto, y mae Duw yn ymddwyn mor gyfeillgar at ei anwyl bobl, fel ei fod yn rhoddi iddynt y rheswm a'i cymhellodd i orchymyn eu ffoedigaeth. *Canys ceisio a wna Herod y Mab bychan i'w ddifetha ef.* Gŵyr Duw yn mlaen llaw yr hyn a wna dynion anwir, a'r hyn a ddymunant ei wneuthur. Yr hwn sydd mor anfeidrol ddoeth fel ag y gŵyr holl amcanion ei elynion cyn eu bod, a allasai yn hawdd eu rhwystro i fod. Eithr gad iddynt redeg yn eu llwybrau eu hunain, er gogoneddu ei hun trwy eu drygioni.

Joseph dduwiol, gan dderbyn y gorchymyn hwn yn y nos,

ni erys hyd y boreu. Nid cynt y dywaid Duw, *Cyfod*, nad yw yn cyfodi, ac yn dechreu ei daith. Nid annghrediniaeth, ond ufudd-dod, a brysura ei ymadawiad. Yr oedd y gorchymyn yn eglur, a'r gorchwyl yn bwysig. Ni feiddia ddisgwyl am y goleuni, ond terfyna ei gwsg i ddechreu ei siwrnai. A chan gymmeryd mantais o'r tywyllwch, a â rhagddo tua'r Aipht! Pa fodd y gwyddai na oddefai'r gorchwyl hwn mo'i oedi? Nis gallwn yn rhy fuan gyflawni gair Duw, ond y mae modd bod yn rhy ddiweddar.

Nid oedd yma drysor i'w guddio, na llenni i'w tynnu i lawr, na thir i'w ddiogelu. Nid oedd gan y Saer, druan, fwy i'w wneuthur nâ chloi'r drws ac ymadael. A ef yn hoyw, yr hwn nid oes ganddo faich. Os oes mwy o bleser mewn cyfoeth, y mae mwy o ddiogelwch mewn sefyllfa isel. Prin y gall yr estrys, pan yr erlidir ef, godi ar ei aden, tra y mae'r ehedydd yn esgyn yn rhwydd. Nid yw'r cyfoethog gymmaint o flaen y tlawd o ran mwynhau, ag ydyw'r tlawd o'i flaen ef o ran gadael.

Yn awr cyrhaeddodd Joseph yr Aipht. Yr oedd yr Aipht dan rwymau i'r enw; megis yr hwn, yr oedd mewn dyled iddo, am ddim llai na'u cadwraeth gyffredinol. Iawn oedd iddo dalu'r llettygarwch hwn i'r enw a'r gwaedoliaeth hwnnw.

Nid mor anhawdd oedd myned i'r Aipht ag aros yno. Eu habsenoldeb o'u gwlad nid oedd fawr well nag alltudiad. Ond beth oedd hyn ond gwasanaethu prentisiaeth yn nhŷ caethiwed. Digyssur bod mewn unman heblaw cartref: ond rhaid ei fod yn boenus i galonau duwiol aros yn yr Aipht, gynnifer o flynyddoedd, yn mhlith paganiaid eilunaddolgar. Gorchymyn Duw, a phresennoldeb Crist, sydd ddigon o daliad am y cwbl. Mor faith y tybiasent yr amser i fod heb weled teml Duw, pe na buasai Duw'r deml gyda hwynt! heb offrymu eu haberthau wrth allor Duw, pe na buasai Ef gyda hwynt, yr hwn a wnaeth bob aberth yn gymmeradwy, ac a gymmeradwyai ebyrth eu calonau.

Yr oedd Herod yn gyfrwys yn twyllo'r doethion, trwy addaw addoli'r Hwn a fwriadai ei ddifetha. Yn awr, gwna Duw i'r doethion ei dwyllo ef, trwy siomi ei ddisgwyliad. Cyfiawn yw ger bron Duw cospi y sawl a ddymunent dwyllo eraill.

Y mae'r beilchion yn anhawdd iawn ganddynt i oddef gwaradwydd. O, fel yr ymgynddeiriogai Herod yn awr, gan ddymuno yn ofer i gael gafael ar yr ysbiwyr twyllodrus; ac y dywedai am yr arteithiau â'r rhai y cospai hwynt am eu han-

ffyddlondeb; ac y melldithiai ei hun am hyderu mewn dieithriaid mewn achos mor bwysig. Drwg-dybiaeth y gormesdeyrn ni oddefai iddo orphwys yn hir. Yn mhen ychydig, anfonodd i ymofyn am danynt hwy, y rhai a anfonasai i ymofyn am Grist. Pan glywodd am eu hymadawiad dirgel, cynnyddodd ei eiddigedd: ac yn awr ei lid a drodd yn wallgof, a'i ofn oedd enbydus.

Holl fabanod Bethlehem a gânt farw o achos hwn yn unig: ac fel y byddai'n sicr o'i amcan, ni chyfynga Herod ei hun o ran amser ac ardal. Nid oedd fawr o amser er pan ymddangosodd y Seren, ac er pan nad ail-ymddangosodd y doethion. Ymofynasant am yr Hwn a anesid, ni ddywedasant ddim am amser ei enedigaeth. Herod, er diogelu ei amcan yn well, a â yn mhellach nâ'u hamser, a dwg o fewn y lladdfa yr holl blant o ddwy flwydd oed. Dywedasai yr offeiriaid a'r ysgrifenyddion wrtho, mai Bethlehem oedd raid fod lle ei enedigaeth. Dwg i mewn yr holl fechgyn yn ei chyffyniau, ïe, caiff ei blentyn ei hun am y tro fod yn Fethlehemiad.

Nid yw gormesdeyrn euog byth yn tybied ei hun yn ddiogel, ond ymegnia o hyd i amddiffyn ei hun trwy greulonedd. Diammau iddo ef, yr hwn a ymofynodd mor ddirgelaidd am Grist, lunio y lladdfa hon yn llawn mor ddirgelaidd. Yr oedd y mammau yn eistedd â'r plant ar eu gliniau: porthent hwy â'u bronau, neu siaradent â hwy yn iaith eu hanwyldeb: pan yn sydyn y rhuthrai'r dihenyddwr i mewn, ac a'u cipiai o'u breichiau: a chan dynnu allan ei gommissiwn a'r gyllell, heb brisio na serchau na dagrau, llofruddiai'r baban diniwed, gan adael ei fam gyffroedig yn y canol rhwng gorphwylldra a marwolaeth. O, fel y melldithid Herod! O'r, fath blethu dwylaw! O'r, fath gri oedd yn awr yn heolydd Bethlehem!

O Herod waedlyd! yr hwn a allasit aberthu cynnifer o fywydau diniwed i'th falchder a'th hunan-gais! Beth allasai y Babanod fod wedi ei wneuthur? Os am dy berson yr oeddit yn ofnu, pa debygolrwydd y byddit byw hyd y deuai'r llaeth-blant hyn i'th osod mewn perygl? Gallasai'r newydd hwn berthynu i'th ddilynwyr ar yr orsedd. Nis gallasai berthynu i ti, pe na buasai poethni dy genfigen dinerth a gorphwyllog wedi dy wneuthur yn sychedig am waed. Nid hir y mwynhei y creulondeb hwn. Yn ol ychydig o flynyddoedd ffiaidd, dy enaid a gaiff oddef pwys cynnifer o wirioniaid, cynnifer o fell-

dithion cyfiawn. Efe, o achos yr Hwn y lleddi y fath nifer, â'th dery âg angau: ac yna, beth a roddet i fod megis un o'r Gwironiaid a leddaist? Yn y cyfamser, pan ddychwelodd dy ddihenyddwyr, a dywedyd wrthyt am eu llofruddiaeth diduedd, gwenet wrth feddwl fel yr oeddit wedi gorchfygu dy gyd-ymgeisydd, a gwneuthur y Seren a'r prophwydoliaethau yn ddiddim: tra yr oedd Duw yn y nefoedd, a'i Fab ar y ddaear yn chwerthin am dy ben, gan beri o'th gynddaredd i fwy gogoniant darddu iddo Ef, yr Hwn a amcenit ei ddifa.

Yr hwn a gymmerodd ymaith fywydau eraill, nis gallasai gadw'r eiddo ei hun. Anfonir Herod yn awr i'w gartref. Gall y teulu sanctaidd yn awr ddychwelyd: yn awr geilw Duw hwy o'u halltudiad.

Ni arosasai Crist a'i Fam cyhyd allan o gyffiniau yr eglwys weledig, ond i ddysgu ini barhad dan y groes. Gwel Duw yn oreu i ni weithio, nid i lymeitian o gwppan cystudd, ond i yfed yn ddwfn ac yn wastadol o hono. Os na chaniatta i ni ddiod arall dros flynyddoedd lawer, rhaid i ni ei gymmeryd yn siriol, gan wybod i'n gwell orfod gwneuthur yr unrhyw.

Nid â Joseph a Mair o'r fan heb orchymyn. Eu hymadawiad, eu harosiad, a'u symmudiad a reolir gan lais Duw. Pe buasai'r Aipht yn fwy gofidus iddynt, ni feiddiasent symmud troed heb eu gorchymyn. Da yn ein hachosion ein hunain dilyn rheswm ac arferiad, ond os dilynwn unrhyw arweinydd yn mhethau Duw, ond Ef ei hun, yr ydym yn rhyfygu, ac nis gallwn ddisgwyl bendith.

O ryfedd drefn Duw, yn cuddio ei hun oddiwrth ddynion! Yr oedd Crist yn awr oddeutu pum mlwydd oed. Ymddyga fel Baban: ac er y gŵyr bob peth, ni ddywaid air yn nghylch ei symmudiad, ond gad hynny i gael ei wneuthur gan ei Angel, yr hyn nis gallasai'r Angel mo'i wneuthur ond trwyddo Ef. Yn gymmaint ag y mynnai gymmeryd arno ein natur, mynnai fod yn berffaith blentyn, gan attal y Duwdod hwnnw rhag amlygu ei hun, â'r hwn yr oedd ei natur blentynaidd mewn undeb. Fel hyn, O Waredwr, yr oedd gostyngeiddrwydd dy fabandod yn cyfatteb i'r eiddo dy enedigaeth. Po mwyaf y cuddi ac y gostyngi dy hun er ein mwyn ni, mwyaf oll y dylem ninnau dy fawrygu, ac iselhau ein hunain er dy fwyn di. I ti, gyda'r Tad a'r Ysbryd Glan, y byddo pob gogoniant ac anrhydedd, yn awr ac yn dragywydd. Amen. MATTHEW II.

MYFYRDODAU,

&c. &c.

LLYFR II.

CRIST YN MHLITH Y DOCTORIAID.

Dengys, hyd yn nod, y gwanwyn i ni beth a allwn ddisgwyl oddiwrth y pren yn yr Haf. Rhoddai'r Iachawdwr i ni gan hynny, yn ei dan-oedran, brawf o'r hyn a fyddai rhagllaw: rhag, os ymddangosai ei berffeithrwydd yn ddirybydd i'r byd, y perassai fwy syndod nà chrediniaeth. Yn awr, y weithred hon o'i eiddo tra yn blentyn a gaiff rag-ddarparu ffydd dynion, trwy rag-ddisgwyliad.

Er yr holl amlygiad boreuol hwn o'i rasau dwyfol, medrodd yr Iuddewon anffyddiog ddywedyd yn ol hyn, *O ba le y daeth y doethineb hyn, a'r gweithredoedd nerthol i'r dyn hwn?* Beth a ddywedasent pe neidiasai ar unwaith i gyflawn eglurdeb ger bron y byd?

Dallai'r haul bob llygad, pe torrai allan yn ei godiad, yn ei holl rym. Am fod ganddo yn awr seren-foreu i'w ragflaenu, ac i beri i ddynion edrych am y corph disglaer hwnnw, yn gystal a lliwiau bywiol y dydd i gyhoeddu ei ymddangosiad, llonnir y llygad yn lle ei niweidio.

Ai rhieni Crist yn flynyddol i Jerusalem, ar ŵyl y Pasg. Perthynai'r ddeddf i'r gyrrywaid yn unig. Ni chanfyddaf fod y Forwyn Fendigedig yn rhwym i gymmeryd y daith hon; y rhyw wanaf a arbedid gan Dduw yn hyn; er hynny, gan wybod y tarddai elw ysbrydol o'r cyfryw daith, cymmer y draul o'i gwneuthur yn wirfoddol, er maithed ydoedd, bob blwyddyn. Nì wna duwioldeb wahaniaeth rhwng y rhywiau, ac ni wna Duw ychwaith o ran ei gymmeradwyaeth: ïe, gwel yn dda yn

hytrach yn ei drugaredd i wobrwyo'r gwasanaeth hwnnw, yr hwn, er ei fod yn ei hoffi yn mhawb, etto ni wel yn addas i'w orchymyn i bawb. Nis gallasai honno lai na bod yn awyddus i wasanaeth Duw, yr hon a gysgodasid gan ei Ysbryd. Y sawl a'r nad ânt yn mhellach mewn gwasanaeth sanctaidd nag y llusgir hwynt, nid ydynt berthynasau yn y radd lleiaf iddi hi, yr hon a elwir yn wynfydedig gan yr holl genhedloedd.

Y plentyn Iesu, yn ei fab-oed, a aeth i fynu gyda'i rieni i'r ŵyl sanctaidd, nid y flwyddyn hon yn unig, ond, tebygol, bob blwyddyn hefyd. Ni arosai ef gartref, trwy rym duwdod yr hwn, a thrwy gynhyrfiad ei ysbryd, yr ai pawb eraill i fynu. Yn ei holl esampl golygai ein haddysg ni. Y weithred dduwiol hon o'i fab-oed, a duedda i'n tywys at waith Duw yn ein blynyddoedd cyntaf. Yr hyn a roddir flaenaf yn y llestr, a'i tymhera am hir amser. Cyfrwysdra'r Diafol yw attal duwioldeb cynnar. Da yw i ddyn, yn mhob ystyriaeth, ddwyn iau Duw o'i fabandod: yr hwn a â allan mewn amser yn y boreu, sydd fwy tebygol i orphen ei siwrnai, na'r hwn sy'n oedi hyd y byddo'r dydd wedi ei dreulio.

Ni ddaethai'r teulu sanctaidd hwn i edrych ar yr ŵyl, ac yna myned ymaith; ond arosasant holl ddyddiau gosodedig y bara croyw. Nid oedd eisiau peth i'w wneud gartref arnynt hwy a'r lleill o Israel: ond nis gallasai y cyfryw orchwylion bydol eu cadw rhag myned i Jerusalem, na'u hanfon ymaith yn rhy fuan. Rhaid i ofalon bydol roddi ffordd i'r rhai ysbrydol. Os ydym am ein bendithio, rhaid i ni lynu wrth wasanaeth Duw, hyd oni enfyn Ef ni ymaith.

Arfer yr amseroedd hynny oedd, iddynt fyned i fynu yn lluoedd i gyfarfodydd sefydledig eu gŵyliau sanctaidd. Holl blwyf Nazareth a ai, ac a ddychwelai gyda'u gilydd. Nid yw cyfeillach dda gystal mewn un man ac yn yr ymdaith tua'r nefoedd. Llawer o gyssur a chwanegir at y swrnai honno, trwy gyfeillach, yr hon sydd hyfryd ynddi ei hun. Gair melus yw, *Deuwch ac esgynwn i dŷ'r Arglwydd.* Rhoddi calondid, y naill i'r llall, nid yw y lleiaf o fendithion ein cymmanfaoedd. Llawer o brennau yn nghyd a wnant dân, y rhai, os rhoddwn ar eu pennau eu hunain, a gollant eu goleuni a'u gwres.

Yn ol darfod y wledd, beth a wnant ond dychwelyd i Nazareth? Nid yw gwasanaeth Duw yn gofyn gennym i esgeuluso ein galwedigaethau neillduol. Geilw ni o'i dŷ ei hun i'n tŷau

ein hunain. Rhaid i dduwioldeb a diwydrwydd fod yn gyfattebol i'w gilydd. Ac nid llai derbyniol gan Dduw yw ein dychweliad i Nazareth, na'n mynediad i Jerusalem.

Nis gallaf feddwl y gallai'r Forwyn Fendigedig na Joseph dduwiol fod mor esgeulus am wrthddrych dwyfol eu gofal, fel ag i beidio galw'r plentyn Iesu, pan oeddynt yn dechreu eu dychweliad o Jerusalem. Ond nid cynt y troisant eu cefnau ar y deml nag y trodd Ef ei wyneb tuag atto: yr oedd ganddo waith i'w wneuthur yno, yn ol iddynt hwy orphen eu gwaith. Yno y cai ei addoli a'i bortreiadu. Nis gallai Ef, yn yr Hwn y preswylia'r Duwdod yn gorphorol, wneuthur dim heb Dduw. Ei wir Dad a'i harweiniodd oddiwrth yr hwn a dybid fod yn dad iddo. Weithiau rhaid i ni, yn ddirwgnach, beri i'r hyn a berthyna i'n galwedigaeth gyffredin roddi fford i achosion ysbrydol.

Gwyddai ei rieni yn dda nad oedd ei dymmer yn ddieithr, nac yn sur ac yn stoicaidd, eithr melus a chyfeillgar; am hynny tybient y treuliai ei amser yn nghwmni eu cyfeillion a'u cymmydogion. Ni feddylient iddo grwydro i'r meusydd wrtho ei hun: ond pan ddaeth yr hwyr, ceisient Ef yn mhlith eu perthynasau a'u cydnabod. Pe na buasai arferol o ymddiddan gyda hwy, ni fuasent yn awr yn chwilio am dano yn eu plith. Nid ymhoffa fel Duw, nac fel dyn, mewn gerwindeb gygus, neu unigrwydd oerllyd, eithr mewn mwyn a charedig ymadrodd ac ymddygiad.

Ond, O Forwyn Fendigedig, pwy a all draethu gofid dy enaid cythryblus, pan, er ymofyn yr holl hwyr hwnnw, nis gellaist gael copinod am dy Fab Iesu? Ai ni thrywanodd un o gleddyfau Simeon dy galon dyner yn awr? O fel y beiaist ar dy esgeulusdra hygoel, trwy beidio a gofalu am wrthddrych mor werthfawr, ac ar llygaid, am gymmaint ag edrych unwaith ar ddim ond gwrthddrych dy gariad! O fel y treuliaist di a'th Briod gofalus y noson honno mewn edliwiadau a galar am eich colled! O gymmaint o ddychymygion drwg-dybus a rwygodd dy ysbryd gofidus! Efallai i ti ofni rhag iddynt hwy, y rhai a gynllwynent iddo pan aned Ef, wrth orchymyn Herod, trwy ddirgel gyfarwyddyd Archelaus, gael gafael arno yn ei fab-oed: neu, efallai i ti feddwl i'th Ddwyfol Fab gymmeryd ei hun o'r ddaear, a dychwelyd yn ol i'w nefol ogoniant, heb dy rybuddio. Neu, efallai, i ti feddwl i ryw ddiofalwch ar dy ran di, beri'r absenoldeb hwn.

O Waredwr anwyl, pwy all dy golli, ac heb wylo o'th achos? Ni chenhedlodd enaid di erioed, yr hwn a ofidiai lai oherwydd dy ymadawiad, nag y llawenhai oblegid dy bresenoldeb. Addas yw'r gofid, a phrydlon y dagrau a gynhyrfir trwy dy golli di! Po'dd y gallwn lawenhau pan fyddwn bell oddiwrtho? Pa flas sydd ar ddiddanwch daearol hebot ti? O ba le y daw ysgafnhadau gofidiau ond oddiwrthyt ti? Ymollwng, O fy enaid, i bob galar, pan y cai dy hun yn amddifad o hono Ef, yn ngwydd yr hwn y mae digonolrwydd llawenydd, a gwrthoda gyssur o bob man oddieithr ei ddychweliad Ef.

Ofer y chwilir am Grist yn mysg ei berthynasau yn ol y cnawd. Y maent mor bell oddiwrth ein cynnorthwyo i gael y gwir Fessia, fel eu bod yn ein harwain oddiwrtho.

Joseph a Mair, gan hynny, a ânt yn ol i'w geisio i Jerusalem, ac oddiamgylch yn y ddinas, ar hyd yr heolydd, a'r lleoedd cyhoeddus, gan geisio *yr Hwn oedd hoff gan eu henaid: ceisiasant ef* a thros dro *nis cawsant ef.* A feddyliwn iddynt roi heibio chwilio? Pan ddychwelsont, brysiasant i'r lletty lle y gadawent ef; a phan nas cafasant, gofynnasant i bawb, *a welsoch yr Hwn sydd hoff gan ein henaid.*

Yn y diwedd, ar y trydydd dydd, cawsant Ef yn y deml. Treuliasent un dydd yn teithio tua Galilea: arall yn dychwelyd i Jerusalem, ar y trydydd dydd cawsant Ef. Efe yr hwn a godai y trydydd dydd, ac a gaed yn mhlith y byw, a fynnai ei gael yn awr y trydydd dydd gan ei rieni, yn ol hir ofid am ei absennoldeb.

Ond yn mha le yr oeddit, O Fendigedig Iesu, dros yr yspaid hwn? Yn mha le y llettyaist, a phwy oedd yn gweini i ti, pan oeddit wrthyt dy hun yn y ddinas. Gwn, pe buasai Jerusalem mor anfwyn it a Bethlehem, y gallesit orchymyn i'r nefoedd dy noddi; ac os dynion ni weinent it', gallesit orchymyn i'r angelion dy wasanaethu: ond yn gymmaint ag i agwedd gwas dy alw i waeledd gwirfoddol, nid ymofynaf pa un a ryngodd it ymgynnefino ag anhawsderau dieithr-ddyn, neu i ddarparu yn wrthiol drosot dy hun, am na hysbysaist im'. Ond hyn a wn, mai dy fwriad yn hyn oedd dysgu dy rieni y gallesit fyw hebddynt, a'th fod yn gosod dy ofal arnynt hwy, nid oherwydd dy angen o honynt, ond o oruwchwiliaeth rasol.

Yn y cyfamser, nis gallesit lai na rhagwybod y gofalon trymion, â'r rhai y gwaedid calon dy anwyl Fam, oherwydd

dy golli mor ddisymwyth, er hynny, gadewaist hi am dro i'w gofid. Fel hyn, O Waredwr, y tybiaist yn addas i ymweled â'r hon a'th ymddug â'r cystudd cynnar hwn. Ni charodd neb di nad wyt weithiau yn ei drallodi, trwy ei adael; fel y byddom yn fwy ein gofal am dy ddal, a'n llawenydd, yn ol dy gael drachefn. Dywedaist, ac ni elli ddywedyd ond gwir, *Wele, yr ydwyf ft gyda chwi, hyd ddiwedd y byd.* Ond tra yr ydwyt mewn gwirionedd gyda ni, tybi yn dda i fod yn absennol i'n hamgyffredion ni.

Etto os gadewi ni, ni wrthodi ni: os gadewi ni er ein darostwng, nis gwrthodi ni er ein bythol ddinystr. Gelli ymguddio dros dri diwrnod, etto, cawn afael ynot yn y temlau. Nis ceisiodd neb di yn wirioneddol heb dy gael. Ni absennoli dy hun mor lleied fel ag i beidio codi hiraeth, na chyhyd ag i beri i'r galon ymollwng.

Yn ol tridiau cawn afael ynot; a pha le y disgwyliwn dy gael yn hytrach nag yn y deml? Yno y mae preswylfod Duw Israel: yno y mae dy orphwysfa yn dragywydd. O chwi, y sawl a drallodir o eisiau canfod eich Gwaredwr, gwelwch y fan mae'n rhaid i chwi chwilio am dano. Ofer disgwyl am ei gael yn yr heolydd, yn y tafarndŷau, yn y chwareudŷau. Ceisiwch Ef yn ei Deml sanctaidd; ceiswch Ef mewn duwioldeb; ceiswch Ef mewn ffydd: yno y cyfarfyddwch âg Ef, yno y cewch ail feddiant o hono.

Tra yr oedd plant yn yr oedran hwnnw yn chwareu yn yr heolydd, caed Crist yn eistedd yn y deml: nid i syllu ar ddisgleirdeb allanol y tŷ hwnnw, neu ar y canwyllbrenau aur a'r byrddau, ond i wrando ar y doctoriaid, a'u gwrth-ddywedyd. Efe, yr Hwn megis Duw a roddasai iddynt eu holl ddoethineb, a wrandawai fel Mab dyn ar y doethineb hwnnw. Yr hwn a eisteddai yn eu calonau, fel awdwr pob dysgeidiaeth a gwybodaeth, a eistedd yn nghanol eu hysgol, megis Disgybl gostyngedig. Fel, trwy wrando arnynt, y dysgai ostyngeiddrwydd i'r ieuainge, ac i ddisgwyl yn barhaus ar eu hathrawon. Gallasai ar unwaith ddysgu dyfnion ddirgeloedd Duw i Rabbiniaid Israel, ond am nas galwasai ei Dad ef etto i'r swydd o Ddysgawdwr cyffredinol, ymfoddlona i wrando yn ddiwyd, ac i holi yn ddirwysg, ac i addysgu trwy led-ddywediadau. Ystyrient hwy hyn, y rhai sydd am redeg mor gynted ag y gallant gerdded, ac a feddyliant pan gaffont gyfleusdra, nad oes achos aros am alwad gan

Dduw na dyn. Agorwch eich llygaid, y rhai a ruthrwch i gadair Duw yn rhy fuan, a gwelwch eich Gwaredwr yn ei ieuengctyd, nid yn eistedd yn ardderchog bwlpudau'r Doctoriaid, ond yn sefyllfa isel y gwrandawyr. Gwelwch ef, a allasai ddysgu angelion yn gwrando yn ei fab-oed ar lais dynion. Pwy all fod ry falch i ddysgu gan henafgwyr, pan wel Fab Duw yn eistedd wrth draed Doctoriaid Israel? Y mae yn gyntaf yn gwrando, ac yna yn holi. Pa faint mwy y dylem ni fod yn ysgolheigion cyn bod yn athrawon? Casgla yr hwn a wrendy: gwasgara yr hwn sy'n dysgu: os ni a wasgarwn cyn casglu, buan y treuliwn y cwbl.

Yn ol gwrando, hola: ac yn ol hynny, atteba. Diau fod ei gwestiynau yn addysgiadau; a bwriedid hwy yn fwy er rhoddi nâ derbyn addysg. Ni chlywodd y Rabbiniaid mawrion hyn erioed lais y fath ddysgawdwr: yn yr hwn y gallent weled doethineb Duw felly yn cuddio ei hun, etto fel y gellid gwybod ei fod yno. Nid rhyfedd, ynte, eu bod oll yn sŷnnu oherwydd ei ddeall a'i attebion. Ni welai eu llygaid ond gwendid dynol, eu clustiau a glywent bethau uchel a dwyfol: rhwng yr hyn a glywent ac a welent, nis gallent lai nag ymderfysgu trwy gymmysgedd o syndod ac anmheuaeth.

A phaham, O ddysgawdwyr Iuddewaidd, na fuasech yn cofio, fod *Bachgen wedi ei eni i ni, a Mab wedi ei roddi i ni, a bod y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef, a gelwid ei enw Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tragwyddoldeb, Tywysog tangnefedd.* Paham na feddyliasech am yr hyn a ragddangosasid i chwi gan y Seren, y Doethion, yr Angelion, y Bugeiliaid, gan Zacharias, Simeon, ac Anna? Diles y syndod na therfyna mewn ffydd. Nid oes unrhyw oleuni yn ddigon lle y mae annghrediniaeth a rhagfarn yn gorchuddio'r llygaid.

Ni ryfeddodd y Doctoriaid fwy clywed y fath bethau dyfnion gan blentyn, na'i rieni wrth ei ganfod yn eu plith. Anhawdd gwybod pa un oedd fwyaf, eu llawenydd am ei gael, neu eu syndod am ei gael yn y fath le.

Yn awr, Mair, (ac nid Joseph, canys gwyddai nad eiddo ef y Plentyn dwyfol hwnnw,) a dorrodd allan mewn edliwiad serchog, *Fy mab, paham y gwnaethost felly â ni?* Fel na ymddangosai yn cymmeryd arni fel Mam drahaus, tebygol nad ofynodd y cwestiwn nes ei gael wrtho ei hun: trwy'r hwn bwriadai fynegi ei thrallod yn hytrach nâ cherydd. Yn hyn yn

unig y troseddodd y Forwyn Fendigedig, sef yn ei diffygo ystyried fod rhyw ddyledswydd, uwch nâ'r sydd ddyledus i gig a gwaed, wedi ei alw oddiwrthi hi yr hon oedd ferch dyn. Ni ddylasai hi, yr hon nid oedd ond Dyndod, feddwl fod gwaith Duw i gael ei esgeuluso er ei mwyn hi.

Wrth natur yr ydym bawb yn mawr garu ein hunain, ac yn sefyll yn fawr ar yr hyn sydd yn ddyledus i ni. Diammau na fynnasai'r Santes enwog hon, er y byd, i'w mab weini iddi o flaen ei Duw: ond hyn a wna yn anystyriol. Ei Mab a'i Gwaredwr a'i cerydda, gan ddiwygio o'i gariad dwyfol Ef, ei chariad naturiol hi. *Paham y ceisiwch fi? Oni wyddoch fod yn rhaid i mi fod yn nghylch y pethau a berthyn i'm Tad?*

Y Forwyn Fendigedig oedd newydd ddywedyd, *Dy dad a minnai yn ofidus a'th geisiasom di:* Ac, yn ol tyb y byd, geilw Joseph yn dad Crist, ac yn ol arfer gwraig ufudd, enwa ei Joseph o'i blaen ei hun. Gwyddai yn dda nad oedd ganddo ddim ond enw yn y gorchwyl hwn: y modd y parchasai Duw hi yn fwy nag Ef: etto dywaid, *dy dad a minnai a'th geisiasom di.*

Nid yw Mab Duw yn dywedyd yn erbyn ei Fam: ond gan arwain ei meddyliau oddiwrth ei dad tybiedig at ei wir Dad, o'r ddaear i'r nef, a ettyb, *oni wyddoch fod yn rhaid i mi fod, &c.* Anrhydedd digonol iddi hi oedd iddo ymostwng i gymmeryd cnawd o honi: ei anrhydedd tragwyddol Ef oedd ei fod yn Dduw o Dduw, tragwyddol Fab y Tad nefol. Yr oedd rheswm digonol am hyny i anrhydedd y cnawd roddi ffordd i Dduw yr ysbrydion.

Mor llwyr y boddlonwyd Mair Sanctaidd â'r fath attebiad addas! Pa fodd yr adnewydda etto yn ei chalon ei hatteb i'r Angel. *Wele wasanaethyddes yr Arglwydd, bydded i mi yn ol dy air di?*

Yr ydym oll yn blant i Dduw mewn ystyr arall. Tybia natur a'r byd y dylem weini iddynt hwy. Nid ydym deilwng i ddywedyd, "Y mae i ni Dad yn y nefoedd," os na fedrwn ddiange oddiwrth y cyfryw derfysgiadau daearol, a defnyddio ein hunain yn ngwasanaeth ein Duw.

BEDYDD CRIST.

Rhagflaenodd Ioan Grist yn mhob ystyriaeth; nid gymmaint o ran amser ei enedigaeth, ag o ran ei swydd. Nid oeddynt anhebyccach yn eu tymmer a'u hymarweddiad, nag y tebygent i'w gilydd yn eu swydd. Y ddau a fedyddiasant ac a bregethasant: yn unig Ioan a fedyddiodd trwyddo ei hun, Iesu trwy ei ddisgyblion. Ein Gwaredwr a wnaeth wrthiau trwyddo ei hun, trwy ei ddisgyblion. Ni wnaeth Ioan y cyfryw trwy un o'r ddau: yn yr hyn y bwriadai Crist amlygu ei hun yn Arglwydd, ac Ioan yn Weinidog: ac amcan Ioan oedd bod yn weinidog ffyddlon i'r Hwn a ragflaenai.

Efe, yr Hwn a lammodd yn nghroth ei Fam, pan ddaeth ei Waredwr, (newydd ei genhedlu,) i'r un man ag ef, a gyffrôdd ei hun, pan ddygwyd ef allan i olwg yr Eglwys, i anrhydeddu ac i wasanaethu ei Iachawdwr. Gwnaeth cyn Crist, yr hyn a orchymynodd Crist i'w ddisgyblion wneud ar ei ol. *Pregethwch a Bedyddiwch.* Yr Efengyl oedd yr un bob amser: megis ei air Ef, yn yr hwn nid oes cyfnewidiad, na chysgod troedigaeth, a'r hwn a ddywaid, *Myfi wyf Jehofah, ac ni'm newidir.*

Addas oedd iddo Ef, yr hwn y rhag-ddywedwyd ei ddyfodiad i'r byd gan brophwydi, Seren, a'r Angel, gael un i fyned o'i flaen, pan oedd am wneud ei hun yn hysbys i'r byd. Ioan oedd lais cyhoeddwr. Crist oedd air ei Dad: iawn oedd i'r llais hwn beri sŵn yn y byd, cyn i Air Duw lefaru wrtho.

Iaith Ioan o hyd oedd *Edifeirwch: y fwyall ar y pren, y wyntyll i'r llawr-dyrnu, yr ûs i'r tân.* Megis yr oedd ei wisg yn arw, felly yr oedd ei dafod: ac os mel gwyllt oedd ei fwyd, ei eiriau oeddynt locustiaid brathlyd. Fel hyn rhaid darparu ffordd i Grist yn mhob calon. Nid yw gweniaith yn gymmwys i ragflaenu ail enedigaeth. Pe parhausai calon dyn yn gywir, gallasai Duw ddyfod heb wrthwynebiad; ond yn awr, rhaid gosod trais ar ein llygredd, cyn y gallom gael lle i ras. Os y Ffordd-wneuthurwr mawr ni fwrw i lawr fryniau, a chodi dyffrynoedd yn mynwesau dynion, ni bydd lle i Grist ddyfod i mewn. Ni ddaw Crist byth i'r enaid hwnnw, yn yr hwn ni bu pregethwr edifeirwch o'i flaen.

Y Gwaredwr hwnnw, yr Hwn, er tragywyddoldeb, oedd guddiedig yn nghyngor Duw, yr hwn a ddaeth yn nghyflawnder yr amser yn y cyfryw fodd, a'i fod yn guddiedig yn mru

ei Fam am ddeugain wythnos, yr Hwn, yn ol ei ddyfod, a dybiodd yn dda aros yn guddiedig yn Nazareth dros ddeg ar hugain o flynyddoedd, yn awr o'r diwedd a ddechreua amlygu ei hun i'r byd, ac a ddaeth o Galilea i'r Iorddonen. Efe, yr Hwn oedd yn wastadol yn Dduw, ac a allasai fod yn berffaith ddyn mewn moment, a ewyllysiodd ymgodi yn raddol i berffeithrwydd ei Ddyndod, a chyflawniad o'i gyfryngdod: i'n dysgu ni mor reidiol yw pwyll mewn pethau ysbrydol—bod yn rhaid disgwyl llawer dydd ac olynoliadau tymhorau a moddion, cyn cyrhaeddyd o honom ein haeddfedrwydd; a phan y byddom aeddfed i orchwylion Duw, y dylem ddyfod allan o'n dirgelrwydd mor ewyllysgar, ag y defnyddiasom ef er cymmwyso ein hunain iddynt.

Efe, yr Hwn a enwaedid gynt a fynnai yn awr gael ei fedyddio. Beth yw bedydd, ond enwaediad efengylaidd? Beth oedd enwaediad, ond bedydd deddfol? Y naill a gymmerai le, ac a ddeuai ar ol y lall; etto, Gosodwr y ddau a aeth dan y ddau. Mynnai ei enwaedu, er sancteiddio ei Eglwys yr hon ydoedd; ond mynnai ei fedyddio, er sancteiddio ei Eglwys a fyddai, fel y gallai agoryd ffordd i'r nef, yn y ddau Destament. Nid oedd ynddo nac aflendid, na blaengroen o lygredigaeth, i alw am na chyllell na dwfr. Ni ddaeth i fod yn Waredwr iddo ei hun, ond i ni; yr ydym ni yn aflendid oll a dienwaediad: mynnai ef, gan hynny, i hynny gael ei wneuthur i'w gorph sancteiddiaf, yr hyn a dycciai i lanhau ein heneidiau aflan: gan ei wneuthur ei hun fel hyn yn bechod drosom, fel y'n gwnaed ni yn gyfiawnder Duw ynddo Ef.

Rhydd ei fedydd Ef rinwedd yn yr eiddo ni. Ei weithred (neu yn hytrach ei oddefiad) olaf oedd ei fedyddiad â gwaed: y gyntaf oedd y cyfryw â dwfr: y ddau a olchant y byd oddiwrth eu pechodau.

Daw Crist o bell i gael ei fedyddio; er ein dysgu ni, er mwyn y rhai y cafodd ei fedyddio, i ddyfod i ordinhadau Duw, ac erfyn am fendithion ysbrydol. Nwyfau diles ydyw y rhai nid ydynt werth ymorol ar eu hol. Anaml y ceir Duw, ond gan y sawl a'i ceisiant. Nis gall y dymuniad hwnnw, a'i gwna'n alluog i dderbyn pethau da, gyd-sefyll âg esgeulusdra.

Nis beiddiai Ioan fedyddio, heb orchymyn. Ei Arglwydd a'i hanfonodd i wneud y gorchwyl; ac, wele yr Arglwydd yn dyfod at ei was, i geisio cyfrannogiad o'r fraint honno, yr hon a ordeiniasai Ef ei hun. Pa mor ewyllysgar y dylem ddyfod at

ein Pennaethiaid ysbrydol, i gyfrannogi o'r dirgeledigaethau hynny, a ymddiriedodd Duw i'w cadwraeth! Ië, gyda pha lawenydd y dylem ddyfod at y Crist hwnnw, yr Hwn a rydd i ni y cyfryw fendithion, ac a roddir i ni ei hun ynddynt.

Ymddangosodd yr anrhydedd hon yn rhy fawr i ostyngeiddrwydd Ioan ei derbyn. Os gallodd ei Fam ddywedyd, pan ddaeth ei chyfnither y Forwyn Sanctaidd i ymweled â hi, *O ba le y mae hyn i mi, fel y delai Mam fy Arglwydd attaf fi?* Pa faint mwy y gallai Ef ddywedyd felly, pan ddaeth Mab Dwyfol y Fam honno i geisio ffafr ar ei law, *Y mae arnaf fi eisiau fy medyddio gennyt ti, ac a ddeui di attaf fi?* O Fedyddiwr duwiol, os tydi yw'r mwyaf a aned o wragedd, etto, nis gallesit gael dy eni o wraig, ac heb fod dan yr angenrheidrwydd o gael dy fedyddio gan y Gwaredwr. Bedyddiodd Ef â thân; tydi â dwfr. Ychydig a dycciai dy ddwfr di, heb ei dân Ef. Pe nas bedyddiasai ef di, pa fodd y'th sancteiddiwyd o'r bru? Nis gall fod un cnawd heb aflendid: nis gallasai dy genhedliad goruwch-naturiol, na'th fuchedd anfoethus dy ryddhau oddiwrth yr angenrheidrwydd o gael dy fedyddio. Ië, hwy, y sawl na fuont byw i bechu yn ol cyffelybiaeth pechod Adda, er hynny a lygrir yn y cyfryw fodd ganddo, fel eu bod yn annobeithiol eu cyflwr, oddigerth i'r Ail Adda eu golchi a'i fedydd Ef.

Nid llai defnydd bedydd nâ'r sicrwydd o'i angen. Ioan a fedyddiodd oddiallan; Crist oddimewn. Po sancteiddiaf ydyw'r dyn, mwyaf oll y teimla ei lygredd. Nis gallasai dyn cnawdol ddywedyd, *Y mae arnaf fi eisiau fy medyddio gennyt ti:* ac nis gall wybod, beth gwell ydyw er ychydig o ddwfr a'r bedyddfaen. Y teimlad o'n trueni, a gwerthfawrogiad o'n cynnorthwyon ysbrydol ydynt y profion goreu o'n hail genhedliad.

Nid yw ein Iachawdwr yn gwadu fod angen ar Ioan am gael ei fedyddio ganddo Ef, ac ei fod yn beth dieithr ei fod Ef yn dyfod i gael ei fedyddio gan Ioan: ond rhynga bodd iddo i'r radd hon dderchafu Ioan a'c iselhau ei hun, fel ag i gymmeryd ei fedyddio gan ei Gennadwr. Efe, yr Hwn a gymmerodd gnawd o'r Wyryf, dygiad i fynu gan ei rieni, cynhaliaeth gan ei greaduriaid, a gymmer fedydd gan Ioan. Mawl ei drugaredd yw ei fod yn ymostwng mor isel ag i fod dan rwymau i'w greaduriaid, y rhai a dderbyniant ganddo ef eu bywyd, a'u gallu i gymmeryd ac i gyfrannu.

Etto, nid parch i Ioan gymmaint ag ufudd-dod i'w Dad, a'i

cymhellodd i ymddarostwng y wêdd hon. *Fel hyn y mae'n weddus i ni gyflawni pob cyfiawnder.* Cynghorion a gosodiadau Duw ydynt gyfiawnder ei hun. Nid oes ar y Mab na'r Gweinidog angen unrhyw ddyben arall, ond adnabyddiaeth o'r arfaethau cyfiawn hynny. Digon hyn i dywys dyn ffyddlon trwy bob anhawsder ac anghyfleusdra; ac ni oddefa unrhyw attebiad na phetrusdra. Ymfoddlona Ioan i dderbyn yr anrhydedd a roddasai ei Waredwr arno, a gweinyddodd fedydd i'r Awdwr o hono. Bedyddiodd eraill er maddeuant pechodau, bedyddia Ef, yn awr, trwy'r Hwn y maddeuir hwynt, i'r bedyddiwr, ac i eraill.

Nid cynt y bedyddiwyd Crist, nag y daeth i fynu o'r dwfr. Nid yw'r elfen o ddefnydd, ond tra'r arferir; yn ol hynny y mae'n gyffredin. Ac nid cynt y tywelltir y dwfr ar ei ben, nad yw'r nef yn cael ei hagor, a'r Ysbryd Glan yn disgyn ar ei ben Ef a fedyddiasid. Nid yw'r nef byth yn gauad pan y gweinyddir ac y derbynir y naill neu'r llall o'r ddau Sacrament mewn modd dyledus: ac nid yw'r nefoedd un amser fel hyn yn ymagor, heb i'r Ysbryd Glan ddyfod i wared. Ond yn awr, pan y mae Duw'r nef yn cael ei fedyddio, ymagora iddo Ef, trwy yr Hwn yr agorir hi i'r ffyddloniaid; a'r Ysbryd sanctaidd hwnnw, yr hwn a ddeilliodd o hono Ef a'r Tad, a una à'r Tad i roddi tystiolaeth synwyrol iddo ef; fel y gallai'r byd weled, y fath awdurdod oedd ganddo yn y nefoedd, sef gyda'r Tad a'r Ysbryd Glan, a disgwyl dim ond yr hyn sydd ddwyfol oddiwrth y cyfryw Gyfryngwr.

MATTHEW III.

CRIST YN CAEL EI DEMTIO.

Nid cynt yr esgynnodd Crist o ddwfr bedydd, nad yw'n myned i dân profedigaeth. Nid cynt y disgyna'r Ysbryd Glan fel colomen ar ei ben, nad yw'n cael ei arwain gan yr Ysbryd i'w demtio. Nid cynt y dywaid Duw, *Hwn yw fy Mab*, nad yw Satan yn dywedyd, *Os Mab Duw wyt ti*, Nis gall na seliau na doniau gras ein cadw rhag rhuthriadau Satan. Gallant wrthsefyll meddyliau pechadurus, nis gallant eu rhwystro: ïe, po mwyaf y mae ein haddunedau cyhoeddus, ac arwyddion o'i ffafr yn ein rhwymo i wasanaethu Duw, mwyaf diwyd a grymus

yw cynddaredd yr un drwg i'n gwrthwynebu. Nid cynt yr awn allan i faes Duw, nad yw'n ymdrechu tynnu ein hofferynau o'n dwylaw, neu i'w troi i'n herbyn.

Y llais o'r nef a gyhoeddodd Grist yn Fab Duw. Y dystiolaeth ddwyfol hon ni ddofodd falais Satan, ond a'i cynddeiriogodd. Yn awr, y Sarph honno a chwydda gan wenwyn tumewnol, a phrysura i ruthro arno Ef, yr hwn a anrhydeddasai Duw o'r nef. O Dduw, paham y disgwyliwn ni ddiangc rhag ymosodiadau yr un drwg, pan na ddiangodd Mab dy gariad? pan y mae gras ei hun yn cynhyrfu gelyniaeth? Yr elyniaeth honno, yr hon a amcanodd daro'r pen, a fydd iddi arbed yr aelod wanaf a phellaf? Arfoga fi, gan hynny, â disgwyliad o'r drwg, yr hwn nis gallaf ei ochelyd. Gwna fy nerth i yn gyfattebol i'w falais ef. Dywaid wrth fy enaid innau hefyd, *Tydi yw fy Mab:* ac yna gwnaed Satan ei waethaf.

Tra y bu ein Iachawdwr mewn cyflwr annghyoedd, nid wyf yn ei ganfod yn cael rhuthro arno: yn awr, pan y daw allan i gyflawni yn ngwydd pawb ei ddwyfol Swydd, defnyddia Satan ei holl rym yn ei erbyn. Fe all ein dirgelrwydd, o bossibl, fod yn heddychol: ond ni ymdrechodd neb erioed gyflawni unrhyw ddaioni cyffredinol, heb gael ei wrthwynebu. Mae'n arwydd fod y gwaith yn sanctaidd, a'r Gweithydd yn ffyddlon, pan y cyfarfyddir â grymus wrthwynebiadau.

Nid oes achos i ni ymgyssuro mewn dim, yn gymmaint ag mewn gwrthwynebiad. Pe na byddem ar lwybrau da, ni chyfarfyddem â rhwystrau. Nid oes achos i Satan aflonyddu ei eiddo ei hun: a hwythau yn dwyn yn mlaen ei waith. Ni ddymuna ddim yn fwy nâ gwneuthur ffyrdd pechod yn esmwyth i ni: ond, pan fyddom yn troi ein traed at sancteiddrwydd, caua i fynu'r ffordd â themtasiynau.

Pwy a all ryfeddu digon wrth ddigywilydd-dra yr Ysbryd dewr hwnnw, yr hwn a feiddiodd ymosod ar Fab y bythfywiol Dduw? A phwy all ryfeddu digon wrth dy addfwynder a'th amynedd, O Waredwr, yr hwn a oddefaist dy demtio? Nid oedd arno brinder o falais a rhyfyg i ymosod arnat: ac nid oeddyt tithau â phrinder gostyngeiddrwydd arnat i oddef ei ymosodiadau. Synwn wrth yr oruchwyliaeth wirfoddol hon o'th eiddo, pe nas gwelwn fel y mae dy gyfranogiad o'n natur yn dy ddarostwng i'r cyflwr hwn. Perthyna o angenrheidrwydd i'r natur ddynol fod yn agored i brofedigaethau. Ni

chymmeraset gnawd, pe buasit yn llwyr fwriadu ymwrthod â'r ffrwyth hwn o'n gwendid.

Pe gallasai diniweidrwydd ddiogelu rhag cynhyrfiadau pechadurus, ni themtiasid yr Adda cyntaf: llawer llai yr ail. Nid yw cyfliwyniad o'r brofedigaeth yn drygu, ond ei llettya. Cynghor drwg yw bai y rhoddwr, nid yr ymwrthodwr. Nis gallwn rwystro llygaid godinebus rhag edrych i mewn trwy'n ffenestri: ond gallwn gau ein drysau i'w rhwystro i ddyfod i mewn. Nid llai da ynom ni yw gwrthsefyll, nâ drwg yn y diafol ein temtio.

O Waredwr gwynfydedig, pa mor ogoneddus i ti, a pha mor ddedwydd i ninnau, yw i ti gael dy demtio? Pe nas temtiasit, pa fodd y buasai i ti orchfygu? Heb ergydion nis gall fod buddugoliaeth. Pa fodd yr eglurhasit dy nerth, pe na chodasai gelyn yn dy erbyn? Yr Adda cyntaf a demtiwyd ac a orchfygwyd; yr ail Adda, er adtalu ac adgyweirio'r codwm hwnnw, a orchfyga trwy gael ei demtio. Yn awr nid oes genym Archoffeiriad, heb fedru cyd-oddef â'n gwendidau, ond a demtiwyd yn mhob peth fel ninnau, etto heb bechod. Pa mor hyderus, ynte, y gallwn fyned at orseddfaingc y gras, fel y caffom drugaredd, ac y caffom ras yn gymmorth cyfamserol! Ië, yr ymladd rhwng y ddau hyn fu er ein mwyn ni! Yn awr canfyddwn trwy frwydr ein Hollalluog ymdrechwr, y fath wrthwynebwr sydd genym: pa fodd yr ymladda, pa fodd i'w wrthwynebu, pa fodd i'w orchfygu. Yn awr y mae, ïe, ein temtasiwn yn rhoddi cyssur i ni, oherwydd ein bod yn gweled po anwylaf y byddom gan Dduw, mwyaf darostyngedig ydym i gael ein profi: ac nid oes achos am i ni ymderfysgu oblegid echryslondeb y drygau, at y rhai y'n cymmellir: yn gymmaint a'n bod yn canfod Mab Duw yn cael ei annog i anffyddiaeth cybudd-dod, eilunaddoliaeth. O'r gogoniant, gan hynny, a ddeillia i ti, a'r lles a dardda i ninnau, oddiwrth i ti gael dy demtio!

Yn mha le, gan hynny, O Iesu Bendigedig, y cefaist dy demtio? neu, i ba le yr aethost i gyfarfod à'n gwrthwynebwr mawr? Ni'th welaf yn cael dy dywys i'r farchnadfa, neu i un rhan o'r ddinas, neu i'th gartref yn Nazareth, ond i'r diffeithwch mawr, preswylfod y creaduriaid rheibus! lle, i'r hwn y perthynai erchylldod a chyfleusdra. Paham yr aethost fel hyn oddiwrth ddynion? Ond, fel yr arfera pen rhyfelwyr i roddi

pob mantais, o ran lle ac arfau, i'w gwrthwynebwyr, fel y byddai yn helaethach ogoniant eu buddugoliaeth; felly, tithau, O Geidwad, yn yr ymdrech â'u gelyn cyffredinol, a roddaist iddo ei ammodau ei hun, o ran amgylchiadau, fel y byddai yn fwy dy ogoniant di, a'i godwm yntau. Y mae unigrwydd yn rhoddi mantais neillduol i brofedigaeth. *Gwae yr unig; canys pan syrthio efe, nid oes ail i'w gyfodi.* Y sawl, dan rith parch i grefydd, a geisiant fod ar eu pennau eu hunain mewn creigiau, ac ogofau'r anialwch, nis gwnant ond rhedeg i safn profedigaeth, tra y meddyliont ei ochelyd. Addas oedd i ti, i allu dwyfol yr Hwn nid oedd pyrth uffern ond gwendid, rhoddi her i Dywysog y tywyllwch fel hyn: Ein gofal a ddylai fod bob amser gochelyd pob achlysur o berygl ysbrydol; ac, (hyd y gallom,) diangc o afael profedigaethau.

Ond O, ddyfnder doethineb Duw! Pa fodd y daethost, O Iesu, i gael dy demtio fel hyn? Yr Ysbryd, yr Hwn a'th genhedlodd fel dyn, a'r Hwn oedd un gyda Thi a'r Tad fel Duw, a'th dywysodd i'r anialwch, i gael dy demtio gan Satan. Tra y dysgaist ni i weddio ar dy Dad, *nac arwain ni i brofedigaeth*, bwriedaist ein dysgu, na ddylem fyned i lwybrau peryglus, oddieithr i'r unrhyw ysbryd ein tywys iddynt. Y mae gennym yr un tywysiad o hyd. Bydded y ffordd yr hyn a fyddo, pa fodd y syrthiwn yn llaw Tad? Gallwn yn awr ddywedyd wrth Satan fel y dywedaist ti wrth Pilat, *Ni byddai i ti ddim awdurdod arnaf fi, oni bai ei fod wedi ei roddi i ti oddi uchod.*

Yr Ysbryd a'th dywysodd; ni'th yrrodd di: wele yma wahoddiad melus, ac nid cymmelliad trwy drais. Yr oedd dy ewyllys mor berffaith gyd-ffurfiol â'th Dduwdod, fel pe na buasai ond un ewyllysiad i'th ddwy anian. Yn y dracht gyntaf hon o'th ddiod chwerw, dywedodd dy enaid mewn gwir ostyngeiddrwydd, *Nid fy ewyllys i, ond dy ewyllys di a wneler.* Tebygolwn i ti, O Waredwr, er na allwn dy gyrhaeddyd yn berffaith. Arweinir dy eiddo oll gan yr Ysbryd: O, dysg ni i annghofio fod genym ewyllys o'n heiddo ein hunain.

Yr Ysbryd a'th dywysodd: ni'th annogwyd gan dy allu anorchfygol i fyned i'r ymdrech hon, heb gael dy alw iddi. Paham y rhyfygwn ni, weiniaid, gymmaint ar ein gallu a'n llwyddiant, ag y meiddiom redeg i brofedigaethau, heb alwedigaeth na gwarant i wneuthur felly? Pwy all ofidio oherwydd llong-ddrylliad y morwyr hynny, y rhai

a ânt i'r dòn, ac a ledant eu hwyliau, mewn tymhestl.

Deugain niwrnod a dreuliodd ein Iachawdwr yn yr anialwch, mewn ympryd ac unigrwydd: treuliodd yr amser hwn oll mewn profedigaethau: ond, er hynny, yr ymosodiadau olaf arno yn unig a enwir, canys hwy oedd y rhai mwyaf eu grym. Yn awr, nis gallasai'r Gwrthwynebwr gwyno oherwydd anfantais, tra yr oedd ganddo bob cyfle, o ran amser a sefyllfa, i wneuthur ei eithaf.

A phaham y rhyngodd bodd i ti, O Waredwr, i ymprydio yr holl amser hwn, ond megis yr ymprydiodd Moses ddeugain niwrnod pan draddodwyd y Gyfraith, ac Elias pan adferwyd hi, y tybiaist dithau yn addas yn nghyflawniad y Gyfraith, a chyhoeddiad yr Efengyl, gyflawni amser y ddau gysgod hyn o honot: yn yr hyn amcenit beri syndod ynom, ac nid ymdrech i'th ddilyn: o leiaf nid o ran amser, ond o ran y weithred.

Nid oedd nwydau cnawdol beius ynot ti, i gael eu dofi: nid oedd modd i ti ddymuno esgyniad enaid rhwyddach a hawddach at Dduw, yr hwn oeddyt berffaith un âg ef. Ond, fel y dyoddefit angau drosom ni, felly ympryd, fel y byddai i ni gael ein parottoi trwy ympryd i brofedigaethau. Wrth y fath faith ympryd, bwriedit amlygu dy allu: wrth beidio ag ymprydio yn hwy, wiredd dy ddynoliaeth. Ymprydiodd Moses ac Elias dros yr un amser, trwy wyrthiol gynnaliad Duw, heb i neb ammau fod ganddynt wir gyrph: rhyngodd bodd i tithau, gan hynny, ymprydio dros yr un yspaid o amser, fel yn ol yr esamplau hyn, na anmheuai neb dy ddyndod, yr hwn, pe gwelset yn dda ei gynnal, megis ag y gallesit, heb foddion, gallasai hyd yn oed dy allu agor geneuau gwrthddadleuwyr, yn erbyn gwirionedd dy anian ddynol. Fel y gallet, gan hynny, brofi yn ddigonol dy fod fel ninnau, ond o ran pechod, Tydi, yr hwn a allesit ymprydio heb newynu, a byw heb ymborth, a fwytteaist, a ymprydiaist, ac a newynaist.

Pwy all gael ei ddigaloni oherwydd anamledd cyfeillion, neu brinder cynnaliaeth corphorol, pan genfydd ei Waredwr mor hir yn amddifad o bob cyssur daearol, mewn perthynas i gymdeithasgarwch a chynnaliaeth.

O, gyfrwysed yw yr Hen Sarph honno! O, gymmaint ei malais! Pan genfydd Crist yn dangos rhyw wendid natur yn ei newyn, yna yr ymosoda arno fwyaf â'i brofedigaeth. Ni thynnodd ei

lygad oddiar ein Gwaredwr holl amser ei unigrwydd: ac yn awr, am y tybia fod cyfle gwych i ymosod arno, cymmer fantais arno â'i holl egni. Y mae ein Gwrthwynebwr mor alluog ag yw faleisus, yr hwn fydd sicr o wylio am bob cyfleusdra i'n niweidio, ac ni esgeulusa un mantais a rydd ein gwendid iddo. O, fel y dylem sefyll ar ein gwyliadwriaeth er ei rwystro; fel na roddom iddo gyfle i'n drygu, na chael ein drygu trwy y cyfle a gaiff.

Pan oedd ein Hiachawdwr yn newynu, Satan a'i temtia mewn perthynas i ymborth: nid y pryd hyn â chyfoeth a gogoniant. Gŵyr yn dda am yr abwyd i'w ddefnyddio, pa bryd a pha fodd i'w osod. O, mor ddedwydd a diogel fyddwn, os ni a ddefnyddiwn ein gofal penaf, lle y canfyddwn y perygl mwyaf!

Y mae pob profedigaeth â rhyw beth da yn ymddangos ynddi; naill ai o ran y corph, neu'r meddwl, neu'r ystad. Y cyntaf ydyw *chwant y cnawd*, mewn unrhyw ddymuniad cnawdol: yr ail *balchder* calon a *bywyd:* y trydydd, *chwant y llygaid.*

Temtiwyd yr Adda cyntaf i rhai'n oll, a syrthiodd yn mhob un o honynt: yr ail Adda a demtir iddynt hefyd, ac y mae yn gorchfygu. Y dyn cyntaf a demtiwyd i chwant neu flys cnawdol, trwy y ffrwyth gwaharddedig: i falchder, trwy glywed y byddai megis Duw: i gybudd-dod, trwy ddymuniad trachwantus i wybod da a drwg. Satan, yn ol llwyddo mor llwyr yn y cwbl gyda'r Adda cyntaf, yn ei ystad o ddiniweidrwydd, a ddilyna'r un llwybrau wrth demtio'r Ail. Rhaid i'r cerrig gael eu gwneud yn fara; dyna'r demtasiwn i chwant y cnawd: rhaid rhyfygu ar wasanaeth ac amddiffyniad angelion; dyna'r demtasiwn i falchder: rhaid i deyrnasoedd y ddaear a'u gogoniant gael eu cynnyg; dyna hi i gybudd-dod a thrachwant.

Nis gallasai Satan lai nâ chlywed Duw yn dywedyd, *Hwn yw fy anwyl Fab.* Clywodd gennadwri a charol yr angelion: gwelodd y Seren, a thaith, ac offrymau'r Doethion. Nis gallasai lai nâ sylwi ar gyfarchiadau Zacharias, Simeon, ac Anna: Gwyddai yn dda am ragddywediadau'r prophwydi: etto, yn awr, pan welodd Grist yn llewygu gan newyn, fel un yn methu dirnad pa fodd y gallai gwendidau gydsefyll â Duwdod, gall ddywedyd, *Os Mab Duw wyt ti.* Pe nas gwybuasai Satan fod Mab Duw i ddyfod i'r byd, ni fuasai byth yn dywedyd, *Os Mab Duw wyt ti.* Y mae, ïe, ei dybiad yn ei argyhoeddi. Y mae sylwedd ei brofedigaeth yn ei atteb ei hun. Os ymddangosodd

Crist, gan hynny, yn ddyn yn unig, am newynu o hono ar ol deugain niwrnod, paham na's addefid yn fwy nâ dyn, yn y deugain niwrnod hynny na newynodd ynddynt?

Dyben y brofedigaeth sydd waeth na'r brofedigaeth ei hun. *Os Mab Duw wyt ti.* Nis gallasai ymdrechu peri anmheuaeth ar unrhyw fatter arall o gymmaint bwys. Holl waith ein pryn-edigaeth a'n hiachawdwriaeth a orphwysa ar y gwirionedd hwn yn unig—Crist yw Mab Duw. Pa fodd amgen y gallasai wa-redu'r byd; y gallasai wneuthur, y gallasai ddioddef, yr hyn a foddlonai lid ei Dad; y gallasai ei weithredoedd a'i ddioddef-iadau fod o werth gyda golwg ar bechod yr holl fyd? Pa ryfedd, os ni, y rhai ydym blant trwy fabwys, a flinir âg an-mheuon mewn perthynas i'n hawl yn Nuw, pan y temtir fel hyn ei Fab naturiol, ei Fab hanffodad? Am fod ein holl gyssur yn gynnwysedig yn hyn, rhaid gosod yr holl fangnelau yn ei erbyn; ac yma rhaid i ninnau osod ein hamddiffynfa gadarnaf.

Ni fuasai troi cerrig yn fara yn feius ynddo ei hun, mwy nâ throi dwfr yn wîn; ond gwneuthur hyn o anymddiried yn rhag-luniaeth ei Dad, camddefnyddio ei allu a'i rydd-did wrth ei wneu-thur, gwneuthur gwyrth o ddewisiad y diafol, oedd ffiaidd yn ngolwg Mab Duw.

Ni wna ein gelyn ysbrydol un peth yn fwy cyffredinol, na'n cynhyrfu i ddefnyddio moddion anghyfreithlon, er diwallu ein hangen. Yr ydwyt yn dlawd; lladratta: nis gelli ymgodi trwy foddion gonest; defnyddia y rhai nad ydynt felly.

Mor hawdded a fuasai i'n Gwaredwr ddymchwelyd Satan trwy rym ei Dduwdod! Ond gwel yn dda yn hytrach ei orch-fygu trwy gleddyf yr Ysbryd, er ein dysgu pa fodd i wrthsefyll, a buddugoliaethu ar, alluoedd y tywyllwch. Pe gorchfygasai ef trwy Hollalluogrwydd ei Dduwdod, cawsem yr hyn a barasai syndod ynom, ond nid efelychiad; ond yn awr defnyddia'r offeryn hwnnw, yr hwn a allwn fod yn gyfarwydd âg ef, i ddangos pa fodd y gallwn lwyddo, er cymmaint ein gwendid.

Nid oes yn nef na daear a orchfyga luoedd uffern, ond gair Duw. Gyda pha ofal ynte y dylem arfogu ein hunain âg ef! Oni ddylai ein calon a'n genau fod yn llawn o hono? *Dysg i mi, O Arglwydd, ffordd dy ddeddfau. Na ddwg dithau air y gwirionedd o'm genau yn llwyr. Bydded dy ddeddfau yn gân i mi yn nhŷ fy mhererindod.*

Paham oedd raid i Grist roddi unrhyw atteb i Satan, ond

i'n dysgu, nad yw temtasiynau i gael eu llwybr, ond i'w gwrthsefyll, a hynny trwy'r gair?

Ni chlywaf y Gwaredwr yn galw ei hun yn Dduw, yn erbyn iaith anmheus a chableddus Satan; ac nis gwelaf ef yn gwneuthur y cerrig yn fara, er profi ei fod yn Fab Duw; ond, yn ei ddoethineb mawr, cymmer ymaith sylfaen y brofedigaeth. Cymmerasai Satan yn ganniattaol nas gellir cynnal dyn heb fara; gan hynny, casgla fod yn rheidiol gwneud bara o gerrig. Dengys y Gwaredwr iddo, allan o'r gair anffaeledig, ei fod wedi cam-seilio ei brofedigaeth; nad yw dyn *yn byw* trwy ymborth cyffredinol yn unig, eithr *trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw.* Gall Ef gynnal heb fara, megis y cynnaliodd Moses ac Elias, neu â bara gwyrthiol, megis Israel â Manna; neu anfon ymborth cyffredinol yn wrthiol, megis bara a chîg i'w brophwyd trwy'r cigfrain; neu gall yn wyrthiol liosogi ymborth cyffredin megis blawd ac olew Gweddw Sarephath. Cynnelir pob peth trwy ei air holl nerthol Ef.

Yr ydym ni yn wir yn bwy trwy ymborth, ond nid trwy unrhyw rinwedd sydd ynddo, ond a ddeillia oddiwrth Dduw, heb Ragluniaeth gyd-fynedol yr Hwn, tagai bara ni yn hytrach nâ'n meithrin. Pe cymmerai Duw ei law oddiwrth ei greaduriaid, darfyddem yn nghanol ein llawnder. Paham gan hynny y gosodwn ein llygaid ar y moddion, heb olygu'r llaw a rydd y fendith? Pa gyssylltiad angenrheidiol sydd rhwng y fendith a'r ymborth, os na unir hwy gan ein gweddiau? Megis na ddylem esgeuluso'r moddion, felly ni ddylem esgeuluso ceisio bendith arnynt; na bod yn anniolchgar i'r llaw a gyfrannodd y fendith.

Yn ei ruthr cyntaf, ymegnia Satan i ddwyn Crist i ammau Rhagluniaeth ei Dad, ac i fyned i lwybr anghyfreithlon i'w gynnorthwyo ei hun: yn y nesaf, cymmella Ef i ryfygu ar amddiffyniad ei Dad, a gwasanaeth ei Angelion bendigedig. Sylfaenai un ar brinder, y llall ar lawnder. Os â i'r eithafoedd o un ochor, yr un yw ei ddyben, sef tywys i ddrygioni. Os na all ein gyrru i lawr i anobaith, ymdrecha'n codi i fynu i ryfyg. Nid un dymchweliad a ddigalonna'r ysbryd cawraidd hwn. Profedigaethau, megis tonnau, a ddeuant y naill ar wddf y llall. Tra yr ydym yn y frwydr hon, rhaid i ni olygu gwrthsafiad un profedigaeth, megis gwahoddiad i un arall.

Ein Bendigaid Geidwad, yr hwn a fu foddlon i gael ei dywys

o'r Iorddonen i'r anialwch, er rhoddi i'r brofedigaeth gyntaf bob mantais yn ei erbyn, a gymmer ei arwain o'r anialwch i Jerusalem, er gwneud yr ail yn debyg iddi. Nid ychydig yw effaith y lle ar y weithred. Addas oedd yr anialwch i brofedigaeth, grym yr hon a darddai o brinder; nid addas oedd i brofedigaeth i wag-ogoniant: y ddinas boblogaidd oedd addasaf i hon. Jerusalem oedd gogoniant y byd: y Deml oedd gogoniant Jerusalem; y pinnacl y rhan fwyaf uchel o'r Deml: yna y goddefa Crist gael ei osod, er mantais ei demtiwr.

O, Iachawdwr dynion, pa fodd y synnwn ddigon wrth dy ymostyngiad, i ti iselhau dy hun, fel ag i ganiattau i'th gorph pur a sanctaidd gael ei drosglwyddo, yn rhyfygus a maleisus ddwylaw yr Ysbryd aflan hwnnw! Nid ei rym ef, ond dy oddefgarwch di, a ddylai genhedlu ein syndod.

Nis gall hyn ychwaith ymddangos yn dra dieithr in', pan feddyliom, os Satan yw pen dynion drygionus, mai ei aelodau ef ydynt hwythau. Beth oedd Pilat, a'r Iuddewon a'th erlidiasant, er mor ddiniwed oeddit, ond aelodau'r diafol hwn? A phaham ynte y rhyfeddwn wrth ganfod y pen yn cyffwrdd â thi, ac yn dy drosglwyddo, pan welom di yn rhoddi dy hun i gael dy groeshoelio gan yr aelodau? Os gwnaeth Satan yr hyn oedd fwyaf a gwaethaf trwy eu dwylaw hwy, nid rhyfedd os gwna'r lleiaf a'r hawddaf â'i ddwylaw ei hun: etto, nis gallasai na'r mwyaf na'r lleiaf gael ei wneuthur heb dy ewyllys dy hun. Nis gallasai'r diafol edrych arnat heb dy gymmorth.

Ac os goddefodd Mab Duw i'w gorph sanctaidd gwerthfawr gael ei drosglwyddo fel hyn gan Satan, pa ryfeddod, os y gelyn hwnnw weithiau a dderbyn awdurdod ar gyrph pechadurus mabwysiadol blant Duw? Nis gall grym ffydd ein diogelu rhag trais allanol yr un drwg hwnnw. Y canlynol yw'r gwahaniaeth rhwng ei ymosodiadau ysbrydol a chorphorol: y rhai ysprydol a wrthsefir â tharian ffydd, ond nid y lleill. Megis y gall y duwiolaf fod yn gloff, yn ddall, ac afiachus: felly, trwy ganiattad Duw, gall gael ei ofidio o ran ei gorph gan yr hen leiddiad dyn. Ni roddir gras i fod yn darian yn erbyn cystuddiau allanol.

Tybiaf fy mod yn canfod Crist wedi ei dderchafu ar binnaclau y Deml: cronglwyd yr hwn nid oedd lai na chwech ugain cufudd o uchder; a Satan yn sefyll yn ei yml, a'i araeth yn ei enau! "Wel, ynte, gan yr hyderi ar Ragluniaeth dy Dad, o

ran dy gynhaliaeth, gan gredu y gall dy gynnal heb foddion: profa'r cyfryw Ragluniaeth yn mhellach yn dy wyrthiol gadwraeth. Bwrw dy hun i lawr o'r uchder hwn. Gwel dy fod yma yn Jerusalem, enwog a sanctaidd Ddinas y byd. Yr wyt yma ar ben pinnacl y Deml, yr hon a gyssegrwyd i'th Dad: ac, os Tydi wyt Dduw, i ti dy hun hefyd. Y mae llygaid pawb yn awr arnat. Nis gellir dyfeisio unrhyw ffordd well i ledaenu dy ogoniant, ac i gyhoeddu dy Dduwdod, nâ thrwy dy fwrw dy hun yn bendramwnwgl i'r llawr. Dywaid yr holl fyd dy fod yn rhyw beth mwy na dyn. Ac nis gall fod perygl. Beth a all ei ddrygu Ef, yr hwn sydd Fab Duw? Ac i ba ddyben y mae'r ogoneddus warchawd-lu yna o angelion, y rhai, trwy gommissiwn o'r nef, a gymmerasant arnynt ddiogelu dy ddyndod? Yn gymmaint, gan hynny, ag y gelli trwy un weithred, fod yn ddiogel a godidog, hydera yn dy Dad, a'r ysprydion hynny a'th wasanaethant, am sicr gadwraeth; *bwrw dy hun i lawr.*"

A phaham, Ysbryd maleisus, nad ymdrechaist fwrw i lawr fy Ngwaredwr, â'r dwylaw rhyfygus hynny a'i derchafasant, gan fod bwrw i lawr yn hawddach na chodi i fynu? Ai oherwydd na fuasai mor fanteisiol it', iddo syrthio trwot ti, a thrwyddo ei hun? Buasai syrthio i bechod yn waeth na syrthio o'r pinnacl. Hyd heddyw, dy ofal a'th gais yw peri i ni ddrygu ein hunain. Ni elwi ddim trwy niweidio ein corph, os bydd yr enaid yn ddiogel; neu onid yr achos, yn hytrach, oedd nas gallesit? Nid wyf yn ammau na fuasai dy falais yn cynnyg y driniaeth hon iddo Ef, ac i'w Apostol yn fuan wedi'n; ond Ef yr hwn a roddodd derfyn i'th allu, a rydd i ti fyrrach rhaff. Nis gallesit, ac nis gelli, wneuthur a fynnech. Yr hwn a ganiattaodd it' ei dderchafu a'th analluoga i'w fwrw i lawr. Gwae i ni pe na fyddet o hyd wrth y gadwyn.

Paham y derchafodd Satan Grist mor uchel, ond i wneuthur ei godwm yn fwy marwol? Felly yr ymddyga tu ag attom ni. Derchafa ni, fel y'n teflir i lawr mewn perygl: llenwa ddynion â meddyliau chwyddedig o'u teilyngdod eu hunain, fel y byddont wael yn ngolwg Duw, ac y syrthiont i ddamnedigaeth. Arfer Duw yw bwrw i lawr fel y derchafo; darostwng fel y codo i fynu: i'r gwrthwyneb, Satan a gyfyd i fynu i'r dyben o daflu i lawr; ac ni fwriada ond ein cwymp yn ein derchafiad.

Uchder sefyllfa sydd fanteisiol i brofedigaeth. Cyfryw yw diwydrwydd yr Un Drwg, yn ei ymdrechion yn erbyn aelodau

Crist. Os oes rhai o honynt yn uwch nag eraill, ymegnia i ddinystrio'r cyfryw rai. Y mae achos gan y sawl a safant yn uchel, sefyll yn ddiysgog. Y maent mewn mwy perygl o syrthio, ac o fwy o niweid os syrthiant.

Yr hwn a ryfygodd demtio Arglwydd y Bywyd mor belled a hyn, a fynnai yn awr ei ddenu i ryfygu ar ei Dduwdod. *Os Mab Duw wyt ti, bwrw dy hun i lawr.*

Ni arfera un saeth yn ei holl gawell yn amlach nâ hon—sef perswadio dynion i ryfygu ar ffafr Duw. "Yr wyt wedi dy ethol a'th waredu gan Dduw: pecha, canys amlhaodd gras: pecha, fel yr amlhao. Wyt ddiogel ddigon, os tramgwyddi. Na wrthsafa yn ormodol dy rydd-did dy hun." Gau Ysbryd! nid rhydd-did yw pechu, ond caethiwed; y mae rydd-did; a gwaredigaeth rhag pechod yw. Rhaid i bob un o honom, ag y mae ganddo obaith meibion, *buro ei hun megis ag y mae Ef a'n gwaredodd ni yn bur. Er gwerth y prynwyd ni: am hynny, rhaid i ni ogoneddu Duw yn ein corph, ac yn ein hyspryd, y rhai ydynt eiddo Duw.* Ein mabwysiad a ddysga i ni ofn ac ufudd-dod; ac am hynny, am ein bod yn feibion, nis bwriwn ein huuain i lawr i bechod.

O mor wag yw Satan a dynion drwg, yn eu gwaith yn mesur Duw â llinell gam eu gau ddyfais eu hunain! Tebygaf nas gall Crist fod yn Fab Duw, oddieithr iddo fwrw ei hun i lawr o'r pinnacl: oddieithr iddo ddisgyn oddiar y groes. Nid yw Duw yn drugarog, os na pharcha hwynt yn eu holl ddymuniadau; nid yw gyfiawn, os na ddialedda ar frys, yn ol eu gofyniad hwy. Ond er gwastraffu eu ffolineb ar y gwag ddychymygion hyn, Crist sydd Fab Duw, er aros o hono ar binnacl y deml: Bydd Duw yn drugarog, er y dichon ein bod ni yn methu: yn gyfiawn, er fod pechaduriaid yn ymddangos yn benrydd; ac ni fydd ond yr hyn ydyw, ac ni chymmer ei fesur âg un rheol ond ei hun.

Ond beth a welaf? Satan ei hun, â Bibl dan ei fraich, ac adnod allan o hono yn ei eneu! *Ysgrifenwyd, y rhydd efe orchymyn i'w angelion am danat.* O fel y mae cyfrwysdra hyd heddyw yn preswyllio gyda rhyfyg yn yr Un Drwg hwnnw! Pwy allai lai na synnu yn ormodol wrth hyn, pe nad ystyriai, yn gymmaint a chyffwrdd o'r Diafol a Christ â'i law, y gall gyffwrdd hefyd â'r ysgrythyrau â'i dafod? Na ryfedded neb rhagllaw glywed Hereticiaid a rhagrithwyr yn dyfnnodi yr

Ysgrythyrau, pan y mae Satan ei hun yn gwneuthur felly. Beth waeth ydynt er hyn, mwy na'r corph sanctaidd a drosglwyddwyd ganddo? Rhai a wenwynwyd gan eu bwyd a'u diod; etto, y rhain, os dim, a'u meithrinant.

Nid llythyren yr Ysgrythyr yw'r peth, ond ei hystyr. Os gwahanwn y naill oddiwrth y llall, halogwn a chamddefnyddiwn y gair.

Ac i ba ddyben y traetha'r Ysbryd aflan hwn adnod o'r ysgrythyr, ond er mwyn efelychiad, rhagflaeniad, a llwyddiant? Traethasai Crist ysgrythyr wrtho ef; traetha yntau ysgrythyr yn ol. Ffugia o leiaf debygoliad i Fab Duw. Ac nid yn hyn yn unig y gwna felly; pa weithreda gyflawnodd llaw Duw erioed, yr hon nid ymdrecha ef ei dynwared? Os dilynwn Grist yn y weithred allanol, gyda dyben croes iddo, dilynwn Satan wrth ddilyn Crist. Neu, fe ddichon, fod Satan yn amcanu peri i'r Iesu flino ar yr offeryn hwn; megis y canfyddwn arferion *(fashions)* yn cael eu taflu heibio gan y mawrion, pan y cymmerir hwy i fynu gan y rhai gwael. Diau mai un achos paham y gwaharddodd Crist i Satan, yn ol hyn, gymmaint a chyffesu'r gwirionedd oedd, am fod ei enau yn enllibus. Ond gwna Satan hyn yn bennaf er rhoddi gwell lliw ar ei brofedigaeth. Gwisga'r fettel gau hon âg ysgrythyr, fel y passiai megis arian cymmeradwy. Y mae ef hyd heddyw yn ymrithio fel Angel y goleuni, ac ymddengys yn dduwiol er peri drygioni. Os gwna ragrithwyr ymddangosiad teg, er twyllo trwy ogoneddus lewyrch sancteiddrwydd, gwelwch o ba le y benthyciant ef.

O'r miloedd o eneidiau a fradychir trwy gamddefnyddiad o'r gair hwnnw, iawn ddefnyddiad o'r hwn sydd achubol! Nid oes diafol mor enbydus a diafol crefyddol. Os ymborth iachus a dry yn fagwraeth i afiechyd yn lle i natur, nid ydym o ran hynny i'w roddi heibio; ond ymdrechu cael allan o'r corph yr hylif afiach hwnnw, yr hwn syn peri i'r cylla weithredu yn ei erbyn ei hun. O Dduw, yr hwn a roddi i'n oleuni, rho hefyd olygon eglur a grymmus, fel yr ymgyssurom yn y goleuni a gyfrennaist i ni. Dy air sydd sanctaidd, gwna ein calonnau felly: ac yna profant dy air nid yn fwy gwirioneddol na diddanus. Na fydded i'r ford ddwyfol hon fod yn fagl i'n heneidiau.

Beth sydd well na llefaru Ysgrythyr? Syndod fyddai, pe gallai Satan wneud yr hyn sydd dda mewn ffordd dda. Dyfnoda'r Ysgrythyr, ynte, ond yn anmherffaith a chyda gwyrdroad. Ni

ddaw o'i enau eithr wedi ei chloffi, a'i gwyr-gammu. Gadewir allan un rhan, yr oll a gam-gymmwysir. Y sawl a wyrdroant ac a ddrylliant yr ysgrythyr i'w dybenion eu hunain, hawdd dirnad yr ysgol y perthyna'r cyfryw iddi. Cymmerwn y gair o enau ei Awdwr, ac nid o enau ei gau-ddefnyddiwr. Nid anmheuasai Dafydd fwytta'r ddafad a dynnasai Ef o safn yr arth neu'r llew.

Rhydd efe orchymyn i'w Angelion am danat. O, sirchad cyssurus o'n diogelwch! Nid yw plant Duw un amser heb weinyddwyr gyda hwynt. Rhodiwn, bob amser, fel tywysogion mawrion yn nghanol ein diffyn-gôr: anweledig, yn wir, etto ffyddlon, gofalus, a galluog. Pa greaduriaid mor ddisglaer ag angelion nef? Er hynny, eu Crewr a'u gosododd yn wasanaethwyr i ni. Ein mabwysiad a'n gwna ar unwaith yn fawrion a diogel. Gallwn fod yn ddirmygus a gwael yn ngolwg y byd: ond angelion Duw a sylwant arnom, ac ni thybiant ef yn rhy wael i weini arnom, yn ein hachosion cyffredinolaf. Gallwn gadw'r haul neu oleuni allan o'n tŷau, nis gallwn wneuthur felly â'r awyr: llawer llai â'r ysbrydion hynny, y rhai ydynt fwy cyfansawdd ac annghorphorol. Nis gall na drysau na chloion eu cadw oddiwrthym. Y maent gyda ni yn y carcharau, ânt gyda ni i alltudiaeth. Pa fodd y cwynwn rhag ofn neu unigrwydd, tra y mae gennym gymdeithion mor anwahanedig, mor ogoneddus?

A ydyw ein Iachawdwr yn colli ei flas ar yr ysgrythyr, am fod y diafol yn ei chamosod ar ei ddysgl? Onid yw yn hytrach yn cipio y cleddyf hwn allan o'r llaw anmhur honno, ac yn curo Satan â'r arf a gamddefnyddiasai? *Ysgrifenwyd, na themtia yr Arglwydd dy Dduw.*

Un yw'r ysgrythyr megis ei Hawdwr. Lle y mae anhawsderau yn ymddangos ynddi, nis gofyn am oleuni, ond ei heiddo ei hun, er eu heglurhau. Pob anmheuon a gyfodant oddiwrthi, a symmudir trwy gydmaru ei dywediadau â'u gilydd.

Gwir yw fod Duw yn gofalu ac yn gorchymyn fel hyn gyda golwg ar ei bobl: myn eu cadw, nid yn eu pechodau: caniatteir iddynt hyderu ynddo, ac nid ei demtio: y mae'n ewyllysio attegu eu ffydd, ond nid eu rhyfyg. Taflu ein hunain ar unrhyw Ragluniaeth ddigyfrwng, tra y mae moddion yn ein meddiant, hyn sydd anufudd-dod, ac nid crediniaeth yn Nuw. Gallwn alw ar Dduw i gyflawni ei air, ond nid i fyned y tu hwnt

iddo: gallwn fod yn sicr o'i addewidion, ond nis gallwn eu profi mewn modd annghyfiawn, a gwneuthur prawf o'i allu, o'i gyfiawnder, a'i drugaredd, yn ol ein hamcanion ein hunain, pan nad oes angen am hynny.

Nis gallasai holl ddiafliaid uffern ddiangc rhag grym yr atteb dwyfol hwn: ac yn awr Satan a wel mor ddieffaith y temtia Grist i demtio Duw.

Er hynny, gwelaf ef etto yn ymosod ar Fab Duw. Ni lwyr ddymchwelir Satan pan y gwrthsefir ef. Nis gall ddenu Crist i anhyderu nac i ryfygu. Temtir Ef âg anrhydedd. Ymladdwr medrus, a rydd sialens ar bob offeryn: felly y gwna'r gelyn mawr hwn. Ofer ein medrusrwydd â rhai o'r cyfryw, os ydym anfedrus o ran y lleill. Ein doethineb yw ymbarrottoi i bob matho ymosodiadau: megis y diogela amddiffynwyr trefydd a chaerau eu hunain nid yn unig rhag rhuthriadau, ond hefyd yn erbyn mangnelau a'r cad-gloddwyr.

Y mae'r Sarph gyfrwys honno o hyd yn myned draw ac yma dros ei thir, er cael mantais. Nid yw'r deml yn ddigon uchel i'w brofedigaeth nesaf: gan hynny cymmerth Grist i fynydd tra uchel. Pob gelyn mewn brwydr ar faes a ymdrecha am y fantais a dardda o fynydd, neu afon, neu o'r gwynt neu'r haul. Yr hyn a wnaeth ei was Balac, trwy ei gymmelliad, ef a'i gwna ei hun yn awr yn ddigyfrwng: newidia sefyllfa, mewn gobaith o lwyddo. Os y wlad anenwog ni'n cynhyrfa, gwel beth a all y llŷs ei wneuthur: os ein cartref a fetha, defnyddia'r tafarndŷ: os y maes ni lwydda, myn weled beth a wna'r ystafell. Megis y mae ei falais yn ei gymmell i ddefnyddio pob lle, felly rhaid i ninnau edrych rhag gwneuthur un lle yn niweidiol i ni trwy ein diofalwch; ac megis y dylem wylio arnom ein hunain yn wastadol, felly yn bennaf, pan y mae'n debyg ein bod mewn perygl oherwydd cyfleusdra.

Paham y cymmerir Crist i fynu mor uchel, ond er mwyn helaeth ganfodiad? Pe buasai teyrnasoedd y byd a'u gogoniant i gael eu gosod ger bron ei ddychymyg yn unig, buasai'r dyffryn yn gwneud y tro: os ger bron y synwyr allanol, ni attebasai un mynydd y dyben. Cyrph crynion, er yn fychain, nis gellir eu canfod ar unwaith. Yr ymddangosiad hwn a wnawd i'r ddau; y gwahanol deyrnasoedd o amgylch Judea a gyflwynwyd i'r llygad; eu gogoniant i'r dychymyg. Meddyliodd Satan y gallai'r llygad demtio'r dychymyg, ddim llai nag y temtia'r

dychymyg yr ewyllys. O'r miloedd o eneidiau a fuont feirw trwy glwyf y llygad! Os na fydd i ni adael i bechod ddyfod i mewn trwy ffenestr y llygad, neu ddrws y glust, nis gall gael mynediad i'n calonau.

Os oes unrhyw rwysg, mawredd, pleser, gorwychder, yn y byd, pa le y byddant, ond yn llysoedd tywysogion; y rhai a wnaeth Duw yn ddelwau o hono ei hun, ei raglawiaid ar y ddaear? Yno y mae dillad esmwyth, gwleddoedd goludog, gemmau disglaer, gweinyddwyr anrhydeddus, gorfoledd gogoneddus, rhodres brenhinol: y rhai hyn a arddangosir i'r fantais fwyaf. Ond O, gyfrwysdra yr Hen Sarph! Llawer gofid sydd yn nglyn â mawredd. Nid oes un coron heb ddrain ynddi. Eisteddfaoedd uchel sydd bob amser yn anesmwyth. Cuddia o'r golwg yr anfoddlonrwydd difesur, yr hwn sy 'nglyn megis cysgod â mawrhydi daearol: nis goddefa i gael ei weled ond yr hyn sydd hyfryd a dengar. Y mae Satan bob amser yn debyg iddo ei hun. Pe gellid troi temtasiynau oddiamgylch, fel y gwelid o bob tu, ni fyddai teyrnas y tywyllwch mor boblogaidd. Yn awr pryd bynnag yr ymosoda'r Hudwr ar ryw bechadur gwael, colyn cydwybod, llid, barn, ac arteithiau nis cânt ddyfod i'r golwg: ni chaiff dim ymddangos i'r llygad ond mwyniant, elw, a'r ffug ddedwyddwch yn y mwynhad o'n chwantau. Y gwrthddrychau echryslon eraill a gedwir hyd y diwedd; fel y gwelom ac y teimlom ein trueni ar unwaith. Pan elom unwaith yn ddiofn, y mae Satan yn ormesdeyrn: hyd hynny, gwenieithiwr ydyw. Nis gallwn fod yn ddiberygl, oni edrychwn ar gefn yn gystal a wyneb y brofedigaeth.

Ond wele ryfyg a digywilydd-dra y dylai uffern ei hun wrido o'u hachos. Beiddia'r diafol ddywedyd wrth Grist, *Hyn oll a roddaf i ti, os syrthi i lawr a'm haddoli i.* Yr ysbryd tlawd hwnnw, yr hwn nid oes ganddo fodfedd o ddaear, a gynnyg yr holl fyd i'w Wneuthurwr a'i Feddiannydd. Mynnai caethwas Duw gael ei addoli gan ei Greawdwr. Pa fodd y gallwn ddisgwyl na fydd helaeth mewn gau ymffrost, ac addewidion afresymol wrthym ni, pan y beiddia gynnyg teyrnasoedd iddo Ef, trwy'r Hwn y teyrnasa brenhinoedd.

Profedigaethau ar y llaw ddehau yw'r enbyttaf. Llawer a doddasant o flaen anrhydedd, y rhai ni wnaeth ofn ond eu caledu. Diogel yw'r enaid yr hwn ni neidia at y bach aur.

Celwyddwyr a gwag-ymffrostwyr a ganfyddant pwy yw

gwreiddyn eu hiliogaeth. Os na allaf yn hytrach ddywedyd, fod Satan yn benthycca eu tafodau dros amser; tra y mae Ef yn ffyddlon yr hwn a addawodd, yr Hwn hefyd a'i gwna. Ffyddlondeb a gwirionedd a enir o'r nef.

Pe na byddai eilunaddoliaeth yn bechod anwyl gan Satan, ni lafuriai gymmaint am ei gyflawniad. Truenus canfod y wedd y dena'r byd mewn anystyriaeth i'r pechod hwn, yr hwn cymmerant arnynt eu bod yn ei gashau.

Y rhai hynny a ddewisent y ffwrnais o flaen addoli aur mewn delw, etto a'i haddolant yn y bâth, (neu âg argraph y brenhin arno,) heb feio dim arnynt eu hunain. Os denir ein calonau i brisio unrhyw greadur yn ormodol, yr ydym yn eilunaddolwyr. O Dduw, nid rhyfedd fod dy eiddigedd yn ennyn, pan oddefir i un o'r pethau a wnaethost sefyll yn erbyn eu Creawdwr am anrhydedd.

Ni ddarfu ein Iachawdwr ddywedyd erioed o'r blaen, *Ymaith Satan.* Cyfiawn y digter a gynhyrfir, pan wneir un peth yn gyd-ymgeisydd â Duw. Ni ddarfu Crist ychwaith ddefnyddio ei ddwyfol allu yn y gorchymyn hwn, ond, trwy rym angenrheidiol yr ysgrythyr anfona'r Hudwr aflan hwnnw ymaith. *Ysgrifenwyd, Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac Ef yn unig a wasanaethi.* Yr oedd attebion eraill ein Gwaredwr yn llawnach a mwy uniongyrchol, nag y goddefent attebiad; ond hwn sydd mor bendant a llwyr gwbl fel ag y torrodd i lawr wroldeb Satan, y parodd iddo ffoi yn waradwyddus, ac y gwnaeth ef am yr amser, yn flinderog o'i grefft.

Y ffordd i ddiangc rhag ymgeisiadau cythryblus yr Un Drwg hwnnw, yw gwrthsafiad parhaus. Efe, yr Hwn a yrrodd y Temtiwr yn rymus oddiwrtho ei hun, a'i gyr oddiwrthym ninnau, ac nis goddefa i'w ruthriadau yn ein herbyn barhau o hyd. Amcana ein profi, ac nid ein dinystrio.

MATTHEW IV. MARC I. LUC IV.

SIMON YN CAEL EI ALW.

Megis y tynna yr haul, yn ei godiad, bob llygad atto ei hun: felly yr Haul cyfiawnder hwn, pan gyntaf y llewyrchodd ar y byd. Ei wyrthiol feddyginiaethau a dynnant gleifion atto, a'i

athrawiaeth nefol wrandawyr, y ddau yn nghyd adynnant ar ei ol y lluaws gyda syndod. A phaham na'th ddilynwn di, O Waredwr, trwy anialwch a mynyddoedd, dros dir a môr, fel y caffom ein hiachau a'n dysgu? Dy air dy hun oedd, pan y'th dderchafit, y tynnet bawb attat dy hun: wele, fe'th dderchafwyd er ys amser hir, ar bren gwaradwydd, ac hefyd i orsedd ogoneddus y nef. *Tyn ni, ac ni a redwn ar dy ol.* Yr un yw'th air o hyd, er ei gyhoeddi gan ddynion: dy rinwedd sydd yr un, er ei ddefnyddio ar ysbrydion dynion. O, par i ni newynu am y ddau, fel trwy'r ddau, y digonir ein heneidiau.

Gwelaf y bobl, nid yn unig yn dilyn Crist, ond yn gwasgu arno. Y mae diffyg moesgarwch yma yn cael ei esgusodi a'i gymmeradwyo. Ni safasant draw gan ddychryn wrth Fawrhydi y Llefarwr, tra yr oeddynt yn cael eu gorchfygu gan rym ei ymadrodd; etto ni feiodd y Gwaredwr arnynt yn gwasgu arno mor anfoneddigaidd, ond yn hytrach a annogodd eu hawyddfryd. Nis gallwn dy ddigio, O Dduw, trwy wresogrwydd ein dymuniadau. Hoff gennyt weled teyrnas nefoedd yn cael ei chippio trwy drais. Ein difrawwch a'th anfoddlona bob amser, ac nid mawredd ein hawydd.

Y fath dorf o wrandawyr a barodd i'r Iesu adael y tir, a gwneuthur llong Pedr yn bwlpud. Ni thaflesid allan y fath rwydau o'r llestr-pysgotta hwnnw o'r blaen. Tra yr oedd ar y làn, iachâai y cyrph afiach trwy gyffwrdd à hwynt; yn awr ar y môr, iachâai yr eneidiau afiach, trwy ei athrawiaeth, ac ymwahana yn fwriadol oddiwrth y lluaws, fel y gallai eu huno âg ef ei hun. Efe, yr hwn a wnaeth fôr a thir, a bar i'r ddau roddi cyfleusdra i wneuthur daioni.

Yr oedd Simon yn ddiwyd, yn golchi ei rwydau. Rhaid golchi y rhwydau na ddaliasant ddim, yn gystal a phe buasent wedi llwyddo. Nid yw llafur y nos yn ei esgusodi rhag gwaith y dydd. Ychydig a feddyliodd Simon am ymadael â'r rhwydau a olchai mor ofalus: ac yn awr Crist a'i rhagflaena â ffafr a bendith ei rasol bresennoldeb. Diwydrwydd yn ein galwedigaeth, bydded mor isel ag y byddo, a'n haddasai dderbyn nefol fendithion.

Y Pysgottwr gonest, tra y gwelai'r bobl yn myned yn lluoedd at Grist, ac y clywai Ef yn llefaru mor bwerus, nis gallasai lai nâ chroesawi ryw gred aneglur a chyffredinol, fod y cyfryw Ddysgawdwr yn un tra rhagorol: ac am hynny, hoff ganddo i'w lestr gael ei hanrhydeddu a'i bresennoldeb: ac y mae yn

gyntaf yn llettywr Crist ar y môr, cyn bod yn ddisgybl iddo ar y tir. Derbyniad gostyngedig a gwasanaethgar o Brophwyd Duw, oedd sylfaen ragorol i'w anrhydedd dilynol. Efe, yr hwn a fenthyciai mor rhwydd ei law a'i long i Grist, oedd debygol ar fyr i roddi ei hun i'r Gwaredwr.

Nid cynt y gwna Simon y gwasanaeth hwn i Grist, nad yw yntau yn darparu ei wobrwyo. Yn ol gorphen y bregeth, caiff ei le yn y llong dalu am dano yn ehelaeth: ac ni chaiff y llettywr ddisgwyl talwr ond ei hun. *Gwthia i'r dwfn, a bwriwch eich rhwydau am helfa.* Yn ei wyrthiau, hoff ganddo yn wastadol gyfarfod â natur o fewn ei therfynau: ac yn ol iddi wneuthur ei goreu, i gyflawni yr hyn sy'n ol trwy ei oruwch-lywyddol allu: yr un gallu, gan hynny, a allasai beri i'r pysgod neidio i'r tir sych, neu i adael eu hunain yn ddiddwfr ar dywod y llyn, a ddewisa'n hytrach eu cael mewn lle addas i'w preswyliad: *Gwthia i'r dwfn.*

Simon, o ddymuniad i foddhau ac ufuddhau i'r hwn sydd yn gorchymyn iddo, yn hytrach nag i foddio ei hun, a deifl ei rwyd unwaith yn rhagor i'r môr. Pe gorchymynasai Crist iddo yr hyn oedd galettach, nis gommeddasai: etto nid heb ddywedyd mor anhebyg oedd i lwyddo. *O Feistr, er i ni boeni ar hyd y nos, ni ddaliasom ni ddim; etto ar dy air di, mi a fwriaf y rhwyd.* Y nos oedd yr adeg oreu i'w galwedigaeth hwy: nid annghymwys y gallai Simon ammau ei lwyddiant liw dydd, yn ol treulio o hono'r nos mewn llafur dielw. Weithiau croesa Duw ein disgwyliadau teccaf, a llwydda yr amserau a'r moddion, am y rhai yr anobeithiwn. Nis gall y llafur hwnnw fod yn ofer, yr hwn a gymmerwn er mwyn Crist.

O Dduw, pa nifer a ganfyddaf yn bwrw eu rhwydau i fôr mawr y byd, y rhai, dros holl nos eu bywyd, ni ddaliasant ddim! *Beichiogant ar gamwedd, ac a esgorant ar gelwydd. Wyau asp a ddodwant, a gweoedd y pryf coppyn a weant: yr hwn a fwytty o'u hwyau, a fydd marw, a'r hwn a sathrer, a dyr allan yn wiber. Eu gweoedd hwy ni byddant yn wisgoedd: ac nid ymddilladant a'u gweithredoedd. O feibion dynion, pa hyd yr hoffwch wegi, ac yr argeiswch gelwydd.*

Etto, os cam-dreuliasom y wêdd hon amser ein hanwybodaeth, bwriwn i lawr, wrth orchymyn Crist, ein rhwydau newydd-olchedig; ein hufudd-dod gostyngedig ac edifeiriol a ddychwel adref yn llwythog o fendithion. *Ac wedi iddynt*

weuthur hynny, hwy a ddaliasant luaws mawr o bysgod, a'u rhwyd hwynt a rwygodd.

Mawr y gwahaniaeth rhwng ein gweithredoedd ein hunain, a'r rhai a wnawn mewn ufudd-dod i orchymyn: nid mwy ydyw o ran eu sylfaen nâ'u canlyniad! Y rhai cyntaf ydynt yn fynych yn ddiffrwyth, y lleill bob amser yn dyccianol. Ni fwriodd neb erioed ei rwyd allan wrth orchymyn ei Iachawdwr, a'i dwyn allan yn wag. Pwy na ufuddhâai i ti, O Grist, gan dy fod mor haelionus yn gwobrywo ein gwael wasanaeth?

Nid at-daliad yn unig a fwriedid yn y digwyddiad hwn, ond addysg hefyd. Yr hwn oedd i fod yn Bysgodwr dynion a gaiff rag-weled ei lwyddiant yn yr helfa hon. *Cyffelyb yw teyrnas nefoedd i rwyd a fwriwyd yn y mor, yr hon wedi ei llenwi, a ddygasant i'r làn.* Yr helfa gyntaf a wnaeth Pedr, yn ol cyflawni ei apostoliaeth, nid oedd lai nâ thair mil o eneidiau. O Efengyl bwerus; yr hon a all dynnu dynion pechadurus allan o ddyfnderoedd eu llygredigaeth naturiol! O eneidiau happus, y rhai a dynnir allan o dywyll a lleidiog gelloedd eu hanian ddrygionus i ogoneddus rydd-did plant Duw.

Rhwyd Simon a rwyga gan y llawnder. Y mae helaethrwydd ar droiau mor ofidus a phrinder. Daliasai y rhwyd, oni bai fod Crist wedi penderfynu gorchfygu Pedr, â bendith ac a syndod. Mor ddedwyddol y rhwygiad hwnnw, yr hwn a ddwg y pysgodwr at Grist!

Er i'r rhwyd rwygo, ni ddiangodd y pysgod. Efe, yr hwn a'u dygodd yno, i'w dala, a'u cadwodd hwy yno, nes y daliwyd hwynt.

A hwy a amneidiasant ar eu cyfeillion, oedd yn y llong arall, i ddyfod i'w cynnorthwyo hwynt. Y mae llongau eraill yn rhannog a Phedr: ni physgotta'r llyn oll ei hunan. Nis gellir gwneud gwell defnydd o gymdeithasiad nâ derbyn trwyddi gynnorthwy i elwa, help yn ein llafur buddiol, ac i ddwyn helfa ysbrydol i lestr Crist, a'i Eglwys. Paham y rhoddodd Duw i ni gymdeithaswyr, ond fel y gallem amneidio arnynt am eu cynnorthwy, pan fyddom mewn angen.

Nid oedd Simon yn segur, oherwydd fod ganddo gynnorthwywŷr. Beth a ddywedwn wrth y Pysgodwyr diog hynny, y rhai a allent roddi eraill ar waith, tra y byddent hwy yn edrych arnynt wrth eu hamdden; gan ofalu porthu eu hunain â'r pysgod, ac yn anfoddlon i wlychu eu dwylaw gyda'r rhwyd?

Beth a ddywedwn wrth yr elw gormodol hwn? Y rhwydau a rwygant, a'r llongau a suddant wrth y trymder. O mor ddedwydd oedd cwyno oblegid helfa ry helaeth! O Waredwr, os y llestri apostolaidd a hwyliaist gyntaf, oeddynt fel hyn yn ormodol eu llwyth, yr eiddom ni sy'n gwegian oherwydd eu bod yn rhy ysgafn. Tydi, yr hwn nid wyt yn llai presennol yn ein badau ninnau, llwytha hwy a'r unrhyw bwysau o eneidiau dychweledig, a phar i ni dy foli am y suddiad hwn.

Simon oedd Bysgottwr medrus, a deallai ei alwad yn dda: a chan weled yn awr fwy nâ natur a chelfyddyd yn yr helfa hon, syrthia i lawr wrth liniau yr Iesu, gan ddywedyd, *Dos ymaith oddiwrthyf; canys dyn pechadurus wyf fi, O Arglwydd.* Delir ef ei hun yn y rhwyd hon. Nid yw'n drachwantus yn syrthio ar ysglyfaeth mor annisgwyliadwy a gwerthfawr; eithr try ei lygaid oddiwrth yr helfa atto ei hun, oddiwrth y weithred at ei Hawdwr, gan gyfaddef gwaeledd ynddo ei hun, a mawrhydi ynddo yntau. *Dos ymaith oddiwrthyf, canys dyn pechadurus wyf fi, O Arglwydd.*

Trueni pe cymmerasid y Pysgottwr gonest ar ei air. O Simon, dy Geidwad a ddaeth i'th long i'th alw, ac i alw eraill trwot, i ddedwyddwch. Ac a ddywedi, *Dos ymaith, Arglwydd, oddiwrthyf?* Megis pe dywedasai'r claf wrth y meddyg, "Dos ymaith, canys afiach wyf." Syndod ac nid casineb a barodd y iaith hon. Llais gostyngeiddrwydd oedd, ac nid llais anfoddlonrwydd: ïe, am dy fod yn ddyn pechadurus, y mae angen am i'th Waredwr ddyfod attat, ac aros gyda thi: ac am dy fod yn ostyngedig yn addef dy bechadurusrwydd, ymhoffa Crist aros gyda thi, ac efe a'th eilw i aros gydag ef. Ni aflwyddodd neb erioed am ymostwng o hono ger bron Duw. Gadawodd Crist lawer enaid balch ac anngharedig, ond nid un erioed am iselhau ei hun, ac am ei weddiau gostyngedig. Nis gallasai Simon ddyfeisio un ffordd well i ddwyn Crist yn nes atto, na thrwy erfyn arno fyned ymaith, a dywedyd wrtho am ei annheilyngdod.

O fy enaid, na flina yn achwyn ar dy druenusrwydd. Gwaradwydda dy hun ger ei fron Ef, yr hwn sy'n hysbys o'th ffieidd-dra. Rhyfedda wrth y trugareddau hynny, y rhai a barant it' gywilyddio oherwydd dy annheilyngdod. Nid oes gan dy Waredwr allu i ymadael â chalon gystuddiedig. Efe, yr hwn a wrthwyneba'r beilchion, a galonnoga'r gostyngedig.

Nac ofna; canys o hyn allan y deli ddynion. Wele ei ostyngeiddrwydd a wobrywir âg apostoliaeth. Beth a gafodd daear erioed mwy gwerthfawr nag anrheg o'r nefoedd? Efe, yr hwn a orchymynodd i Grist fyned oddiwrtho, a gaiff yr anrhydedd o gael ei anfon yn gyntaf ar y neges hyfryd hon. Gwaith oedd hwn ag oedd Simon yn anfedrus ynddo: ond digon iddo i Grist ddywedyd, *deli ddynion.* Yr helfa wyrthiol a ddangosai y medrai gyflawni ei air. Yr hwn a all orchymyn i'r pysgod gael eu dal, a all yn hawdd nerthu y dwylaw i'w cymmeryd.

Beth yw'n crefft nefol hon ynte ond pysgotta ysbrydion? Y môr yw'r byd. Eneidiau fel pysg a nofiant yn ol eu hewyllys, yn y môr hwn. Rhwydau athrawiaeth iachus a dynnant rai i'r làn, i dir gras a gogoniant. O gymmaint o fedrusrwydd, llafur, ac amynedd sydd ofynol yn y gelfyddyd hon! *Pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?* Y môr hwn, y rhwydau hyn, y pysgod, y llestri, ydynt oll eiddo ti, O Dduw! Gwna a fynni ynom a thrwom. Dyro nerth a gras i ddal; dyro i ddynion ewyllys a gras i gael eu dal, a chymmer dithau ogoniant oddiwrth yr hyn a roddi.

Luc. v.

Y BRIODAS YN CANA.

Ai yr hwn a wnaethost yn Cana Galilea oedd y cyntaf, O Iachawdwr, o'th wyrthiau. Ac a allai fod un mwy nâ hwn—sef i ti fod ar y ddaear ddeg ar hugain o flynyddoedd heb wneuthur un weithred wyrthiol hyd 'nawr? i'th dduwdod ymguddio cyhyd mewn cnawd? it' fyw yn anadnabyddus dros y fath yspaid mewn congl o Galilea yn ddieithr i'r byd y daethost i'w waredu? i ti brofi cyhyd ddisgwyliad y sawl a edrychent am ddadguddiad o'r Messia, er pan welsid dy Seren? Nyni, drueiniaid disynwyr, os bydd gennym y mesur lleiaf o rinwedd, ydym barod i'w osod ar led i'r fantais oreu. Tydi, yr hwn a *dderbyniasit yr ysbryd, nid wrth fesur,* a ymfoddlonet âg anenwogrwydd; a chuddiaist y gallu hwnnw, a wnaethai'r byd, dan gronglwyd mynwes ddynol, mewn bwthyn yn Nazareth. O Geidwad, nid oes un o'th wyrthiau'n fwy i'w ryfeddu nâ'th ymattaliad oddiwrth wneuthur y cyfryw.

Yr hyn a wnaethost yn ddirgel, ni welodd dy ddoethineb yn

oreu ei ddatguddio. Ond pe nas gwybuasai dy Fam Fendigedig am ryw wyrthiau cartrefol, ni ddisgwyliasai yn awr am wyrth yn yr amlwg. Nis gwelir y ser yn y dydd: nis gwelir yr haul ei hun yn y nos; ac nid bychan yw'r gelfyddyd o guddio celfyddyd: felly, nid bychan y gogoniant o guddo gogoniant.

Dy weithred wyrthiol gyntaf a anrhydedda Briodas. Ordinhad foreuol a chanmoladwy yw na fyddai i ddefodau priodas fod heb weinyddiad arbennig a chyhoedd. Pa bryd y mae gwledd yn addas, os nid pan adferir in' yr asen a gollwyd; os nid yn y cyfnewidiad mwyaf o'n cyflwr, pan y mae llawenydd am dderbyn cyssur yn cyfarfod â'r gobaith o dderbyn y cyfryw etto rhagllaw? Y mae Mab y Wyryf, a Mam y Mab hwnnw, eill dau mewn priodas. Tebyg yw mai i briodas rhai o'u perthynasau y gwahoddasid hwy, etto, bwriadai Crist anrhydeddu'r weithred yn hytrach nâ'r person. Efe, yr hwn a wnaeth y briodas gyntaf yn Mharadwys, a wnaeth ei wyrth gyntaf mewn priodas Alileaidd. Efe, yr hwn a sefydlodd ac a sancteiddiodd briodas, trwy ei bresennoldeb dwyfol, a barcha gynllun o'i undeb tragywyddol a'i Eglwys. Pa mor eofn y gallwn boeri yn wynebau aflan ddirmygwyr priodas, pan y rhynga bodd i Fab Duw ei hanrhydeddu!

Gwyddai Priodfab gogoneddus yr Eglwys yn dda, barotted fyddai dynion i daflu gwarth ar y cyssylltiadau mwyaf cyfreithlon: gan hynny, ei waith cyntaf a gaiff fod rhoddi bri ar ei ordinhad ei hun. Dedwydd y briodas, lle y mae Crist yn mhlith y gwahoddedigion. O Waredwr, y sawl a ymbriodant ynot ti, nis gallant ymbriodi hebot. Nid oes briodas dduwiol heb dy fod ynddi trwy dy Ysbryd, er yn anweledig, a thrwy dy fendith rasol. Tydi a sefydli briodasau yn y nef, ac a'u benditha o'r nef. O Tydi, yr hwn a'n dyweddiaist â thi dy hun mewn ffyddlondeb a chyfiawnder, cwblha'r briodas honno yn y nefoedd uchod.

Nid goludog a mawreddus y briodas, i'r hon yr ymostyngodd Crist i ddyfod iddi, yn nghyd â'i Fam a'i ddisgyblion, o barthau pellaf Galilea. Nis canfyddaf ef yn ngwleddoedd costus y mawrion. Nid oedd gorwychder bydol yn cyd-fyned â sefyllfa gwas.

Y priodfab tlawd hwn sydd ag eisiau peth i yfed arno i'w wahoddedigion. Y Forwyn Fendigedig, er yn ddieithr yn y tŷ, o dosturi a dymuniad cyfeillgar i wneud y wledd briodasol yn

addas, a chwilia beth yw anghenion ei gwahoddwyr: tosturia wrthynt, cwyna o'u hachos, pan na fedrai eu cynnorthwyo. *A phan ballodd y gwîn, Mam yr Iesu a ddywedodd wrtho, nid oes ganddynt mo'r gwîn.* Pa mor addas yw i lygaid y duwiol, a'r sawl a feddiannant gariad cristionogol, edrych ar anghenion eraill! Yr hon a genhedlodd Dduw'r trugareddau yn ei chalon a'i bru, ni sefydla ei llygaid ar ei dy sgl ei hun, ond chwilia i brinder Israeliaid tlawd: a theimla'r anghenion hynny, y rhai nid yw ef yn cwyno danynt. Gwnawd hwy iddynt eu hunain, meddyliau y rhai ni redant ar ddim ond eu llawnder neu eu prinder eu hunain.

Yr oedd gwin ddigon i bryd-bwyd, er nid i wledd: ac os nad oedd yno wîn ddigon, yr oedd yno ddigon o ddwfr: er hynny, y Forwyn sanctaidd a gŵyna am ddiffyg gwin, a chythryblir hi oherwydd fod angen helaethrwydd. Rhydd haelioni Duw, nid yn unig ddigon er cynnal ein bywyd, ond hefyd i'n llwyr foddloni; a rhyngodd bodd iddo roddi i ni fara, nid yn unig i'n digoni, ond weithiau er peri meluswedd. Weithiau nid yw hwnnw ond angenrheidiol a'r sydd amseroedd eraill dros ben digon. Anghyfiawnder yn codi oddiar anmheuaeth yw cyfyngu arnom ein hunain, yn yr hyn y mae Duw yn haelionus tuag attom.

Wrth bwy yr achwynwn oherwydd unrhyw angen, ond wrth Wneuthurwr a Rhoddwr pob peth? Gwyddai'r Forwyn Fendigedig ar bwy yr ymbiliai. Yr oedd ganddi achos da i wybod am Ddwyfol natur a gallu ei Mab. Efallai nad oedd y priodfab mor dlawd, fel na allai gyflawni'r diffyg, os nid â'i arian, etto, ar goel. Neu, caled oedd os na allai rhai o'i gymmydogion gwyddfodol, pe erfyniasid arnynt, roddi iddo gymmaint o wîn, ag a fuasai ddigonol i ddibennu'r wledd. Ond gwyddai Mair Fendigedig am fyrrach ffordd: ni thybiodd yn oreu lledwadio o'r fasnant, ond rhed yn hytrach i'r ffynnon, lle y gall yn hawdd suddo a llenwi'r ffircynau ar unwaith. Efallai iddi ganfod i ddilynwyr Crist, y rhai heb eu gwahodd a aethant i'r wledd, ac a luosogant yn annisgwyliadwy nifer y gwahoddedigion, beri mewn rhan y diffyg hwn: am hynny, union y cais gan ei Mab Iesu ei gyflawni. Pa un bynnag a'n bod mewn angen am fara, neu ddwfr, neu wîn, angenrheidiau neu gyssuron bywyd, at bwy y dylem redeg, O Iachawdwr, ond at dy annherfynol haelioni di, yr hwn a gyfranni bob peth yn ddiddannod? Nis gall-

wn fod mewn prinder nac ymhelaethu hebot ti. Dyro a weli yn dda, os rhoddi i ni ymfoddloni arno.

Ond beth yw hyn a glywaf? Atteb llym i gais mam? *Beth sydd i mi a wnelwyf â thi, wraig?* A ydyw Ef, yr hwn, yn ei hyfryd addfwynder a'i drugaredd, ni anfonodd ymaith erioed unrhyw erfyniwr heb ei foddloni, yn gwneuthur dim ond gwgu ar yr hon a'i hymddygodd? A ydyw Ef, yr hwn sy'n gorchymyn i ni anrhydeddu tad a mam, a ydyw Ef yn diystyru yr hon y cymmerodd ei chnawd arno? Na atto Duw. Nid yw'r cariad a'r ufudd-dod dyledus i rieni yn eu diogelu rhag cerydd. Erfyniodd ar Grist megis mam, attebodd iddi megis gwraig. Os hi oedd Mam ei gnawd, yr oedd ei Dduwdod yn dragywyddol. Nid oedd addas iddi olygu ei hun yn fam, yn y cyfryw fodd ag i anghofio ei bod yn wraig, na'i olygu yntau yn Fab fel ag i anghofio ei fod yn Dduw. Y rhan honno a gymmerodd oddiarni a'i parcha: rhaid iddi hithau barchu y natur a ddaeth oddi uchod, ac a'i gwnaeth yn wraig ac yn fam. I'r Duwdod yn unig y perthyna pethau gwyrthiol: pethau goruwch-naturiol oeddynt uwchlaw cyrhaeddiad perthynas yn ol y cnawd. Yn awr, os y Forwyn Fendigedig a bennoda yr amser i wneuthur gweithredoedd dwyfol, a'r dull o honynt, *Beth sydd i mi a wnelwyf â thi, O wraig; ni ddaeth fy awr i etto*: nid ydym ninnau chwaith yn mhethau sanctaidd Duw i dderbyn wynebau, ïe, *os buom hefyd yn adnabod Crist yn ol y cnawd; etto, yn awr, nid ydym yn ei adnabod ef mwyach.*

O Forwyn Fendigedig, os gelli sylwi ar y pethau daearol hyn, yn y gogoniant nefol, yn yr hwn yr ydwyt, gyda pha ddigllonedd yr edrychi ar goel-grefydd ryfygus dynion ffol, y rhai, trwy weddio arnat, a'th wnant yn uwch nag erfyniwr dy hun am ffafr Duw! Dy anian ddynol nis collir yn dy fammogaeth na'th ogoniant. Ni chyrhaedda'r parch a roddir i natur cuwch a'r nef. Nid wyt mewn un gwedd yn prisio'r parch, yr hwn a ledrettir oddiwrth dy Waredwr.

Y mae priodas i'r hon y'n gwahoddir, ïe, â'r hon y mae a wnelom yn barod nid fel gwahoddedigion yn unig, ond hefyd fel priodas-ferch: yn yr hon ni bydd diffyg o wîn gorfoledd. Y mae'n rhyfeddod, os na fydd rhyw brinder yn y gwleddoedd daearol hyn. *Digonolrwydd llawenydd sydd ger dy fron,* O Waredwr, *ac ar dy ddeheulaw y mae digrifwch yn dragywydd. Bendigedig yw y rhai a elwir i swpper neithior yr Oen.*

Y Forwyn Fendigedig a wel le i obeithio, hyd yn nod, yn yr atteb llym hynny. Os ni ddaethai ei awr etto, yr oedd ar ddyfod. Am y gwnai disgwyliad y gwahoddedigion, ac angenrheidrwydd yr achlysur, le cymmwys i'r wyrth, caiff ddyfod allan, a pheri syndod. Gyda ffyddlondeb, gan hynny, a doeth sylwad y try ei hymadrodd oddiwrth ei Mab at y gwasanaethwyr. *Beth bynnag a ddywedo Efe wrthych, gwnewch.* Pa mor addas yw i Fam Crist gydsynio á'i Dad yn y nef, llais yr hwn o'r nef a ddywedodd, *Hwn yw fy anwyl Fab, gwrandewch Ef.* Yr hon a ddywedasai am dani ei hun, *Bydded i mi yn ol dy air di*, a ddywaid wrth eraill, *Beth bynnag a ddywedo Efe wrthych, gwnewch.* Dyma'r ffordd i wyrthiau gael eu gwneuthur ynom —sef trwy ufuddhau i'w air.

Nid oedd gallu Crist yn dibynnu ar eu swydd-gyflawniad hwy: gallasai wneuthur gwyrthiau er eu gwaethaf: ond buasai eu naccâd gwrthnysig i gyflawni ei air yn eu gwneuthur yn anaddas o'r ffafr o wneuthur gwyrthiau erddynt. Efe, yr hwn a all pan y mynno, argyhoeddi'r cyndyn, nis parcha yr anufudd. Efe, yr hwn a all weithio hebom, neu yn ein herbyn, nis gweithia erom amgen na thrwom.

Y tŷ gwael hwn a gynnwysai lawer o lestri mawrion er puredigaeth allanol. Y bobl coel-grefyddol hynny a geisient sanctteiddrwydd trwy fynych olchiadau, fel pe buasai pechod wedi ymsefydlu yn y croen: hyd yn nod, y golchiad hwn a'u difwynai âg aflendid ewyllys-grefydd draddodiadol. Ar yr enaid y mae angen am olchiad: ac nis gall dim lanhau hwnnw, ond y gwaed, yr hwn yn felldigedig a erfynient ar iddo fod arnynt hwy a'u plant er euogrwydd, ac nid er gwneud cymmod am dano. *Glanha di ni*, O Arglwydd, *âg isop, a ni a lanheir: golch ni, a byddwn wynnach nâ'r eira.*

Nis gallasai'r gwasanaethwyr lai nâ thybied gorchymyn mor anmhrydlon yn ddieithr, *Llenwch y dwfr-lestri â dwfr.* "Gwîn sydd arnom ni eisiau: i ba beth y cyrchwn ddwfr? A amcana'r gwr duwiol hwn y wedd hon dorri ein syched, ac oeri ein cyllâau? Os nad oes cynnorthwy i'w gael, gallesem geisio'r diwalliad hwn heb ein gorchymyn." Mam Crist a lwyddodd er peri iddynt, yn lle cludo pottelau o wîn i'r ford, gludo llonaid eu llestri o ddwfr o'r pydewau. Nid da dadleu fod rhyw beth yn annhebygol yn erbyn gorchymyn Hollalluogrwydd.

Rhynga bodd iddo Ef, yr hwn a allasai greu gwîn yn ddiattreg yn y llestri, yn hytrach droi dwfr yn wîn. Yn ei holl

wyrthiau nis gwelaf ef yn gwneuthur dim o ddiddim. Sylfaena ei holl weithredoedd mawrion ar bethau ag oeddynt mewn hanfodiad o'r blaen. Lluosogodd y bara, cyfnewidiodd y dwfr, adferodd aelodau gwiwedig, cyfododd y meirw. A gweithiodd o hyd ar yr hyn ydoedd, ac nis gwnaeth yr hyn nid oedd yn flaenorol mewn bod. Beth a wna yn nhrefn cyffredinol natur ond troi yn wîn y nodd dwfrllyd sy'n esgyn o'r gwraidd? Ni wnaeth yn awr ond hynny yn sydyn, ac ar unwaith, yr hyn a wna yn gyffredinol, yn araf, ac yn raddol. Rheol ddiwyr gan Fab Duw oedd peidio gwneud mwy nag oedd reidiol o wyrthiau.

Mor helaeth yw darpariadau'r Iesu! Pe troisai ond un o'r cyfryw lestri, buasai yn brawf digonol o'i allu; ac nid annhebyg y buasai hynny yn ddigon ar yr achlysur presennol: yn awr rhydd iddynt ddigon o wîn i gant a hanner o wahoddedigion, mewn gwledd gyflawn. Y mae y maintioli ar unwaith yn mawrygu ei allu a'i drugaredd. Ni olyga haelionus law Duw ein hangen yn unig, ond ein digonedd hefyd. Ein pechod a'n gwarth ydyw os ni a drown ei fendithion i drythyllwch.

Rhaid llenwi cyn gollwng. Felly o ran ein llestri ninnau, ein gofal blaenaf a ddylai fod am dderbyn, yn ail am fwrw allan: mynnai Duw i ni fod yn bydewau.

Ni fynnai ein Hiachawdwr fod yn Brofwr iddo ei hun, ond anfanodd y cwppanaid cyntaf i lywodraethwr y wledd. Gwyddai Ef am ei allu ei hun; ond nis gwyddent hwy. Ni ddygai dystiolaeth chwaith iddo ei hun, ond tynai ef allan o'u geneuau hwy.

Y rhai ni wyddent o ba le y daethai'r gwîn hwnnw, etto a ganmolant ei flas. *Pob dyn a esyd y gwîn da yn gyntaf; ac wedi iddynt yfed yn dda, yna un a fo gwaeth: tithau a gedwaist y gwîn da hyd yr awr hon.* Yr haelioni a amlygodd ei hun yn helaethrwydd y gwîn, a amlyga ei hun ddim llai yn ei rasolde b. Nis gall dim ddisgyn o'r llaw Ddwyfol honno, ond yr hyn sydd ardderchog. Yr haelioni hwn a ddirmygai roddi sur-wîn'r efallen i'w wahoddedigion. Addas fod gweithredoedd gwyrthiol Crist, y rhai a ddeilliant yn ddigyfrwng o'i law, yn berffeithach na'i rai naturiol. O Waredwr Bendigedig, pa mor hyfryd y gwîn newydd, yr hwn a yfwn ryw ddydd, gyda thi yn nheyrnas dy Dad! Ti a droi y dwfr hwn o gystudd i win gorfoledd, â'r hwn y digonir ein heneidiau yn dragywydd. *Brysia, fy anwylyd, a bydd debyg i iwrch, neu lwdn hydd, ar fynyddoedd y per-lysiau.*

IOAN II.

Y CANWRIAD DA.

Daeth, hyd yn nod o gelfyddyd waedlyd rhyfel, rai i ymbil ar Grist. Dysgodd y Cadpen Rhufeinaidd hwn i gredu yn yr Iesu hwnnw, yr hwn a ddirmygasid gan y fath luaws o Iuddewon. Nis gall un genedl, nis gall un galwedigaeth gadw calon dda oddiwrth Dduw. Os ydoedd ddieithr-ddyn o ran genedigaeth, nid oedd felly o ran ei galon. Nis gallasai newid ei waed, gallasai oruwch-lywio ei serchiadau. Cara y genedl honno a etholasid gan Dduw; lle nis gallai berthyn i bobl, etto gwnai les iddynt, ac os nad oedd o'r synagog, etto, adeiladai synagog. Y peth nesaf at fod yn dda yw ffafrio y sawl sydd felly. [Nis gallem garu crefydd, pe byddem lwyr amddifaid o honi.

Ychydig o wir Israeliaid oeddynt mor zelog! Yr oedd arnynt hwy, y rhai oeddynt fwyaf rhwymedig, eisiau ewyllys neu allu. Y mae serchiadau da yn fynych yn gwneud mwy na chyflawni diffygion natur. Ac nid yw Duw yn prisio o ba le, ond pa beth ydym.

Nis canfyddaf y Canwriaid hwn yn dyfod at Grist, megis y daethai Cadpen Israel at Elisëus yn Ngharmel; ond fel a'i gappan yn ei law, gyda gostyngeiddrwydd mawr, trwy eraill, trwyddo ei hun. Anfona'n gyntaf henuriaid yr Iuddewon, y rhai a obeithiai y byddent dderbyniol oherwydd eu cenedl a'u sefyllfa: yna rhag y buasai defnyddio eraill yn arwydd o esgeulusdra, annoga hwynt yn ei berson ei hun. Oerllyd ac aflwyddianus yw cais cyfeillion pan yn wirfoddol y cauom i fynu ein gwefusau ein hunain. Nis gall taerineb yn y ddau lai na thyccio. Pe gallem ni lefaru drosom ein hunain, megis y llefarodd y Canwriad hwn dros ei was, beth a allem fod mewn angen o hono? Pa ryfeddod os yw Duw yn afrywiog i roddi, pan nad ydym yn gofyn, neu, pan y gofynwn fel na byddai gwaeth gennym pa un ai derbyniwn ai peidio?

A alwn ni hwn yn erfyniad neu'n gwynfan? Nis clywaf gymmaint a gair o ymbil. Ychydig a ddywedir, llawer a gelir. Digon yw gosod ei angen ger i fron. Gwyddai yn dda ei fod yn delio a Meddyg mor ddoeth a thosturiol, fel fod crybwyll am yr afiechyd yn erfyniad am feddyginiaeth. Os addefwn ein trueni ysbrydol caiff yn ddilai ei symmud.

Llawer math o ymbilwyr a aent at Grist. Daw un atto o

blaid ei fab ; arall o blaid ei ferch ; y trydydd o'i blaid ei hun. Nis gwelaf neb yn dyfod o barth ei was, ond y Canwriad hwn yn unig. Ac nid oedd well dyn, nâ Meistr. Ei was sydd glaf. Nid yw yn ei yrru o'i dŷ, ond gad iddo orwedd gartref ; nid yw chwaith yn sefyll wrth ymyl ei wely, ac yn edrych, ond â allan drosto ; nid at swynwyr, ond at Grist : â at Grist, nid gan fynegi'r afiechyd yn unig, ond gan ei osod ef allan megis yn dra dygn. Pe buasai'r Meistr yn glaf, ni allasai'r gwas ffyddlonaf wneuthur mwy. Nid yw ef yn teilyngu gwasanaeth da, yr hwn nid yw foddlon weithiau i weinyddu i'w weinidogion. Ni ddylai yr ystyriaeth fod eraill yn iselach nâ ni, beri i ni esgeuluso caredigrwydd a chymwynasgarwch. Rhaid i ni edrych i lawr ar ein gweision yma ar y ddaear, fel rhai sydd raid iddynt o hyd edrych i fynu at ein Meistr, yr hwn sydd yn y nefoedd.

Ond, paham, Ganwriad, na ddygasit dy was at Grist am iachad, yn hytrach nag erfyn drosto yn absennol? Bu un claf o'r parlys, yr hwn a ddygasid gan ffydd a chariad at ein Iachawdwr, ac a ollyngid i lawr yn ei wely trwy'r to didoedig. Paham na chludasid ac y cyflwynasid dy was di felly? Ai nerth dy ffydd oedd yr achos, yr hon a'th sicrhaodd nad oedd angen am ddangos dy was i'r Hwn a welai bob peth? Gall yr un a'r unrhyw ras ddwyn effeithiau gwahanol. Hwy, oblegid eu bod yn credu, a ddygasant yr afiach at Grist. Tydi, oblegid dy fod yn credu, nis dygaist ef atto. Eu dull hwy a ddangosai gymmaint dymuniad, ond yr eiddot ti a ddangosai fwy o hyder. Dy orchwyl oedd lai, am fod dy ffydd yn fwy.

O na fedrwn ddyfod y wedd hon at fy Ngwaredwr, gan wneuthur y fath achwyniad wrtho drosof fy hun! "Arglwydd, yr wyf yn glaf o anghrediniaeth, o hunan gariad, o ddymuniadau anghymedrol." Yna nid arosai dy drugaredd am fy ngweddi, ond rhagflaenai hi, megis yma, âg addewid rasol. *Mi a ddeuaf ac a'th iachaf di.*

Ni chlywais y Canwriad yn dywedyd, "*Tyred*," neu, "*iacha ef*." Dymunai yr olaf er na thraethodd ef, y blaenaf nis dymunodd ac nis traethodd ychwaith. A Crist tu draw i'w eiriau a'i ddymuniadau. Arfer y Dwyfol haelioni, lle y cyfarfydda âg ymbiliwr ffyddlon, yw rhoddi mwy nag a ofynnir ; rhoddir pan na ofynnir. Y mae, hyd yn nod, yr amlygiad o'n hanghenion yn dreisgar a llwyddiannus. Tybiwn fod mesur dynol haelioni yn rhedeg drosodd, pan dderbyniwn ond yr hyn a daer-geisiwn :

yr anfeidrol ddaioni a geidw o fewn terfynau, pan orlifa dros ddymuniadau ein calon.

Megis y dywedodd, felly y gwnaeth. Gair Crist yw ei weithred, neu y mae yn cyd-fyned â hi. Ni safodd yn llonydd pan ddywedodd, *Mi a ddeuaf;* ond aeth fel y llefarodd. Pan erfyniodd y pendefig arno dros ei Fab, *Tyred i wared cyn marw fy machgen*, nid aeth ein Hiachawdwr gam o'r fan: ni wnaeth y Canwriad ond cwyno fod ei was yn glaf, a Crist heb ofyn iddo, a ddywaid, *Mi a ddeuaf ac a'i iachaf ef.* Fel nad ymddangosai yn y mesur lleiaf i barchu cyfoeth, a dirmygu gwaeledd, yr Hwn a ddaethai yn ffurf gwas, ac a aethai i lawr at wely y gwas claf, nid ai at yr eiddo Mab y Pendefig. Y parch a ddangosir i fawredd allanol yn unig yw'r gwaelaf a all fod. Dylem ddangos ffafr lle y mae gras lawer, neu angen lawer, yn gystal a rhwymedigaethau personol.

O Iesu, yr hyn a ddarfu i ti addaw ei wneuthur i was y Canwriad, a wnaethost i ni. Yr oeddym ni yn glaf i farwolaeth: gorddiweddasai marwol barlys pechod ni, fel nad oedd dim bywyd grasol ynom: nid oeddyt tithau foddlon i eistedd yn llonydd yn y nef, a dywedyd, "Mi a'u hiachaf hwynt," ond chwanegaist, "Mi a ddeuaf ac a'u hiachaf hwynt." Daethost dy hun i lawr, yn ganlynol, i'n byd truenus, ac a iacheaist ein personau: fel yn awr na hyddom feirw ond byw, a mynegi dy weithredoedd, O Arglwydd. Ac, O, na allem yn ddigonol dderchafu'r cariad a'r trugaredd hynny, trwy y rhai y'th ddarostyngaist dy hun mor rasol, a bod mor isel ger dy fron ag yr iselheaist di dy hun er ein mwyn; ïe, bod mor wael yn ein golwg ein hunain ag ydym annheilwng.

O hyfryd ddychweliad gostyngeiddrwydd! A Crist i lawr i ymweled â'r gweinidog claf. Ei Feistr a ddywaid, Arglwydd, *Nid ydwyf fi deilwng i ddyfod o honot dan fy nghrongluyd.* Gallodd Henuriaid yr Iuddewon, y rhai a aethent o'i flaen ddywedyd, "Y mae ef yn haeddu cael gwneuthur o honot hyn iddo:" ond efe, pan ddaeth i lefaru drosto ei hun, a ddywaid, *Nid ydwyf fi deilwng.* Dywedent hwy ei fod yn haeddu gwyrthiol weithred Crist, dywaid yntau nad oedd yn haeddu dyfod i'w bresennoldeb. Y mae gwahaniaeth mewn eraill yn prisio, a ni ein hunain. Weithiau y byd a brisia'n rhy isel, yr hwn y mae ganddo achos i brisio ei hun yn uchel. Weithiau, etto, prisia'n rhy uchel, un sy'n teimlo nad yw deilwng o'r cyf-

ryw uchelbris. Os eraill a gamsyniant mewn perthynas i ni, nid yw hynny'n cyfiawnhau ein camsyniad ein hunain. Nis gallwn fod yn ddoeth, oddieithr i ni dderbyn gwybodaeth am danom ein hunain oddiwrth belydron union-gyrchiol, ac nid trwy adlewyrchiad—oddieithr ein bod wedi dysgu dibrisio clod anghyfiawn, a gwgu ar ein gwaeledd ein hunain, gan ddiystyru gweniaeth y byd. *Arglwydd, nid ydwyf fi deilwng.*

Buasai llawer un, pe buasai yn ngwisg y Canwriaid, yn meddwl yn uchel am dani: Cadpen, gwr o awdurdod helaeth, adeiladydd Synagog, noddwr crefydd: etto, edrychodd dros ben y pethau hyn oll, a phan yr ystyria werthfawrogrwydd Dwyfol Crist, a'i wendid ei hun, dywaid, *Nid wyf fi deilwng.* "Arglwydd, Cenedl-ddyn wyf fi, ac estron: Tydi wyt sanctaidd, Tydi wyt Hollalluog." Gwir ostyngeiddrwydd a'n dysga i ganfod y pethau goreu yn eraill, a'r pethau gwaethaf ynom ein hunain: yn y gwrthwyneb, ni ddengys balchder i ni ddim ond yr hyn sydd ragorol ynom ein hunain, a'r hyn sy'n ddirmygedig yn eraill. Tra yr addefai ei hun yn annheilwng o un ffafr, dangosodd ei fod yn deilwng o bob ffafr. Pe na buasai Crist o'r blaen yn ei galon, ni fuasai yn cyfrif ei hun yn annheilwng i groesawi y fath Wr yn ei dŷ. Dan gronglwyd isel mynwes ostyngedig, yr ymhyfryda Duw breswylio'n wastadol. Rhaid mesur ei balas, nid wrth ei uchder ond ei ddyfnder. Ymffrost ac eofn wynebau yn aml a gânt y dydd yn mhlith dynion; ni thyccia gyda Duw ond ein gwirfoddol ymostyngiad.

Addas i'r sylfaenau gael eu gosod yn ddwfn, lle y mae'r adeilad i fod yn uchel. Nid dyfnach gostyngeiddrwydd y Canwriad nag oedd uchder ei ffydd: cyrhaedda honno hyd y nef, ac yn wyneb gwendid dynol, canfydda hollalluogrwydd. *Yn unig dywaid y gair, a'm gwas a iacheir.* Pe buasai'r nefoedd ei hun yn gronglwyd i'r Canwriad, ni fuasai deilwng iddo Ef ddyfod dani; gair yr Hwn oedd Hollalluog, a'r Hwn oedd ei Hun Hollalluog Air ei Dad. Cyfryw yr addefir fod Crist gan yr hwn a ddywaid, *Yn unig dywaid y gair.* Dwyfol allu yn unig sydd annherfynol: nid oes ychwaith gan ffydd derfynau ond Duw ei hun. Nid oes angen ond am air i symmudo mynyddoedd neu ddiefliaid. Yn unig dywaid y gair, O Iesu, a'm pechod a faddeuir, a'm henaid a iacheir, a'm corph a godir o'r llwch, a'r enaid a'r corph a ogoneddir.

Ar beth, ynte, yr ymorphwysai diysgog hyder y Canwriad

duwiol? Gwyddai alluoedd ei air ei hun ar y rhai oedd dan ei awdurdod, (er nad oedd ond is-swyddog ei hun) yr hwn a berai ufudd-dod, ïe, yn ei absenoldeb: cymmwys ynte y credai, y gallai nerth rhydd ac annherfynol roddi gorchymynion anffaeledig, ac y byddai raid i'r afiechyd dygnaf ufuddhau i amnaid Duw natur. Gall gwendid ddangos i ni beth sydd mewn nerth. Dichon i un diferyn o ddwfr egluro i ni beth sydd yn y môr ei hun. Nid wyf yn rhyfeddu fod y Canwriad yn dyner wrth ei weision, canys yr oeddynt hwy yn ufudd iddo ef. Nid rhaid iddo ond dywedyd, *Gwna hyn*, a chaiff ei wneuthur. Yr ymddygiadau parchus hyn tuag at ein gilydd a dynnant yn mlaen y naill y llall. Gwasanaeth hyfryd a diwyd yn un plaid, a bar ofal dyladwy a thyner yn y llall. Y sawl a'r na ofalant am foddio eraill, ni ddylent achwyn os cânt eu dibrisio eu hunain.

O, na fyddwn i gyfryw was i'm Meistr nefol! Pob un o'i orchymynion a ddywaid, *Gwna hyn*, ac nid wyf yn ei wneuthur. Pob un o'i waharddiadau, *Na wna hyn*, ac yr wyf yn ei wneuthur. Dywaid, "tyred allan o'r byd," rhedaf finnau iddo. Dywaid, "tyred attaf fi," minnau a redaf oddiwrtho. Gwae fi! Nid gwasanaeth yw hyn eithr gelyniaeth! Pa fodd y gallaf ddisgwyl ffafr, a minnau yn dangos gwrthryfelgarwch? Meistr grasol a wasanaethwn: nis gallwn wneuthur un gwasanaeth iddo, na chanfydda, na arddela, na chorona. Nis gallwn lai nâ bod yn ddedwydd, pe byddem ufudd.

Beth all fod yn fwy rhyfeddod nà gweled Crist yn rhyfeddu? Y mae pob rhyfeddu yn arwyddo anwybodaeth yn rhagflaenu, a gwybodaeth yn dilyn rhyw ddamweiniad annisgwyliedig. Yn awr, pwy a weithiasai'r ffydd hon yn y Canwriad, ond yr hwn a ryfeddodd wrthi? Gwyddai yn dda beth a weithiasai, am iddo wneuthur yr hyn a ewyllysiodd: etto rhyfedda wrth yr hyn a wnaethai, ac a wyddai am dano, i'n dysgu ni, i ryfeddu'n ddirfawr wrth yr hyn a wyddai, ac a ystyriai yn deilwng o syndod. Gweithredodd y ffydd hon fel Duw; rhyfeddodd wrthi fel dyn. Duw a weithiodd, dyn a ryfeddodd. Yr Hwn oedd y ddau, a wnaeth y ddau, i'n dysgu beth a ddylem ryfeddu wrtho. Nis canfyddaf Grist byth yn rhyfeddu wrth aur ac arian, wrth weithredoedd costus a chywrain medrusrwydd neu ddiwydrwydd dynion: ïe, pan ryfeddai'r dysgyblion wrth harddwch mawreddog y deml, Efe yn hytrach a'u ceryddodd. Nis canfyddaf Ef yn synnu wrth wneuthuriad y nefoedd a'r

ddaear, nac wrth reolaidd drefniad pob creadur a digwyddiad: cyffredinolrwydd y pethau hyn a rwystra syndod. Ond pan wela y gras o ffydd, neu ei gweithrediadau, llenwir Ef âg hyfrydwch a syndod. Yr hwn a lawenychodd wrth weled ei greadigaeth, wrth ganfod ei hun o ddim yn gwneuthur pob peth daionus: ni lawenycha ddim llai yn niwygiad ei greadur, wrth ganfod ei hun yn dwyn da allan o ddrwg. *Wele di yn deg, wele di yn deg, ac nid oes ynot frycheuyn: Dygaist fy nghalon, fy chwaer a'm dyweddi; dygaist fy nghalon âg un o'th lygaid.*

Fe all ein cyfoeth, ein tegwch, ein callineb, ein dysgeidiaeth, a'n hanrhydedd, ein cymmeradwyo ger bron dynion: ond ein ffydd yn unig a gar Duw. A phaham nad ydym o'r un archwaeth a Duw, yr hwn a ymhoffa yn fwy yn y mesur lleiaf o ras, nag yn holl ogoniant allanol y byd? Y mae ma wrion, wrth y rhai nis gallwn lai nâ thosturio. Nis gallwn uchel-brisio ond y grasol.

Ac nid oedd y planhigyn hwnnw yn fwy rhyfeddol ynddo ei hun, nag o ran y tir y tyfai ynddo, lle ni chafodd ond ychydig gynnorthwy oddiwrth wlaw a haul. Gwaeledd y moddion a bar i'n cynnydd fod yn fwy canmoladwy a derbyniol. Gwneuthur daioni âg ychydig, a dry yn glod i gynnildeb. Nid oes fawr ddiolch os rhoddir à llaw helaeth allan o etifeddiaeth ëang: megis, ar y llaw arall, y mae helaethrwydd y moddion yn gwneuthur yr esgeulusdra yn haeddiannol o ddyblyg gospedigaeth. Nid yw yn fwy o gywilydd i Israel, nag o anrhydedd i'r Canwriad, fod ein Hiachawdwr yn dywedyd, *Ni chefais gymmaint ffydd, na ddo yn yr Israel.* Pe cawsid yn Israel gyffelyb ffydd, nis gallasai fod yn guddiedig rhag y llygad hollweledig: etto yr oedd eu ffydd yn gymmaint llai ag oedd eu manteision yn fwy: ac ni rydd Duw un amser fwy nag a ofyna. Lle y rhoddwn driniaeth, a thail, a hâd, pwy na ddisgwyliai gnwd? Ond os y braenar didriniaeth a rydd fwy, pa mor gyfiawn y mae'r cyfryw dir anffrwythlon yn agored i felldith? Ni fwngialodd ein Hiachawdwr y dystiolaeth geryddawl hon wrtho ei hun, ac nis sibrwdodd ef wrth ei ddisgyblion: ond efe a droes at y bobl, ac a'u llefarodd yn eu clustiau, fel y gallai ar unwaith godi ynddynt gywilydd ac efelychiad. Ni oddef yn un peth ond yr hyn sydd ysbrydol ein hunan-gariad i neb fod cyfuwch a ni: llawer llai y goddefwn ein rhagflaenu gan y

sawl a addefir eu bod islaw i ni. Da yw os gall unrhyw beth genhedlu ynom eiddigedd duwiol. Distadl a hurt yw'r dyn hwnnw, a oddef i arall ei orddiwes ar y ffordd, a rhedeg o'i flaen i'r nefoedd.

Yr hwn a weithredodd y ffydd hon, ac a ryfeddodd wrthi, yn awr a'i gwobrwya. *Dos ymaith, ac megis y credaist, bydded i ti.* Ni fu ffydd erioed heb i Grist ei chanfod, ni chanfyddodd Crist y cyfryw erioed heb ei chymmeradwyo, ac nis cymmeradwyodd heb wobrwyo. Y mae yr hyn a dderbyniwn megis ffafr yn gyfattebol â'n crediniaeth. Anfesurol drugaredd Duw, yr hwn sydd fyth yn debyg iddo ei hun, ni ddilyna ond un rheol tuag attom, sef y ffydd a rydd i ni. Nertha ni, O Dduw, i gredu, a bydded i ni fel y gweli yn dda: a bydd yn well arnom nag y dymunwn. Bydd fwy i ni nag y dymunwn.

Y Canwriad a ofyn dros ei was, a dywaid Crist, *felly bydded i ti.* Iechyd y gwas ydyw lleshad y Meistr: a ffydd y Meistr yw iechyd y gwas. Ac os tycciodd gweddiau Meistr daearol gymmaint gyda Mab Duw er adferiad y gwas, pa fodd y tyccia eiriolaeth Mab Duw, gyda'i Dad yn y nefoedd, drosom ni, y rhai ydym ei blant a'i weision di-gynnorthwy ar y ddaear! Pa beth a all fod yn eisiau arnom, O Iachawdwr, tra y gweddiï drosom? Efe, yr Hwn a'th roddodd di drosom, nis gall naccau un peth i ti erom, na naccau i ninnau un peth erot ti. Yr ydym yn ddedwydd ynot ti, a byddwn ogoneddus ynot. I ti, Alluog Waredwr Israel, a'th dragwyddol Dad, yn nghyd a'th Ysbryd Bendigedig, un anfeidrol ac anfesuredig Dduw, rhodder pob mawl, anrhydedd, a gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

MATTHEW VIII. LUC VII.

MYFYRDODAU,

&c. &c.

LLYFR III.

MAB Y WRAIG WEDDW YN CAEL EI GYFODI.

Yr oedd trugareddau ein Hiachawdwr haelionus yn gyssylltiedig â'u gilydd. Nid cynt y cododd was y Canwriad o'i wely, nag y cyfyd Fab y wraig weddw oddiar ei elor.

Ni ordeinir i'r cymmylau ffrwythlon syrthio oll ar un maes. Rhaid i Nain fod yn gyfrannog o haelioni Crist yn gystal a Cana, neu Capernaum. Ac os yr haul hwn a sicrhawyd mewn un cylch, er hyny gwasgara oleuni a gwres i'r holl fyd. Nid cymmwys i un lle gyfyugu iddo ei hun gennadwyr yr Efengyl, neges y rhai sydd gyffredinol. Nid addas i'r holl hâd anllygredig hwn syrthio i gyd i'r un gŵys.

Dinas fechan Nain a safai dan fynydd Hermon, yn gyfagos i Tabor: ond yn awr dwfrheir hi â rhagorach gwlith oddi uchod, sef athrawiaeth a gwyrthiau Iachawdwr.

Lluaws mawr a ddilynant ein Hiachawdwr, nid er rhwysgfawredd, ond er cael helaethach tystiolaeth o'r weithred: ac ai o fewn y ddinas gaerog honno, fel pe buasai am warchae ar ei ffydd, trwy ei allu, a'i chymmeryd.

Ei ragluniaeth a drefnodd ei daith yn y cyfryw fodd fel ei fod yn cyfarfod â'r ddwys olygfa o gladdedigaeth. Gweddw ofidus, yn nghyd â'i chymmydogion gwylofus, a ddilyn ei hunig fab i'r bedd.

Nid oedd dim yn yr olygfa hon a'r na thueddai i gynhyrfu tosturi.

Y dynieuangc yn mlodau, yn nghryfdwr ei oes, wedi ei lyngcu gan farwolaeth. Y mae gwendid henaint yn disgwyl ac yn

dymuno angau, ond ieuengctyd grymmus a edrych yn ddyeithr ar y swyddog sarrug hwn o eiddo Duw. Yr afalau melynion, a syrthiant o honynt eu hunain, oddiar y pren, casglwn y cyfryw gyda boddlonrwydd: beiwn os curir i lawr â ffyn y rhai anaeddfed yn anamserol.

Ond mwy etto: gŵr ieuangc, unig fab, unig blentyn ei Fam. Nid oes sefyllfa, yn yr hon nid yw yn ofid i Fam dyner-galon i ymadael â'i hymysgaroedd ei hun; Er hynny y mae ystor yn ol yn ysgafnhau'r golled. Lle y mae plant lawer, gellir yn hawddach hebgor un: canys gobeithiwn y bydd i'r rhai a adewir, weini y cyssuron a ddisgwylid oddiwrth y marw: ond pan fyddo raid i'n holl obaith a'n llawenydd fyw neu farw mewn un, ni oddef y golled o hwnnw ddim lleihad o ofid. Pan y mynnai Duw ddesgrifio'r gofid mwyaf dwys, nis gall ond dywedyd, *Merch fy mhobl, ymwregysa â sachliain, ac ymdroa yn y lludw: gwna i ti gwynfan a galar tost, megis am unig Fab.* Cyfryw oedd colled, cyfryw oedd gofid y fam ddigyssur hon. Nis gall na geiriau na dagrau ei lawn amlygu.

Mwy etto: Pe cawsai ei chynnorthwyo â chyngor a chynhaliaeth cymmar caredig, gallasai'r baich hwn ymddangos yn hawddach ei ddwyn. Gall priod tyner wneuthur i fynu golled mab. Pe gadewsid y gwreiddyn iddi yn gyfan, gallasai yn well ymadael â'r gangen: yn awr y ddau a dorrwyd i fynu, holl gynhaliaeth ei bywyd a ddiflannodd: ac ymddengys fel wedi ei gadael i suddo i drueni digymmysg.

Ac yn awr, yn ol rhoddi o honi ei hun i fynu i alar, nad oedd modd i'w symmud, Duw'r diddanwch a'i cyfarfyddodd, a dosturiodd wrthi, ac a'i cyssurodd. Nid oedd yma un ymbiliwr ond ei dosturi ei hun. Ar achlysuron eraill ymbilid arno. Daw'r Canwriad atto dros ei was, y llywydd dros ei fab, Jairus dros ei ferch, y cymmydogion dros y claf o'r parlys: yma chwilia am y gwrthddrych, a chynnyg feddyginiaeth heb neb yn ei gofyn ganddo. Tra'r ymwnelom â Thad y trugareddau, ein cystuddiau yw'r ymbiliau grymmusaf. Nid oes na dagrau na gweddiau a all ei gynhyrfu gymmaint a'i drugarogrwydd ei hun. O Dduw, nis gellir celu dim o'n gofid dirgelaidd o'th olwg, neu ei gadw o'th galon: a phan y mae pob gobaith wedi darfod, a phob cymmorth yn annichonadwy, yna yr wyt agosaf attom i'n gwaredu.

Wele yma yr holl rannau yn ymroddi i drugaredd. Yr oedd

tosturi yn y galon: y gwefusau a ddywedasant, *Nac wyla:* y traed a aethant at yr elor; y llaw a gyffyrddodd â'r arch; gallu'r duwdod a gododd y marw. Yr hyn a deimlodd y galon oedd ddirgel iddi ei hun: y tafod gan hynny a'i traetha mewn geiriau o gyssur, *Nac wyla.* Beth yw geiriau wrth y cyfryw deimlad cyfiawn a galluog? Gorchymyn iddi hi beidio wylo, yr hon a gollasai ei hunig fab, oedd ei pherswadio i fod yn druenus heb deimlo hynny; i deimlo heb brisio ei theimlad; i'w brisio ac etto i'w gadw i lawr. Nid yw celu gofid yn ei leihau, ond ei wneuthur yn drymach. Fel gyda'r cynghor i beidio wylo, y canfyddai achos i beidio gwneuthur hynny, y mae ei law yn cefnogi ei dafod. Ymafla yn yr arch, a rhyddha'r carcharor. *Y mab ieuangc, yr wyf yn dywedyd wrthyt, Cyfod.* Arglwydd bywyd ac angau a lefara'n awdurdodol. Nis gallasai meidrol allu ddywedyd fel hyn yn ddiryfyg, a dywedasai heb lwyddiant. Dyma'r llais a eilw ryw ddydd ein cyrph diflannedig o'r elfenau i'r rhai y dychwelwyd, ac a'n cyfyd o'u llwch. Nis gall na môr, na marwolaeth, nac uffern, gadw eu meirw, pan orchymyna Ef iddynt gael eu rhyddhau. Natur anffyddiog! Beth, A feddyli fod adgyfodiad yn anmhossibl, pan gymmer Duw natur ef mewn llaw? Nid anhawddach i'r Gair Hollalluog hwnnw, yr hwn a roddodd fod i bob peth ddywedyd, "Adgyweirier ef," na "Bydded."

Nis canfyddaf yr Iesu yn ymestyn ar y corph marw, megis Elias ac Eliseus ar feibion y Sunamees, a'r Weddw o Sarepta: nac yn penlinio a gweddio wrth yr elor megis Pedr i Dorcas: ond clywaf Ef yn llefaru yn y cyfryw fodd wrth y marw, megis pe buasai'n fyw; ac yn llefaru felly wrth y marw, fel trwy ei air, y bywhaodd ef. *Yr wyf yn dywedyd wrthyt, Cyfod.*

Nis gall angau beri i hwnnw orwedd yn llonydd, wrth yr hwn y dywaid Mab Duw, *Cyfod.* Yn ddioed, *y marw a gyfododd yn ei eistedd.* Felly wrth lais yr udgorn diweddaf, trwy rinwedd yr un llais, cyfodwn o'r llwch, a safwn i fynu yn ogoneddus. *Rhaid i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb, a'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth.* Y corph hwn nis cleddir eithr hauir ef: ac yn ein dydd, daw allan gyda chynnydd rhyfeddol o ogoniant. Pa mor ddigyssur a gofidus a fyddai ein gorweddiad i lawr, oni bai'r sicrwydd hwn o gyfodi! Ac yn awr, wele, rhag i'n ffydd wan ammau wrth esgyn at anhawsder mor fawr, dangosodd Ef yr hyn a wna wrth yr hyn a wnaeth yn barod. Y gallu a ddichon gyf-

odi un dyn a all godi mil, myrddiwn, byd: nis dichon i un gallu gyfodi un dyn ond yr hwn sydd anfeidrol: a'r hyn sydd anfeidrol sydd heb gyfyngiad yn pêrthyn iddo.

Cododd Duw un dan yr Hen Destament trwy Elias, arall trwy Eliseus tra yn fyw, a'r trydydd trwyddo yn ol ei farw: trwy law Cyfryngwr y Testament Newydd cyfododd yma fab y Weddw, merch Jairus, Lazarus: ac ar ei adgyfodiad ei hun rhoddodd ryddhad o'r carchar i dduwiol garcharorion yn Jerusalem. Cyfododd Merch Jairus o'i gwely, Mab y Weddw hon o'i arch, Lazarus o'i fedd, Seintiau meirwon Jerusalem o'u pydredd: fel yr ymddangosai nad all un gradd o farwolaeth rwystro effaith ei orchymyn goruwch-lywiol Ef. Efe, yr hwn a geidw agoriadau marwolaeth, a all wneud llwybr iddo ei hun, nid yn unig trwy'r neuadd gyffredinol a'r eisteddleoedd allanol, eithr trwy ystafelloedd mwyaf mewnol a dirgel y tywyllwch.

Meddyliwn fy mod yn canfod y gŵr ieuange hwn, a ddeffroasid o'i gwsg marwol yn y dull gwyrthiol hwn, yn sychu a rhwbio'r llygaid hynny, a gauasid i fynu yn angau; a chan ddyfod i lawr o'r elor, a throi ei amdo am ei lwynau, yn taflu ei hun mewn agwedd o ddiolchgarwch gwresog wrth draed ei Adferwr Hollalluog; gan addoli'r gallu Dwyfol hwnnw, yr hwn a orchymynasai ei enaid yn ol i'w letty yr hwn a adawsai: ac er nad wyf yn clywed yr hyn a ddywedodd; beiddiaf ddywedyd mai geiriau o fawl a syndod oedd y cyntaf a lefarasai ei enaid dychweledig.

Y Fam oedd gwrthddrych tosturi'r Arglwydd yn y weithred hon, ac nid y Mab; yr hwn yn awr, am ei ddwyn yn ol o'i orphwysfa dawel, sydd raid iddo fyned ddwywaith trwy byrth angau. Fel mai er ei mwyn hi y cyfodasid ef, felly i'w dwylaw hi y rhoddwyd ef; fel yr ystyriai'r enaid hwnnw fel wedi ei adferu iddi hi, ac nid i'w berchenog. Pwy na all deimlo syndod a mawredd y llawenydd y fam adfywiedig hon, pan y mae ei Mab yn ei chysanu o fyd arall, ac yn derbyn, ac yn rhoddi gorfoledd oherwydd ei fywyd newydd!

Pa mor fuan y sychwyd dagrau y dorf alarus trwy'r syndod gorfoleddus hwn! Pa mor fuan y troir y wledd angladdol honno yn arlwy dydd-genedigaeth newydd! Gyda pha ymdrech y cofleidir celain diweddar y cymmydog dychweledig! Gyda pha arswyd a syndod yr edrychid ar Arglwydd y Bywyd hwnnw, yr hwn, er gwaeled ei ymddangosiad, a brofasai ei hun yn Holl-

alluog! Gyda pha lawenydd y canmolodd pob tafod y weithred a'i Gweithredwr! *Prophwyd mawr a gyfododd yn ein plith; ac ymwelodd Duw â'i bobl.* Prophwyd oedd yr enw ardderchoccaf a allent ei gael iddo Ef, yr hwn a ganfyddent yn debyg iddynt eu hunain o ran agwedd, yn uwch nâ hwy o ran gallu. Nid adnabyddent etto Dduw wedi ymddangos yn y cnawd. Gallasai'r wyrth hon ei sicrhau ei fod yn fwy nâ phrophwyd: ond Efe, yr Hwn a godasai y marw oddiar yr elor, ni fynnai ar unwaith godi'r calonau meirwon hyn o fedd annghrediniaeth. Cânt achos digonol i wybod mai y prophwyd a gyfodasid iddynt oedd y Duw, yr hwn yn awr a ymwelai â hwynt; ac y gwnai o'r diwedd gymmaint erddynt, ag a wnaethai i'r gŵr ieuangc, sef eu codi o farwolaeth i fywyd, o'r llwch i ogoniant.

Luc vii.

IACHAU MAB Y LLYWYDD.

Y mae haelioni Duw gymmaint mwy nâ'r eiddo dyn, fel fod annhebygolrwydd yn eu gweinyddiad. Cauwn ein dwylaw am i ni eu hagor: ond Duw a agora yr eiddo Ef, am iddo eu hagor. Y mae trugareddau Duw mor gyssurus yn eu canlyniadau ag ydynt ynddynt eu hunain.

Anaml yr â trugaredd ar ei phen ei hun. Lle y cyflawnodd yr Iachawdwr ddiffyg gwîn y Priodfab, yr iachaodd Efe fab y pendefig. Ni wnaethai wyrth yn holl gyffiniau Galilea, ond yn y lle hwn. *I'r hwn sydd ganddo y rhoddir.*

Nid mynych y canfyddwn Grist yn nghwmni'r mawrion: y mae felly yma: Rhyw arglwydd neu lyswr enwog oedd yn awr yn ymbil arno, o blaid ei Fab, yr hwn oedd yn mron marw. Ni cheidw mawredd daearol gystuddiau draw. Nyni ddynion, a arbedwn y mawrion: ond afiechyd ac angau nid adwaenant wynebau pendefigion na brenhinoedd. Pe gellid gwobrwyo y rhai hyn, byddai eu cyfoeth yn ormodol. Paham y grwgnachwn am nad ydym yn cael ein breinio, pan ganfyddom nad yw'r uchelwyr mwyaf yn diangc?

Hola'r llywydd hwn am ddychweliad Crist i Galilea. Bydd dda gan yr enwoccaf yn mhlith dynion ymofynam Grist yn eu hangenion. Da er ei les fod ei fab yn glaf: heb hyn buasai'n par-

hau yn estron i Grist: parhausasi ei enaid yn glaf o anwybodaeth ac annghrediniaeth. Paham yr anfona ein Duw daionus arnom boen, colledion, gwrthwynebiadau, ond fel y'n dygir i ymofyn am dano Ef? A ydym mewn adfyd? i ba le y dylem gyrchu ond i Cana, i geisio Crist? ond i Gana'r nefoedd, lle y troir ein dyfroedd chwerwon yn wîn llawenychol, at y Meddyg hwnnw yr hwn a iacha ein holl lesgedd: fel y gallom ryw ddydd ddywedyd, *Da yw i mi fy nghystuddio.*

Yr oedd oddeutu taith diwrnod o Capernaum i Cana: yma y daeth y llyswr hwn, i gael gwaredu ei Fab o'i glefyd. Pa lafur y mae'r mwyaf yn foddlon myned dano er mwyn iechyd! Lle y mae'r ewyllys nid oes un ffordd yn faith, nid yw unrhyw lafur yn flinderus. Y mae ein heneidiau yn sal o glefyd ysbrydol, yn llafurio yn awr dan oerfelgarwch annghrediniaeth, bryd arall dan wres hunan-gariad: ac eisteddwn o hyd yn llonydd gartref, gan edrych arnynt yn llewygu i angau.

Nid oedd y Llywydd hwn gredadyn nac annghredadyn. Pe buasai lwyr annghredadyn, ni chymmerasai'r boen i ddyfod at Grist: pe buasai gredadyn, ni fuasai, pan ddaeth, yn gwneud yr erfyniad hwn. *Tyred i waered, ac iacha fy Mab, cyn ei farw.* *Tyred i waered,* fel pe na allasai Crist ei iachau yn absennol: *Cyn ei farw,* fel pe na allasai y gallu hwnnw ei godi o feirw.

O, gymmaint y gwahaniaeth rhwng y Canwriad a'r Pendefig? Daethai hwnnw dros ei was: hwn dros ei fab. Nid oedd y mab hwn gymmaint uwchlaw'r gwas, ag oedd y ffydd a ymbiliodd dros y mab yn llai nâ'r hon a ymbiliodd dros y gwas.

Gall un ddywedyd, *Meistr, na ddos dan fy ngronglwyd; canys nid wyf deilwng: Yn unig dywaid y gair, a'm gwas a iacheir.* Gall y llall ddywedyd, "O Feistr, naill ai tyred dan fy nghronglwyd, neu nis gellir iachau fy Mab." *Iacha fy Mab,* a fuasai yn erfyniad da: canys Crist yw'r unig Feddyg i bob clwyf; ond, *Tyred i waered, ac iacha Ef,* oedd dysgu Crist pa fodd i weithio.

Rhesymol iawn yw iddo Ef, yr hwn a'n pia yn mhob ystyr, honni hawl i roddi rheolau i ni: rhyfyg ynom ni yw ei rwymo wrth yr eiddo ni. Nis gall gweithiwr medrus oddef gael ei ddysgu gan newyddian: pa faint llai y gall yr Holl-ddoeth Dduw oddef ei gyfarwyddo gan ei greadur? Y mae hyn yn fwy nâ phe cymmerai'r claf rydd-did i roddi cyfarwyddyd i'r

meddyg. Addas yw erfyn ar Dduw i roddi gras i ni, ond dywedyd, "Dyro Ef i ni mewn llwyddiant," sydd erfyniad annghymwys.

Megis y dylai fod ffyddlondeb yn ein dymuniad o'r dyben; felly dylai fod gwylder ac amynedd yn ein gwaith yn gadael i'r Awdwr ddewis ei foddion. Mewn pethau ysbrydol gwnaeth Duw'r moddion yn hysbys i ni, trwy y rhai y gweithreda, sef ei ordinhadau sanctaidd ei hun. Gallwn erfyn yn ddibetrusder am fendith ar y rhai'n, am ei fod wedi ei addo: mewn pob peth arall nid gweddus i'r cardottyn fod yn ddewiswr. Rhaid iddo, yr Hwn a wna yr hyn a fynno, ei wneuthur fel y mynno. Ein lle ni yw derbyn, nid ordeinio.

Y gŵr a ddaeth i gwyno am afiechyd ei Fab, a glyw am yr eiddo ei hun. *Oni welwch chwi arwyddion a rhyfeddodau ni chredwch.* Yr oedd y pendefig hwn, efallai, o Capernaum: yno y pregethasai Crist yn fynych: yno yr oedd un o'i breswylfeydd mwyaf cyffredin. Naill ai fe glywsai'r dyn hwn Grist yn fynych, neu fe allasai: etto, am i wyrthiau Crist ddyfod atto trwy glywed yn unig, canys hyd yn hyn nis gwelwn un yn cael ei gwneuthur lle y pregethasai amlaf, am hynny nid yw'r dyn yn credu digon; ond llefara wrth Grist megis wrth ryw feddyg cyffredinol. *Tyred i waered ac iacha.*

Anffyddiaeth oedd clefyd cyffredin yr Iuddewon, yr hwn ni allai ond gwyrthiau ei iachau. *Cenhedlaeth ddrwg a godinebus sydd yn ceisio arwydd.* Pe na buasent anrasol o'u bodd, yr oedd tystion ddigon yn barod o'r Messia: Cenhedliad gwyrthiol a buchedd ei ragflaenor, mudanrwydd Zacharias, tystiolaethad angelion, ymddangosiad y seren, taith y doethion, gweledigaeth y bugeiliaid, tystiolaethau Annah a Simeon, cyflawniad y prophwydoliaethau, y llais o'r nef yn ei fedydd, y geiriau grasol a lefarodd: ac etto rhaid gwneuthur yr oll i fynu â gwyrthiau: y rhai er nad oedd anfoddlon i'w rhoddi yn ei amseroedd ei hun, etto nid yw foddlon i gael ei rwymo wrth eu hamseroedd hwy. Peidio credu heb arwydd, oedd arwydd o galon ystyfnig.

Mawr ac enbydus oedd eu bai. *Ni chredwch.* Beth a gondemnia'r byd ond annghrediniaeth? Beth all ein condemnio hebddo? Nis gall un pechod gondemnio'r edifeiriol. Edifeirwch ydyw ffrwyth ffydd: lle y mae gwir ffydd ynte, nis gall fod damnedigaeth; fel na all fod dim amgen lle nid yw. Pa faint mwy ffiaidd bai un o fawrion Capernaum, yr hwn oedd wedi

clywed pregethau Athraw mor Ddwyfol! Po mwyaf ein goleuni, mwyaf gwaradwyddus oll yw ein cwymp. O, beth a ddaw o honom ni, y rhai ydym yn hongcian ac yn syrthio yn yr haulwen disgleiriaf a lewyrchodd erioed ar unrhyw eglwys? Trugarha wrth ein pechodau, O Dduw, a dywaid unrhyw beth am danom yn hytrach nâ, *Ni chredwch.*

Dywaid ein Iachawdwr wrtho am ei annghrediniaeth. Ni theimla ei hun yn glaf o'r afiechyd hwnnw. Ei holl feddwl a red ar ei fab yn ngafael angau. Achwynwn ninnau oherwydd ein clefydau corphorol mor rhwydd, ag ydym annheimladwy o'n rhai ysbrydol.

Rhyfeddol yw addfwynder a thrugaredd Oen Duw! Pan y disgwyliem ei ganfod yn cospi'r ymbiliwr hwn am ei annghrediniaeth, ymostynga atto, er ei ddwyn i gredu. *Dos ymaith, y mae dy Fab yn fyw.* Pe mesurem ein gobaith wrth ein teilyngdod, nis gallem edrych am fendith; ond os cawn ei fesur wrth ei haelioni a'i dosturiaethau, nid oes lle i ammau y llwyddwn. Megis rhyw fam dyner a rydd y fron yn lle'r wialen i'w phlentyn anynad, felly y mae yntau yn ymddwyn tuag at ein cyndynrwydd.

Rhyfedd fel y gwahaniaetha Duw ddynion yn ol dim ond eu ffydd! Yr oedd gwas y Canwriad yn glaf; felly mab y Pendefig. Ni chais y Canwriad gan yr Iesu i ddyfod: yn unig dywaid, *Y mae fy ngwas yn glaf o'r parlys.* Crist a'i hatteba, *Mi a ddeuaf ac a'i iachaf Ef.* Y Llywydd a gais gan Grist i ddyfod ac iachau ei Fab: Crist nid â, ond yn unig dywaid, *Dos ymaith, Y mae dy Fab yn fyw.* Ni phrisia Duw bethau allanol. Delw'r Dwyfol Fawrhydi yn llewyrchu yn dumewnol yn ngrasau'r enaid yw yr hyn a ennill ei serch Ef, a hynny yn y cyflwr iselaf. Gallai ffydd y Canwriad, gan hynny, wneuthur mwy nâ mawredd y Pendefig: a derbyn Gwas y gŵr ffyddlon hynny fwy o sylw, nâ Mab yr uchelwr hwn.

Erfyniad y Llywydd oedd, *Tyred ac iacha.* Atteb Crist oedd, *Dos ymaith, y mae dy Fab yn fyw.* Ein Gwaredwr trugarog a gyferfydd yn y diwedd â'r sawl a groesa ar y ffordd. Mor hyfryd y diwygia ein gweddiau; a, phan na rydd yr hyn a ofynom, rhydd ei ragorach.

Cymmwys iddo naccau myned i lawr gyda'r Llywydd hwn, rhag ei gadarnhau yn y dyb o fesur ei allu trwy ei ddychymygion am leoldeb a phellder: ond gwna hynny yn absennol, i

wneuthur yr hyn y gofynasid am ei bresennoldeb yn ddieffaith: *Y mae dy Fab yn fyw*, trwy'r hyn y rhoddwyd amlycach prawf o hollalluogrwydd nag a ofynasid am dano.

Pa mor fynych y mae Duw yn peidio gwrando yn ol ein ewyllys, fel y gallai wrando er ein lles? Byddai'n dda gan y llestr etholedig gael diangc rhag profedigaethau, ond clyw am ras digonol: y claf a ofyn am waredigaeth, ond derbyn amynedd: am fywyd, a derbyn ogoniant. Gadewch i ni ofyn am yr hyn a dybiwn yn oreu: rhodded yntau yr hyn a ŵyr fod yn oreu.

Crist a iacha ddau o gleifion âg un gair, y tad a'r mab; clefyd y mab, annghrediniaeth y tad. Bwriadai ein Iachawdwr brofedigaeth yn y gair gweithredol hwnnw. Pe aethai'r Llywydd adref heb ymfoddloni ar hyn a glywsai am fywyd ac adferiad ei fab, ni chawsai un o'r ddau ei fendithio. Yn awr, y mae'r newydd am gyflawniad y peth yn ei gyfarfod ar hanner y ffordd: ac efe, yr hwn a gredai ryw gymmaint cyn ei fyned, mwy yn ol ei fyned, a gynnyddodd i fwy o grediniaeth ar y ffordd: phan ddychwelodd adref, helaethodd ei ffydd i holl gyrrau ei deulu. Gall ffydd wan fod yn wirioneddol, ond ffydd wirioneddol a gynnydda. Y sawl a ymffrostia mewn llawn faintioli mor gynted ag y dechreua esgyn, a all ryfygu, ond nid yw'n credu.

Nid oes angen am weinyddwyr ar y mawrion. Eu hesampl a lywia rai, eu hawdurdod fwy. Nis gallant fyned i un o'r bydoedd eraill wrthynt eu hunain.

Ofer yr ymffrostia neb yn eu hawdurdod ar eraill, y rhai ni ymdrechant ddwyn eu teuluoedd at Dduw.

IOAN IV.

Y CYTHRAUL MUD YN CAEL EI FWRW ALLAN.

Fel y gallai Tywysog ein tangnefedd amlygu perffeithrwydd ei fuddugoliaethau, lle bynnag y cyfarfyddai â Thywysog y tywyllwch, gorchfygai ef, gyrrai ef allan. Cafodd ef yn y nef: taflodd ef oddiyno bendramwnwgl, a gwiriodd ei Brophwyd. *Bwriais di allan o'm mynydd sanctaidd.* Ac os y diefliaid a adawsant eu trigfa gyntaf, yr achos oedd eu bod y cyfryw nas gallesent ei gadw. Gallasent yn wir gadw eu dechreuad, ond nis cadwasant: eu trigfa mynnent eu gadw, ond nis

caniattawyd iddynt. *Pa fodd y syrthiaist o'r nefoedd, Lucifer?* Cafodd ef yn nghalon dyn; canys yn yr ystafell honno o eiddo Duw yrymguddiodd, yn ol ei alltudiad o'r nef: rhoddodd pechod iddo feddiant, yr hwn a gadwodd gyda grym gwirfoddol: oddiyno y bwria ef allan trwy ei Air a'i Ysbryd. Cafodd ef yn gormesu ar gyrph rhai dynion, a chydag awdurdod gorchymyn i'r ysbrydion aflan fyned allan.

Nid oes llaw ond yr eiddo ef a all wneud hyn. Pan fyddo gwr cadarn yn cadw meddiant, nis gall ond ei gryfach ei droi allan. Mewn pethau gwirfoddol gall y cryfaf roddi lle i'r gwanaf, megis Samson i Delila: ond mewn trais y cryfaf yn wastadol a garria'r dydd. Rhaid fod natur ysbrydol yn uwch nag un gorphorol. Ac nis gall neb drechu ysbryd, ond Duw'r ysbrydion.

Felly hefyd y mae o ran meddiant y galon. Lle bynnag y mae pechod, yno y mae'r diafol; megis o'r ochor arall, *Pwy bynnag a aned o Dduw, y mae hâd Duw yn awr ynddo.* Y mae'r Un drwg nid yn unig yn mhlant yr anufudd-dod, ond yn eu llywodraethu. Ofer yr ymdrechwn ei fwrw allan, ond trwy allu Dwyfol y Gwaredwr. *I hyn yr ymddangosodd Mab Duw, fel y dattodai weithredoedd y diafol.* A deimlwn ein hunain yn cael ein haflonyddi gan y diefliaid o falchder, hunan-gariad, chwantau cnawdol, ac annghrediniaeth? Nid oes ond Tydi, Mab y byth fywiol Dduw, a all waredu ein mynwes oddiwrth y fath breswylwyr uffernol. *Glanha fi oddiwrth fy meiau cuddiedig, a chadw fi, fel na arglwyddiaetho pechodau rhyfygus arnaf.* O Iesu, nid yw'n wrth-ddywediad haeru dy fod yn bwrw allan fwy o gythreuliaid yn awr, nag a fwriaist pan oeddyt ar y ddaear. Dywedaist, *Os derchefir fi, Mi a dynnaf bawb attaf fy hun.* Satan a dŷn i lawr gerfydd y traed, Tithau a dynnu i fynnu gerfydd y pen, ïe, gerfydd y galon. Yn mhob dychweliad a weithredi y mae difeddianniad. Dychwel di fi, O Arglwydd, a mi a ddychwelir. Gwn nad yw dy foddion yn awr ond rhai cyffredinol. Os disgwyliwn gael ein gwaredu'n wyrthiol, gwyrthiol fyddai pe'n gwaredid. O, bydded i'th Efengyl gael ei pherffaith waith ynof: felly yn unig y'm gwaredir o feddiant y tywyllwch.

Nis gellir dywedyd fod unpeth yn fud, ond a berchen ddawn i lefaru wrth natur: nis gall unpeth lefaru yn naturiol, ond a feddianna offerynau ymadrodd, y rhai am nad ydynt gan

ysbrydion, nis gallant ymddiddan yn lleisiol, ond fel y cymmerant leisiau iddynt eu hunain, trwy gymmeryd cyrph. Nid oedd y diafol hwn, gan hynny, yn fud yn ei natur, ond yn ei effaith. Yr oedd y dyn yn fud trwy weithrediad y diafol hwnnw a'i meddiannai: ac yn awr priodolir y weithred i'r ysbryd, yr hon oedd, o ran ei sylwedd, yn y dyn. *Nid chychwi sydd yn dywedyd*, medd ein Hiachawdwr, ond *Ysbryd fy Nhad yr hwn sydd yn llefaru ynoch.*

Megis nad yw clefydau corphorol oll yn effeithio yn yr un modd: gafaela rhai ar wlybyrau'r corph, a rhai ar yr ysbryd-oedd; rhai a afaelant yn yr ymenydd, y lleill yn y galon neu'r ysgyfaint: felly y mae mewn meddiannau corphorol ac eneidiol. Mewn rhai cymmer yr Ysbryd drwg ymaith eu synwyrau, yn y lleill eu haelodau, ac yn eraill eu galluoedd tumewnol; felly yn ysbrydol cynhyrfa at amryw bechodau, un i drachwant, y llall i ariangarwch, a'r nesaf i greulondeb: a chaiff ei enw yn ol y gwahanol effeithiau hyn. Cythraul mud oedd hwn; yr hwn a feddiannai, nid yn unig dafod y dyn hwn, eithr ei glust hefyd: ïe, fel y mae'n debyg, ei lygaid hefyd.

O ysbryd gormesol a chyfrwys, yr hwn a gaui i fynu bob llwybr i'r enaid: a gedwi bob moddion gras oddiwrth enau a ffynestri'r galon; ïe, yr hwn a atteli bob mynediad i mewn a ddyfodiad allan. Mynediad i mewn trwy'r llygad neu'r glust, pob dyfodiad allan trwy'r genau, fel na byddo modd yn y byd caffael gwaredigaeth.

Pa ddefnydd sanctaidd a wnawn o'n tafodau ond canmol Duw, cyfaddef ein pechodau, goleuo ein brodyr? O amled yw'r diafol mud yma yn mhob man, yn attal geneuau Cristionogion oddiwrth gyflawni y dyledswyddau pwysig ac angenrheidiol hyn.

I 'ba ddyben y mae'r ddwy fraint hynny gan ddyn—sef rheswm, a dawn llefaru, uchlaw'r creaduriaid eraill, ond fel trwy un y gallai fyfyrio ar fawrion weithredoedd ei Grewr, yr hyn ni all y lleill, felly trwy'r llall y gallai draethu ei fyfyrdodau er anrhydedd i'w Wneuthurwr ef a hwythau. A phaham y dywedir fod yr holl greaduriaid yn moli Duw, ac y gorchymynir iddynt wneuthur felly, ond am eu bod yn ei wneuthur trwy amgyffrediad ac ymadroddiad dyn? Os yw'r *Nefoedd yn datgan gogoniant Duw*, pa fodd y gwnant hyn, ond i lygaid a wy dafod y dyn hwnnw, er mwyn yr hwn y cawsent eu

gwneuthur? Nid ychydig yw'r anrhydedd, o'r hwn yr yspeilia'r Ysbryd maleisus ei Greawdwr, os gall gau i fynu enau ei unig greadur rhesymol ac ymadroddol, a throi y rhagoraf o waith ei ddwylaw i eilun mud, yr hwn y mae iddo enau ond ni lefara. *Arglwydd, agor fy ngwefusau; a'm genau a fynega dy foliant.*

Nid addasach mawl na chwynfan: mawl i Dduw, cwynfan oblegid ein hunain, pa un bynnag ai wrth Dduw ai wrth ddynion. Yr unig iawn a allwn ni ei wneuthur i Dduw, pan na ddarfu i ni ochelyd pechod, ydyw cyfaddef y pechod nis gochelasom. *Os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw efe a chyfiawn, fel a maddeuo i ni ein pechodau, ac a'n glanhao oddiwrth bob anghyfiawnder.*

Y lleiddiad-dyn cyfrwys hwnnw a wyr, nad oes un ffordd i iachau enaid claf, ond trwy wneud iddo daflu i fynu y gwlybyrau afiach â'r rhai y gorthrymir ef; ac am hynny, ceidw'r gwefusau wrth eu gilydd, fel na fyddo i'r galon ddilwytho ei hun trwy iachus waghad. *Tra y tewais, heneiddiodd fy esgyrn; canys rymhaodd dy ddwylaw arnaf ddydd a nos; fy irder a drowyd yn sychder haf. Cyffesaf yn fy erbyn fy hun fy anwireddau i'r Arglwydd, fel y byddo i ti faddeu anwiredd fy mhechod.*

Y mae gennym dafod i Dduw pan foliannom Ef: i ni ein hunain, pan weddiom ac y cyffesom; i'n brodyr, pan yr addysgom hwynt trwy'r gwirionedd: yr hwn os attaliwn mewn anghyfiawnder, rhoddwn le i'r diafol mud.

Pa le na welwn yr Ysbryd melldigedig hwnnw? Y mae ar y faingc, pan yr esgeulusa'r Barnwr mud neu bartiol lefaru o blaid y gwirionedd a diniweidrwydd. Y mae yn y pwlpud pan y mae prophwydi Duw yn mogi, yn hannerus neu yn llygru cennadwri eu Meistr. Y mae yn y llys, pan y mae rheithwyr digrefydd yn camdyngu oherwydd ofn, gobaith, neu elw. Y mae yn y farchnad, pan y mae masnachwyr annuwiol, er ceiniog, yn gwerthu'r gwirionedd a'u heneidiau. Y mae yn ymddiddanion cyffredinol dynion, pan y mae'r tafod yn croesi'r galon, yn gwenieithio i'r euog, yn esgeuluso ceryddu, ïe'r beiau atgasaf. O Tydi, yr hwn wyt gryfach na'r cryf hwnnw, bwrw ef allan o eneuau a chalonnau dynion. *Amser yw i ti, Arglwydd, weithio, canys diddymasant dy gyfraith.*

Fel y byddai'n dra hysbys nad oedd yr attalfa hwn yn natur-

iol, mor gynted ag y rhyddhawyd y dyn oddiwrth yr ysbryd, ei dafod a lefara'n rhwydd. Effeithiau ysbrydion a beidiant megis y gweithredir hwynt, ar unwaith. Os Mab Duw a'n gwareda rhag meddiant y gelyn, torrwn allan yn ddioed i glodfori Duw, i gyfaddef ein pechodau, i broffesu'r gwirionedd.

Ond pa amrywiaeth a ganfyddaf yn y rhai a edrychant ar ei wyrthiau: y mae rhai yn rhyfeddu; rhai yn beio; rhai yn temtio, a rhai yn canmol? Ni fu erioed wr na gweithred, heb wahaniaeth barn yn ei gylch. Pwy wr a allasai fod mor sanctaidd ag ef, yr hwn oedd Dduw? Pa weithred allasai ragori ar waredu dyn o feddiant Satan? Er hynny, y gwr hwn, y weithred hon a bar y gwahanol ddeongliadau hyn.

Beth a allwn ei wneuthur, na fydd amrywiol farn yn ei gylch. Os rhoddwn elusen, ac os ymprydiwn, rhai a fawrygant ein tosturi a'n duwiolder: eraill a'n cyhuddant o ragrith: os na roddwn, rhai a gondemnia'n calon-galedwch, eraill a ddywedant ein bod yn caru cyfiawnder. Os pregethwn yn eglur, dywaid rhai ein bod yn myned trwy'r gwaith yn ysmala ac mewn diofalwch, ac eraill mewn symledd marweiddiedig. Os ein pregethau a gostiant i ni fawr lafur, rhai a'n cyhuddant o falchder, eraill a dderchafant ein diwydrwydd yn trin bwydydd moethus Duw. Pa ryfeddod os trinir rhai anmherffaith fel hyn, pan mai hon oedd y driniaeth a gafodd Ef, yr hwn oedd burdeb a chyfiawnder eu hunain. Hunan-ymwadol Ragflaenor Crist *a ddaeth heb na bwytta nac yfed*, dywedant hwythau, *y mae cythraul ganddo. Daeth Mab y dyn yn bwytta ac yn yfed*, dywedant, *Wele ddyn glwth, cyfaill publicanod a phechaduriaid.* Ac yma un o'i weithredoedd sanctaidd a bar syndod, cerydd, clodforedd. Nid oes un ffordd ddiogel i ddyn, ond cyfeirio ei fywyd yn ol uniawn reol cyfiawnder a thrugaredd: ac yna gadael i'r byd roddi'r esboniad a fynno ar ei ymarweddiad. Penderfyniad gwrol ar ran y llestr etholedig oedd, *Gennyf fi bychan iawn yw fy marnu gennych chwi, neu gan farn dyn.*

Nid rhyfedd gennyf i'r bobl ryfeddu: canys wele yma bedwar o ryfeddodau mewn un: y dall a welai, y byddar a glywai, y mudan a lefarai, a'r cythreulig a waredasid. Dylasai'r fath weithred annghyffredinol a galluog beri syndod, neu ni ddylai unpeth ei greu. Gallwn ryfeddu wrth wael ddyfeisiau a chyflawniadau dynion; pa faint mwy y dylem ryfeddu wrth annghyffredinol weithredoedd yr Hollalluog!

Yr hwn a ddeall ansawdd nef a daear, ni synna ond ychydig wrth yr hyn a wna anmherffaith a gwael allu dynion: ond addefa wyrthiol weithredoedd y cyfryw Law Hollalluog gyda'r llawenydd mwyaf llesmeiriol.

Nid yw difeddianniad ysbrydol yn haeddu llai rhyfeddod. Yr hyn sydd annghyffredin ac anhawdd sydd arferol o greu syndod. Y mae llawer o bethau rhyfeddol, o ran eu gwerth, ond a'i collant oherwydd eu cyffredinolrwydd: rhai o ran eu dieithrwch, ond a'i collant oherwydd eu hawsder: y ddau a gyfarfyddant yma. Canfod dynion yn meddiant diafol mud, sydd mor gyffredin, fel ei fod yn rhyfeddod fod neb yn rhydd: ond canfod diafol mud yn cael ei fwrw allan o ddyn, a'i glywed yn moli Duw, yn cyfaddef ei bechod, yn dysgu eraill felused yw trugaredd, sydd deilwng o'n syndod. Os y Philosophydd gynt a chwiliodd yn y farchnad am ddyn yn mhlith dynion, cymmwys chwilio yn eu plith am ddyn wedi ei ddychwelyd. Nid llai chwaith yr anhawsder na'r annghyffredinolrwydd. Y mae y gŵr cadarn mewn meddiant: pob mynediad i mewn wedi ei gloi i fynu, rhwystrir pob cynnorthwyon, gan dwyll ein natur. Os gwaredir unrhyw enaid oddiwrth y drygau ysbrydol hyn, y mae er mawl iddo Ef yn unig, yr hwn a wna ryfeddodau.

Ond pwy a welaf yn rhyfeddu? Y torfeydd. Y lluaws annysgedig a ryfeddant oherwydd y weithred honno, yr hon a waradwyddir gan yr ysgrifenyddion dysgedig. Datguddiodd Duw y pethau hynny i fabanod, y rhai a guddiodd oddiwrth y doeth a'r deallus. Gyda pha ddirmyg y llefara y Rabbiaid mawrion hyn am y rhai hyn, meibion daear,—*y bobl hyn, y rhai ni wyddant y gyfraith, melldigedig ydynt.* Er hynny trugaredd Duw a gymmer fantais ar eu symledd, o ran eu bod yn llai agored i ddadleugarwch ac annghrediniaeth: megis i'r gwrthwyneb y par ei gyfiawnder i wybodaeth chwyddedig eraill fod yn rhwystr ar eu ffordd, i esgyn i grediniaeth gyflym am ddwyfol allu'r Messia. Diystyred gwrthwynebwyr uchel a beilchion dlodi derbynwyr yr Efengyl: ni fydd yn ofid i ni fyned i'r nefoedd gyda'r werin, tra yr â yr mawrion yn eu gorwychder i golledigaeth.

Y torfeydd a ryfeddasant. Pwy a feiasant ond yr Ysgrifenyddion, doctoriaid mawr y gyfraith, a duwinyddiaeth yr Iuddewon? Pa ysgrifenyddion ond rhai Jerusalem, pennaf

athrofa Judea? Dyma'r bobl, y rhai, yn eu mawr a'u clodfawr ddoethineb, a fwriasant y ffiaidd enllibau hyn ar Grist. Callineb mawr yn fynych a gam-arweinia y sawl a'i meddiannant ac a'i dilynant. O, 'r nifer fawr a ewyllysiant ryw ddydd, pe buasent erioed heb feddu synwyr, pan ganfyddant eu doethineb wedi eu cau allan o'r nefoedd! *Pa le y mae'r ysgrifenydd? pa le y mae ymholydd y byd hwn? oni wnaeth Duw ddoethineb y byd hwn yn ynfydrwydd?* Dyweded y byd yr hyn a fynno, y mae'r mesur lleiaf o sancteiddrwydd yn rhagori ar y mesur mwyaf o ddoethineb. Beied eraill gyda'r ysgrifenyddion: gadewch i ni ryfeddu gyda'r torfeydd.

Beth waeth a allasai malais ei ddywedyd? *Bwrw allan gythreuliaid trwy Beelzebub Pennaeth y cythreuliaid.* Gwyddai'r Iuddewon nad oedd duwiau'r paganiaid ond cythreuliaid yn mhlith y rhai, *Arglwydd y gwybed* am y tybid y mŵyaf, (yr hwn a elwid felly naill ai o ran y lluoedd o wybed a neidiant at ei aberthau, neu o achos y gofynid am ei gymmorth yn eu herbyn:) am hynny galwant Ef *Pennaeth y cythreuliaid.* Y mae is-raddoldeb ysbrydion: rhai yn uwch mewn graddau, rhai yn iselach na'u gilydd. Sonia ein Hiachawdwr ei hun am y diafol a'i angelion. Y mae cennadon yn ìs na'u hanfonwyr. Y saith gythraul a aethent i mewn i'r tŷ, yr hwn oedd wedi ei ysgubo a'i drwsio, oedd waeth nâ'r hwn oedd ynddo yn barod. Ac nid yw awdurdodau, a galluoedd, a llywiawdwyr, a thywysogion y byd hwn yn arwyddo namyn gwahanol raddau'r ysbrydion aflan. Nis gall unpeth hanfodi heb unrhyw drefn; ac nis gall fod trefn mewn cydraddoldeb. Os edrychwn i fynu i'r nef, canfyddwn yno *Frenhin y Brenhinoedd, Arglwydd yr Arglwyddi,* Uwch nâ'r uwchaf. Os edrychwn i'r ddaear, yno y mae brenhinoedd, tywysogion, llyswyr, a phobl. Os edrychwn i uffern, yno y mae *Pennaeth y cythreuliaid.* Ymdrechant am derfysg, y rhai a alwant am gydraddiaeth. Beth a wna'r Eglwys â'r fath drefn, a'r nas gwelir yn y nef, nac ar y ddaear, nac yn uffern?

Gellid defnyddio un diafol, yn ol eu tyb hwy, i yrru allan un arall. Pa mor belled y gallai un ysbryd oruwchlywio ysbryd arall sydd uffernol ddirgelwch, rhy ddwfn i ddyn ei chwilio allan. Y peth ei hun sydd amlwg: rhydd un ffordd i arall, trwy gyngrair a chydundeb blaenorol, er mantais gyffredinol. Megis y canfyddwn mewn corph o dwyllwyr ac yspeilwyr;

Gwna un y weithred, cymmer y llall ei wobrwyo am ei hamlygu, a pheri adferiad: y mae'r ddau yn y fasnach: y mae'r ddau yn y twyll: nid yw'r gweithredwr yn syrthio allan â'r amlygwr, eithr derbyn ran o'r gyfrwys yspail gydag ef.

Un adyn maleisus a rydd y diafol ar waith er peri afiechyd neu angau i eraill; arall a ymrwyma, er mwy elw ysbrydol, ei gymmeryd ymaith: y mae diafol yn y ddau. Ac os ymddengys mwy lles i'r corph yn yr olaf, nid oes llai enbydrwydd ysbrydol ynddo. Yn y flaenaf ennill Satan y gweithredwr: yn yr ail yr ymgeisydd. Ni fydd cweryl yn uffern am i un diafol esmwythau ar y corph a boenid gan un arall, fel y gallai'r ddau ymlawenhau oherwydd ennill o honynt enaid.

O Dduw, mor enbydus yw, fod unrhyw greadur, â'th ddelw di arno, heb ffieiddio bod dan rwymau i alluoedd uffern am gynnorthwy, am gyfarwyddyd! *Ai am nad oes Duw yn Israel yr â dynion i ymofyn a duw Ecron?* A all dynion fod mor hurtaidd a meddwl y bydd i gyhoeddus elyn eu heneidiau roddi abwyd ger eu bron heb fach ynddo? *Pa ddrwg sydd yn y ddinas, yr hwn ni wnaeth yr Arglwydd?* a pha ddrwg nas gall Ef mor rhwydd ei symmud? Archolla: iacha drachefn: ac os na iacha, *Yr Arglwydd yw Efe, gwnaed a fyddo da yn ei olwg.* Os na wareda ni, corona ein ffyddlondeb trwy ein nerthu i barhau yn amyneddgar. Gwell yw archollion Duw nag eïau Satan.

A oedd yn bossibl i synwyr maleisus ddyfeisio'r fath enllib ysgeler? Beelzebub oedd dduw'r paganiaid: am hynny cyhuddent Grist o eilunaddoliaeth. Beelzebub oedd ddiafol yn marn yr Iuddewon: am hynny cyhuddent ef o gonsuriaeth. Beelzebub oedd pennaeth y cythreuliaid: am hynny cyhuddent ef o dyngedyddiaeth—o'r rhywogaeth waethaf o swyn gyfareddiaeth. Rhai a broffesant y gelfyddyd ddu hon, etto a gymmerant arnynt weithredu yn enw'r Iesu, er mai cythreulig yw eu gwaith: ac ymddangosant yn rhyfygus fel yn gwneuthur hynny trwy orchymyn, yr hyn a gyflawnir yn ddirgelaidd trwy gyngrair. Cyhudda'r ysgrifenyddion Grist o gyttundeb pendant â'r diafol, a thybiant eu bod eill dau mewn cyngrair a chyfeillgarwch: yr hyn yn ol cyfraith Moses a derfynai mewn marwolaeth, hyd yn oed dan lywodraeth Saul. Ië, y mae'r clwyf hwn mor ddwfn fel fod ein Iachawdwr, trwy ei chwilio i'r gwaelod, yn cael dim llai ynddo nâ'r pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan: gan gasglu oddiwrtho y ddedfryd arswydus honno o an-

faddeuoldeb y pechod marwol hwnnw. Ac os bwriwyd y cyhuddiad trwm hwn arnat ti, O Iesu, yn yr Hwn ni chafodd tywysog y byd hwn ddim, pa ryfedd, os enllibir ni, dy bechadurus weision, ar bob llaw, gan dafodau drwg?

Iĕ, pa mor amlwg yw i'r dynion hyn drwy drais, beri i'w tafodau draethu'r enllib hwn, yn erbyn eu barn eu hunain! Pe amgen, ni fuasai eu cabledd ond yn erbyn Mab y Dyn yn unig: nid yn erbyn yr Ysbryd Glan: ond yn awr, gan fod chwiliwr y galon yn ei gael yn gabledd yn erbyn Bendigedig Ysbryd Duw, rhaid ei fod yn tarddu o gyndynrwydd; eu malais o'u bodd a groesa eu cydwybod. Ni phrisia cenfigen wirionedd eithr malais. Os gall glwyfo neu ladd, nis gwaeth ganddo pa un ai trwy wir neu anwir. Gyda golwg arnom ni, *Gwyn eich byd pan y'ch gwaradwyddant, ac y dywedant bob drygair yn eich erbyn, er mwyn enw Crist.* Mewn perthynas iddynt hwy—*Beth a roddir i ti, dydi dafod twyllodrus? Llymion saethau cawr yn nghyd a marwor meryw,* ïe, marwor uffern, â'r rhai y'th gynneuwyd.

Yr oedd etto drydydd math, y rhai a ryfeddent, ond heb feio. Nid oedd y rhai hyn mor faleisus ag i briodoli'r wyrth i weithrediad Satanaidd. Addefant fod yr hyn a wnaeth yn dda, ond nad oedd ddigonol: am hynny galwant ar Grist am brawf eglurach. "Er bwrw allan o honot y diafol mud hwn, etto nid yw hyn yn ddigon o arwydd o'th Ddwyfol allu. Nis gwelsom etto ddim gennyt tebyg i'r hên wyrthiau yn amseroedd ein teidiau. Parodd Josua i'r haul aros: Elias a ddygodd dân i lawr o'r nef: Samuel a frawychodd y bobl â tharanau a gwlaw yn nghanol y cynhauaf: os wyt yn gorchymyn i ni gredu, gwna ryw beth cyffelyb i'r pethau hyn. Y mae bwrw allan gythraul yn dangos fod gennyt ryw awdurdod ar uffern: amlyga yn awr nad yw dy awdurdod ddim llai ar y nefoedd."

Y mae math ar ddymuniad afresymol ac anniwall mewn annghrediniaeth; ni ŵyr byth pryd y mae ganddo ddigon o dystiolaeth. Y wyrth a ddibrisia'r Iuddewon, oedd gadarnach amlygiad o Dduwdod nâ'r hwn a geisient. Yr oedd bwrw allan gythraul trwy orchymyn, yn fwy nâ gorchymyn tân o'r nefoedd. Car annghrediniaeth yn wastadol rannu iddi ei hun.

Nis gall mab debygu mwy i'w dad, nâ'r Iuddewon hyn i'w henafiaid yn yr anialwch. Fel na fyddai perygl iddynt ddirywio i ddaioni, hwythau hefyd gynt a demtient Dduw yn y diffeithwch. Yn gyntaf, y maent wedi blino ar gaethiwed yr

Aipht, ac yn barod i syrthio allan â Duw a Moses, am eu bod yn aros yn y ffwrneisiau. Rhyddheir hwynt trwy ddeg o blâau gwyrthiol: ac, yn ol myned allan o'r cyffiniau hynny, yr Aiphtiaid a'u dilynasant: y mae'r môr o'u blaen; yn awr gofidiant fwy oherwydd eu gwaredigaeth, nâ'u caethiwed: y môr a holltir: yr Aiphtiaid a foddir. Ac yn awr, yn ddiogel ar y lan arall, temtiant Ragluniaeth Duw am ddwfr: y graig a'i rhydd iddynt: yna am fara a chig: y mae Duw yn anfon iddynt fanna a soflieir: maent yn cael digon ar fara angelion. Eu gelynion presennol ar y ffordd a orchfygir; cwynfanant oblegid y cewri yn ngwlad Canaan. Trugaredd i gyd ar law Duw: temtasiynau i gyd ar eu llaw hwythau.

Yr oedd gan eu gwir hiliogaeth, mewn anian a phechod, ddigonol brofion o'r Messia. Os digon oedd iachau'r deillion, cloffion, gwywedigion, byddariaid, bwrw allan gythreuliaid, goruwch-lywio'r elfennau, adgyfodi'r meirw: etto rhaid iddynt gael arwydd o'r nef.

Y mae'r galon rasol yn hygred: cred, ïe, lle ni wel: a lle y gwel ond ychydig, cred lawer. Ni ryfyga i gyfarwyddo Duw, beth, a pha fodd, y mae i weithredu: eithr cymmer yr hyn a gaiff, ac ymfoddlona yn ddiysgog yn yr hyn a gymmer. Y mae unrhyw wyrth, neu'r absenoldeb o bob gwyrth, yn ddigon er ennill eu cyd-syniad hwy, y rhai a adeiladasant eu ffydd ar Efengyl yr Arglwydd Iesu.

MATTHEW XII.

GALW MATTHEW.

NID oedd nifer yr Apostolion etto yn gyflawn. Y mae un ystafell yn wâg, i ryw feddiannydd dyfodol. Pwy all lai nâ disgwyl y bwriadir hi i ryw berson ardderchog? Ac wele, Matthew'r publican yw'r gŵr!

O ryfedd etholiad Crist! Y disgyblion eraill, y rhai y cawn hanes am eu galwad, a ddaethant o longau pysgotta: hwn o'r dollfa: yr oeddynt hwy yn annysgedig, hwn oedd waradwyddus. Nid oedd y sefyllfa ynddi ei hun yn bechadurus, ond yn gymmaint a bod y trethi a osododd y Rhufeiniaid ar rydd bobl Dduw, mor gas ganddynt; felly hefyd yr oedd y rhai a'u casglent, a'u gosodent ar rent. Heblaw hyn, anhawdd oedd cyflawni'r swydd honno heb ormes, heb drais. Yr Hwn a'i hadnabyddai oreu

a'i cyhuddai o gribddeiliad a gwenieithiad; ac wele yn awr bublican crafangol yn cael ei alw i deulu, i apostoliaeth, i ysgriflawiaeth Duw. Pwy all anobeithio dan deimlad o'i anhaeddiant, pan wel y fath esiampl a hwn o rad haelioni'r Hwn sy'n ein galw? Nid haeddiant a garia'r dydd yn ngrasol etholiad Duw, ond rhad ras.

Yna'r eistedd Matthew y publican, yn ddiwyd, yn ei dŷ cyfrifon: yn edrych beth sydd yn ei rent-lyfr, yn codi yr hyn sydd heb ei dalu iddo, yn ymryson am y tollau a nacceid iddo, ac yn meddwl mor lleied am y Gwaredwr, fel na wnaeth gymmaint ag edrych arno pan oedd yn ei bassio. *Ac fel yr oedd yr Iesu yn myned oddiyno, Efe a ganfu wr yn eistedd wrth y dollfa, a elwid Matthew.*

Iesu a'i canfyddodd wrth fyned heibio, megis pe buasai y canfyddiad hwn yn ddisymwth a damweiniol. O Iesu, gwelaist y dyn hwn yn eistedd yno, cyn creu'r byd: gwelaist dy hun yn myned heibio iddo: gwelaist ef yn cael ei alw yn dy fynediad hwnnw: ac yn awr, yr wyt ti yn myned yn fwriadol y ffordd honno fel y canfyddit, ac y galwit. Nis gellir celu dim rhag y llygad treiddgar hwnnw, yr hwn âg un *cip-olwg* a ganfyddodd ddisgybl yn ngwisgoedd publican. Y gwisgoedd hynny, y siop ormesol honno, nis gallant guddio rhagot lestr etholedig. Adwaeni dy eiddo yn mhob agwedd, ac, yn dy amser dy hun, dygi hwy allan o dwyll-wisgoedd eu haflan bechodau, neu sefyllfaoedd anaddas. Beth a welaist, Waredwr, yn y publican hwnnw i ddenu dy lygad, neu nad oedd yn dramgwydd iddo? Beth ond masnach ffiaidd, llygad drwg, llaw ormesol, byrddau gwaedlyd, pentyrrau o yspail? Er hynny, dywedi yn awr, *Dilyn fi.* Tydi, yr Hwn a ddywedaist wrth Jerusalem, *Dy drigfa a'th enedigaeth sydd o wlad Canaan: dy dad oedd Amoriad, a'th fam yn Hittees: ni thorwyd dy fogail, ac mewn dwfr ni'th olchwyd i'th feddalhau, ni'th gyweiriwyd chwaith â halen, ac ni'th rwymwyd â rhwymyn. Ni thosturiodd llygad wrthyt, ond ar wyneb y maes y'th daflwyd, i ffieiddio dy einioes, ar y dydd y'th aned. A phan dramwyais heibio i ti, a'th weled yn ymdrybaeddu yn dy waed, dywedais wrthyt, Bydd fyw, ie, dywedais wrthyt yn dy waed, Bydd fyw.* Yn awr, hefyd, pan yr ai heibio, a chanfod Matthew yn eistedd wrth y dollfa, dywedaist wrtho, *Dilyn fi.* Yr oedd bywyd y publican gymmaint yn waeth nâ genedigaeth yr Amoriad gwael hwnnw, ag oedd *Dilyn*

fi yn fwy nâ *Bydd fyw*. Beth a elli weled ynom ni, O Dduw, ond y gwrthuni mwyaf, y pechodau atgasaf, trueni dirmygedig? Er hynny, rhynga bodd i'th drugaredd i ddywedyd wrthym, *Byddwch fyw*, ac hefyd *Dilynwch fi*.

Y cyfiawn yw'r cyntaf i gyhuddo ei hun. Pwy a glywn yn taenu ar led gywilydd Matthew, ond ei enau ei hun? Dywaid Matthew'r Efangylwr am Matthew y publican. Ei gyfeillion a'i galwant *Lefi*, gan ddymuno rhoi o'r golwg frycheuyn ei broffes annymunol: ond ei hun nis gwnai ef fymryn gwynach; ond cyhoedda ef i'r holl fyd, mewn addefiad diolchgar o'r drugaredd a'i galwasai, gan ymfoddloni yn dda i'w waeledd ef fod yn foddion i osod allan ogoneddus ddisgleirdeb y gras a'i hetholasai. Beth waeth faint fo'n gwaeledd os dy ogoniant di a ddercheſir trwyddo?

Digon oedd y gair hwnnw, *Dilyn fi;* yr hwn a leferid gan y tafod a ddywedasai wrth y corph marw yn Nain, *Y Mab ieuangc, yr wyf yn dywedyd wrthyt, Cyfod.* Efe, yr Hwn a ddywedodd ar y cyntaf, *Bydded goleuni*, a ddywaid yn awr, *Dilyn fi*. Y gallu hwnnw sy'n tueddu'n hyfryd, yr hwn a allasai orchymyn yn rymmus: nid yw'r trais yn fwy anwrthwynebol nà'r dengarwch. Pan lewyrcha'r haul ar bibau'r ia, a allant lai nâ thoddi a syrthio? Pan belydra i ddaear-dŷ, a all y lle lai nag ymddisgleirio? A ganfyddwn y maen-tynnu yn tynnu haiarn atto, ac a ryfeddwn os yw Iachawdwr Hollalluog, trwy rym ei Ysbryd, yn tynnu calon publican atto ei hun? *Ac efe a gyfododd, ac a'i canlynodd Ef.* Wrth natur, yr ydym oll yn troi oddiwrthyt, O Dduw, ond byddet it' ond gorchymyn i'n, *Dilyn fi*, tŷn ni trwy dy air nerthol, ac ni a redwn ar dy ol! Och! Tydi a lefari, a ninnau a eisteddwn yn llonydd: Tydi a lefari trwy dy air allanol wrth ein clust, ac ni symmudwn o'r fan. Llefara trwy air dirgelaidd ac effeithiol dy Ysbryd wrth ein calon; yna nis gall y byd ein dal i lawr; Satan nis gall ein rhwystro: nyni a gyfodwn ac a'th ddilynwn di.

Yr oedd yr alwedigaeth a adawodd Matthew er dilyn Crist i dlodi, yn gymmaint ei helw a'i thrafferth: ac yn awr bwrw ymaith ei fwrdd cyfrifon, trefna yr ysgôr, croesa ei lyfrau, a dirmyga holl bentwr ei arian, mewn cydmariaeth i'r trysor rhagorach hwnnw, yr hwn a ganfyddai mewn llwyr ymroddiad i Grist. Os barnwn unrhyw nwyf yn rhy werthfawr i ymadael âg ef, er mwyn yr Iesu, yr ydym yn fwy addas i fod yn bublicanod nà disgyblion.

Gwahodda Grist Matthew i fod yn ddisgybl: Matthew a'i gwahodda yntau i wledda. Ei lawenydd am ei alw a bar iddo ddechreu ei ymwrthodiad â'r byd mewn gwledd. Wele yma ostyngeiddrwydd mor rasol yn y gwahoddedig ag oedd sirioldeb diolchgar y gwahoddwr. Y gwas newydd a wahodda ei Feistr: y publican ei Waredwr: ac fe'i perchir a'i ddedwyddol bresennoldeb.

Ni chanfyddaf Grist yn naccau myned at unrhyw fwrdd y gwahoddid ef atto. Os Pharisead, os publican a'i gwahoddai, ni pheidiai a myned; nid er mwyn y disglau, beth oedd y rhai hyn iddo Ef, yr hwn a ddechreuasai ei waith mewn Garawys cyfan o ddyddiau? ond am mai ei fwyd a'i ddiod oedd gwneud ewyllys ei Dad, er i eraill gael y fantais o'i ddengar ymadroddion. Os eisteddai gyda phechaduriaid, dychwelai hwy: os gyda dychweledigion, cadarnheai a goleuai hwy: os gyda'r tlodion, porthai hwy: os gyda'r cyfoethog mewn sylwedd, gwnai hwynt yn gyfoethoccach mewn gras. Wrth fwrdd pwy yr eisteddodd erioedd heb ennill i'w llettywr. Y priod-fab tlawd a'i gwahoddodd i'w dŷ, a llanwyd ei ddwfr-lestri o win. Simon y Pharisead a'i gwahodda, ac anrhydeddwyd ei ford â phardwn cyhoeddus i bechadures edifeiriol, a'r athrawiaeth nefol o faddeuant. Zaccheus a wna'r unrhyw; daeth iachawdwriaeth y dydd hwnnw i'w dŷ, gyda'r Awdwr o honi: y presennoldeb hwnnw a wnaeth bublican yn fab i Abraham. Gwobrwyir Matthew ag apostoliaeth am ei wledd. Mair a Martha a'i llettyant, ac, heblaw addysg nefol, derbyniant eu brawd o blith y meirw. O Iesu, y mae gwynfyd yn bod, pa un ai tydi sydd yn ein gwledda ni, ai nyni sy'n dy wledda di.

Lle y mae arlwywr y wledd yn bublican, nid rhyfedd os publicanod a phechaduriaid yw'r gwahoddedigion. Nid wyf yn ymofyn, pa un ai daethent mewn gobaith o'r drugaredd honno a ganfuasant eu cyfaill yn gyfrannog o honi, ai ynte Matthew a'u gwahoddasai i fwynhau o'r gras digonol hwnnw a brofasai ei hun. Publicanod a phechaduriaid a gyd-ymgynnullant: y blaenaf yn ffiaidd o ran eu celfyddyd; y lleill o ran eu buchedd-iad ddrygionus. Deuant i undeb â'u gilydd, oherwydd eu bod yn ddirmygedig gan bawb eraill: a gyr hyn hwynt i ymgyssuro yn y gyd-gymdeithas honno, yr hon a dybir gan bawb eraill yn ffiaidd a heintus. Cerydd cymhedrol a ddarostwng y pechadur, ac a'i cuddia â chywilydd: tra y mae toster creulon yn ei wneud yn gynddeiriog, ac a'i gyr i'r llwybrau hynny, yn y

rhai yr halogir ef etto'n waeth. Pa nifer a aeth i garchar yn ddifai, ac a ddaeth allan yn anfad! Os nad oedd y publicanod yn bechaduriaid, nid oeddynt dan y rhwymau lleiaf i'w cymmydogion.

O'r fath gwmni sydd wrth y ford hon! Mab Duw yn amgylchynedig gan bublicanod a phechaduriaid! O bublicanod a phechaduriaid dedwydd, y rhai a gawsant afael yn eu Gwaredwr: O Geidwad trugarog, yr hwn ni ddirmygaist y cyfryw ddynion! Pwy bechadur sydd raid iddo ofni ymostwng ger dy fron, pan wel bublicanod a phechaduriaid yn eistedd gyda thi? Pwy a all ofni y bydd i'th addfwynder a'th drugaredd ei ddiystyru, pan nad wyt yn ffieiddio ymddiddan âg ysgubion dynolryw? Ni ddiystyraist y lleidr yn cyfaddef ar y groes, na'r bechadures yn wylo ar dy droed, na'r Ganaanëes yn llefain arnat ar y ffordd, na'r odineb-wraig gywilyddgar, na'r publican ffiaidd, na'r disgybl anudonaidd, na'r erlidiwr i'th ddisgyblion, na'th ddihenyddwyr dy hun. Pa fodd na fydd i ni groesaw attat, os nyni a ddeuwn â dagrau yn ein llygaid, ffydd yn ein calonau, ac adtaliad yn ein dwylaw? O Iesu! ein mynwesau ydynt yn rhy fynych yn gauedig yn dy erbyn; ond yr eiddo ti sydd bob amser yn agored i ni. Yr ydym yn bechaduriaid gymmaint a chyfeillion y publicanod hyn; paham yr anobeithiwn gael lle wrth dy fwrdd?

Y Phariseaid llygad-draws a edrychant yn anghywir ar holl weithredoedd Crist. Lle y dylasent ryfeddu ei drugaredd, beiant ar ei sancteiddrwydd. *Dywedasant wrth ei ddisgyblion Ef, Paham y bwytty eich athraw chwi gyda'r publicanod a'r pechaduriaid.* Ni feiddient ddywedyd hyn wrth yr athraw, yr hwn a roddasai atteb, fel y gwyddent, a'u bwriai hwynt i lawr. Y gwynt hwn, gobeithient, a ysgydwai ffydd wan y disgyblion: llefarant lle y maent debyccaf i wneuthur drwg. Yr holl giwed o offerynau Satan a ddysgasant y grefft hon gan eu hen athraw yn Mharadwys.

Nis gallwn barchu yr hwn a dybiwn yn ansanctaidd. Collasai Crist galonau ei ddilynwyr pe anmheuasent ei burdeb yn y mesur lleiaf: yr hyn yr oedd iaith y Phariseaid maleisus hyn yn lled arwyddo. "Nid yw ef addas i'w ddilyn, yr hwn sydd ansanctaidd: nis gall ef lai na bod yn ansanctaidd yr hwn sy'n bwytta gyda publicanod a phechaduriaid. O Phariseaid beilchion a ffol! ymprydiwch tra y mae Crist yn bwytta: ym-

prydiwch yn eich tyau eich hunain, tra y mae Crist yn bwytta yn nhyau rhai eraill; ymprydiwch gyda'ch teuluoedd eich hunain, tra y bwytty Crist gyda phechaduriaid: ond os ymprydiwch mewn balchder, tra y mae Crist yn bwytta mewn gostyngeiddrwydd: os ymprydiwch gartref mewn hunan gyfiawnder, ac er dynol glod, tra y bwytty Crist gyda phechaduriaid mewn tosturi, er eu hadeiladu a'u dychwelyd, eich ympryd chwi sydd ansanctaidd, ei wledd yntau sydd lân: cewch eich rhan gyda'r rhagrithwyr, pan ogoneddir y cyfryw bublicanod a phechaduriaid.

Pan dybiodd y beiwyr hyn fod y disgyblion wedi gwneuthur ar gam, ni lefarant wrthynt hwy, ond wrth eu Meistr. *Paham y gwna dy ddisgyblion yr hyn nid yw gyfreithlon?* Yn awr, pan dybiasant wneuthur o Grist yr hyn oedd allan o le, llefarant, nid wrtho Ef, ond wrth ei ddisgyblion. Fel hyn yr ymdrechant, megis gwir gynhyrfwyr drygioni, wneuthur rhwyg yn nheulu'r Iesu, trwy osod y naill yn erbyn y llall.

Cyflym lygad ein Gwaredwr a ddirnadodd eu twyll yn fuan, am hynny, cymmer y geiriau allan o eneuau ei ddisgyblion i'w enau ei hun. Yr oeddynt wedi llefaru am Grist wrth ei ddisgyblion. Crist a ettyb yn lle'r disgyblion, drosto ei hun, *Nid rhaid i'r iach wrth feddyg, ond i'r rhai cleifion.* Yn unol â dwy briodoledd balchder—sef, diystyrwch o eraill, ac uchel hunan-dyb—y Phariseaid hyn a brisient yn ormodol eu sancteiddrwydd eu hunain, ac a ddiystyrent gyhoeddus ansancteiddrwydd eraill, megis pe na buasent hwy eu hunain wedi eu llygru gan feiau cuddiedig, ac nas gallasai eraill gael maddeuant ar eu hedifeirwch. Cyferfydd Chwiliwr y galon â'u balchder, a chyhoedda'r hunain-gyfiawn hyn yn bechaduriaid, a'r pechaduriaid hyn yn gyfiawn. Y Meddyg Ysbrydol a gyhoedda afiechyd y pechaduriaid hynny yn iechyd, iechyd y Phariseaid hynny yn anobeithiol: y cyntaf yn iechyd, am ei fod yn galw am help y Meddyg; yr olaf yn anobeithiol, am nad yw yn teimlo ei angen o hono. Mae pob enaid yn glaf; hwnnw yw'r mwyaf claf, yr hwn ni theimla ei glefyd. Y sawl a'i teimlant, a achwynant; y sawl a achwynant, a iacheir: y sawl a'r nis teimlant, a gânt eu hunain yn marw, cyn y dymunant feddyginiaeth. O Feddyg bendigedig, *trwy gleisiau yr Hwn y'n iacheir ni,* trwy angau yr Hwn yr ydym yn byw: dedwydd y sawl sydd dan dy ddwylaw yn glaf o bechod, ac o alar am dano. Y mae mor anmhosibl

iddynt farw, ag yw bod angen arnat ti o fedrusrwydd, neu allu, neu drugaredd. Gwnaeth pechod ni yn glaf hyd farw: gwna di ni mor glaf a hynny o'n pechodau: ac yna y mae ein diogelwch ni gymmaint a'th raslonrwydd dithau.

MATTHEW IX.

CRIST YN MHLITH Y GERGESIAID;

NEU'R LLENG, A'R GENFAINT GADERENAIDD.

Ni welaf mewn un man gythreulig mor orwyllt ag yn mhlith y Gergesiaid. Gormesa Satan fwyaf lle y caiff fwyaf o ufudd-dod.

Nid cynt yr hwyliodd Crist dros y llyn, nag y cyfarfu ag Ef ddau ddieflig o'r Gergesiaid: cynddaredd anghymedrol yr un a foddodd y sôn am y llall.

Etto, yn nghanol yr holl greulondeb hwnnw o eiddo yr Ysbrydion aflan, yr oedd attalfa, i raddau, weithiau ar y gofid. Os cipiasai Satan ef *ar lawer o amserau*, yna rhaid fod rhai amserau, yn y rhai nid oedd yn ei gipio felly. Nid oedd dan ddiolch i'r un maleisus hwnnw, yr hwn, fel yr oedd yn ddiflino yn ei lafur, oedd lawn mor anfesuredig yn ei elyniaeth: ond i drugarog oruwch-lywyddiaeth Duw, yr hwn, mewn tiriondeb at wendid ei wael greaduriaid, a rydd derfyn ar ymdrechion digasog y gelyn anfarwol hwnnw, ac a dynna ymaith y gwaedgi, fel y caffom amser i anadlu. Efe, yr Hwn yn ei gyfiawnder a ganiatta i Satan ruthro arnom, mewn trugaredd a'i hattalia, gan olygu fel ein anhaeddiant, felly ein nerth. Pe cai'r ysbryd maleisus hwnnw ei ffordd, nis gallem fyw: ni pharha trais yn hir; a phe cai Satan ei ewyllys, ni chaem fod yn rhyddion am foment. Nis gall fwy flino yn gwneuthur drwg i ni, nag y gall Duw yn gwneuthur daioni. A ydym, gan hynny, yn cael ein cadw rhag malais galluoedd y tywyllwch? *Bendigedig fyddo yr Arglwydd yr hwn ni roddodd ni yn ysglyfaeth i'w dannedd hwynt.* Neu, os rhoddwyd caniattad, i ryw fesur, i'r cenfigennus hwnnw ein trallodi, a gyfyngwyd arno? Dy drugaredd, yn unig, O Dduw, a gadwynodd ac a safn-rwymodd y cadwyn-gi hwn. Fel y darfu iddo ein crafu a'i balfau yn unig, heb blannu ei ewinedd ynom. Pell, pell ydym oddiwrth haeddu hyn, y rhai ydym wedi haeddu cael bod yn

amddifaid o'th ffafr a'th nodded, a chael ein bythol ddal gan Satan mewn corph ac enaid..

Ac ni chanfyddaf yma fwy o achos am ddiolchgarwch i'n Duw, am ein cadw oddiwrth niweidiau allanol Satan, nag am ddwys ymofyniad am ei allu drosom, gyda golwg ar rai ysbrydol. Canfyddaf rai a dybiant eu hunain yn rhydd oddiwrth ei lywodraeth ysbrydol, am eu bod weithiau mewn tymmorau da, yn rhydd oddiwrth annogaethau i bechodau gwarthus, llawer mwy oddiwrth eu gwneuthuriad. O ddynion gwageddus, y rhai a borthwch eich hunain â'r fath gau ac ysgafn gyssuron! A ganfyddwch chwi ddim o'r Satan, trwy gyfiawn ganiattad Duw, y cyfryw i'r enaid, mewn perchenogaeth ysbrydol, ag ydyw mewn un corphorol? Y mae i'r cythreulig gwaethaf ei hamdden: nis poenydir yn wastadol, nid yw ffyrnig yn wastadol. Gallasai ar amserau ymddangos yn syml, ymddiddan yn synwyrol, ymsymud yn rheolaidd. Cyssur truenus yw nad ydym yn pechu yn ddidor. Nid oes un meistr mor farbaraidd ag i ofyn gan ei gaethwas wasanaeth ddiataliedig, er hynny, er ei fod weithiau yn bwytta, yn cysgu, ac yn gorphwys, nid yw ond caethwas o hyd. Os dygodd yr un drygionus hwnnw ni i wneuthuriad cynefinol o bechod, ac i fynych gyflawniad o'r unrhyw drosedd, y mae hyn yn ddigonol nod o'n caeth-wasanaeth, ac achos digonol am ei ormes a'i orfoleddiad yntau. Efe, yr hwn a ewyllysia fod byth ein Poenydiwr, a ymfoddlona ar fod yn Demtiwr i ni ar droiau.

Y mae'r dieflig yn rhwym: fel ag anweledig lyffetheirau Satan, felly â chadwynau gweledig y trigolion. Beth all grym corphorol wneud yn erbyn ysbryd? er hynny ymdrechant rwymo'r dyn fel hyn, naill ai o gariad, neu o gyfiawnder: o gariad, fel na niweidiai ei hun; o gyfiawnder fel na niweidiai eraill. Nid oes neb mor llesol i gythreulig, a'r sawl a'i rhwymant. Ac nid oes ffordd arall i drin y sawl a feddiannir yn ysbrydol: canys er y dichon i'r weithred hon o eiddo'r gelyn ymddangos yn hyfrydaidd; er hynny, y mae o gymmaint a hynny fwy perygl yn yr ormes anwylaidd a gwengar hon. Dau fath ar gadwynau sydd addas i bechaduriaid afreolaidd: cyfreithiau da, diduedd weinyddiad o honynt: fel na ddrygant; fel nas drygir i farwolaeth dragywyddol.

Nid cynt y mae'r cadwynau heiyrn hyn am dano, nag y torrir hwynt. Yr oedd gallu uwchlaw dynol yn y drylliad hwn. Nid

anhawdd dychymygu yr hyn a all natur ei wneuthur, yn y cyfryw weithredoedd. Nid Samson a dorrodd y rhaffau fel edau garth, ond Duw trwyddo. Ni ddryllia'r dyn y cadwynau hyn, ond yr ysbryd. O mor rymus ydyw braich yr angelion drwy hyn! Pa mor belled uwchlaw trefn gyffredinol natur! Nid yn ddiachos y gelwir hwy yn alluoedd.

Pa gig a gwaed na chrynai wrth hynod annghyfartaledd yr ymdrechwyr hyn; oni bai fod eu Duw yn mawrygu ei nodded tosturiol ei hun yn hyn, fel nad yw cymmaint o nerth mewn undeb â chymmaint o falais yn llwyddo yn ein herbyn? Er gwaethaf y ddau, yr ydym mewn dwylaw diogel. Efe, yr hwn a dorrodd mor hawdd y llyffetheiriau heiyrn, nis gall byth dorri cadwyn adamentaidd ein ffydd. Yn ofer y cura tonnau uffern yn erbyn y Graig, ar yr hon y'n hadeiledir ni: ac, er y torrir yn hawdd y cadwynau bregus hyn o fettel daearol ganddo, etto gwir-dymmeredig gadwyn tragywyddol arfaeth Duw, nis gall byth ei thorri. Y mae tragywyddol Lywydd nef, daear, ac uffern, wedi ei gadwyno ef yn y pwll diwaelod, ac wedi gwahardd ei falais, fel na'n temtir ond er ein lles; nas gallwn golli'r dydd ond er buddugoliaeth ogoneddus.

Fel hyn hefyd y mae gyda'r sawl a feddiannir ganddo yn ysbrydol. Torrir yn gyffredinol gadwynau attaliol gan ffyrnigrwydd drygionus. Beth yw gofynion moesgarwch, ofn Duw, ofn dynion, cyfreithiau da, a gweinyddiad gofalus o'r unrhyw, i'r penrhydd ond megis gweoedd y prif-goppyn i gaccynen? Bydded i'r rhai dieflig ysbrydol hyn wybod fod Duw wedi darparu cadwynau iddynt, y rhai a'i daliant—sef *cadwynau tragywyddol dan dywyllwch*. Cyfryw ydynt ag y daliant eu meistriaid, y diefliaid eu hunain, i farn y dydd mawr: pa faint mwy y caethweision dinerth hyn? O, na oddefai dynion gymmeryd eu rhwymo at yr hyn sydd dda gan ystyriaethau hyfryd o'u dyledswydd tuag at Dduw, a gofal am eu heneidiau eu hunain, fel y rhwymid hwy i fynu yn rhwymyn bywyd!

Nid er mwyn cael gorphwysdra y torrid y cadwynau hyn, ond er mwy rhydd-did i symud. Y carcharor hwn a red ymaith oddiwrth ei gyfeillion: nis gall redeg oddiwrth ei garcharwr. Dygir ef yn awr i'r anialwch; nid trwy drais allanol yn unig, ond o gynhyrfiad tumewnol: gan yr un gallu ag a dorrasai ei rwymau, er gwell cyfleusdra i'w orthrymu; er mwyn erchylldod y lle, er newynu ei gorph, a diangc rhag pob moddion i'w

wrthwynebu. Diffaethwch unigol, yw hyfrydwch Satan. Zel heb wybodaeth yw'r hwn a'n cymhella i wneuthur hynny i ni ein hunain, fel peth haeddiannol a sanctaidd, yr hyn a ewyllysia'r diafol i ni ei wneuthur, er ein cospi, a chael ein temtio. Y mae'r ysbryd aflan am annghyfaneddle. Duw am gymdeithasiad. *Preswylia yn nghynnulleidfa ei saint, ie, yno yr ymhoffa breswylio.* Paham na chyfrifwn ef yn ddedwyddwch, i ni gaffael cennad i gyfanneddu, lle yr ymhyfryda Awdwr pob dedwyddwch ei hun gyfanneddu.

Nis gall unrhyw anffawd ddygwydd i ni, yr hwn ni chanfydda, ac ni theimla ein Gwaredwr. Heb unrhyw erfyniad gan hynny o dy'r cythreulig anhappus, nac unrhyw gyfaill iddo, Duw'r ysbrydion a dosturia wrth ei ofid: a chan gael ei gymhell ganddo ei hun yn unig, rhydd orchymyn i'r ysbryd drwg fyned allan o'r dyn. O drugaredd hyfryd, yr hon a ragflaena ein deisyfiadau, a â tu hwnt i'n meddyliau, yn pentyrru ei ffafr ar ein gwendid, ac yn gwneuthur erom, yr hyn a ddylem, ac etto ni fedrwn ei ddymuno! Os dynion, ar ein taer gais, a roddant i ni eu cynnorthwyon goreu, iawn y canmolid eu haelioni: ond addas yw i ti, O Dduw'r trugaredd, fyned heb drais, rhoddi heb erfyniad. Ac a feddyliwn fod dy ddaioni yn llai, am dy fod mewn gogoniant? Os oeddyt mor dosturiol ar y ddaear, a ydwyt yn llai felly yn y nef? O fel yr ydwyt yn awr yn sylwi ar ein holl gwynfannau, ar ein holl wendidau! O fel y mae dy dosturi anfeidrol yn eu symud! Pa ddrwg a all ddygwydd i ni, yn ddiarwybod i ti, yr hwn ni theimli, yr hwn ni yrri ymaith! O ddiogeled ydym, i'r rhai y mae y fath Amddiffynwr, y fath Ganolwr yn y nefoedd!

Ychydig cyn hyn y gorchymynasai ein Hiachawdwr y gwyntoedd a'r dyfroedd, ac nis gallent lai nag ufuddhau iddo: yn awr llefara yn yr un iaith wrth yr ysbryd drwg: ni erfynia, ni pherswadia, ond gorchymyna. Gorchymyn a arwydda uwchraddiaeth. Efe yn unig sydd anfeidrol gryfach nâ'r un oedd mewn meddiant o'r dyn. Pe amgen, lle y mae'r ymdrechwyr yn agos o'r un grym, er y gall fod annghyfartaledd ryw faint, hir ymdrechant am fuddugoliaeth, ac ni chiliant yn y radd leiaf heb wrthsefyll.

Y mae cymmaint o ffyrdd i ymdrin â'r diafol ag â dynion. Rhai a ymdriniasant âg eftrwy ymbil, megis yr hen hereticiaid Satanaidd, a'r Indiaid anwar presennol, y rhai a aberthant iddo,

rhag iddo eu drygu: eraill trwy gyngrair, yn rhoddi iddo eu gwasanaeth ar ammodau, megis swynwyr a dewiniaid; eraill trwy dynghediad, megis meibion Scefa, a chonsurwyr presennol, y rhai yn rhyfygus, a ddefnyddiant enw wrtho uwch nâ'r eiddynt eu hunain.

Ni anturiodd neb ddelio â Satan trwy orchymyn uniongyrchol, ond Duw yr ysbrydion. Yr Archangel mawr, pan oedd ymryson yn nghylch corph Moses, nis gorchymynodd ef, ond yn hytrach a'i rhoddodd yn llaw Duw. *Cerydded yr Arglwydd dydi.* Y Duw hwnnw yn unig, yr hwn a wnaeth yr ysbryd hwn yn Angel goleuni, a all ei orchymyn, yn awr wedi gwneuthur ei hun yn Dywysog tywyllwch. Os un creadur a feiddia ddefnyddio iaith orchymynol, chwarddai am ben ei ryfyg: a gŵyr eu bod hwy yn gaethion iddo, y rhai a gymmer arno eu hofni megis ei arglwyddi. Dy amnaid di, yn unig, O Iesu, a bar i'r tywysogaethau cedyrn uffernol hyn ymostwng a chrynu.

Nis gall un dyn drygionus fod mor gaeth gan Satan, ag yw Satan gennyt ti. Cyfryngiad dy ras a all ddymchwelyd arglwyddiaeth Satan: dy reol sydd benderfynol, ac nid oes a'i rhwystra.

Pa achos sydd i ni i ofni, tra yr ydym dan Lywydd mor Hollalluog? *Y llifeiriant a dderchafasant eu tonnau: yr Arglwydd yn yr uchelder sydd gadarnach nâ thwrf dyfroedd lawer.* Gwnaed y tywysogion a'r galluoedd hynny eu gwaethaf, y cyfryw wrthwynebwyr grymus ydynt wrth ei lywodraeth Ef, yr Hwn a'n carodd mor fawr ag i waedu drosom. Yn nghylch peth yr anmheuwn yn awr? Yn nghylch ei allu, neu ynte ei barodrwydd? Pa fodd yr addefwn Ef yn Dduw, ac ammeu ei allu? Pa fodd yr addefwn Ef yn Waredwr, ac ammeu ei barodrwydd? Y mae ganddo allu ac ewyllys i orchymyn y galluoedd uffernol hynny. Yr ydym mor ddiogel ag ydynt hwythau yn faleisus.

Y diafol a welodd Iesu trwy lygad y dieflig: canys yr hwn a welsai a lefarodd: ond yr Ysbryd Drwg oedd yr hwn a ddywedodd, *Yr wyf yn attolwg i ti na'm poenech.* Yr oedd yn dra anewyllysgar i edrych ar wrthddrych mor ofnadwy iddo. Goruwchlywiol allu Crist a lusgodd yr ysbryd aflan i'w bresennoldeb. Buasai yn dda gan yr euog hwn ymgadw o'i olwg. Rhaid i aelodau pen mor ofidlawn alw ryw ddydd ar y mynyddoedd a'r creigiau eu cuddio o ŵydd yr Oen: cyfryw y dychryn

llewaidd sydd yn y wyneb addfwyn hwnnw, pan y mae'n edrych ar ddrygioni. Ac nid y rhan leiaf o boenau'r damnedigion ryw ddydd, fydd canfod y Person hawddgaraf a all y nef ei ddangos. Efe, oddiwrth yr Hwn y ffoisent pan gynnygiai iddynt ras, a fydd yn fwy arswydus yn ol fel y buasai yn rasol iddynt.

Nid wyf yn rhyfeddu am hynny i'r diafol, pan welodd Iesu, lefain allan: rhyfedd gennyf iddo syrthio *i lawr a'i addoli.* Yr hyn a fynnasai'r Ysbryd balch i'r Iesu wneuthur iddo ef gynt, gwna hynny yn awr ei hun i Grist mewn ofn, mewn caethiwed, a thrwy drais. Pwy ragllaw a ymffrostia yn ei barch allanol i Fab Duw, pan ganfydda Satan ei hun yn syrthio i lawr a'i addoli? Pa gyssur a all fod yn yr hyn y gall y diafliaid ei wneud yn gystal a ninnau; y rhai, megis ag y credant ac y crynant, felly crynant ac addolant?

Ymgrymiad allanol yw corph y weithred: tymmer yr enaid yw ei henaid: yn hyn yr amrywia oddiwrth ffugiol ymostyngiadau dynion ac ysbrydion drwg. Y galon grefyddol *a wasanaetha'r Arglwydd mewn ofn, ac a ymlawenycha yn y dychryn.* Yr hyn a wna sydd mewn ffordd o wasanaeth: mewn gwasanaeth i'w Arglwydd, penarglwyddiaeth yr Hwn yw ei gyssur a'i ddiogelwch, mewn ofn mabaidd nid caethiwus: mewn ofn cymmysgedig â llawenydd: mewn llawenydd a dymmerir âg ofn: tra y mae ymgrymiad dynion drwg a chythreuliaid yn weithred ffurfiol yn unig neu o drais, megis i'w Barnwr, megis i'w poenwr, ac nid i'w Harglwydd: mewn gwaradwydd yn unig, ac nid mewn anrhydedd: mewn marweidd-dra digyssur a llwyr anhyfryd: mewn perffaith fraw, yn cau allan pob llawenydd. Y rhai hyn a addolant yn ddiddiolch, am y syrthiant i lawr heb serchiadau gwir addoliad.

Y neb a synnai wrth weled y diafol ar ei liniau, a synnai etto yn fwy wrth yr hyn a ddaw o'i enau, *O Iesu, Fab Duw Goruchaf:* cyffes, yr hwn pe's clywsem heb wybod yr Awdwr, ymofynasem am y Sant a'i gwnaethai. Wele'r diafol yn rhoddi yr un enw i Grist ag a roddasai'r Angel iddo, *Ti a elwi ei enw ef Iesu.* Yr enw ofnadwy hwn, ger bron yr hwn y plyga pob glin yn y nef, ar y ddaear, a than y ddaear, a elwir arno gan y diafol ymgrymedig. A, rhag na fyddai hynny yn ddigon o arwydd, gan i eraill gael eu hanrhydeddu â'r enw hwn yn gysgodol, chwanega er digonol wahaniaeth, *Mab Duw Goruchaf.*

Gallai'r Syro-pheniciad dduwiol, a Bartimeus ddall ddywedyd, *Tydi, Fab Dafydd:* da oedd addef gwir ddisgyniad ei achau yn ol y cnawd: ond yr Ysbryd aflan a edrych yn uchel, ac a ddug ei linell o'r nefoedd uchod, *Mab Duw Goruchaf.* Nid oedd cyffes enwog yr Apostol mawr, yr hwn a'i hanrhydeddodd âg enw newydd i anfarwoldeb amgen, na *Tydi yw Crist Mab y Duw byw:* a pheth arall a glywaf o enau ellyll? Nis gallasai geiriau duwiolach syrthio o enau y Sant pennaf. Nid oes a rwystra yr adyn gwaethaf ar y ddaear, ïe, yr cythraul duaf yn uffern ymddiddan yn sanctaidd.

Nid addas ffurfio barn ar rydd ddywediadau. Felly cawsai Pedr ei farnu yn ddiafol, am wadu, tyngu anudon, a melldithio, a chyfrifid Satan yn Sant, am addef Iesu *yn Fab y Duw Goruchaf.* O ragrithiwr balch, yr hŵn a ymfoddloni ar siarad yn wych, gwrando ar y diafol hwn; a phan y gelli siarad yn rhagorach nag ef, edrych am well triniaeth: ond, yn y cyfamser, gwybydd fod tafod llyfn, a chalon aflan, yn dwyn dwbl farn ar eu hol.

Dadleued y cywrain pa un ai fod y diafol yn gwybod fod Crist yn Dduw. Yn hyn beiddiaf ei gredu ef ei hun, er na chredaf ef mewn dim arall. Yr hyn a gredodd a addefodd. *Iesu, Mab Duw Goruchaf:* er gwaradwydd i'r hanner cristionogion hynny, y rhai a dybiant yn anmheus, neu y rhai ni wyddant, neu a wadant yn gableddus, yr hyn a addefodd y diefliaid eu hunain. O, mor lleied a dyccia tybiau yn unig yn y pethau dwyfol hyn! Hyd yma y llwyddodd y diafol hwn; nid hyd at gael esmwythder na diddanwch. *Gwybodaeth* yn unig ni wna ond *ymchwyddo:* ein *cariad* a *adeilada.* Os nad oes gennym deimlad o'n hawl yn yr Iesu hwn, gallu i gymmwyso ei haeddiant a'i ufudd-dod, nid ydym yn y radd leiaf yn ddiogelach nac yn sancteiddiach: yr ydym yn unig gymmaint yn ddoethach, ag y gwyddom pwy fydd yn ein condemnio.

Un rhan o'r ymadrodd a lefarwyd fel gan Sant, *Iesu Fab Duw Goruchaf.* Y rhan arall fel gan gythraul, *Beth sydd i mi a wnelwyf â thi?* Pe buasai yr ymwrthodiad yn gyffredinol, buasai'r ymadrodd olaf yn diddymu'r blaenaf, canys tra yr addefa fod Iesu yn Fab y Duw Goruchaf, addefa hefyd ei ymostyngiad anocheladwy ei hun. Paham yr ymbiliai, os nad oedd yn ddarostyngedig iddo? Nis gall, ni feiddia ddywedyd, "Beth sydd i ti, a wneli â mi;" ond *Beth sydd i mi a wnelwyf*

â thi? Eraill yn wir a drallodais, Tydi a ofnaf. Gyda golwg ynte ar unrhyw drais, unrhyw her bersonol, *Beth sydd i mi a wnelwyf â thi.* Ac, a wyt ti yn holi, O Ysbryd drwg, beth sydd i ti a wnei â Christ, tra yr wyt yn trallodi un o'i weision? A dderbyni dy enw oddiwrth wybodaeth, ac etto a gyfeiliorni am yr hwn yr addefaist, megis pe nas gallesid gwneuthur dim iddo, ond yr hyn a berthyna yn uniongyrchol i'w berson ei hun yn unig? Clyw y Barnwr mawr a chyfiawn hwnnw yn dedfrydu oddiar ei orsedd, *Yn gymmaint a'i wneuthur o honot i un o'r rhai bychain hyn, i mi y gwnaethost!* Camsynied ofer gwahanu teimlad o'r niweid a wnawd i un o'r aelodau oddiwrth y Pen.

Efe, yr hwn oedd ddigon gostyngedig i ymgrymu o flaen Mab Duw, sydd er hynny ddigon haerllug i ofyn iddo, *A ddaethost i'm poenydio cyn yr amser?* Pa un ai am fod Satan, yr hwn sydd yn mwynhau poenau pechaduriaid, i'r hwn y mae ein hoergri a'n hysgyrnygiadau yn beroriaeth, yn ei gyfrif yn rhan fawr o'i boenydiad cael ei attal yn yr arferiad o'i greulondeb: neu, pa un ai fod presenoldeb Crist yn unig yn ei drallodi, canys yr Ysbryd euog a ddyfeisia bethau dychrynllyd, ac nis edrych ar y Barnwr neu'r dihenyddwr, heb adnewyddiad o'i fraw: neu, pa un ai am ei fod, yn ol ei addefiad, yn ofni cael ei orchymyn i'r dyfnder, er cael ei boeni yn drymach, yr hyn y mae yn mawr ddymuno ei ochelyd, y dywedai fel hyn, nis gwyddom.

Y mae arteithiau wedi eu darparu i natur ysbrydol angelion drwg. Dynion, a arweinir gan synwyr, a ddychymygant yn hawdd y gall y corph gael ei boeni, y rhai nis gallant amgyffred pa fodd y gwneir yr unrhyw i sylwedd ysbrydol. Ni thybiodd yr Ysbryd Glan yn dda i amlygu i ni ddull neillduol y gweithrediadau anweledig hyn, gan ewyllysio i ni ofni yn hyn yn hytrach nag ymofyn. Ond megis y gellir rhoddi atteb am holl bynciau'r ffydd, er nas gellir eu profi trwy reswm, canys y maent yn uwch nag ef, fel ag i ddistewi pawb a gyfarthant yn eu herbyn, yn gymmaint ag nas gall y gwirionedd wrthwynebu ei hun: felly am y pwngc hwn o boenau ysbrydion.

Y mae ysbrydion, gan hynny, yn agored i boenau meddyliol a gwirioneddol. Canys, megis y mae'r ysbrydion da mewn gwynfyd yn cael eu hunain mewn undeb à'r da pennaf, (sef Duw;) ac yn hyn a deimlant berffaith gariad yr Arglwydd, ac ynddo Ef annhraethol lawenydd, ac ynddynt eu hunain es-

mwythdra; felly o'r tu arall, canfydda'r ysbrydion drwg eu hunain wedi eu bythol ysgaru oddiwrth bresennoldeb Duw, a'u carcharu mewn tywyllwch tragywyddol: ac, oddiwrth eu teimlad o'r ysgariad hwn, teimlant fraw anegluradwy, ac anamgyffredadwy. Pa nifer o ddynion a welsom yn arteithio eu hunain â'u meddyliau eu hunain! Nid oes angen am grogbren arall amgen nâ'r hon a osodwyd i fynu gan eu hysbryd terfysglyd yn eu calonau eu hunain. Ac os rhyw boenau a ddechreuant yn y corph, ac oddiyno a drallodant yr ysbryd mewn cydgyfrannogiad o ofid: etto, eraill a godant yn ddigyfrwng o'r enaid, ac a dynnant y corph i gydgyfrannogiad o drueni. Paham, gan hynny, nas gallwn amgyffred fod ysbrydion annghorphorol yn alluog i ddyoddef ingau tumewnol.

Heblaw hyn, Clywaf Farnwr dynion ac angelion yn dywedyd, *Ewch oddiwrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, a barotowyd i ddiafol ac i'w angelion.* Clywaf y Prophwyd yn dywedyd, *darparwyd Tophet er doe.* Os gallwn, mewn ofn, ac heb gywreinrwydd, edrych ar y fflamau hynny, paham nas gallwn briodoli natur ysbrydol i'r tân goruwch-naturiol hwnnw? Yn niwedd y byd, yr elfennau a doddir gan dân, ac os defnydd pur yr awyr, a'r elfen dân ei hun a doddir gan dân, yna'r tân olaf hwnnw a fydd o natur amrywiol oddiwrth yr hwn a ddifair ganddo. Beth ynte, a'n lluddia i gredu i'r Hollalluog er tragywyddoldeb, greu tân o natur arall, addas i weithredu ar fodau ysbrydol? Neu, paham nas gallwn farnu yn wahanol am dân, megis y mae ynddo ei hun, yn greadur corphorol, ac megis y mae yn offeryn yn llaw cyfiawnder dwyfol; yn gweithredu, nid trwy unrhyw rinwedd neu allu ynddo ei hun, ond trwy effeithioldeb goruwch-naturiol, yr hwn a roddir iddo trwy nerth Hollalluog y Barnwr Goruchaf a chyfiawn? Neu, yn olaf, paham nas gallwn ddychymygu, er nad oes gan ysbrydion ddim corphorol yn eu natur, y gallai'r tân hwnnw effeithio arno; etto trwy farn Hollalluog Lywydd y byd, yn dymuno yn gyfiawn eu poeni, y gellir eu gwneuthur yn eithaf teimladwy o boen; a thrwy ymostyngiad ufudd eu natur grëedig, y gallant gael gweithredu arnynt yn uniongyrchol gan eu harteithiau ordeiniedig: heblaw'r erchylldod a gyfyd oddiwrth y lle, yn yr hwn y tragywyddol garcherir hwy? Canys os gall annghorphorol ysbrydion dynion byw gael eu dal mewn cyrph ffieiddiedig a phoenfawr, a bod mewn gofid oherwydd eu dal ynddynt, paham

nas gallwn gredu mor rhwydd, y gellir dal ysbrydion drygionus dynion neu gythreuliaid yn y fflamau ofnadwy hynny, gan ffieiddio yn fwy etto gorfod aros ynddynt yn dragywydd?

Cryna yn hytrach, O fy enaid, wrth feddwl am gyflwr echryslon yr angelion drwg, y rhai, am un gweithred o wrthgiliad oddiwrth Dduw, a boenir fel hyn yn oes oesoedd: tra yr ydym ni, adynod aflan, yn lluosogi ein troseddau rhyfygus yn erbyn ei ddwyfol Fawrhydi. Ac hefyd addola'r drugaredd anfeidrol honno tuag at ddynolryw truenus, yr hon, yn ol y toster cyfiawn hwn at angelion cwympedig, a oddef mor rasol ein beiau ysgeler ni, ac a ganiatta i ni fod yn rhyddion dros amser oddiwrth y cyfryw arteithiau uffernol, ac a rydd i ni gyfle o ryddhad tragywyddol oddiwrthynt. *Fy enaid, bendithia'r Arglwydd, a chwbl sydd ynof, ei enw sanctaidd Ef; yr hwn sy'n maddeu dy holl anwiredd, ac yn iachau dy holl lesgedd, yr hwn sy'n gwaredu dy fywyd o ddistryw, ac yn dy goroni â thrugaredd a thosturi.*

Nid oes un amser, yn yr hwn ni phoenir yr ysbrydion aflan: y mae amser pan y disgwyliant cael eu poeni yn drymach etto. *A ddaethost i'n poeni cyn yr amser?* Gwyddent mai'r sessiwn olaf oedd amser ordeiniedig eu cyflawn gospedigaeth; yr hon gwyddent hefyd ei bod hyd yn hyn heb ddyfod. Canys, er nad oedd hysbys iddynt pryd y byddai Dydd y Farn, (yr hyn ni wyr, ïe, angelion gogoneddus y nef,) etto gwyddent pryd nad oedd; am hynny dywedent, *Cyn yr amser.* Y mae, ïe, yr ysbrydion aflan yn addef diwrnod neillduedig i'r sessiwn gyffredinol, a meddyliant am dano gyda dychryn. Y sawl a ammheuant neu a wadant y Dydd hwnnw o ad-daliad diweddaf, a gredant gan hynny lai nâ chythreuliaid.

O ryfedd drugaredd ein Duw, yr hwn a ohiria gyflawnder poenau dynion ac ysbrydion drwg! Gallasai, mor gynted ag y syrthiodd yr Angelion, roddi arnynt eithaf ei ddialedd. Gallasai, ar bechodau cyntaf ein hieuengctyd, ein hysgubo ymaith, a gosod ein rhan yn y llyn tanllyd: oeda yn achosion y ddau: er mai gyda'r gwahaniaeth grasol hwn i ni ddynion, fod ein cosp nid yn unig yn cael ei gadw yn ol, ond y gall gael ei lwyr attal, yr hyn sydd annichonadwy i'r ysbrydion aflan. Dyoddefant hwy yn awr: rhaid iddynt ddyoddef ac er eu bod yn awr yn haeddu dyoddef yr oll a raid iddynt ddyoddef, etto rhaid i'w dyoddefiadau fod yn drymach nag ydynt yn awr.

Er hynny erfynia yr ysbryd drwg, *Yr wyf yn attolwg i ti*

na'm poenech. Rhyw gyfnewidiad gwych a gymmerodd le yn y byd, er rhuthriad cyntaf Satan yn erbyn Crist. Gallai ddywedyd y pryd hynny, *Os Mab Duw wyt ti:* yn awr *Iesu, Fab Duw Goruchaf*: y pryd hynny, *Hyn oll a roddaf i ti, os syrthi i lawr a'm haddoli i:* yn awr, *Yr wyf yn attolwg i ti na'm poenech.* Dichon i'r un gallu, pan y mynno, gyfnewid llais y temtiwr wrthym ninnau. O, mor ddedwydd ydym, am fod i ni y fath Waredwr, yr hwn a all yrri'r diefliaid i'w cadwynau! O, ystyriwch hyn, bechaduriaid afreolus, y rhai a ddywedasoch, *Drylliwn ein rhwymau, a thaflwn ein rheffynau oddiwrthym.* Po'dd bynnag y caniatta'r Hollalluog i chwi, er barn, i gael eich rhwysg mewn pechod, ac y gellwch yn awr wrthsefyll yn wan ewyllys datguddiedig eich Creawdwr: etto daw'r amser, pan ganfyddwch, ïe, 'r meistriaid a wasanaethwch, sef gallu-oedd y tywyllwch, yn anabl i ddiangc rhag dialedd Duw. Pa faint lai y gall dyn ymgyndynu â'i Greawdwr! Dyn, yr hwn y mae ei anadl yn ei ffroenau, tŷ yr hwn yw clai, a'i sylfaen yn y llwch!

Y mae natur yn dysgu pob creadur i ddymuno bod yn rhydd oddiwrth boen. Nis gall yr ysbrydion bryntaf lai nâ charu eu hunain, a'r cariad hwn nis gall lai nâ'u tueddu i ymbil yn erbyn cael eu cospi. Etto, pa fath ryfeddod yw hyn, sef clywed y diafol wrth ei weddiau? *Yr wyf yn attolwg i ti na'm poenech.* Nid defosiwn a'i gwna yn euog o'r weddi hon, ond dychryn. Nid oes gras yn ngweddiau'r diafol ond natur: dim golwg ar ogoniant Duw, ond ar ei gyssur ei hun. Nis gall weddio yn erbyn pechod, ond yn erbyn cospedigaeth am dano. Pa beth newydd ydyw yn awr clywed y genau mwyaf halogedig yn galw mewn dygn drallod ar Enw Sanctaidd Duw, pan y mae'r cythreuliaid yn gwneuthur felly? Y mae'r creadur dihiraf yn cashau cosp, a gall ddywedyd, "Nac arwain fi i boen." Y galon dduwiol yn unig a all ddywedyd, *Nac arwain fi i brofedigaeth.* Os medrwn erfyn mor galonog yn erbyn pechod, er diangc rhag anfoddlonrwydd, ag yn erbyn y gosp yn ol i ni anfoddloni, y mae gwir ras yn yr enaid. Yn wir, pe gallem weddio yn daer yn erbyn pechod, ni fyddai raid i ni weddio yn erbyn cosp, yr hwn nid yw amgen nâ chysgod anwahanedig y corph hwnnw: ond os na lafuriwn yn erbyn ein pechodau, ofer ein hymbiliau yn erbyn cospedigaeth am danynt. Rhaid i Dduw fod yn gyfiawn, *a chyflog pechod yw marwolaeth.*

Rhyngodd bodd i'n Ceidwad Sanctaidd, nid yn unig i orchymyn yr Ysbryd hwn, ond hefyd newid ymadroddion âg ef. Nid ydym i efelychu Crist yn mhob peth. Camsyniad ein Mam (Efa,) oedd dal ymddiddan â Satan. Y Duw hwnnw, yr hwn a adnebydd gyfrwysdra yr hên sarph honno, a'n mawr wirionder ninnau, a rydd i ni orchymyn i beidio ag ymofyn âg ysbryd aflan. Diau, os rhyfeddodd y disgyblion, pan ddychwelasant at ffynnon Jacob, weled Crist yn ymddiddan â gwraig, gallwn ni ryfeddu yn fawr ei weled yn gwneuthur felly âg ysbryd aflan.

Na chyfrif ef yn ryfyg, O Iesu, i ni ofyn ar ba ystyriaethau y gwnaethost hyn, yn y rhai nid ydym i'th ddilyn. Gwyddom pan y'th wnaethpwyd yn gyffelyb i ni, i bechod gael ei gau allan. Gwyddom nad oedd twyll yn dy enau, nad oedd modd fod y llwgr lleiaf yn dy natur, na'th weithredoedd: ac nid anhawdd dychymygu pa fodd y gall peth gael ei wneuthur gennyt ti heb bechod, yr hwn nis gallwn ni lai nâ phechu wrth ei wneuthur. Y mae dirfawr wahaniaeth yn y dyben, yn y Gweithredwr. Canys, ar un llaw, ni ofynaist am enw'r ysbryd fel un na wyddai ei enw, ac a fynnai wybod trwy ymofyn: ond fel trwy ddwyn i'r golwg faintioli'r drygioni, yr hwn y rhyngodd bodd it' ei oddef, y gallai'r feddyginiaeth ymddangos yn fwy grasol, yn fwy gogoneddus: felly, ar y llaw arall, gall Duw a dyn gyd-wneud hynny yn ddiogel, yr hwn nis gall dyn yn unig ei wneuthur yn ddiberygl. Gallasit ti gyffwrdd â'r gwahanglwyf, heb fod yn aflan yn ol y ddeddf: am gyffwrdd o honot â'r unrhyw i'w iachau. Nid oedd modd i'r haint leiaf lynu wrthyt. Felly gallasit ti, yr hwn yr oedd perffeithrwydd dy Ddwyfol anian yn ei wneuthur yn anmhosibl i ti gael dy halogi trwy gyd-ymddiddan â'r Satan, siarad âg ef yn ddinam, yr hwn nis gall dyn llygredig, yr hwn sydd agored i gael niweid oddiwrth y cyfryw gyd-ymddiddan, ymyraeth âg ef heb bechu, am nas gall ei wneuthur heb ei ddrygu. Nis gall ond Duw ddal ymddiddan â Satan. Ein diogelwch a saif mewn ymwneud mor lleied ag a allom â'r un drwg; ac os cynnyga ddal cyd-ymadrodd â ni trwy ei ddirgel demtasiynau, trown ein geiriau at ein Duw, gyda'r Archangel, *Yr Arglwydd a'th gerydda di, Satan.*

Rhagdyb yr hwn a'i gwyddai oedd, fod enwau nid yn unig gan ddynion, ond gan ysbrydion hefyd. Gofyn hyn, ynte, nid allan o anwybodaeth na chywreinrwydd: nis gallasai dim fod yn anhysbys iddo Ef, yr hwn a eilw'r ser a holl luoedd y nef

wrth eu henwau, ond gyda chyfiawn olwg ar ogoniant y wyrth, yr hon oedd ar fedr ei gwneuthur, yr hyn a enwogid yn ddirfawr trwy ddwyn yr enw i'r amlwg. Canys pe bwriasai ein Iachawdwr yr ysbryd aflan hwn allan heb ymofyniad, ac heb addefiad, cyfrifasid fel difeddianniad un diafol yn unig; tra yr ymddengys yn awr fod cyssylltiad a chyngrair uffernol yn ngalluoedd y tywyllwch hyn, y rhai y gorfu arnynt oll blygu i'r Gorchymyn Hollalluog hwnnw.

Llefarasai'r diafol o'r blaen yn y rhif unigol am dano ei hun, *Beth sydd i mi a wnelwyf â thi?* ac, *Yr wyf yn attolwg i ti na'm poenech.* Etto ein Iachawdwr gan wybod fod llu o gythreuliaid yn llechu yn y fynwes honno, y rhai a gelent eu presennoldeb, a dŷn y peth i'r goleu allan o'r ysbryd trwy ei gwestiwn hwn, *Beth yw dy enw?* Nis gall y drygau hyn yn hwy guddio eu hunain. Yr hwn a ofynodd y cwestiwn, a wasgodd allan yr atteb, *Lleng yw fy enw.*

Awdwr annghydfod a fenthycciodd enw milwraidd: oddiwrth y drefn filwraidd o ddisgybliaeth, trwy'r hon y gorchfygasid yr Iuddewon, y cymmer y diafol ei gyfenwad.

Yr oeddynt yn llawer, etto dywaid *fy enw*, nid "ein henw." Er yn llawer, siaradant a gweithredant fel un yn y meddianniad hwn. Y mae cydgordiad rhyfeddol, ïe, yn mhlith ysbrydion drwg. Nid yw'r deyrnas honno wedi ymrannu: canys felly nis gallai sefyll. Nid wyf yn synnu fod dynion drwg yn cyduno felly mewn drygioni, yn y rhai a gyhoeddant ac a attegant gyfeiliornadau, pan welwyf y diafliaid hynny, y rhai ydynt lawer, o ran hanfodiad, yn un mewn enw, mewn gweithred, ac ymbreswyliad. Pwy a ymffrostiai ormod mewn undeb pan y cymmer le rhwng yr ysbrydion drwg? Holl ganmoliaeth undeb a dardda o'i wrthddrych: os sanctaidd hwnnw, y mae'r uniad yn angelaidd: os pechadurus, y mae yn ddieflig.

O'r fath fantais echryslon sydd gan ein gelynion ysbrydol arnom! Pe deuai byddinoedd arfog yn erbyn gwibiaid unigol, pa obaith fyddai am eu bywyd? O, fel y dylem rwymo'n calonau yn nghyd yn nghymmundeb y Saint! Ein gelynion a ddeuant arnom megis llifeiriant. O, na fydded i ni redeg oddiwrth ein gilydd megis dafnau yn y llwch. Ein holl rym, a'i uno fydd ddigon bychan i wrthsefyll y cyngrair difaol hwn.

Lleng a arwydda drefn, nifer, ymladdfa.

Trefn: gan fod gwahaniaeth byddin, ac îsrengoiad swyddog-

ion. Er fod yn uffern amrywiaeth wynebau, nid oes yno annhrefn o ran graddau.

Nifer: y sawl a briodolant y rhif leiaf i leng, a'i gwna hi yn chwe' mil. Eraill a'i gwnant yn gymmaint arall. Er nad yw i'w chymmerydd yma yn llythyrenol ond yn ffigurol: er hynny arwydda luaws. O, mor frawychus yw meddwl am nifer yr angelion gwrthgiliedig! Ac os gall lleng fod mewn un dyn, beth raid fod eu rhif, gan eu bod, dros yr holl fyd, wrth law, er cospedigaeth i'r drygionus, er profiad i'r duwiol, ac er temtasiwn i'r ddau? Nid oes obaith y gall fod un lle nac amser, yn y rhai y dichon i ni fod yn rhydd oddiwrth ymosodiadau'r gelynion hyn. Bydded sicr i chwi, rai trythyll, na fydd eisiau yr hyn a gynnydda eich drygioni, nac ychwaith arteithiau o'i achos. Bydded sicr i chwi, dduwiolion, na fydd i chwi eisiau gwrthwynebwyr, i brofi eich nerth a'ch medrusrwydd. Ymddihunwch i'w gwrthsefyll yn wrol, a chyffrowch eich calonau, defnyddiwch foddion diogelwch. Y mae mwy gyda ni nag sydd yn ein herbyn. Y mae Duw nef gyda ni, os ydym ni gydag Ef; a'n hangelion a welant wyneb Duw. Pe byddai pob diafol yn lleng, diogel ydym. *Pe rhodiem ar hyd glyn cysgod angau, nid ofnem niweid. Estyni dy law, O Arglwydd, yn erbyn digofaint fy ngelynion, a'th ddeheulaw y'm hachubi.*

Ymladdfa: nid yw'r holl nifer hwn er ymddangosiad, er llonyddwch: ond er symmudiad, a gweithrediad. Ac ni bu awr erioed, er pan roddwyd yr ergyd cyntaf i'n rhieni cyntaf, yn yr hon y rhoddwyd heibio ymladd rhwng y gwrthwynebwyr hyn. Megis gan hynny y mae'r trefydd cyffiniol, pan y cymmer heddwch le rhwng y pleidiau, yn diswyddo eu gwarcheidwaid, yn agoryd eu pyrth, yn esgeuluso eu caerau: ond pan glywant fod y gelynion yn casglu eu byddinoedd yn lluoedd annghyffredinol, yn dyblu eu gwarcheidwaid, pennodi gwylwyr, ac adgyweiro eu cestyll: felly rhaid i ninnau, a ni yn sicr wybod fod ein gelynion lluosog a marwol mewn ymfyddiniad gwastadol i'n herbyn, ymroddi i wrthsefyll yn ofalus a gwrol. Nis canfyddaf y rhan fwyaf yn meddwl dim am yr elyniaeth ysbrydol hon. Naill ai nid ydynt yn cael fod temtasiynau, neu fod y cyfryw yn niweidiol. Ni chanfyddant ddim gwaeth nâ hwy eu hunain: ac os teimlant gynhyrfiadau pechadurus o'u mewn, priodolant hwy i'w dychymygion, neu drachwant afresymol, ac nid i un gallu ond eu natur eu hunain: a dilynant y cyn-

hyrfiadau hyn heb niweid teimladwy, ac nis canfyddant ychwaith pa ddrwg sydd mewn pechod. A ydyw'n rhyfeddod nas gall llygaid cnawdol ganfod gwrthddrychau ysbrydol? nad yw'r byd, yr hwn yw cyfaill a chaethwas Satan, ddim mewn rhyfel ag Ef? Gwas Elisëus, yn ol agoryd ei lygaid, a ganfyddodd fyddinoedd o filwyr ysbrydol, y rhai nas gallasai eu gweled o'r blaen. Os caiff llygaid ein heneidiau unwaith eu goleuo â gwybodaeth goruwch-naturiol, ac eglur belydron ffydd, canfyddwn mor amlwg anweledig alluoedd y tywyllwch, ag y canfyddwn nef a daear à'n llygaid corphorol. Y maent yn bod, er nas gwelwn hwynt: nis gallwn fod yn ddiogel rhagddynt, os na addefwn eu bod, ac onis gwrthsafwn hwynt.

Y diafliaid ydynt yn awr daer erfynwyr ger bron Crist, na anfonai hwynt i'r dyfnder, ond caniattau iddynt fyned i'r moch. Beth yw'r dyfnder hwn ond uffern: oherwydd tragywyddol ysgariad oddiwrth wyneb Duw, a'r anmhosibilrwydd o fynediad i ardal gorphwysdra a gogoniant? Y mae, hyd yn nod, yr ysbrydion drwg, ynte, yn ofni ac yn disgwyl am radd fwy o boenedigaeth. Gwyddant y cedwir hwynt yn y cadwynau tywyllwch hynny, i farn y dydd mawr. Y mae yr un gyflog i'w pechodau a'r eiddo ninnau; ond nis telir y cyfryw, nes gorphen y gwaith. Hwy a bechant yn ysgeler trwy ddenu dynion i bechu, megis y golygir yn mhlith dynion y sawl a gamarweiniant i bechod, yn fwy troseddwyr nâ'r sawl a'i cyflawnant. Nid hyd y dygant eu drygioni i ben y derbyniant gyflawn fesur eu damnedigaeth. Crynant wrth y *dydd* wrth y *dyfnder* hyn: beth a ddywedaf wrth y dynion hynny, y rhai ni chrynant rhagddynt? Anhawdd yw i ddynion gredu eu hannghrediniaeth eu hunain. Pe credent yn y pwll tywyll tanllyd, a'r dyfnder diwaelod hyn, yn y rhai y derbynia pob pechod ran ofnadwy gyda'r damnedigion, a feiddient estyn eu dwylaw at ddrygioni? Ni rydd neb ei law mewn tawddlestr tanllyd, i ddwyn da allan o hono, canys gŵyr y cai ei losgi. Pe credem ni mor wirioneddol yn mythol losgfeydd y tân uffernol, ni anturiem dynnu allan bleser neu elw o ganol y fflamau hynny.

Addefant fod graddau eu poenau yn ngallu'r Iesu. Gwyddant nad oes modd ei wrthsefyll. Pe dywedasai ef gan hynny, "Yn ol i uffern o'r lle y daethoch," nis gallent mwy aros ar y ddaear, nag y gallant yn awr ddringo i'r nef. O, ryfeddol oruwchwyliaeth yr Hollalluog; yr Hwn, er y gallai anfon yr

holl ellyllon i'w carcharau mewn moment, fel na chaent mwy gyfleusdra i demtio, er hynny, a wel yn dda eu cadw ar y ddaear! Nid oherwydd gwendid nac annarbodaeth yn y Bod dwyfol hwnnw, y mae ysbrydion drwg yn gormesu ar y ddaear, ond oherwydd ei ordinhad tra doeth a sanctaidd Duw, yr hwn a ŵyr y modd i droi drwg yn dda—i dynnu da allan o ddrwg, a thrwy'r offerynau gwaethaf i ddwyn i ben ei sancteiddiaf fwriadau. O na fedrem addoli y Gállu ofnadwy ac anfeidrol hwnnw, a thaflu ein hunain yn siriol ar y Rhagluniaeth hwnnw, yr hwn a geidw, ïe, agoriadau uffern ei hun, gan ollwng allan, neu anfon yn eu hol, y cythreuliaid i'w lleoedd eu hunain.

Y mae eu cais arall yn rhyfeddol, ond rhyfeddach y caniattad o hono. *Caniatta i ni fyned ymaith i'r genfaint foch.* Eu dymuniad i wneuthur drwg, a barodd yr erfyniad hwn: fel, gan na allent boenydio corph y dyn, y gallent er hynny ofidio dynion yn eu meddiannau. Cyrhaedda malais yr ysbrydion cenfigenns hyn, oddiwrth ein personau, at yr hyn a berchennogwn. Llwyr groes i'w hewyllys ydyw, os nad ydym yn druenus yn mhob ystyriaeth.

Os y moch oeddynt aflan er gwasanaeth y ford, etto yr oeddynt, wrth anian, yn dda. Pe nas gwybuasai Satan eu bod o ddefnydd i ddyn, ni fuasai byth yn dymuno eu difetha. Ond megis yr ymddengys cleddyfwyr fel am roddi ergyd ar y goes, tra y bwriadant ef yn erbyn y pen: felly y gwna'r diafol hwn: tra y mae yn ergydio ar y moch, ei fwriad sydd yn erbyn eneidiau y Gadereniaid hyn: trwy'r dull hwn gobeithiai yn fawr, ac nid ofer ei obaith chwaith, beri i'r dynion anfoddloni wrth Grist, bod yn anewyllysgar i'w dderbyn, a dymuno ei absennoldeb: amcanai eu troi yn foch, trwy eu colledi o honynt. Nid swmmerau na meini tŷ plant Job oedd gwrthddrychau ei gasineb, ond y sawl oedd ynddo; ac nid bywyd y plant chwaith yn gymmaint ag enaid eu tad. Nid oes trallod, yr hwn ni chyfeiria ef at y galon, yr hon tra y pery yn ddianaf, tra ysgafn yw pob niweid arall. Ond *ysbryd cystuddiedig*, pa un bynnag ai gan bechod ai gan ofid, *puy a'i cynnal?* Deued a ddelo o feddiannau neu aelodau, dedwydd ydym, os yn ol arfer milwyr, y diogelwn y rhannau bywydol. Tra y cedwir yr enaid yn rhydd oddiwrth anamynedd, ac anhyder, gall ein gelyn ein cystuddio, ond nis gall ein drygu.

Gofynant am oddefiad; heb feiddio llai na chaniattau nas

gallent niweidio, ïe, 'r creadur hwn, heb gennad Crist. Os yw yn arswydus meddwl faint y pethau a allant eu gwneuthur trwy ganiattad, y mae yn gyssur cofio nad allant wneud dim heb ganiattad. Gwyddom fod eu malais y cyfryw, ag y dymunent ddistrywio holl waith Duw, ond yn bennaf dim dyn, o bob dynion, cristionogion: ond os nas gallant heb gennad ymosod ar fochyn, beth allant ei wneuthur i ddelwau bywiol eu Crewr? Nis gallant gymmaint a chynnyg dim i'n meddwl heb ganiattad ein Hiachawdwr. Ac a all Ef, yr hwn a roddodd ei werthfawroccaf waed drosom, er ein gwaredu rhag drwg, o'i wirfodd ein rhoddi i fynu i ddrwg?

Nid yw yn newydd fod ysbrydion drwg yn ewyllysio gwneud drygioni: ond y caniatteir iddynt ei wneuthur. Os meddiannydd pob peth a fynnai sefyll ar ei orchymyn perffaith ei hun, pwy a all ei alw i gyfrif am yr hyn a dybia yn addas i'w wneuthur â'i greadur? Gorchymynir yn y gyfraith dorfynygli bob cyntaf i asyn. Beth yw hynny i ni? Y creaduriaid a wnant yr hyn y bwriadwyd hwynt iddo, os gwasanaethant, mewn unrhyw ffordd, i ogoniant eu Gwneuthurwr.

Ond anfynych y gad Duw ei weithredoedd, heb y cyfryw resymau am danynt, ag sydd o fewn cyrhaeddiant ein gwendid ni. Yr oedd Sectau yn mhlith yr Iuddewon hyn, y rhai a haerent nad oedd ysbrydion. Nis gallent gael eu hargyhoeddi yn fwy eglur a grymus, nâ thrwy'r digwyddiad hwn. Caiff y Gadareniaid yn awr ganfod oddiwrth pa luaws o gythreuliaid, y cawsent eu gwaredu: a pha mor hawdd a fuasai i'r unrhyw allu roddi caniattad i'r ysbrydion afaelu yn eu personau, yn gystal a'u moch. Ac ni wnaeth Duw hyn ond er eu cyfiawn gospi. Ei farnau ydynt gyfiawn, pan fyddont ddirgelaf. Er nas medrwn ni gyhuddo'r bobl hyn o unrhyw fai, er hynny gallai Ef; a thybiodd yn oreu eu dirwyo y wedd hon. Ffafr, nid bychan o du Dduw, oedd eu cospi yn eu moch, am yr hyn, y gallasai yn gyfiawn eu cospi yn eu cyrph a'u heneidiau. Ein meddiannau ydynt y pethau pellaf oddi wrthym, ac os cospir ni yn y rhai hyn yn unig, rhaid i ni addef ein bod wedi derbyn trugaredd.

Rhynga bodd i Dduw, ar droiau, ganiattau eu dymuniad i ysbrydion a dynion drwg, nid o ran ewyllys da i'r ymbilwyr. Cyflawna erfyniad drwg, a nacca un daionus. Cyflawna'r flaenaf mewn barn, nacca'r olaf mewn trugaredd. Yr Israeliaid

a ofynasant am gîg : rhydd soflieir i'w safnau, a chulni i'w heneidiau. Y llestr etholedig a ddymuna i Satan gael ei gymmeryd ymaith, ac a glyw yn unig, *Digon i ti fy ngras i.* Nid ydym yn wastadol i fesur tiriondeb Duw trwy ei wrandawiad arnom. Y diafliaid hyn yn ddiau a gospir yn drymach, oherwydd y weithred niweidiol honno, yr hon a ganiattawyd iddynt. Os gofynwn am yr hyn nid yw addas i'w dderbyn, neu annghyfreithlon i erfyn am dano, daioni mawr o du Dduw, yw peidio gwrando.

Yr ysbrydion hynny, y rhai a aethant i'r moch trwy ganiattad, a aethant allan o'r dyn trwy orchymyn. Arosasent yn hir, a bwriwyd hwy allan yn ddiattreg. Digyfrwng orchwylion Duw ydynt berffaith ar unwaith, ac nid oes arnynt angen am help amser er eu cwblhad.

Nid cynt y maent allan o'r dyn, nag y maent yn y moch. Ni chollant ddim amser, ond ânt yn ddiorphwys o un drygioni i arall. Os ystyriant ef yn boen peidio gwneud drygioni, paham nad yw'n hyfrydwch i ni fod yn wastadol yn gwneuthur daioni.

Nid llai y chwyrnder na'r brys. *A'r genfaint a ruthrodd oddiar y dibyn i'r llyn, ac a foddwyd.* Nid grym bychan oedd ddigonol i hyn: ond pe buasai'r moch yn gynifer o fynyddoedd, yr ysbrydion hyn, ar orchymyn Duw, a'u taflasent i lawr y wedd hon. O, mor hawdd y gallant gludo'r cyfryw eneidiau ag sydd dan eu llywodraeth i ddinystr! Anifeiliaid aflan a ymdreiglant yn nhom cnawdolrwydd, meddwon anifeilaidd yn cyfnewid eu hunain trwy ormodedd,—y rhai hyn ydyw'r moch, y rhai a gludir yn bendramwnwgl gan y lleng i lyngclyn colledigaeth.

Caniatteir eu dymuniad iddynt: y moch a foddir yn y tonnau? Pa esmwythder yw hyn iddynt hwy? Tost meddwl fod unrhyw greadur, yr hwn sy'n ceisio gwynfyd trwy boeni a distrywio creaduriaid da ei Greawdwr! Hyn yw ymborth uffern! Yr ellyllon hynny a ymborthant ar eu casineb at ddyn, a hynny yn fwy, po mwyaf y mae yn tebygoli i'w Wneuthurwr; ar eu casineb at fodau bywiol eraill, po mwyaf gwasanaethgar ydynt i ddyn.

Y moch a ruthrasant: pa ryfedd os ffôdd y meichiaid? Y weithred wyrthiol, yr hon a ddylasai eu dwyn at Grist, a'u gyrra oddiwrtho. Rhedant â'r newydd, y wlad a ddaw i

mewn gyda thrwst. *A'r holl luaws o gylch gwlad y Gadareniaid, a ddymunasant arno fyned ymaith oddiwrthynt.* Y lluaws sydd anifail âg iddo amryw bennau, ac i bob pen amryw safnau, ac i bob safn amryw dafodau, ac i bob tafod amryw swn: pob pen a feddianna amryw ymenydd, a phob ymenydd feddyliau o'i eiddo ei hun: fel ei fod yn anhawdd caffael lluaws o'r un farn. Anfynych o leiaf y mae llwyr gydgordiad mewn peth da: nid mor anfynych y cydsynia lluaws yn yr hyn sydd ddrwg. Nid yw cydsyniad cyffredinol yn un prawf o ddaioni'r weithred. Cyfeiliornad cyffredinol a ddwg ymaith lawer, y rhai ni ymofynant am reswm pethau, ond am yr hyn a wneir. Llwybr sathredig yw'r hwn a dywys i uffern oherwydd amledd y traed a sathrant arno. Pan fyddo drygioni yn gyffredinol, rhinweddol yw ymneillduad.

Nid oedd cymmaint ag un Gadareniad, yr hwn a berswadiai ei gyfeillion i'r gwrthwyneb, neu a'u gwrthwynebai. Argoel fod dynion wedi eu rhoddi i fynu i farn, pan na saif neb i fynu yn erbyn amcanion drygionus. Och! beth a all un gŵr cadarn yn erbyn lluaws cyfan o ddrwgweithredwyr? Er hynny tardda hyn oddiwrth wrthwynebiad aflwyddiannus, fod Duw yn attal cospi, lle y caiff ond taenelliad o wir ffydd. Dedwydd ydynt hwy, y rhai, (fel y cyrph nefol, a ddygir oddiamgylch trwy rym y rhai sydd uwch nâ hwynt, er hynny a ânt yn araf yn eu llwybrau eu hunain,) a gadwant eu cylchoedd sanctaidd eu hunain, yn erbyn grym llygredigaethau cyffredinol. Gwaredant eu heneidiau eu hunain, a chynnorthwyant i gadw draw farnedigaeth oddiwrth eraill.

Y Gadareniaid a erfyniant ar Grist i ymadael. Gormod parch iddynt fyddai priodoli hyn i'w gorchwyledd, megis pe golygent eu hunain yn annheilwng o ymwelwr mor nefol. Paham ynte y dymunent hyn yn amser eu colled? Paham na fuasent yn rhoddi trais arnynt eu hunain, ac yn lled-arwyddo eu dirgel ddymuniad o'r hyn nis meiddiant erfyn am dano? Gormod priodoli hyn i'w serch at eu moch, a'u digter oherwydd eu colled: canys yna ni ddymunasant arno, ond ymlidiasant ef ymaith. Eu hofn a barodd y dymuniad anngharedig hwn, ofn caethiwus o berygl i'w personau, a'u meddiannau: rhag iddo Ef, yr hwn a allodd orchymyn y diaffiaid yn y fath fodd anwrthwynebol, osod y poenydwyr hyn arnynt hwy: rhag i'r rhai cythreulig eraill gael eu rhyddhau er eu colledi yr un wedd.

Nis gallaf feio ar y Gadareniaid hyn oherwydd iddynt ofni. Addas oedd crynu wrth y fath allu: yr oedd eu hofn yn annghymwys. Dylasent ymresymu, "Y mae gan hwn allu ar ddynion, anifeiliaid, a diafliaid: da gwneuthur cyfaill o hono: bydd ei bresennoldeb yn ddiogelwch i ni." Ond i'r gwrthwyneb, gau-gasglant, "Y mae hwn yn dra galluog, da iawn pe byddai yn mhellach oddiwrthym."

O, mor druenus a pheryglus yw gau gasgliadau dynion am Dduw: am ei briodoliaethau a'i weithredoedd! "Y mae Duw yn Hollalluog, abl i dywallt bythol ddialedd am bechod. O, pe na fyddai! Y mae yn rhag ofalu, gallaf finnau fod yn ddiofal: y mae yn drugarog; gallaf finnau bechu: y mae yn sanctaidd; ymadawed oddiwrthyf, canys dyn pechadurus wyf fi." Pa fodd y mae'r hyddysg a'r doeth yn ddynion naturiol, yn twyllo eu heneidiau eu hunain, yn amddifadu eu hunain o Dduw! O Iesu, mor deilwng ydynt hwy i fod hebot, y rhai a ddymunant dy ymadawiad oddiwrthynt! Y mae i ti achos digonol i fod yn flinderog o honom, ïe, pan ymdrechom dy ddal: yna pan unwaith trwy ein truenus anniolchgarwch yr ydym yn dymuno dy absennoldeb, pwy all dosturio wrthym, os nyni a gospir â'th ymadawiad? Pwy all ddweud nad yw ond cyfiawn i ti ryw ddydd droi yn ol arnom, a dywedyd, *Ewch ymaith oddiwrthyf, rai drygionus.*

MAT. VIII. MARC V. LUC VIII.

MYFYRDODAU,

&c. &c.

LLYFR IV.

Y CANAANEAD FFYDDLON.

Crefft ein Hiachawdwr oedd gwneuthur daioni : er mwyn hyn y disgynodd o'r nef i'r ddaear ; er mwyn hyn y newidiodd un arosfa ar y ddaear am un arall. Nid oes dim yn derchafu daioni gymmaint a'i fod yn gyffredinol, tra y mae cynnildeb a chrintachrwydd yn tywyllu ei ddisgleirdeb. Nid erys yr haul yn llonydd yn un rhan o'r nefoedd, ond cyflawna ei daith feunyddiol, fel y gallo'r holl fyd isod gyfranogi o'i ddylanwadau gwresog a goleuawl. Dy haelioni, O Grist, nid hiraethai am sefydlogrwydd, ond ymsymmudiad. Canfyddaf di ar un tro yn Jerusalem : yna yn Capernaum : yn fuan yn nghyffiniau pellaf Galilea : ond nid mewn un lle, ond yn gwneuthur daioni.

Ond fel nad yw'r haul, er amgylchynu'r byd yn feunyddiol, byth yn rhodio dan ei linell, byth yn myned tu hwnt ei orsafion, neu'r lleoedd y mae i ddychwelyd oddiwrthynt yn y dyddiau byraf a hwyaf : felly tithau, O Waredwr, nid aethost dros derfynau dy bobl briodol dy hun. Mynnet symmud, ond nid yn ddireol : nid allan o'th lwybr : yn yr hyn y rhagora dy gwflwr yn y gogoniant ar yr eiddot yn dy ymddarostyngiad, gymmaint ag y mae'r nefoedd yn uwch nâ'r ddaear. Yn awr yn ol dy dderchafu tynni bawb attat dy hun : nid oes yn awr derfynau i'th rasol ymweliadau : ond fel y mae'r holl ddaear o'r un belldder o'r nef, felly holl symmudiadau'r byd ydynt yn y cyffelyb fodd yn agored i'th haelioni.

Nid oedd angen ychwaith arnat am gyfleusderau allanol i ymsymmud : efallai i fawr awydd y Phariseaid a'r Ysgrifen-

yddion i wthio yn mlaen eu traddodiadau, dy yrru oddiyno: efallai mai eu tramgwydd diachos wrth dy athrawiaeth a barodd hynny. Nid oes ffordd barottach i golli Crist, nâ'i orlwytho âg ordinhadau dynol, na diystyru ei addysgiadau nefol. Nid yw yn wastadol yn tynnu ymaith ei ysbryd gyda'i bresennoldeb gweledig: ond y mae, ïe, ei ymadawiad allanol yn deilwng o'n dagrau a'n griddfanau. Gall lawer un ddywedyd, *Arglwydd, pe buaset ti yma, ni fuasai farw fy mrawd.*

Yr wyt yn awr gyda ni, O Iesu, mewn modd rhydd a helaeth: dros ba hyd, tydi sy'n gwybod: gwyddom ni beth a haeddwn, ac arswydwn. O, dysg ni ddedwydded ydym yn y fath ymwelydd: a dyro i ni ras i'th gadw gyda ni. Pe rhodiaset o fewn cyffiniau Phenicia, buasem yn gwybod y modd i ddeongli dy drugaredd yn siriol yn troi at y Cenhedloedd: tydi, yr hwn a allet gyffwrdd â'r gwahangleifion heb lygru dy hun, nis gallaset halogi dy hun âg estroniaid: ond gwyddom nad oedd canolfur y gwahaniaeth hyd yma wedi ei daflu i lawr: a thydi, yr hwn a orchymynaist i'th ddisgyblion beidio myned i ffordd y Cenhedloedd, ni throseddet dy reol dy hun. Sicr ydym ddyfod o honot unwaith at eithaf gyffiniau Galilea: fel un heb dy rwymo yn wastadol wrth ganoldir Judea, bendithiet ar amserau ei rhannau pellenig â'th bresennoldeb. Nid oes un gongl yn rhy wael i'r Efengyl: *tir Zabulon, a thir Naphtali, wrth ffordd y môr, tu hwnt i'r Iorddonen, yn Galilea'r Cenhedloedd; y bobl a rodiasant mewn tywyllwch a welsant oleuni mawr.*

Nid yw'r haul yn wawdlyd, ond edrycha gyda'r un fath wynebpryd ar bob rhan o'r ddaear. Ni ymwel ei belydron a phalasau gorwych a gerddi hyfryd yn unig, ond hefyd a bythynod diaddurn, mawnogydd a chorsydd dirmygedig. Gair Duw fel ei hun, ni dderbyn wynebau. Y Cernydd gwyllt, y Scythiad anysgedig, a'r Indiad creulon ydynt yr un iddo. Bydd trugaredd Duw yn sicr o gael allan y sawl a berthynant i'w etholedigaeth, yn nirgelaf gonglau'r byd; megis y dwg ei farnau ei elynion allan odditan y mynyddoedd a'r creigiau. Y Bugail da a dramwya trwy'r anialwch i geisio un ddafad a aeth ar ddisperod oddiwrth lawer. Os oes ond un enaid o'r Syro-pheniciaid gael ei ennill i'r eglwys, â Crist i dueddau Tyrus a Sidon i'w geisio. Paham y diogwn yn gwneuthur daioni, tra yr oedd ein Gwaredwr mor llafurus yn barhaus, gan iachau cyrph dynion,

ac ennill eu heneidiau? Nid oes fuchedd wynfydedig ond yr hon a dreulir mewn ymgais parhaus at adeiladaeth.

Hir yw er pan glywsom am enw neu genedl y Canaaneaid. Gelwid yr holl wlad wrth eu henw unwaith. Y bobl hynny yn awr a aethent allan o gof: etto am fod y wraig hon o waed rhai o'r Syro-pheniciaid, y rhai gynt a yrrasid allan o Ganaan, adfywir yr enw hwnnw iddi. Ceidw Duw gyfrif o hiliogaethau, yn ol i ni eu hanghofio: fel y gallo fawrygu ei drugareddau, trwy eu parhau i filoedd o genhedlaethau y cyfiawn, ac adnewyddu ei roddion i'r annghyfiawn.

Ni ddygodd un genedl y fath nodau ac arwyddion o felldith arni a'r un Ganaaneaidd. Er gwaradwydd i'r Iuddewon difraw hynny, y mae, ïe, Canaanead ffyddlon yn gweddio ar Grist, tra yr esgeulusant hwy iachawdwriaeth gymmaint.

Nid yw'n llefaru eithr yn llefain. Angen a dymuniad a dderchafasant eu llais i daer-gri. Clyw Duw trugaredd yn gyflym; er hynny, câr ymbiliau uchel a thaerion; nid er ei dueddi i gyfrannu, eithr ein haddasu ni i dderbyn, bendithion. Geiriau, nid gweddiau, a syrthiant o wefusau anystyriol. Pe teimlem ein hangen, â gwir ddymuniad, nis gallem lefaru wrth Dduw, mewn unrhyw dôn ond cri. Os ydym am lwyddo gyda Duw, rhaid i ni ymdrechu; ac os ydym am ymdrechu'n effeithiol âg Ef, rhaid i ni yn flaenorol ymdrechu â'n difrawch ein hunain. Ni thrywana dim y nef ond cri.

Ac ni ddengys ei taerni ei ffydd gymmaint a'i hannerchiad, *O Arglwydd, Fab Dafydd.* Pa broselyt, pa ddisgybl a allasai ddywedyd mwy? O, Syro-pheniciad dedwydd, pwy ddysgodd it' y crynodeb hwn o dduwinyddiaeth! Beth fwy a allwn ni, Gristionogion, ei gyffesu, nâ Duwdod a dyndod ein gogoneddus Waredwr, a'i fod yn wir Fessia. Ei dduwdod megis Arglwydd; ei ddyndod megis Mab; ei fod yn Fessia megis Mab Dafydd.

O holl henafiaid nodedig Crist, neillduir dau allan am eu henwogrwydd—sef Dafydd ac Abraham—brenhin a phatriarch: ac er mai'r patriarch oedd gyntaf mewn amser, y llall oedd flaenaf mewn sefyllfa: nid yn gymmaint o ran anrhydedd ei berson, ag o ran gwerthfawrogrwydd yr addewid, yr hon, am ei bod yn ddiweddarach, a mwy mewn coffadwriaeth, oedd anrhydeddasach. Addawyd i Abraham luaws o hâd, a bendith arno: i Ddafydd barhad llywodraeth; fel pan yr addawa Duw beidio dinystrio ei bobl, y gwna hynny er mwyn Abraham, a

phan yr addawa beidio dymchwelyd y deyrnas, y gwna hynny er mwyn Dafydd. Pe dywedasai *Fab Abraham*, ni fuasai yn gwneuthur yr addefiad hwn. Abraham yw Tad y ffyddloniaid —Dafydd yw tad brenhinoedd Judah ac Israel. Y mae llawer yn ffyddlon, nid oes ond un brenhin; fel ei bod yn y titl hwn yn ei gyhoeddu yn dragywyddol frenhin Ei Eglwys; y wialen neu'r blodeuyn, yr hwn a darddai o wreiddyn Jesse, gwir ac unig Waredwr y byd. Y neb a fyn ddyfod mewn gwirionedd at Grist, sydd raid iddo ddyfod atto yn ol yr enwau a roddir iddo; gan ei olygu'n wir Dduw, a gwir ddyn, gwir Dduw a dyn. Os gwahanir un o'r rhai'n oddiwrth y llall, gwneir Crist yn eilun, a'n gweddiau'n bechod.

A'i addef fel hyn, pa beth sydd mor addas i ni ei ofyn ganddo a thrugaredd? pa weddi sydd mor addas i'w thywallt ger ei fron a thrugaredd? *Trugarha wrthyf.* Ei merch oedd mewn trallod; er hynny, dywaid, *Trugarha wrthyf.* Efallai fod ei merch yn awr, o'i hwyl, yn ansynwyrol o'i thrueni: ei mam a deimla ei gofid, a'r eiddo ei hun. Gras a thymmer duwiol a'i dysgasent i briodoli iddi ei hun gystuddiau y rhan wahanedig hyn o'i chnawd ei hun. Nid yw o fewn gallu croen arall beri i ni beidio teimlo dros y rhai a ddeilliant o'n hwynau neu'n bru-oedd. Cawn fod rhai adar yn ymlosgi, tra yn ymdrechu chwythu'r tân oddiwrth eu rhai bychain. A gall, ïe, seirph dderbyn eu hiliogaeth i'w safnau er eu diogelu rhag perygl. Nid oes unrhyw greadur mor annaturiol a'r un rhesymol annghar-edig.

Wrthyf, gan hynny, yn yr eiddof: *canys fy merch sydd yn ddrwg ei hwyl gan gythraul.* Dyma'r hyn a'i hanfonodd at Grist: hyn a duedda Grist atti. Ammau yr wyf yr acthai atto, pe nas gofidiasid gan gyflwr ei merch. Ein cystuddiau ydynt debyg i gynghorwyr rhagoraf Benhadad, y rhai a'i hanfonasant â rhaff am ei wddf, at dosturiol frenhin Israel. Y rhai hyn yw'r dur-lifau a'r hôg-feini, y rhai a roddant awch ar ein defosiwn: heb y rhai ânt yn bwlaidd a dieffaith. Nid ydynt ychwaith gadarnach annogaethau i'n herfyniad ni, nag i drugaredd Crist. Nis gallwn gael rhagorach Dadleuwr drosom gyda Duw, na'n trueni. Hwn yn unig a erfynia, a ddadleua, a ymbilia drosom. Hyn a ddena Dduw attom, ac a yr ddynion, y rhai y mae eu tosturi yn fychan, oddiwrthym. Pwy all haeru fod iddo ddi-galondid i neshau at orsedd gras, tra y mae ein hanghenion yn

dadleu mor bwerus drosom. Ein holl deilyngdod yw ein trueni, yr hwn a'n haddasa i dderbyn.

Nis gallasai un o Israel ddangos ffydd tebyg i'r eiddo'r Ganaanees hon; er hynny, poenydid hi, y wedd hon, yn ei merch. Nis dichon gwiredd a chadernid ein ffydd ein diogelu rhag yr allanol a'r corphorol boenau, a ddeuant trwy'r diafol: ond tycciant yn erbyn rhai tumewnol ac ysbrydol. Ni rwystra'r rhai blaenaf mwy nâ thwymyn neu'r dropsi. Pa fodd y gallent, pan y dichon i'r dyoddefiadau hyn fod o ddirfawr leshad? A phaham y disgwyliem y byddai i gariad ein Duw rwystro unrhyw fendith i'r enaid? Anneallus yw yr hwn ni fedr wahaniaethu rhwng cystudd a'r drwg o hono. Pan gernodir ni gan gennad Satan, digon yw ddywedyd O Dduw, *Digon i ti fy ngras i.*

Yr oedd miliynau yn Nhyrus a Sidon, personau a phlant y rhai nis cyffyrddid â hwy gan y llaw boenydiol honno. Nis clywaf ond y wraig ffyddiog hon yn dywedyd, *Y mae fy merch yn ddrwg ei hwyl gan gythraul.* Nid yw'r blinderau corphorol trymaf yn arwydd o ddigter Duw. Yr hon oedd fwyaf ei gras, oedd ddyfnaf ei chwynfan oblegid ei hannedwyddwch.

Pwy a ddisgwyliasai ond am atteb hynaws i'r fath erfyniad duwiol a ffyddlon? *Eithr nid attebodd efe iddi un gair.* O Iesu sanctaidd, cawsom achos yn fynych ryfeddu wrth dy eiriau, ond nid erioed cyn hyn wrth dy ddistawrwydd. Ymbilwraig druenus a waedda ac a weddia, a Duw'r trugaredd yn fud. Yr hwn a ddiddana'r trallodus, a chwanega gystudd i'r anniddan, trwy esgeulusdod gwirfoddol. Beth a ddywedwn ynte? A ydyw ffynnon trugaredd wedi sychu i fynu? O Iesu, a allesit lai nâ chlywed? Ni lefarodd yn ddistaw, ond llefodd: a allesit lai nâ thosturio wrth yr hon, yr oedd ei daioni yn gymmaint a'i gofid? Os dy glustiau oeddynt agored, a allasai fod dy ymysgaroedd yn gauad? Diau mai tydi a roddasit yn nghalon, yn ngenau'r wraig hon i erfyn arnat, ac i erfyn y dull hwn. Nis gallasai fyth ddywedyd, *O Arglwydd, Fab Dafydd,* ond oddiwrthyt a thrwyddot. *Ni all neb ddywedyd, yr Arglwydd, ond trwy'r Ysbryd Glan.* Llawer mwy, ynte, y gwrandewaist ar eiriau o'th gynhyrfiad dy hun: a mawr dy hoffder yn clywed yr hyn a dybiaist yn ddoeth beidio a'i atteb. Dy wefusau a seliwyd i fynu gan dy ras dy hun.

Pa un ai er profi ei hamynedd a'i pharhad, canys ymddangosai

distawrwydd megis esgeulusdra; ac esgeulusdra gwirfoddol sydd ruthriad grymmus ar amddiffynfa oreu yr enaid; hyd yn nod, tymmerau tawel, pan gythryblwyd hwynt, a ddangosasant nwydau gwylltion. Os oes unrhyw sorod yn ngwaelod y gostrel, canfyddir ef yn eglur, os ysgydwir y dwfr; neu ai er gwneuthur ei dymuniadau yn fwy awchus, a'i hymbiliau yn daerach: ein dymuniadau duwiol a gynnyddant trwy eu hoedi: ymprydio a chwanega at newyn; neu ai er mwyn gwneuthur y fendith yn felusach, trwy'r anhawsdra o'i chael: y fendith a geir yn rhwydd a ddibrisir; hir ac egniol gais a'i gwna yn anwylaidd: neu ai er mwyn diangc yn ddoeth, rhag ei feio gan yr Iuddewon ymrysongar: neu yn olaf, ai er mwyn peri esampl sanctaidd o ffyddlon a dyfal barhad, a'n dysgu i ymattal oddiwrth fesur parodrwydd Duw i wrando ar ein gweddiau, wrth ei attebiad presennol, neu ei attebiad presennol wrth ein teimlad ein hunain: tra y mae ein gwendid yn disgwyl dy eiriau, dy ddoethineb a benderfyna ar ddistawrwydd.

Ni foddiodd bloedd-ganmoliaeth angelion di erioed yn fwy nâ chlywed y wraig hon yn dywedyd, *O Arglwydd, Fab Dafydd:* er hynny distawrwydd oedd dy atteb. Pan weddiom, dedwydd yw clywed am hynny o'r nefoedd: ond os na chlywn yn wastadol, nid oes achos llwfrhau, ac i gyhuddo ein hunain o anffyddiaeth, a thithau o esgeulusdra: yn gymmaint ag y canfyddwn yma âg ymbil-wraig ffyddlon, yn cyfarfod â Gwaredwr grasol, ac etto *nid attebodd efe iddi hi air.* Os ydym dlodion yn yr ysbryd, y mae Duw yn oludog mewn trugaredd: nis gall ein hanfon ymaith yn wagllaw: er hynny ni âd i ni ar bob troiau deimlo ei ymfoddloniad, ond croesa ein hewyllys fel y dygo yn mlaen ein lleshad.

Nid effaith dibwys o ddistawrwydd Crist oedd i'r disgyblion gael eu cynhyrfu i erfyn drosti: nid am ei gollwng ymaith yn unig; ni fuasai'r cyfryw erfyniad yn ffafr iddi namyn cosp; (canys, os gofidus yw cael ein dal mewn anmheuaeth, mwy gofidus fyth cael ein hanfon ymaith heb lwyddo;) eithr am gyfranniad grasol. Canfyddent fawr daerni yn y wraig, ac achos digonol am y cyfryw: canfyddent achos am wangalondid mawr o du Crist: ymlyniad mawr o'i thu hithau. Oherwydd hyn, teimlant drosti, ac ymbiliant drosti o'u gwirfodd. Ein dyledswydd yw gweddio dros ein gilydd mewn anghenion, a po mwyaf ein hadnabyddiaeth o Grist, mwyaf oll y dylem

ddefnyddio'r cyfryw er cyssur i'r trallodedig. Gorchymynir i ni ddywedyd, *Ein Tad*, nid "fy nhad;" ïe, gan ein bod yn aelodau o'n gilydd, gweddiwn drosom ein hunain yn eraill. Os y traed a frathir, y cefn a'r pen a ymgrymant, y llygaid a edrychant, y dwylaw a ymsymmudant, y tafod a eilw am help, yr holl ddyn a boenir, ac a ymdrecha am iachad. Yr hwn nid yw gyfaill i neb ond iddo ei hun, nis gall weddio, ac nis gwrandewir o'i blaid ei hunan. Nid oes gweddi heb ffydd; nid oes ffydd heb gariad; na chariad heb eiriolaeth dros eraill.

Yr hyn a'u cymmella hwynt i lefaru drosti, a gymmellir ganddynt ar Grist, am roddi iddi ei chais. *Y mae hi yn llefain ar ein hol.* Gweddi sydd megis saeth: os tynnir hi i fynu ond ychydig, nid â neppell: ond os tynnir hi i fynu i'r pen, eheda yn gryf, a thrywana yn mhell: os distella o wefusau diofal, syrthia wrth ein traed: ond grymus saeth-weddi a gyrhaedda'r nef, ac a ddwg fendith i waered. Y plentyn a ddiangodd rhag llawer dyrnod, trwy lefain yn uchel: ac hyd yn nod y Barnwr annghyfiawn, nis gall wrthsefyll taerni ŷ weddw. Gweddiau heb y galon ynddynt, ni chânt ond naccad: ymbiliau taerion a dreisiant ddaear a nefoedd.

Ni attebai Crist y wraig, ond rhydd atteb i'w ddisgyblion; y rhai a adnabyddant Dduw a dderbyniant attebion, tra y caiff estroniaid aros allan. Y mae gwahaniaeth, ïe, yn mhlith cyfeillion: yr hwn a orweddai yn mynwes Iesu a dderbyniai'r copinod, yr hwn a gelid oddiwrth y lleill.

Ond pwy all ddweud, pa un oedd fwyaf trallodus, y distawrwydd, neu'r attebiad? *N'im danfonwyd i, ond at ddefaid colledig tŷ Israel.* Beth yw'r atteb hwn, namyn amddiffyniad o'r distawrwydd a'r esgeulusdod ymddangosiadol hŷnny? Tra nad oedd yn dywedyd dim, gallesid tybied y tarddai ei ddistawrwydd oddiwrth yr angen am feddwl yn nghylch pethau mwy eu pwys: ond yn awr ei atteb a ddengys iddo darddu oddiwrth benderfyniad gwirfoddol i beidio ag atteb: am hynny ni theilynga gymmaint ag i roddi'r atteb iddi hi, ond i'w dadleuwyr: fel y gallent ddychwelyd y naccad oddiwrtho Ef atti hi, y rhai a anturiasent wneuthur ei herfyniad ger ei fron. *Ni'm danfonwyd i, ond at ddefaid colledig tŷ Israel.*

Golyga Crist ei gommissiwn megis Cennadwr ffyddlon. Nis gall droseddu hwnnw, er yr ymddangosai hynny yn llesawl. Nis gall fyned ond lle y danfonir. Y mae i'w holl eiddo eu ter-

fynau megis ag iddo yntau: pederfŷnant ymgadw o fewn y rhai hyn, ac nid i saethu yn ddiamcan. Mewn moesoldeb nid ydym yn unig i ymwrthod â'r hyn a warafunwyd, ond hefyd cyflawni ond yn unig yr hyn a orchymynwyd. Nid oes arnom angen am reol bywyd arall, ond yr hyn a fwriedir i ni ei wneuthur yn ein gwahanol sefyllfaoedd. Ac os Efe, yr Hwn oedd Dduw, ni chymmerai iddo ei hun faes helaethach nâ therfynau ei gommissiwn, pa faint mwy y dylem ni, ddynion gwael, ymgadw o fewn ein cylch? Neu pa beth a ddaw o'n hafreolusrwydd ni, y rhai ydym yn byw mewn gwir wrthwynebiad i ewyllys yr Hwn a'n hanfonodd?

Israel oedd enw Jacob; yr hwn a ddisgynodd oddiwrtho ar e hiliogaëth. Hyd ymraniad y llwythau dan Jeroboam, Israel oedd enw yr holl genhedl: yna enw'r tad a barhaodd gyda'r dosparth mwyaf, sef y deg llwyth, enw'r mab Judah yn y dosparth goreu, sef y ddau lwyth. Ni sylwa Crist ar yr ymraniad annedwydd hwn. Cofia yr hen enw a roddasai i'r ymdrechwr ffyddlon hwnnw. Y Crist hwn a ymdrechodd Jacob âg Ef: Efe oedd yr hwn a daflasai ei forddwyd o'i lle, a newidiasai ei enw, ac a'i hanfonasai ymaith gyda bendith: ac yn awr nis gall annghofio ei hen drugaredd i dŷ Israel. Addefa mai atto hwn yn unig y cawsai ei anfon. Ei hil gyntaf oeddynt fugeiliaid, yn awr defaid ydynt; heb amddiffynfa na phorfa ganddynt, eithr ar grwydr a cholledig. O Iesu, canfyddwn wrthddrychau dy ofal; tŷ Israel ac nid yr eiddo Esau; defaid, nid geifr, nid bleiddiaid; eithr defaid heb eu hargau yn ddiogel a'u hyder yn eu cyflwr diberygl. Gwae ni pe nas anfonasit attom. Nid Iuddew yw'r hwn sydd felly oddiallan. Nid gwir Israeliad yw pob Israeliad. Nid ydym o'th gorlan, os nad ydym ddefaid: ac nis dygi ni i'r unrhyw, os na fyddwn golledig yn ol ein hamgyffred ein hunain. O Arglwydd, gosodaist gnu ar ein cefnau: llwyr gollasom ein hunain: gwna ni mor deimladwy o'n crwydriadau, fel y'th gaffom di wedi ei anfon attom, ac yn ddedwyddol y'n caffer ninnau gennyt.

A roddodd y wraig druan hon ddim heibio etto? a all dim o ddistawrwydd Crist na'i naccad, ei distewi? A oedd modd iddi fwynhau y pelydr lleiaf o obaith, ar ol y cyfryw wrthodiadau penderfynol? Er hynny megis heb ganfod un achos am lwfrhau, daw etto, addola a llefa, *Argwlydd, Cymmorth fi.* Yr hon nis gallasai gael gair oddiwrth Grist yn y tŷ; yr hon a ganfyddodd

y neb a ddadleuai drosti, yn cael eu naccau, er mai disgyblion Crist ei hun oeddynt, er hynny a ddaw. O'r blaen dilynodd Ef, yn awr goddiweddodd Ef: o'r blaen safodd o bell; yn awr daeth yn agos atto. Nis gall un diystyrwch o'i eiddo Ef ei hanfon ymaith. Gras sydd ffydd nas gellir ei dychrynu: mae iddi galon gref a thalcen dewr: nis gall gommeddiadau, llawer llai oedau, ei dychrynu. Ni ddaeth hi i orchfygu mewn dadl, neu i ymresymu âg Ef, ond i syrthio i lawr wrth Ei draed. O'r blaen ei thafod a'i haddolodd, yn awr ei chlin a wnaeth hynny. Canfyddodd llygad ei ffydd y Duwdod hwnnw yn Nghrist, â'i crymmodd i'w ddaear. Nis gall dyn fod mewn agwedd addasach ger bron Duw, nâ'r agwedd o addoliad.

Ei gweddi gyntaf oedd am drugaredd: yn awr, am gymmorth. Nid oes buddioldeb mewn trugaredd, ond mor belled ag y mae'n gynnorthwyol. Derbyn tosturi heb help a chwanega at ein trueni. Pwy all feio arnom, os na phrisiwn dosturi aflesol?

Ei gweddi oedd rasol. Ni ddywaid, *Arglwydd, os gelli, cynnorthwya fi*, megis tad y lloerig: ond addefa ei allu, tra yr erfynia am y weithred; a rhydd ogoniant tra yn ceisio cynnorthwy.

Pwy yn awr all lai nâ disgwyl am atteb teg a ffafriol i erfyniad mor ostyngedig, mor ffyddlon, mor amyneddgar? Beth a lwydda, os ni lwydda gweddi'r ffydd oddiar liniau gostyngedig? Ac etto, po bellaf yr a, gwaethaf oll yw arni; dyblir ei digalondid gyda'i herfyniad. *Nid da cymmeryd bara'r plant, a'i fwrw i'r cwn.* Ei ddistawrwydd yn gyntaf a arwyddai ddiystyrwch: yna ei atteb a ddiffynai ei ddistawrwydd: yn awr, ei ymadrodd a ddiffynai ei ddiystyrwch. Wele, Efe a'i trodd o wraig yn gi; ac y mae fel yn ei bwrw'n ddiystyrllyd oddiwrth ei draed. Beth a ddywedwn? a drodd Oen Duw yn llew? Ai gwaed a red o loyw ffynnon trugaredd? O Iesu, a syrthiodd o'r blaen air mor arw oddiwrth y gwefusau addfwyn yna? Gelwaist Herod yn gadno: yn dra addas, canys ydoedd gyfrwys a drygionus: yr ysgrifenyddion a'r phariseaid yn genhedlaeth gwiberod; yr oeddynt wenwynol a chreulon: Judas yn ddiafol; yr oedd yn ariangar a thwyllodrus. Ond wele yma wraig mewn trallod, a thrallod a eilw am dosturi: gwraig dduwiol, ymbilwraig ddiragrithiol, disgybl Ganaaneaidd; Canaanëes gristionogol; er hynny, yn cael ei chyfrif, a'i fflangellu fel ci gennyt ti, yr hwn oeddyt oll yn ddaioni a thrugaredd! Pa mor annhebyg yw'th ffyrdd i'r eiddom ni! Hyd yn

nod dy erwindeb a arwydda drugaredd. Ni fuasai'r profiad mor chwerw, pe nas canfyddasit y ffydd mor gadarn, ac nas bwriadasit roddi terfyniad mor ddedwyddol. Nis gyrrasit hi ymaith megis ci, pe na fuasai yn dy fwriad ei derbyn megis sant: a'i derchafu yn gymmaint megis pattrwn i seintiau ag y darfu it' ei daroṣtwng, trwy ei diystyru.

Yr amser hwn yr Iuddewon oeddynt blant, a'r Cenhedloedd yn gŵn: yn awr, daeth cyfnewidiad dedwyddol; yr Iuddewon ydynt gŵn, (felly y dynodir y cyd-dorriad gan eu hanwyl a'u duwiol gydwladwr) nyni Genhedloedd ydym y plant. Pa sicrwydd sydd mewn proffes allanol, yr hon a rydd ymddangosiad ac nid sylwedd; o leiaf, y cyfryw sylwedd ag sydd anwadal a thymhorol? Gallwn fod yn blant heddyw, ac yn gŵn y foru. Gwir ddianwadalwch ein cyflwr a ddibynna ar arfaeth a chyfammod Duw o'i ran ef, ar ein ffydd a'n hufudd-dod, o'n rhan ninnau. Pa fodd, o fod yn blant y daethant yn gŵn, nid anhawdd dywedyd: eu rhyfyg a'u hanffyddiaeth a'u cyfnewidiasant: ac, er perffeithio eu ffieiddra, gosodasant eu hewinedd yn Arglwydd y bywyd. Pa fodd y daethom ni o gŵn i fod yn blant, nid oes gennyf reswm i'w roddi, ond *O ddyfnder!* Rhuf. xi. 33. Yr hyn yn y dechreu a'u neillduodd oddiwrth holl genhedloedd y byd, a'n neillduoedd ninnau o'r diwedd oddiwrth y byd a hwythau. *Nid o'r hwn sydd yn ewyllysio, nac o'r hwn sydd yn rhedeg chwaith, ond o Dduw, yr hwn sydd yn trugar hau.* Pa fodd y dylem glodfori dy ddaioni, O Arglwydd, am wneuthur o honot ni o gŵn yn blant! Pa fodd y dylem ofni dy gyfiawnder, am eu bod hwy o blant wedi dyfod yn gŵn! O, na fyddwn uchel-frydig, ond crynwn! Os torrwyd hwy ymaith, y rhai a'th groeshoeliasant yn dy gyflwr gwael, beth a allwn ni ei ddisgwyl, y rhai a'th groeshoeliwn yn feunyddiol yn dy ogoniant?

Yn awr, pa amynedd cyffredinol nas blinasid trwy wrthodiad mor ddirmygedig? Leied sydd na syrthiasent i nwydau annghymedrol, i edliwiadau poethion! "Ai tydi yw prophwyd Duw, yr hwn a ddiystyri'r wedd hon ymbilwyr gwaelion? Ai hwn yw'r cyssur a gyfrenni i'r trallodus? Ai hyn yw ffrwyth fy addoliad gostyngedig, fy ffyddlon broffes? A chwyrnais, a gyferthais i arnat ti, pan y'th elwais *yn Fab Dafydd*? A ruthrais arnat amgen na thrwy fy ngweddiau a'm dagrau? Ac os yw'r enw hwn yn deilwng i'm gwaeledd i, a ydyw'n deilwng o'th wefusau di? Ai nid gofid ddigon i mi cael fy nghystuddio

gan gyflwr truenus fy merch, heb i ti, oddiwrth yr hwn y disgwyliais am help, chwanegu at fy nghystudd, trwy sarhad anngharedig?" Ond yma nis gwelwn ddim o hyn oll. Yn y gwrthwyneb, caniatta ei gostyngeiddrwydd y cwbl; ei hamynedd a orchfyga'r cwbl, ac atteba yn fwynaidd, *Gwir, Arglwydd, canys y mae'r cwn yn bwytta o'r briwsion sy'n syrthio oddiar fwrdd eu harglwydd.*

Yr atteb a gynnwys gymmaint o ffyddlondeb ag o ddoethineb! "O Arglwydd, gwirionedd ei hun ydwyt ti; nis gall dy eiriau fod amgen na gwirionedd. Gelwaist fi yn gi, a chi ydwyf: dyro i mi, gan hynny, y ffafr a'r fraint a berthynant i'r cyfryw, sef casglu rhai briwsion o drugaredd odditan y bwrdd yr eistedd dy blant wrtho. Y fendith hon, er yn werthfawr i mi, etto i'th anfeidrol allu a'th drugaredd, nid yw ond megis briwsionyn wrth wledd. Nid wyf yn anturio neshau at y ford, ond ymlusgo dano. Na ommedd i mi y briwfwydydd bychain hynny, y rhai amgen a ysgubir ymaith yn y llwch. Yn ol yr ergyd hwn, dyro i mi ond briwsionyn, a chynffonlonaf arnat, ac ymadawaf yn foddlon."

O wraig, meddaf fi, mawr dy ostyngeiddrwydd: mawr yw dy amynedd: ond, *O wraig*, medd fy Ngwaredwr, *mawr yw dy ffydd.* Gwel ef y gwreiddyn, nyni y pren. Nis gallasai ond ffydd y wedd hon dymheru'r galon, nerthu'r enaid, a gwneud y tafod mor felusber.

O ffydd werthfawr! O ymlyniad hyfryd! Nid rhyfedd i'r cerydd hwnnw derfynu yn fendithiol. *Bydded i ti, fel yr wyt yn ewyllysio.* Nid aeth y fath ras erioed ymaith heb ei goroni. Buasai'r haelder yn fychan, pe nas dygasit ymaith fwy nag oedd dy gais. Wele, tydi, yr hon a ddeuaist yn gi, a aethost ymaith yn blentyn: yr hon ni wnait ond ymlusgo at draed y plant, a osodir wrth eu hystlys; yr hon a gasglesit friwsionyn a wleddir â llawn ddysgleidiau. Y ffordd i lwyddo gyda Duw, yw bod yn ddiddim yn ei olwg Ef, a'r eiddo ein hunain.

Nid ydyw gyffelyb gyda Duw, a dynion. Dynion a'n cyfrifant yn ol ein tyb am danom ein hunain: sicr yw y bydd ef yn wael yn ngolwg eraill, yr hwn sydd felly yn ei olwg ei hun. Ni ennillir dim gyda Duw trwy wag-ogoniant, ac ni chollir dim trwy hunan-ymostyngiad. O Dduw, pan edrychom i lawr ar ein gwendid ein hunain, ac yr edrychom i fynu at dy anfeidredd, dy hollalluogrwydd di, y fath greaduriaid gwael

ydym! Ond pan yr edrychwn ar ein pechodau a'n hannuwioldeb, pa wedd y mynegwn ein cywilydd? Nid oes yn mhlith dy greaduriaid ond diefliaid yn meddu ar dymmer mor ffiaidd. Yn gymmaint a gwneuthur o honom ein hunain, trwy hyn, yn waeth nâ'r anifeiliaid: felly, mewn gwir ymostyngiad meddwl, bydded i ni ei addef wrthyt ti, yr hwn a elli dosturio wrtho, ei faddeu, a'n gwaredu rhagddo. Felly, gan osod ein hunain i lawr wrth ben isaf bwrdd dy greaduriaid, rhyngai bodd i ti, Gwneuthurwr mawr y wledd, ein derchafu i uchder gogoniant.

MATTHEW XV.

IACHAU Y DYN BYDDAR A MUD.

NI bu mynediad ein Hiachawdwr i dueddau Tyrus a Sidon, na'i ymadawiad ychwaith yn ddiwyrth; megis nad yw'r haul yn codi nac yn machludo heb oleuni. Yn ei fynediad yno, gwaredodd ferch y Syro-pheniciad: yn ei ymadawiad, y byddar a'r mud. Nis gall fod arno eisiau gwaith, mwy na'i waith eisiau llwyddiant.

Nid wyf yn holi, pa un ai oedd y dyn hwn wrth natur yn fyddar a llwyr fud, neu yn fud o ran, a byddar o ddamwain. Sicr wyf ei fod mor fyddar fel nas gallasai glywed am Grist: mor fud fel na allai lefaru drosto ei hun. Cymmydogion da ydynt iddo yn lle clustiau, yn lle tafod: dygant ef at Grist. Wele wyrth wedi ei dwyn i mewn trwy gariad, ei gweithredu trwy allu, a'i therfynu mewn gwylder.

Gwir gariad oedd llefaru fel hyn dros y byddar: rhoi benthyg synwyrau i'r hwn oedd hebddynt. Ddyn truenus! Nid oedd ganddo ddim i erfyn drosto, ond ei analluogrwydd; nid oedd yma na chlust i dderbyn gwybodaeth, na thafod i ymbil. Gŵyr ei gyfeillion am ei wendidau, ac o'u gwirfodd, dygant ef i gael ei iachau. Y mae'r gwasanaeth ysbrydol hwn yn ddyledus oddiwrth y naill at y llall. Gwir yw y dylem fod yn esgud i wrando ar y pethau Duw a berthynant i'n heddwch, a chyflym ein tafodau i erfyn am help: ond ysywaeth, yr ydym wrth natur yn fyddar a mud i'r hyn sydd ddaionus. Y mae gennym ddigonedd o glust a thafod i'r byd: clywn, hyd yn nod, sibrwd hwn. Os cilia oddiwrthym, galwn ar ei ol; ond nis gwnawn un o'r ddau gyda golwg ar Dduw. Er pan fenthycciasom ein clust i'r Sarph yn Mharadwys, y mae

wedi bod yn ysbrydol fyddar: ac er pan osodasom ein dannedd yn y ffrwyth gwaharddedig, bu ein tafod yn fud mewn perthynas i Dduw: a'r hyn oedd feius yn y gwreiddyn, sydd etto'n waeth yn y canghenau. Pob enaid a fyddarir ac a fudanir yn fwy trwy lygredigaethau cynnyddol, trwy bechodau gweithredol. Tyllodd Duw glustiau rhai yn ei anfeidrol drugaredd. Dadgylymodd rai tafodau trwy rym yr adgenhedliad: y rhai hyn a gamddefnyddiant eu galluoedd sanctaidd, os ni leshant eu hunain trwy ddwyn byddariaid a mudaniaid at Grist.

Y mae rhai yn fyddar a mud trwy angenrheidrwydd; eraill o fursendod: y blaenaf, sef y sawl sy'n byw allan o gylch yr eglwys, neu o dan gaethiwed ysbrydol, nis gallwn eu cynnorthwyo namyn trwy ein gweddiau: ein tosturi a red yn mhellach nâ'n cynnorthwyon: y lleill, y cyfryw ag a allant glywed am Grist, a galw arno, ond nis gwnant: cyflwr mor gymmaint yn waeth ag yw'n wirfoddol. Y mae amrywiaeth gofidlawn yn perthyn i'r rhyw hyn. Tra y mae rhai yn fyddar trwy iriad allanol, pa un ai trwy ragfarn yn erbyn y pregethwr, neu trwy achosion a therfysgoedd daearol, eraill ydynt felly trwy ymchwyddiadau crugog balchder, trwy darthau afiach serchiadau cnawdol, a drygnaws benderfyniadau. Hwynt oll, fel y neidr fyddar, a gauant eu clustiau yn erbyn y Dwyfol Rinwr. O, gyflwr alaethus dynion colledig, y rhai a droant yn anynad oddiwrth eu hiachawdwriaeth, teilyngach o'u tosturi, am eu hanallu i dosturio wrthynt eu hunain! Dyma'r bobl y dylem lafurio am eu hiachad; eu dwyn at Grist trwy rybuddion, trwy fygythion, trwy awdurdod, ac, os rhaid yw, trwy gymhelliadau iachusol.

Ni fenthycciant eu dwylaw yn unig i'r byddar a'r mud, eithr eu tafod hefyd. Dywedant hynny drosto, yr hyn ni allai lai nâ dymuno dywedyd drosto ei hun. Diammau iddynt roddi arwyddion iddo o'r hyn a amcanent ei wneuthur. A, chan ei gael yn dra boddlon, llefarent drosto wrth Grist. Y mae gan bob un dafod i lefaru drosto ei hun: dedwydd ydyw, a geidw dafod i eraill. Gorchymyn in' nid yn unig i weddio, ond i eiriol. Yn hyn y cynnydda ein cariad yn y modd mwyaf helaeth ac effeithiol. Nis gall dim pellder luddias y ffrwyth hwn o'n tiriondeb. Gallwn, y wedd hon, roi dan rwymau, rai nis gwelwn byth, rai ni allant ddiolch i ni. Nis gall yr haelioni hwn ein tlodi: po mwyaf a gyfranwn, mwyaf oll sydd o hyd yn ein

meddiant. Ystôr ddiogel a gwerthfawr yw'r hon nis gall haelfrydedd ei lleihau.

Beth a geisient ond i Grist roddi ei law ar y cystuddiedig? Nid am y dymunent bennodi y moddion, neu arwyddo fod angen am iddo gyffwrdd âg Ef: ond am y canfyddent mai hon oedd rheol gyffredin Crist a'i ddisgyblion, sef cyffwrdd er iachau Rhaid i ni gyfeirio ein gweddiau at lwybrau cyffredinol Duw. Ei ymddygiad Ef a raid lywio ein gweddiau: ac nid ydynt hwy i bennodi rheol iddo.

Y Gwaredwr grasol hwnnw, yr hwn sydd arferol o fyned tu draw i'n dymuniadau, a wna fwy nag a erfyni arno. Ni chyffyrdda â'r dyn yn unig, ond ymafla yn ei law, ac a'i cymmer allan o'r dyrfa.

Y neb a hiraetha am ei iachau o'i wendidau ysbrydol, sydd raid iddo ymneillduo oddiwrth luaws y byd. Y mae unigrwydd, ar droiau, yn dra defnyddiol. Nis gall hwnnw byth fwynhau Duw, yr hwn nid yw weithiau ar ei ben ei hun. Priodfab gwylaidd yr eglwys nis cyfranna ei hun i'w ddyweddi yn ngwydd eraill. Neu, efallai, fod yr angenrheidrwydd hwn er esampl i ni, fel y gochelem yn ofalus wâg-ymffrost yn ein holl weithredoedd. O hyn hefyd y tardd y gorchymyn a rydd ein Iachawdwr yn y diwedd am ddirgeliad. Efe, yr hwn a allai ddywedyd, *Yr hwn sy'n gwneuthur drwg, sy'n casau goleuni*, a ochela'r goleuni, ïe, pan yn gwneuthur yr hyn sydd dda. Nid gogoniant yw ceisio ein gogoniant ein hunain. Heblaw y dymuniad gwylaidd hwn am ddirgelrwydd, wele yma olwg addas ar gyfleusdra yn ein hymddygiadau. Gallasai cenfigen yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid fod yn rhwystr i'w weinidogaeth Ddwyfol fyned rhagddi: gochelir rhag eu cynddeiriogi trwy fyned o'r neilldu. Efe, yr hwn y mae amser yn ei law, a fedr ddewis y tymmorau goreu. Ac nid amcan Crist ychwaith oedd claddu, ond celu'r wyrth hon. Nid oes i ddoethineb amgenach swydd, nâ dirnad tymmorau, a threfnu yn ddeallus amgylchiadau ein gweithredoedd: yr hyn pwy bynnag a'u hesgeulusa, a waradwydda yn ddiau ei waith, ac a niweidia ei obaith.

A oes un trallodus ei ysbryd i'w iachau? O'r neilldu âg ef. Ei gymmeryd mewn llaw ger bron y lluaws, hyn a'i harcholla, yn hytrach nâ'i feddyginiaethu. Rhaid i'n ceryddon a'n cynghorion da fod, fel ein helusen, yn ddirgelaidd: fel, pe byddai modd, na fyddai un glust neu law yn deimladwy o'r llall.

Fel y mae ein cyffes yn y glust ar brydiau, felly rhaid fod ein cerydd. Y meddyg deallus, yr hwn a fynnai iachau'r dyoddefydd gwyl, yr hwn y mae yn ei glefyd dirgelaidd fwy o waradwydd nag o boen, a gaua allan bob llygaid ond yr eiddo ei hun. Digon bod Duw'r cyfiawnder yn dywedyd, *Er i ti wneuthur mewn dirgelwch: etto myfi a wnaf y peth hyn ger bron holl Israel, a cher bron yr haul.* Rhaid i'n byr a'n hanmherffaith ddoethineb ddysgu in' gymmwyso meddyginiaethau dirgel at y clwyfau sydd felly. Y feddyginiaeth ragoraf yw'r hon a welir leiaf ac a deimlir fwyaf.

Beth a arwydda'r defodau amrywiol hyn? O Iesu, pa nifer o'th ranau corphorol sydd yma mewn gweithrediad. Rhoddir dy fys yn y glust: dy boeryn a gyffwrdd â'r tafod: dy lygaid a edrychant i fynu: dy ysgyfaint a ocheneidia: dy wefusau a ymsymmudant i *Ephphatha.* Dy air yn unig, dy amnaid yn unig, dy ddymuniad yn unig, ïe, y cynhyrfiad lleiaf o'th ewyllys a allasai beri'r iachad hwn. Paham y defnyddiaist gymmaint o honot dy hun yn y gorchwyl hwn? Ai er egluro dy ryddid, trwy beidio ar bob achlysur, defnyddio i'r un mesur dy Ddwyfol allu? Codet y meirw, a bwriet allan gythreuliaid y tro hwn, â'th orchymyn yn unig: ar amser arall, ymddyget yn ol arferion gwael gweithwyr naturiol, a chan ymddarostwng at ein synwyrau, defnyddiet y moddion, y rhai oeddynt yn dwyn mwy o debygolrwydd i'r waredigaeth a fwriedid. Neu, ai er ein dysgu y modd yr hoffi i ni ystyried dy weithredoedd mawrion gyda'r parch a'r dwysder mwyaf, y rhai y rhynga bodd i ti eu cyflawni gyda'r fath ddefodau amgylchiadol?

Nid digon gennyt roddi un bys mewn un glust: ond rhoddaist fys yn mhob un o'r ddwy. Yr oedd ar y ddwy angen am iachad. Cymmwyset y moddion o hono at y ddwy. Ysbryd Duw yw ei fys. Yna, O Iesu, y rhoddi dy fys yn ein clust, pan y nertha dy Ysbryd ni i wrando yn effeithiol. Os bwriwn ein bysedd ein hunain i'n clustiau, sef defnyddio y cyfryw eiriau dengar wrthym ein hunain ag a darddant o ystyriaethau daearol, llafuriwn yn ofer: ïe, yr attalfeydd hyn o angenrheidrwydd a'n rhwystrant i wrando ar air Duw. Oherwydd hyn, y mae philosophyddion mawrion y cynoesau, rabbiniaid dysgedig y synagog, doctoriaid nodedig y gau ffydd, yn fyddair i bethau ysbrydol. Ni all ond y bys hwnnw o eiddo dy Ysbryd, O Wynfydedig Iesu, agor ein clustiau, a myned rhagddo trwy ein clustiau i'n calonau. Rhodder y bys hwnnw o'th eiddot yn ein

clustiau; felly y symmudir ein byddarwch, a ni a glywn, nid taranau uchel y gyfraith, ond tawel sibrwd dy gynhyrfiadau graslawn i'n heneidiau.

Drosom ein hunain y gwrandawn, eithr dros eraill y llefarwn. Nid digon gan ein Hiachawdwr agor y clustiau yn unig, ond dattod y tafod hefyd. A'r glust y gwrandawn: â'r genau y cyffeswn. Yr un llaw a ddodir ar y tafod: nid â chyffyrddiad sych, ond â phoeryn: gan gyfeirio yn ddiammau at symmudiad attal-ddywedyd naturiol. Irder a wna'r tafod yn llithrig, ac yn fedrus i symmud; pa faint mwy pan ddaw o'r genau sanctaidd hynny.

Y mae rhai â'u clustiau yn agored, ond â'u genau etto yn nghauad tuag at Dduw. Hwy a ddeallant, ond ni lefarant ryfeddodau Duw. Ni iachawyd y dynion hyn ond o ran. Nid yw eu clust yn agored, ond i glywed eu barnedigaeth eu hunain, oni bydd eu genau yn agored i gyffesu eu Gwneuthurwr a'u Gwaredwr. O Dduw, felly ireiddia fy nhafod â'th rasau, fel y rhedo yn rhwydd, *megis pin ysgrifenydd buan, er gogoniant i'th enw.*

Tra yr oedd bys ein Hiachawdwr ar dafod, yn nghlust y cystuddiedig, yr oedd ei lygad yn y nef. Ni fu i neb gymmaint achos i edrych tua'r nef ag iddo Ef: yno yr oedd ei gartref; yno ei orsedd. Efe yn unig oedd *o'r nef, yn nefol.* Pawb o honom a garant ei gartref, er canfod pethau hyfrytach mewn mannau eraill: Pa faint mwy pan y mae ein cartref mor ogoneddus uwchlaw gwlad ein pererindod? Ond, O Iesu, yno yr oedd nid yn unig dy drigfa, eithr eisteddle dy fawrhydi. Yno yr addolodd yr angelion pennaf dydi: rhyfeddod y gallai dy lygad fod mewn un man arall. Beth a wna dy lygad yn hyn, ond ein dysgu pa le y dylai'r eiddo ni gael eu sefydlu? Gan fod pob rhoddiad daionus, a phob rhodd berffaith yn disgyn oddi uchod, pa fodd y gallwn dynnu ein golygon oddiwrth y fan honno, o'r lle y derbyniwn pob daioni? Ni ddysgaist ni i ddywedyd, "O Dad anfeidrol, yr hwn wyt yn mhob man," eithr, *O Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd.* Bydded i ni edrych tuag attat yno. Na fydded i'n llygaid neu'n calonau ymlusgo ar hyd y ddaear: eithr sefydlwn hwynt uwchben *y mynyddoedd, o'r lle y daw ein cymmorth.* Cydnabyddwn fod yr holl ddaioni a dderbyniwn yn tarddu oddiyno; oddiyno disgwyliwn am yr holl ddaioni yr ydym mewn angen o hono.

Canfyddwn achos digonol am i'n Hiachawdwr edrych tua'r

nefoedd, er fod y nefoedd o'i fewn: ond paham yr ocheneidiodd? Diau nid oherwydd angèn: buasai'r cynhyrfiad meddwl lleiaf o'i eiddo yn dwyn unrhyw beth i ben. Pa fodd lai nas clywsid gan ei Dad, ag yntau yn un âg Ef? Nid oherwydd ofn anhyderus: ond mewn rhan o dosturi, ac mewn rhan fel esampl: o dosturi, oherwydd yr amrywiol wendidau, i'r rhai y syrthiodd dynolryw trwy bechu, enghraifft hynod o'r unrhyw oedd yma ger ei fron: er esampl, i ddwyn allan ocheneidiau o honom ni oherwydd trueni eraill: ocheneidiau o ofid drostynt, ocheneidiau o ddymuniad am eu gwaredigaeth. Nid hon yw'r waith gyntaf y parodd trallodion dynion i'n Iachawdwr ocheneidio, ïe, wylo hefyd. Nid ydym asgwrn o'i asgwrn Ef, na chnawd o'i gnawd Ef, os na theimlwn ofid ein brodyr yn y cyfryw fodd ag y torro tân ein teimlad allan yn fwg o ocheneidiau. *Pwy sydd wan nad wyf finnau wan? Pwy a dramgwyddir nad wyf finnau yn llosgi?*

Nid oedd Crist yn ddistaw pan yn iachau'r mud. Ei *Ephphatha* a roddodd fywyd i'w holl weithrediadau eraill. Ei ocheneidio, ei boeri, ei edrych i fynu i'r nef oeddynt weithrediadau dyn: ond ei orchymyn i'r glust a'r genau i ymagor oedd ei weithred megis Duw. Nis gallasai orchymyn yr hyn nis gwnaethai. Ei air sydd orchymynol: yr eiddo ni yn erfyniol. Gwna Ef â ni yr hyn a welo yn dda: gwnawn ninnau trwyddo Ef yr hyn a welo yn gymmwys ei gyfrannu.

Yn y genau hyn nis gellir ysgar rhwng gair a llwyddiant. Nid cynt yr agorir gwefusau ein Iachawdwr yn ei *Ephphatha*, nag yr agorir genau'r mudan, a chlustiau'r byddar. Gwelwch yma yn nglyn â'u gilydd gyflymdra a pherffeithrwyd. Gweithwyr naturiol a weithiant yn hamddenol, yn raddol: ni wneir dim yn ddiattreg mewn mynudyn: trwy amryw risiau y dygir yn mlaen bob peth o'i gychwyniad i'w derfyniad. Nid oes reolau i Hollalluogrwydd. Nis gall unrhyw beth anmherffaith ddeillio o achos trwyadl berffaith. Clyw'r dyn yn awr yn gyflymach nâ phe buasai erioed heb fod â byddarwch arno: a llefara yn eglurach nâ phe buasai rhwymau heb fod erioed ar ei dafod.

Ac a allwn feio arno os rhoddodd honsel neu flaenffrwyth ei ymadrodd ar y gallu a'i hadferasai? os y defnydd cyntaf a wnaeth o'i dafod oedd moli y Rhoddwr a'r Lluniwr o hono? Neu, a allwn ddisgwyl llai nag i'n Gwaredwr ddywedyd, "Y mae dy dafod yn rhydd; defnyddia ef er clod i'r hwn a'i rhydd-

haodd: agorwyd dy glustiau; gwrando arno Ef, yr hwn a orchymyna i ti gyhoeddi dy waredigaeth ar nen y tŷ." Ond yn awr, i'r gwrthwyneb, canfyddwch i'r hwn a agorasai enau'r dyn hwn trwy rym ei lais, trwy'r unrhyw lais ei chau drachefn, gan orchymyn distawrwydd â'r un anadl y rhoddasai iddo ymadrodd trwyddo. *Efe a waharddodd iddynt ddywedyd i neb.*

Rhoddir siars ar y tafodau a eiriolasant am waredigaeth, i gelu'r peth a wnaethpwyd. O Iesu, gwyddost am resymau dy orchymynion dy hun. Nid ein lle ni yw ymofyn, eithr ufuddhau. Nis gallwn dy barchu trwy gyhoeddiad gwaharddedig.

Amcanion da a fuont yn aml yn niweidiol. Y rhai hynny y darfu i diriondeb ddefnyddio eu tafodau o blaid y mud, yn awr a ddefnyddiant y cyfryw i grybwyll am ei waredigaeth, pan y dylasent fod yn ddistaw. Tybiant i'r gorchymyn hwn darddu o wylder gostyngedig Iesu; yr hwn a droseddant o barch i'w enw. Nis gwn paham y merwinwn am y pethau gwaharddedig hynny, y rhai, ond ein gadael i ni ein hunain, a esgeuluswn yn wirfoddol. Y gwaharddiad hwn a wna'r peth yn fwy adnabyddus. Y tafodau oll a ddefnyddir yn nghylch y tafod hwn. Beth yw hyn ond anufudd-dod âg amcan daionus iddo?

O Dduw, dewisiwn yn hytrach gyhoeddi dy enw wrth dy orchymyn. Gwn nas gelli orchymyn i mi dy ddianrhydeddu: nid oes berygl o hyn: ond pe dywedet wrthyf am gelu dy enw a'th ryfeddol weithredoedd, cyflawnwn dy eiriau, heb chwilio dy fwriadau. Gwyddost y ffordd i ennill anrhydedd mwy oddiwrth ein distawrwydd na'n cyhoeddiadau. Ychydig yw'r gwahaniaeth rhwng daioni gwaharddedig a drygioni. Beth ond dy waharddiadau a wnant ein gweithredoedd yn bechadurus. Ni thyccia ein barn ddim. Os gwaherddi yr hyn a dybiwn yn dda, try yn gymmaint bai ger dy fron, a phe buasai ynddo ei hun yn ddrygionus. Cymmer di ofal am dy ogoniant: dyro i ni ras i ofalu am dy ddeddfau.

MARC VII.

ZACCHEUS.

YN awr teithiai ein Iachawdwr tuag at ei ddyoddefaint. Ei daith ddiweddaf oedd helaethaf ei rhyfeddodau.

Yr oedd Jericho yn ei ffordd o Galilea i Jerusalem. Nis gwrthoda fyned iddi, er ei bod yn allanol dan felldith: ond megis yr achubodd y Josua cyntaf Rahab yno, felly'r ail Zac-

cheus—hwnnw, buttain; hwn, bublican. Archollasid yr ymdeithydd, wrth fyned o Jerusalem i Jericho: cymmerwyd y dyn hwn o'i Jericho i'r wir Jerusalem, ac a'i iachawyd.

Ni rodiodd Crist ar y ffordd hon fel ymdeithydd, ond ymwelwr: nid er cospi, ond gwaredu. Nid da gan y claf anfon yn mhell am y meddyg: yma daw'r meddyg i chwilio am gleifion, gan alw wrth ein drysau am waith. Pe nas gadawsai'r Bugail da hwn y namyn un pum ugain, gan chwilio'r anialwch, ni ddaethai'r ddafad golledig byth i'r gorlan. Pe nas chwiliasai yn ei rasol gynnilwch am y drull a gollasid, ysgubasid ef gyda'r brwyn, a bwriasid ef allan gyda'r ysgubion. Yr ydwyt o hyd, O Grist, yn rhodio yn ein Jericho. Beth a ddeuai o honom pe aroset hyd oni cheisiem di? Ië, mor anewyllysgar ydym i'th ddilyn yn ol i ti ein ceisio! Rhaid i'r gwaith fod yn eiddo ti oll. Ni'th geisiwn di, os na ddeui ar ein hol: ni'th ddilynwn oddieithr i ti ein tynnu.

Ni roddaist erioed, O Iesu, gam yn ofer. Lle bynnag y rhodi, y mae yno ryw Zaccheus i'w ennill: megis y dywedwn mewn sychder, pan welwn ryw gwmmwl trwm yn crogi uwch ein pennau, fod gwlaw i ryw faesydd, lle bynnag y disgynna. Argoela ordinhadau Duw ddaioni i ryw eneidiau; a gwyn fyd hwy y sawl y daw arnynt.

Pa mor addas y dygir Zaccheus i'n sylw trwy air o syndod! Newydd mawr a hyfryd yw clywed am ddychweliad. Canfod dynion yn troi oddiwrth Dduw at y byd, oddiwrth y gwirionedd at heresi, oddiwrth dduwioldeb at halogrwydd sydd olygfa mor gyffredin ag yw alaethus: syrthia'r cyfryw sêr bob nos: ond canfod pechadur yn dyfod yn ol at Dduw, sydd ddedwyddol a rhyfeddol i ddynion ac angelion. Nis gallaf feio ar y philosophydd hwnnw, yr hwn, gan gymmeryd mewn llaw ysgrifennu ar guddiedig wyrthiau natur, a lenwodd y rhan fwyaf o'i draethawd â sylwadau ar genedliad a ffurfiad dyn: diau mai yn *ofnadwy a rhyfedd y'n gwnaed:* ond pa faint mwy yw'r wyrth o'n hailenedigaeth: fod mab digofaint, plentyn Satan, yn cael ei droi yn fab ac etifedd y bythfywiol Dduw! O Dduw, dy orchwylion yw'r ddau: eithr yn un ein hysbryd a'n bywha: yn y llall yr eiddo Ti.

Etto rhai pethau, ag ydynt ryfeddol o ran eu gwerth, nid ydynt felly oherwydd eu cyffredinolrwydd. Ond y mae hwn mor anfynych ag yw ragorol. Pa sawl Petr llafurus a gwynodd oherwydd pysgotta dros y nos heb ddala dim. Proffeswyr lawer,

ac ychydig o ddŷchweledigion, sydd bob amser wedi bod yn nglyn â'r efengyl. Gellir llenwi tŷ Dduw megis heolydd Jericho, ac etto dim ond un Zaccheus. Gan hynny megis mewn *lotteri*, pan ddelo allan *brize* mawr, y swnia'r udgorn o'i flaen: felly cyhoeddir y newydd o un yn cael ei droi at yr Arglwydd gyda, *Wele Zaccheus*. Buasai unrhyw un edifeiriol yn deilwng o floedd: ond y dyn hwn yn neillduol; publican, pen-publican cyfoethog.

Nid oedd enw ffieiddiach dan y nef nâ hwn—publican: yn enwedig gan y genedl hon, yr hon a dybiai mor uchel am ei rhydd-did, fel yr ymddangosai'r anmheuaeth lleiaf yn ei gylch yn ddamniol: yn gymmaint a'i bod yn gofyn, nid, "A ydyw yn addas, yn angenrheidiol," ond "*Ai cyfreithlon talu teyrnged i Cæsar, ai nid yw?* Rhaid fod unrhyw swydd orthrymmus yn dra ffiaidd yn ngolwg y sawl oeddynt mor anynad dan yr iau. Ac etto, nid y swydd gymmaint a'r trais a barai'r gelyniaeth iddi. Oherwydd y ddau achos, y rhai a'u cyflawnent oeddynt yn dra dirmygedig. Yn awr, cyssylltir hwy â'r cenhedloedd: bryd arall, â'r putteiniaid; yn wastadol â phechaduriaid. *Ac wele Zaccheus y publican.*

Yr ydym oll, wrth naturiaeth, yn estroniaid i Dduw; y mae'r goreu yn dirmygu gras; etto, y mae rhai ag y mae eu sefyllfa yn rhoddi manteision iddynt. Ond y llong-geispwl hon o eiddo Zaccheus oedd â thrais, hyd yn nod, yn ei hwyneb, ac, mewn ystyr, gwnai ei ddychweliad yn annichonadwy; ac er hynny, wele, o'r dollfa hon y gelwir Zaccheus i fod yn ddisgybl, a Matthew i fod yn apostol. Yr ydym yn nwylaw gweithiwr cywrain, yr hwn o'r coed mwyaf cylymog a cheimion a all wneuthur symmerau a nen fyrddiedig i'w dŷ ei hun, a all gabolu'r farmor a'r gallestr yn gystal a'r maen tyneraf. Pwy yn awr all ddywedyd dim am anfantais ei sefyllfa, pan ganfydda bublican yn dyfod at Grist? Ni all unrhyw alwad rwystro grasol etholiad Duw.

Bod yn enwog mewn drygioni sydd waeth fyth. Os drwg yw bod yn bublican, diau fod bod yn ben-bublican yn waeth. Paham y sariadwn am ben-bublicanod, tra y mae ef a addefai ei hun yn bennaf o bechaduriaid yn awr yn mhlith y pennaf o'r seintiau?

Pwy all anobeithio am drugaredd, pan welo un Jericho yn anfon puttain a phublican i'r nefoedd?

Nid mwy rhwystr yn ei ffordd oedd galwad Zaccheus nâ'i

gyfoeth. Efe, yr hwn a anfonodd at Ioan fel newydd mawr, fod *y tlodion yn derbyn yr Efengyl*, a ddywedodd hefyd *mor anhawdd yr â gŵr goludog i deyrnas nefoedd!* Y mae'r cnwc hwn o eiddo'r camel, yn ei rwystro rhag myned trwy grau y nodwydd: er nid oherwydd unrhyw ddrygnawsedd sydd yn y creadur ei hun, (rhodd Duw yw golud) ond oherwydd y tri pheth hynny a grogant wrtho—gofalon, pleserau, balchder; y rhai yn rhy fynych ydynt yn nglyn â chyfoeth. Cymmerwch y rhai hyn ymaith, ac y mae cyfoeth yn fendith. Os gallwn ei feddiannu fel nas meddianno ef ni, nid oes berygl mewn llawnder, eithr mantais. Holl dda neu ddrwg cyfoeth neu dlodi sydd yn y meddwl, yn y defnydd a wneir o honynt. Yr hwn y mae ganddo galon rwydd a gostyngedig mewn cyfoeth, sydd dlawd: y neb y mae ei galon yn chwyddedig mewn brattiau, sydd gyfoethog. Os y goludog a wna ddaioni a chyfrannu, a'r tlawd ledratta, anfonodd y goludog ei wae i'r tlawd. Ni fuasai dychweliad Zaccheus mor enwog, pe buasai yn dlawd: nac mor haelionus yn ol ei ddychweliad, pe na buasai oludog. Os oedd llawer o anhawsder yn ei droedigaeth, felly hefyd yr oedd llawer o ogoniant.

Da fod Zaccheus goludog yn ewyllysio gweled Crist. Y mae gormod o'r cyfryw na phrisiant yr olwg hon. Wyneb Cesar ar eu harian sydd lawer mwy dymunol. Gad y dyn hwn ei sachau, er bendithio ei hun â'r olygfa hon. Er hynny, nis canmolaf ef yn ormodol am hyn. Nid ffydd, yr wyf yn ofni, ond cywreinrwydd oedd yr achos o hono. Y dyn a glywsai gymmaint am y gŵr a'i wyrthiau, a hiraethai am weled ei wyneb. Hyd yn nod Herod a ddymunodd hyn, heb fod ddim gwell er hynny. Ond hyn yn unig a ganfyddaf, i'r cywreinrwydd hwn o eiddo'r llygad, trwy drugaredd Duw, roddi achlysur i grediniaeth y galon. Yr hwn sy'n ewyllysio gweled Crist, sydd ar y ffordd i'w fwynhau: nid oes gymmaint a'r posiblrwydd lleiaf mewn perthynas i'r dyn nad yw yn ewyllysio ei ganfod. Cyfrannesid y llygad i ddybenion gwael, pe buasai yn unig ond i fradychu'r enaid: nis gellir ei ddefnyddio i ddybenion llai rhagorol. Nid ydym deilwng o'r ffenestr fuddiol hon i'n calonau, os na anfonwn allan o honi belydron o ddymuniadau sanctaidd, a chyfleu yn ol wrthddrychau defnyddiol ac achubol.

Nid wyf yn rhyfeddu am ddymuno o Zaccheus ganfod Iesu. Nid oedd yr holl fyd yn werth yr olwg hon. Yr hên Simeon

a'i tybiai yn oreu gau ei lygaid i fynu, â'r cyfryw ddrych; megis pe barnasai yn drueni ac yn anmharch canfod dim ar ei ol. Llawenychodd Tad y ffyddloniaid ei ganfod, er yn mhellder pedwar cant ar bymtheg o flynyddoedd, ac athraw mawr y Cenhedloedd a grybwylla hyn megis gris uchaf ei dderchafiad, *Oni welais i yr Arglwydd Iesu?* Ac er hynny, O Waredwr, llawer a'th welsant yma, y rhai ni wẹlant dy wyneb uchod; ïe, galwant ar y bryniau i'w cuddio o'th olwg: *ac os adnabuom di unwaith yn ol y cnawd, nid adnabyddwn di felly mwyach.* Pa mor wynfydedig fydd dy ganfod yn y cyfryw fodd yn ogoneddus, fel trwy dy ganfod y cyfranogom o'th ogoniant! O olwg ddedwyddol, wrth yr hon nid yw pob un arall ond poenydol a dirmygedig! Os âf i'r bâth-dŷ a chanfod pentyrau o aur, nid wyf gyfoethocach trwy hynny: os âf at y Colurwyr, a chanfod wynebau hardd, nid wyf decach. Os âf i'r llŷs, a chanfod rhwysg a mawredd, nid yw yn fy ngwneuthur yn fwy: Ond, O Iesu, nis gallaf dy ganfod di heb fy mendithio. Gallaf dy ganfod yma, er mai mewn drych. Os llygad fy ffydd sydd wan, etto y mae yn gywir. O, bydded im' fod yn anesmwyth hyd y canfyddaf di, yn awr trwy len y nef, cyn dy weled megis y'm gwelir.

Mawr ddymunai Zaccheus weled Crist, ond nis gallai. Rhyfeddol pe na chyfarfyddai dyn â rhyw rwystrau o barth dymuniadau da: daw rhyw beth yn wastadol i'r canol, rhyngom a Christ. Wele yma ddau rwystr yn nghyd; un tumewnol, ac un allanol: bychandra'r dyn, maintioli'r dyrfa. Yr oedd ymwthio mawr yn heolydd Jericho i ganfod Iesu: y drysau, y ffenestri, a phob lle, oeddynt oll yn llawn. Wele lawer o edrychwyr, ychydig o ddisgyblion. Pe byddai syllu, pe byddai proffes yn grefydd, ni fyddai ar Grist angen am ganlynwyr: yn awr yn mhlith yr holl ryfeddwyr hyn, nid oedd ond un Zaccheus. Ofer yr ymffrostiwn yn ein parodrwydd i weled a chlywed Crist yn ein heolydd, os na dderbyniwn Ef i'n calonau.

Y dorf hon a guddia Grist rhag Zaccheus. Och, amled peth yw cael ein cadw rhag canfod ein Iesu, trwy fod y byd yn ymwthio rhyngom âg Ef! Yma, rhyw un cnawdol a ddilyna arferion eraill a dywaid, "Ymaith â'r manylrwydd llymdost hwn: gadewch i mi wneuthur fel eraill." Y dyrfa a geidw hwn oddiwrth Grist. Arall, sef cam-grediniwr hygoelus a ddy-

waid, "Paham y soniwch am ddyrnaid o rai diwygiedig? yr holl fyd sydd eiddo ni." Y dyrfa a geidw hwn hefyd oddiwrth Grist. Y mammonwr cybuddlyd a ddywaid, "Bydded y sawl y mae ganddynt hamdden yn grefyddol: fy ngalwedigaethau i ydynt luosog: fy ngorchwylion ydynt fawrion." Nis gall hwn etto ganfod Crist gan y dyrfa.

Nid oes perffaith olwg o Grist ond mewn ymneilldiad sanctaidd. Y ddyweddi nis cafodd ei Hanwylyd, hyd onid aeth heibio i'r cwmpeini: yna y cafodd yr Hwn oedd hoff gan ei henaid. Yr hwn ni chwilia un amser am Grist ond yn y dyrfa, ni chaiff byth gyssur oddiwrtho. Rhaid i ni fwynhau y lles o weled Crist yn gyhoeddus mewn dirgelrwydd. Os canfyddwn wynebpryd gŵr mewn tyrfa, dyna'r cwbl: pan y cawn ef wrtho ei hun, gallwn graffu ar bob aelod. O Iesu, byddwn anfoddlon i beidio dy weled yn y cynnulleidfaoedd: ond byddwn anfoddlonach i beidio dy weled yn fy ystafell.

Etto pe buasai Zaccheus o'r uchder cyffredinol, gallasai ysgatfydd ganfod wyneb Crist dros ysgwyddau ei gyfeillion. Yn awr bychandra ei gorpholaeth a chwanega at ei anfantais. Nid oedd ei gorph yn cyfatteb i'w feddwl: ei ddymuniadau oeddynt uchel, tra yr oedd ei gorph yn isel.

Ond y goreu yw nad yw byrdra'r corph yn anfantais ar le uchel, er ei fod ar sefyllfa cyd-wastad. Dyn bychan, os eglur ei lygad, a all edrych mor uchel os nad mor belled a'r uwchaf. Y coryn byraf a all ganfod yr haul neu'r sêr o'r dyffryn iselaf, yn gystal a'r cawr ar ben y mynydd mwyaf. O Iesu, yr wyt yn awr yn y nef: bychandra ein personau neu waeledd ein sefyllfa, nis gall ein rhwystro i'th ganfod: nid oes corpholaeth i'r enaid, a'r nefoedd nis gellir ei chael trwy ymestyn. Yn unig pura olygon fy ffydd, ac yr wyf yn uchel ddigon.

Nid wyf yn edrych ar y corph: yr enaid yw'r dyn: O ba les fod y corph yn gawraidd, os yw'r enaid yn fychan. Y mae a wnelom â Duw, a'n mesura wrth ein dymuniadau, ac nid wrth ein corpholaeth. Ni feddai holl heolydd Jericho, beth bynnag a ymddangosai i'r llygad, ŵr mor dàled a Zaccheus.

Y publican cyfrwys a wêl yn hawdd ei anhawsderau a'r modd i fyned drostynt. Ei waredigaeth rhag y dyrfa oedd rhedeg o'u blaen: ei waredigaeth rhag ei fychandra corphorol oedd dringo i'r sycamorwydden: defnyddia ei draed yn y gyntaf, ei ddwylaw a'i draed yn yr ail. Ofer y disgwylia ef weled Crist, yr

hwn ni red o flaen tyrfa gyffredin y byd. Y lluaws a ymdyrra yn eu gilydd, ac a ymsymmuda yn rhy agos i ymsymmud yn gyflym: rhaid i ni fod yn gyflymach nag ef, os dymunwn ganfod Iesu Grist.

Gorchymyn Duw ydyw, *Na ddilyn y lluaws i wneuthur drwg.* Gwnawn ddrwg, os byddwn arafaidd yn dilyn y da. Cyfrifir ef yn gyffredinol yn ddoethineb a harddwch i ddyn gadw ei gerddediad yn iawn: a'r dyn hwnnw, yr hwn a ragflaenai ei gyd-deithwyr, ni ddiange rhag bai. Yn wir, os rhed dyn wrtho ei hun mewn llwybrau dibwys, neu os datguddia ragrith trwy adael eraill ar ei ol mewn proffes wresog, tra y mae'r galon yn llercian yn ol, cyfiawn y ffieiddir ef o ran y ddau beth hyn; eithr ymdrechu mewn gwirionedd, o eiddigedd sanctaidd, myned o flaen eraill mewn gras, ac mewn ufudd-dod cydwybodol, hyn sydd dra cristionogol, ac addas iddo ef yr hwn a fynnai ei fendithio â golwg ar ei Achubydd.

Dywedwch im' Gristionogion a ddilynwch arferion rhai eraill, y rhai ydych am fod fel eraill, ac nad ewch fodfedd o flaen eich cymmydogion, mewn duwiol zel, mewn caredigrwydd gweithredol, mewn symlrwydd cydwybodol: dywedwch im' pwy a osododd gynnydd eraill yn rheol i'r eiddo chwi? Pa un o honoch sy'n dywedyd, "Nis byddaf yn fwy goludog, yn fwy mawr, yn fwy teg, yn fwy doeth, yn fwy dedwydd nâ'm cyfeillion?" Paham ynte y dywedwch, "Nis byddaf yn fwy sanctaidd?" Nid yw ein bywyd eithr gyrfa. Pob dyben da a osoda dyn iddo ei hun, sydd wahanol gyrch-nod. A ddywedodd dyn erioed a redai am gamp, "Cadwaf i fynu gyda'r lleill?" Oni ŵyr y colla'r gamp, oni fydd y blaenaf? Byddai yr un peth i ni eistedd yn llonydd, ag esgeuluso *rhedeg fel y caffom afael.* Nis cawn afael oni redwn yn gynt nâ'r lluaws. Zaccheus a ragflaenodd ffrwd y bobl, fel y caffai hamdden i ddringo i'r sycamorwydden, cyn y gallai'r Iesu fyned heibio.

Nid wyf yn chwilio i rywogaeth, anian, a rhinwedd y pren hwn. Ni waeth pa pren a fuasai, ymdrechasai Zaccheus ei ddringo, er mwynhau'r olygfa hon. Cafodd allan y cynnorthwyai hyn ei gorpholaeth, a llafuriai i gymmeryd maintais arno. Y defnydd rhagoraf a wnawn o'n synwyr, yw chwilio am y pethau a ddygant yn mlaen les ein heneidiau. A ganfyddwch gristion gwan ond astudgar, yr hwn, am ei fod yn analluog i ddirnad pethau Duw, a â i lŷs y nefoedd, sef *gwefusau'r offeir-*

iad, y rhai *a gadwant wybodaeth*? Yno y mae Zaccheus yn y sycamorwydden.

Y doethineb pennaf yw'r hwn a ddwg yn mlaen ein hiachawdwriaeth. Pa mor ddoeth ydym i gyflawni holl ddiffygion natur! Os ydym fyrion, gallwn chwanegu cufyddau at ein maintioli: os drwg ein lliw, gallwn fenthycca lliw rhagorach: os ydym foelion, *ffug-wallt*: os anmherffaith ein golwg, gwydrau: os cloffion, bagl-ffyn: ac a gawn fod yn deimladwy o'n hangenion ysbrydol, ac o'n gwirfodd esgeuluso'r waredigaeth? Diau, pe safasai Zaccheus ar y llawr, nis canfyddasai Grist: pe nas dringasai i'r pren, nis dringasai byth i'r nefoedd. O Iesu, nid oes i mi uchder digonol o honof fy hun i'th ganfod: dyro i mi y sycamorwydden a fynni: dyro ras i mi i'w defnyddio: a modd i ddefnyddio'r cyfryw ras.

Po mwyaf yr edrychaf ar drugaredd Crist, mwyaf oll yr ymddengys yr achos i ryfeddu. Zaccheus a ddringa i'r sycamorwydden i weled Iesu: Iesu yn gyntaf a'i gwelodd ef, gan ragflaenu ei lygaid trwy flaenol ganfodiad. Ychydig a feddyliodd Zaccheus y taflasai ei olwg arno. Gallasai yn hawdd dybied y buasai i'r plant yn yr heolydd ei weled, a gwawdio oblegid ei fychandra, ei alwad, a'i drachwant: ond y buasai i Grist fwrw i fynu ei olwg i'r sycamorwydden, a sylwi ar y tammaid bychan dirmygedig hwnnw o gnawd, cyn y gallasai Zaccheus gael hamdden i wahaniaethu rhyngddo ef ag eraill, oedd draw i'w ddychymyg a'i ddisgwyliad. Gobeithiai yn unig gael gweled, ond yn awr fe'i gwelir. Cael ein gweled a'n harddel, sydd lawer mwy nâ gweled. Ar ryw achlysur pwysig, miloedd lawer a ganfyddant y tywysog, y rhai nis canfyddir ganddo Ef; ac os rhynga bodd iddo sylwi ar ryw un pennodol, â'i lygad neu ei dafod, yn mhlith y dyrfa, tybir hyn yn ddirfawr anrhydedd.

Zaccheus a'i tybiasai yn ormod eofndra i erfyn am yr hyn a roddwyd iddo. Megis y gwnaethai Jonathan i Dafydd; felly y gwna Duw i ninnau. Saetha y tu hwnt i ni. Pe nas rhagflaenai ni â'i drugaredd, gallem ddringo i'r sycamorwydden yn ofer. Os rhydd ras i'r neb a wna ei oreu, haelioni clodfawr y rhoddwr yw, ac nid haeddiant y derbyniwr. Pa fodd yr ewyllysiwn a gweithredwn hebddo Ef? Os canfydda ni yn gyntaf, byw fyddwn; ac os dymunwn ei weled, ni a gawn ei weled.

Pwy erioed a lafuriodd i ddringo i'r sycamorwydden, ac a

siomwyd? O Arglwydd, beth oedd yn Zaccheus i beri i ti edrych i fynu arno? Publican, pechadur, ac eithaf gormeswr: corryn o ran ei faintioli, eithr cawr mewn trais: dyn bychan, ond gwenieithiwr mawr: os cyfoethog mewn arian, cyfoethocach mewn pechodau a thrysorau digofaint. Etto digon fod ganddo ddym uniad i'th weled di: nis gall yr holl anfanteision hyn ei gelu oddiwrthyt. Pa mor bechadurus bynnag y byddom, os diffuant a gwresog ein dymuniadau tuag attat, nis gall holl ddail llydain y sycamorwydden gadw dy lygad oddiwrthym. Os edrychwn arnat ti â llygad ffydd, yna yr edrychi arnom ni â llygad o dosturi, *Llygad yr Arglwydd sydd ar y cyfiawn;* a chyfiawn ydyw yr hwn a ewyllysia fod felly; os nid ynddo ei hun, etto trwot ti. O Iachawdwr, pan oedd Zaccheus fry, a thithau ar y llawr, edrychaist i fynu arno: yn awr pan yr wyt tithau fry, a ninnau yma isod, edrychi i wared arnom; dy lygaid tosturiol a edrychant o bob tu ar ein hangenrheidiau. Edrych i wared arnom ni, y rhai nid ydym deilwng i edrych i fynu attat ti: a chais ni fel y'th geisiom.

Peth mawr oedd i ti sylwi ar Zaccheus: mwy oedd i ti ei alw wrth ei enw. Mi debygwn fy mod yn gweled Zaccheus yn synnu wrth glywed ei enw ei hun yn dyfod o enau Crist; ac nis gall lai nâ meddwl, "A ydyw'r Iesu yn fy adnabod? ai ei lais Ef ydyw, neu lais rhywun yn y dyrfa. Wele dyma y gipolwg gyntaf a gefais arno erioed. Mi a glywais sôn am ei weithredoedd rhyfeddol, a chyfrifais yn wynfyd ddigon gweled ei wyneb; ac a ydyw Ef yn sylwi ar fy mherson, ac ar fy enw?"

Diammau po mwyaf yr adnabyddai Zaccheus ei hun, mwyaf oll ei syndod am fod Crist yn ei adnabod. Digon o warth oedd bod yn gyfaill i bublican, etto, annercha Crist y pen-publican hwn mewn modd cyfeillgar, ac a'i hanrhydedda ef â'r prawf hwn o gyflawn gyfeillgarwch ar unwaith.

Y ffafr sydd fawr, ond nid arbennig. Pob un o etholedigion Duw a drinir y wedd hon: Gŵyr y Tad enw ei blentyn; megis y geilw'r ser wrth eu henwau, felly hefyd ei seintiau, ei ser ar y ddaear. A'i reol ei hun i'w Israel yw, *Gelwais di wrth dy enw, eiddo fi ydwyt.* Megis nad ymfoddlona pobl Dduw â rhyw wybodaeth aneglur o hono, ond llafuriant am adnabyddiaeth neillduol, a chymmwysiad teimladwy o hono, felly Duw tuag attynt hwythau: nid digon ei fod yn eu hadnabod, megis

mewn torf, yn yr hon y canfyddwn bersonau lawer, eithr neb yn eglur; ond cymmer sylw neillduol o'u hagweddau, sefyllfaoedd, symmudiadau, a'u digwyddiadau. Nid gwaeth gennym fod ein henwau yn wael a dirmygedig yn mhlith dynion, tra y maent mewn cymmeriad gyda Duw; eu bod yn mhlith ysgubion y byd, tra y maent yn ysgrifenedig yn y nefoedd.

Pe dywedasai ein Hiachawdwr ond yn unig *Zaccheus, disgyn*, tybiasai'r gwr, druan, fod bai yn cael ei osod arno, ar ei hyfdra a'i gywreinrwydd: gwell fuasai bod yn anadnabyddus, nâ chael ei nodi am gam-ymddygiad: ond yn awr y geiriau nesaf a'i cyssurant, *'rhaid i mi heddyw aros yn dy dŷ di.* Y fath gyfeillgarwch hyfryd sydd yma! Megis pe adweiniasai Crist Zaccheus er's blwyddau lawer, yr hwn a welodd, am y waith gyntaf, y tro hwn. Gwahodda'r llettyedig y llettywr, yn groes i'n harferiad ni, i wledd annisgwyliedig. Gwych y clywodd Crist galon Zaccheus yn ei wahodd, er na wnai ei enau felly. Dymuniadau ydynt iaith yr enaid: clywir y cyfryw ganddo Ef, yr Hwn yw Duw'r ysbrydion.

Nis beiddiwn ymddwyn fel hyn y naill tuag at y llall, ond lle yr ydym yn dra chyfarwydd á'n gilydd. Prin yr awn i'r lle y gwahoddir ni. Er fod y wyneb yn gyfeillgar, a'r wledd yn fawr, etto gall y galon fod yn dwyllodrus; ond yma, yr hwn a ganfyddodd y galon, ac a rag-welodd y croesau a gaffai, a all ddywedyd yn hy, *rhaid i mi heddyw aros yn dy dŷ di.*

O'r cyfeillgarwch hyfryd a pherffaith sydd rhwng Crist a chalon dduwiol! *Os agora neb y drws, mi a ddeuaf i mewn atto ef, ac a swpperaf gydag ef.* Peth mawr yw i Frenhin y gogoniant ddyfod i mewn i fwthyn, a swpperu yno: etto gall wneud hyn, a chymmeryd rhyw rwysg arno, trwy eistedd wrtho ei hun; ond nid felly: *Swpperaf gydag ef*, felly, fel y byddo iddo yntau *swpperu gyda ninnau.* Rhwysg daearol sy'n gynnwysedig mewn dieithrwch, ac a ymwisga â mawredd sarrug ar ei ben ei hun. Rhwng Duw a nip er y pellder anfeidrol sydd rhyngom, y mae cyweithasrwydd grasol, a'r ymadroddion mwyaf rhwydd, mwyaf cyfeillgar.

O Iesu, beth amgen a wnai yn feunyddiol, ond gwahodd dy hun attom yn dy air, yn dy sacramentau? Beth ydym ni i'th lettya di, neu i gael ein llettya gennyt? Eiddilod mewn gras, mawr mewn dim ond annheilyngdod. Dylai fod dy fawl yn fwy, yn gymmaint a bod ein teilyngdod ni yn llai. Tydi, yr

hwn a wahoddi dy hun attom, par i ni fod yn deilwng i'th dderbyn, a bod yn ddedwydd yn y derbyniad o honot.

Mor rasol y rhagflaena'r Iesu'r publican: fel yn ei ganfodiad, sylwad, ac annerchiad: felly yn ei wahoddiad hefyd! Y publican arall, Lefi, a wahoddodd Grist i'w dŷ; ond nid hyd y gwahoddodd Crist ef i fod yn ddisgybl. Ni chawsai Crist byth ei wahodd i'w wledd, pe nas gwahoddasai ef Lefi yn gyntaf i'w deulu. Carodd ef ni yn gyntaf: rhaid iddo ein galw'n gyntaf; canys o gariad y geilw ni. Megis yn ngalwad cyffredinol Cristionogaeth, pe nas dywedasai, *Ceisiwch fy wyneb*, nis gallasem ni fyth ddywedyd, *Dy wyneb a geisiaf, O Arglwydd*; felly yn ein neillduol brif fendithion neu'n galwedigaethau, rhaid i Grist ddechreu. Os ni a wahoddwn ein hunain yn gyntaf atto ef, cyn iddo ef wahodd ei hun attom ni, rhyfygus ein gwaith, ac anffodus.

Os gallasai Nathanael, pan enwodd Crist ef, gan roddi iddo arwydd y gwyddai ei fod dan y ffigysbren, ddywedyd, *Tì yw Mab Duw:* pa fodd y gallasai Zaccheus wneuthur llai, trwy glywed ei hun yn cael ei enwi â'r unrhyw wefusau ar bren y ffigysbren gwyllt hwn? Pa fodd y gallasai lai nâ meddwl "oni bai y gwyddai bob peth, nis gallasai fy adnabod i; ac oni bai ei fod yn adnabod calonau pawb, ni fuasai yn gwybod am fy nirgel ddymuniad i'w groesawi. Duw yw, yr hwn sydd yn fy adnabod i, a Duw trugarog a wahodda ei hun attaf." Nid rhyfedd, ynte, â'r meddyliau hyn ganddo, i Zaccheus ddisgyn ar frys.

Ni ddywedodd ein Hiachawdwr, "Cymmer dy amser, Zaccheus," ond, *rhaid i mi aros yn dy dŷ di heddyw.* A phan glywodd Zaccheus hyn, nid eisteddodd yn llonydd, gan ddywedyd, "Pan el y dorf heibio, a phan y cyflawnaf ryw negesau o'm heiddo fy hun," ond brysia i ddisgyn i dderbyn Iesu. Rhybydd am y fath wahoddedig a chwanegai at ei frys, heb un gorchymyn i'r cyfryw berwyl. Nid hoff gan Dduw gyflawniadau arafaidd a dioglyd. Darlunir angelion Duw fel âg adenydd ganddynt, a gweddiwn ninnau am wneud ei ewyllys gyda'u brwdfrydedd. Dywaid Crist, ïe, wrth Judas, *Hyn yr wyt yn ei wneuthur, gwna ar frys.* O Iesu, nid oes diwrnod, yn yr hwn ni'm gelwi trwy lais dy efengyl: Paham yr oedwn o hyd yn y sycamorwydden? Pa mor ffiaidd gennyt ein hoediad o ddychweliad attat! Diau pe arosasai Zaccheus o hyd yn y pren, aethet heibio i'w dŷ fel yn annheilwng o honot. Beth a farni

ein hoediadau gwirfoddol ond dirmyg penderfynol? Pa fodd na ddeui attom mewn dialedd, os na ddeuwn i'th groesawi mewn ufudd-dod diolchgar?

Etto, ni'th glywaf yn dywedyd, "Zaccheus, bwrw dy hun i lawr ar frys." Hyn oedd cynghor y Temtiwr i ti, ond *disgyn ar frys*. A gwnaeth yn ol ei air. Gallwn droseddu gymmaint trwy frysiad byrbwyll a thrwy ohiriad. Rhedodd Moses i lawr o'r mynydd mor gyflym, nes syrthio o hono yn ysbrydol, a dryllio llechau Duw. Gallwn ddilyn cyflawnder mor ddygn nes anghofio trugaredd. Nid diogel yr ufudd-dod, yr hwn ni chyflawnir gyda brys doeth ac hamddenol.

Nid mwy ei frys yn disgyn, na'i barodrwydd i dderbyn yr Iesu i'w dŷ. *Ac efe a ddisgynodd ar frys, ac a'i derbyniodd Ef yn llawen.* Bywyd llettygarwch yw sirioldeb. Bydded y wledd yr hyn a fyddo, oni ddarllenwn ein croesawiad yn wyneb yn gystal a disgleidiau ein cyfaill, nid oes in' hyfrydwch ynddi.

Nid rhyfedd i Zaccheus dderbyn Crist yn llawen. Pwy na lawenhasai gwneuthur ei dŷ a'i hun yn ddedwydd gan y fath berson? Pe buasem yn lle'r publican hwn, pa wedd y llammasai ein calonau gan lawenydd oherwydd ei bresennoldeb! Pa filoedd o filldiroedd a deithir gan rai Cristionogion duwiol, yn unig i ganfod y lle a safasai ei draed arno? Pa faint dedwyddach y cyfrifa ef ei hun, yr hwn bia'r gronglwyd a'i derbyn ef! Ond O, wynfyd digyffelyb y dyn, calon yr hwn a'i derbynia, nid am ddiwrnod, na blwyddyn o ddyddiau, na miliwn o'r cyfryw, eithr am dragywyddoldeb! Gall y dedwyddwch hwn fod yn eiddo ni, os na chyfyngwn ein hymysgaroedd ein hunain. O Iesu, mŷn groesaw i ti dy hun yn y tyau priddlyd hyn, fel y'n derbynir ninnau yn groesawus attat ti yn y tragywyddol bebyll fry.

Nid mwy gorfoledd Zaccheus yn Nghrist, nac anfoddlonrwydd yr Iuddewon.

Ymgyfarfyddodd pedwar o feiau yma ar unwaith. Cenfigen, petrusedd, anwybodaeth, balchder.

Eu llygaid oedd ddrwg am fod Iesu'n dda. Nis clywaf un o honynt yn gwahodd Crist i'w dŷ: er hynny cyfarthant oherwydd anrhydedd y llettywr annheilwng hwn; tybient yn ddedwyddwch gormodol i bechadur, yr hwn, er hynny, esgeulusent ei geisio. Ddynion truenus! Nis canfyddant drugaredd Crist am ei dallu gau ddedwyddwch Zaccheus; ïe, y drugaredd

a ganfyddant a'i poenydia. Os y wiber honno sydd fwyaf angheuol, yr hon a ymbortha ar y pethau melusaf; pa mor wenwynllyd raid fod y dymmer hon, yr hon a ymbortha ar ras! Pa mor fawr yr annhebygolrwydd rhwng angelion da a dynion drwg! Yr angelion a orfoleddant am y peth a'u hanfoddlona ac a'u digia hwy: y mae dynion yn barod i ymdorri gan ddigofaint wrth yr hyn a genhedla ganiadau yn y nef. O frawd henaf drwg a ffol, yr hwn a ymbortha ar newyn â'i galon ei hun oddi allan, am fod ei frawd ieuangaf yn ymborthi ar y llo pasgedig oddi mewn!

Heblaw cenfigen, safant yn betrusgar ar draddodiadau. Nid oedd yn iawn neshau at y rhai hyn, plant y ddaear: yr oedd eu trothwy yn aflan. *Na chyffwrdd â mi, canys sancteiddiach wyf nâ thi.* Ei fynediad ef, gan hynny, yr hwn y gyfrifid yn Brophwyd, i dŷ publican a phechadur, a barodd dramgwydd dirfawr. Nid gwaeth ganddynt hwy, y rhai nid aent at bechadur, faint o bechodau a ânt i mewn iddynt eu hunain. Carennydd gwirioneddol y ragrithwyr hynny, y rhai a'i barnent yn halogiad myned i'r dadleu-dŷ, ond nid yn halogiad o'r lleiaf llofruddio Arglwydd y Bywyd. Nis gellir bod arwydd mwy cyflawn o galon dwyllodrus, nâ thramgwyddo wrth welltyn, a neidio dros bentyrau o annuwioldeb gwaradwyddus. Gwych y gwyddai ein Hiachawdwr y fath dramgwydd a berai, wrth droi i mewn at y publican hwn; ond diystyrodd ef. Y mae enaid i gael ei ennill: beth waeth ganddo ef am gau ddeongliad o'i weithred. Nid oes rhoi heibio gwneuthur gweithredoedd da oherwydd ofn tramgwydd diachos. Mewn pethau angylchiadol a dibwys, addas yw gochelyd rhoddi tramgwydd: ond os dynion a dramgwyddant ar wastad-tir daioni eglur, cwympent, ond ni chwympant yn ddiberygl iddynt eu hunain. Nis gwn nad oedd yn bechod yn Dafydd *dewi oddiwrth daioni, pan oedd yr annuwiol yn ei olwg.* Gwneler cyfiawnder er gwaetha'r byd: a thrugaredd, er gwaethaf uffern.

Anwybodaeth mawr oedd fammaeth y petrusder hwn. Tybient Grist naill ai'n rhy sanctaidd i fyned at bechadur, neu y gwneuthid ef yn ansanctaidd trwy fyned. O, ddynion ffol! At bwy y daeth? Attoch chwi y cyfiawn? Attebed ei hun, *Ni ddaethum i alw rhai cyfiawn, ond pechaduriaid i edifeirwch.* At bwy ond y claf y dylai'r meddyg fyned? *Nid rhaid i'r iach wrtho.* Cariad a'i dena fwyaf. Ac i'r hwn y maddeuir llawer, hwnnw

a gâr lawer. O Waredwr, palasau disglaer yr hunan-gyfiawn beilchion nis hoffi: Ceri isel a gwael fwthyn calon ddrylliedig. Ac nid oedd perygl o'th halogi yma. Gallai dy haul fwrw ei belydron ar y tommenau anmhuraf heb eu llygru. Nid oedd berygl i'r gwahanglwyf a'r diferlif gwaed gyffwrdd â thi. Gallesit eu hiachau hwy; nis gallesant hwy dy ddifwyno di. Fel hyn y mae yn y llygriad moesol hwn. Gallwn ni gael ein llygru yn ddiarwybod in', y rhai ydym agored i ddrwg: digon dy burdeb di er iachau yr hyn a allai fwrw haint ar yr holl fyd. Gelli di ein cynnorthwyo ni, ond nis gallwn ni dy niweidio di. O, bydded i'th bresennoldeb byth ein bendithio, a boed i ninnau fyth dy fendithio dithau am dy bresennoldeb.

Yr oedd balchder yn nglyn â'r anwybodaeth hwn. Nodasant Zaccheus yn y cyfryw fodd yn bechadur, fel pe na buasent hwy eu hunain felly. Ei bechodau ef oeddynt ysgrifenedig yn ei dalcen; yr eiddynt hwy yn eu mynwesau. Y gred fod eu beiau yn ddirgelaidd a bar iddynt ei ddirmygu ef, am fod yr eiddo ef yn hysbys. Mwg balchder a esgyn i fynu'n wastadol, ac a ddiflanna yn ei esgyniad. Yssigrwydd ysbryd a'i cura i lawr, ac a dyn allan ddagrau o'r golygon tyner. Y mae pechodau cyhoeddus, a phechodau ystafellaidd: nis gall yr olaf ddannod i'r blaenaf. Gallant fod yn fwy echryslon, er yn llai hysbys. Enbydus y gwagedd, yr hwn a edrych allan ar bechodau rhai eraill gyda diystyrwch, tra y mae yn fwy rheidiol edrych i mewn ar yr eiddom ein hunain gydag ymostyngiad.

Fel hyn y tramgwyddasant ac y syrthiasant, ond Zaccheus a safodd. Nis gallodd eu holl rwgnachrwydd maleisus hwy ddigaloni ei dduwioldeb a'i orfoledd ef yn ei groesawiad o Grist. O'r blaen, gorweddai Zaccheus i lawr megis pechadur, yn awr, saif i fynu megis un a ddychwelasid. Pechu yw syrthio—pechu'n barhaus yw gorwedd i lawr. Edifeirwch ydyw codi a sefyll i fynu. Etto, ei safiad i fynu nid oedd arwydd o'i rym a'i ddychweliad, gymmaint ag o'i barchedig ofn. Nid yw caredigrwydd Crist yn ei wneuthur yn addas i'w drin yn anfoesaidd. *Zaccheus a safodd.* A pheth os dymuniad i glywed yn well a'i cododd ar ei draed? Ac ynteu mor fyr nid gweddus iddo golli dim o'i gorpholaeth. Cymmwys oedd i'r fath gyhoeddiad gogoneddus gaffael clywedigaeth gyffredinol.

Ni chafodd ein Hiachawdwr erioed ragorach croesaw. Y mae'r publican edifeiriol yn gwneuthur ei ewyllys, a gwna

Grist yn arolygwr. Ei ewyllys sy'n gynnwysedig o gymmunroddion i'w cyfrannu, a dyledion i'w talu: rhoddion i'r tlodion, taliadau i'r sawl a niweidiasai. Y mae'r blaenaf yn haelionus, a'r lleill yn gyfiawn: y mae helaethrwydd yn y ddau: *hanner i'r tlodion, y bedwaredd ran i'r sawl a ddrygasai.*

Ni hauodd y llaw hon yn bryn. Yr oedd yn rhaid fod yma lawer o'i eiddo ei hun: yr hwn a ennillwyd yn gyfiawn, a adawyd iddo drwy etifeddiaeth, neu a gasglwyd drwy gynnildeb, neu a gasglwyd drwy ddiwydrwydd uniawn; canys yn ol talu yn ol i bob un a orthrymwyd ganddo ar ei bedwerydd; etto yr oedd hanner cyfiawn yn ol, i ddybenion cardodol: ac efe a rannodd hwn yn y fath fodd, fel y mae pob gair yn cammol ei haelioni. Yr ydywf yn ei *roddi*; a pha beth sydd yn fwy hael nâ rhodd? Wrth roddi elusen, nis gallwn na gwerthu na rhoddi yn ol, na thaflu ymaith. Gwerthwn, pan yr ymadawn â hwy o achos angenrheidrwydd, neu wag-ogoniant, neu adtaliad. Rhoddwn hwy yn ol, pan y rhoddwn gyda golwg ar gymmwynasau blaenorol; talu yn ol ydyw hyn, nid rhoddi yn rhad: yr ydym yn taflu ymaith, pan yn ein cymmwynasgarwch ni ofalwn am drefn neu bwylledd. Ni ddarfu i Zaccheus daflu ymaith, nac adtalu, na gwerthu, ond rhoddi.

Yr ydwyf yn ei roddi, nid "Mi roddaf." Y mae oedi gwneuthur daioni, yn ei wneuthur yn anhaeddianol o ddiolch. Yr elusen, y mae arogl y llaw arno, a golla ei ganmoliaeth. Rhoddir ddwywaith, yr hyn a roddir ar frys. Y rhai a oedant eu rhoddion hyd eu gwely angau, ydynt megis yn dweud, "Arglwydd, mi a roddaf rhyw beth i ti, pan na allaf ei gadw yn hwy." Gwyn fyd y dyn yr hwn sydd scytor iddo ei hun.

Yr ydwyf yn rhoddi fy na, nid da un arall. Balchedd diddiolch ydyw haelioni allan o bwrs arall. Yr hwn a adfera yr hyn a gymmerodd oddiwrth y perchenog, a wna fwy o gam drwy roddi, nâ thrwy ladratta. Disgwylia Duw am ein rhoddion, nid ein hyspail. Yr wyf yn ofni fod gormod o ysgolion a chlaf-dai, pob carreg o'r cyfryw a osodwyd ynddynt trwy anonestrwydd. Pe amcanasai Zaccheus roddi yr hyn a gribddeiliodd, ni fuasai mor ofalus am adtaliad; yn awr, adtala i eraill, fel y gallo roddi o'i eiddo ei hun.

Yr ydwyf yn rhoddi hanner fy na. Yr oedd calon y publican hwn mor helaeth a'i feddiannau. Nid oedd gyfoethoccach mewn meddiannau, nac mewn haelioni. Pe'n rhwymid gan yr

esampl hwn, pwy fyddai oludog i roddi ? Pwy fyddai yn dlawd i dderbyn ? Yn nechreuad tlodaidd yr Eglwys, yr oedd y cyfryw elusengarwch yn rheidiol, ond yn yr oesoedd nesaf, pan yr oedd mewn helaethach amgylchiadau, ni allasai lai nag achosi annhrefn dirfawr. Os y Cristionogion cyntaf a osodasant y cwbl wrth draed yr Apostolion, etto, yn fuan ar ol hynny, yr oedd yn ddigon i'r Corinthiaid crediniol, bob dydd cyntaf o'r wythnos, roddi ychydig heibio er amcanion elusengar. Nid ydym yn ddisgyblion os na ddilynwn esampl Zaccheus mor bellied ag i roddi yn haelionus, yn ol mesur ein meddiannau. Pan y rhoddwn, hauwn : po helaethaf yr hauwn, mwyaf i gyd fydd y cnwd. Cyfrannu i'r tlodion ydyw rhoddi yn llog gyda Duw : po gryfaf yr arian-dŷ, mwyaf i gyd y llog. Pwy all ofni bod yn rhy gyfoethog? Bu amser, pan yr oedd dynion i'w beio, oherwydd gormodedd eu haelioni ; angenrheidiol oedd gynt rhoddi attalfa ar elusengarwch yr Iuddewon ; angenrheidiol oedd gynt rhoddi attalfa ar elusengarwch ein Henafiaid. Yn awr, nid ydyw hyn mewn un gwedd yn angenrheidiol : gŵyr dynion o honynt eu hunain pa fodd i gau eu dwylaw. Y mae elusengarwch yn awr mewn mwy perygl o rewi i fynu, nag o losgi. Dedwydded fyddai i'r Eglwys pe cauai dynion eu dwylaw ar eu heiddo eu hunain, ac heb grafangu eiddo eraill.

I'r tlodion ; nid i etifeddion cyfoethog ; Duw a rydd i'r hwn y mae ganddo ; nyni, i'r hwn y mae eisiau arno. Rhai o'u gwirfodd ydynt mewn eisiau ; naill ai oherwydd eu hafradlonrwydd, neu eu segurdod : rhai o angenrheidrwydd ydynt mewn eisiau ; y rhai hyn, nid y rhai blaenaf, ydynt wrthddrychau addas ein helusengarwch. Nid ydyw y tlodi a ddygasom arnom ein hunain, yn haeddu tosturi. Yr hwn a gynnalia yr anllad, a bortha, nid ei fol, ond ei chwant.

Felly y mae cymmun-rodd Zaccheus, tra yn fyw, yn rhad ; Yr ydwyfyn *rhoddi ;* yn bresennol, *Yrydwyfyn rhoddi ;* yn gyfiawn, *fy na*, yn helaeth, hanner *fy na ;* yn addas, *i'r tlodion.*

Nid yw helaethach chwaith yn ei rodd nag yn ei adtaliad. *Os dygais ddim o'r eiddo neb trwy gam-achwyn, yr ydwyf yn ei dalu ar ei bedwerydd.*

Addas i bublican yspeilio ei gymmydog, trwy ddyfeisio achwynion a blinderau diachos, fel, y gellid llenwi ei safn â thaliadau. Hyn a wnaethai Zaccheus yn fynych. Ac nid yw'r gair *os* yn arwydd o anmheuaeth, eithr o haeriad. Y mae yn

sicr o'r peth : nid yw yn sicr o'r personau. Rhaid iddynt dystio yn ei erbyn, i'w alluogi i wneuthur cyfiawnder.

Gwir edifeirwch Zaccheus a amlyga ei hun mewn Cyffes ac Iawn.

Ei gyffes sydd rydd, cyflawn, ac agored. Nid gwaeth ganddo beri cywilydd iddo ei hun, os gall ogoneddu Duw. Gwae'r gwylder hwnnw a derfyna mewn cywilydd wyneb. O Dduw, boed im' wrido ger bron dynion, yn hytrach nâ chael fy ngwarthruddo ger dy fron di, a'th seintiau, a'th angelion.

Ei iawn sydd mor ĕang a'i rodd. Pe na fuasai ofalus am dalu ei dreisgar ddyledion, aethai'r cwbl i'r tlodion. Gwnaeth hynny o'i fodd, yr hyn a orchymynasid i'r gŵr ieuangc yn yr Efengyl ei wneuthur, a'r hyn a wrthododd ei gyflawni, gan fyned ymaith yn athrist. 'Nawr, gwyddai nad addas ei elw annghyfiawn i fod yn gorban i Dduw: am hynny, arbeda'r hanner; nid i'w gadw, ond i'w adtalu. Hon oedd y ddysglaid ragoraf yn ngwledd Zaccheus; ofer fuasai iddo arlwyo i Grist, cyfrannu i'r tlodion, addef ei gribddeiliadau, pe nas talasai yn ol yr hyn a ddygasai yn annghyfiawn. O, leied yw nifer y gwir ddychweledigion! Y mae llawer o feddiannau wedi eu lladratta: ychydig a anfonir adref o'r cyfryw. Dwylaw dynion ydynt gyffelyb i uffern, o'r hon nid oes dim yn dyfod yn ol. O Dduw, nis gallwn byth roddi iawn i ti. Y mae'r ddyled yn ormodol, ein gallu yn rhy brin: ond os na roddwn iawn i ddynion, ofer ein disgwyliad am drugaredd oddiar dy law di. Buasai yn dda rhoddi ei eiddo ei hun i bob un, ond taliad ar bedwerydd oedd hael yn wir. Yn ein masnach ă'n gilydd, bernir yn ddoeth gwneuthur y fargen mor iseled ag y gallom: ond mewn taliadau moesol neu ysbrydol i Dduw neu ddynion, rhaid fod mesur da, wedi ei wasgu i lawr, ei ysgwyd, ac yn rhedeg drosodd. Nid ydym i fod yn gynnil ac yn gryntachlyd mewn cymmwynasau ac adtaliadau dyledus. Arwydd o galon ddaearol a gwael yw masnachu yn wydn, a thrawsddadleu wrth wneud iawn am y canwri a wnaethom.

O adtaliad rhagorol i drugaredd a chyflawnder! *Heddyw y daeth iechawdwriaeth i'r tŷ hwn.* Wele, Zaccheus, yr hyn a gyfrenni i'r tlawd, nid yw ddim at a gyfranna dy Iachawdwr i ti. Os wyt ti yn talu ar y pedwerydd, wele yma fwy nâ mil o filiynau am ddim! Pe byddai pob ceiniog o'r eiddot yn fyd, nis gellit ymgystadlu â'r haelioni hon. Tom a roddi, iach-

awdwriaeth a dderbyni. Rhoddi yn awr, nis derbyni mewn disgwyliad; ond *heddyw y daeth iachawdwriaeth i'th dŷ*. Dy fettaloedd annghyfiawn oeddynt farrau cedyrn ar ddrws y nef yn dy erbyn; yn awr, gan eu dryllio yn brydlon, roddi iawn, trwy ddangos haelioni, pyrth y gogoniant a ymagorant i dderbyn dy enaid. Pwy yw'r dyn a all haeru fod Duw yn ddyledwr iddo? Pwy all ddywedyd, "Arglwydd, gwnaethum y ffafr hon i'r lleiaf o'th weision, ac nis gwobrwywyd." O bublican dedwydd, yr hwn a ddringaist o'th sycamorwydden i'r nefoedd; ac i'r "etifeddiaeth anllygredig ac anniflanedig."

Luc xix.

DIHENYDDIAD IOAN FEDYDDIWR.

Darfu i dri o'r Efengylwyr, ag un ysgrifell, roddi hanes am farwolaeth rhagflaenor mawr Crist, megis peth teilwng o sylw ac addysgiadol.

Efe oedd ragflaenor Crist fel i'r byd, felly allan o hono. Iē, darparodd ffordd Crist i'r byd—ffordd i'w enw i lŷs Herod. Yr Herod Antipas hwn oedd fab i'r Herod hwnnw, yr hwn y mae, a byth y bydd, iddo, enw gwarthruddus am y llofruddiaeth yn Bethlehem. Creulondeb a red mewn gwaed. Y mae llofrudd Ioan, rhagflaenor Crist, yn deilwng ddisgynydd o hono ef, yr hwn a fynai lofruddio Crist, a'r hwn, o'i achos, a lofruddiodd y gwirioniaid.

Hir y bu'r Herod hwn cyn clywed son am Grist; nid hyd y torrodd ben Ioan Fedyddiwr. Ei dad a ymofynodd am Grist yn rhy fuan; hwn, yn rhy ddiweddar. Dylai'r mawrion glywed am y pethau goreu. Os defnyddiant yr hyn a glywant i bob dybenion (dibwys neu wladol) ond rhai ysbrydol, bydd eu barn yn drymach yn ol fel y mae eu cynnorthwyon a'u moddion yn helaethach.

Pa un ai oedd yr Herod hwn yn cael ei lwyr lyngcu gan ei ryfeloedd Arabaidd, â'i dad-yn-nghyfraith Aretas, neu â'i siwrnai i Rufain, nid wyf yn ymofyn; ond os ydoedd gartref, rhyfeddaf, pa wedd y gallasai fod cyhyd heb glywed am Grist. Diau fod hyn yn argoel fod ei lŷs yn llwyr ddigrefydd, yn gymmaint ag na ddarfu i un o'i ganlynwyr gymmaint a chrybwyll wrtho am wyrthiau Crist; y rhai, yn ddiau, a ddywedas-

ant wrtho lawer newydd gwageddus yn y cyfamser. Dywaid un wrtho am anfoddlonrwydd ei frawd Philip, eraill am lŷs Rhufain, arall am fygythion llidiog Aretas, arall a wenieitha iddo trwy ddywedyd yn uchel am ei Feistres newydd, ac yn wael am yr hen: nid yw neb yn gymmaint a dywedyd, "Syr, y mae prophwyd yn eich teyrnas, yr hwn sy'n gwneuthur pethau rhyfeddol." Nid oedd gŵr yn ei deyrnas, yr hwn ni ryfeddasai wrth y son oedd am Iesu; ïe, Syria oll a'r cyffiniau oddiamgylch, oeddynt yn llawn o hono. Truenus y mawredd hwnnw, yr hwn a geidw ddynion oddiwrth sylwi ar Grist.

Eglur iawn oddiwrth hyn fod Crist yn estron yn y llŷs! Ei ragflaenor dirodres a meudwyaidd, fel yr ymddengys, a bregethodd yno'n fynych, a gwrandawyd arno yn llawen, er o'r diwedd, er ei golled; tra nad aethai yr Iesu yno, yr hwn, er hynny, oedd fwy cyfeillgar. Anfonodd gennadwri at y Cadno hwnnw, at ffau yr hwn nid agoshae: pa un ai am na roddai achlysur i'r gormesdeyrn hwnnw adfywio drwg-dybiaeth ei dad; neu am na anrhydeddai le, yr hwn oedd mor waradwyddus, diras, a didrefn: neu am y dysgai ni ochelyd gorwychder a gogoniant allanol.

Diau na welodd Grist hyd ei farwolaeth, ac na chlywodd am dano hyd farwolaeth Ioan Fedyddiwr. Ac yn awr, nid rhyfeddach yr hanes a glywai nâ'i esboniad o hono. *Hwn yw Ioan Fedyddiwr, yr hwn y torrais ei ben.* Anmheuodd yn gyntaf; yna penderfynodd: anmheuodd ar ddywediadau eraill: penderfynodd trwy ei ofnau ei hun. Ac er iddo dybied yn ddoeth gadw wyneb da ger bron estroniaid, i'r rhai enbydus oedd eglurhau ei ddychryn; er hynny, i'w deulu dadguddiodd yn rhwydd ei feddyliau. *Hwn yw Ioan Fedyddiwr.* Cydwybod gythryblys a fynega hynny yn aml i gyfeillion, yr hyn a gela oddiwrth eraill. Cydymgyferfydd cywilydd ac arswyd mewn euogrwydd.

Pa fodd y dychymygai mai Ioan oedd hwn? Nis gallasai'r dyb gyffredinol o draws-fudiad eneidiau fod yma. Nis gallasai'r cyfryw draws-fudiad enaid fod i gorph yn ei gyflawn faintioli. Dychymyg yr Iuddewon a berthynai i genedliad a genedigaeth yn unig; nid i gyflawn oedran.

Pa raid chwilio am y matter, pan yr addefa Herod ei hun—*Efe a gyfododd o feirw.* Gallai yr hwn oedd Iuddew mewn proffes, ac a wyddai yr hanes am esgyrn Eliseus, am feibion y

weddw o Sarepta, a'r Sunamees, ac a glywsai, y mae'n dra thebygol, cyn hyn am adfywiadau gwyrthiol eraill gan ein Hiachawdwr; gallai ef feddwl fod y gallu hwn mewn gweithrediad gyda golwg arno ei hun. Hyd yn nod, Herod, er gweithed oedd, a gredai yn yr adgyfodiad. Gall buchedd ac ymarferiad aflan gydsefyll âg iawn farn mewn rhai o byngciau pennaf gwir grefydd. Pwy all ammau hyn, pan y *mae'r cythreuliaid yn credu ac yn crynu?* Yn mha le yr ymddengys y rhai hynny, y rhai y mae eu hwynebau yn gristionogaidd, eithr eu calonau yn Saduceaidd?

O, drymmed yw dychryn ac arteithiau'r galon euog! Dywedai cydwybod Herod iddo drin gyda thrais a chreulondeb ŵr diniwaid: ac yn awr, tybia fod ysbryd Ioan yn ei gythryblu. Oni buasai'r euogrwydd hwn yn ei fynwes, paham nas meddyliasai, fod yr un Duw, yr hwn ni fyrhesid ei law, wedi rhoddi'r gallu gwyrthiol hwn i eraill. Yn awr, nis gallasai gwneuthurwr y gwyrthiau hyn fod amgen nâ Ioan. "A pha fodd lai," tebygai, "na fydd i'r prophwyd adfywiedig hwn, yr hwn a wna'r rhyfeddodau hyn, ddial arnaf am ei ben? Y neb a ddichon roddi bywyd iddo ei hun, a all yn hawddach gymmeryd ymaith yr eiddo fi: Pa fodd y gallaf ddiangc rhag dwylaw ymddialydd anfarwol ac anhyboen?"

Nid oes angen ar y drygionus am boenydiwr ond ei gydwybod ei hun, yn neillduol am bechodau gwaedlyd. Ymddigrifa Herod—gwledda ac ymddifyrra, a boddlona dy hun â dawnsiau, a gorfoledd, a chwareuaeth. Dy feiau fyddant fel ellyll, yr hwn yn anweledig a'th ddilyna, gan fflangellu dy galon euog â gwialenodiau dirgelaidd, ac a ddechreua ar bob achlysur dy uffern o'th fewn. Yr oedd pechodau eraill gan yr hwn a lefodd, *Gwared fi oddiwrth waed, O Dduw.* O'r fath anrhydedd a ddangoswyd i Ioan yn y camgymmeriad hwn! Tra yr oedd yn fyw, tybiai'r byd mai Ioan ydoedd Crist; yn awr, yn ol ei farw, tybia Herod mai Crist ydoedd Ioan. Par Duw i'w weision cydwybodol dderbyn anrhydedd mawr, ïe, oddiwrth y sawl a'u henllibiant fwyaf; fel na allant lai nâ pharchu y sawl a gashant. Yn y gwrthwyneb, nis gall unrhyw gyfrwysdra na gallu ddiogelu'r aflan rhag diystyrwch.

Ni wnaethai Ioan un weithred wyrthiol yn ei fywyd: er hynny, Herod yn awr a dybia ei fod yn gwneuthur gwyrthiau yn ol ei adgyfodiad: gan dybied i fywyd newydd goruwchnaturiol ddwyn gydag ef allu goruwch-naturiol hefyd. Pwy

all lai nâ synnu wrth hurtaidd bartiaeth Herod a'r Iuddewon hyn? Gallant ddychymygu a chaniattau fod Ioan wedi adgyfodi, yr hwn ni wnaethai wyrth erioed, ac nid adgyfododd: tra na chyfaddefant i Grist godi oddiwrth y meirw, yr hwn a wnaeth wyrthiau aneirif, ac a adgyfododd trwy ei hollalluogrwydd ei hun. Eu dychymyg rhy helaeth âm y gwas nid yw mor ddrygfawr a'u cynnil annghrediniaeth gyda golwg ar y Meistr. Y ddau a'u cythruddant ger bron Duw. Ond, O Herod, yr hwn wyt fwy hurt etto! Dy gydwybod a'th ddychryna âg adgyfodiad Ioan, ac a eheda i'th wyneb am greulon lofruddiaeth Sant mor fawr: etto, lle y mae dy edifeirwch am weithred mor ysgeler? Pwy na ddisgwyliasai na fuaset yn ymddarostwng am dy bechod, gan ymdrechu ymheddychu â Duw ac yntef? Po mwyaf y sôn am dano Ef, yr hwn a dybiet ei fod wedi cael ei adferu oddiwrth dy lofruddiaeth, a po mwyaf ei allu, dyfnaf oll y dylasai fod dy edifeirwch. Y mae annuwioldeb yn syfrdanu dynion, gan eu gwneud yn annheimladwy o'u diogelwch a'u lles. Gallasai un feddwl, y buasai i'n cyndad Adda, pan darawodd ei galon ef gyntaf am ei anufudd-dod, redeg i gyfarfod â Duw ar ei liniau, gan erfyn maddeuant am ei drosedd: yn lle hyn, rhed i guddio ei ben yn mhlith y prennau. Dyma ein harferiad o hyd: etifeddwn ei bechod a'i annheimladrwydd. Heblaw anfeidrol ddigter Duw, analluoga pechod y galon i dderbyn gras, ac a'i gwna'n anorchfygadwy gan foddion troedigaeth.

Yr oedd, ïe, gweithred gyntaf creulondeb Herod yn ysgeler. Yr oedd yn ddigon aflan gan bechodau eraill. *Efe a chwanegodd hyn hefyd heblaw'r cwbl, ac a gauodd ar Ioan yn y carchar.* Cyfrifir yn warthus y trais a gynnygir i blant Duw. Ei fuchedd anfoethus a duwiol a ennillodd yn gyfiawn barch iddo oddiwrth y lluaws, ac a wnaeth bechod Herod yn waeth: ond beth bynnag oedd ei berson, yr oedd ei gennadwri yn sanctaidd: *Efe a enfyn ei gennad o'i flaen.* Y cam a dery yn erbyn y Duw a'i hanfonasai. Duw a orchymyn, *Na chyffyrddwch â'm Heneiniog; ac na ddrygwch fy Mhrophwydi.* Efallai mai un gorchymyn sydd yma; canys yr oedd, ïe, y prophwydi yn eneiniedig: ond o leiaf yn nesaf i gam a wneir i Fawrhydi, yw'r hwn a wneir i brophwyd.

Ond beth! Oni chlywaf yr Efangylwr yn dywedyd, *y gwrandawai Herod arno yn ewyllysgar?* Pa fodd y mae hyn, ynte?

A rwymodd Ioan glust a chalon Herod, ac a ydyw Herod yn rhwymo dwylaw a thraed Ioan? A ydyw o'i wirfodd yn carcharu yr hwn y gwrandawai arno yn ewyllysgar? Pa mor annghywir yw calon gnawdol i fwriadau da. Leied a ellir hyderu ar fwriadau da yr annychweledig! Gwyddom i gŵn gynddeiriog gynffonlonni cyn hyn ar eu meistr; etto bu'n ddoethach nag ymddiried iddynt eithr mewn cadwynau. Megis y câr gwir gyfaill bob amser; felly calon dduwiol bob amser a ymdrecha wneud daioni: ac nis gall gwahaniaeth amgylchiadau ei newid. Eithr y dyn cnawdol, megis gwag wenieithwr, neu adar-gi cynffonlonus, a wenieitha yn unig er ei les ei hun. Os anfoddlonir ef, megis corgi taeog, parod yw i gnoi ein bysedd. A oes rhyw fydolddyn, yr hwn sy'n byw mewn unrhyw fai gwybodus iddo, er hynny a fawrha'r pregethwr, a â i'r addoliad, a sicryd yn dduwiol, a edrych yn sanctaidd, a'i ymarweddiad yn deg? Nac hyderwch ynddo: try allan, yn ol ei iasau duwiol, fel march anhywaeth, yr hwn a â rhagddo rai camrau yn rhwydd ac ewyllysgar, eithr yn y fan a saif yn ei unman, neu a ddechreua daflu a charlamu yn ddidor, nes ei waredu o'i farchogwr.

Beth ynte a allasai fod yr achos o gadwynau Ioan, ac anfoddlonrwydd Herod? *Oblegid Herodias, gwraig Philip ei frawd.* Y fenyw honno a gynhyrfodd ei nwydau a'i ddialedd. Yr hyswi anystyriol hon a aeth ymaith gyda brawd ei gŵr, a chan fod Ioan yn rhwystr i'w godineb, nis gall ei oddef yn rhydd, ac ni orphwysa nes ei roddi mewn dalfa. Y mae pechaduriaid penderfynol yn benboeth am eu llwybrau aflan: ac ymruthrant ar eu gwrthddywedwyr. Nid yw arthes wedi colli ei chenawon mor waed-wyllt. Pwy, yn wir, a berchir gan y sawl a ymroddant i garu eu pechodau yn fwy nâ'u heneidiau?

Er fod Herod yn ddigon pechadurus, etto nis carcharasai Ioan, oni buasai annogaethiad Herodias. Gall haerllugrwydd erfynwyr trythyll beri'r canlyniadau enbyttaf: gan ddwyn y mawrion yn fynych i'r cyfryw ffyrdd, y rhai ni feddyliasent am danynt, ac a gashaent. Cadarnheir yr orseddfaingc trwy fwrw ymaith y drygionus.

Etto, er hyn, gelwir y fenyw falch hon yn wraig Philip. Gadawsai yn llwyr ei wely, ac a unesid yn syml â Herod: ond holl ddefodau ei phriodas newydd nis gallant beri iddi beidio a bod yn wraig Philip. Sicr reol yw "Yr hyn sy'n ddrwg yn ei

ddechreuad, nis gellir ei ddiwygio." Yr ordinhad o briodas ydyw, un i un; *a hwy eill dau a fyddant yn un cnawd.* Nis gall fod dau ben i un corph, na dau gorph i un pen. Herod oedd ei godinebwr, nid ei phriod: Hithau oedd ei buttain yntau, a gwraig Philip. Etto Herod a'i gorhoffa fel y llwytha Ioan â haiarn er ei mwyn.

Pa le na throsglwyddir dyn gan rym ei chwant annghymedrol? Diau fod Ioan yn ddiweddar yn ffafr Herod. Y Pregethwr bras-naddawl hwn oedd addas i'r diffeithwch, ac nid i frenhinol lŷs. Gwahoddiad Herod a'i dygasai yno: y parch a dderbyniai a'i hannogasai yno: yn awr cariad at ei chwant a bar iddo gashau cennadwr y nef. Nis gall y dyn hwnnw lywio ei hun na theimlo dros eraill, yr hwn a roddodd unwaith yr awenau i'w drachwant afreolaidd. Y sawl a osododd ei galon unwaith ar wyneb puttain, ac a'i gwnaeth ei hun yn gaethwas i brydferthwch llygad-dynol, a dafl ymaith ar unwaith ei ofn o Dduw, parch i'w gyfraith, cywilydd ger bron y byd, gofal am ei feddiannau, am ei wraig, cyfeillion, enw da, corph ac enaid: cyfryw yw grym y nwyd anifeilaidd hwn, ac ni âd y dyn nes ei yrru yn gyflym i ystafelloedd angau.

Arfaethasai Herodias ei hun yn gyntaf ei ladd: llogasid ei llofruddion, ei chynllwyn a osodasid: ni lwyddodd; ac yn awr gweithia trwy Herod er ei garcharu. O, ryfeddol fraich yr Hollalluog! Ioan oedd ŵr gwael o ran sefyllfa; unigol, dinodded, anarfog, dinerth: Herodias oedd frenhines: mor fawr nes y llywyddai Herod ei hun: ac nid mwy mewn awdurdod nag mewn cyfrwysdra, ac nid mwy awdurdodol, a chyfrwys, na maleisus; er hynny ymdrechai ladd Ioan, ac nis gallai. Pa osgordd anweledig, etto diogel, sydd o amgylch gwael weision Duw, y rhai a ymddangosant yn ddigynnorthwy a dirmygedig ynddynt eu hunain! Y mae llaw noddfawr drostynt, yr hon nis gellir ei gwrthsefyll mwy nâ'i chanfod. Nid yw malais mor gryfed yn y fraich ag yn y galon. Y mae'r diafol yn gadarnach nâ byd o ddynion: lleng o gythreuliaid yn gadarnach nâ nifer llai o ysbrydion: etto nis gall lleng o gythreuliaid niweidio un mochyn heb ganiatad. Beth all lluoedd o elynion a phyrth uffern wneuthur yn erbyn rhai dirgel Duw? *Gwell yw ymddiried yn yr Arglwydd nâ mewn tywysogion.*

Nid eglurach awdwr na dyben y carchariad hwn—rhydd gerydd godineb Herod. *Nid cyfreithlon i ti, &c.* Cyffrodd y

cerydd ẽofn hwn y ddau droseddwr. Gwyddai Herod am gymmeriad Ioan; nis gallasai ei gydwybod lai nâ sibrwd wrtho, erchylldod ei weithred ei hun: ac nis gallasai lai nâ chanfod ffieiddied yr ymddangosai erlid prophwyd am gerydd mor gyfiawn: er lliwio gan hynny weithred mor ormesol, cyhudda Ioan o *wrthryfel*. Y cyhuddiadau rhyfygus hyn a waradwyddant y sawl sydd mewn awdurdod. Nid peth newydd gyda gormeswyr rhoddi hug o gyfiawnder ar eu creulondeb. Digwyddodd i ffyddlon weision Duw bob amser gael eu llwytho â gwaradwydd, yn nghydwybodol gyflawniad eu dyledswyddau. Llwyddent ormod yn marn dynion, pe caent ond ymddangos yn eu llun eu hunain.

Gweithred Herod oedd ofnadwy anferth: yspeilio ei frawd ei hun o gydymaith ei wely: torri ymaith ran o'i gnawd, ïe, ei gorph oddiwrth ei ben: fel fod yma mewn un gweithred odineb, anniweirdeb â pherthynas, a thrais: godineb am iddo gymmeryd gwraig un arall; anniweirdeb, &c. am gymmeryd gwraig ei frawd; trais am iddo ei chymmeryd er gwaetha ei phriod. Cyflawn ynte y gallasai Ioan ddywedyd, *Nid cyfreithlon*, &c. Naccaodd nid un o bechodau Herod yn unig, ond cyhuddodd ef o'r holl feiau a wnaethai: er yn fwyaf arbennig o hwn, megis y peth mwyaf amlwg yn ngolwg y byd. Nis gallodd coron nac enbyd deyrnwialen Herod ddychrynu annestlus eithr ffyddlon gennadwr Duw: megis un a ddaethai yn ysbryd Elias, nid ofna unrhyw wyneb, ni arbeda unrhyw ddrygioni. Rhaid i wroldeb a didueddrwydd gydgyfarfod yn ngweinidogion Duw: didueddrwydd i beidio gwneuthur gwahaniaeth rhwng personau: gwroldeb i beidio arbed pechodau'r mwyaf. Caledi a roddir arnom oherwydd angenrheidrwydd ein sefyllfa, ydyw rhedeg ar biccellau anfoddlonrwydd. Ni fuasai prophwydoliaethau yn feichiau, pe nas gwnaent ni yn agored i'r peryglon hyn. Nis gallwn esgeuluso unrhyw fai: daw pob pechod, yr hwn ni cheryddwn yn eiddo ni.

Merch gwirionedd yw casineb. Poenir Herod yn dufewnol gan gerydd mor ddiduedd: ac yn awr cais ladd y ceryddwr.

A phaham nas lladdasai? *Ofnodd y dyrfa*. Bu amser pan garodd Ioan gymmaint ag y casha Ef yn awr: parchai Ef unwaith megis gŵr cyfiawn a sanctaidd, yr hwn ffieiddia yn awr megis gelyn. Nid parch ffugiol ychwaith ydoedd; diau fod y dyn yn ddiragrith. Beth a ddywedwn ynte? Ai oherwydd

i'w galon ansefydlog gael ei throi ymaith gan Herodias, a'i gweithio i fynu i elyniaeth? Neu, a oedd hi gyda Herod megis gyda oferddyn Solomon, yr hwn ar yr un pryd a wnai, ac nis gwnai. Ei feddyliau a derfysgir trwy wrthwynebiad cymmysgedig gwirfoddol o fwriadau: ni fynnai ladd Ioan, am ei fod yn sanctaidd ac anrhydeddus gan y bobl: lladdai ef am ei elyniaeth i'w nwydau. Y rhan waethaf a dyccia. Chwant a orchfyga reswm a chydwybod: ac yn awr, oni bai ofn y bobl, cai Ioan ei ladd. Pa greadur hunan-wrthwynebol ac anferth yw dyn pan roddir ef i fynu i'w feddyliau ei hun; tra ar un llaw y gosodir arno gan ei gydwybod, ar y llall gan ei nwydau chwantus, a thaer ymgais Satan. *Nid oes heddwch, medd fy Nuw, i'r annuwiol.* Ac, yn ol ei holl derfysg tumewnol, dewis y gwaethaf; fel fod ei *ymroddiad* yn waeth nâ'i ymladdfa. Pan welo Duw yn dda, gormes Herod a gyflawna yr hyn a arfaethodd doeth ragluniaeth yr Hollalluog er gogoniant ei was. Yn y cyfamser, rhoddir rhwystrau ar ei ffordd: a hyn yn un, *Ofnodd y bobl.*

Pa ynfydrwydd yw rhagrith? Herod a ofna'r bobl: nid ofna Dduw. Dywaid wrthyf gan hynny, Herod, beth a allasai'r bobl wneud, a gwneud eu gwaethaf? Efallai y buasent yn gwrthryfela yn dy erbyn, codi arfau, ac aflonyddu'r llywodraeth, ac, o bosibl, ei dynnu oddiwrthyt. Beth a allasai Duw wneud? Ië, beth na allasai ei wneuthur? Cyffroi ei holl greaduriaid i'th boenydio, ac, yn ol hyn, dy fwrw yn bendramwnwgl i uffern, a'th boeni yno yn dragywydd! O Herod ffol, yn ofni lle nid oedd ofn, ac heb ofni lle nid oedd dim ond dychryn!

Rhyfedd fel yr addasa Duw attaliadau at ddynion *trachwantus.* Os ydynt mor ddiddim ag i barchu ei greadur yn fwy nag ef ei hun, y mae ganddo fwbachod allanol i'w dychrynu: os ydynt yswil, y mae ganddo gwilydd: os ariangar, y mae ganddo golledion: a thrwy'r moddion hyn, ceidw Ragluniaeth ddoeth y byd mewn trefn. Nis gallwn farnu yn well am ein calonau, nag wrth yr hyn a ofnwn fwyaf.

Nid oes neb mor fawr fel ag i fod yn llwyr rydd oddiwrth ofn. Yr Iuddewon a ofnent Herod: Herod a ofnai'r Iuddewon: yr iach a ofnant saldra: y rhydd, gaethiwed: y bobl, ormes a chreulondeb gormesdeyrn; ac yntau derfysg a gwrthryfel y bobl. Os oes rhai wedi bod mor fawr fel nas cyrhaeddyd gan allu a drwg-ddyfais y rhai sydd îs nâ hwynt: etto ni fu neb a

fuont ryddion oddiwrth eu hofn a'u drwgdybiaeth. Dedwydd y sawl ar nad ofnai ond yr hyn a ddylai, sef Duw.

Paham yr ofnodd Herod y bobl? *Hwy a'i cymmerant Ef megis prophwyd.* A'r dyb hon oedd gyffredinol a gwastadol. Ni feiddiai, ïe, yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid ddywedyd fod ei fedydd o ddynion.

Y mae Duw, yn ei ddoethineb a'i ddaioni, yn peri i'w blant gael ffafr yn rhyw le. Os Jezebel a gasha Elias, Ahab dros dro a'i hanrhydedda: ac os Herod a gasha'r Bedyddiwr, ac a ddymuna ei ladd, etto'r bobl a'i parcha. Malais Herod a'i lladdai, ei gymmeriad gyda'r bobl a'i ceidw yn fyw. Os tywysogion doethion a fuont foddlon i gadw terfysg-blaid yn eu llŷs neu eu gwladwriaeth i'w dybenion eu hunain: felly yma Duw'r nefoedd a drefnodd amrywiaeth barn a chariad rhwng Herod a'i ddeiliaid, i'w ddybenion sanctaidd ei hun. Pe cydunai holl rai drygionus y byd mewn drygioni, ni ellid byw ar y ddaear: fel yn y gwrthwyneb, pe na chydgordiai ysbrydion drwg, nis gallai uffern sefyll!

O, ffoled ac annghyfiawned oedd *partiaeth* y bobl! Canmolent Ioan oll fel prophwyd; er hynny gwrthodant ei gennadwri. Prophwyd pwy oedd ef ond eiddo'r Goruchaf? Beth oedd ei neges ond bod yn ffordd-drefnwr i Grist? Beth ydoedd ond llais tragywyddol Air y Tad? Beth oedd swn y cyfryw lais ond, *Wele Oen Duw: yr hwn sy'n dyfod ar fy ol i, sydd muy nâ myfi; yr hwn nid ydwyf fi deilwng i ddattod carrai ei esgidiau?* Etto parchant y gwas, a gwrthodant y meistr: dirmygant y Tywysog, cennadwr yr hwn a anrhydeddant. Pa fodd y gallent lai nag ymresymu, "Y mae Ioan yn Brophwyd: llefara oddiwrth Dduw; rhaid mai gwirionedd yw ei eiriau: dywaid wrthym mai hwn yw Oen Duw, y Messia yr hwn oedd i ddyfod i waredu'r byd: rhaid gan hynny mai hwn yw Efe; nid edrychwn am arall?" Etto'r bobl cyndyn hyn a dderbyn Ioan, ac a wrthodant Iesu. Y mae annghrediniaeth bob amser yn llawn ffolineb tra yr ysgara y perthynasau ar ystyriaethau hynny, y rhai wrth natur ydynt anwahanedig. Fel hyn canfydda yn hawdd drugaredd Duw yn maddeuant pechod, ond nid ei gyfiawnder yn ei gospedigaeth. Crist yn Waredwr, ond nid yn Farnwr. Felly ninnau yn gyffredin yn y gwrthwyneb i'r Iuddewon hyn, a broffeswn dderbyn y Meistr, gan wrthod y gweision; tra y mae ef yn dywedyd yr hwn hefyd a'i cyflawna, *Y neb sydd yn eich dirmygu chwi, sydd yn fy nirmygu i.*

Yr hyn ni feiddiai Herod ei wneud yn ei gyfrwysdra, efe a'i cyflawna yn ei win: a'r hyn a rwystrodd Duw hyd ei amser ei hun; yn awr yn ei amser ei hun a ganiatta gael ei wneuthur. Y dydd hwn, fel y dywaid un o'r Efengylwyr, oedd ddiwrnod *cyfaddas:* os i amcanion Herodias, sicr wyf i'r eiddo Duw; yr hwn, am benderfynu o hono ogoneddu ei hun trwy ferthyrdod Ioan, a ddewisa'r amser mwyaf nodedig, *dydd genedigaeth Herod.* Holl fawrion y wlad efallai, a'r gwledydd cymmydogaethol, oeddynt yn awr yn nghyd. Nis gallasai Herodias gael amser addasach i ledaenu ei gwarth a'i chreulondeb. Tal doeth ragluniaeth Duw i ni yn fynych â'n dewisiadau ein hunain: fel, pan feddyliom gyflawni o honom ein dybenion i'n boddlonrwydd, ein bod yn dwyn i ben ei arfaethau Ef er ein *gwaradwydd* ein hunain.

Cedwir *dydd genedigaeth Herod:* felly cadwyd yr eiddo Pharaoh: a'r ddau â gwaed. Y brychau personol hyn nid annghyfreithlonant yr arferiad. Lle y mae'r dyn yn dda, y mae'r enedigaeth yn werth ei gofio. Pa fendith a feddiannwn, os nad yw bywyd yn fendith? Ac os yw yn fendith, paham nad yw yn iawn ei *adgofio?* Gall gormodedd ac annhrefn wneuthur unrhyw ddefod yn feius: ond y rhai hyn i'r weithred, nid i'r ddefod.

Cadwyd dydd genedigaeth Herod gyda gwledd, a swpper ydoedd y wledd hon: addas oedd i fod yn orchwyl y nos: yr ŵyl hon a dreuliwyd yn ngwaith y tywyllwch, ac nid y goleuni: plentyn y tywyllwch ac nid y dydd a anwyd y pryd hynny. *Y rhai a feddwant, y nos y meddwant.* Y mae math ar gywilydd yn nglyn â phechod, ïe, pan y cyflawnir gyda'r penderfyniad cadarnaf: o leiaf byddai arferol o fod: os yw pechod yn awr yn ddigywilydd, a chyfiawnder yn wylaidd, gwae ni.

Fel y byddai gloddest ddigon ar ddydd genedigaeth Herod, heblaw'r wledd, y mae cerddoriaeth a dawnsio: a hyn gan Salome, merch Herodias—merch deilwng o'r cyfryw fam: a ddygasid i fynu yn ol tuedd mam mor anniwair. Dawnsio ynddo ei hun megis symmudiad rheolaidd a *chydgordiol* y corph, nid yw annghyfreithlon, mwy nâ cherdded neu redeg. Gall amgylchiadau ei wneud yn bechadurus. Ystumiau trythyll morwyn ger bron cynnulleidfa o rai nwyfus wedi eu gwresogi gan ŵin, nid oeddynt amgen na phutteinaidd ac anaddas. Nid mor aml y gwelir plentyn yn dilyn rhinweddau ei rieni; anfynych y gwelir ef yn gwrthod dilyn ei feiau. Anian yw'r tir:

tueddiadau drwg a da y llysiau a'r chwyn: y tir a ddwg y chwyn yn naturiol; ond nid y llysiau heb driniaeth. Dieithr beth a fyddai, pe, oherwydd cyflead anian ddrwg, ac annuwiol ddygiad i fynu, na thebygolem i'n rhieni yn eu tueddiadau pechadurus.

Herodias a Salome a gânt eu dymuniad. Y dawns a ryngodd bodd i Herod yn dda: y symmudiadau anhardd, y rhai a ofidiasent olygon diwair, (er beth a wnaethai'r cyfryw olygon yn ngwledd Herod?) a'i boddhant yn ormodol. Gwyddai Herodias yn dda beth a foddiai ddant ei gordderchwr, ac oherwydd hynny, trefnodd agwedd ac ystumiau ei merch, fel yr effeithient fwyaf: er, yn ddiau, nis gallasai'r cyfryw yn neb arall ei foddio gymmaint. Canfyddai Herod yn wyneb a dull Salome ddelw'r hon a orhoffai. Ymddangosai ac ymsymmudai fel hithau: heblaw ei fod, oherwydd yfed i ormodedd, yn dueddol i drythyllwch: ac yn awr, nis gall lai na hoffai hynny yn awr, yr hyn a foddhai ei wyniau afreolaidd. Pob chwant a ddymuna gael ei borthi; yn enwedig un aflan, a hynny yn fwy, am ei fod yn fwy awchus ac aflonydd. Nis gall fod rhagorach drych i ni ganfod wynebau ein calonau ynddo, nâ'n pleserau: fel y maent hwy, felly yr ydym ninnau, pa un bynnag ai anmhur ai sanctaidd.

O'r fath gynnygiad rhyfeddol sydd yma! *Beth bynnag a ofynni.* Hanner teyrnas am ddawns! Herod, teli ormod am dy bleser: y mae y cwbl yn eithaf annghymedrol: nid haelioni yw hyn, eithr gwastraff. Ac nid addewid yn unig sydd yma, eithr llw hefyd, a hwnnw (mor belled ag y gallai fod mewn gwin) yn syml. O'r fath gynnygion ac anrhegion mawrion am ychydig o fwyniant ofer a darfodedig! Pa nifer a feiant ar hynod wendid Herod, ac, etto, a debygolant iddo trwy waeth anrhegiad, sef eu heneidiau anfarwol am ychydig o bleserau diflanedig pechod! Beth yw hanner teyrnas, ïe, byd cyfan, at yr enaid? Y mae eu hynfydrwydd, gan hynny, yn gymmaint mwy, ag yw eu colled yn drymach.

Yr oedd rhodd mor fawr yn deilwng o ystyriaeth. Ymgynghora Salome â'i mam ynghylch addewid mor helaeth a chadarnhaedig. Cyfryw oedd natur da a pharch plentynol Salome nwyfus, fel na ddewisai iddi ei hun, ond dygai ei mam gyda hi. Os ydoedd Herodias yn waradwyddus oblegid ei hanniweirdeb, etto, ei mam ydoedd, a rhaid iddi ei chyfarwyddo yn ei dewisiad. Ni ddylai fod gan blant ewyllys o'u heiddo eu

hunain. Megis mai eiddo eu rhieni yw eu cnawd, felly dylai fod eu hewyllysiau. Cyfiawn y diblanta y rheiny eu hunain, y sawl yn y dewisiadau mwyaf pwysig, a roddant eu hunain heb gydsyniad y sawl a gyfranasant eu bod iddynt. Y mae yn anhardd ac annaturiol mewn plentyn ragflaenu ewyllys ei rieni, neu gweithredu hebddo neu'n groes iddo. O na fedrem ni fod mor ufudd i'n Tad nefol daionus ag oedd hi i fam ddaearol ddrygionus: peidio gofyn na gwneuthur unrhyw beth heb ei ganiattad a'i gyfarwyddyd: rhedeg at oraclau Duw er ffurfio'n penderfyniad, pan gynnyga'r byd yr hyn a hoffa'n calon—heb feiddio derbyn yr hyn ni chaniatta in'.

O, ryfeddol rym malais! Cynnygwyd dim llai i Salome nâ hanner teyrnas Herod, ac, etto, dewisa ofyn pen pregethwr tlawd. Nid oes dim melusach i galon lygredig, nâ dialedd; yn enwedig pan y dug gydag ef gyflawn rydd-did i unrhyw bechod anwyl. Bydolion i gyd a garant yr ymborth hwn: gwell ganddynt bechu'n ddirwystr, a thros dymmor, a marw, nag ymattal, a byw yn ddedwydd, yn dragywydd.

Pa ryw gais oedd hwn! *Dyro i mi yma ben Ioan Fedyddiwr mewn dysgl.* Nid digon dywedyd, "Torrer pen Ioan," ond, *dyro ef i mi mewn dysgl.* O'r fath ddysglaid oedd hon i gael ei dwyn i wledd; yn enwedig ger bron benyw! Pen dyn marw yn nofio mewn gwaed! O, greuloned yw calon ddrygionus, yr hon a all ymbleseru yn y pethau mwyaf echryslon!

O, mor daer yw cydwybod bigiedig! Nis gallasai Herodias dybied ei hun yn ddiogel tra yr oedd Ioan yn fyw: ac nis gallasai ei dybied yntau yn farw, hyd y torrid ei ben: ni thybiasai fod ei ben wedi ei dorri hyd y dygid atti mewn dysgl: ni chreda calon euog byth fod pob peth yn eithaf diogel. Hyd yn nod, yn ol dwyn y pen attynt, tybiant ef yn fyw drachefn. Nis gall euogrwydd a diogelwch gyd-drigo yn yr un fynwes.

Yr oedd Herod yn drist, a diau fod ei dristwch yn wirioneddol, yn nghanol ei gwppanau a'i fwyniant. Tybiwn y ffugiai ei ddigrifwch yn hytrach nâ'i dristwch. Gwir mai cadno ydoedd: ond nid yw'r creadur cyfrwys hwnnw yn ffugio bob amser: pan y rhed ymaith oddiwrth y cwn, amcana yr hyn a wna. Ac os oedd gynt yn ewyllysio lladd Ioan, etto anewyllysgar—ewyllysgar ydoedd, ac mor belled ag yr oedd yn anfoddlon i'w ladd megis prophwyd ac un cyfiawn, yr oedd yn tristhau am fod yn rhaid ei ladd. Pe buasai Herod yn ddoeth, ni fuasai mewn terfysg.

Pe buasai mor ddoeth ag i rwymo ei hun o fewn terfynau cyfreithlon, ni faglesid yn y cyfryw wedd ag i beri iddo dristwch. Ynfydrwydd pechaduriaid a'u darostynga i boen, ac a ddwg arnynt hwyrol ac aflesol edifeirwch.

Ond yma nid oedd y weithred wedi myned drosodd, er fod y gair felly. Ei ymfagliad gamdybiedig a barodd y tristwch hwn iddo, yr hyn a allasai ei ochelyd trwy ffoi ymaith.

Rhaff tair-gaingc a'i rhwymodd wrth y cyflawniad, cydwybod llw, parch i'w gyfeisteddwyr, ac anewyllysgarwch i anfoddio Herodias a'i merch.

Yr oedd gan Herod grefydd ddigon i'w wneud yn betrusgar o barth llw: ond nid digon i'w wneuthur felly gyda golwg ar lofruddiaeth. Nid yw neb yn bwrw ymaith gyfiawnder a duwioldeb yn llwyr ar unwaith: ond tra y mae yn ymroddi i rai pechodau, nis gall yn rhwydd gyflawni eraill. Nid oes dim diolch i ddynion aflan am nad allant fod yn feius yn mhob peth. Nis gellir troseddu holl ddeddfau Duw ar unwaith. Y mae pechodau croes i'w gilydd: y mae pechodau a anghyttunant â'r tueddiadau trythyllaf; y mae gormeswyr a ffieiddiant feddwdod: y mae anlladwyr a ffieiddiant lofruddiaeth: y mae meddwon a ffieiddiant greulondeb. Digon yw un pechod i ddamnio'r enaid: un lifer-hollt i suddo'r llestr. Ond, O, Herod ffol! Pa raid am y petrusedd annghyfiawn? Hawdd y gallesit symmud rhwymedigaeth dy lw mewn dwy ffordd—un, am na ddylesid dehongli dy addewid gyffredinol, ond mewn cyssylltiad â'r hyn oedd gyfreithlon: hynny yn unig a allwn ei wneuthur, yr hyn sydd gyfreithlon i'w wneuthur—annghyfreithlonedd sydd yr un ag anmhosibilrwydd—y llall, pe buasai yn iawn ei ddehongli yn llythyrenol, etto, y gallesid mor gyfreithlon ei ddileu, ag oedd annghyfreithlon i'w wneuthur. Drwg yw gwneud addewid bechadurus, gwaeth yw ei chyflawni. Fel hyn y gallesit, y dylesit ymddadrus: tra yn awr, oherwydd rhwymo dy hun trwy grefydd annghrefyddol wrth dy lw ffol a phechadurus, y diengi gyda'r cymmedroliad dy fod yn llofrudd petrusgar. Yn y cyfamser, os Herod a wnaeth y fath gydwybod o gadw llw annghyfreithlon, pa fodd y condemnir yn nydd y farn y Cristionogion hynny, y rhai ni chadwant lwon cyfreithlon, union, angenrheidiol! Och fi! Gwerth un lw am wobr, arall am ffafr, arall a'i bwrw ymaith o ran malais. Ofni 'rwyf mai anhawdd gwybod pa un fwyaf o lwon a gedwir neu a dorrir. O Dduw, ni ryfeddaf, os pan y'th elwir yn dyst, megis dialydd ffalsedd

nad dieuog hwnnw ger dy fron, yr hwn a feiddia'r wedd hon gymmeryd dy enw yn ofer.

Yn nesaf i'w lw yw ei ofal am ei anrhydedd. Ei wahoddedigon a glywsant ei lw dwys, ac yn awr nis gallai gilio yn ol gyda pharch. Arwydd o ysgafnder a byrbwylldra yw dywedyd heb gyflawni: a pha beth a ddywedai'r byd? Gau dybiau am anrhydedd a ddifethant filoedd o eneidiau. Megis y gwna llawer un ddaioni er mwyn ei weled gan ddynion; felly, llawer un a wna ddrygioni er i'r un dyben. Teg ymddangosiad damniol yw golygu ofer gymmeradwyaeth neu gerydd dynion, fel ag i ddibrisio caniattad neu farn Duw. Ond o'r fath wahoddedigion gwael oedd y rhai hyn! Mor addas oeddynt i fwrdd Herod! Pe buasai ganddynt foesgarwch cyffredinol, pan welsant Herod mewn terfysg, buasant yn ei ryddhau trwy ei berswadio nad oeddynt yn disgwyl cyflawniad o weithred mor waedlyd; eithr yn hytrach, er boddio Herodias hyw a rwyddhant ei ymdaweliad. Hyd yn nod, tywysogion duwiol a achwynasant oherwydd anwiredd eu sodlau: pa faint gwaeth yw eu gweinidogion hwy, y sawl a'u hannogant i ddrygioni trwy air ac esampl.

Ac nid ei ddyben lleiaf oedd ei anewyllysgarwch i anfoddloni ei feistres. Y ferch a'i boddlonodd ef â'i dawns: nid anfoddlonai efe hithau trwy dorri ei air. Canfyddodd Herodias yn Salome. Gwyddai mai eiddo'r fam oedd y cais, er ei fod yn ngwefusau'r ferch: cawsai'r ddwy eu hanfoddloni pe torrasai ei air; cawsai'r ddwy eu boddio trwy ei gadw. O Herod falch a drygionus! Nid yw'n prisio digio Duw, digio ei gydwybod: ond y mae arno ofn digio meistres anniwair. Dyma un ffordd i lenwi uffern, sef anewyllysgarwch i anfoddloni eraill. Gwell gan ddyn da syrthio allan â'r holl fyd nâ syrthio allan â Duw, ac â'i gydwybod ei hun.

Nid yw tristwch camseiliedig calonau daearol yn eu cadw oddiwrth eu pechodau arfaethedig. Gall eu poeni, ond nid eu hattal. Tristhaodd Herod, ond anfonodd y dihenyddwr am ben Ioan.

Yr un weithred a wnaeth Herod yn ormesdeyrn, ac Ioan yn Ferthyr. Herod yn ormesdeyrn; am iddo, heb ffurfiau cyfreithlon, heb gymmaint a gau dystion, gymmeryd ymaith ben dyn—ben prophwyd: chwant a'i dygodd yn mlaen i lofruddiaeth. Hawddach rhwystro pechod yn ei ddyfodiad i mewn nag yn ei yrfa: yr hwn a ganniatta iddo ei hun i fod yn ddrygionus, nis gwyr pa le yr erys: Ioan yn Ferthyr, trwy farw, am iddo

ddwyn tystiolaeth i'r gwirionedd; gwirionedd mewn buchedd-iad, mewn barn, mewn athrawiaeth.

Dyben sanctaidd Duw oedd i'r hwn a fedyddiodd â dwfr gael yn awr ei fedyddio â gwaed. Ni amcanodd Duw erioed i'w blant goreu breswylio bob amser ar y ddaear: pe arosent yma, paham y darparodd ogoniant uchod? Mynnai Duw yn awr waredu Ioan o ddau garchar; o'r eiddo ei hun, a'r eiddo Herod, a'i osod yn rhydd-did gogoneddus ei feibion. Cymmerir ymaith ei ben i'w goroni â gogoniant. *Gwerthfawr yn ngolwg yr Arglwydd yw marwolaeth ei saint.*

O, ddedwyddol anedigaeth-ddydd, nid Herod, eithr Ioan! Yn awr yr â Ioan i'w lawenydd—ac yn yr enw hwn y cedwir y dydd byth wedi'n yn yr Eglwys. Y bendigedig ragflaenor hwn i Grist, a ddywedodd am dano ei hun, *rhaid i mi leihau:* y mae wedi lleihau yn wir, gan fod yn fyrrach o'i ben; ond nid yw ei leihad mewn corpholaeth gymmaint a'i gynnydd mewn gogoniant. Ar ol munud o boen y mae mewn meddiant o lawenydd annherfynol; ac fel y daethai o flaen ei Brynwr i'r byd, felly â o'i flaen Ef i'r nefoedd.

Dygir y pen ar ddysgl. O'r fath ddysgled i wledd! Pa wangc annigonadwy sy'n nglyn â chreulondeb y galon ddrygionus! O, ddysgled werthfawr, addas i'r nefoedd! Nid i ti, O Herod ddrygionus, nid i tithau Herodias anniwair a maleisus: dysgled werthfawr a boddhaol i Dduw ydyw, ac i'w angelion bendigedig, y rhai a edrychasant ar y pen hwnnw gydag hoffder mwy yn ei ffyddlondeb diysgog, nag oedd gresyndod yr edrychwyr, a'r boddlonrwydd a gawsai ysbryd dialgar Herodias.

Dygir y pen at Salome megis ei gwobr am ddawnsio: cyflwyna ef i'w mam, megis y peth danteithiol a ewyllysia. Tybiwn fy mod yn canfod y dull y teflid yn ol ac yn mlaen y wynebpryd pur a sanctaidd hwnnw gan ddwylaw aflan. Teimlir gyda dirmyg y tafod gwirioneddol a ffyddlon hwnnw, y gwefusau sanctaidd, y llygaid pur, a'r gruddiau marweiddiol hynny gan buttain aflan, ac a wneir yn wawd i lygaid meddwon gwahoddedigion Herod.

O, farnau rhyfeddol a threfniadau annirnadwy y sanctaidd, doeth, Hollalluog Dduw! Yr hwn a sancteiddiesid yn y groth, a ennillasid ac a anesid gyda'r fath sylw, ac mor wyrthiol, *(Beth fydd y bachgennyn hwn?)* a arweiniasai fywyd mor barchus a nodedig, a leddir yn awr yn nhywyllwch y cyfnos

mewn carchar, a'i ben a ddygir i gael ei ddirmygu a'i wawdio gan butteiniaid a llofruddion. O Dduw, gwyddost beth sydd gennyt i'w wneuthur â'th eiddo. Goddefi iddynt gael eu drwgdrin a'u lladd y wedd hon yma isod, fel y gallet eu coroni uchod. Ni fyddai fel hyn oddieithr dy fod yn bwriadu i'w gogoniant fod yn gyfattebol i'w trallod.

MATTHEW XIV.

Y PUM TORTH, A'R DDAU BYSGODYN.

RHYFEDD y lluaws a ddilynai Grist i ba le bynnag yr elai, ac fel y treisid teyrnas nefoedd yn ei ddilynwyr hyn! Eu taerineb a'u gyrrai o'r tir i'r môr. Pan oedd ar Fôr Tiberias dilynasant Ef â'u llygaid: a phan welsant tua pha le y cyfeiriai ei daith, dilynasant Ef mor gyflym â'u traed fel y ragflaenasant ei diriad. Pa un ai i'r Iachawdwr aros yspaid o amser ar y mor, er mwy llonyddwch ac anadliad rhwyddach; neu, pa un ai'r ffordddroed oedd y fyrraf, yr hyn a ddigwydda'n aml, oherwydd cylchoedd y dwfr, a lliosog gonglau'r tir, nid wyf yn ymofyn: sicr wyf na yrrodd y gwynt y llestr gyda'r cyfryw gyflymdra ag y gyrrasid hwy gan eu dymuniad a'u hawydd.

Gwych y canfyddodd Crist hwy yr holl ffordd: gwych yr adwaenai ac y cyfarwyddai eu camrau; ac yn awr, â yn fwriadol i gyfarfod â'r sawl yr ymddangosai fel yn ffoi oddiwrthynt. Nid oes a foddia Duw'n fwy nâ'n taerineb yn ei geisio. Pan yr â ymaith, ei ddyben yw peri chwiliad mwy llafurus am dano. Daw yn awr, ynte, i'w ceisio hwy, y rhai ymddangosasai fel yn eu gochelyd; a chan weled lluaws mawr, â o'r llong i dir. Yr hyn a'i dygasai o'r nefoedd i'r ddaear, a'i dygodd o'r mor i'r tir: ei dosturi wrth eu heneidiau, fel y gallai eu dysgu; ei dosturi at eu cyrph, fel y gallai eu hiachau a'u porthi.

Nid oedd Judea yn ēang, ond yn boblogaidd: nid oedd modd lai na bod cleifion lawer yn mhlith cynnifer o ddynion.

Nid rhyfedd i sôn am feddiginiaethau mor lluosog a gwyrthiol dynnu atto erfynwyr. Cawsant ynddo dri o fanteision uwchlaw gallu a gweithred pob meddyg daearol. Sicrwydd, haelioni, esmwythder: sicrwydd, am yr iacheid pawb a ddeuai yn ddiffael; haelioni, am yr iacheid hwy yn ddigost; esmwythder, am y meddyginiaethid yn ddiboen. Pell oddiwrthym, O Iesu,

fyddo meddwl fod dy ogoniant wedi lleihai dy drugaredd. Ti ydwyt o hyd ein meddyg sicr, haelionus, a pherffaith, yr hwn a iachâei ein holl lesgedd, ac y symmudi ein holl wendidau. O na redem attat yn ffyddlon yn ein holl afiechyd ysbrydol: byddai mor anmhossibl i ni fethu a chael cynnorthwy ag yw i ti fod heb allu a thrugaredd.

Fel y gallai'r Gwaredwr ddangos ei hun yn gymmwynasgar yn mhob modd, Efe, yr hwn a lenwasai eneidiau ei wrandawyr âg ymborth ysbrydol, a leinw yn awr ei cyrph âg ymborth tymmorol; ac Efe, yr hwn a eglurhasai ei hun yn feddyg cyffredinol ei eglwys, a fyn gael ei adnabod yn awr fel Penteulu mawr y byd, trwy ddarpariaeth helaeth yr hwn y cynnelir dynolryw. Ni iachaodd yn fwy gwyrthiol nag y porthodd.

Y disgyblion, gan sylwi yn dda ar ddull awyddus y dyrfa yn aros gydag Ef, yn awr, tua'r hwyr, a ddeuant at eu meistr, oherwydd eu gofal am iddynt gael eu porthi a'u hanfon ymaith. *Y lle sydd annghyfanedd, a'r awr a aeth weithian heibio: gollwng y dyrfa ymaith, fel yr elont i'r pentrefi, ac y prynant iddynt fwyd.* Addas iawn, ïe, i arweinyddion ysbrydol deimlo dros anghenion corphorol pobl yr Arglwydd! Ni orchymynir hyn yn union-gyrchol iddynt, ac nis gallant chwaith adael eu gweinyddiadau sanctaidd i wasanaethu byrddau; ond, er hynny, megis y mae'n rhaid i'r tad corphorol ofalu am enaid ei blentyn; felly, rhaid i'r un ysbrydol ofalu am y corph. Hyn yw'r oll y mae'r byd yn gyffredinol yn edrych am dano: gan fesur eu bugeiliaid yn fwy wrth eu dysgleidiau nag wrth eu hathrawiaethau a'u hymddygiad: megis pe rhoisid arnynt ofal eu boliau ac nid eu heneidiau. Os oes ganddynt selerau agored, nid gwaeth ganddynt a ydyw eu geneuau felly ai peidio. Os byddant gyfeillgar, yn dyner o'u pleserau hwy, ac yn rhoddi iddynt foethau, hawdd ganddynt faddeu iddynt eu hesgeulusdra a'u pechodau ysgeler! megis pe byddai eneidiau'r bobl hyn yn eu colyddion. Ond diau fod ganddynt hawl i ddisgwyl oddiwrth eu hathrawon llettygarwch cymmedrol. Y mae cynnildeb gormodol mor ffiaidd ynddynt ag ydyw'n bechadurus; a lle y mae'r gallu'n fyr, ni ddylai'r gofal fod felly. Y pregethwyr hynny a ddilynant eu gorchwylion ysbrydol, fel ag i bwyso gormod ar wendidau eu pobl, gan eu dal wrth eu defosiwn yn hwy nag y caniatta breuolder dynol, a annghofiant eu pattrwn gymmaint a hwy eu hunain: a rhaid eu hanfon i'r ysgol at y disgyblion

tosturiol hynny, y rhai, wedi ei myned hi yn hwyr, a erfyniant ar Grist i ollwng y dyrfa ymaith.

Y lle oedd annghyfanedd: yr amser oedd hwyrol. Diau i'r Iesu ddewis y ddau hyn, fel y byddai ei wyrth yn fwy defnyddiol a nodedig. Pe buasai y boreu, ni fuasai newyn ar y dyrfa; buasai yn afreidiol eu porthi. Pe buasai mewn pentref, gallasai ymborth gael ei ddarparu, neu o leiaf, ymddangos fel pe buasai wedi ei ddarparu, ganddynt eu hunain. Ond yn awr, am ei bod yn hwyr, a'r lle yn annghyfanedd, yr oedd yn achlysur addas i'r disgyblion sôn am ymborth i'r dyrfa, ac i Grist ei ddarparu. Y pryd hynny yn unig y gallwn ddisgwyl ac erfyn am help gan Dduw pan deimlwn ein hangen. Nis gellir dymuno cymmorth afreidiol mewn gwirionedd, na'i ddisgwyl yn awyddus, na'i dderbyn yn ddiolchgar o law trugaredd. *Buwch dy faich ar yr Arglwydd, ac Efe a'th gynnal.* Os na fydd yn faich, ni fydd dim bwrw ar yr Arglwydd. Oddiyma y mae fod dwyfol gynnorthwy yn dyfod yn wastadol pan fyddo'r profedigaethau ar ben, ac yn drymaf: yn ol i ni hir oddef y trallod, gan fod wedi blino ar hir obeithio, ïe, ar yr annobaith o lwyddiant: fel y byddo mwy hiraeth am dano cyn y delo; ac y caffo ei brisio'n uwch, yn ol ei gael.

Rhyfeddol oedd ffydd a zel y dilynwyr hyn o eiddo Crist! Ni chanlynant ef yn unig o'r ddinas i annghyfaneddle—o lawnder i newyn—o amledd i unigrwydd; ond annghofiant eu cyrph, gan chwilio am ymborth i'w heneidiau.

Nid oes dim a all dyn iach ei annghofio gyda mwy o anhawsder nâ'i fol. Bydd hwn yn sicr o geisio ganddo yn mhen ychydig oriau, ac ni chymmer ei naccau. Er hynny, y gwrandawyr hyn a gaent y cyfryw felusder yn eu hymborth ysbrydol, fel nad oeddynt yn meddwl am yr un corphorol. Y disgyblion a dosturiasant wrthynt; ni thrugarhaent wrthynt eu hunain. Po mwyaf y rhed y meddwl ar bethau nefol, lleiaf oll y gofala am rai daearol. Beth fydd daear i ni, pan fyddom oll yn ysbrydion? ac yn y cyfamser, yn ol graddau ein derchafiad mewn dealltwriaeth, y bydd ein hesgeulusdra o'n cyssuron corphorol.

Y disgyblion a dybiant eu bod yn dywedyd yn wych, *Gollwng hwynt ymaith, fel y prynont iddynt fwyd.* Wele gariad mawr, ond ffydd fechan; cariad mawr, am y dymunent i'r bobl gael ymborth; ffydd wan, am y tybient nad allent gael eu porthi yn gystal heb hynny. Megis dyn, pan welo amryw

ffyrdd o'i flaen, a ddewisia yr hon a dybia y rwyddaf, a'r agosaf: felly y gwnant hwythau: y dull hwn o gynnorthwyo yw'r parottaf yn eu golwg, a'r hwn a addawa fwyaf. Hawdd y gallent feddwl, "Y mae mor hawdd i'n Meistr eu porthi a'u hiachau: y mae'r naill beth mor hawdd a'r llall i allu goruwch-naturiol;" er hyn y dywedant, *Gollwng hwynt ymaith.* Yn mhob amcan a chais yr ydym yn barod i ddilyn yr hyn sydd fwyaf amlwg a thebygol; pan, weithiau, y bydd yn llai derbyniol gyda Duw. Y mae gan Holl-ddoeth a Hollalluog Lywydd pob peth fil o foddion dirgel i anrhydeddu ei hun yn ei ymddygiadau tuag attom. Nid cymmwys i ni dorri allan yn hyderus i ni ein hunain; ond rhaid i ni ymddiried ar ei ddoeth a'i drugarog drefniadau Ef.

Rhydd attebiad yr Iesu adtalfa ryfedd i'w cais, *Nid rhaid iddynt fyned ymaith.* Nid rhaid? Nid oedd ganddynt fwyd: rhaid iddynt ei gael: ac nid oes dim i'w gael. Pa fodd y gallai fod mwy o raid? Gwyddai am y diwalliad a amcanai, er na wyddent hwy. Yr oedd ei orchymyn, gan hynny, yn fwy dieithr nâ'i ddywediad, *Rhoddwch chwi iddynt beth i'w fwytta.* Nis gall neb roddi yr hyn nid yw ganddo. Pe buasai ganddynt fwyd, ni alwasant am ollwng ymaith: a chan nad oedd ganddynt, pa fodd y rhoddent? Dy ddoethineb, Iesu, oedd parottoi dy ddisgyblion fel hyn i'r wyrth amcanedig. Nis gwnaet hi yn fyrbwyll heb arwyddiad o'i natur a'i hangenrheidrwydd; ac O, mor ddirodres y cyflawni hi, heb na swn nac allanol orwychder! Ni'th glywaf yn dywedyd, "Myfi a roddaf beth iddynt i'w fwytta," eithr *rhoddwch chwi:* megis pe buasai'r weithred yn eiddo hwy, ac nid yr eiddo Ef.

Fel hyn y rhynga bodd it', weithiau, ofyn gennym yr hyn nis gallwn ei gyflawni: naill ai er dangos yr hyn ni ellwn ei wneuthur a'n darostwng trwy hynny: neu er ein codi i hyderu ynot ti, yr hwn a elli ei wneuthur drosom; megis, pan ddywedo'r fam wrth ei maban ddyfod atti, yr hwn nis gall etto ddefnyddio ei aelodau yn gadarn—y gwna hyn fel yr ymlyno'n fwy wrth ei llaw neu ei gwisg er cael ei gynnal. Gorchymynir in', drueiniaid, gadw dy gyfraith frenhinol. Och! beth a allwn ni bechaduriaid ei wneuthur? Nid oes un llythyren o'th Ddeng Air a allwn ei gadw. Dy fwriad yn hyn yw egluro in' nid ein nerth, eithr ein gwendid. Fel hyn mynnit droi ein llygaid yn ol at yr hyn a allasem ei wneuthur, ac i fynu attat ti, yn yr

Hwn y gwnaethom ef, ac y gallwn ei wneuthur. Gwna ef gam â'th ddaioni a'th gyfiawnder, yr hwn a gamgymmera dy orchymynion hyn; megis pe byddent y cyfryw a'r eiddo'r Meistraid gwaith yn yr Aipht, y rhai a fynnent y priddfeini, heb roddi gwellt: eithr trwy orchymyn in' wneuthur yr hyn nis gallwn, galluogi ni i wneuthur yr hyn a orchymyni. Dy orchymynion dan yr Efengyl nid yn unig a ddatguddiant in' ein dyledswyddau, ond cyfranogant dy allu: megis yma, pan ddywedaist wrth dy ddisgyblion i roddi i'r dyrfa, amcenit roddi iddynt hwy yr hyn a orchymynaist iddynt ei roddi iddynt hwythau.

Caiff Iesu yr hyn a ewyllysiai—addefiad o'n hanallu; *Nid oes gennym ni yma ond pum torth a dau bysgodyn;* darpariaeth dlawd ar gyfer teulu Arglwydd yr holl ddaear. Pum torth, a rhain o haidd: a dau bysgodyn, a rhain yn rhai bychain.

Gwyddom yn dda, O Iesu, mai'th eiddot oedd yr anifeiliaid ar fil o fynyddoedd; yr ŷd oll a orchguddia holl wyneb y ddaear; holl adar yr awyr: Tydi, yr hwn a ddarparesit y lluoedd o soflieir, a syrthiasent o amgylch pebyll Israel wrthryfelgar; a wlawiaist gawodydd o fanna o amgylch eu gwersyll: a ymfoddloni i ti dy hun a'th deulu *â phum torth haidd a dau bysgodyn?* Diau mai'th ewyllys, nid dy angen, a berodd hyn: er ein dysgu i borthi yn gymmedrol ein cyrph. Ni ddylai ein bol fod yn feistr, llawer llai yn Dduw i ni: os felly y bydd, y gair nesaf ydwy, *a'u gogoniant yn eu cywilydd, a'u diwedd yn ddistryw.*

Sylwir arno fel bai neillduol y glwth goludog, ei fod *yn cymmeryd byd da yn helaethwych beunydd.* Nid wyf yn cael i Grist wledda neb ond dwywaith: a'r wledd y ddau dro oedd pysgod a bara. Canfyddaf eraill yn ei groesawi Ef yn fwy haelionus. Ond ei ymborth cartrefol oedd lwyr anfoethus. Dyben ymborthi yw cynnal natur. Ordeiniwyd bwyd i'r bol, a'r bol i'r corph, a'r corph i'r enaid, a'r enaid i Dduw: rhaid in' edrych o hyd trwy'r is-ddybenion i'r uchelaf. Ymorphwys yn y mwynhad o'r bwyd sydd addas i greaduriaid dienaid yn unig.

O, mor foethus yw'n hoes ni! Rhyfedd fel y tyrrir ddysgleidiau cywrain o'r moroedd a'r tiroedd pellaf i wneud i fynu ymborth awr! y fath goginiaeth! y fath gymmysgedd o bethau! y fath sawsiau blasus! Y fath foddhad, nid

yn unig i'r archwaeth, eithr i'r arogl hefyd! A'i ddisgyblion Ef ydym ni, yr hwn a ymfoddlonodd â'r torthau a'r pysgod: neu ynte yr eiddo Philoxenus, neu Apicius, neu Vitelius, neu eraill caeth-weision y cylla? gwir blant y rhieni cyntaf hynny, a laddasant eu hunain à'u dannedd.

Yr oedd yr ymborth hwn mor lleied ei faintioli, ag oedd anfoethus yn ei natur. Dywedant *ond* pum torth a dau bysgodyn: ac addas y gallant ddywedyd felly, ag ystyried y miloedd o safnau. Ychydig ymborth i'r newynog a gyffroa flys yn hytrach na'i foddio; megis y mae ychydig o wlaw ar dir sychedig yn helpi ei losgi yn hytrach na'i adfywio. Pan edrychom â llygad synwyr neu reswm ar unrhyw wrthddrych, canfyddwn yr effeithiau hynny yn annichonadwy, y rhai a welir yn hawdd gan ffydd, ac a gwblheir yn hawddach gan Ddwyfol allu. Dynion cnawdol sydd barod i fesur ein holl obeithion trwy'r hyn a wneir gan rym dynion: a phan y metha hwn, yna annobeithiant: tra y mesura gwir ffydd hwynt â gallu Duw; ac am hynny, nid byth y digalonir hi. Y mae'r gras hwn yn nglyn â'r pethau ni welir: a pha un bynnag a'u bod yn uwch nâ gobaith neu yn ei erbyn.

Nid yw y rhinwedd yn y moddion, eithr yn y Gweithiwr. *Dygwch hwynt yma i mi.* Llawer hawddach a fuasai i'r Iesu ddwyn y torthau, &c. atto ei hun, na'i lluosogi! Dwylaw'r disgyblion â gânt eu dwyn, fel y gallent fod yn dystion perffeithiach o awdwr a dull y wyrth uniongyrchol hon. Pe'u lluosogid heb eu dwyn fel hyn, efallai yr ymddangosent fel wedi eu dwyn yno yn ddirgel gan y gwahoddedigion: ond yn awr, nis gall fod anmheuaeth o ran y weithred na'r gweithredwr. Megis yr ymhyfryda Duw i wneuthur gwyrthiau dros ddynion: felly ymhyfryda gael ei arddel ynddynt. Nid oes achos iddo ymadael â'i ogoniant ei hun: y mae hwn yn rhy werthfawr i'w golli, neu i'w greadur yspeilio iddo ei hun. Ac O, mor gyfiawn y mynnet, O Iesu, ddysgu dy ddisgyblion, mai tydi yn unig sydd yn porthi'r byd: ac mai arnat ti y mae hwy a'u holl gydgreaduriaid i ymorphwys, am feithriniaeth ac ymborth; y rhai, pe nas deuent trwy dy ddwylaw di, nis deuent i'r eiddynt hwy.

Nid oes angen am fwy o eiriau. Ni chlywaf y disgyblion yn sôn am eu hangenion eu hunain. "Och! Syr, y mae yn rhy fach i ni ein hunain: o ba le wedi'n y cawn ddigoni ein newyn ein hunain. Rho ganiattad i'n cariad ddechreu gartref:" eithr

gwnant o'u bodd yr hyn a gais Ef ganddynt; gan ymorphwys ar ei Ragluniaeth am y canlyniad. Pan dderbyniwn orchymyn gan Dduw, nid ydym i ddilyn ein hewyllys ein hunain: yn hyn nid oes rhydd-did mor sicr a hunan-ddiystyrwch. O Dduw, pan elwi am ein pum torth, rhaid i ni annghofio ein helw ein hunain: onide, os bydd ein cynnilder yn fwy nâ'n hufudd-dod, ein da a dry yn ddrwg; a llawer gwell a fuasai i ni fod heb yr hyn a gadwn oddiwrth ei Feddiannydd.

Arglwydd y wledd a wysia'r gwahoddedigion. *Gorchymynodd i'r torfeydd eistedd ar y gwelltglas.* Ufuddhant a disgwyliant. O, ffydd ryfeddol! Gymmaint o filoedd yn eistedd, ac yn dechreu ymborthi, tra nad oes yn eu golwg ond pum torth haidd a dau bysgodyn bychain. Nid oes neb yn dywedyd, "Eistedd i lawr? I beth? Wele safnau, ond lle y mae bwyd? Gallwn eistedd mewn ychydig amser, ond o ba le y'n diwallir? Cyn parottoi ein cyllill, gadewch i ni weled y darpariaeth." Ond ânt i'w lle yn addfwyn ac ufuddol, gan edrych i fynu at Iesu am ddiwalliad goruwch-naturiol. Y mae holl ddisgyblion Crist i arwain bywyd o ffydd, ac, hyd yn nod, lle y mae'r moddion o'u golwg i ddisgwyl wrth ei drugarog law. Nid dim hawddach na hyderu yn Nuw pan y mae ein hysguboriau a'n cistiau yn llawn; a dywedyd, *Dyro i ni ein bara beunyddiol*, tra y mae eisioes yn ein meddiant; ond ymddiried yn ei haelioni anwel-edig, pan nad oes gennym ddim, ac nas gwyddom pa le y cawn ddim, sydd wir ac ardderchog weithred o ffydd. Nid oes gennym hawl i fwrw ymaith ein heiddo ein hunain, fel y gallom fyw yn ddigyfrwng ar Ddwyfol Ragluniaeth: ond pan y gosoda Duw ni yn y cyflwr hwn, canfyddwn ein noddfa: a dedwydd ydym os gallwn yn hyderus ffoi iddi, ac aros ynddi. Byddai llawnder yn felldith, pe cadwai ni rhag yr hyder hwn. Ar y goreu, rhaid i ni edrych i fynu at Gynnaliwr mawr y byd, ac nis gallwn lai nâ bod mewn angen o'i ddarpariadau. Os oes i ni fwyd, efallai nad oes chwant iddo. Os oes chwant, efallai nad allwn ei dreulio, ac os gallwn, efallai na fydd iechyd a rhyddhad oddiwrth boen, ac os hynny, efallai oherwydd dygwyddiadau eraill na fydd bywyd.

Y mae'r gwahoddedigion wedi eistedd, ac yn llawn disgwyliad. Yr hwn a allasai luosogi'r bara yn absennol, a'i cymmer ef yn ddistaw, ac a'i bendithia, fel y dangosai iddynt ar unwaith awdwr a dull yr ychwanegiad hwn. Dy fendith di, O Dduw,

yw'r hyn a gyfoethoga. Pa wahaniaeth a ganfyddwn yn nghyflyrau dynion! Rhai a ddiflanant 'u moddion yn helaeth, ac ni fwynhant na'u cyfoeth na'u hunain: eraill ydynt siriol a happus efo ychydig. Nis gellir gwadu nad oes eu gwaith i ail achosion, ond y gallu goruwchlywiol sydd oddi uchod. Nid yw isweithrediad y creadur yn dwyn ymaith hawl na'r diolch a berthynant i'r Ymsymmudydd Blaenaf.

Gallasai yn gystal luosogi'r torthau yn gyfain: Paham y dewisai ei wneuthur yn eu torriad? Ai er ein dysgu mai yn nosparthiad ein meddiannau y mae i ni ddisgwyl bendith, ac nid yn ein gwaith yn eu cadw yn gyfain i ni ein hunain? *Rhywun a wasgar ei dda, ac fe a chwanegir iddo,* medd Solomon: ïe, nid oes neb a'r na chynnydda trwy wasgaru. Y grawn a deflir i gwysau'r ddaear, a ddug gynnyrch helaeth i'r Amaethwr. Yr hyn a gedwir yn ei sachau, neu a dyrrir yn ei ŷd-lofft, a leiheir trwy ei gadw. *Yr hwn a hauoyn helaeth, a fedhefyd yn helaeth.*

Ymaith â'n gwan hyder. Pe deuai cyfoeth o honom ein hunain, rhoddi a derfynai mewn prinder: ond yn awr am y cyfranna Duw i'r rhoddwr, ni all dim ein cyfoethogi mor sicr a'n haelioni. Fe a luosogodd y bara nid i'w cadw, ond i'w cyfranu. *Efe a'i rhoddodd i'r disgyblion.*

A phaham yn hytrach â'i law ei hun i'r dyrfa, fel y byddai'r wyrth a'r diolch yn fwy digyfrwng? Paham y gwnaethost fel hyn, O Waredwr, ond er ennill parch i'r disgyblion oddiwrth y bobl? megis na rydd tywysogion mawrion, pan fyddont am i'r bobl barchi rhywun anwyl ganddynt, un cais ond trwy ei ddwylaw ef. Y fath anrhydedd oedd hyn i'th weision, sef bod yn gyfryngwyr, ar rai achlysuron daionus, rhyngot ti a dynion, megis ag y cyfryngi dy hun rhwng Duw a dyn! Y mae yma gysgod addas o'th weinyddiadau ysbrydol: sef dy fod yn ewyllysio dosparthu bara'r bywyd trwy dy weinidogion, yr Hwn a allet borthi'r holl fyd â'th air digyfrwng! Megis ag yr oedd gyda'r gyfraith: Gwych y gwelodd ac y clywodd yr Israeliaid, y gallesit draddodi y gennadwri ddychrynllyd honno â'th enau dy hun, yr hon o deimlad at eu gwendid hwy, a draddodaist iddynt trwy enau Moses.

Nid yw'r ymarferiad â moddion yn cymmylu dim ar effeithioldeb y prif weithredwr: ïe, gwna ef yn fwy disglaer. Rhyw wendid neillduol yw yn ein golygon ysbrydol, os canfyddwn yn unig y llaw agosaf. Pa mor ffol a fuasai'r gwahoddedigion hyn,

pe rhoisent eu clod yn unig i'r gweinidogion : gan ddywedyd, "Oddiwrthych chwi y cawsom y fendith : ni waeth i ni o ba le y cawsoch chwi hi : os cawsoch hi gan eich Meistr, addefwch eich rhwymedigaethau, megis ag yr ydym ni yn gwneuthur i chwi!" Ond yn gymmaint ag y gwyddent y gallasai'r disgyblion drin â'u dwylaw y bara hwn ddigon o bryd heb i'r cyfryw effeithiau ddilyn, hawdd y canfyddent yr hwn y maent yn rhwymedig iddo. Rhaid i'n doethineb cristionogol ein dysgu, beth bynnag yw'r moddion, i briodoli ein diolchgarwch pennaf i Awdwr pob daioni.

Rhoddodd y bara ynte i'w ddisgyblion ; nid i'w fwytta na'i gadw, eithr i'w ddosparthu. Nid eu lles personol hwy oedd yn bennaf yn ei olwg yn awr, ond yr eiddo llawer. Yn mhob gwledd cymmer pob gweinidog ei ddysgl i fynu, nid i'w chyfleu i gongl er ymborthu arni ei hun, eithr i'w gosod ger bron y gwahoddedigion er anrhydedd ei Feistr : pan ddybenant hwy, dechreua ei wledda yntau. Beth a ddywedwn wrth y gweinidogion drygfawr hynny, y rhai a dewychant â'r seigiau dirgelaidd hynny a fwriedir i eraill? Gwneir eu bord yn fagl iddynt, a'r tammeidiau anonest hyn nis gallant derfynu eithr mewn chwerwder.

Yn ganlynol gesyd y disgyblion yr ymborth hwn ger bron y gwahoddedigion. Nis canfyddaf gymmaint a Judas yn cadw rhan iddo ei hun oherwydd newyn neu wanhyder. Pe nas gorchymynasai ein Hiachawdwr ei ddosparthu mor rydd, eu hunan-gariad a'u dysgasai yn hawdd pa le i ddechreu. Iaith natur yw—"Dy hunan yn gyntaf ; ac yna dy gyfeillion :" eithr rhydd dirfawr angen neu orchymyn pennodol achlysur i gyfnewid y drefn. Pell oddiwrthym fyddo meddwl fod i ni unrhyw hawl yn yr hyn a roddir yn unig i'w gyfranu.

Nis gwn yn awr pa un i'w ryfeddu fwyaf, ai'r bwytta gwyrthiol, neu'r gweddill gwyrthiol. Wele lu cyfan o wahoddedigion, pum mil o ddynion : a nifer cymmaint, y mae yn bosibl, o wragedd a phlant. Efallai na wnaeth llawer o'r rhai hyn ond edrych ar y peth ; nid felly, *Hwynt oll a fwyttasant :* cafodd pob un efallai friwsionyn neu dammaid : nid felly etto, bwyttasant hyd eu digoni : *hwy a gawsant eu digon.* Rhaid fod i'r fath nifer wneud gwaith llwyr o honi : nis gallai fod dim yn ol o'r cyn lleied : nid felly, yr oedd *gweddill* yn ol. Ychydig o friwsion neu grystiau, anhawdd eu gweled, ac nid gwerth eu

casglu: nage, ond *deuddeg basgedaid yn llawn:* yr oedd mwy yn ol nag a roddasid i lawr ar y cyntaf. Pe buasent heb fwytta dim, buasai fod cymmaint yn ol yn wyrth ryfedd: pe na fuasai dim gweddill, buasai yn wyrth o hyd fod y fath nifer wedi bwytta a chael eu digoni: eithr yn awr gan fod y fath nifer o gylläau a basgedau yn llawnion, y wyrth a ddyblasid.

O, effaith Hollalluogrwydd annherfynol! Byddid arferol o ymofyn, pa un ai trwy greadigaeth neu droedigaeth y gwnaed hyn: eithr hyn sydd afreidiol. Tra y lluosoga Crist y bara, nid ydym ni i luosogi ei wyrthiau. Gwneuthur peth o ddiddim sydd fwy nà chwanegu llawer at ychydig. Yn ganlynol troi defnydd blaenorol i'r sylweddau hyn oedd y wyrth hon, yn hytrach nà'u gwneuthur o ddiddim.

Po'dd bynnag, wele yma ddarpariaeth rhyfeddol: a'r ddarpariaeth honno yn rhyfeddol ei haelioni—a'r haelioni hwnnw yn gwbl mor ryfeddol mewn helaethrwydd.

Y sawl a ymddiriedant yn Nuw, ac a ddilynant ei waith, a gânt eu cynnaliaeth hyd yn oed yn yr annghyfaneddle ei hun. Ein byr haelioni ni a gyrhaedda mor belled ag i ddarparu dros yr eiddom ein hunain. Ein gweision y rhai a lafuriant yn ein gwasanaeth, a ddisgwyliant yn gyfiawn eu hymborth, ac a honnant hawl iddo; tra y mae'r sawl a gyflogir wrth y dydd ar eu bwyd eu hunain. Pa faint mwy y gofala'r Duw hwnnw, yr hwn sydd anfeidrol mewn trugaredd a gallu dros y rhai a'i canlynant! Canfyddwn Ef yn porthu adar yr wybren: pa mor anfynych y gwelsom ddim o honynt yn marw o newyn! Etto beth a wnant ond yr hyn y tueddir hwy i'w wneuthur trwy awydd naturiol? pa faint mwy lle y mae, heblaw addasrwydd, wasanaeth resymol ac ewyllysgar! A borthir yr Israeliaid à manna, Elias gan gigfrain, y weddw âg amlhad ei blawd a'i holew, dilynwyr Crist à thorthau ac à physgod yn yr anialwch? O Dduw, tra y gosodi ni y wedd hon dan rwymedigaethau trwy dy Ragluniaeth, na fydded in' wneuthur cam â thi trwy dy wanffyddio.

Rhaid i orchwylion Duw fod yn dra rhagorol. Y rhai a gymmer arno eu porthi, nid oes modd na chânt ddigon. Nis gall mesur ei haelioni lai nà rhedeg drosodd. A gymmer arno ddarparu bwrdd i'w Israel yn yr anialwch? Caiff y bara fod yn fwyd angelion: y cìg a gaiff fod y cyfryw ag a fyddai addas i dywysogion; manna a soflieir. A gymmer arno wneuthur

gwîn i'r briodas-wledd yn Cana? Caiff fod yno ddigonedd, a rhagoroldeb: y winwydden a rydd ond ffrwyth gwael wrth hwn. A wledda Efe ei wrandawyr yn y diffeithwch? Os na chânt foethau, cânt ddigon. *A hwy oll a ddigonwyd.* Ac nid yw dy law, O Iesu, wedi ei chau hyd heddyw. Y fath helaethrwydd o athrawiaeth nefol a osodi o'n blaen! O, fel y gwleddir ni, ïe, hyd ddigonedd, â'th foethus fwyd nefol! Nid yn ol ein gwaeledd ni y'n porthir, ond yn ol dy fawredd di. Nid yw darpariadau cynnil yn gweddu i dywysogion. Llawn ydym o'th ddaioni. O, bydded ein calonau yn rhedeg drosodd o ddiolchgarwch.

Rhyfeddaf yn llawen wrth dy wyrth hon, O Iesu: etto yn y cyfryw fodd ag na annghofiwyf fy sefyllfa fy hun? O ba le y daw ein bod yn caffael cynnaliaeth wastadol? Yr un law haelionus a wna'r cwbl. Os porthwyd Israel â manna yn y diffeithwch, ac âg ŷd yn Canaan, y ddau a wnaethpwyd gan yr un gallu a haelioni. Os y disgyblion a borthwyd trwy amlhau'r torthau, a ninnau trwy amlhau'r grawn, nid yw'r ddau ond gweithred yr unrhyw Hollalluogrwydd. Beth yw hyn, O Dduw, ond gwyrth barhaus, yr hon a wnei er ein cadwraeth? Hebot ti nid oes allu mwy yn y grawn i luosogi ei hun nag yn y dorth. Tydi yw'r hwn a *roddi iddo gorph o'th ewyllys da dy hun, ac i bob hedyn ei gorph ei hun:* Tydi yw'r hwn a roddi *lawnder bara a glendid dannedd.* Nid rhesymol derchafu dy ddaioni yn llai, oherwydd ei fod yn gyffredinol.

Buasai basged neu ddwy yn ddigon i ddal y pum torth a'r ddau bysgodyn: nis gall llai nâ deuddeg gynnwys y gweddillion. Haelioni Duw a ddarpara nid yn unig yr hyn sydd reidiol, ond yr hyn sydd dros ben hynny. Cenfigen ac anwybodaeth, tra y dywedant fod Duw yn rhoddi digon, a briodolant yr hyn sydd uwchlaw hynny i achos arall; megis y dywedwn am wîn, ei fod o Dduw, a'r gormodedd o Satan.

Dy fwrdd, O Iesu, a'u hargyhoedda hwy, y rhai y cymmerwyd mwy ymaith ganddynt, nag a osodasid i lawr. Dy fendith a wna feddiannau nid yn unig yn ddigon, ond helaeth. Clywaf am ysgyboriau llawnion, a gwîn-wryfoedd yn torri allan gan wîn newydd, megis gwobrwy y bobl a'th anrhydeddant di â'u sylwedd. Clywaf am bennau wedi eu heneinio âg olew, a phiolau yn rhedeg drosodd. O Dduw, megis y mae i ti law rydd i gyfrannu, felly boed i ninnau galon rydd i roddi yn ol i ti glod am dy haelioni.

Gadawyd y gweddillion yn ol. Ni welaf y bobl, yn ol eu digoni, yn llenwi eu llogellau, neu eu cydau; etto yr oedd y lle yn annghyfanedd, a llawer o honynt, yn ddiammau, yn mhell o'u cartref. Dylai disgyblion gwirioneddol ymfoddloni ar hyn sydd yn awr ganddynt: heb fod yn rhy fawr eu gofal am yr amser dyfodol. O Waredwr, nis gorchymyn-aist i ni erfyn am ein bara dros y foru, eithr dros heddyw: nid am y dylem wrthod dy haelioni pan rynga bodd i ti gyfrannu, ond am na ddylem wanffyddio dy Ragluniaeth am yr hyn sydd reidiol.

Nis gellid gadael y gweddillion hyn, ïe, o dorthau haidd ac esgyrn pysgod yn yr anialwch, yn wrtaith i'r lle y lluosogasid hwy arno, eithr yn ol gorchymyn sanctaidd a chyfiawn yr Iachawdwr, casglwyd hwy i fynu. Ni oddef Penteulu mawr y byd i'w weddillion gael eu colli. Nis gellir rhoddi bara'r plant i'r cwn: ac os y briwsion a syrthiant i'w rhan, yr achos yw nas gellir eu casglu rhag eu mâned.

Ni ryfeddaf os cawsant hwy, a gasglasant y briwsion oherwydd ufudd-dod neu gynnildeb, y cyfryw yn berlau: diau eu bod eill deuoedd yn ddaionus greaduriaid yr un gwneuthurwr: a gall y ddau gostio lawn cymmaint i ni, os o'n gwirfodd y camdreuliwn hwynt.

Ond och! beth a ddywedwn pan y mae nid briwsion a thammeidiau, nid torthau, a dysglau, a phiolau yn unig yn cael eu gwastraffu mewn segurdod, eithr etifeddiaethau cyfain: nid yn cael eu colli, (ni fyddai help am hyn) eithr eu cam-ddefnyddio, mewn cyfeddach drygionus, ar ddisiau, putteiniaid, a meddwon. O, 'r cyfrif arswydus a roddir gan y goruchwylwyr gwastraffus hyn i'w Harglwydd a'u Meistr mawr, pan eilw ni i roddi cyfrif am ein holl dalentau! Condemniwyd ef yr hwn ni chwanegodd at yr hyn a roddasid iddo; beth ddaw o hono ef, yr hwn yn annghyfreithlon a'i lleiha?

Pwy a gasglodd i fynu y gweddillion ond y deuddeg Apostol; pob un a'i fasged yn llawn? Hwy oedd y gweision a osodasent i lawr y wledd hon, yn ol gorchymyn Crist: gwasanaethasent y byrddau, a chymmerasant ymaith.

Gofalai'r Gwaredwr yn gyfiawn rhag i'r gweddillion fyned ar goll: eithr gwyddai yn dda yr ymddibynai colled fwy ar y tammeidiau hynny; sef y golled o ogoniant i Hollalluog Wneuthurwr y wyrth honno. Nid oedd porthi'r dyrfa ond hanner y

weithred: yr hanner arall oedd gynnwysedig yn y gweddillion. Nid oes dim a berthyna yn fwy i olynolwyr yr Apostolion nâ gofalu am wneuthur y defnydd goreu o ryfeddol weithredoedd eu Duw a'u Hiachawdwr. Ni ddylent oddef fyned ar goll gymmaint a briwsionyn a all beri clod i'r Gweithydd Hollalluog.

Nid oedd yma na thammaid nac asgwrn a'r nad oedd deilwng o gael ei gadw: yr oedd y gyfran leiaf yn wyrthiol.

Holl hen goffadwriaethau gallu a thrugaredd goruwch-naturiol oeddynt yn nghadwraeth Aaron a'i feibion. Nid oes gwas yn y teulu yr hwn ni ddylai ofalu yn fawr am elw ei feistr: eithr yn bennaf oll y goruchwyliwr, i'r hwn y perthyn, mewn modd arbennig, y gofal hwn. Gwae ni os gofalwn am gasglu ein tammeidiau ein hunain yn unig, ac esgeuluso tammeidiau gwerthfawr ein Crëwr a'n Pryniawdwr.

MATTHEW XIV.

CRIST YN RHODIO AR Y MOR.

YR un yw'r elfenau oll i'r Creawdwr. Efe, yr hwn a ddangosodd ei allu mor fawr ar y tir, a'i dengys yn awr yn yr awyr ac ar y môr. Efe, yr hwn a gadwodd y lluaws rhag perygl newyn yn yr anialwch, a geidw ei ddisgyblion yn awr rhag perygl y dymhestl ar y mor.

Yn mha le arall y canfyddwn Grist yn gosod trais ar ei ddisgyblion? Cyffelyb oedd i'r Canwriad da: dywedai wrth un, *Cerdd, ac efe a ai, ac wrth arall dos, ac efe a ddeuai.* Pan y darfu ond eu galw oddiwrth eu rhwydau, gadawsant hwy: a phan yr anfonodd hwy bob yn ddau i ddinasoedd a gwlad Judea i bregethu'r Efengyl, hwy a aethant. Nid oedd a aeth o'i anfodd. Yma yn unig y gyrodd hwynt. Gallwn yn hawdd ddirnad mor anfoddlon oeddynt i'w adael o gariad neu o foesgarwch cyffredinol. Ni lefarodd tafod Petr ond calonau'r lleill, *Ti a wyddost fy mod i yn dy garu di.* Pwy allasai lai nâ charu'r fath Feistr? A phwy sydd foddlon i adael y neb a gara? Ond pe buasai eu parch ond yr hyn sydd gyffredinol, pa mor anaddas yr ymddangosai gadael eu Meistr yn awr tua'r nos, mewn lle annghyfanedd, yn mhlith estroniaid, heb ganddo fodd i groesi'r mor! Pan ar brydiau eraill nid rhaid iddo ond dywedyd y gair yn unig, rhaid oedd iddo eu gyrru yma.

O Iesu, dy arfer cyffredin oedd galw dynion attat, *Deuwch attaf fi bawb sydd yn flinderog ac yn llwythog.* Pa bryd y gyrraist neb oddiwrthyt? Ac ni wnaethit felly yn awr, ond er eu tynnu hwy yn nes attat, y rhai, am y tro, yr ymddangosaist fel yn eu gwrthod.

Yn y cyfamser, nis gwn pa un ai eu hanewyllysgarwch sydd fwyaf i'w esgusodi, neu eu hufudd-dod i'w ganmol. Megis y y bydd yn gyflawn fry, felly yr oedd mewn mesur yma isod. *Ger dy fron,* O Iesu, *y mae digonolrwydd o lawenydd.* Unwaith, pan ofynaist i'th weision a aent hwy hefyd ymaith, un tafod â attebodd drostynt oll, *Arglwydd, at bwy yr awn ni? Gennyt ti y mae geiriau bywyd tragywyddol.* Pa angeu, ynte, oedd iddynt gael eu gyrru oddiwrthyt! Weithiau rhynga bodd i'r Dwyfol ddaioni roddi i'w weision y fath orchymynion ag a aroglant o erwindeb ac annghyssur: y rhai, er hynny, o ran eu fwriad ef, ac yn y canlyniad, nid ydynt amgen nâ grasol a phenarglwyddiaethol. Po mwyaf anhawdd oedd y peth, mwyaf clodfawr oedd yr ufudd-dod. Nid wyf yn eu clywed yn crybwyll am ammodau wrtheu Meistr, nac yn taer erfyn am gael aros gydag Ef; ond yn uniongyrchol yn ufuddhau ac yn myned. Nid ydym ddisgyblion perffaith nes yr ymadawom a'n rheswm a'n hewyllys: ïe, O Iesu, pan y gorchymyni in', â thi dy hun.

Ac nis ymadawa'r lluaws nes cael eu gollwng. Canlynasant Ef pan oeddynt newynog: nis gadawsant Ef yn awr yn llawnion. Dymunent roddi iddo'r parch hwnnw, yr hwn, er ei ochelyd, rhaid iddo eu gochelyd hwy. Rhoddasent yn siriol deyrnas iddo, megis taliad am eu gwledd ddiweddar: dianga Ef rhagddi hi a hwythau. O Iesu, pan oedd awr dy ddioddefaint wedi dyfod, gallasit yn rhwydd dy gynnyg dy hun i'r sawl a ddaethent i'th ddal: ac yn awr, pan oedd gogoniant y byd yn pwyso arnat, rhedi ymaith oddiwrth goron. Ai er ein dysgu fod llai perygl mewn ddioddefiadau nag mewn llwyddiant allanol? Paham yr ymhoffwn yn yr anrhydedd daearol hwnnw, yr hwn a gyfrifet yn deilwng o wrthodiad a diystyrwch?

Defosiwn, yn gystal a dymuniad bod wrtho ei hun, a berodd i'r Iesu dynnu o'r neilldu. Aeth wrtho ei hun i'r mynydd i weddio. Wele dydi, i'r hwn, o ran mwynhau dy Dad, nid oedd y dorf fwyaf ond megis unigrwydd; yr hwn nid oedd modd dy dynnu oddiwrth yr Hwn yr oeddyt un âg Ef, er hynny, yn

gweithredu gymmaint fel dyn, fel ag i fyned o'r neilldu i gael hamdden i weddio; er ein dysgu, y rhai nid ydym ddim amgen nâ meddyliau gwasgarog, ac ymderfysgiadau anwastad, i fyned o'r neilldu, pan y dymunwn lefaru wrth Dduw. Pa mor dda er ein lles i ti weddio? O Iesu, gweddiaist drosom ni, y rhai nid oes gennym ras ddigon i weddio drosom ein hunain; na haeddiant ddigon i gael ein derbyn pan weddiom. Trwy dy weddiau di, y rhai oeddynt berffaith a llwyr lwyddiannus, y mae ein herfyniadau gwael ac annheilwng ni yn cael bywyd a ffafr. Ac yn awr, pa mor ddiwyd y dylem ni fod mewn gweddiau, y rhai ydym ddiras, yn llawn o anghenion, tra yr oeddyt ti, yr hwn oeddit Dduw llawn o allu, yn gweddio am yr hyn a allesit ei orchymyn! Gweddiwn ni am i ti weddio: disgwyliwn gael atteb grasol i'n gweddiau, am i ti weddio drosom ni ar y ddaear, ac am dy fod yn awr yn eiriol drosom yn y nef.

Yr hwyr a ddaethai. Y disgyblion a disgwyliasant yn hir am eu Meistr gan fod yn anfoddlon syflyd o'r lle hebddo; eithr ei orchymyn sydd fwy nâ'r gwynt cadarnaf i lenwi eu hwyliau, ac yn awr aethant ymaith.

Ni pharodd eu disgwyliad i'r hwyr ymddangos mor hir iddynt hwy, ag y parodd defosiwn eu Hiachawdwr iddo ymddangos yn fyr iddo Ef.

Y mae Efe ar y mynydd, a hwythau ar y môr: etto, tra yr oedd yno yn gweddio ac yn derchafu ei lygaid at ei Dad, nis peidiodd a'u gosod ar ei ddisgyblion y rhai a deflid ar y tonnau. Nid oes derfyn i'r golygon holl-weledig hynny. Gwel Crist ar unwaith y nefoedd uchod, a chanol y môr—gogoniant ei Dad, a pherygl ei ddisgyblion. Beth bynnag a ymgynnyga i'w olwg, ni sylwa ar ddim megis gofid ei ddisgyblion. Pa faint mwy yr edrychi, yn awr, O Iesu, o uchder dy dderchafiad gogoneddus, arnom ni dy weision trallodedig, y rhai a deflir ar fôr aflonydd y byd hwn, gan gael ein curo â thonnau trallodus a bygythiol cystuddiau.

Rhagwelaist eu lludded a'u henbydrwydd cyn it' eu gollwng: gyrraist hwynt ymaith gyda'r bwriad iddynt gael eu taflu ar y môr. Tydi, yr hwn a allet rwystro ein gofidiau trwy dy allu, a'u hanfoni yn dy ddoethineb, fel y gellit ogoneddu dy drugaredd yn ein gwaredigaeth, a chadarnhau ein ffydd trwy yr hyn a ddilyn ein caledi.

Rhyfedd fel y cyd-cyferfydd pob peth i ofidio dy ddisgyblion

druain! Yr oedd y nos yn dywyll ac annghyssurus: eu Meistr yn absennol: y môr yn derfysglyd: y gwyntoedd yn uchel ac yn groes. Pe buasai eu Meistr gyda hwynt, buasent ddiogel, beth bynnag fyddai cynddaredd yr elfennau; pe buasai eu Meistr oddiwrthynt, etto, pe buasai'r môr yn llonydd, a'r gwynt yn deg, gallasent oddef eu taith: yn awr, yr amser, y môr, y gwynt, ac absennoldeb eu Meistr, a gydweithredasant er eu gwneuthur yn eithaf annedwydd. Weithiau, rhyngodd bodd i Ragluniaeth Duw felly drefnu pethau, fel na ymddangosai i'w weision rhagoraf y gobaith lleiaf: eithr gofid mor llwyr a phe buasai nef a daear yn ymuno i'w cyflawn gystuddio. O Iesu, pa fath nos farwol, pa dymhestl arswydus, pa ymadawiad rhyfeddol oedd hwnnw, pan lefaist dy hun allan yn chwerwder dy enaid poenedig, *Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?* Etto, yn yr holl ofidiau truenus hyn ni amcanna ein Duw grasol, eithr mwy o ogoniant iddo Ef a ninnau; gorfoledd ein ffydd, coron ein buddugoliaeth.

Rhaid mai mewn perygl a braw y treuliodd y disgyblion y nos hirffaith derfysglyd honno, fel rhai wedi eu rhoddi drosodd i wyntoedd a thonnau: ond ar y bedwerydd wylfa o'r nos, yn ol ymdreulio gan lafur ac ofnau, daeth gwaredigaeth. Nid oedd hanes am Grist ar eu mynediad i'r llong, ar gyfodiad y dymhestl, ar ddyfodiad yr hwyr; ond wedi cael eu curo dros y nos, nid yn gymmaint gan yr ystorm a'r tonnau, a chan eu meddyliau eu hunain, yn awr, ar y bedwaredd wylfa (yn agos i'r wawr) daeth Iesu attynt, ac o fwriad ni ddaeth yn gynt, fel y gallai brofi eu hamynedd; eu cynnefino â disgwyl wrth Ragluniaeth Duw yn eu trallodau; fel y byddai i ohiriad roddi grym i'w gweddiau, ac y prisient yn fwy eu gwaredigaeth. O Dduw, gweli'n dda weithredu fel hyn o hyd. Yr ydym yn ein môr, y gwynt a rua, y tonnau a ymgodant, y nos a'th absennoldeb a chwanegant at ein hannghysur, dy amser di a'r eiddo ninnau a osodwyd; hyd yma nid yw ond cyfnos gyda ni: os gallwn fod yn amyneddgar hyd y bedwaredd wylfa, deui yn ddilai i'n gwaredu. O, na lewygwn dan ein gofidiau: ond treuliwn allan ein tair gwylfa o drallod yn amyneddgar, a chyda gwroldeb sancteiddrwydd.

O Iesu, pan fyddo waethaf arnom, y mae dy adeg i gynnorthwyo: Deuaist o'r diwedd; ond felly, fel i'th ddyfodiad beri mwy ofn nâ llawenydd. Dy ddyfodiad oedd wyrthiol a brawychus.

Tydi, Dduw'r elfenau, a âi trwy'r awyr, a rodi ar y dyfroedd: Pa un ai bwriedit derfynu'r wyrth hon ar dy gorph neu ar y tonnau y sethraist arnynt: trwy ysgafnhau dy gorph fel na wnai argraph ar y dyfroedd, neu ynte galedu'r mor, fel i'r dyfroedd palmantedig roddi llwybr cadarn i'th draed i rodio arno, nid wyf yn penderfynu nac yn ymofyn: dy ddistawrwydd a'm gwna innau yn ddistaw: dy allu oedd wyrthiol yn y ddau: ac nis gwn pa un o'r ddau i addoli fwyaf.

Er hynny caniatta i mi ryfeddu mwy wrth dy fynediad heibio nag wrth dy ddyfodiad. I ba beth y deuaist ond i'w cyssuro? Paham ynte yr äet heibio iddynt megis pe na fwriedit ond eu dychrynu? Nis gallasai dy absennoldeb fod gymmaint trallod a'th fynediad heibio: gallasai achos digonol ymddangos am y blaenaf: ond nis gallasai'r olaf lai nag ymddangos fel gwirfoddol esgeulusdod. Ein trallod olaf sydd arferol o fod drymaf, megis, pan, ar ol ychydig ddefnynau o wlaw, yr ymdywallt yn eithaf annghérddol, a ninnau yn tybied fod yr hin ar gyfnewid i dawelwch.

O Iesu, nid ydym ar bob pryd i farnu am dy amcan wrth yr ymddangosiad: weithiau yr hyn a amceni fwyaf a ddangosi leiaf. Yn ein cystuddiau troi dy gefn arnom, ac a guddi dy wyneb rhagom, pan y teimli fwyaf oherwydd ein trallodion. Felly Jonathan a saethodd y saethau tu hwnt i Dafydd, pan y bwriadai hwynt atto. Felly Joseph a eilw am Benjamin i gael ei rwymo, tra yr oedd ei galon yn rhwym wrtho ef yn y serchogrwydd mwyaf. Felly y Fam dyner a gymmer arni fel yn barod i roddi ymaith ei phlentyn anynad, yr hwn a wasga yn anwyl yn ei mynwes. Os ai heibio in', Iesu, tra y byddom yn ymryson â'r dymhestl, gwyddom nad diffyg trugaredd ynot yw'r achos. Nis gelli ein hesgeuluso ni; O, na fydded i ninnau dy ddrwg-dybio dithau.

Pa wrthddrych a ddylai fod mor hyfryd yn ngolwg y disgyblion a'u Meistr: a hynny yn fwy oherwydd iddo amlygu ei allu dwyfol yn y rhodiad gwyrthiol hwn? Eithr, wele, yn y gwrthwyneb dychrynasant, nid gan ei ymddangosiad, ond y dull o hono. Goruwch-naturiol weithredoedd Duw, tra yr edrychwn arnynt â'n llygaid ein hunain, ydynt ddarostyngedig i gael eu camfarnu yn beryglus. Hyd yn nod pelydron yr haul, i'r rhai yr ydym dan rwymau am ein golwg, os edrychwn arnynt yn uniongyrchol, a'n dallant. Ddynion truain, yr ydym yn barod i annghoelio gwirioneddau, i redeg ymaith oddiwrth ein ham-

ddiffynfa, i ofni ein cyssuron, ag i beidio ag adnabod ein cyfeillion goreu.

A phaham y dychymygant fel hyn? *Tybient iddynt weled drychiolaeth.* Bod ysbrydion, da a drwg, wedi ymddangos fel hyn, sydd wirionedd a gredwyd erioed heb ddim anmheuaeth gan Baganiaid, Iuddewon, a Christionogion; er yn adeg dywyll coelgrefydd, yr oedd twyll lawer yn gymmysgedig â rhai gwirioneddau: dynion cyfrwys ac ysbrydion celwyddog a gydunent i dwyllo'r byd hygoel. Ond lle nid oedd dim gwirionedd, yr oedd dychryn lawer. Nis edrychid ar angelion da ond gyda braw: tybid y rhagarwyddai eu hymddangosiad angau: pa faint mwy y rhai drwg, y rhai, ïe, yn eu natur, ydynt niweidiol a difaol! Nis canfyddwn sarph neu lyffant heb fod ein gwaed fel yn troi yn ol, a ninnau yn cilio draw, er fod y cyfryw yn rhedeg oddiwrthym: pa faint mwy y saif ein gwallt, ac y cythryblir ein synwyrau wrth ganfod ysbryd, yr hwn, yn ei natur a'i ewyllys, sydd groes i ni, ac yn penderfynu ein drygu.

Ond goddefwch mai drychiolaeth oedd: paham yr ofnent? Pe buasent yn ystyried, canfyddent fod yr ysbrydion drwg yn bresennol, pan nas canfyddir, a niweidiol pan y maent yn anweledig bresennol. Nid yw eu bod yn weledig yn ychwanegu dim at eu malais a'u drygioni. A phe gallesid agoryd eu llygaid, canfyddasent, megis gwas Eliseus, *fwy gyda hwynt nac yn eu herbyn*—amddiffynfa ddiogel er anweledig o ysbrydion galluoccach, dan nodded Duw'r ysbrydion—fel y gallent yn eofn roddi hèr i holl alluoedd y tywyllwch. Ond nid oedd eu ffydd etto ond yn eu blaguryn: ac yr oedd ymddangosiad y gwrthddrych brawychus yn ddisymmwth, heb ganiattau iddynt amser i adgofio a sefydlu eu meddyliau.

O wendid ein hanian, pan o eisiau credu y'n dychrynir â gweledig ymddangosiad y gwrthwynebwyr hynny y proffeswn eu gwrthsefyll a'u gorchfygu yn feunyddiol, ac â'r rhai gwyddom fod amcan Duw wedi ein gosod yn eu herbyn mewn ymdrechiad parhaus! Ai nid y rhai hyn yw'r sawl a fwriasant allan gythreuliaid â'u gair? Ai nid ydynt o'r nifer a ddywedodd, *Feistr y mae hyd yn nod yr ysbrydion drwg yn ddarostyngedig i ni.* Etto yn awr, pan ganfyddant yr hyn a ddychymygant yn ysbryd, hwy a ofnant. Y fath rym sydd yn y llygad i fradychu'r galon! Tra yr oedd Goliath yn gymmysgedig â llu'r Philistiaid, gwersyllodd Israel yn ddiofn yn eu

herbyn: ond pan y rhodia'r cawr hwnnw wrtho ei hun rhwng y ddau lu, gan lenwi eu llygaid â'u anferth faintioli, rhedant ymaith gan ofn. Wele y mae i ni ryfel â llengoedd o ysbrydion aflan, ac ni chwynfanwn: ond rhodded un o honynt ryw arwydd gweledig o'i bresennoldeb, croch-waeddwn a dychrynwn, a chollwn ein pwyll.

Nid hynottach ein gwendid ni na'th drugaredd di, O Dduw, yn attal y gelynion ysbrydol hynny, rhag gwneuthur ymddangosiadau hyll-wedd o honynt eu hunain ger bron ein llygaid. Pe gallai'r ysbrydion uffernol hynny ymddangos fel, a phan, ac i bwy, y mynnent, diau mai nid llawer a berchenogent eu synwyrau a'u bywydau. Dy allu di a'th ddaioni i wael ddynolryw, a'u cadwant yn eu cadwynau yn nhywyllwch eu bodoliaeth ysbrydol eu hunain, fel y gallom eu gwrthsefyll a'u gorchfygu'n anweledig.

Ond, O, echrysloned yw cyflwr eneidiau gwrthodedig! Os gall dychymygol olwg o un o ysbrydion y tywyllwch ddychrynu calon y sawl a'r sydd rydd oddiwrth eu gallu, pa mor ddychrynllyd fydd byw byth yn eu golwg, ïe, dan boenydiadau miloedd llengoedd, miliynau o ddiefliaid! O, mor ynfyd yw pechaduriaid gwirfoddol, y rhai a redant lwyr eu pennau i'r fath ddamnedigaeth ofnadwy!

Yr oedd yn hen bryd i'n Gwaredwr lefaru. Rhwng y dymhestl a'r ymddangosiad yr oedd y disgyblion bron a myned o'u pwyll gan ofn. O, mor brydlon yw ei waredigaethau! Ni lefarai nes eu bod fel hyn mewn dychryn: a phan oeddynt ynddo, ni arosai yn ddistaw mwyach.

Os ei bresennoldeb oedd frawychus, ei air oedd gyssurlawn. *Cymmerwch gyssur, myfi ydyw.* Ië, ei air yn unig sydd raid gwneud ei bresennoldeb yn adnabyddus a diddanus. Yr oedd yn bresennol o'r blaen: camgymmerasant Ef, a dychrynasant: nid oes angen er codi eu calonau llewygus, ond, *myfi ydyw.* Cyssur digonol in' yn ein helbulon mwyaf yw cael sicrwydd o bresennoldeb Crist gyda ni. O Iesu, dywaid yn unig, *myfi yw*, a gwnaed drygau eu gwaethaf: nid oes raid it' ddywedyd mwy. Dy lais oedd ddigon o dystiolaeth: dy ddisgyblion oeddynt mor gynnefinol â thafod eu Meistr, fel, fod *myfi yw* yn gystal a chant o enwau. Tydi wyt Fugail da; nid ydym o'th braidd, os na adwaenwn di wrth dy lais, oddiwrth fil. Ië, y gair hwn yn unig sydd air mawr, iaith oruchel, *Myfi yw.* Yr un tafod

ag a ddywedodd wrth Moses, *YDWYF a'th ddanfonodd*, a ddywaid yn awr wrth y disgyblion, *Myfi ydyw;* Myfi, eich Arglwydd a'ch Meistr: Myfi, Llywydd y gwyntoedd a'r dyfroedd: Myfi, Penarglwydd nef a daear: Myfi, Duw'r ysbrydion. Bydded nefoedd a daear yn un llyfr, ac ysgrifennid ef drosto â thitlau, nis gallant ddatgan mwy na *Myfi yw*. O, air melus a phrydlon y Gwaredwr grasol, abl i lonyddu pob tymhestl, abl i adfywio pob calon. Dywaid hyn wrth fy enaid, a diogel fyddaf er gwaethaf uffern ei hun.

Nid cynt y dywedodd Iesu *Myfi*, nag yr atteba Petr, *Meistr*. Gall ei enwi Ef yn ddioed, yr hwn ni enwodd ei hun. Y mae pob awgrym fechan yn ddigon i ffydd. Gwel yr Eglwys ei Hanwylyd yn gystal trwy'r dellt a'r ffenestr agored.

Pa un o ddisgyblion Crist, ar bob achos, a roddodd dystiolaethau mor gadarn o'i ffydd a'i gariad at ei Feistr a Phetr? Y lleill oeddynt ddistaw tra yr addefai ef ei Feistr, ac a erfyniai am ddyfodiad atto ar y llwybr dyfrllyd hwnnw.

Er hynny, pa fath gymmysgedd ryfedd o ffydd a gwan hyder sydd yma! Ffydd a ddywedodd, *Arglwydd;* gwan hyder, yn ol deongliad rhai, a ddywedodd, *Os Tydi yw*. Ffydd a ddywedodd, *Arch i mi ddyfod attat ar y dyfroedd*, gan arwyddo y gallai ei air alluogi yn gystal a gorchymyn. Ffydd a feiddiodd ddisgyn i lawr ar y palmant dyfrllyd hwnnw: gwan hyder a ofnodd pan gododd gwynt nerthol. Trwy ffydd y rhodiodd; trwy wan hyder y suddodd. Ffydd a ddywedodd, *Arglwydd, cadw fi*.

O, 'r anmherffeithrwydd a berthyna i'r sant rhagoraf ar y ddaear; y mae mor belled oddiwrth berffaith ffydd a pherffaith anffyddiaeth! Os oes daear bur yn y canol, y mae'r oll eddiarni yn gymmysgedig âg elfennau eraill: yn y gwrthwyneb, perffaith ras sydd yn yr ysbrydion a ogoneddir: pob peth isod a gymmysgir â gwendid a llygredd. Nid yw ein goreu ond fel yr awyr; yr hwn ni oleuwyd, ac nis gwelir byth ei gyflawn oleuo, ar unwaith: ac nid oes yn un bro stad ddidor o oleuni. Bydd unwaith yn hanner dydd arnom, pan na fydd ond disglaer belydron goleuni: yr awrhon nid yw ond megis y wawr, pan y mae'n anhawdd dywedyd pa un sydd gryfaf, ai'r goleuni a'r tywyllwch. Yr ydym yn awr yn deg fel y lleuad, yr hon y mae rhai brychau arni yn ei phrydferthwch mwyaf; cawn fod yn bur fel yr haul, wyneb yr hwn sydd oll yn ddisglaer a gogoneddus. Canys er yr amser y gosododd Adda ei ddant yn yr

afal, hyd y llenwir ein genau â phridd y ddaear, ni fu, ac nis gall fod amgen gyda ni. Pell oddiwrthym fyddo ymsefydlu ar sorod ein hanghrediniaeth, a digaloni oherwydd teimlad o'n diffygion a'n anmherffeithrwydd. *Yr ydym yn credu; Arglwydd, cymmorth ein hangrediniaeth.*

Tra y canfyddaf rai yn haeru fod arch Petr yn annghyfreithlon, ac eraill yn beio ar ei *os tydi yw*, bydded im' gael fy llenwi â syndod wrth ffydd, awyddfryd, a mawr wroldeb y prif Apostol hwn, a feiddiodd ddywedyd, *arch i mi ddyfod attat ar y dyfroedd.* Gallasai ddychymygu y gallasai'r ysbryd a dybiai fod yno efelychu llais ei Feistr yn gystal a'i berson. Gallasai ofni y dymhestl ruadus, y tonnau bygythiol, anian feddwl yr elfen ddifäol honno: ond, fel un yn dibrisio hyn oll, cyfryw oedd ei ddymuniad i fod yn agos at ei Fesstr, fel y dywedodd, *arch i mi ddyfod attat ar y dyfroedd.* Nid yw yn dywedyd, "Tyred attaf fi." Hyn fuasai weithred Crist, ac nid yr eiddo ef: ni ddywaid ychwaith, "Gad i mi ddyfod attat ti;" buasai hyn ei weithred ef, ac nid yr eiddo Crist: ac ni ddywaid, "Gweddia am i mi ddyfod attat ti," megis pe buasai'r weithred hon allan o'u gallu eill dau: ond, *arch i mi ddyfod attat ti.* Gan y gelli orchymyn y tonnau a minnau; fi, i fod mor ysgafn fel na wnelwyf ôl ar wyneb tyner y don; neu'r tonnau i fod mor gelyd, fel na roddant le dan fy mhwys. "Pob peth a ufuddhant i ti, arch i mi ddyfod attat ar y dyfroedd."

Rhaid bod hyder mawr cyn ewyllysio hyn, hyder mwy i'w wneuthur. Nid cynt y dywedodd ein Gwaredwr *Tyred*, nad yw'n gosod ei droed ar y môr aflonydd, heb ofni na meddalwch na gerwindra y daith. Yr ydym yn arferol o ryfeddu wrth eofndra'r gwr hwnnw a fentrodd gyntaf i'r môr mewn llestr egwan, er fod ganddo nerth astyllen dderwen i'w ddiogelu: pa mor eofn ydoedd ef, yr hwn a feiddiodd osod ei droed ar y môr noeth, gan symmud ei gamrau! Gwych y gwyddai Petr y gallasai Ef a'i gorchymynodd ei gynnal; gan hynny, erfynia am gael ei orchymyn, a hydera am gael ei gynnal. Gwir ffydd a ymrysona âg anhawsderau, ac nis dychrynir gan yr hyn a dybir yn gyffredinol ei fod yn anmhossibl. Ni ddesgrifir ei rhinwedd, trwy grybwyll am wellt yn cael ei wasgaru, neu dwmpathau gwâdd yn cael eu taflu i fynu, eithr am fynyddoedd yn cael eu symmud. Megis blaenor dewr, chwenycha'r anrhydedd a dardd o berygl, a'r ymgyrch blaenaf: tra y rhewa'r galon gnawdol

mewn braw syrthlyd ac anwraidd, gan edrych yn unig am ddiogelwch ac esmwythder.

Petr a ddeisyf; Iesu a orchymyna. Gwna wyrthiau'n hytrach na siomi cais y ffyddlon. Pa mor hawdd a fuasai i'r Iesu droi heibio gais dieithr y dysgybl gwrol hwn, trwy ddywedyd, "Nid yw'r hyn a all fy Hollalluogrwydd ei wneuthur, yn rheol i'th wendid di. Nid yw amgen na rhyfyg mewn dyn gwael obeithio efelychu gwyrthiau Duw a dyn. Aros yn y llong a rhyfedda, gan ymfoddloni yn hyn, fod it' Feistr, i'r hwn y mae'r tir a'r dwfr yn gyffelyb." Etto, nis clywaf adtalfa, eithr galwad. *Tyred.* Buan y bwrir i lawr yr hyn a geisir trwy falchder gan Fam y Zebedeaid. Cais dialedd ni lwydda'n rhagorach yn ngenau dau ddisgybl tanllyd; eithr cais ffydd, er yn uchel, ac mewn ymddangosiad yn anaddas in', nis gall Iesu ei naccau. Pa faint lai, O Waredwr, y naccai y pethau hynny a'r sydd yn llwyr angenrheidiol i'n Cristionogrwydd. Ni ddywedodd dyn erioed, "Arch i mi ddyfod attat yn ffordd dy orchymynion," yr hwn ni orchymynaist, ac a alluogaist i ddyfod.

Nid yw gwir ffydd yn aros mewn dymuniadau helaeth a da, eithr gweithreda'n gyfattebol. Nid yw Petr yn deisyf myned, ac, etto'n sefyll yn llonydd: eithr ei droed a atteba i'w dafod, ac yn ddiattreg y neidia ar y dyfroedd. Deisyf ac eistedd yn llonydd, a wna ysbryd marwaidd a dioglyd. Chwenychiadau ffurfiol, ïe, deisyfu pethau daionus, tra nad elom allan o long ein natur i rodio at Grist, nid ydynt ond egwan gynhyrfiadau rhagrith. Bydd yn hir ddigon cyn i awelon dymuniadau da ein dwyn i'n porthladd. *Esmwythdra y ffol a'i difetha.* O Iesu, y mae gennym dy orchymyn i ddyfod allan o long ein llygredd cynwynol attat ti: na fydded i unrhyw fôr na thymestl o brofedigaeth ein cadw draw. Nis gall un ffordd lai na bod yn ddiogel tra yr wyt ti y terfyn o honi.

Wele Petr yn rhodio ar y tonnau: dwy law a'i cynnaliant: llaw gallu Grist, a llaw ei ffydd ei hun; nis gwnai un o honynt y tro ei hun. Llaw gallu Crist a afaelodd ynddo; llaw ei ffydd yntau a afaelodd yn ngallu Crist yn ei orchymyn. Pe na fuasai yn alluog, buasai ei ffydd yn ofer: pe na hyderasai ei ffydd yn rymus ar Grist, ni fuasai ei allu yn effeithiol er ei waredigaeth. Tra yr ydym yma yn y byd, rhodiwn ar y dyfroedd: etto, yr un llaw a'n deil i fynu. Os gollwng Ef ei afael, yna boddwn. Os nyni a ollyngwn ein gafael ynddo Ef, yna

suddwn a gwaeddwn allan fel Petr yma, yr hwn, *pan welodd efe y gwynt yn gryf, a ofnodd, a phan ddechreuodd suddo, efe a lefodd, gan ddywedyd, Arglwydd, cadw fi.*

Pan ddymunodd am arch i rodio at Grist, yr oedd yn meddwl am y dyfroedd, *Arch i mi ddyfod attat ti ar y dyfroedd:* ni feddyliodd am y gwyntoedd a ymgynddeiriogant ar y dyfroedd hynny; neu, os meddyliodd am awel rymmus, etto, ni feddyliodd lawer am dani. Y drygau hynny a ddisgwyliwn, ni effeithiant gymmaint arnom a'r sawl a ddel arnom yn annisgwyliadwy. Morwr gwybodus a wel dòn beryglus yn dyfod atto, ac a'i tyr, ac a á drosti yn hawdd: y diofal a orchuddir ganddi. O Iesu, bydded fy mrys i ddyfod attat yn awyddus, eithr nid yn ddifeddwl; cyn rhoddi fy nhroed allan o'r llong, bydded im' ragweled y dymhestl: pan feddyliwyf am y gwaethaf, nis gallaf fethu nac achwyn.

Mor gynted ag y dechreuodd ofni, dechreuodd suddo. Tra y credodd, yr oedd y môr yn bres: pan unwaith y dechreuodd wanffyddio, y tonnau hynny oeddynt ddwfr. Nisgall suddo tra yn hyderu yn ngallu ei Feistr: nis gall ond suddo, pan yr anmheua Ef. Ein ffydd a bar lwyddiant yn gystal a gwroldeb ac eofndra: ein hanghrediniaeth a'n darostwng i bob peryglon a drygau.

Anystyriaeth Petr oedd peidio a rhagweled: ei wendid oedd ofni. Effaith ei ofn oedd suddo. Ei ffydd oedd yr hyn a adgofiodd ei hun, ac a allodd ddywedyd wrth suddo, er gwaethaf annghrediniaeth, *Arglwydd, achub fi.* Nis gallodd ei droed suddo yn gyflymach nag y gweddiodd ei galon. Gwyddai pwy a allasai ei gynnal rhag suddo, a'i waredu pan yn suddedig; am hynny, dywaid, *Arglwydd, achub fi.*

Arwydd ac effaith nodedig gwir ffydd yw anfon allan ddymuniadau duwiol mewn dirfawr gyfyngderau, ac ar adenydd y meddyliau blaenaf ehedeg yn uniongyrchol at orsedd gras am gynhaliaeth. Gall dyn diofal ac annuwiol, trwy hir fyfyriad, gael ei arwain trwy foddion da i dymmerau da, ond dengys dyn yr hyn yw yn ddisymwyth: beth bynnag sydd uchaf yn y galon a ddaw allan o'r geneu. Da yw ystyried yn mha agwedd y mae pethau annisgwyliadwy yn ein caffael: trais yw pob peth arall, hyn sydd yn naturiol. *O helaethrwydd y galon y llefara'r geneu.* O Iesu, nis gall un drwg fod yn gyflymach na'm meddwl i: caiff ymsefydlu arnat ti, cyn fy nàla gan y drwg cyflymaf: o leiaf, os na ragflaenaf ddrygau, goddiweddaf hwynt.

Crist ei Arglwydd oedd yr hwn a ddigiasai Petr trwy ei anmheuaeth. Crist ei Arglwydd oedd yr hwn yr erfyniodd waredigaeth ganddo. Nid yw ei wendid yn ei wangaloni rhag ffoi atto am ddiogelwch. O Dduw, yn ol in' suddo i'th anfoddlonrwydd, i ba le yr awn am gynnorthwy ond attat ti, yr hwn a ddigiasom? Yn dy erbyn di yn unig y mae ein pechod, ynot ti yn unig y mae ein help. Yn ofer y cyduna galluoedd nefoedd a daear i'n cynnorthwyo, os atteli di dy help oddiwrthym. Megis ag y digiwn dy gyfiawnder yn feunyddiol trwy ein pechodau, bydded i ni yn barhaus ymorphwys ar dy drugaredd trwy rym ein ffydd. *Arglwydd, achub fi.*

Ceisir a derbynir ar unwaith drugaredd Crist. *Yn y man yr estynodd yr Iesu ei law, ac a ymaflodd ynddo.* Nid yw'n dywedyd, "Pe hyderasit ynof cadwaswn di yn ddiogel; ond am i ti ddirmygu fy ngallu a'm gofal, trwy anhyder anwrol, sudda a bodder di;" eithr yn hytrach, fel un yn tosturio wrth wendid ei ddisgybl gwan, estyna ei law i'w gynnorthwyo. Estynwyd y llaw honno allan er helpu llawer un na ofynasai am dani: nis gofynodd neb erioed am dani heb iddi fod yn estynedig ar ei ran. Gyda pha frys a hyder y dylem ffoi at yr haelioni pen-arglwyddiaethol hwnnw, oddiwrth yr hwn nid aeth erfynion erioed yn waglaw!

Rhoddodd Crist ei law i Petr; ond rhoddodd hefyd iddo gerydd, *Tydi o ychydig ffydd, paham y petrusaist?* Megis yr oedd yn gymmysgedig â ffydd Petr, anhyder; felly nid oedd cynnorthwy Crist heb fod cerydd yn gymmysgedig âg ef. Cerydd yn yr hwn y beiid arno, ac yr ymresymmid âg ef: ei ffydd a feiwyd arni; ei betrusder a ymresymmid âg ef: y ddau oeddynt ddwys a phwysig.

Po mwyaf rhagorol a defnyddiol yw'r gras o ffydd, mwyaf yw'r gwarth o fod hebddi: a pho mwyaf oedd yr achos oedd yma am hyder, mwyaf beius oedd yr anmheuaeth. Yn awr, yr oedd i Betr ddau achos am ei hyder—gorchymyn Crist, a'i allu: un yn ei waith yn gorchymyn iddo ddyfod, a'r llall yn ei waith yn ei gynnal tra y deuai. Ei ammau Ef, ewyllys yr hwn y wyddai, a gallu'r hwn y deimlai, oedd dra beius yn wir.

Pan welais Petr yn cerdded ar y dyfroedd, nis medrais lai na rhyfeddu wrth gryfder ei ffydd ef: ac er hynny, cyn symmud rhagddo amryw gamrau, Barnwr y galon a'i cyhudda o wendid ffydd. Nid yw ein mynyddoedd ni eithr brychau i Dduw. A

feiddiasai fy nghalon wneud yr hyn a wnaeth Petr? A feiddiaswn osod fy nhroed lle y gosododd ef ei droed? O Iesu, os cefaist achos i feio ar wendid a thlodi ei ffydd ef, pa beth a ddywedasit am yr eiddo fi? Camgymmerant hwy y rhai a dybiant y boddlona pob peth dydi. Edrychi am gadernid a grym yn y grasau hynny a addefi yn dy ddisgyblion goreu, yn gystal a gwirionedd.

Y camrau cyntaf oeddynt hyderus: y nesaf oeddynt âg ofn yn nglyn â hwy. O, mor fuan y newidir ein tymmerau a'n serchiadau! Un cam a newidia ein cyflwr ysbrydol. Pa afael sydd ar greaduriaid mor anwastad, os gadewir ni yn y mesur lleiaf i ni ein hunain? Megis mai gwlad troedigaeth yw'r byd isod hwn, yn yr hwn yr ydym yn byw: felly ninnau, y rhanau bywydol o hono, ydym agored i gyfnewidiad parhaus. Y seintiau bendigedig a'r angelion fry, sydd wedi eu sefydlu mewn daioni. Tra yr arosom yma, nis gellir disgwyl dianwadalwch ynom ond mewn cyfnewidiad.

Er cymmaint yw cariad Crist at Petr, etto, cerydda ef. Ffrwyth ei ffafr a'i drugaredd yw ein bod yn diangc rhag barn, nid rhag cerydd. Pe nas cawsai Petr ffafr gan ei Feistr, canniattesid iddo suddo mewn distawrwydd: yn awr, cedwir ef gyda cherydd. Gall fod cariad mwy mewn gwg na gwên *Y neb y mae yn ei garu, y mae yn ei geryddu.* Beth yw cerydd ond cosp mewn geiriau. *Cerydda fi, Arglwydd, etto mewn barn, nid yn dy lid. Cerydded y* Duw *cyfiawn* fi, pan dramgwyddwyf, â'i rasol geryddon: *byddant yn olew gwerthfawr, y rhai ni thorrant fy mhen.*

MATTHEW XIV.

IACHAU'R DIFER-LIF GWAED.

Bu amser, O Iesu, pan gynnygodd gwraig deilwng gyffwrdd â thi, a hi a luddiwyd: yn awr, un waelach a gyffwrdd â thi, a thi a'i cymmeradwyi, ac a'i calonogi. Er hynny, am fod gwahaniaeth nid bychan yn dy gorph, yr hwn a deimlid (yn awr yn farwol a theimladwy, yn hytrach nag anfarwol ac annheimladwy) felly yr oedd yn y cyffyrddwyr hyn; hon yn estrones, y llall yn gyfeilles—hon yn anenwog, y llall yn hynodol.

Yr unrhyw weithrediadau a amrywiant gydag amser ac amgylchiadau eraill; ac yn ganlynol, cânt eu gwrthod neu eu cymmeradwyo.

Diammau fod gennyt yn hyn olwg neillduol at ffydd Jairus, i dŷ'r hwn yr oeddyt yn awr yn myned. Nid oedd i'r gwr da hwnnw ond un ferch, yr hon oedd glaf ar ddechreuad ei gais; a chyn ei ddiwedd, yn gorwedd yn farw. Tra yr oedd bywyd ynddi, byw oedd ei obaith yntau: ei marwolaeth a'i digalonodd. Gwaith mawr a amcenit ei wneud erddo: gair mawr a ddywedaist wrtho. *Nac ofna; cred yn unig, a hi a iacheir.* Er cyflawni hyn, adfywi un ar yml marw, trwy gyffyrddiad ag yml dy wisg. Pa fodd y meddyliodd Jairus yn awr; "Efe, yr hwn, trwy rinwedd ei wisg, a all dynnu'r wraig hon o balfau angau, yr hon sydd yn marw er's deuddeg mlynedd; a all mor hawdd, trwy ei air, dynnu fy merch, yr hon sydd wedi byw ddeuddeng mlynedd, allan o safn angau, yr hwn sydd newydd afaelu ynddi." Addas oedd i'r Pendefig duwiol gael ei godi i fynu â'r onsel hon o'th ddwyfol allu, yr hwn y daethai i'w geisio.

Er achub amser, iacheaist wrth fyned. Ni erys yr haul yn llonydd, i gyfrannu ei rinweddau, ond gwasgara hwynt yn ei symmudiad cyffredinol. Pa fodd y tebygolwn i ti, os nad yw ein dwylaw yn gynnefin â daioni. Ein bywyd a â heibio gyda'n hamser. Collwn yr hyn ni wnawn iawn ddefnydd o hono.

Yr oedd ar y wraig ddifer-lif gwaed, afiechyd, yr hwn oedd mor druenus ag oedd waradwyddus, ac yn anmhurdeb deddfol yn gystal a gwendid naturiol.

Amser a gynnyddodd ei dolur; dros ddeuddeng mlynedd hirfaith y buodd yn nychu dan yr afiechyd gofidus hwn. Heblaw'r meithder rhaid fod afiechyd yn cryfhau trwy barhad: a po hwyaf y gofidia ni, mwyaf oll y gwanha natur ac y cadarnha ei hun. Felly y mae yn yr enaid; felly yn y wladwriaeth: pethau drwg, y rhai ydynt afiechyd y ddau, pan gryfhaont, a blediant yn galed am breswylio a llywio yn ddiattalfa.

Ychwaneg etto, er gwneuthur y peth yn waeth, yr oedd tlodi, afiechyd arall, yn nglyn a'i chlefyd. *Hi a dreuliasai ar physygwyr ei holl fywyd.* Tra yr oedd ganddi yr hyn a'i cyssurai—yr hyn a'i galluogai i gael rhai i weinyddu yn dda iddi—ymborth meithrinol, a'r cynnaliaeth yr oedd ei llesgedd yn ei

ofyn, yr oedd ei thrallod i ryw fesur yn cael ei larieiddio: ond yn awr, angau a ddechreua wasgu arni, yn gystal a'i chlefyd, gan dueddu i'w gwneuthur yn hollol anhappus.

Etto, pe cawsai esmwythder trwy ymadael â'i sylwedd, buasai ei chwyn yn llai. Pe gallasai'r Physygwyr roddi iddi, os nid iechyd, etto, ryddhad oddiwrth boen, ni fuasai wedi camddefnyddio ei meddiannau; ond yn awr *nis gallai gael gan neb ei hiachau.* Rhoddasant iddi lawer o bethau anhyfryd i'w yfed, a llawer o dorriadau poenfawr a wnaethant arni: y feddyginiaeth oedd gymmaint ei harteithiau a'r clefyd.

Etto, beth bynnag a fuasai'r draul a'r boen, pe gallasai gael heddwch trwy hyn, cyfrifasai ei hun yn ddedwydd: ni fuasai'r holl fyd yn gyfwerth am hyn. Ond, och! ei meddiannau oeddynt waeth, ei chlefyd ddim gwell: ei harian a wasgarwyd, ond nid ei hafiechyd. Nis gallasai celfyddyd roddi iddi waredigaeth na gobaith. Byddai'n niweidiol beio ar y gwybodaeth rhagorol hwnnw, am nad yw yn llwyddo bob amser. Er gwaethaf pob cyfferi iachaol, rhaid i ddynion, yn eu hamserau, glafychu a marw. Nis gallasai, hyd yn nod, doniau gwyrthiol i iachau, gadw'r sawl a'u meddiannent rhag afiechyd a marwolaeth.

Buasai'n drueni pe na fuasai'r wraig hon fel hyn yn glaf: natur, parhad, traul, poen, anfeddyginiaethrwydd ei chlefyd a'i hanfonant at Grist, ac a gynhyrfant Grist i'w hiachau. Ein dwys ofidiau a'n gyrrant at ein Gwaredwr, a'i gariad a bar iddo fod yn fwyaf presennol a chynnaliol, pan fo ingaf arnom. Pan gollom bob help a gobaith, addasaf oll ydym i'w waredigaeth Ef. Nid ydym un amser yn agosach at gymmorth, na phan na fyddo gennym obaith am dano. Nid oes ofn na pherygl eithr yn ein hannheimladrwydd.

Y wraig hon oedd estrones i Grist. Tebygol na chanfyddodd Ef erioed. Y sôn am ei wyrthiau a genhedlasai y fath hyder yn ei drugaredd a'i allu, fel y dywedodd ynddi ei hun, *Os caf yn unig gyffwrdd â'i wisg Ef, iach fyddaf.* Y gwarth a berthynai i'w chlefyd, a'i hattaliai rhag defnyddio geiriau. Pe gwybuasid beth oedd ei chlefyd, buasai pawb yn cilio draw, a rhoisid hi o'r neilldu yn falchus gan yr edrychwyr: megis yn ddiau, lle yr oedd yn adnabyddus, yr oedd oherwydd y gyfraith yn gorfod byw ar ei phen ei hun: yn awr cuddia ei gofid, ei dymuniad, a'i ffydd: a llefara yn unig, lle y gall fod yn eofn, ynddi ei hun, *Os caf yn unig, &c.*

Nid wyf yn ymorol am ddirgeloedd yn rhinwedd ymyl y wisg, mwy na'r wisg ei hun. Gorchymynasai Duw yn wir i Israel gael eu nodi, nid yn unig yn eu crwyn, eithr yn eu gwisgoedd. Yr edau a'r sidan-blethau ar ymylau eu gwisgoedd oeddynt goffawyr sanctaidd o'u dyledswyddau, ac o gyfraith Duw. Ond nid wyf yn ammau nac yn credu ei bod, oherwydd hyn, yn disgwyl derbyn rhinwedd mwy oddiwrth gyffwrdd âg ymyl y wisg na'r wisg ei hun. Y sefyllfa nid yr arwyddiad a olygai: nid y rhan oreu ond y bellaf. Tebygol iawn, os oedd rhinwedd yn y wisg, po agosaf i'r corph, ei fod yn mwyhau. Wele yma ynte glod ffydd y wraig hon, am yr addawsai iddi ei hun waredigaeth trwy gyffwrdd a'r ymyl mwyaf allanol. Pwy bynnag a ddisgwylia dderbyn bendith oddiwrth Grist, rhaid iddo ddyfod atto mewn ffydd: hon yn unig a'n galluoga i dderbyn ei ffafr. Satan, cyffredin ddynwaredwr yr Hollalluog, a'i efelycha yn hyn hefyd: Ei holl swyn sydd aneffeithiol heb ffydd y defnyddiwr neu'r derbyniwr.

Y mae diwedd pob peth, tymmorol ac ysbrydol, yn dibynu ar ein ffydd. Pwy a roddai blanhigyn neu hedyn yn y ddaear, pe na chredasai y meithrinid yn y fynwes fwynaidd honno? Pa farsiandwr a roddai ei hun ar astyllen modfedd o dew, pe na chredai y cadwai'r cyfryw ef yn ffyddlon? Pwy fasnachai, a deithiai, a ryfelai, a briodai, pe na chredai y llwyddai yn y cyfryw? Pa leshad a ddisgwyliwn oddiwrth annogaethau Dwyfol, os na chredwn yr adeiladant ni?—oddiwrth wledd Sacramentaidd, bwyd angelion, os na chredwn y meithrina ein heneidiau?—oddiwrth ein gweddiau, os na chredwn y dygant i lawr feniditbion arnom? O mor wàg a diles ein gwasanaeth, oni ddywedwn, "Boed i mi yfed ond un diferyn o'r dwfr melusber nefol hwnnw; boed i mi brofi ond briwsionyn o fara'r bywyd; boed i mi glywed ond un gair o enau Crist; boed i mi anfon i fynu sanctaidd ddymuniad ond mewn un erfyniad neu ochenaid at Dduw, a iach fyddaf."

Gwnaeth fel y bwriadodd. Cyffyrddodd, ond *daeth o'r tu cefn* i wneuthur felly: naill ai o ostyngeiddrwydd, neu o ddymuniad i fod yn ddirgel, fel yn dymuno lledratta meddyginiaeth heb neb yn ei gweled.

Iuddewes ydoedd, am hynny gwyddai nad oedd ei chyffyrddiad wellna halogiad; megis yr eiddo hi, ond nid yn halogiad iddo Ef: canys, ar un llaw, nid yw angenrheidrwydd dan unrhyw

ddeddfbennodol; ar y llawarall, nid oedd yn alluadwy halogi Mab Duw. Gallant hwy gael eu halogi trwy gyffyrddiad, y rhai nis gallant feddyginiaethu trwy gyffyrddiad. Efe nis cynnwysir yn y gyfraith, yr hwn sydd uwch nâ hi. Beth bynnag yw'n haflendid, gall Ef ein puro: nis gallwn ei wneud Ef yn anmhur. O Iesu, mae fy enaid yn afiach ac aflan ddigon gan anmhurdeb ysbrydol pechod: boed i mi, â llaw ffydd, afaelu ond yn ymyl dy wisg, (dy gyfiawnder yw'th wisg) a byddaf iach a sanctaidd.

Pwy allai feddwl na allai dyn ledwadio dysgled o ddwfr o'r môr, heb ganfod ei heisiau? Y dwfr hwnnw, er yn llawer, sydd feidrol: y mae'r defnynau hynny dan rif: y gelfyddyd honno a rifodd pa sawl tywodyn a wnai i fynu'r byd, a allai yn rhwyddach gyfrif y dafnau a wnaent i fynu'r cefnfor: tra y mae trugareddau Duw yn anfeidrol a thu hwnt i bob gallu i'w cyfrif, ac etto'r wraig wylaidd hon nis gallasai ledratta un dafn o drugaredd o'r mor diderfyn diwaelod hwn o haelioni. Dwyfol, heb eideimlo, ac i'r cwestiwn gael ei roddi, *Pwy gyffyrddodd â mi.*

Pwy all yn awr alw ei hun yn ŵr tlawd, yr hwn a all gyfrif ei feddiannau, tra y gwna y Duw hwnnw sy'n gyfoethog mewn trugaredd felly? Gŵyr nifer ei holl fendithion, a cheidw gyfrif o'n talsgrifau ninnau. "Rhoddwyd hyn a hyn o anrhydedd i'r dyn hwn: hyn a hyn o gyfoeth i hwn accw: hyn a hyn o wybodaeth i hwn: hyn a hyn o nerth i hwn accw." Pa ofal a chynnildeb a ddylem eu defnyddio mewn perthynas i ddoniau Duw, gan ei fod yn cadw cyfrif o honynt oll! Hyd yn nod y gwas dihiraf yn yr Efengyl a addefodd ei dalentau, er na iawn ddefnyddiodd hwynt. Gwaeth ydym na'r gwaethaf, os nid adwaenwn hwynt, neu os cuddiwn, ac yr annghofiwn hwynt.

Pwy all yn awr lai nag atteb gyda'r disgyblion, "Pwy a gyffyrddodd â thi, Arglwydd? y dorf. A ydwyt yn holi am un, pan y'th wasger gan lawer? A ydwyt yn gofyn yn nghanol tyrfa, *Pwy a gyffyrddodd â mi?*

"Ond, *rhyw un a gyffyrddodd â mi.* Pawb a'm gwasgasant: ond cyffyrddodd un â mi. Pa mor debyg bynnag i annghysondeb y swnia, y rhai a'm gwasgasant, ni chyffyrddasant â mi: hi yn unig a gyffyrddodd â mi, yr hon ni'm gwasgodd, ïe, yr hon nis cyffyrddodd â mi." Felly, O Iesu, ereill a gyffyrddodd â'th gorph â'r eiddynt eu hunain; cyffyrddodd hi â'th ymyl à'i llaw, dy Ddwyfol allu â'i henaid.

Y ddwy ran (corphorol ac ysbrydol) o'r rhai yr ŷm yn gymmysgedig, a gyfrannogant mewn rhyw ddull o'u gilydd. Yr enaid yw'r dyn, ac a feddianna y rhanau hynny, synwyrau, cyflawniadau, y rhai a honnir gan y corph. Y mae i'r rhan ysbrydol law a chyffyrddiad: trwy law ffydd y mae'r enaid yn cyffwrdd; ïe, hon yn unig ydyw, ac a rydd ar waith, holl synwyrau ysbrydol y rhan annefnyddiol Ddwyfol honno: hon sy'n gweled, clywed, yn archwaethu, yn cyffwrdd â Duw, ac hebddi ni wna'r enaid un o'r pethau hyn.

Yr holl dorf yn awr a wasgai Grist: ni chyfrifai hynny yn gyffyrddiad, am fod ffydd yn absennol: hi yn unig a gyffyrddodd âg Ef, yr hon a gredai y cai fendith trwy hynny. Arferiad allanol nid yw o werth gan Dduw: hynny yn unig a wneir, yr hyn a wneir gan yr enaid. Nid gwiw gobeithio am i rinwedd ddyfod allan o Grist attom ni, os nad oes dymuniadau calonog yn myned allan o honom ni atto Ef. Efe, yr hwn sydd ysbrydol, a graffa ar agwedd y rhan honno sy'n debyg iddo ei hun: megis y mae'r corph yn farw hebddo; felly heb ei weithrediad nid yw cyflawniadau'r corph ond celaneddau meirwon.

Pa achos oedd gan Grist i *sôn* am y cyffyrddiad hwn? *Rhyw un a gyffyrddodd â mi.* Gwadai'r dorf ar un llaw fod cyffyrddiad wedi cymmeryd lle. Petr ar y llaw arall a haerai fod y dyrfa yn gwneud mwy na chyffwrdd âg Ef: rhwng y ddau, Efe, yr hwn a'i teimlodd ef, a all ddywedyd, *Rhyw un a gyffyrddodd â mi:* nid *pawb*, yn ol dywediad Petr: nid *neb* yn ol eiddo'r bobloedd: eithr *rhyw un.* Pa fodd yr ymddengys, ynte, O Waredwr, i ryw un gyffwrdd â thi? *Canys mi a wn fyned rhinwedd allan o honof.* Yr effaith sydd brawf o'r weithred: rhinwedd yn myned allan a ddatguddia'r cyffyrddiad. Y ddau hyn ydynt yr un ynot ti: nis gall rhinwedd fyned allan o honot eithr trwy gyffwrdd â thi, ac nis gellir gwneud hynny heb i rinwedd darddu o honot. Yr hyn sydd reol yn natur, "fod pob gweithredwr yn gweithredu trwy gyffyrddiad," sydd felly mewn pethau ysbrydol hefyd. Yna, O Dduw, y gweithi ar ein heneidiau, pan gyffyrddi â'n calonau â'th ysbryd: yna y gweithiwn yn ol arnat ti, pan gyffyrddwn â thi â llaw ein ffydd a'n hyder: ac yn y ddau hyn â rhinwedd allan o honot attom ni: etto yn y cyfryw fodd fel nad yw lai ynot ti. Mewn pob tarddiadau corphorol, galluoedd y rhai nid ydynt ond terfynol, rhaid, po mwyaf a red allan, mai lleiaf sy'n aros yn ol. Ond fel y mae

yn yr haul, yr hwn a rydd i ni oleuni, er hynny nis cyll ddim disgleirdeb, yr hwn ni leiheir yn y mesur lleiaf trwy anfoniad allan dibaid o belydron goleuol: llawer mwy y mae gyda thi, Dad y goleuni.

Nis gallasai rhinwedd fyned allan o honot yn ddiarwybod i ti, ac heb i ti ei anfon allan. Ac nid mewn gwrgnachrwydd ychwaith neu anfoddlonrwydd y dywedaist, *Aeth rhinwedd allan o honof.* Nis gallasai unpeth dy foddhau gymmaint a theimlo rhinwedd yn cael ei dynnu allan o honot trwy ffydd y derbyniwr. Natur a chlod yr hyn sydd dda, yw ei fod yn cyfrannu. Byddai pob un yn haelionus â'r ychydig sydd ganddo, oddieithr ei fod yn ofni y lleiheid ef trwy roddi. Nis gelli di, yr hwn a wyddost fod dy ystôr yn annherfynol, fel nad yw cyfrannu yn ei leihau ond dy ogoneddu di, lai na bod barottach i roddi na ni i dderbyn. Os cymmerwn ddafn o ddwfr o'r mor, neu un tywodyn o'i làn, y mae o hynny, er nad ellir ei ganfod, yn llai: ond pe gallem dderbyn bydoedd o rinwedd a bendith o'r llaw haelionus honno, ni thlodai ein cyfoethogiad ni dydi yn y mesur lleiaf. Tydi, yr hwn oeddit arferol o ddywedyd ei fod *yn well rhoddi nâ derbyn*, nis gelli lai na chyfranu yn siriol. Nac ofna fy enaid ledwadio yn helaeth o'r ffynnon hon, y Cefnfor hwn o drugaredd: yr hwn, po mwyaf a gymmeri, mwyaf oll a orlifa.

Ond paham, O Iesu, yr ymofynaist fel hyn? Ai er dy fwyn dy hun: fel y datguddid y wedd hon ogoniant y wyrth, yr hon heb hyn a fogasid mewn distawrwydd? Ai er mwyn Jairus, fel y derchafid ei galon ofidus i gyflawn hyder ynddo Ef, gallu nerthol yr hwn a ganfyddodd trwy'r feddyginiaeth hon, holl wybodaeth yr hwn a brofasid trwy ei wybyddiaeth o'r cyfryw feddyginiaeth? Neu ai er mwyn y wraig ydoedd yn bennaf, er derchafu ei ffydd, er diogelu ei chydwybod?

Ynddi ei hun y dywedasai, *Os cyffyrddaf:* nis gallasai neb glywed y llais hwn o eiddo'r galon, ond y sawl a'i gwnaethai. Ynddi ei hun y gwnaethpwyd y feddyginiaeth. Nis gwyddai neb o'r edrychwyr am ei chlefyd, llawer llai am ei hiachad. Ni sylwodd neb ar ei chyffyrddiad, ac ni wyddai neb am yr achos o'r cyfryw. O, 'r fath battrwn o ffydd gref a gollasem pe nas galwasai'r Iesu y weithred hon i gael ei phrofi! Megis y cuddiodd ei gwylder ei chlefyd, felly yr ewyllysai guddio ei rhinwedd. Nis goddefa Crist y dirgeliad hwn.

O, ryfeddol, eithr rhydd, oruchwiliaeth Crist! Weithiau gorchymyna ddistawrwydd i'r sawl a iachaai, y mas'n anfoddlon wrth eu taeniad ar led o'i ddaioni: brydiau eraill, megis yma, nis cyll yr anrhydedd o drugaredd ddirgelaidd, ond dwg y cyfryw i'r goleu trwy ei ymofyniad, trwy ei addefiad, *Pwy a gyffyrddodd â mi? canys mi a wn fyned rhinwedd allan o honof.* Megis y canfyddwn yn ngwaith mawr ei greadigaeth, gosododd rai ser yn nghanol y nef, lle y gallent fod fwyaf nodedig; gosododd eraill yn y tywyllwch deheuol, y rhai a ganfyddir ond gan ychydig o lygaid: yn y ddaear plannodd rai blodau a choedydd yn enwog erddi'r byd: eraill mor brydferth a hwythau mewn gelltydd disathr, neu anialwch diffaeth, lle nis gwelir, ac nis prisir.

O Dduw, os bwriedaist ogoneddu dy hun trwy dy radau ynom ni, dygi hwy allan i olwg y byd: onide ein hymddirgeliad a'n boddha ni, ac a'th fawl dithau.

Etto yr oedd yn y ffydd fawr hon wendid. Dychymyg gwael yn y wraig hon, oedd meddwl y gallasai gaffael iachad mor werthfawr oddiwrth Grist, heb ei sylw a'i wybyddiaeth. Yn awr, fel y canfyddai iddi hyderu yn ngallu un, yr hwn nid oedd fwy ei haelioni na'i deimlad, daioni yr hwn nid oedd fwy na'i amgyffred—eithr un a wyddai beth a gyfranai, ac a gyfranai yn wirfoddol yr hyn a wyddai fod yn llesol i dderbynydd mor ffyddlon, gall ddywedyd, *Rhyw un a gyffyrddodd â mi, canys gwn fyned rhinwedd allan o honof.* Megis yr oedd cyfeiliornad yn ei meddwl, felly yr oedd cerydd yn ngeiriau'r Gwaredwr. Nis caniatta ei drugaredd iddi redeg ymaith â'i throsedd yn ddirgelaidd. Rhwbiwn ymaith y rhwd oddiwrth arf a brisiwn, ac ysgythrwn y winwydden a werthfawrogwn. O Dduw, myn fi allan bob amser yn fy mhechod, ac na ddos heibio fy ngwendidau lleiaf, heb roddi im' attalfa deimladwy.

Ac nid anmheuaf, O Iesu, na ragddarperaist, y wedd hon, i ddiogelu cydwybod y glaf ffyddlon ond dïystyredig hon: yr hwn yn ol llaw a allasai ei phoeni, am ledratta meddyginiaeth, am anniolchgarwch i'w Meddygwr: parhad yr hwn gallasai yn iawn ammau, am ei ddeibyn yn lledradaidd, a'i gelu yn anniolchgar. Er rhagflaenu'r holl bethau hyn, ac er llwyr dawelu ei chalon derfysglyd, mor addased mor drugarocced y dygaist y gorchwyl cuddiedig i'r golwg, ac yr amlygaist i'r gwaelod. Trugaredd fawr ynot yw rhag-ganfod ein peryglon; a'n sym-

mud cyn y gallom ni ofni o'u herwydd: fel rhyw feddyg gwybodus, yr hwn pan ganfydda ryw glefyd yn dyfod yn mlaen, yr hwn ni feddylia'r claf ond ychydig yn ei gylch, a ragflaena'r fath afiechyd gofidus trwy brydlon gymmwysiad o addas gyffeiriau: fel fod y claf yn wybodus o'i ddiogelwch cyn canfod o hono ei berygl.

Hawdd y gallasai'r wraig feddwl, "Yr hwn a all iachau fel hyn, a gwybod fel hyn am yr iachad, a all mor hawdd wybod fy enw, a chanfod fy mherson, a rhoddi gwarth a chosp arnaf oblegid fy anniolchgarwch: gyda wyneb gwelw, a throed grynedig, daw a syrthia i lawr ger ei fron, gan addef yn ostyngedig yr hyn a wnaethai, a'r hyn a dderbyniasai. *A phan welodd y wraig nad oedd hi guddiedig, &c.* Pe tybiasai y gallasai fyned ymaith yn lledradaidd mewn meddiant o'r iachad, yr hwn ni addefasai, yspeiliasai Dduw o'i ogoniant, a buasai ei hun yn dderbyniwr anniolchgar o'i werthfawr drugaredd.

Pe caem ein meddyliau ein hunain, gwnaem niweid i Dduw a ni ein hunain. Natur a rydd i lawr y cyfryw gynllwynion ag a dröent yn ynfydrwydd i ni: nid ŷm gall mewn dim ond i dwyllo ei hun. Yr unig ffordd i'n dwyn adref, yw canfod ein bod wedi ein dal—cael ein hargyhoeddi fod ein holl gyfrwysdra yn wybodus: megis rhyw leidr trwsgl, yr hwn pan genfydd fod llygaid yr yspeiliedig arno, a rydd i lawr eiledrad gyda chywilydd: o'r tu arall, pan dybia dyn ei fod yn guddiedig, annoga ei hun yn ei ddrygioni. Y godinebwr a ddewis y tywyllwch, gan ddywedyd, *ni'm gwel llygad*, ac a orfoledda yn melusder ei ddyfroedd anonest. O Dduw, yn y tywyllwch mwyaf, yn fy nirgeliad mwyaf mewnol, pan na'm gwel neb, pan na welaf fy hun, gad im' weled dy holl-weledig lygad arnaf: ac, os byth y bydd fy llygaid yn guddiedig, neu wedi eu maglu gan brofodigaeth gref, attal fi â cherydd cyflym, fel y delwyf gyda'r glaf hon â chywilydd yn fy meddiannu, a chyffesu fy nghyfeiliornad, ac ymbil am dy drugaredd.

Nid peth chwith fod tiriondeb yn edrych yn sarrug, dros amser: fel y byddo anwylach, pan ewyllysio datguddio ei hun. Ein Hiachawdwr, gyda wyneb llym, a edrychodd o'i gwmpas, ac a ofynodd, *Pwy a gyffyrddodd â mi?* Pan y nesha'r wraig gan grynu, ac addef ei throsedd a'i llwyddiant, rhydd heibio ei olwg ŵgus, a dywaid yn siriol wrthi, *Cymmer gysur, ferch, dy ffydd a'th iachaodd.* O, air hyfryd a phrydlon, addas i'r gwefusau

trugarog Dwyfol hynny; digonol i ddiogelu unrhyw galon, i wasgaru unrhyw ofnau! Ymddyga o hyd fel hyn tuag attom, O Iesu: pan syrthiom i lawr mewn gofid brawychus ger dy fron, derchefi ni trwy annogiad siriol a thosturiol: pan y byddom ddiofn a rhyfygus, ceri ein darostwng; pan yn ddarostyngedig, digon yw i ti ein bwrw i lawr: megis y dirdynna y llew hwnnw o Bethel y Prophwyd anufudd, y diogela'r asyn druan a safai yn grynedig o'i flaen: neu, megis rhyw wynt grymmus, yr hwn a deifl i lawr yr elmen neu'r gedrwydden uchel, pan y derchafa ryw gorsen blygedig: neu, fel rhyw feddyg deallus, yr hwn pan ganfydda'r corph yn orllawn a rhwystredig gan hylif afiachus, a'i gwagha, a, phan y tynnir ef i lawr yn ddigonol, a'i cyfyd i fynu â chordials meithrinol. A gwna fel hyn o hyd i'm henaid. Os canfyddi fi, ar unrhyw amser, yn dalgryf a gwrthryfelgar, yn barod i bechu yn dy wyneb, nac arbed fi, par i mi boenau nes y toddwyf, *eithr calon ddrylliog gystuddiedig, O Dduw, ni ddirmygu, O Dduw, na ddirmyga.*

Dy air yn unig a rydd yr hyn a ofyni, cyssur a hyder. Pe ymaflasai arall yn ei hysgwydd, ac a'i cyssurasai yn erbyn ei theimladau gofidus, ni fuasai ond gwynt ofer. Nis gall llais ond yr eiddo Ef, yr hwn a all faddeu pechod, ddiogelu'r galon rhag cydwybod pechod—rhag arteithiau cydwybod. *Yn amlder fy meddyliau o'm mewn, dy ddiddanwch di, yn unig, a lawenycha fy enaid.*

Gweithred Crist oedd ei hiachad; er hynny rhydd y clod o hono iddi hi: *Dy ffydd a'th iachaodd.* Dywedasai o'r blaen, *aeth rhinwedd allan o honof:* yn awr addefa rinwedd ynddi hithau. Ei rinwedd Ef a'i hiachodd; er hynny priodola'r weithred yn rasol i'w ffydd. Nid am i'w ffydd ei wneuthur mewn ffordd o haeddiant, neu effeithioldeb, eithr trwy ymbiliad. Ein Gwaredwr a sylwodd yn y cyfryw fodd ar y ffydd honno, yr hon a weithredasai ynddi, fel ag i'w hanrhydeddu â'i hiachad. Cyfryw o hyd yw meddyginiaeth ein clefydau ysbrydol—ein pechodau. *Trwy ffydd y'n cyfiawnheir, trwy ffydd y'n hachubir.* Tydi yn unig, O Iesu, a elli ein hiachau: nis iachei ni heb ein ffydd: nid fel y deillia o honom ni, ond fel y cymmer feddiant o honot ti. Eiddo ni'r afiechyd, a'r waredigaeth: yr afiechyd trwy natur: y waredigaeth trwy dy ras di, yn ei weithio ac yn ei dderbyn. Nid yw ein ffydd ddim llai o honot ti, nag yw'th feddyginiaeth di o'n ffydd ni.

O, ollyngiad ymaith dedwyddol: *Dos mewn heddwch.* Pa mor aflonydd yr oedd y wraig druanaidd hon wedi bod! Nid oedd iddi heddwch allanol gyda'i chymmydogion: cilient oddiwrthi yn ei hystad bresennol, a rhaid oedd iddynt wneuthur felly. Nid oedd iddi heddwch corphorol: ei chorph a boenid â chlefyd aflan am hir amser. Llawer llai y meddiannai heddwch yn ei meddwl, yr hwn a ddirfawr drallodid oherwydd ei hafiechyd, á digter wrth eu physygwyr dolurus, ag ofn o barhad ei chlefyd gofidus. Nid oedd i'w henaid yn awr dangnefedd, oddiwrth deimlad o'i bai yn yr achos hwn, oherwydd y tybiai ei fod Ef yn anfoddlon, at yr hwn y daethai am gyssur a gwaredigaeth. Ond yn awr ein Gwaredwr a ddistawa ar unwaith yr holl ystormydd hyn: a thrwy un gair a gweithred a adfera iddi heddwch gyda'i chymmydogion, a hi ei hun—heddwch yn ei chorph, ei meddwl, a'i henaid. *Dos mewn heddwch.* Cymmwys it' O Arglwydd, yr hwn wyt Dywysog Tangnefedd, gyfrannu dy heddwch lle y gwelit yn oreu. Ein corph, meddwl, enaid, a.n hystad ydynt eiddo ti, i'w poenydio neu i'w hesmwythau. Rhyfedd os nad oes rhyw flinder arnom oll. Yn ofer y llefarwn heddwch wrthym ein hunain, yn ofer y llefara'r byd heddwch wrthym, oddieithr i ti ddywedyd wrthym, megis y dywedaist wrth yr enaid gofidlawn hwn, *Dos mewn heddwch.*

MATTHEW IX. LUC VIII.

JAIRUS A'I FERCH.

MOR gythryblus yr ymddangosodd awydd y bobl i Jairus. Y gŵr mawr hwnnw a ddaethai i erfyn ar Iesu o blaid ei ferch, yr hon oedd yn marw. Y dorf a'i lluddient ar ei siwrnai. Teimla pob un gan mwyaf ei angen ei hun. Nid diffyg boneddigeiddrwydd yw honni ein hawl yn Nghrist. Nid diffyg moesgarwch yw ymryson am y rhan fwyaf yn ei bresennoldeb a'i fendithion.

Unig blentyn y llywydd oedd yn marw, pan y daeth i ymbil am help gan Grist; ac a fu farw tra yr oedd yn ymbil. Yr oedd gobaith pan oedd sâl, ofn pan oedd ei saldra yn fawr; yn ei marwolaeth yr oedd anobaith, ac, fel y tybient, nid oedd cynnorthwy mwy. *Bu farw dy ferch, na phoena mo'r athraw.* Pan yr ymwnelom á gallu terfynol, y gair hwn sydd addas. Prophwyd, ïe, nid llai na brenin oedd yr hwn a ddywedodd,

Tra yr ydoedd y plentyn yn fyw, yr ymprydiais ac yr wylais: canys mi a ddywedais, Pwy a wyr a drugarha'r Arglwydd wrthyf, fel y byddo byw'r plentyn? Ond yn awr efe a fu farw, i ba beth yr ymprydiwn? Myfi a âf atto ef, ond ni ddychwel ef attaf fi. Ond am yr ymwnei â Hollalluogrwydd, gwybydd, O gennadwr annghrediniol, na all angau rwystro ei allu. Mor addased y gallesit ddywedyd, "*Bu farw dy ferch:* eithr pwy all ddywedyd na fydd dy Dduw a'th Iachawdwr yn rasol wrthyt, fel yr adfywir dy blentyn? Oni all Ef, yn llaw yr hwn y mae diangfa rhag marwolaeth ei dwyn yn ol drachefn?"

Wele yma fwy o foneddigeiddrwydd na ffydd: *Na phoena mo'r athraw.* Y mae anffyddiaeth oll am esmwythder, gan farnu pob gwaith da yn flinder mawr. Yr hyn a gyfrif natur yn boenfawr sydd hyfryd i wir ras. Ai poen yw i'r newynog fwytta? O Iesu, *dy fwyd a'th ddiod oedd gwneuthur ewyllys dy Dad.* A'i ewyllys yntau oedd i ti gymmeryd ein gwendid ni, a dwyn ein doluriau. Ni all hynny fod yn ofid i ti, yr hyn yw ein dedwyddwch ni, sef cael tywallt ein hymbiliau ger dy fron.

Y Cennadwr nis gallasai sibrwd ei newydd heb i Grist ei glywed. Clywodd Jairus yr hyn a ofnai, a'r newydd gofidus a'i llwyr ddigalonodd. Efe, yr hwn a benderfynai beidio poeni yr athraw, a feddyliodd ddwyn arno ei hun fwy o boen, ac i ymroddi i ofid anobeithiol. Efe, gwaith yr hwn yw diddanu'r cystuddiedig, a dderchafa galon isel y tad wylofus: *Nac ofna, cred yn unig, a hi a iacheir.*

Nid oedd y gair yn fwy diddanus nag anhawdd. *Nac ofna!* Pwy all lai na theimlo peth mor fawr? Lle y gafaelodd angau unwaith, pwy all ammau na cheidw ei afael. Yr oedd mor anhawdd peidio a galaru am golli unig blentyn, ag oedd peidio ofni parhad achos y cyfryw alar.

Nid oes ofn mewn perffaith ffydd: Po mwyaf yr ofnom, lleiaf oll yr ydym yn credu. Cymmwys yr unir y ddau hyn ynte—*Nac ofna, cred yn unig.* O Iesu, pe nas gorchymynit in' rhyw beth uwchlaw natur, ni fyddai diolch in' i ufuddhau i ti. Nid anhawdd credu, tra yr oedd y plentyn yn fyw, y gallai gael ei iechyd drachefn: ond credu y byddai byw drachefn yn ol ei marw, oedd yr hyn nid oedd hawdd i Jairus i'w amgyffred, er ei fod yn hawdd i ti ei gyflawni: etto rhaid credu

hynny, onide nid oes modd i dderbyn y fath drugaredd. Megis y mae *cariad*, felly y mae ffydd hefyd, *yn gryfach nag angau:* gan wneuthur y rhwymau hynny nid amgen nag y gwnaeth Samson a'i wydyn, sef edeuau carth. Mor fawr yr anmhosiblrwydd naturiol yn nychweliad y cyrph hynny o lwch y ddaear, i'r hwn, trwy amryw raddau o lygriad, y maent yn cael eu dwyn! Nac ofna, fy enaid: cred yn unig, caiff, rhaid iddo gael, ei wneuthur.

Sylwedd erfyniad cyntaf Jairus oedd iechyd, nid adfywiad ei ferch: ond yn awr, gan ei mharw, parod oedd, pe meiddiasai, erfyn am ei bywyd. Ac yn awr, wele, ein Gwaredwr a orchymyn iddo ddisgwyl ei bywyd a'i hiechyd—*dy ferch a iacheir:* yn fyw o'i mharwolaeth; yn iach o'i chlefyd. Ni ofynaist, O Jairus, ni feiddiaset ofyn am gymmaint ag a dderbyniaist. Pa mor dda fuasai gennyt, ar ol y newydd olaf hwn, cael dy ferch yn fyw, er yn wan ac afiach! Yn awr derbyni hi, nid yn unig yn fyw, eithr yn gref a grymmus. Ni fesuri, O Iesu, dy roddion wrth ein hymbiliau, eithr wrth ein hanghenion ni a'th drugareddau dithau. Gallesid gwneud y gorchwyl hwn gystal trwy orchymyn absennol: yr oedd gallu Crist yno, tra nad ydoedd ei hun yno: ond âi yn bersonol i'r fan, fel yr addefid Ef yn awdwr y wyrth fawr hon.

O Iesu, ceri fyned i dŷ galar: dy hoffder mwyaf yw cyssuro'r cystuddiedig.

Y fath derfysg a bar galar bydol! Y fam a oer-griaw, y gweinidogion a lefant, y bobl a wnant alarnad, y cerddorwyr a udant ac a darawant eu hunain mewn modd gofidus: fel y gallai'r glust ammau pa un oedd ddwysaf, ai'r gân alarnadus, ai'r offeryn. Os cymmwys datgan galar ar un achos, iawn ei wneuthur pan ledia angau'r gôr-gan. Buan y distawa'r Gwaredwr y swn hwn, gan droi dros y drws y galarnadau anmhrydlon hyn, pa un bynnag ai ffugiol oeddynt ai gwirioneddol. Nid am fod yn gas ganddo gerddoriaeth er cyd-gwŷno neu diddanu: ond am fod bywyd yn ei fwriad, ac am y dymunai iddynt wybod ei fod yn golygu'r defodau angladdol hyn yn rhy gynnar. *Nac wylwch: nid marw hi; eithr cysgu y mae.* Pe buasai wedi marw, ni fuasai ond cysgu; yn awr nid marw ydoedd, eithr yn cysgu, am y bwriadai'r hunyn hyn fod mor fyr, a'i dihuniad mor fuan. Cyffelyb iddo Ef yw angau a chwsg, yr hwn a all daflu y neb a fynno i gwsg angau, a deffro

pan y mynno, a'r neb y mynno, allan o'r cwsg marwol hwnnw.

Cyfrifai Jairus a'i deulu'r Iesu o'r blaen yn Brophwyd: yn awr cyfrifant Ef yn Freuddwydiwr: *Nid yn farw eithr yn cysgu!* Y sawl a ddaethant yno i alaru, nis gallant lai yn awr na chwerthin. "A ganasom bibau mewn cynnifer o angladdau, gan weled a galaru ar ol cynnifer o gyrph meirwon, ac oni allwn wahaniaethu rhwng cwsg ac angau. Y mae'r llygaid yn llonydd, yr anadl a ymadawodd, yr aelodau ydynt sythedig ac oerion. Pwy a fu farw erioed, os cysgu y mae hon?" Mor hawdd yw i'n synwyr neu'n rheswm wneud ffyliaid o honom yn mhethau Duw. Y sawl sydd ganddynt farn dda mewn pethau naturiol, ydynt barod i wawdio Duw, pan y llefara uwchlaw eu cyrhaeddiad: ac yntau a'u gwawdia hwythau oblegid eu hanghrediniaeth. Ddynion gwageddus ac anffyddiog, fel pe nas gallai diderfyn allu'r Hollalluog gyflawni ei air: a throi cwsg yn angau, neu angau yn gwsg, pan y mynno. Cyn pen ychydig o fynudau, cywilyddiant am eu camsyniad a'u hannghrediniaeth.

Yr oedd tystion ddigon o'i mharwolaeth: ni chaiff fod llawer o'i hadferiad. Tri disgybl dewisol, a'r ddau rieni yn unig a gânt ddyfod i mewn, i ganfod ac ardystio'r gorchwyl gwyrthiol hwn. Nid oedd llygaid y gwawdwyr anffyddiog hynny deilwng o'r fath anrhydedd. Ein hannghrediniaeth a'n hanaddasa i ffafr ddirgelaidd a chynghorion goruchel yr Hollalluog.

Beth a feddyliodd ac a ddywedodd y gwawdwyr hyn, pan welsant Ef yn bwrw allan y cerddorwyr a'r holl bobl? "Diau nad yw'r eneth ond cysgu; ofna'r dyn rhag i'r swn ei dihuno: rhaid i ni rodio a siarad yn ddistaw, fel na aflonyddom hi. Beth a wna Ef a'i ddisgyblion yn y cyfamser? Onid oes lle i ofni y gwnant iddi neidio allan o'i llonyddwch?" Y sawl a gauir allan o gyfrannogiad yn nghyngorion Duw, a dybiant ei holl eiriau a'i fwriadau yn ffolineb.

Ond a ddigalonir di, O Iesu, trwy gwatwariad a barn yr annghredinwyr gwatwarus hyn? A fydd i ti adael heibio dy waith am fod ffyliaid yn dy wawdio? Yn wir, nis gwelaf dy fod yn sylwi arnynt eithr i'w dirmygu: ac ni phrisi ei geiriau mwy na'u distawrwydd. Digon y bydd i'th weithred yn fuan dy anrhydeddu di, a'u hargyhoeddi hwythau. Efe *a'i cymmerth hi erbyn ei llaw, ac a lefodd, gan ddywedyd, Herlodes,*

cyfod; a'i hyspryd hi a ddaeth drachefn, a hi a gyfododd yn ebrwydd.

Pa fodd y gallai'r cyffyrddiad a'r llef hynny lai na bod yn effeithiol? Efe, yr hwn a wnaethai'r llaw honno, a gyffyrddodd â hi; ac Efe, yr hwn a ddywaid ryw dro, *Codwch feirwon*, a ddywedodd yn awr, *Herlodes, cyfod.* Nis gall angau lai nag ufuddhau i'r hwn sydd Arglwydd y bywyd. Y mae'r enaid, yr un wedd, yn ei law Ef, yr hwn yw Duw yr ysbrydion: nis gall ond myned a dychwelyd wrth ei arch; pan ddywedodd, *Herlodes, cyfod*, yn ddiattreg efe a ail feddiannodd y lle, yr hwn, trwy ei ordeiniad Ef, a adawsai.

O Iesu, os gwnei ond gorchymyn i'm henaid godi o farwolaeth pechod, nis gall orwedd yn llonydd: os gorchymyni i'm corph godi o'r bedd, nis gall fy enaid lai na chyflymu o'r nef i'w adfywio. Yn ofer yr ymdrecha fy mhechod na'm bedd fy nghadw oddiwrthyt.

Yr eneth a adfywia: nid yn awr i nychu dros amser ar glafwely, ac i gasglu nerth yn dra graddol ac araf: ond cyfyd ar unwaith o'i hangau a'i gwely: rhydd heibio ei chlefyd gyda'i mharwolaeth: cafodd ei bywyd a'i thraed ar unwaith: a'i thraed a'i harchwaeth ar yr un pryd. *Efe a orchymynodd roi bwyd iddi.* Nid yw Hollalluogrwydd arferol o deithio mor araf a natur. Holl weithredoedd digyfrwng Duw ydynt fel ei hun yn berffaith. Yr hwn a'i codasai mewn modd goruwchnaturiol, a allasai ei phorthi felly. Nid amcan ei allu yw diswyddo moddion cyffredinol.

Luc viii.

CAIS Y DDAU DDISGYBL TANLLYD YN CAEL EI WRTHOD.

Yr amser a agoshai pan oedd Iesu i gael ei gymmeryd i fynu. Rhaid iddo gymmeryd angau ar ei daith. Y mae Calfaria ar ei ffordd i fynydd yr Olewydd. Rhaid iddo gael ei dderchafu ar y groes, a dringo oddiyno i'r nef. Er hynny, ni sonir am hyn, megis pe buasai pob meddwl am angau wedi ei *lyngcu* i fynu *gan y fuddugoliaeth* hon arno. Nid yw, O Iesu, amgen nâ hyn gyda ni, aelodau gweiniaid dy gorph dirgeledig. Rhaid i ni farw: cawn ein gogoneddu. Beth os saif angau o'n blaen? Edrychwn tu hwnt iddo ar y gogoniant tra rhagorol hwnnw.

Paham yr ofnwn y poenau hynny, y rhai y mae anfarwoldeb gwynfydedig yn nglyn â hwy.

Y diogelwch goreu rhag angau ydyw'r cyflwr dedwyddol a'i dilyna: y nesaf atto ydyw rhag-ddisgwyliad o hono, ac ymroad yn ei erbyn. *Efe a roes ei fryd ar fyned i Jerusalem:* Jerusalem, nyth ei elynion, chwareudŷ ei ymladdfeydd, lle ei farwolaeth. Gwych y gwyddai am y cynllwynion a osodasid iddo, a gwaedlyd derfyniad y cyfryw fwriadau, er hynny, efe a â yno, gan ymbarottoi erbyn y gwaethaf. Diogel a doeth ydyw anfon ein meddyliau o'n blaen, i ymdrechu â'r drygau hynny, y rhai nis gellir eu gochelyd. Y mae'r gelyn hwnnw wedi hanner ei orchfygu, yr hwn a ddarperi yn wych yn ei erbyn. Y drygau mwyaf a ellir eu gwyrthynebu trwy brydlon ragbenderfyniad. Nis gall fod anfantais fwy nag ymgyrch annisgwyliedig. O Dduw, yr hyn nis gallaf ei ochelyd, dyro im' ddoethineb i'w ddisgwyl.

Yr oedd y ffordd o Galilea i Judea yn gorwedd trwy wlad Samaria, os nid trwy'r ddinas. Mynnai Crist yn awr, tua diwedd ei weinidogaeth, fod lluaws o ganlynwyr gydag Ef. Angenrheidiol fod arlwywyr, a rhagflaenwyr i ddarparu lluniaeth a lletty i dorf mor lluosog. Rhai o'i ddilynwyr ei hun a gymmerant arnynt y gwasanaeth hwn. Ni chwiliant am balasau a moethau, eithr am letty ac ymborth cyffredin. Efe ydoedd, eiddo yr hwn y ddaear a'i chyflawnder, y nefoedd a'i thrigfannau; etto, Efe, yr hwn a allasai orchymyn yr angelion, a gais gan y Samariaid: Efe, yr hwn a lenwai ac a gynnwysai'r nefoedd, a chwiliai am le i lechu mewn bwthyn Samariaidd.

Dewisaist, Iesu, gymmeryd arnat, nid ffurf tywysog, eithr gwas. Pa fodd y gallwn ddirmygu moddion, neu waeledd, pan yr ymostyngaist ti, Dduw yr holl fyd, i erfyn am ddarpariaeth mor wael?

Gwyddom yn dda, ar ba delerau yr oedd y Samariaid yn byw gyda'r Iuddewon. Yr oeddynt yn gymmaint mwy gelynol ag oedd eu crefyddau yn tebygu i'w gilydd. Nid oedd dwy genedl a gasäent eu gilydd yn fwy. Nid oedd bara Samariad rhagorach nâ chig moch. Yr oedd eu tân a'u dwfr yn heintus. Bod ei wyneb tua Jerusalem oedd ddigonol achos am ei wrthod. Nid oes gelyniaeth mor chwerw, a'r hon a gyfyd oddiar grefydd. Cydsyniad mewn rhai pethau, tra y mae amrywiaeth yn y cyfan, nis gwna ond cynnyddu casineb.

Nid rhyfeddach clywed Mab Duw yn erfyn am letty, na'i glywed yn cael ei naccau. Y naccad sarrug hwn a barodd i'r ddau ddisgybl llidiog ddychwelyd at eu Meistr, â neges danllyd ganddynt. *Arglwydd, a fynni di ddywedyd o honom am ddyfod tân i lawr o'r nef, a'u difa hwynt, megis y gwnaeth Elias.*

Meibion y daran hyn a fynnent fod yn *fellt* allan o law. Eu zel, pa un ai fel perthynasau ai disgyblion, nis gallai oddef y fath naccad. Megis yr oeddynt yn boethach wrth natur na'u cyfeillion; felly yn awr, tybiant fod eu crefydd yn gorchymyn iddynt fod anamyneddgar.

Etto, ni feiddiant ddechreu heb ganiattad. *Arglwydd, a fynni di.* Rhaid i'w ewyllys Ef dywys yr eiddynt hwy: nis gall eu llid anfon eu hewyllys hwynt o flaen yr eiddo Ef: eu holl ymsymmudiad hwy sydd o hono Ef yn unig. Gwir ddisgyblion ydynt debyg i'r peiriannau celfyddydol hynny, y rhai nid ânt ond fel y gosodir hwy; neu fel plant bychain, y rhai ni ddywedant ddim ond a ddysgir iddynt. O Iesu, os oes gennym ewyllys o'n heiddo ein hunain, nid ydym eiddo ti. Gosod fi, fel y dymunet im' fyned: dysg fi yr hyn a fynnet im' ddywedyd a'i wneuthur.

Rhagymadrodd parchus i erfyniad beius. *Arglwydd, a fynni di ddywedyd o honom am ddyfod tân i lawr o'r nef, a'u difa hwynt.* Beius o ran rhyfyg, a dymuniad dialeddgar. Nis clywaf hwynt yn dywedyd "Meistr, a weli di yn dda—unig Arglwydd y nefoedd a'r elfennau—orchymyn tân o'r nef ar y dynion hyn?" ond *a fynni di ddywedyd o honom ni?* Fel pe buasai nef a daear dan eu llywodraeth, oherwydd rhoddi iddynt awdurdod ar glefydau ac ysbrydion aflan. Pa mor hawdd iddynt gamsynied! Yr oeddei derfynau i'w commissiwn helaeth. Deiliaid, y rhai a dderbyniant roddion helaeth oddiar law eu Tywysogion, nis gallant gleimio dim ond yr hyn sydd yn eu breint-sgrif. Ac os oedd dwyn tân o'r nef yn llai nâ difeddiannu cythreuliaid (yn gymmaint ag y galluoga'r diafol yr anifail i wneuthur hyn) etto pa mor bossibl yw gwneud y mwyaf, a methu gwneud y lleiaf, pan y dibynna'r ddau ar allu cyfrannedig! Swynwyr yr Aipht a allasent ddwyn allan lyffaint a gwaed: nis gallent ddwyn allan lau: llygredd cyffredinol ein cyrph a all wneud yr hyn nis gallent hwy ei wneuthur.

Arfer ein natur ddigywilydd yw, lle y rhoir modfedd ceisio

llathen; a phan y'n hanrhydeddir âg unrhyw alluoedd, gweneithio i ni ein hunain ein bod yn perchen rhai mwy.

Caniattaf i ffydd wneuthur pethau mor fawrion ag a gymmerodd rhyfyg arno ei hun erioed: ond y mae gwahaniaeth dirfawr yn yr hyn a gymmerant mewn llaw. Y mae i un warrant, naill ai trwy gynhyrfiad neu orchymyn pendant: ond nid oes gan y llall. Yn wir, pe buasai'r ddau ddisgybl hyn yn meddwl, neu'n dywedyd, "Arglwydd, os dy ewyllys di yw gorchymyn i ni alw am dân o'r nef, gwyddom y galluoga dy air ni i wneuthur yr hyn a ofynni; os y geiriau fyddant eiddo ni, y gallu fydd eiddo ti;" buasai hyn yn wylaidd, sanctaidd, a ffyddlon: ond os tybiant nad oedd angen ond am ganiattad yn unig; ac, os gadewid hwy yn rhyddion, y gallent rodio eu hunain, rhyfygasant, pechasant.

Etto, pe saethasent yn rhy bell mewn rhyw achos duwiol a chardodol, buasai eu bai yn llai: ond yr oedd yn eu gweithred, greulondeb ac ysbryd dialeddus.

Ni theilyngai eu zel glod mwy na'u cynddaredd gerydd. I dân syrthio o'r nef ar ddynion sydd beth ofnadwy i feddwl am dano, a'r hyn ni ddygwyddodd ond anfynych. Cymmerodd le yn Sodom; pan yr ymlosgai'r pum dinas aflan hynny â thân annaturiol chwant uffernol. Cymmerodd le ddwywaith ar arch Elias: ac yn y brofedigaeth drymaf i battrwn amynedd—sef Job. Nis gwn am fwy, a chrynaf wrth y rhai a wn. Ond heblaw echryslonrwydd y farn ei hun, pwy all lai na chrynu wrth feddwl mor ddisymwyth a fuasai'r difrod hwn, yr hwn a ysguba ymaith gorph ac enaid mewn cyflwr anmharod ac anedifeiriol: fel nad oedd y tân hwn ond dechreu un gwaeth, tân o'r nef yn ennyn tân uffernol.

Ofnadwy o'r dwys oedd y dialedd: ond beth oedd y trosedd? Dysgasom beidio a chyfrif yn ysgafn unrhyw anmharch a wneir i Fab Duw: ond gwyddom fod graddoldeb yn y troseddau ysbrydol hyn. Pe difenwasai'r Samariaid hyn Grist a'i ganlynwyr, pe rhuthrasent arnynt, pe dilynasant hwy â cherrig yn eu dwylaw, a chableddau yn eu geneuau, annogasent yn gyflawn y cyfryw ddial dychrynllyd: yn awr, naccaol oedd y trosedd. *Nis derbyniasant hwy Ef:* a hynny, nid oherwydd unrhyw ymrafael neu gasineb at ei berson, ond at ei genedl yn unig; buasai roesaw i'r dynion, oni buasai bod eu gwlad yn ffiaidd. Y gorchymyn oll a glywaf yr Iachawdwr yn roddi i'w ddis-

gyblion, os gwrthodid hwy, ydoedd, *ysgydwch ymaith y llwch oddiwrth eich traed.* Etto, hyn oeddynt i'w wneuthur yn mhlith eu cenedl eu hunain, a phan yr aent ar y neges sanctaidd o gyhoeddi Efengyl y Tangnefedd. Y rhai hyn oeddynt estroniaid oddiwrth wladwriaeth Israel. Dangoswyd hyn, nid i bregethwyr, ond i deithwyr, anllettygarwch yn unig i wahoddedigion na charent. Er hyn nid llai dial na thân o'r nef a'u boddha.

Beiddiaf ddywedyd drosoch chwi, dduwiol feibion Zebedeus, mai nid eich llid ond eich zel oedd euog o'r erfyniad gwaedlyd hwn. Nis gallasai eich digter lai nâ chael ei gyffroi, wrth ganfod y prophwyd mawr a Gwaredwr y byd yn cael gwrthodiad mor annghariedig: etto, nid yw hyn oll yn esgus am eich creulondeb ehud—eich cynddaredd annghymedrol.

Gall, ïe, 'r galon dduwiolaf fyned yn hawdd yn rhy bell gan zel ag amcan da iddo. Nid oes serch mwy angenrheidiol, mwy cymmeradwy. Nis gellir ysgaru cariad at unrhyw beth oddiwrth gasineb at yr hyn sydd groes iddo: ac oddiyma y tardd, fod pob creadur, yr hwn y mae ganddo allu i ddymuno, yn meddu ar allu i ddigio hefyd. Nid yw digofaint yn elyn i gariad yn gymmaint ag amddiffynydd iddo. Pwy bynnag, gan hynny, a deimla yn addas tuag at ei Waredwr, nis gall lai nag ymofidio oherwydd y cam a wneir ag ef.

O, zel rasol a duwiol, hyfryd gynhesrwydd a thymmer bywiol duwioldeb, i ba le y dengaist o oerllyd fynwesau dynion? Neu, a ydyw hyn yn gyfattebol â gwir gyfansoddiad henaint a methiant y byd, i'r rhai y syrthiasom? Pa nifer sydd a'r na thybiant fod doethineb oddieithr mewn difrawch difywyd, y rhai y mae'n fwy dewisol ganddynt rewi na llosgi! Pa mor fyw a theimladwy y mae dynion pan anmherchir hwynt eu hunain! pa mor ddigynnwrf pan anmherchir y Gwaredwr!

Ond nid oes dim yn waeth na llygredd y goreu. Nid mwy canmoladwy a buddiol yw zel dan iawn lywodraeth, nag ydyw gâs ac enbydus pan y mae'n annghymmedrol ac aflywodraethus. Y mae tân yn elfen angenrheidiol a llesol: ond os unwaith y camosodir ef, ac y cydia yn swmmerau ein tai neu dasau ein hŷd, nis gall unpeth fod yn fwy ofnadwy.

Fel hyn, weithiau, zel a dry'n llofruddiaeth, *(y rhai a'ch lladdant, a dybiant eu bod yn gwneuthur gwasanaeth i Ddduw)* weithiau'n gynddaredd, weithiau'n llwyr ffolineb. Iachaol a

bendigedig y zel honno, yr hon a sylfaenir ac a reolir yn iawn : a sylfaenir ar air y gwirionedd, ac nid ar ddychymygion ansefydlog : a reolir gan ddoethineb a chariad : doethineb i ochelyd byrbwylldra a gormodedd : cariad, i ochelyd tramgwydd cyfiawn.

Nis gall fod eisiau esgus ar unrhyw gynnygiad. "Elias a wnaeth felly : paham nas gallwn ninnau? Yr oedd ef yn Brophwyd sanctaidd. Nid yw'r achlysur a'r lle yn amrywio llawer. Yno cynnygiwyd gwneud cam â'r gwas ; yma â'i Feistr : yno â dyn ; yma â Duw a dyn. Os gwnaeth Elias hyn, paham nas gallwn ninnau ei wneud?" Nid oes perygl mwy na chymmeryd holl weithredoedd duwiolion megis esamplau ; canys, fel y mae i'r goreu eu gwendidau, felly nis breinir rhag gwneud gweithredoedd nas gellir eu cyfiawnhau. Heblaw hyn, efallai eu bod wedi derbyn cyfarwyddiadau pendant o'r nef, naill ai trwy fewnol gynhyrfiad neu orchymyn, y rhai yn ofer a ddisgwyliwn ni. Rhaid defnyddio gofal mawr, wrth ddilyn y pattrynau rhagoraf, o ran personau neu gyflawniadau : onide, gwnawn ein hunain yn eppäod, a'n gweithredoedd yn ynfydrwydd pechadurus.

Anfynych y beiai'r Iesu ar gyfeiliornadau zel, ïe, pan ymddangosai gwendidau mawrion ynddi. Os Moses, yn ei ddigter sanctaidd, a dorrodd y llechau a ysgrifenasid â llaw Duw ei hun, nis canfyddaf ef yn cael ei geryddu. Yma try ein Hiachawdwr addfwyn yn ol, gan edrych yn wgus ar ei erfynwyr llidiog, ac a'u cymmer i fynu'n llym, *Ni wyddoch o ba ysbryd yr ydych chwi.* Nis gall zel lyngcu i fynu gamgymmeriadau angharíadoldeb. Pe gallasai unrhyw liw guddio beiau'r gaudymmer hon, gwnaethai'r lliw porphoraidd hwn y tro. Ond Efe, yr hwn nid rhaid iddo wrth ein celwydd, a bar i ni wybod nad oes arno angen am ein hymddygiad niweidiol ; ac a ffieiddia i achos da gael ei gynnal trwy ymddygiad anngharíadlon. Nid rhaid in' ymwrthod a'n tymmerau : hyd yn nod, Mab Duw a gerydda weithiau, ïe, 'r sawl a hoffa. Nid beius yw cynhyrfiad ein tymmerau, ond eu hanghymedroldeb.

Gair llym oedd, *Ni wyddoch o ba ysbryd yr ydych chwi.* Efallai na theimlasai dyn arall ef, ond disgybl a'i teimla. Calonau tyner a ofidir â'r hyn a ddibrisir gan un gnawdol. Ysbryd Elias oedd yr hyn a ddymunent ei efelychu : cânt yn awr wybod eu bod wedi camsynied eu nod. Pa fodd yr ymofidient

pe tybiasent mai rhyw ysbryd heblaw Ysbryd Duw a'u cynhyrfasai i wneud yr erfyniad hwn! Yn awr, cânt wybod mai'r Ysbryd Drwg hwnnw ydoedd, yr hwn yr addefant eu bod yn ei gashau.

Pell ydyw oddiwrth lân Ysbryd Duw i gynhyrfu neb i ddialedd, neu i sychedu am waed. Nid eryr, ond colommen, oedd y ffurf y gwelodd yn oreu ymddangos ynddi. Ac ni fynnet tithau, O Dduw, fod yn y corwynt, neu yn y tân, ond yn y llais distaw. O Iesu, paham yr edrychwn am esampl ond yr eiddo ti, wrth enw'r hwn y'n gelwir? Deuaist at *yr eiddo dy hun*, a'th *eiddo dy hun ni'th dderbyniasant*. A elwaist am dân o'r nef arnynt? Oni anfonaist allan yn hytrach ddwfr o'th lygaid tosturiol, gan wylo dros y rhai a barent it' waedu? Buasai'n well i ni, pe nas cawsem ysbryd erioed na chael unrhyw ond yr eiddo ti. Nis gallwn lai nâ bod yn ddrygionus, os creulon ein trugareddau.

Ond, ai enw Elias, O zelog rai, a gymmerwch megis rheswm am eich dymuniad egwan? Nid ydych yn ystyried y gwahaniaeth rhwng ei ysbryd ef a'r eiddo chwi. Yr eiddo ef oedd annghyffredinol a gwrol, heblaw cynhyrfiad neu ddirgel orchymyn Duw am ei weithred: y mae yn y gwrthwyneb gyda chwi, y rhai a gynhyrfir trwy anhwyldeb cnawdol i'r erfyniad digofus hwn. Y sawl a fynnent debygu i seintiau Duw mewn gweithredoedd pennodol, sydd raid iddynt edrych am eu bod yn myned ar yr un sylfaen. Heb yr un ysbryd a'r un gwarant, gwatwar yw, neu bechod eu cymmeryd hwy yn esamplau i'w dilyn.

Nid yw Elias yn addas esampl i'r gweision, ond i'r Meistr. *Ni ddaeth Mab y dyn i ddistrywio eneidiau dynion, ond i'w cadw.* Y mae ein gweithredoedd a'n hamcanion yn dderbyniol a chanmoladwy, pan y cydagweddant â'r eiddo Ef. O Iesu, pan edrychwn y Llyfrau y rhai ydynt goffadwriaethau sanctaidd o honot, gwelwn lawer bywyd a gedwaist rhag ei golli; rhai wedi eu colli yn cael eu galw yn ol gennyt: ond neb byth yn cael eu difetha gennyt. Un ffigysbren ddiffrwyth yn unig a wiwydgan dy felldith, megis cysgod gwirioneddol o'th doster ar yr anffrwythlon. Ond pa mor dyner oeddyt bob amser wrth ddyn! Er dy wrthod, dy ddifenwi, dy erlid, dy werthi, dy fradychu, dy gamgyhuddo, dy gondemnio, dy groeshoelio; etto, pa ddyn a darewaist yn farw, am y drygau ysgeler hyn? Ië, pan gollodd un o'th elynion ei glust, rhoddaist y glust honno iddo ef, yr hwn a ddaethai

i gymmeryd dy fywyd oddiwrthyt ti. Canfyddaf rai, y darfu it eu chwypio a'u ceryddu, megis y newidwyr arian: neb y darfu it' eu lladd. Nid am na cheri, neu na ofyni am, i gyfiawnder eithaf gymmeryd lle. Cleddyf pwy, ond yr eiddo ti, a ddygir gan dywysogion? Rhaid i droseddwyr cael eu cospi. Hyn sydd ganlyniad cyfiawn, eithr nid amcan dy ddyfodiad di —dy ewyllys nid yr hyn oedd bennaf yn dy olwg.

Tywysogion da a wnant gyfreithiau da, er iawn lywio'r bobl. Ni chynnelir awdurdod heb gospedigaethau. Marwolaeth yw'r canlyniad o dorri'r cyfreithiau da hyn, dyben y rhai yw cadwraeth bywyd a threfn) a hyn, nid yn gymmaint er dial ar fai a aeth heibio, ag er ei attal rhagllaw.

Pa fodd, ynte, y carwn ac y canmolwn dy drugaredd yn ddigonol, O Achubydd dynion? Pa fodd y dylem debygoli it' o ran dy duedd gadwedigol a chymmwynasgar tuag at ddynolryw! Fel rhai yn gwybod, po mwyaf yr ymdrechom i'w hachub, mai nesaf oll y deuwn attat ti, yr hwn a ddaethost i achub pawb: a po mwyaf difäol y byddom, mwyaf oll y tebygolwn iddo ef, yr hwn yw Abaddon, lleiddiad dyn o'r dechreuad.

Luc ix.

Y DEG GWAHANGLEIFION.

Yr oedd y Samariaid wedi ymlygru, nid âg ymranniad, eithr herisi, paganiaeth; etto, nid yw ein Gwaredwr yn eu gochelyd, ond defnyddia'r ffordd megis y tywysa, gan roddi iddynt y gymmwynas o rai gwyrthiau. Y mae rhyw fath o fasnach yn ganiattaol, ïe, gyda'r sawl sydd oddi allan. Anaddas, annghyfreithlon, a niweidiol yma ydyw, ammodau cyflawn o gyfeillgarwch tumewnol; ond hynawsedd gwladol, a doeth ddefnyddiad o honynt er ein cyfleusdra neu'n hangen, nid yw yn iawn eu hesgeuluso.

Y gwahangleifion a ymgyfarfyddant yma. Y sawl a gauir allan o gymdeithas pawb eraill, a geisiant gwmni eu gilydd. Cyfeillgarwch a gais pawb, hyd yn nod, mewn gwahanglwyf. Y gwahangleifion a ymdyrrant byth at eu cyfeillion: pa le y canfyddwn un gwahanglwyfus wrtho ei hun? Y meddwon, yr halogedig, a hereticiaid a fyddant sicr o ymgyfeillachu â'u cyff-

elyb. Paham na ymhyfrydai seintiau Duw mewn cymmundeb sanctaidd? Paham na chyfrifem ein pennaf lawenydd ymgyfeillachu mewn daioni?

Nis gallasai'r Iuddewon a'r Samariaid oddef y naill y llall, etto, yma mewn gwahanglwyf cydunent. Wele yma un Samariad gwahanglwyfus gyda rhai Iuddewaidd. Dioddefaint cyffredinol a'u gwnaeth hwy yn gyfeillion, y rhai yr oedd eu crefydd yn eu gwahanu. Pa rinwedd sydd mewn trallod, gan yr una y calonau mwyaf estronol!

Nid wyf yn chwilio am ddirgelwch yn y rhif. Y deg hyn a ymgyfarfuasant, a hwy oll a gyfarfyddant â'r Iesu: nid yn ddamweiniol, ond yn llwyr fwriadol; disgwyliasant o ddyben am y cyfleusdra hwn. Nid rhyfedd os na thybiasant un amser yn rhy faith i ddisgwyl am waredigaeth o glefyd mor ffiaidd ac annedwyddol. Bu dda gan Naaman mawr ddyfod o Syria i Judea, gan obeithio gadael y fath ymwelydd ffiaidd ar ei ol yno. Yr ydym yn ddigon teimladwy o'n hanhwyldeb corphorol. O, na fyddem mor flinderog gan afiechyd a gwrthuni ein rhan oreu! Diau os na iacheir ein clefyd ysbrydol y terfyna mewn marwolaeth; ac nis iacha o hono ei hun. Buasai y rhai'n yn meirw yn wahangleifion pe nas cyfarfuasent â'r Iesu. O Waredwr, dyro ras i'th geisio, ac amynedd i ddisgwyl wrthyt; ac yna y gwyddom y bydd i ti ein cael ni, ac y cawn ninnau waredigaeth.

P'le y disgwylia'r gwahangleifion gyfarfod â'r Iesu ond mewn pentref? Nid yn ei heol ychwaith, eithr yn y mynediad i mewn iddi. Nid oedd y dinasoedd a'r trefi iddynt hwy. Cyfraith Duw a'u cauasai allan o bob cymdeithasiad. Gofal am ddiogelwch, ac ofn cael yr haint, oedd annogaeth ddigon i beri eu cymmydogion barchu y rhan hon o'r gyfraith.

Nid y corph yn unig a olygir yn hyn gan Dduw yr ysbryd-oedd. Rhaid gochelyd yn wastadol y rhai y mae arnynt heintiau ysbrydol; rhaid iddynt hwy gael eu gwahanu oddiwrthym ni, ac i ni wahanu ein hunain oddiwrthynt hwy: hwy oddiwrthym ni, trwy gerydd cyfiawn; neu, os esgeulusir hynny, ninnau oddiwrthynt hwy, trwy ymneillduad gwirfoddol o'u cymdeithas gyfeillgar.

Heblaw ein diogelwch ein hunain a ddeillia oddiwrth hyn, fe fyddai ar anwiredd gywilydd o hono ei hun, oni bai cefnogaeth cyfeillion. Unigrwydd yw'r cyfaredd addasaf yn erbyn haint

ysbrydol. Da fyddai i'r dyn annuwiol pe gallasid ysgaru oddiwrtho ei hunan.

Y gwahangleifion hyn a ddaethant i geisio Crist, etto, pan ei cànt Ef, hwy a safant o hirbell; naill ai o barch neu er diogelwch. Gorchymynasai Duw'r pellder hwn. Pan aent trwy'r ystrydoedd, yr oeddynt yn rhwym i lefain allan, *Yr wyf yn aflan.* Yr oedd yn cael ei osod, ïe, fel dyledswydd arnynt, gyhoeddu eu heintusrwydd: nid oedd perygl yn unig, eithr pechod hefyd yn y dynesiad attynt. Da fyddai pe cadwai y rheiny yn mhell, ac na fyddent ddistaw, y rhai y mae perygl bod gyda hwynt. O Dduw, gwahangleifion ydym oll i ti; a ffiaidd gan y llygredd sydd wedi ymdaenu drosom. Addas in' yn yr ymwybyddiaeth o'n gwarth a'n gwaeledd sefyll draw. Nis gallwn fod ry lawnion o barchedig ofn tuag attat ti, ry lawnion o gywilydd o honom ein hunain.

Etto, y bobl hyn, er yn mhell o ran lle, ydynt agos o ran cymmeradwyaeth eu herfynion. *Agos yw'r Arglwydd at y rhai oll a alwant arno mewn gwirionedd.* O Iesu, pan yr ydym bell oddiwrthyt ti, yr wyt ti yn agos attom ni. Nid wyt un amser mor agos attom a phan y safom yn mhell mewn gwylder sanctaidd. Cyfiawn y disgwyli in' fod yn hyderus a gwylaidd ar unwaith. Pa mor eofn y dylem agoshau at orsedd gras, o ran Gras yr orsedd honno. Gyda pha ofn o ran ei Mawrhydi brawychus, a'r anhaeddiant a ddygwn i'r gwyddfod hwnnw.

Yr hwn a saif yn agos a all sibrwd; ond y pell rhaid iddo lefain yn uchel: felly y gwnaeth y gwahangleifion hyn. Etto, nid pellder gymmaint a theimlad a barodd uchder eu llef. Efe yr hwn a all roddi tafod i'r mudan, a all lawer mwy roddi uchder llais i'r parablus.

Llefasant oll ar unwaith: deg llais mewn un swn; fel y gallai eu lleisiau unedig gyrhaeddyd y glust rasol honno. Pe llefarasai pob un ar ei ben ei hun, ni fuasai yno swn, nac ymddangosiad o daerineb: yn awr, am fod yr un pla arnynt oll, felly llefant ar unwaith, ac unant, er eu bod yn Iuddewon a Samariaid, mewn un erfyniad. Lle y mae deg o dafodau, nid oes ond un ymadrodd, fel y byddai'r cydgordiad yn gyffredinol. Pan fynnom dderbyn rhoddion cyffredinol, nid addas yw gweddiau unigol, ond rhaid i ni uno ein nerth ysbrydol, ac ymosod ar Dduw yn lluoedd. *Gwell yw dau nag un, o achos bod iddynt wobr da am eu llafur. Nid â un gweddi ddiffuant heb ei gwobr:* ond lle y

cyferfydd llawer o galonau da, rhaid ei fod yn attebol i nifer yr erfynwyr. O'r trais sanctaidd a dedwydd a roddir i'r nefoedd yn y modd hwn! Pa fodd y bydd arnom eisiau bendithion, pan y mae y fath nifer o raffau yn eu tynnu i lawr ar ein pennau?

Nid y swn ond y sylwedd a lwyddodd gyda Crist. Os y llais oedd anhyfryd, yr oedd y defnydd yn ffyddlon. *Iesu, Feistr, trugarha wrthym.* Nid oes air addasach i enau'r truenus. Nis gwn lle y cyfarfyddwn â phattrynau rhagorch. Diau ein bod yn gymmaint gwahangleifion a hwythau: paham na wnawn fel hwythau, a ninnau mor debyg o ran sefyllfa? At bwy y dylem fyned ond at ein Iesu? Pa fodd y dylem sefyll o hirbell gyda golwg ar ein truenusrwydd! Pa mor uchel y dylem dderchafu ein llais mewn erfyniadau? Beth ond trugaredd a ddylai fod gwrthddrych ein cais, *Iesu, Feistr, trugarha wrthym.*

O, ragorol ragflaeniad trugaredd, yr hon a gafwyd cyn gofyn am dani! Iesu, pan welodd hwynt, a ddywedodd, *Ewch, a dangoswch eich hunain i'r Offeiriaid.* Iacheir eu clefyd cyn y gallesid cwyno o'i herwydd. Eu hymddangosiad ger bron yr offeiriaid a ragarwydda eu meddyginiaeth: eu meddyginiaeth, o ran ei anrhegiad ef, er nid yn eu teimlad eu hunain. Y gwahanglwyfus hwnnw a ddaethai at Grist ei hun, (Mat. viii. Luc v.) a iachawyd yn gyntaf i'w deimlad ei hun, ac wedi'n, gorchymynwyd iddo fyned at yr offeiriaid, er tystiolaeth o'i wellhad. Nid felly gyda y rhai hyn, y rhai a anfonir at farnwyr y gwahanglwyf, gyda'r bwriad o'u iachau ar y ffordd. Yr oedd y dyben yn wahanol yn y ddau hyn: un oedd, fel yr ardystid perffeithrwydd yr iachad, ac y cadarnheid âg offrwm addas: y llall, fel y profid ffydd y cystuddiedig ar y ffordd, yr hon, pe nas parhausai mor gadarn ag yr oedd yn y dechreuad, yn ddiau, nis terfynasai mewn llwyddiant. Mor hawdded y gallasant feddwl "Och! i ba ddyben y mae hyn? Dangos ein hunain i'r offeiriaid! Beth all eu llygaid wneuthur? Gallant farnu pa un ai'n bod wedi ein iachau, yr hyn nid ydym: ond nis gallant ein gwaredu. Canfyddwyd ni yn ddigon aml, a ffieiddiwyd ni. Beth all eu llygaid hwy ganfod mwy na'n llygaid ein hunain? Gobeithiasom y galwasai'r Iesu ni atto ei hun, gan roddi ei ddwylaw arnom, a'n iachau." Y cyfryw feddyliau a'u gwnaethent yn wahangleifion o hyd. Yn awr, caiff eu ffydd a'u hufudd-

dod eu profi, trwy eu hymostyngiad i'r gorchymyn annisgwyliadwy hwn, a'r dwyfol ordeiniad hwnnw.

Y gwahanglwyf cyntaf hwnnw a orchymynasid i ddangos ei hun i'r archoffeiriad: y rhai hyn i'r offeiriaid: gwnaethai un o'r ddau y tro: y gorchymyn cyntaf a olyga Aaron, neu un o'i feibion. Ond paham iddynt hwy? Y gwahanglwyf oedd glefyd corphorol: beth yw hynny i bersonau ysbrydol? I ba ddyben y mae meddygon, os rhaid i offeiriaid drin clefydau? Ni chawn byth y personau sanctaidd hynny yn rhoddi eu barn ar dwymynau, y dropsi, y parlys, neu unrhyw anhwyldeb corphorol arall: ac ni farnasent yn nghylch hwn, oni bai fod yn nglyn âg ef aflendid deddfol. Nid megis afiechyd ond anmhurdeb y daw dan eu barn. Pwy ond olynolwyr yr offeiriadaeth ddeddfol sydd addas i roddi barn ar aflendid yr enaid. Pwy sydd mor debygol i wybod, mor addas i farnu, a'n hathrawon, pa un ai bod gweithred yn bechadurus, ac i ba raddau; beth sydd ddigonol er sicrwydd cyssurus o faddeuant, pa lwybr sydd oreu i'w ddilyn rhag syrthio i fai drachefn? Pe ymgynghorem yn fynychach, o ran y pethau hyn â'n harweinwyr ysbrydol, gan ymddiried mwy yn eu cynghorion ffyddlon, byddai yn well er ein lles. O, mor beryglus yw ein doethineb ein hunain! Ni fynnai eu henafiaid mwgydedig lygaid ond yn mhennau eu hathrawon ysbrydol: tybiwn ni ein hunain mor lygadgraff, fel y tosturiwn wrth ddallineb ein Dysgawdwyr: nid oes ond ein hunain yn addas i farnu am ein gwahanglwyf.

Nid barn neillduol yr offeiriaid yn unig a fwriedid yma, eithr diolchgarwch y claf; fel y gallai trwy ei aberth roddi i Dduw ogoniant ei waredigaeth. O Dduw, pwy bynnag a iachei o'r gwahanglwyf ysbrydol hwn, cymmwys i'r cyfryw gyflwyno it' wir aberthau efengylaidd: nid o'i foliannau yn unig, eithr o hono ei hun, y rhai ydynt *resymol* a *bywiol*. Yr ydym yn wahangleifion o hyd, os na chanfyddwn ein hunain yn gyntaf yn aflan, ac yna yn ddefnyddiol allan o ddiolchgarwch.

Nid aeth, ac nid ae, 'r gwahangleifion o honynt eu hunain, eithr anfonir hwy gan Grist. *Ewch, a dangoswch eich hunain.* A phaham yr anfonwyd ganddo Ef? Ai o ufudd-dod i'r Gyfraith? Ai o barch i'r offeiriadaeth? Ai er rhwystro gwag ddadleuaeth? Ai er argyhoeddi gwrthddywedwyr? Ai er cadarnhau'r wyrth? Crist, yr hwn oedd uwchlaw'r ddeddf, nis troseddai mo honi. Gwyddai mai Ef ei hun a orchymynasai hyn trwy Moses. Mor

gyfiawn y gallasai roddi heibio ei eiddo ei hun! ond nis gwna felly. Er na rwyma'r ddeddf y deddfroddwr, etto, o'i wirfodd, rhwyma ei hun. Yr oedd yn dra agos i'r *Gorphenwyd*, etto, ni ragflaenai'r diwedd agos hwnnw, ond cynnaliai y Gyfraith ar ei thraed hyd ei gam olaf. Nid oedd hyn ond canghen o'r ddeddf seremoniol: etto, nis dirmygai hi, ond rhydd esampl yn ei ymddygiad ei hun o barch bwriadol iddi. Pa mor ofalus y dylem ymostwng i frenhinol ddeddfau ein Crewr—i iachusol gyfreithiau ein pennaethiaid, tra yr oedd Mab Duw mor fanwl o ran defod gysgodol!

Wrth edrych ar bersonau'r offeiriaid hynny, ni welaf ond llygredd, a gelyniaeth addefedig i'r gwir Fessia. Nis gall hyn oll, O Iesu, beri i ti ddiystyru y parch oedd ddyledus i'w sefyllfa. Eu swydd oedd sanctaidd, beth bynnag oedd eu personau. Er na feddant ras i roddi it' yr hyn sydd ddyledus i ti, ni pheidi a'i roddi iddynt hwy. Pa mor gyfiawn y disgwyli pob parch addas i'th offeiriadaeth efengylaidd, yr hwn a roddaist barch mor fanylaidd i'r un deddfol! Gwarth bod y synagog uwchlaw'r Eglwys; neu'r offeiriadaeth hwnnw a amcanet ar fyr ei ddiddymu, fod yn fwy ei gymmorth na'r un a fwriedaist i fod yn barhaus.

Pe esgeulusasai y ddyledswydd hon, y fath gri a fuasai yn ei erbyn gan ei wrthwynebwyr cenfigennus! Y fath dramgwyddiadau! Er mai'r gwahangleifion a fuasent yn y bai, ac nid yr Iesu. Ond hwy, y rhai a wylient ein Hiachawdwr mor ofalus, ac a feient mor ddiachos ar ei feddyginiaethau Sabbothol, ac ar ddwylaw annolchedig ei ddisgyblion, pa faint mwy y beiasent arno, pe, trwy ei esgeulusdra, y troseddasid ddeddf y gwahanglwyf! Nid yn unig drwg sydd i'w ochelyd, eithr tramgwydd hefyd: a hynny, nid i ni, eithr i eraill. Y tramgwydd hwnnw sydd eiddo ni, yr hwn a allesem ei rwystro.

Pa dystiolaeth gadarn a nodedig oedd hyn i allu, i wirionedd y Messia! Pa fodd y gall yr Iuddewon hyn lai nâ chredu, neu fod yn ddiesgus am eu hanghrediniaeth? Pan ganfyddant y fath rif o wahangleifion yn dyfod ar unwaith i'r deml, oll yn lân trwy ewyllysiad dirgelaidd, pa fodd y gallant lai nâ dywedyd, "Y mae hyn uwchlaw natur. Nis gall unrhyw allu meidrol wneud hyn? Pa fodd nad ydyw'n Dduw, os yw ei allu yn anfeidrol?" Eu llygaid eu hunain a gânt fod yn dystion a barnwyr o ran eu hargyhoeddiad.

Yr iachad hwn a wneir gan Grist yn fwy dichlyn nâ thrwy gelfyddyd na natur; etto, ni sicrheir, ac ni addefir yn gyhoeddus hyd y cyflawnir amryw ddefodau yn ol cyfraith Moses. Nid oes dyfodiad i mewn i'r gynnulleidfa, eithr trwy daenelliad gwaed. O Iesu, nis gallwn fod byth yn sicr o'n glanhad oddiwrth ein gwahanglwyf ysbrydol, â'r hwn y llygrir ein heneidiau, namyn trwy daenelliad o'th werthfawroccaf waed di. *Golch ni* â hwn, *a byddwn wynnach nâ'r eira.*

Yr ymddangosiad hwn ger bron yr offeiriaid a orchymynir gan Grist yn gymmaint a chan y ddeddf, er profi eu hufudd-dod. Pe safasent ar ammodau gyda Crist, gan ddywedyd, "Mynwn weled yn gyntaf pa achos fydd in' ddangos ein hunain i'r offeiriaid; nid oes achos iddynt hwy ganfod ein gwahanglwyf; byddai yn dda gennym pe canfyddent ni wedi ein hiachau; gweithreda di yr hyn a allwn ddangos iddynt, ac arch in' ddangos yr hyn a weithredaist: esgusoda ni hyd y gwnei hyn: ein gofid a'n gwarth yw ein bod yn cael ein gweled yn ormodol," buasent yn wahangleifion o hyd.

Arfer Duw erioed yw profi ufudd-dod trwy orchymynion bychain; yr hwn a brofir mewn pethau ysgafn yn gystal a'r rhai mwyaf eu pwys: ïe, yn fwy o gymmaint ag y mae'r hyn a orchymynnir yn llai: canys tybia'r sawl sydd dra mawr eu gofal mewn pethau mawrion, y gallant esgeuluso y rhai sydd lai eu pwys. Pa orchymyn bynnag a dderbyniwn oddiwrth Dduw, neu'n pennaethiaid, nid ydym i bwyso yr hyn a orchymynir, eithr awdurdod y gorchymynwr. Ofer y cynnygir anhawsder neu ddibwysder yn esgus am anufudd-dod.

Y mae'r gwahangleifion hyn yn synwyrolach. Ufuddhasant ac aethant ymaith. Beth oedd y canlyniad? *A bu fel yr oeddynt yn myned, fe a'u glanhawyd.* Pe arosasent yn eu hunman parhausent yn wahangleifion: yn awr, oblegid eu myned, y maent yn lân. O, 'r brys a wna'r fendith i orddiwes eu hufudd-dod! Yr oedd y gyfraith yn gofyn y rhodiad hwn, yn ol eu gwaredu: beth oedd i ragflaenu'r amser ychydig, a chyflawni hynny yn gynt mewn gobaith, yr hyn ar deimlad yr oeddynt yn rhwym i'w wneuthur rhagllaw? Echryslonedd y clwyf a chwanega at rasoldeb y feddyginiaeth; ac y mae'r grasoldeb yn fwy, yn ol hawsder yr hyn a ofynid ganddynt. Ni chostia iddynt ond cerdded ychydig. Haelioni'r Duw a wasanaethwn ydyw rhoddi gwobrwyon anfeidrol am ymdrech-

ion diwerth. Ni fyn fod unrhyw gyfartaledd rhwng ein gweithrediadau a'n gwobrwyon.

Etto, heblaw y taledigaeth hwn i ufudd-dod, golyget, O Iesu, yn gyfiawn, dy ogoniant dy hun. Pe nas iachesid y gwahangleifion hyn ar y ffordd, eithr ar ei diwedd, ar eu gwaith yn dangos eu hunain i'r offeiriaid, collasai'r wyrth lawer o'i disgleirdeb: efallai yr honnasai'r offeiriaid hawl iddi, gan ei phriodoli i'w gweddiau; efallai y tybiasai'r gwahangleifion mai'th fwriad oedd derchafu'r offeiriaid, megis offerynau'r waredigaeth ryfeddol hon: yn awr, nid oes modd fod gan neb gyfrannogiad ynddi, am i'r gwahanglwyf ddiflannu ar y ffordd. Megis nad oes neb yn gydgyfrannog â thydi yn dy allu, felly, nid oes yn dy glod ychwaith.

Ac yn awr, tybiaf y canfyddaf syndod a llawenydd y dynion hyn, pan ganfyddasant eu hunain yn ddisymwth wedi eu glanhau; dywaid y naill wrth y llall y fath gyfnewidiad a brofai ynddo ei hun: cyssura y naill y llall trwy ei sicrhau o'i lanhad allanol. Meddylia, a dywaid, pob un, hyfrytted fyddai'r newydd i'w deulu a'i gyfeillion. Y mae eu cymdeithas yn awr yn dra gwasanaethgar iddynt, sef er canmol a chwanegu eu dedwyddwch newydd.

Y wyrth, er eu gwneuthur yr un wedd arnynt oll, a dderbynnir mewn gwedd amrywiol. Aethant oll, yn ol y gorchymyn, tuag at yr offeiriaid: yr oeddynt oll yn ufudd, un yn unig yn ddiolchgar. Iachawyd hwy oll: gwelsant oll ddarfod eu hiachau: eu teimlad oedd yr un: eu calonau nid oeddynt felly. Beth ond gras a allaasi beri'r gwahaniaeth? A phwy a allasai wneuthur gwahaniaeth gras ond ei gyfrannwr? Yr hwn a weithredasai iachad ynddynt oll, nis gweithredodd ras ynddynt oll, eithr mewn un. Yr un weithred, a'r un dybenion, nid ydynt o'r un effeithioldeb ar bawb: lle y caiff yr ych laswellt, caiff y sarph wenwyn. Gweddiwn oll, gwrandawn oll; un a ymaith yn well, arall a wrthddadleua. Yr ewyllys a bar y gwahaniaeth: ond pwy a wna wahaniaeth ewyllysiau ond yr Hwn a'u gwnaeth? Yr hwn a grea galon newydd, a âd garreg mewn un mynwes, rhydd gnawd yn y llall. *Nid o'r hwn sydd yn ewyllysio, nac o'r hwn sydd yn rhedeg chwaith, ond o Dduw, yr hwn sydd yn trugarhau.* O Dduw, os na edrychwn i fynu attat ti, gallwn ddyfod heb gael meddyginiaeth: gallwn gael ein hiachau heb fod yn ddiolchgar.

Y dyn hwn a âd ei gyfeillion i geisio Crist. Tra yn wahanglwyfus, cyfeillachai â gwahangleifion. Yn awr, am ei iachau myn fod yn rhydd. Ni ddywaid, "Daethum gyda'r dynion hyn, a chyda hwynt yr âf: os dychwelant hwy, dychwelaf finnau: os na wnant, paham y dychwelwn fy hunan? Megis nad wyf gallach na hwy, felly nid oes achos i mi flaenori arnynt mewn diolchgarwch." Y mae achlysuron, pan y mae ymwahaniaethad oddiwrth arferion rhai ereill, nid yn unig yn gyfreithlon, eithr yn ganmoladwy. *Na ddilyn y lluaws i wneuthur drwg. Myfi a'm tylwyth a wasanaethom yr Arglwydd.* Gwael ac annheilwng yw i ddyn ymostwng i esamplau rhai ereill, fel ag i beidio ar droiau fod yn esampl iddynt hwy. Pan fyddo drwg yn cael ei wneuthur, neu dda yn cael ei esgeuluso, pa faint gwell yw myned ar hyd yr iawn ffordd wrthym ein hunain, na chrwydro gyda chwmni!

O battrwn hyfryd o ddiolchgarwch! Pa adtaliad cyflym sydd yma! Nid cynt y canfydda ei wellhad, nag y brysia i'w addef: ni chaiff y ddawn ddim marw, ddim cysgu yn ei law. Hwyrol addefiadau o'n rhwymedigaethau a aroglant o fusgrelli ac anniolchgarwch. Gyda pha ddiwydrwydd a llafur y cyflawnir y ddyledswydd yma! Ni saif y gwr yn llonydd, ond ymdraffertha i ddychwelyd. Mor galonog yr addefa'r fendith! Nid uwch ei lais yn ei weddi nag yn ei ddiolch. Mor ostyngedig yr anrhydedda ei Gymmwynaswr! Syrthia wrth ei draed, gan addef ar unwaith gymmwynasgarwch ac anrhydedd. Buasai yn lles i holl Israel gymmeryd eu dysgu gan y Samariad hwn.

Anfonir hwn gyda'r lleill at yr offeiriaid. Gwyddai yn dda fod y ddyledswydd hon yn gangen o'r ddeddf seremoniol, yr hon nid amcanai ei esgeuluso: ond ei galon a hysbysai iddo fod y ddyledswydd foesol o ddiolchgarwch i'w Gymmwynaswr yn galw am ei sylw cyntaf. Yn gyntaf, gan hynny, dychwel cyn myned rhagddo. Rheswm a ddysgodd i'r Samariad hwn, a ninnau trwyddo, fod yn rhaid i gysgod roddi lle i sylwedd; a phrif bynciau ufudd-dod flaenori ar bob cyflawniadau defodol.

Nid heb achos y sylwir ar wlad y gwahanglwyfus diolchgar hwn. *A Samariad oedd efe.* Y lle a adwaenir ac a warthruddir â chrefydd anurddedig gan baganiaeth. Nis gall anfanteision allanol o ran gwlad neu hiliogaeth gau i fynu lwybr gras Duw a'i rydd etholiad: megis, i'r gwrthwyneb, na thyccia

manteision genedigaeth neu natur ddim mewn pethau ysbrydol.

Gystal y gwyddet, O Iesu, am dy ddaioni dy hun! *Oni lanhawyd y deg? ond pa le y mae'r naw?* Er ymbentyrru o'r gwahangleifion hyn at eu gilydd, ni rwystrodd hyny dydi rhag gwybod eu nifer. Cyfiawn a doeth i ti gadw cyfrif o'th anrhegion. Celfyddyd dda a buddiol ynom ni, ddynion, yw annghofio'r doniau a roisom, a'r tramgwyddiadau a dderbyniasom. Ond nid felly gyda Duw. Ein beiau yn wir a annghofir ganddo yn gyflym: gan y gwna *maddeu anwiredd* ran fawr o'i enw: ond nid oes rheswm am iddo annghofio ei drugareddau i ni: y maent yn deilwng o goffadwriaeth heblaw yr eiddo ni. Ei roddion a wasgerir ar ei holl weithredoedd: nid oes greadur a'r na phrofa ei haelioni: y mae ei haul a'i wlaw ar fwy na'i gyfeillion: ond nid oes un rhan o'i ddaioni i neb yn llithro allan o'i gof. Paham, O Dduw, na chadwn gyfrif-lyfr o'th ddoniau i ni, yr hwn, gan gyfatteb â'r eiddo ti, a allai dy gyhoeddi di yn haelionus, a ninnau yn ddiolchgar?

Ni thardda'r cwestiwn hwn o ran anmheuaeth, ond o ddannodiaeth Perffaith y cyfrifai gamrau'r gwahangleifion absennol hynny. Gwyddai lle yr oeddynt. Beia ar eu hanniolchgarwch, am nad oeddynt lle y dylesid eu gweled. Yr oedd i ti achos cyfiawn i feio, O Iesu, am na ddychwelodd ond un Samariad, pan na ddychwelodd naw o Israeliaid er eu hiachau fel yntau. Pe buasent oll yn Samariaid, buasai hyn yn feius: ond yn awr am eu bod oll yn Israeliaid, yr oedd eu hanniolchgarwch yn ffieiddiach na'u gwahanglwyf. Po mwyaf ein rhwymedigaethau i Dduw, mwyaf gwaradwyddus ein hanniolchgarwch. Prin y mae un o ddeg yn gofalu am roddi yr hyn sydd eiddo i Dduw. Nid yw'r esgeulusdra hyn yn fwy cyffredinol nag annghymmeradwy. Ni fuasai Crist yn dywedyd dim am eu presennoldeb, oni buasai fod eu habsennoldeb yn ffiaidd a niweidiol.

Luc xvii.

LLYN BETHESDA:

TESTYN MYFYRDOD MEWN PREGETH,

A Bregethwyd yn y Llŷs, yn ngwydd y Brenin Iago, o goffadwriaeth bendigedig.

Gellwch edrych mewn mannau eraill yn hir heb ganfod un gwyrth: ond wele yma ddau ar un golwg: un, sef yr angel yn iachau clefydau; y llall, sef Arglwydd yr angelion, Crist Iesu, yn rhagflaenu'r angel yn ei iachad. Crist a weithiodd y cyntaf trwy'r angel; yr ail yn ddigyfrwng trwyddo ei hun. Y cyntaf sydd ddigyffelyb, canys, fel y sylwa Montanus, nid oes un *gwyrth barhaus*, (miraculum perpetuum) ond hon yn holl Lyfr Duw.

Ymfoddlonwch ar dreulio'r awr hon gyda mi yn mhyrth Bethesda, a chyd-ystyriwn ddarluniad *o le'r* wyrth hon, ei *defnydd*, a'i *hamseriad*. Y tri hyn a roddant derfyn i'm hymadrodd i, a'ch astud wrandawiad chwithau.

I. O'r *Amseriad*, yr hwn sydd flaenaf o ran lle ac amser, y tardda dau ben: 1. Gwyl yr Iuddewon; 2. Crist yn myned iddi.

1. Yr oedd yr Iuddewon yn llawn o wyliau, o ordeiniad Duw a'i eglwys.

O ordeiniad Duw;—wythnosol, misol, blyneddol.—Wythnosol; yr un honno o'r saith, yr hon, O, na ddysgem oddiwrthynt ei chadw yn rhagorach. Yn yr olwg hon, dywedodd Seneca fod yr Iuddewon *septimum ætatis partem perdere*, "yn colli y seithfed ran o'u hamser"—Misol; y lleuadau newyddion, Num. xxvii.—Blyneddol; y Pasc, y Pentecost, a gwyliau mis Medi.

O ordeiniad yr Eglwys;—Y Purim, gan Mardocheus; a'r Encoenia, gan Judas Maccabeus, yr hon a anrhydeddodd Crist â'i bresennoldeb ei hun. Ioan x.

Diau wneuthur o Dduw hyn, er sirioli ei bobl yn ei wasanaeth: oddiyma yr eglwys yn ganmoladwy a ddilynodd ei esampl. Bod heb wyliau sydd anniddan; gormod o'r cyfryw sydd baganaidd a choelgrefyddol. Nis gosodasai Duw y Pasc Cristionogol ar amser yr un Iuddewig, a'r Sulgwyn ar y Pentecost Iuddewig, pe na fuasai am i'r gwyliau hyn barhau. A phaham y byddai i'r Eglwys Gristionogol lai awdurdod na'r Synagog Iuddewig?

Yr oedd yma nid yn unig cadw gwyl, ond gwledda: rhaid iddynt ddyfod o flaen Duw *cum muneribus, â'u rhoddion*. Rhaid treulio y ddegfed ran o'u cynnyrch ar y tair gwyl arbennig, heblaw eu degymau blaenorol i Lefi. Deut. xiv. 23. Nid oedd gwyl, yn yr hon y gwleddent uwchlaw chwe awr; ac mewn rhai o'r cyfryw, dywaid traddodiad fod eu mesur o ddiod iddynt iw yfed: a Dafydd, pan gadwodd wyl i'r arch, a ganiatta i bob Israeliad teisen o fara, dryll o gig, a chostrelaid o win: nid ciniaw sych, *prandium caninum*; nid yfed gwin yn unig heb gig, ond er gwneud perffaith wledd, bara, cig, gwin. 2 Sam. vi. 19.

Gwir Burim yr Ynys hon ydynt ddwy wledd Awst a Thachwedd. Nid yw ef yn wir Israeliad, yr hwn nid yw yn eu cadw; megis y dyddiau a wnaeth yr Arglwydd. Pa bryd y mae llawenydd a gorfoledd yn brydlawn, os nid mewn gwyliau? ond nid gormodedd. Maddeuwch i mi, nis gwn pa fodd y cedwir gwyliau yn y llŷs; ond fel y dywedodd Job pan feddyliodd am wleddau ei feibion, *Fy meibion ond odid a bechasant*; felly bydded i minnau ddywedyd, ond odid eich bod chwithau'n gwneud felly. Os darfu i ormodedd anianol osod ei throed yn y gwyliau Cristionogol hyn, bydded i mi ddywedyd o leiaf gydag Eli hynaws, *Non est bona fama, filii, Nid da'r gair yr ydwyf fi yn ei glywed, fy meibion*. Ai tybied a wnewch fod rheol St. Paul, *Non in comessationibus et ebrietate, nid mewn cyfeddach â meddwdod*, yn perthyn i ddyddiau gwaith yn unig? Yr oedd gan yr Iuddewon dyb, fod y cythreuliaid yn ffoi o'u dinasoedd, *ad montes umbrosos*, "i'r mynyddoedd gysgodfawr," ar eu sabbathau a'u dyddiau-gwyl. Na ddyweder, eu bod ar ein gwyliau Cristionogol ni *è montibus aulam petere*, "yn dyfod i'r llŷs o'r mynyddoedd," a'u bod yn ceisio ac yn cael, nid *loca arida*, ond *madida*, "nid lleoedd sychion eithr gwlybion." Na atto Duw i Gristionogion aberthu i Bacchus, yn lle'r byth-fywiol Dduw, a'ch bod, ar y dydd y bwriadwyd eich chwythu o'r ddaear i'r nefoedd gan dân dwyllodrus, yn dwyn i waered dân digter Duw o'r nef arnoch, trwy gyfeddach â gormodedd. Gwasanaeth Duw, medd Crist, yw *unum necessarium*, "yr un peth angenrheidiol." *Homo ebrius, superflua creatura*, "Dyn meddw sydd greadur nad oes mo'i eisiau," medd Ambros. Waethed y cyttuna'r ddau hynny â'u gilydd! Anturiais ddywedyd hyn fel gocheliad, nid cerydd.

Cymmaint a hyn ar fod gwyl yr Iuddewon. Pa wyl ydoedd nid yw'n llawn hysbys: pa un ai'r Pasc, megis y tybia Irenaeus a Beza, oddiwrth Ioan iv. 35: lle y dywaid ein Hiachawdwr, *Y mae etto bedwar mis, ac yna y daw y cynhauaf*: neu'r Pentecost, yr hon oedd ddeng niwrnod a deugain ar ol ysgwyd yr ysgub (ar y Pasc) megis y barna Cyril, Chrysostom, Theophylact, Euthymius, a rhai diweddarach: neu un o wyliau mis Medi, yr hyn yw barn ereill. Rhagoroldeb yr wyl a ddywaid o blaid y Pasc, yr wyl mewn modd arbenig: nifer yr esbonwyr o blaid y Pentecost: nifer y gwyliau o blaid Medi: canys, megis yr ymhoffai Duw yn y nifer saith, yr oedd y seithfed dydd yn sanctaidd, y seithfed flwyddyn, a'r seithfed seithfed flwyddyn: felly dangosai ei hoffder yn y seithfed mis, sef Medi; yr hyn a geidw ei rif o hyd: y dydd cyntaf o'r hwn oedd gwyl yr udgyrn, y degfed *dies expiationnis*, "dydd y cymmod," ac ar y pymthegfed y dechreuai gwyl y pebyll dros saith niwrnod.

Oferedd yw chwilio am yr hyn ni lesha yn ol ei gaffael. Beth os y Pasc ydoedd? y Pentecost? y Pebyll? Pa ennill, pa golled yw hyn? *Magnâ nos molestiâ Johannes liberasset, si unum adjecisset verbum.* "Gwaredasai Ioan ni allan o ddirfawr drafferth, pe chwanegasai ond un gair," medd Maldonat. O'm rhan i rhodded Duw drafferth i'r neb a'u carant. Dyma un o'r ofer ddadleuon a warafuna St. Paul i'w Dimotheus; ïe, yr hyn yw eu sylwedd, un o'r pethau a eilw, yn *ynfyd ac annysgedig gwestiynau*, 2 Tim, ii. 23. *Quantum mali facit nimia subtilitas.* "O, gymmaint o ddrwg a wna gormod o gywreinrwydd," dywaid Seneca. Ymofyned y monachod ofer hynny am y pethau hyn, y rhai nid oes ganddynt ddim i'w wneud ond casglu gwellt mewn duwinyddiaeth: megis Appian y Grammadegwr, yr hwn mewn hir araeth a bigai allan o'r gair cyntaf yn llinell gyntaf gwaith Homer rif ei lyfrau, a elwir *Iliad* ac *Odyssey:* neu Didymus, yr hwn a gyfansoddodd rai o'i lyfrau, y rhai oeddynt bedwar cant i gyd, i chwilio o ba wlad oedd Homer, pwy oedd gwir Fam Æneas, beth oedd oedran Hecuba, pa faint o amser oedd rhwng Homer ac Orpheus: neu'r Beirniaid doethion hynny, am y rhai y sonia Seneca, a gyfansoddasant lyfrau cyfain er dangos pa un oedd henaf, ai Homer ai Hesiod. *Non profuturam scientiam tradunt.* "Ni thraddodant wybodaeth fuddiol," megis y dywaid Ef. Ymfoddlonwn ar fod yn anwybodus o'r hyn

a gelodd Duw, gan wybod na fyddai yn lles i ni wybod yr hyn nis datguddiodd.

2. Yn hytrach ymofynwn paham yr âi Crist i fynu i'r wledd. Canfyddaf ddau linyn sidan a'i tynasant Ef yno. 1. Ei ufudd-dod. 2. Ei ddymuniad i eglurhau ei ogoniant.

1. Cyfraith gyffredin oedd i'r holl wrrywaid ymddangos dair gwaith yn y flwyddyn ger bron yr Arglwydd. Efe oedd y Duw yr aent i fynu i'r wyl i'w addoli; er hyny â i fynu i addoli ei hun. Dechreuodd ei fywyd mewn ufudd-dod, pan ddaeth yn mru ei fam i Bethlehem, ar drethiad Augustus; ac felly y parha Ef. Gwyddai yr hyn oedd ddyledus iddo. *Gan bwy y cymmer brénhinoedd y ddaear deyrnged, gan eu plant eu hunain, ynte gan estroniaid? Gan hynny y mae y plant yn rhyddion.* Er hynny, Efe, yr hwn a dalai deyrnged i Cesar, a dâl y deyrnged hon o ufudd-dod i'w Dad. Yr hwn oedd uwch na'r gyfraith a ymostynga iddi. *Legi satisfacere voluit, etsi non sub lege.* "Mynnai foddloni'r gyfraith, er nad oedd dan y gyfraith." Ysbryd Duw a ddywaid, *Dysgodd ufudd-dod yn yr hyn a ddyoddefodd*: diau ddysgu o hono'r cyfryw trwy'r hyn a wnaeth hefyd. Hyn oedd ei *prepon esti* wrth Ioan Fedyddiwr, *Gweddus yw cyflawni pob cyfiawnder.* Ni chyflawna lai na phob defod i'w Dad. Peryglus esgyn i'r Jerusalem honno yr hon a adawsai o ran ei malais; etto a i fynu yn awr drachefn. Ei ufudd-dod a'i dygodd i'r wyl waedlyd honno, yn yr hon y cafodd ei hun ei aberthu! Beth a gymmerwn arnom ein bod wedi ei ddysgu gan Grist os nid ei wers gyntaf—ufudd-dod? Yr hyn a ddywedodd Gibeon wrth Israel, a ddywaid yntau o hyd wrthym ninnau, *Megis y gwelwch fi yn gwneuthur, felly gwnewch chwithau.* Beth bynnag ynte a orchymyna Duw in', pa un bynnag ai yn ddigyfrwng, neu trwy gyfryngdod ei weision, os ydym Gristionogion, rhaid i ni ei barchu, megis rhai yn gwybod ein bod yn rhwym i ddilyn ol ei draed Ef, yr hwn a ddywedodd, *yn rhol y llyfr yr ysgrifenwyd am danaf, da gennyf wneuthur dy ewyllys, O fy Nuw.* Psalm xl. Ond lle y mae aberth yn ufudd-dod, myn ufudd-dod mewn aberthiad. Gan hynny Crist a aeth i fynu i'r wyl.

2. Yr ail ddyben oedd mynegiad ei ogoniant. Os ydym ni yn oleuni'r byd, y rhai nid ydym ond golosged, beth yw Ef, yr hwn yw *Tad y goleuni.* Nid iawn ei osod Ef dan lestr Bethlehem, ond ar fwrdd Jerusalem. Yno y pryd hwn yr

ymgynnullai'r holl lwythau. Aethai Crist lawer gwaith o'r blaen heibio'r dyn hwn, pan oedd yr heolydd yn weigion ; canys gorweddasai yno flynyddoedd lawer : etto nis iacha Ef hyd yn awr. Efe, yr hwn weithiau a wnai wyrth yn lledradaidd gyda *Vide ne cui dixeris* "Gwel na ddywedwch i neb," fel na chaffo neb ei wybod: brydiau eraill a wna wyrthiau ar chwareu-fwrdd y byd, fel y canfyddai pawb, ac y cyhoeddid ar bennau-tai. Addas oedd argyhoeddi'r byd y wedd gyhoeddus hyn, a'i ennill trwy grediniaeth, neu ei golli trwy ddiesgusrwydd. Po mwyaf cyffredin y da, goreu oll ydyw. *Yn nghanol y gynnulleidfa, in ecclesiâ magnâ, y'th folaf,* medd Dafydd. Nid mewn conglau y ceir anrhydedd. Nid oes neb, medd perthynasau cenfigenus Crist, yn ymddirgelu, ag yntau yn dymuno bod yn enwog, neu wneuthur Duw felly. Rhaid defnyddio'r cyfleusderau goreu i'w ogoneddu Ef. Yr hwn a fynnai gael ei groeshoelio ar yr wyl, fel y byddai ei angau a'i gyfodiad yn fwy hysbys, a wna wyrthiau ar yr wyl fel yr amlygid yn helaethach ei ddwyfol allu. *Flos campi,* ac nid *flos horti* yw'r Iesu, "blodeuyn y maes, nid blodeuyn yr ardd," medd Bernard. Nis gall Duw oddef i'w rasau gael eu mygu ynom. *Ni chuddiais dy gyfiawnder yn fy nghalon,* medd y Psalmydd. Absalom, pan fynnai fod *insigniter improbus,* "yn enwog mewn pechod," a gyflawna ei ddrygioni yn gyhoeddus, yn llygaid yr haul, dan lén yn y byd ond y nef ei hun. Y neb a fynnai wneud gwasanaeth rhagorol i Dduw, rhaid iddo ei wneud fel y gellir ei ganfod. Ennillodd Nicodemus lawer trwy Grist, ond nid Crist trwyddo ef, tra, fel aderyn y nos, ni ddaethai atto ond gyda'r dylluanod a'r ystlumod. Yna y dechreuodd fod yn ddisgybl buddiol, pan feiddiodd wrthsefyll y Phariseaid, pan gondemnient Grist ; eithr yn fwyaf felly, pan yn nos ei farwolaeth y torrodd goleuni ei ffydd allan yn eglur, ac y cymmerth y corph i lawr o wyddfod yr holl lu a syllai arno, gan ei berarogli. Pan gyffeswn enw Duw gyda'r Psalmydd, ger bron y brenhinoedd : pan gyffesa Brenhinoedd, Amddiffynwyr y ffydd, eu crefydd mewn coffadwriaethau cyhoedd a thragywyddol ger bron pob cenhedl, ar bob amser ; hyn a ddwg ogoniant i Dduw, ac yn Nuw iddynt hwythau. Nid gwaeth pa mor ddirgel fyddo'r drwg, a pha mor wybyddus y da.

II. Hyn sydd ddigon ar yr amseriad ; DARLUNIAD O'R LLE a ganlyn.

Ni arosaf yma, i ddangos anwybodaeth y Cyfieithiad cyffredin Rhufeinig, yn uno *probatica* a *piscina* yn nghyd, yn erbyn eu heiddo hardd Vaticanaidd eu hunain, ag amryw o rai henaidd: nac i dreulio amser i chwilio pa un ai *agora* neu *puli* a ddefnyddir yma fel enw cadarn i *probatici*. Mwyaf tebygol yw mai'r porth-defaid hwnnw ydyw, a sonir am dano yn Ezra: nac i ddangos pa mor wael yr atteb *piscina* yn Lladin i *kolumbithra* yn y Groeg. Yr eiddo ni a'i cyfieithia *llyn* yn rhagorach nag y gall un gair Lladin ei fynegi: nac i ddangos, yr hyn a allwn, nifer yllynnau cyhoeddus yn Jerusalem: nac i ymofyn am ddefnyddioldeb y llyn hwn pa un ai ydoedd er golchi yr anifeiliaid a aberthid, neu ymysgaroedd yr ebyrth. Oddiyma, cofiaf, y dwg Jerom rinwedd y dwfr, a dychymygai y canfyddai, yn ei amser ef, ryw gochni, megis pe gallasai'r gwaed a dywalltesid er's pedwar cant o flynyddoedd, ddal ei liw yn y dyfroedd o hyd: heblaw y buasai yn llyn dyeithr i nofio ynddo, yr hwn a ddarllewid á gwaed, a hwn oedd *kolumbithra*. Y gau dyb hyn a dardda oddiwrth wall y cyfieithiad yn uno ar gam *kolumbithra* a *probatiki*. Ni ymofynaf ychwaith pa un ai dylai fod Bethsida, neu Bethsheda, neu Bethesda. Pe nas gwyddai chwi a minnau beth i'w wneud o'n hamser, gallem yn hawdd dreulio cymmaint o oriau yn y llyn hwn, ag a dreuliasai'r claf druan o flynyddoedd ynddo. Ond adeiladaeth sydd yn ein golwg, ac nid cywreinrwydd.

Yr oedd i'r llyn hwn *bum porth*. Ni redaf yma chwaith gydag Awstin i gyffelybiaethau mai'r llyn hwn oedd pobl yr Iuddewon. *Aquæ multæ, populus multus*, "Dyfroedd lawer, pobl lawer," ac mai'r pum porth oedd pum llyfr Moses: ac ni chymmeraf y drafferth o wrthbrofi Adrichomius, yr hwn, allan o Josephus, a'n perswadiai i'r pum porth hyn gael eu hadeiladu gan Solomon, ac mai hwn oedd *stagnum Solomonis*, "llyn Solomon," er gwasanaeth y deml. Y geiriau canlynol a ddangosant in' i ba ddyben yr oedd y pyrth: er derbyn *cleifion, deillion, cloffion, gwywedigion, a ddisgwylient am gynhyrfiad y dwfr*. Ymddengys fod muriau o'i amgylch, i gadw'r anifeiliaid draw: a'r pum porth nennog a wnaethid gan ryw gymmwynaswyr, er rhagorach cyfleusdra. Yma y cefnogid trugaredd Duw gan dosturi dynion: os rhydd Duw iachad, rhoddant hwythau lettyfa. Diammau mai da rhoddi ein llaw yn ei law Ef; ac

i rwyddhau gweithredoedd da trwy roddi cyfleusderau i'w mwynhau.

Yr oedd Jerusalem wedi dyfod yn ddinas o waed, i erlid y prophwydi, i esgeuluso o'i bodd yr hyn a berthynai i'w heddwch, i halogi teml Dduw, i fod yn llwyr ffurfiol yn ei wasanaeth: ac etto wele yma adeiladau elusengar cyhoeddus yn nghanol ei heolydd. Nis gallwn bob amser farnu am wirionedd crefydd wrth gyflawniadau cardodol. Rhanodd Judas yr arian dros Grist; nid oedd bradwr ond efe. Y teithiwr druan a yspeiliasid rhwng Jerusalem a Jericho, a esgeuluswyd yn gyntaf gan yr Offeiriad, yna gan y Lefiad: o'r diwedd daeth Samariad, ac a'i hamgeleddodd. Ei grefydd oedd ddrwg, ond ei weithred yn dda: crefydd yr Offeiriad a'r Lefiad oedd dda, eu diffyg o gariad yn ddrwg. Yr oedd Novatus ei hun yn ferthyr, er hynny yn Schismatic. Ffydd yw'r enaid, gweithredoedd yr anadl, medd Iago: ond megis y canfyddwch mewn megin, y mae anadl a wneir trwy drais heb fywyd: felly yn y rhai a ymchwyddant gan wynt balchder gall fod elusengarwch heb ffydd.

Eglwys Rhufain at ei phedair gradd nodedig o Jacobiniaid, Francissiaid, Augustiniaid, a Charmeliaid, a chwanegodd y bummed, sef y Jesuitiaid: ac megis Jerusalem arall adeiladodd bum porth i'r pum gradd gwahanglwyfus clawrllyd hyn: fel os cynhyrfir dwfr unrhyw wladwriaeth, y deuent i mewn am ran o hono. Pa nifer o gelloedd a monachdŷau a adeiladodd i'r cloffion truain hyn! ac yn awr (er yr ymdderchafa uwchlaw'r oll a elwir yn Dduw, er y gweithreda gyda, ac yn erbyn Duw, er syrthio i lawr ger bron pob boncyff ac afrlladen er y lladd frenhinoedd, ac y twylla swyddogion,) tybia mai hi yn unig yw dinas Duw. *Digna est, nam struxit synagogam*, "Y mae hi yn deilwng, canys adeiladodd i ni Synagog." A ydym ni mwy cywir mewn barn, ac oni fyddwn mor elusengar? Cywilydd gennyf feddwl am uchelwyr a marsiandwyr goludog, y rhai sy'n marw heb adael dim at ein pum porth Bethesda. Beth a ddywedwn? A wnaethent eu mammon yn dduw, yn lle gwneud cyfeillion trwyddo â Duw? Ië, pan fyddont yn marw, oni ymadawant â'r hyn nis gallant ei gadw, megis llogwyr da Ambros; fel y gallont gael yr hyn nis gallant ei golli? A allant ddechreu eu llythyr-cymmun, *In Dei nomine, Amen*, "Yn enw Duw, Amen," a rhoddi dim i Dduw? Ai tyst yn unig ydyw Duw, ac nid cymmun-rodd dderbyniwr? A allwn

roddi ein heneidiau i Grist yn y nef, a rhoddi dim i'w aelodau ar y ddaear? Ac os na roddant, oni fenthycciant i'r Arglwydd. *Y neb sydd yn rhoddi i'r tlawd, sy'n rhoddi benthyg i Dduw.* A roddant ar llog gyda neb ond Duw? Iē, pan yn lle rhoddi sicrwydd rhagllaw, y mae yn derbyn âg un llaw, ac yn talu â'r llall, yn derbyn ein rhodd, ac yn rhoddi in' ogoniant? O, gynnildeb ḍamniol dynion gweigion, yr hwn a ddianrhydedda'r efengyl, ac a yspeilia o'r nefoedd! Gadewch i mi ddangos i chwi Bethesda ag eisiau pyrth arno. Pa dŷ deilyn gach o arllwysiad iddo nag eglwys Dduw; o'r hon y tardda dyfroedd o gyssur, dyfroedd y bywyd? Wele rai o'r pyrth hyn, mor belled oddiwrth gael eu hadeiladu, fel y maent yn cael eu tynnu i lawr. Rhyfeddod yw os nad yw cerrig tŷ dinystriedig Duw wedi adeiladu rhai o'ch tŷau chwi; ac os nad oes rhai o honoch â'ch gwisgoedd costus yn ymdoedig âg eneidiau.

Yr oeddid yn arfer rhifo tri o ryfeddodau yn Lloegr, *Ecclesia, Femina, Lana,* "Yr eglwysydd, y menywaid, y gwlan." Y menywaid ydynt felly o hyd, y rhai a allant honni hawl i syndod oblegid eu balchder, os nid eu personau. Ond am *Lana*, gwlan, os hwn yn unig sydd ryfeddol, sicr wyf mai anmhriodol ei gyssylltu gyda *Ecclesia*'r eglwys. Y mae'r eglwys wedi ei chneifio, ac nid oes ond y croen noeth ar ei chefn. Ac am *Ecclesia*, naill ai mae dynion wedi dywedyd gyda'r Babyloniaid, *Dyn oethwch, dynoethwch hi, hyd ei sylfaen;* neu ynte, gyda golwg ar ei chynnaliaeth, *I ba beth y mae'r golled hon?* Pa nifer o eneidiau atgnoedig a anfonasant yn ol, gyda meibion Jacob, eu harian yn ngeneuau eu sachau! Pa nifer o fawrion, yn eu llythyrau cymmun, a ddychwelasant eu melldigedig yspail o feddiannau'r eglwys: gan ddewis tlodi eu hetifeddion yn hyttrach na llwytho eu heneidiau. Dywaid Cyrian, *Dum times, ne pro te patrimonium tuum perdas, ipse patrimonio tuo peris.* "Tra yr ofni golli dy dreftadaeth er dy fwyn dy hun, yr wyt yn colli dy hun yn dy dreftadaeth."

Chwi fawrion, na threuliwch eich amser oll yn adeiladu cestyll yn yr awyr; neu dŷau ar y tywod: ond cyssegrwch eich dwylaw a'ch codau at adeiladu pyrth Bethesda. Gwarth yw i Gristion goludog fod fel Blwch Nadolig, (Christmas-Box,) yr hwn sy'n derbyn y cwbl, ac nis gellir cael dim allan o hono, hyd ei wneuthur yn ddrylliau; neu fel llaw gŵr yn boddi, yr hwn a afaela yn mhob peth ag a allo. *Yn gwneuthur daioni, a chyfrannu,*

nac annghofiwch : canys â chyfryw ebyrth y rhyngir bodd Duw.

III. Dyma'r lle, ond beth oedd y DEFNYDD o hono? Pob math ar gleifion oeddynt ar làn llyn Bethesda: pa le y dylai'r gwywedigion fod ond wrth yr Yspytty? *Ycleifion, deillion, cloffion, gwywedigion*, pawb a'r oeddynt *morbo laborare*, neu *vitio corporis*, yn "cwyno gan afiechyd neu wendid," oeddynt yno. Mewn pethau naturiol, nid yw un cyfarwyddyd meddygol yn iachau pob math ar glefyd; nac un gweithredwr ychwaith. Y mae mae un yn Llygad-Feddyg, a'r llall yn Osodwr Esgyrn, a'r llall yn Archoll-Feddyg: ond yr un yw pob clwyf i oruwchnaturiol allu Duw.

Hippocrates, er yn dywysog y Physygwyr, etto a dwng i Esculapius na ymwnai byth â chlefyd y garreg. Nid oes clefyd na fydd i gelfyddyd ymdrin àg ef, ond y mae llawer un na all ei iachau. *Hæmorrhoissa* druan fu ddeunaw mlynedd yn llaw'r meddygon, y rhai a weithiasent ymaith ei chorph a'i harian. Ië, rhai a laddant yn lle iachau: yr hyn a bar mai'r un gair a ddefnyddir yn yr Hebraeg am feddygon a dynion meirwon. Ond wele, yma, bob afiechyd yn cael ei feddyginaethu gan un llaw, gan un dwfr. O, ddeillion ac afiach ysbrydol, deuwch i lyn Bethesda, gwaed Crist. A gŵynwch oblegid dallineb eich anwybodaeth? Yma derbyniwch olwg amlwg. A gŵynwch rhag anhwyldeb tymmerau? Cewch yma lonyddwch: rhag gormoddedd o hylif pechadurus? Cewch yma eich gwaghau: rhag eich anallu i ufuddhau? Cewch yma gywirdeb. O, wywedigrwydd marwol eich serchiadau da? Cewch yma fywyd a grym. Beth bynnag yw eich gwendid, deuwch i lyn Bethesda i gael eich hiachau.

Gall y rhai'n oll gael eu hiachau, ond cânt eu hiachau yn hamddenol. Rhaid iddynt oll ddisgwyl, a disgwyl mewn gobaith. Meddyliaf, pa mor genfigenus yr edrychai'r gwywedigion ar eu gilydd, gan fod y naill yn tybied y llall yn rhwystr, y naill yn gwilio er rhagflaenu'r llall—pob un yn gobeithio bod y nesaf; megis llŷswyr cenfigenus, y rhai a ddyheuant ac a gydymrysonant am y derchafiad nesaf, ac a'u tybiant yn faich i ddisgwyl, ac yn boen i gael eu rhagflaenu. Ond rhaid disgwyl yn Bethesda. Teilwng o'i ffyn-baglau ydyw'r hwn ni ddisgwyl am adeg Duw i'w iachau. Nid oes na rhinwedd na llwyddiant heb amynedd. Y mae disgwyl yn wers gynnefin i lŷswyr; ac yma y mae yn rhaid i bawb wrtho: un sydd glaf o ormodedd o

fustl, y llall o chwydd balchder, y llall o ysfannwydau, y llall o ben-ysgafnder anwadalwch, arall o daglyd hychgrug melldithion a chableddau: un sydd glaf o lythineb anifeilaidd, y llall o wayw y tlysol cenfigen: un sydd glaf o gramp grebychol ariangarwch, y llall o ddisborthiant annefnyddioldeb: un sydd rysg-rwym gan falchder, y llall a fwytteir i fynu gan eiddigedd, a'r llall sy'n pydru gan chwantau llygredig: ac yr ydym gymmaint a hynny yn fwy claf, os na theimlwn y clefydau hyn. O, na allem ddisgwyl wrth Bethesda Duw, ymwneud yn ddiwyd â'i ordinhadau. Nis gallem fethu cael ein iachau, mwy nag y gallem yn awr obeithio am iachad. Disgwyliwn lawer, a llafuriwn lawer dros y corph. *Quantis laboribus ajitur, ut longiore tempore laboretur! Multi cruciatus suscipeuntur certi, ut pauci dies adjiciantur incerti.* "Pa lafur a gymmerwn fel y caffom lafurio yn hwy? Dyoddefwn lawer o boenau sicr, er chwanegu at ein bywyd ychydig o ddyddiau ansicr."—Medd Awstyn. Paham na wnawn hyn dros yr enaid? Ni lwyddwn heb ddisgwyl. Dywedwyd wrth y cloff, Act. iii. 4, *Edrych arnom ni.* Edrychodd arnynt. Cyssur tlawd a glywodd, *Arian ac aur nid oes gennyf:* ond yr ymadrodd nesaf a dalodd am y cwbl, *Surge et ambula,* "*Cyfod a rhodia:*" a hyn a fu am iddo *epeichen prosdokôn daliodd sylw arnyt gan obeithio cael rhyw beth ganddynt.* A ddymunem gael ein hiachau? Nid ydym i fyned am fynud at Bethesda, megis *ci at Nilus:* tynnu dwfr fel Rebecca a myned ymaith: nid eistedd dros dro ar y làn, megis yr Israeliaid ar làn afonydd Babylon: ond rhaid i ni breswylio yn nhŷ Dduw, a disgwyl wrth Bethesda.

Ond beth a ddywedaf wrthych chwi, lŷswyr, ond yr hyn a ddywedodd St. Paul wrth ei Gorinthiaid, *Yr ydych wedi eich diwallu, yr ydych wedi eich cyfoethogi hebddom ni.* Llawer o honoch a ddeuent yma, nid megis i Bethel, Tŷ Dduw, neu Bethesda, tŷ arllwysiad, eithr megis i Bethafen, tŷ gwagedd. Os na chollasoch ar eich hen arfer, llefarir mwy o eiriau yn yr ystafell allanol gan y gwrandawyr, nag yn y lle addoliad gan y Pregethwr. Beth, a dybiwch bregethau megis yn achlysuro ffurfioldeb, megis pethau afreidiol, megis eich gwael seremoniau eich hunain, y rhai naill ai nid ydych yn eu clywed, neu nid ydych yn eu credu? Beth a feddyliwch am danoch eich hunain? A oes gennych chwi rhyw ffordd gefn i'r nefoedd eich

hunain, trwy'r hon y gellwch fyned, heblaw ffolineb pregethu? Neu a ganwch yr hên dôn Belagiaidd honno, *Quid nunc mihi opus est Deo?* "Pa raid sydd i mi wrth Dduw?" Beth a ddylem ddywedyd wrth hyn ond, *Increpa, Domine.* "Cerydda, O Arglwydd?"

O ran ein pregethau teuluaidd, ein gwrandawyr ydynt gyffelyb i ffrwyth pren mewn blwyddyn annhymmorol, neu fel coedwig newydd ei thorri i lawer, lle y gadewir rhai prenau i sefyll yn lled bell oddiwrth eu gilydd, neu fel yr ysgubau yn y maes, yn ol cludo'r ŷd i'r ysguboriau, un, dwy, tair, fel y dywedir. Gwir eich bod yn cael pregethau lluosoccach a rhagorach na holl lŷsoedd y byd i gyd, ond megis y dywedodd Awstin yn dda, *Quid mihi proderit bona res non utenti bene,* "Beth wyf well oherwydd peth da, os na ddefnyddiaf ef yn dda?" Gadewch i mi ddywedyd wrthych y gesyd yr holl foddion pwysig hyn chwi, oddieithr i chwi eu hiawn ddefnyddio, yn mhellach o'r nefoedd. Pe y lle addoliad a fuasai Bethesda derchafiad, O,'r nifer a gyrchasai iddo! Iē, pe byddai ond rhyw chwareudŷ, yn yr hwn y canfyddid ymddangosiadau gogoneddus ond darfodedig, nis gallai ffyn gwynion swyddogion eich cadw allan. Ond yma cynnygir i chwi, trwy hâd yr adenedigaeth, i fod yn feibion i Dduw. Cynnygir i chwi yma deyrnas nef, coron gogoniant, teyrnwialen mawrhydi, mewn gair, bywyd tragywyddol. O, na annghofiwn ein trueni i'r fath radd fel ag i ddibrisio ein hiachawdwriaeth ein hunain yn ordinhadau Duw. Ond bydded i ni wybod amser ein hymweliad. Disgwyliwn yn barchedig a diwyd ar y Bethesda hwn o eiddo Duw: fel pan ddisgyno'r angel a chynhyrfu'r dwfr, yr iachaer ein heneidiau, ac y'n dyger trwy holl raddau gras i lawn uchder gogoniant.

IOAN v.

Y RHAN FLAENAF O'R MYFYRDODAU AR

WEDD-NEWIDIAD CRIST,

MEWN PREGETH,

Yr hon a Bregethwyd yn Havering Bower, o flaen y Brenin Iago, o goffadwriaeth wynfydedig.

NID oes uwch pwngc mewn duwinyddiaeth nâ gwedd-newidiad Crist. Goddefwch im', gan hynny, eich tywys â'm llaw i fynydd Tabor: canys ni ellwch fyned yn nes i'r nef tra fyddoch ar y ddaear: fel y canfyddoch Ef yn ogoneddus ar y ddaear, gwlad ei warth a'i ddarostyngiad, yr hwn sydd yn awr yn ogoneddus yn y nef, gorseddfaingc ei fawrhydi.

Efe, yr hwn ni fynnai fod son am ei wedd-newidiad hyd ei godio feirw, a fyn fod son am dano yn awr, yn ol ei adgyfodiad a'i esgyniad, dros yr holl fyd; fel wrth y gogoniant munudol hwn y gallem farnu am yr un tragywyddol.

Yr amgylchiadau a gânt fod i ni megis godrau'r mynydd, yr hwn a ddringwn i fynu'n esmwyth. Yr *amser*, *lle*, y *gweinidogion*, y *cwmni*. Yr amser—*ar ol chwe' diwrnod;* y lle—*mynydd* uchel o'r neilldu; y gweinidogion—*Petr*, *Iago*, *Ioan;* y cwmni —*Moses ac Elias*. Yr hyn bethau, yn ol myned drostynt, ymddengys in' y fath olygfa ar ben y bryn, ag a'n gwna'n ogoneddus a dedwydd.

I. Y tri Efangylwr a gyd-unant o ran y *terminus a quo*, ei fod yn ddiattreg ar ol y geiriau hynny. *Y mae rhai o'r sawl sydd yn sefyll yma, a'r ni phrofant angau, hyd oni welant Fab y dyn yn dyfod yn ei frenhiniaeth:* yn yr hyn meddyliaf fod y weithred yn esbonio'r geiriau. Petr, Iago, ac Ioan oedd y *rhai* hyn: ni phrofasant angau, nes canfod y ddelw nefol hon o frenhinoldeb Crist wedi ei ogoneddu.

Ond y *terminus quo* a amrywia ychydig. Dywaid Matthew a Marc, *ar ol chwe diwrnod*. Dywaid Luc *Post feri octo, ynnghylch wyth niwrnod gwedi:* y rhain, fel y gellir yn hawdd eu cyssoni trwy'r gwahaniaeth arferol o *inclusive* (yn cymmeryd i mewn) ac *exclusive* (yn cau allan) yr hyn sydd angenrheidiol mewn pob rhifiadau, ac *yn nghylch wyth* o eiddo Luc: felly, tybiaf, yr arwyddant y seithfed dydd Duw, y Sabboth: paham y mae crybwylliad mor neillduol am chwe' diwrnod wedi, ac yn nghylch yr wythfed, ond er dynodi'r dydd oedd rhwng y

chwechfed a'r wythfed? Dydd Duw oedd y cymmwysaf i orchwyl mor Ddwyfol; ac addas i'r dydd hwnnw, yr hwn oedd arwydd o orphwysdra Duw, a gogoniant dyn, gael ei ddefnyddio er eglur fynegi gorphwysdra a gogoniant Duw a dyn. Ond nid oes, am a wn, neb ond fy hun o'r dyb hon. Nis gallaf fod yn rhy benderfynol. Diau mai'r seithfed oedd, pa un bynnag ai'r seithfed hwnnw, sef y seithfed yn ol yr addewid o amlygu gogoniant ei deyrnas; a hyn, efallai, nid heb ddirgelwch. "Dysg Duw," medd Hilari, "trwy eiriau a gweithredoedd, y bydd ymddangosiad gogoneddus Crist, a'n gwedd-newidiad ninnau gydag Ef, ar ol chwe oes y byd." Ond gwn beth oedd ffarwel ein Hiachawdwr, *onk humôn gnonai, ni pherthyn i chwi wybod.* Ond os nis gallwn wybod, gallwn ddychymygu; etto, nid uwchlaw yr hyn a ddylem, fel y dywaid St. Paul: nid ydym *super sapere* i fod yn rhy ddoeth, megis y llefara Tertullian.

II. O ran y lle, Tabor yw yn ol traddodiad parhaus. Nid wyf yn dymuno ei wrthddywedyd heb awdurdod.

Yr oedd hwn yn fynydd uchel yn wir—"deg ystâd ar hugain o uchder," medd Josephus: *mirâ rotunditate, sublimis,* "hynod o ran ei grwnder," medd Jerom: ac mor serth, fel y bu dda gan rai o'n teithwyr Saesoneg, y rhai a ewyllysient fyned i'w ben yn ddiweddar, roddi heibio ar hanner y ffordd, a mesur yr hyn oedd oddiarnynt â'u llygaid.

Diau fod y mynydd hwn yn arwydd o'r nefoedd: yn agos atto mewn tebygolrwydd, yn gystal a sefyllfa. Gelwir y nefoedd yn gyffredinol wrth yr enw *Mynydd Duw:* a natur, neu'r enw hwn, a ddysgodd y Paganiaid i'w ffugio trwy Olympus.

Pob matterion dwyfol, o ddim pwys, a wnaed ar fynyddoedd: ar fynydd Sinai y traddodwyd y gyfraith: ar fynydd Moria yr oedd Isaac i gael ei aberthu, oddiar yr hyn y cyfododd prydyddiaeth Abraham—*In monte providebitur,* "yn y Mynydd y gwelir:" ar fynydd Rhephidim y safodd Moses â gwialen Duw yn ei law estynedig, ac a ragddangosai Ef yn groeshoeliedig ar fryn, megis y rhagddangosai Josuah Ef ynfuddugoliaethus yn y dyffryn: ar fynyddoedd Ebal a Gerizim, y cyhoeddwyd y melldithion a'r bendithion: ar Carmel yr offrymmodd Elias: y *Phrontisteria,* ysgolion y prophwydi, oeddynt Ramah a Gibea—uchel fannau. Pwy na wyr mai ar fynydd Sion y safodd y deml? *Edrychais i'r mynyddoedd,* medd y Psalmydd; ac eilun addoliaeth, mewn efelychiad, oedd a'i allorau mynyddig ganddi: o

fynydd yr Olewydd yr oedd Crist arferol o anfon ei weddiau i fynu, ac yr anfonodd ei hun i fynu: ac yma, dywaid Luc, iddo *fyned i'r mynydd i weddio;* nid am fod Duw yn gwneud gwahaniaeth rhwng lleoedd, i anfeidroldeb yr hwn nid yw'r nefoedd ei hun ond megis dyffryn; tyb baganaidd oedd honno o eiddo'r Aramiaid, mai *Duw'r mynyddoedd* oedd Jehofa: ond am ein bod yn gyffredinol yn fwy tueddol i ddaioni, oherwydd ein rhydd olwg o'r nefoedd, neu oherwydd arswydolrwydd neu ddistawrwydd trwy unigrwydd lleoedd, y rhai, fel y dywaid un, a gynhyrfant ynom fath ar ysbryd addolgar; neu oherwydd symmudiad oddiwrth gorph gafaelgar y ddaear; po'dd bynnag, pan ganfydda'r corph ei hun uwchlaw'r ddaear, llygaid y meddwl a ymdderchafa'n rhwyddach tua ei nefoedd.

Doeth cymmeryd pob mantais ar le (heb fod yn goel-grefyddol) er rhwyddhau ein defosiwn. Yr oedd Aaron a Hur ar y mynydd gyda Moses, ac a ddaliasant i fynu ei freichiau. Aaron, medd rhai cydmariaethwyr, a arwydda mynyddig; Hur, tanllyd: nefol fyfyrdod a than cariad a dderchafant ein gweddiau at Dduw. Megis y cludodd Satan Grist i fynydd uchel, i'w demtio; felly cluda ei hyn yno, er fod yn rhydd oddiwrth demtasiwn a gwasgariad meddwl. Os ydym am wedd-newidiad ein meddwl, rhaid gadael y ddaear islaw in', a rhoi heibio bob meddyliau bydol. *Venite, ascendamus,* "O, deuwch, dringwn i'r mynydd, lle y gwel Duw, neu y gwelir," medd Bernard. "O, chwi ofalon, gwasgariadau meddwl, llafur, poen, caethiwed, aroswch yma gyda'r asyn hwn, fy nghorph, hyd yr elwyf gyda'r llangc, fy neall a'm rheswm, i addoli a dychwelyd," a ddywedir gan yr un Tad, gan gyfeirio yn gall at daith Abraham i aberthu.

Paham, ynte, yr aeth Crist i'r mynydd uchel hwn? Nid i edrych o'i gwmpas, ond, meddai Luc, *aeth i'r mynydd i weddio;* nid er golygfa ond defosiwn: fel yr esgynai ei feddyliau etto yn nes i'r nefoedd.

Wele fel yr ai Crist at bob gorchwyl o bwys, â gweddi yn ei enau. Pan oedd yn myned yn nghylch y gwaith mawr o'i ymddarostyngiad yn ei ddioddefaint, aeth i'r ardd i weddio: pan y mae yn myned yn nghylch y gwaith mawr hwn o'i ymdderchafiad yn ei wedd-newidiad, aeth i fynu i'r mynydd i weddio: aeth oddiar ei liniau at y ddau.

O, esampl hyfryd o dduwioldeb a defosiwn i ni! Yr oedd ef

yn Dduw, yr hwn a weddiodd. Gallasai orchymyn y Duw y gweddiai arno : etto, gweddiodd fel y'n dysgai ni i weddio arno Ef. Beth a ddylem ni, ddynion, fentro i wneud heb weddio : pan na wnai Ef, yr hwn oedd Dduw, ddim heb hynny?

Gallodd, ïe, 'r prydydd paganaidd ddywedyd, *A Jove principium.* "Dechreuwn bob peth gyda'r duwiau :" a phwy un o'r rhimunwyr hynny a ysgrifennai gymmaint a *baled* heb alw am help ar ryw dduw? Pa bagan a feiddia afaelu mewn gorchwyl o bwys *insaluto numine* "heb weddi ac aberth?" Ai Saul ei hun yn offeiriad, ac aberthai i'r Arglwydd, yn hytrach nag i'r Philistiaid ymladd âg ef heb iddo ddisgwyl ar Dduw ; gan feddwl bod rhyw fath ar ddefosiwn yn well nâ dim, ac yn ddiogelach aberthu heb offeiriad, nac ymladd heb weddiau. "Heb wregys, heb lwyddiant," oedd yr hen air : fel yn anmharod hyd yr ymwregysent, felly hyd y gweddient. A pha fodd y rhuthrwn ni i orchwylion Duw neu'r llywodraeth : i orchwylion pwysig a phergylus, heb dderchafu ein llygaid a'n calonau at Dduw'r nefoedd? Oddieithr i ni ddywedyd, megis yr haera malais gythreulig Surias i Luther zelog ddywedyd, *Nec propter Deum haec res coepta est, nec propter Deum finietur,* "Ni chafodd y gorchwyl hwn ei ddechreu er mwyn Duw, ac nis dibennir ef er ei fwyn." Pa fodd y bendithia Duw ni, os na weddiwn arno? Pa fodd y llwyddwn heb iddo ein bendithio? Pa fodd y gobeithiwn cael ein gwedd-newidio o glamp toes llygredig, oni esgynwn a gweddiwn? Megis y dywedodd y wraig o Samaria yn wan, gallwn ni ei ddweud yn ddifrifol. *Y mae pydew* trugaredd, *yn ddwfn, os nid oes gennyt ddim i godi,* nac edrych am brofi dyfroedd y bywyd.

Ofni'r wyf y bydd y gwaethaf o ddynion, Tyrciaid, a'r gwaethaf o honynt, sef y Mooriaid, yn codi i fynu yn y farn yn erbyn llawer o Gristionogion ; y rhai ni chymmer eu cyfraith neb yn dyst, oddieithr iddo weddio chwe gwaith bob diwrnod naturiol. Cyn dechreu'r dydd, gweddiant am ei ddyfodiad : pan ddelo'r dydd, diolchant am dano : ar hanner dydd, diolchant am gael ei hanner : yn ol hynny, gweddiant am fachludiad haul cyssurus : yn ol hynny, diolchant am y diwrnod yn gyfan : ac yn olaf, gweddiant am noswaith dda ar ol eu diwrnod. Ac yr ydym ni Gristionogion yn goddef i'r haul a'r lloer gyfodi arnom droion aneirif, heb un amser dderchafu ein calonau at ein Crewr ni a hwythau, er gofyn, neu er cyfaddef ei fendith!

O bawb dan y nef, nid oes angen gweddio ar neb yn fwy nâ gwŷr y llys. Yr hyn a wnaed ond unwaith i Grist, a wneir yn barhaus iddynt hwy: gosodir hwy ar y mynydd, a gwelant ogoniant holl deyrnasoedd y ddaear. Ond ofnaf ei bod gyda hwy megis gyda rhai morwyr, po fwyaf yr angen, lleiaf yw'r gweddio.

III. Gwelsoch y lle, gwelwch y *gweinidogion*. Ni fynnai lawer: am na fynnai i'r peth fod yn hysbys i bawb etto. Oherwydd hyn, gorchuddiodd a seliodd eu geneuau â *Nemini dicite*, "Na ddywedwch i neb."

Yr oedd tri yn iawn rif yn ol y ddeddf: *in ore duorum aut trium, yn ngenau dau neu dri o dystion*. Meddiannasai ogoniant ei Dad er tragywyddoldeb heb dystion: mewn amser yr angelion a fendithiwyd â'r olwg honno; ac yn ol hynny, dau dyst corphorol, er hynny nefol, a chwanegwyd, Enoch ac Elias: yn awr, pan gynnysgaeddwyd Ef yn ei ddyndod â gogoniant, ni chymmer ond tri o dystion, a rhai'n yn ddaearol ac egwan, Petr, Iago, Ioan.

A phaham y rhai'n? Gallwn fod yn rhy gywrain. Petr, am ei fod yn henaf; Ioan, am ei fod yr anwylaf; Iago, am ei fod, ar ol Petr, y mwyaf zelog: Petr, am ei fod yn caru'r Iesu fwyaf: Ioan, am y carai Crist ef yn fwyaf: Iago, canys carodd a cherid yn fwyaf yn nesaf at y ddau. Byddai'n well gennyf fod heb reswm am hyn, ond *quia complacuit*, "felly y rhyngodd bodd iddo ef." Paham na allem yn gystal ofyn, paham y dewisodd y deuddeg hyn o blith eraill, a gofyn paham y dewisodd y tri hyn o blith y deuddeg?

Os y pabyddion a briodolant ryw fraint i Petr oddiwrth hyn, yr hyn a allem yn hawdd ei ganiattau, pe gwna hynny hwy yn onestach, rhaid iddynt gofio, bod yn rhaid iddynt gymmeryd cwmni gyda hwynt, yr hyn nis gall yr ysbrydion Pompeiaidd hyn ei oddef. Cystal bod heb fraint, os eraill a gyfranant o honi. Ac hefyd rhaid iddynt ei ganfod yn cael ei gerydd'n fwy am ei gyfeiliornad yn y weithred hon, na i anrhydeddu trwy fod yn bresennol ynddi; tra y canfyddodd y disgybl anwyl, ac ni chyfeiliornodd.

Y tri hynny, y rhai oeddynt dystion o'i wedd-newidiad ar y mynydd, oeddynt dystion o'i ing yn yr ardd: y tri hyn oeddynt wŷddfodol ar y ddau achlysur, ond yn cysgu ar y ddau. Y rhai hyn oeddynt *arietes gregis*, "arweinyddion y praidd," megis y geilw Awstin hwynt. O, waned oedd defosiwn y tri

disgybl mawrion hyn! Y rhai hyn oeddynt dri *colofnau* St. Paul, *oi stuloi dokountes* Gal. xi. 9. Anrhydedda Crist hwy ddwywaith; unwaith, trwy eu gwneud yn dystion o'i ogoniant mwyaf, ac yna o'i ymddarostyngiad mwyaf. Cysgant y ddau dro. Y llall oedd yn y nos, ac yn fwy esgusodol: hwn yn y dydd, ïe, mewn goleuni uwch nâ'r dydd. Mynnai Chrysostom ei esgusodi, trwy ddywedyd mai syndod, ac nid cwsg ydoedd; heb ystyried iddynt gysgu wrth y gogoniant hwnnw, ac yn ol hynny yn yr ing.

Canfod y Meistr hwnnw yn gweddio, a'u dygasai hwythau areu gliniau, gallasem feddwl: yn neillduol, canfod y serchiadau nefol yn edrych allan trwy ei lygaid; canfod ei enaid yn cael ei dderchafu yn y cyfryw wedd, i'r nefoedd. Ond yn awr, y mynydd a wnaeth eu haelodau'n flinedig, eu corph a dŷn i lawr eu henaid, a syrthiasant i gysgu. Pan ganfyddai Crist weledigaethau nefol, hwythau a freuddwydient freuddwydion: tra yr oedd Ef mewn byd arall, yn ymddedwyddu â golwg ar ogoniant ei Dad, ïe, ar ei ogoniant ei hun, yr oeddynt hwythau mewn byd arall, byd o ddychymygion, wedi eu dal gan gâr angau, sef cwsg.

Heblaw esampl mor rasol, dylasai eu hangen eu hun (*quia incessanter pecco*, "Yr wyf yn pechu'n barhaus," rheswm Bernard,) eu cynhyrfu i weddio, yn hytrach nâ'u Meistr: ac, wele, yn lle gosod eu llygaid ar y nef, cauent hwynt: yn lle derchafu eu calonau, eu pennau a hongiant i lawr ar eu hysgwyddau; ac yn mhen ychydig, wele yma chwyrni, yn lle ochneidio ac ymbil.

Nid cwsg llewygol Abrahan nac Elihu oedd hwn, Job xxxiii.: nid cwsg yr Eglwys, cwsg effro; ond gwir cwsg y llygaid: ac nid y cwsg amrantus a nacca Dafydd iddo ei hun, Psal. cxxxii. 3., ond cwsg trwyadl, yr hwn a warafunir gan Solomon, Diar. vi. 4., ïe, yn hytrach cwsg marwol Adda neu Jona, ac, fel yr arferai Bernard ddywedyd, pan glywai Fonach yn chwyrnu, y *carnaliter seu seculariter dormire*, "Y cysgai yn gnawdol neu'n fydol."

Gweddi yw'r *receipt* arferol yn erbyn pechod. Pa mor dueddol ydym iddo, pan y dylem ofalu am bethau dwyfol! Cysgodd Adda yn Mharadwys, a chollodd asen; ond y cwsg hwn oedd o roddiad Duw, a'r asen hon o gymmeriad Duw. Yr hwsmon a gysgodd ac a gafodd efrau yn ei faes. Eutychus a

gysgodd ac a syrthiodd. Tra y mae Satan yn ein suo i gysgu, megis y sigla'r cryd bob amser pan gysgom yn ein defosiwn, cymmer yn wastadol ryw beth da oddiwrthym, neu rhydd ryw beth drwg ynom, neu perygla ni trwy beri in' godwm marwol.

Ymaith â'r marweidd-dra ysbrydol hwn. Byddai Bernard arferol o ddywedyd, fod y sawl a gysgant, yn feirw i ddynion; fod y meirw mewn cwsg o ran Duw. Ond dywedaf fod y sawl a gysgant yn yr Eglwys yn feirw i Dduw: felly, pregethwn eu pregethau anghladdol yn llê rhai annogaethol. Ac megis yr arferai ddywedyd, na chollai gymmaint o amser a phan y byddai yn cysgu; felly, goddefwch im' ddywedyd, nad yw colli un amser mor ddinystriol a cholli amser sanctaidd. Tybia fod Crist yn dywedyd wrthyt ti dan bob pregeth yr hyn a ddywedodd wrth Petr, *Etiam, Petre, dormis? Ai cysgu yr ydwyt, Petr? Oni allaset wilio un awr gyda mi?* Nid addas yw calon dromaidd gysglyd i waith a gwyddfod yr hwn a geidw Israel, ac ni huna.

IV. Y rhai hyn oedd y gweinidogion: edrychwch yn awr ar *Gyfeillion* Crist. Megis nad yw'r gogoniant yn gyflawn heb gymdeithas, ni fynnai Crist fod yr eiddo yntau: yn ganlynol, yn ei wedd-newidiad, y mae ganddo ddau gyfaill, Moses ac Elias.

Megis y dywaid St. Paul am dano ei hun, *Pa un ai yn y corph, neu allan o'r corph, nis gwn, Duw a wyr:* felly y dywedaf am y ddau hyn.

Gellid ammau llai o ran Elias, am y gwyddom i'w gorph ef gael ei ddwyn i'r nef, a gallai'n gystal ddisgyn er mwyn gogoniant Crist, ag esgyn er mwyn yr eiddo ei hun: er fod rhai awduron enwog, megis Calfin, Oecolampadius, Bale, Fulk, yn haeru droi ei gorph megis yr eiddo Enoch i'w elfennau, *sed ego non credulus illis*, "Nid wyf yn eu credu." *Enoch translatus est in carne, et Elias carneus raptus est in cœlum, &c.* "Enoch a gymmerwyd i fynu yn y cnawd, ac Elias etto yn y cnawd, a gymmerwyd i fynu i'r nef," medd Jerom yn ei Epistol at *Pammachium.*

Ac mewn perthynas i Moses; er ei fod yn anarferol, ac Awstin yn ei ammau: etto, paham na allasai ddychwelyd, yn ol angau, yn ei gorph er gogoniant gwedd-newidiad Crist, megis y gwnaeth llawer o'r cyfryw er gogoniant ei adgyfodiad? Nis gallaf, gan

hynny, fod o'i farn, i Moses fenthyccia corph arall, ac nid ymddangos yn yr eiddo ei hun.

Nis gallasai'r nef roddi dau gyfaill addasach, mwy eu cymmeriad gan yr Iuddewon am eu gwyrthiau, mwy derbyniol gyda Duw am eu ffydd a'u sancteiddrwydd: y ddau wedi mwynhau cymdeithas gyda Duw yn Horeb; y ddau yn gysgodau o Grist; y ddau wedi ymprydio ddeugain niwrnod; y ddau wedi myned trwy beryglon lawer er mwyn eu Duw; y ddau wedi gwahanu'r dyfroedd; y ddau yn genhadon dros Dduw at frenhinoedd; y ddau yn rhyfeddol yn eu bywyd yn gystal a'u hangau. Cerbyd o angelion a gymmerodd ymaith Elias. Chwiliwyd am dano gan y prophwydi, ac nis cafwyd. Michael a ymresymodd â'r diafol am gorph Moses: chwiliwyd am dano gan yr Iuddewon, ond nis cafwyd; ac yn awr, ceir y ddau gyda'u gilydd ar Tabor. Yr Elias hwn a ddengys ei hun i Brophwyd brenhinol ei Eglwys: y Moses hwn a'i dengys ei hun i'r gwir Fichael. Moses, Cyhoeddwr y ddeddf, Elias, pennaeth y prophwydi, a'i dangosent eu hunain i Dduw'r Gyfraith a'r Prophwydi. *Alter populi informator aliquando, alter reformator quandoque,* "Un unwaith yn ddysgawdwr y bobl, a'r llall yn ddiwygiwr iddynt," medd Tertullian. *Alter initiator Veteris Testamenti, alter consummator, Novi,* "Un Cof-lyfrydd cyntaf yr Hen Destament, y llall cauwr i fynu'r Newydd."

Meddyliaf, yn wir, gyda Hilari, y cyfeirir at y ddau hyn megis rhagflaenwyr ail ddyfodiad Crist, megis yr oeddynt yn awr yn rhag-draethwyr o'i farwolaeth: ac nid anmheuaf nad hwy yw'r ddau dyst y cyfeirir attynt yn llyfr y Datguddiad; er i lawer o'r Tadau wthio Enoch i le Elias. Edrychwch ar y lle, Dad. xi. 5, 6. Pwy ond Elias a all ef fod, am yr hwn y dywedir, *Os ewyllysia neb wneuthur niweid iddo, y mae tân yn myned allan o'i enau ac yn difetha ei elynion,* gan gyfeirio at 2 Bren. i. 2. Am bwy ond ef y gellir dywedyd, *Y mae ganddo awdurdod i gau y nef, fel na wlawio hi yn nyddiau ei brophwydoliaeth,* gan gyfeirio at 1 Bren. xviii. 2. Am bwy ond Moses y gellir dywedyd, *Y mae ganddo awdurdod i droi'r dyfroedd yn waed, ac i daro'r ddaear â phob pla,* gan gyfeirio at Exod. vii. a viii? Ond deallwch fi yn iawn; na fydded im' ymddangos yn gyfaill i bublicanod Rhufain, yn gefnogwr o chwedleuau Alcoranaidd y Doctoriaid Pabaidd, y rhai *hærere in cortice,* "a lynant wrth y rhisgl," gan gymmeryd yr oll am yr Anghrist hwnnw yn

llythyrenol. Daw Moses ac Elias etto yn y tystion hynny, megis y daeth Elias yn barod yn Ioan Fedyddiwr: bydd eu hysbryd ynddynt, cyrph ac ysbrydion y rhai oeddynt dystion o ogoniant presennol, a dyoddefaint dyfodol yr Iesu.

Diau i fil o angelion ganfod yr olwg hon, heb eu gweled: y ddau hyn a welsant ac a welwyd. O, 'r fath wynfyd dirfawr ydoedd i'r ddau brophwyd mawr hyn ganfod yn eu cnawd gogoneddus eu Gwaredwr gogoneddus, yr hwn a lefarasai wrthynt yn flaenorol i'w ymgnawdoliad—llefaru wrth y Dyn-Duw hwnnw, gan yr hwn y gogoneddasid hwy—a dyfod yn brophwydi, nid i ddynion, ond i Dduw! Ac os llewyrchodd wyneb Moses o'r blaen, pan lefarodd wrtho heb gorph ar fynydd Sinai, yn nghanol y fflamau a'r cymmylau, pa fodd y llewyrchodd yn awr, pan lefarodd wrtho, wedi ei ogoneddu, ar Tabor, mewn goleuni a mawrhydi! Cuddiodd Elias ei wyneb o'r blaen â mantell, pan aeth heibio iddo yn y graig: yn awr, âg wyneb agored, edrycha arno yn wyddfodol, ac yn ei ogoniant ei hun, addola yr eiddo Ef.

Boed cywilydd ar y Marcion haerllug hwnnw, yr hwn a briodola'r Gyfraith a'r Prophwydi i Dduw arall, gan ddychymygu gelyniaeth rhwng Crist a hwy, ganfod Moses ac Elias, nid yn unig *in colloquio*, ond *in consortio claritatis*; "nid yn unig mewn cydymddiddan, eithr mewn cydgyfrannogiad o ddisglaerdeb" â Christ, fel y dywaid Tertullian. Y rhai, pe na fuasent hoff ganddo, gallasai gael ei ddewis o holl gantorion y nef; ac yn awr, gan eu dethol hwy, paham na fuasent *in sordibus et tenebris*, "mewn brattiau a thywyllwch?" *Sic inalienos demonstrat illos, dum secum habet; sic relinquendos docet, quos sibi jungit; sic destruit, quos de radiis suis exstruit:* "Fel hyn y dengys hwynt yn gyfeillion iddo, y rhai sydd gydag Ef; a dysg hwy i gael eu gwrthod, y rhai a una ag Ef ei hun; y dinystria y rhai hynny, y sawl a brydfertha â phelydron ei ogoniant," fel y dywaid y cyfryw dad.

Ei weithred a wiria ei air, *Na thybiwch fy nyfod i dorri'r gyfraith na'r prophwydi: ni ddaethum i dorri ond i gyflawni*, Mat. v. 17, O, 'r fath gyssur a chadarnhad oedd i'r disgyblion ganfod y fath esamplau o'u gogoneddiad dyfodol! y fath dystion ac addolwyr o dragywyddol Dduwdod eu Meistr! Canfyddent yn Moses ac Elias yr hyn a fyddent eu hunain. Po'dd y gallent fyth ofni fod yn annedwydd, y sawl a ganfydd-

ent y cyfryw gysgodau o'u gogoniant i ddyfod? pa fodd y gallent ofni marw, y rhai a ganfyddent yn eraill ddedwydded fyddai eu newidiad?

Dywedodd y glwth goludog wrth Abraham, os ae un attynt oddiwrth y meirw, y diwygient. Attebodd Abraham, *Y mae ganddynt Moses a'r Prophwydi, gwrandawant arnynt hwy.* Wele yma Moses a'r Prophwydi; oddiwrth y meirw hefyd: pa fodd lai, yn awr, na chredwn yn nedwyddol ystad byd arall, oddieithr in' wneud ein hunain yn waeth nâ'r damnedigion? Gwelwch ac ysytriwch nad yw seintiau Duw wedi eu colli, ond wedi ymadael: wedi myned i wlad bell gyda'u Meistr, i ddychwelyd drachefn yn gyfoethoccaf a rhagorach nâ phan yr ymadawsant.

Rhag i ni feddwl mai cyflwr Elias yn unig yw hwn, yr hwn a gipiasid i'r nef, gwelwch Moses yn gydradd âg Ef, yr hwn a fu farw ac a gladdesid.

Ai cyflwr y ddau sant hyn yn unig yw hwn? A ganfyddir neb gydag Ef yn Nhabor y nef, ond y sawl a'i canfyddasent yn Horeb a Charmel? O, gristion egwan, ai un neu ddwy aelod yn unig o Grist oedd ogoneddus yn ei wedd-newidiad; neu, ynte, yr oll o hono! Efe yw'r Pen, ninnau'r aelodau. Os oedd Moses ac Elias y rhanau rhagoraf, dafod neu law: os ydym ninnau yn sodlau neu fodiau, nid perffaith ei gorph mewn gogoniant, heb yr eiddo ninnau. *Pan ymddangoso Crist ein bywyd ni, yna'r ymddangosoch chwithau gydag ef mewn gogoniant,* Col. iii. 4.. Pa mor addas y gellir dywedyd wrth angau, *Na orfoledda yn fy erbyn, O, fy ngelyn, os syrthiaf, codaf,* ïe, codaf trwy syrthio? *Ni hunwn ni oll, eithr ni a newidir,* medd Paul wrth y Corinthiaid. Elias a newidiwyd, Moses a hunodd: y mae'r ddau yma, er ein dysgu na all na'n hun na'n newidiad ein rhwystro rhag ymddangos gydag Ef. Pan, gan hynny, y derbyni ddedryd angau ar fryn Nebo, neu pan ddaw y cerbyd tanllyd i'th gipio o'r dyffryn marwol hwn, cofia dy ail-ymddangosiad gogoneddus gyda'th Waredwr, ac nis gelli lai nâ chael dy gyssuro a gorfoleddu ar y gelyn diweddaf hwnnw; gan ddiystyru ei ddychryniadau trwy sicrwydd o adgyfodiad gwynfydedig i ogoniant. I'r hwn, &c.

MATTHEW XVII. MARC IX. LUC IX.

YR AIL RAN O'R MYFYRDODAU AR

WEDD-NEWIDIAD CRIST,

MEWN PREGETH,

A Bregethwyd yn Whitehall, o flaen y Brenin Iago, o goffadwriaeth bendigedig.

Dygwydda i'r bregeth hon megis i Fynydd Tabor ei hun, i fod yn hawddach ei ddringo â'r llygad nag à'r droed: os na ddywedwn yn hytrach am dano, megis Josephus am Sinai, ei fod nid yn unig *ascensus hominum*, ond *aspectus fatigare;* "ei fod yn blino nid yn unig gamrau, eithr hyd yn oed olwg dynion."

Yr oeddym yn bwriadu treulio ond ychydig o'n hanadl tua godrau'r mynydd, yr amgylchiadau: ond parodd i ni awr o deithio yn barod: a gwych oedd gennym ymorphwys, cyn eu gadael islaw in'. Un arosiad etto, gobeithiaf, a'u gorchfyga, ac a'n gesyd ar ei ben.

Nid oes un o'r amgylchiadau heb sylwi arno ond hwn. Beth a wnaeth Moses ac Elias yn eu hymddangosiad gyda Crist. Canys nid oeddynt, megis rhyw weinidogion cysglyd, fel y tri disgybl yn y dechreuad, i fod yno heb weled dim: neu fel rhyw edrychwyr distaw, tystion mudion i weled, ac heb ddywedyd dim: ond megis pe nas cyfnewidiasid, i'r radd leiaf, eu proffes gan eu gogoniant, y maent yn brophwydi o hyd. *Dywedasent am ei ymadawiad Ef*, megis y dywaid St. Luc: a dywedasant nid iddo Ef, yr hwn a'i gwyddai o'r blaen, ïe, yr hwn a'i hysbysasai iddynt hwy: nis gallasent ei wybod ond oddiwrtho Ef. Efe oedd *hologos—Gair ei Dad:* nis dywedasant hwy, ond yr hyn a ddywedasai Ef o'r blaen i'w ddisgyblion; ac yn awr y tystion nefol hyn a'i dywedasant drachefn, er ei gadarnhau. Megis yr adwaenai Ioan Fedyddiwr Grist o'r blaen: Efydoedd *vox clamantis*, llais cyhoeddwr: y llall *Verbum Patris, Gair ei Dad.* Y mae perthynas agos rhwng *vox* a *verbum;* ïe, 'r llais hwn a fynegasai ei hun yn amlwg, *Ecce Agnus Dei, Wele Oen Duw:* er hynny anfona ei ddisgyblion gydag—*Ai Tydi yw ef?* fel y gallai gadarnhau iddynt hwy trwyddo Ef, yr hyn a wyddai ac a ddywedasai am dano. Felly yr efelycha'n Iachawdwr ei ragflaenor yn hyn, fel fod yn rhaid i'r Elias arall, yr hwn oedd gysgod o Ioan Fedyddiwr, a Moses, gadarnhau yr hyn a wyddai Ef, ac a ddywedasai i'w ddisgyblion.

Yr *exodos ymadawiad* hwn o eiddo Crist oedd *skleeros logos, ymadrodd caled:* anhawdd ei gredu. Ni feddyliai'r disgyblion am ddim ond teyrnas: teyrnas adferedig gyda mawrhydi, ac un barhaol; a dau o'r tri tystion hyn a lyngcasent y gobaith hwn, fel y llefarasant am sefyllfaoedd ynddi, sef i fod ei brif swyddogion a'i uchelwyr. Pa fodd y gallent hwy feddwl am ymadawiad? Gorseddfaingc Dafydd a lenwasai eu llygaid, fel nas gallent ganfod ei Groes: ac os yw raid llyncu'r pellenig hwn, pa mor chwerw a raid ei fod! Ei bresennoldeb oedd eu gwynfyd a'u bywyd: eu hangau oedd meddwl ei golli. Yn awr, ynte, fel y canfyddent nad oedd ei ddyoddefaint a'i angau yn deillio o ryw wendid disymmwth, ond wedi eu rhag-arfaethu yn y nef, a'u datguddio i'w Seintiau, dau o'r Seintiau godicoccaf yn y nef a gadarnhant y newydd am ei ymadawiad: a hynny yn nghanol ei wedd-newidiad; fel na allent lai na meddwl, "Efe yr hwn a all fod yn ddedwydd fel hyn, nid rhaid iddo fod yn annedwydd: y dyoddefaint yr hwn a â dano, nid yw o wendid, ond o gariad."

Sylwad doeth y Chrysostom melus hwnnw yw, na lefarodd Crist unwaith yn ysgafn am ei farwolaeth; ond bob amser naill ai cyn, neu wedi gwneuthur o hono ryw wyrth ryfeddol: ac felly yma, yn nghanol ei wedd-newidiad gwyrthiol, y soniai'r ddau Sant am ei ddyoddefaint. Cyfleusdra rhyfedd! Yn ei sefyllfa uchelaf i sôn am ei boenau; dweud am Galfaria ar Tabor: pan lewyrchai ei ben gan ogoniant, i ddywedyd wrtho pa fodd yr oedd yn rhaid iddo waedu gan ddrain: pan ddisgleiriai ei wyneb fel yr haul, i ddywedyd wrtho pa fodd yr oedd raid iddo gael ei orchuddio â phoer; pan y llewyrchai ei wisgoedd gan y disgleirdeb, nefol hwnnw, i ddywedyd wrtho y caent eu cymmeryd ymaith a'u rhannu: pan yr addolid gan Seintiau'r nef, i ddywedyd wrtho y modd y cai ei ddiystyru gan y gwaelaf o ddynion: pan y canfyddid rhwng dau Sant, i ddywedyd wrtho fel y caed ei weled rhwng dau ddrwg-weithredwyr: mewn gair, i ddywedyd wrtho yn nghanol ei ogoniant am ei waradwydd; a phan oedd yn cael ei wedd-newidio ar y mynydd, i ddywedyd wrtho y modd ei anffurfio ar y Groes! Er hynny y ddau brophwyd hyn o'r nef a farnasant hwn y cyfle goreu i'r fath ymddiddan: gan weled yn dda yn hytrach sôn am ei ddyoddefiadau yn uchder ei ogoniant, nac am ei ogoniant ar ol ei ddyoddefiadau.

Tra addas yn ein cyflwr goreu meddwl am y gwaethaf: canys meddyliau am hynny a groesawir oreu pan fyddom iach, a goreu oll y darparwn erbyn y cyfnewidiad hwnnw, pan y mae bellaf oddiwrthym. Tybiwch, efallai, ei fod yn anmhrydlon sôn wrthych, yn nghanol eich digrifwch yn y llŷs, am ddyddiau galar: a chyda'r brenin hwnnw gosod pen angau yn mysg eich dysglau brenhinol, a dangos eich eirch yn nghanol eich gorfoledd: er hynny yr esamplau hyn a fynegant i mi nad oes amser addasach. Gadewch i mi ddywedyd wrthych gyda'r Psalmydd, *Dywedais, duwiau ydych:* pe cawsech eich gwedd-newidio ar Tabor, a allasech fod yn fwy? *Etto byddwch feirw fel dynion:* dyna eich *exodos*, eich ymadawiad. Tybiodd Jerom yn ddoeth mai'r cedrwydd, y rhai ydynt yr uwchaf o'r holl brenau, a orchymynir i foli'r Arglwydd: ac etto *Dies Domini super omnes cedros Libani:* "Dydd Duw fydd ar holl gedrwydd Libanus."—Es. ii. 12, 13. Chwi hoyw-wych, y rhai ychydig ddaear felen a gwe'r pryf cywrain hwnnw a'ch gwnaethant yn dra gwych oddiallan, ac, o bossibl, yn feilch oddifewn, cofiwch, megis yr hardda un pryf chwi oddiallan, y bydd i un arall, ar fyr, eich difa oddimewn, a bod y ddaear honno a binciwch a'r ddaear â'r hon y pincir hi, yn dychwelyd i lwch. Na fydded i eich cyflwr uchel guddio rhagoch eich hymostyngiad arfaethedig; na foed i eich porphor guddio rhagoch eich amdo: ond ïe, ar ben Tabor, meddyliwch am eich bedd: meddyliwch am eich ymadawawiad oddiwrth ddynion, tra y derchefir chwi uwchlaw iddynt.

Dringasom yn awr i ben y mynydd. Safwn gan hynny, a gwelwn, a rhyfeddwn wrth yr olwg ryfeddol hon—Canfod, megis Moses, *y berth yn llosgi, ac heb ei difa:* Canfod y Dyndod yn parhau yn nghanol y pelydron gogoneddus hyn.

Yr oedd Crist *en morphi doulon*, medd St. Paul, *mewn agwedd gwas:* yn awr, am y tro cyntaf, yr oedd yn wir *metamorphotheis* yn wedd-newidiedig, fel nad oes achos i Maldonat feio ar rai o honom, ïe, ar rai o'i eiddo ei hun, megis Jansenius, yr hwn a'i cyfieitha *ffurf-newidiad:* canys beth yw'r ffurf allanol ond y wedd? Ai Cyfieithad eu hunain, *(Y Vulgar)* er poethed y llefara, ai darllen, felly Phil. ii. 7. *morphin doulon, formam servi accipiens.* Nid oes perygl yn yr amwysedd hwn. Nid sylwedd Crist a newidiwyd, eithr ei weddd allanol. Efe, yr hwn y mae iddo dri agwedd, megis y gwahaniaetha

Bernard, *contemptam*, (dirmygedig,) *splendidam*, (disglaer,) *divinam*, (dwyfol) yma a gyfnewid y gyntaf i'r ail.

Hwn yw un o'r dygwyddiadau rhyfeddaf a ddygwyddodd erioed i Iachawdwr y byd. Byddaf arferol o gyfrif y pedwar prif rhyfeddodau hyn o'i fywyd,—ei Gnawdoliaeth, ei Brofedigaeth, ei Wedd-newidiad, a'i Ing: y cyntaf yn mru'r Forwyn: yr ail yn yr anialwch: y trydydd yn y mynydd: y pedwerydd yn yr Ardd: y cyntaf, am y deuai Duw yn ddyn: yr ail, am fod Duw a dyn yn cael ei demtio a'i gyfleu gan Satan: y trydydd, am fod dyn i gael ei ogoneddu ar y ddaear: yr olaf, am fod iddo Ef yr hŵn sydd Dduw a dyn chwysu'r gwaed dan deimlad o lid Duw dros ddyn. A rhai'n oll oeddynt â'r angelion yn dystion iddynt, neu ynte ddigyfrwng lais Duw. Yr oedd gan y cyntaf angelion yn canu: yr ail, angelion yn gweini: y trydydd, llais Duw yn taranu: y pedwerydd, yr angelion yn cyssuro: fel na fyddai yn rhyfeddod i ddaear ryfeddu wrth y pethau hynny a barant syndod i'r angelion.

Enwa Bernard dri math o newidiadau rhyfeddol, *sublimitas in humilitatem*, "uchder i iselder," pan gymmerodd y Gair gnawd: *contemptibilitas in majestatem*, "pan wedd-newidiodd Crist ei hun ger bron ei ddisgyblion:" *mutabilitas in æternitatem*, "pan yr adgyfododd ac a esgynnodd i'r nef i deyrnasu yn dragywydd." Canfyddwch mai hwn yw un o honynt: ac megis yr ymgodai Tabor o ddyffryn Galilea: felly yr ymdderchafiad hwn a esgynnodd o ymostyngiad Crist.

Rhyfeddodau eraill a chwanegant at ei ymostyngiad, hwn yn unig a'i gogonedda; a'r gogoniant hwn a gyfartala âg ymostyngiad y lleill oll. Y wyneb hwnnw, y dywaid Esay, *Nid oes na phryd na thegwch iddo*, yn awr a ddisgleiria fel yr haul: y wyneb y troai dynion eu hwynebau oddiwrtho mewn diystyrwch, a lewyrcha yn awr, fel na allai golygon marwol lai na throi oddiwrth ei ddisgleirdeb, na rhai anfarwol lai na derbyn eu pelydron oddiwrtho. Yr oedd ganddo, medd Jerom, bob amser, *in vultu sidereum quiddam*, "math ar fawrhydi nefol yn ei wynebpryd," yr hwn a wnai i'w ddisgyblion ei ddilyn ar yr olwg gyntaf; ond yn awr wele yma berffeithrwydd goruwchnefol disgleirdeb. Gwyrthiol oedd i'r tri llangc gael eu gwaredu o'r fflamau, fel nad oedd arogl tân ar eu gwisgoedd: nid llai gwyrthiol i wisgoedd Crist gael eu lliwio'n nefol, ac yr aroglent o'i ogoniant: megis yr enneiniwyd Aaron ar ei ben a'i farf, nes

oedd godrau ei wisg wedi eu perarogli. Ei wisgoedd gan hynny a lewyrchent fel eira, ïe, (gwîn dyfrllyd yw hwnnw,) megis y goleuni ei hun, fel y dywaid St. Marc, a St. Matthew, yn y rhan fwyaf o'r Cyfieithiadau Groeg. Y wisg ddiwniad hon megis nad oedd iddi ymylgylch, felly nid oedd ychwaith frycheuyn. Mab y Brenin hwn sydd oll yn deg oddifewn ac oddiallan. O, ragorol lewyrch ei ddyndod! Y diamwnt a'r carbuncl goreu a guddir mewn blwch, ond ei ddisgleirdeb Ef a dyr allan trwy ei holl wisgoedd, ac a'u gwna hwynt yn oleu ynddo Ef, y rhai sydd arferol o guddio goleuni yn eraill. Herod mewn gwawd a roddodd arno wisg glaerwen, Luc xxiii. 11. nid *gwisg* wen, ond *claerwen*, anwybodaeth o'r hyn a bar i amrywiaeth ymddangos rhwng yr Efengylwyr: eithr Duw'r Tad, er ei ogoneddu, a wisga ei wisgoedd â llewyrch nefol. *Wele di yn deg fy anwylyd: wele di yn deg, ac nid oes ynot frycheuyn: dy ben sydd fel aur coeth; melus odiaeth yw dy enau. Ewch allan, merched Sion, ac edrychwch ar y Brenin Solomon yn y goron, â'r hon y coronodd ei Dad Ef, yn nydd llawenydd ei galon.*

O Iesu, os oeddit y cyfryw yn Tabor, beth wyt yn y nef? Os hwn oedd gogoniant dy Ddyndod, beth yw presennoldeb dy Dduwdod.

Na wnaed neb gam âg ef ei hun fel ag i fawrygu'r dedwyddwch hwn megis eiddo ereill, a gosod ei hun allan o gyfrannogiad o hono. Crist yw ein pen, nyni ydym ei aelodau. Megis yr oeddym oll yn yr Adda cyntaf, yn ddiniweid ac yn pechu: felly yr ydym yn yr ail Adda, yn llewyrchu ar Tabor, ac yn gwaedu chwys yn yr ardd.

Ac megis yr ydym yn ddedwydd ynddo Ef, felly y byddwn ryw dro ynom ein hunain trwyddo Ef. *Efe a gyfnewidia ein cyrph marwol ni, fel y byddont gyffelyb i'w gorph gogoneddus Ef.* Edrychwch ar ein pattrwn, a gorfoleddwn: *cyffelyb i'w gorph gogoneddus Ef.* Y cyrph hyn y rhai ydynt yn awr briddellog fel y ddaear, a lewyrchant ryw ddydd fel yr haul: a nyni, y rhai a welwn yn awr glai yn wynebau ein gilydd, a ganfyddwn y pryd hynny ddim ond y nefoedd ynddynt: a nyni y rhai yn awr a harddwn ein cyrph â dillad, a wisgir âg anfarwoldeb allan o wisgfa'r nef. A phe caniatteid byth i unrhyw wyneb coluredig ganfod y gogoniant hwn, (yr hyn a ofnaf yn awr: ïe, sicr wyf na fyn Duw ond gwir wynebau yn

y nef,) byddai arno gywilydd meddwl fod ganddynt erioed wynebau i'w dwbio â'r lliwiau ffiaidd hyn, mewn cydmariaeth i'r ymddangosiad nefol hwn. Edrychwn gan hynny ar y cnawd hwn, nid yn gymmaint mewn diystyrwch o'r hyn a fu ac ydyw, ag mewn siriol obaith o'r hyn a fydd. A phan y'n trallodir gan gyfnewidiad y cyrph hyn o iechyd i afiechyd, o fywyd i farwolaeth, ymgyssurwn yn y sicrwydd o gyfnewidiad o lwch i anfarwoldeb. Nid ydym mor sicr o angau ag o weddnewidiad. *Disgwyliwn*, ynte, *holl ddyddiau ein milwriaeth, hyd oni ddelo ein cyfnewidiad.*

Yn awr, goddefwch im' droi eich llygaid oddiwrth ogoniant y meistr at drosedd y gwas, yr hwn, yn ol cysgu gyda'r lleill, a dihuno'n ddisymmwth, nis gwyddai lai nad oedd yn cysgu etto. Canfod y fath oleuni o'i amgylch, tri o bersonau mor ddisglaer o'i flaen, a barodd iddo ammau yn awr, megis ar ol hyn pan gyflewyd gan yr angel trwy'r porth haiarn, yr anmheuodd pa un ai breuddwyd hyfryd ydoedd, ai ynte gwir ddygwyddiad. Hwy oll a gysgasent, a hwy oll yn awr a ddihunant. Petr yn unig a gysgodd yn neffro: ac nis gwn pa un a gyfeiliornodd fwyaf yn ei eiriau ag yn ei waith yn cysgu. Cywilydd cysgu ar Tabor; ond cywilydd mwy, breuddwydio â'r llygaid yn agored. Felly y gwnaeth Petr. *Arglwydd, da yw i ni fod yma: gwnawn dair pabell.*

Gallwn ddywedyd gydag Optatus, ar yr achos hwn neu unrhyw arall, *Ipsius Sancti Petri beatitudo veniam tribuat, dubito dicere peccasse tantam sanctitatem;* "Maddeued Petr fendigedig im', ofnaf ddywedyd i gymmaint o sancteiddrwydd droseddu." Etto am fod ein gwrthwynebwyr mor gymmaint yn rhy dueddol i'r Sant mawr hwn, yn yr hwn y mae ganddynt mor lleied ag yw eu bost yn fawr, fel yr ymfoddlonant i'w glod gymmylu ar yr eiddo'r lleill oll; ïe, fel fod Duw ei hun mewn perygl o golled trwy dderchafiad gwas mor anwyl, goddefwch im' osod fy mys am ychydig ar y brycheuyn hwn. Ni fuasai Duw byth yn cofrestru yr hyn y mae yn annghariad i ni sylwi arno. Tiriondeb niweidiol Marcion, er anrhydeddu Petr, oedd gadael allan hanes Malchus, megis y sylwa Epiphanius: bydd yn feius ynom ninnau os na sylwn yn y cyfryw fodd fel ag i gael lleshad oddiwrth ei anmherffeithrwydd.

Dywedir mai eiddo Petr yw Efengyl Marc. O, Apostol bendigedig, a ydyw yn gam dywedyd am danat yr hyn a ysgrif-

enaist am danat dy hun, nid er gwawd, ond er ymliwiad? Na atto Duw lai na bod cywilydd ar ddynion briodoli iddo yr hyn a ddywedodd na pherthynai iddo. Na fydded im' gan hynny betruso dywedyd, gyda pharch i Sant mor fawr, megis y llefarodd fwyaf, ei fod yn nodedig am y cyfeiliorni mwyaf.

Heb sôn am ei suddo, ei darawo, a'i Iuddewaiddio: cawn Ef unwaith yn cynghori yn gnawdol, amser arall yn rhyfygu yn rymmus: yn awr yn gwadu mewn gwendid, dro arall yn camddeongli yn ehud.

Yn cynghori yn gnawdol: *Arglwydd, trugarha wrthyt dy hun.* Yr hyn er fod rhai gwenieithwyr o Rufain yn ei lwfrhau gan haeru allan o Jerom ac Awstin, y dangosai ei gariad at Grist yn hyn, etto rhaid derbyn dywediad Bernard, *diligebat spiritum carnaliter*, "carodd yr ysbryd mewn dull cnawdol." Dewisant pa un a geryddodd Crist yn annghyfiawn a'i fod yn teilyngu ei geryddu: os na arosant gyda Hilari lle na ddylent; megis pe buasai *Vade post me*, "dos yn fy ol i," wedi ei lefaru wrth Petr mewn ysbryd cymmeradwyol: *Satana, non sapis quæ Dei sunt*, "Satan, nid wyt yn synied y pethau sydd o Dduw," wrth y diafol yn geryddol.

Yn rhyfygu'n gnawdol. *Pe gwadai pawb di, etto nis gwadaf i.* Pe na ryfygasai ar ei nerth i sefyll, ni syrthiasai. Ac megis y mae un yn dylyfu ei ên yn gwneud i lawer agor eu geneuau; felly ei wag-benderfyniad a barodd i eraill ei efelychu. *Felly y dywedodd y disgyblion oll.*

Ei wadiad mewn gwendid: gwyddoch oll am ei wadiad wedi ei ddyblu â llw, a'i wynebu â rheg.

Ac yma, fel na anmheuai neb iddo gyfeiliorni, dywaid Ysbryd Duw, *Nis gwyddai beth yr oedd yn ei ddywedyd:* nid yn unig "beth a ddylasai ddywedyd," yn ol Marc, ond "beth yr oedd yn ei ddywedyd," yn ol Luc. O hyn rhydd St. Marc y rheswm, "yr oeddynt wedi dychrynu." Gall dychryn leihau cyfeiliornad mewn geiriau, ond nid ei ddiddymmu. Heblaw syndod, yr oedd yma wresogrwydd ysbryd: cariad at ogoniant Crist, ac hyfrydwch ynddo: tân, eithr wedi ei gam osod, ar ben y simneu yn lle ar yr aelwyd; *Præmatura devotio*, fel y dywaid Ambros, defosiwn ehud. A phe na fuasai felly; etto, nis gall dyben da wneud yr ymadrodd felly. Yn hyn y methai'r peth: canys beth a wnae'r fath seintiau mewn pebyll daearol, a rheiny o'i wneuthuriad ef? Ac os oedd yn

foddlon i fyw yno heb babell (canys nid oedd am wneuthur ond tair) paham na thybiasai'n fwy y gallasai'r ymwelwyr nefol hynny wneuthur hynny? Ac os llefarodd hyn i'w cadw yno, mor ddisynwyr oedd i feddwl yr aent ymaith o eisiau lle i breswylio? Neu, pa fodd y gallasai'r ddau beth hynny gymmeryd lle ar unwaith—sef yr hyn a ddywedasai Moses ac Elias wrtho, a'r hyn a ewyllysiai yntau? Canys pa fodd y gallasai Crist ymadael yn Jerusalem, ac aros yn y mynydd? Neu, os oedd am iddynt breswylio yno, er gochelyd dyoddefiadau yn Jerusalem, pa fodd y canodd yr ail dro y gân honno, am yr hon y clywsai, *Dos yn fy ol i Satan?* Neu, pe buasai'n addas i Grist aros yno, mor annghymmwys, yn ol Chrysostom, y gwna'r gwas cuwch â'i Feistr—y seintiau â Duw? Mewn gair, y goreu a'r gwaethaf a ellir ei ddywedyd am Betr yma, yw'r hyn a ddywedodd y Psalmydd am Moses, *effutiit labiis, cam-ddywedodd â'i wefusau.*—Psalm cvi. 33.

Er hynny, pe gallasai unrhyw le neu gyfiwr daearol gyfiawnhau cais Petr, wele hwynt yma. Yr oedd yma fynydd, cysgod o'r nef: dau sant, esampl o'r nef: a Crist, Duw'r nef.

Ac os nad oedd addas i Petr ddywedyd hyn am y cyfryw le, pa mor anaddas i ni ei ddywedyd am unrhyw le arall, *Bonum est esse hic? Da yw bod yma?* A ddywedwch felly am y wlad: musgrelli melancholaidd, unigrwydd, a llafur, sydd yno. A ddywedwch felly am y llys? yno y mae balchder, ymgais i ddisodlu eraill—gwasanaethu tymhorau a thymmerau. A ddywedwch felly am y ddinas? yno y mae terfysg diddiwedd, usuriaeth, cribddeilio, aflywodraeth ac annrhefn—Ewch i'r Diffaethwch, a dywedwch mai da yw bod yno: hyd yn nod yno y caiff drygau afael ynom, *In nemore habitat lupus,* medd Bernard, "Y mae'r blaidd yn y goedwig." Blinder a gofid a breswyliant yn mhob man.

Y goludog a ymdreigla yn eu bentyrrau: a phan y mae yn ei gyfrif-dŷ, â'i sachau o'i amgylch, gall ddywedyd, *Bonum est esse hic,* "Da yw, &c." Addola'r delwau cerfiedig hyn, ei aur yw ei Dduw; ei nefoedd ei gist, heb feddwl am yr hyn a ddywaid Tertullian—"fod rhai gwledydd yn gwneuthur eu cadwynau o aur." Felly y gwna yntau wrth ei garu, gan roddi ei hun mewn caethiwed i'w was, *Damnatus ad metalla,* "wedi ei gondemnio i'r meteloedd," megis yr oedd cosp y Rhufeiniaid gynt. *Coacta servitas miserabilior, affectata miserior;* "Teilynga

caethiwed trwy drais dosturi; ond y sawl sydd ynddo o'i fodd sydd fwyaf ei drueni." Ac os llaw Duw a gyffyrdda âg ef yn y radd lleiaf, a all ei aur wobrwyo afiechyd; a all ei godau gadw ei ben rhag poen, a'i gymmalau rhag y *gout*? Neu, a wna ei gylla afiachus wahaniaeth rhwng dysgl bridd ag un arian? O, ofer ddymuniadau a gwael ymfoddloniad y dynion a osodasant ddedwyddwch yn y pethau, y rhai nid yn unig nis gallant eu cadw rhag drygau, ond a ddygant yn mlaen eu trueni. Eu golud a'u portha â newyn, a'u bywiocca â lludded, a'u siriola â gofalon, a'u bendithia âg arteithiau; ac, etto, dywedant, *Bonum est esse hic*, "Da yw, &c." O, fel yr ymlidir eu cwsg gan ofalon! fel y llethrir eu calonau gan golledion! Naill ai mae gan gyfoeth adenydd, â'r rhai yr eheda i'r nef, er gwaethaf pob ymdrech i'w gadw; neu, y mae adenydd gan eu heneidiau *(Stulte, hac nocte, O, ynfyd y nos hon)* â'r rhai yr ehedant oddiwrtho i uffern. *Non dominus sed colonus*, medd Seneca, "Nid y Meistr, ond y gwas." Fel fod yma gyfoeth darfodedig, ac enaid colledig. *Ansicrwydd golud*, fel y dywaid Paul wrth Timotheus, a sicrwydd trueni. Ac, etto, 'r dynion gwageddus hyn a ddywedant, *Bonum est hic, &c.*, "Da yw i ni fod yma."

Y gwr a gâr anrhydedd, yr hwn, fel y dywaid Bernard, sydd a chyhoeddiad Ahasuerus o'i flaen, yr hwn a ŵyr ei fod, nid yn unig *Tis megas, rhyw un mawr*, yr hyn a ddywedai Simon ei fod, ond *ho autos*, "y gwr," yr hwn yr oedd Demosthenes yn falch o hono, yr hwn a ganfydda pob pen yn noeth iddo, a phob glin yn blygedig, yr hwn sydd uwchlaw cyrhaeddiad cenfigen, ar ben uchaf derchafiad, a ddywaid, *Bonum, &c.* "Da yw i mi fod yma." Och, leied a feddylia am yr hyn a ddywedodd y gwr da hwnnw wrth ei Eugenius. "Paham y priswn y gweniaeth a berthyn i'r mawredd hwnnw, yr hwn y mae mwy o ofal yn nglyn âg ef?" Arwydd-lun Harri'r Seithfed yn ffenestri ei holl adeiladau, oedd coron mewn perth o ddrain: nis gwn at ba hanes y cyfeiriai; ond, meddyliaf, er dangos nad yw sefyllfaoedd uchel ddim yn rhyddion oddiwrth ofalon mawrion. Gwyddai Saul yr hyn a wnae pan ymguddiai yn mysg y dodrefn. Nis gwyr neb drymmed y deyrnwialen ond yr hwn y mae yn ei law. O ran mawredd îs, y mae ei werth yn llai, gymmaint ag yw ei ddibyniad yn fwy. Pa nifer o nosweithiau digwsg, dyddiau anesmwyth, ac ymdrechion diflino a bar eu trachwant i'r sawl a garant dderchafiad! Diau nad oes neb deilyngach o

dosturi, na'r sawl, oherwydd eu huchder, a dybiant bawb yn ddirmygedig. Lleoedd uchel ydynt lithrig: ac megis y mae'n hawdd syrthio, felly y mae'r codwm yn fawr ac anhawdd ei adferu. Dywaid Bernard, "Cefaist le uwch, ond nid diogelach." *Aulæ culmen lubricum*, "Llithrig yw nen y llys," oedd hen ditl anrhydedd. Melldith Dafydd oedd, *Fiat via eorum tenebrae et lubricum*, "Bydded eu ffordd yn dywyll ac yn llithrig." Pa wahaniaeth rhwng ei felldith ef, a gwynfyd y trachwantus, ond hyn, fod ffordd un yn dywyll ac yn llithrig, a ffordd y llall yn oleu ac yn llithrig: honno yn dywyll fel y syrthiant; hon yn oleu fel y gwelont ac y gwelir yn syrthio. Boddhawch eich hunain, ynte, O fawrion, a boddhaed eraill chwi trwy ryfeddu eich derchafiad. Ond os nad yw eich daioni gymmaint a'ch hanrhydedd: hwyr y dywedwch, "codaist fi i fynu i'm taflu i lawr." Ni wnaeth eich derchafiad ond eich gosod ar esgynlawr fel y byddai eich codwm yn fwy nodedig. Ac, etto, y carwyr anrhydedd hyn a ddywedant, *Bonum est hic*, "Da yw i ni fod yma."

Y glwth gorlawn wrth ganfod ei ford yn guddiedig gan phiolau llawnion, a dysglau costus, a seigiau cywrain, danteithion y tair elfen, a ddywaid, *Bonum est, &c*, "Da yw, &c." Ac, etto, arddigonedd a berthyn i fwytta. Nid yw ei galon byth yn waccach o foddlonrwydd na phan y mae gylla lawnaf o ddanteithion. Pan y mae'n wag, nid yw wrth ei fodd nes y byddo'n llawn, a phan y byddo lawn, nid yw dda nes ei waghau. A phan yr eistedd wrth ei wledd o *fer a brasder*, fel y dywaid y prophwyd, *ei ford*, yn ol y Psalmydd, *a wneir yn fagl iddo:* gwir fagl yn mhob ystyr. Delir ei enaid ynddi gan ormodedd: ei feddiannau gan dlodi: ei gorph â chlefydau. Ac ni ddryllia ei ymborth â'i ddannedd yn fwy eglur nag y dryllia ei hun: etto, 'r gwr ffol hwn a ddywaid, *Bonum, &c.* "Da yw, &c."

Y trythylla'i tybia'n ddedwyddwch, cael nerthi ei nwyfiant aflan yn ddigonol. Nid felly y gwnae pe canfyddai ei buttain yn ei lliw ei hun; ei llygaid yn llygaid asp, ei gwallt yn nadredd, ei hwyneb coluredig yn ddrych dewines, ei chalon yn faglau, ei dwylaw yn rhwymynau, ei diwedd yn wermwd, darfodedigaeth y cnawd, dinystr yr enaid, a thân nwyfau yn dybennu yn nhân uffern. Gan hynny, am na rydd pleserau, nac anrhydedd, na chyfoeth, wir ddedwyddwch i'r sawl a feddiannant y rhan fwyaf o honynt, na fyddwn mor annoeth a dywedyd

am y dyffryn wylofain hwn, yr hyn a ddywedodd Petr am Tabor, "Da yw i ni fod yma."

Ac os nis gall y goreu o'r ddaear roi dedwyddwch, paham yr edrychwn am dano yn ei phethau gwaethaf? Pa fodd y beiddich chwi, rai mawrion, bwrcasu gwynfyd trwy drais, cyssegryspeilad, a gwobrwyon; gan orchfygu diniweidrwydd â gallu, a damnio eich eneidiau eich hunain, am bleser dros ychydig ddyddiau annedwydd? *O ynfydion, pa hyd y cerwch ynfydrwydd?*

Ond yr hyn a gynhyrfodd ddymuniad Petr, er gydag anmherffeithrwydd, a ddengys yr hyn a berffeithia ein dymuniad a'n dedwyddwch. Canys os darfu i gip-olwg o'r gogoniant nefol hwn orlonni'r disgybl sanctaidd hwn, fel y tybiai yn ddedwyddwch digonol sefyll yno a syllu arno, pa fodd y'n llonnir trwy edrych ar, ïe, mwynhau, wyneb Duw! Nid oes ond Tabor yma, y mae nefoedd accw: yma nid oedd ond dau o seintiau, yno filoedd o seintiau ac angelion: yma Crist wedi ei wedd-newidio, yno eistedda ar ddeheulaw'r mawredd: yma yr oedd darluniad o wynfydedigrwydd, yno y rhoddiad a'r meddianniad o hono. O, na fedrem yn awr annghofio'r byd, a, chan osod ein llygaid ar y Tabor gwell hwn, dywedyd, "Da yw i ni fod yma."

Ein bywyd hwn, pe na fyddai fyr, sydd ofidus, a phe na fyddai ofidus, y mae'n fyr. Dywedwch wrthyf, y rhai a fwynhawch fwyaf o'r ddaear, a roddodd y byd yma erioed i chwi lawn foddlonrwydd. Y byd yw eich gwas, pe byddai eich truthiwr, a allai lenwi eich calon â llonder? Chwi lŷswyr moethusaf, dywedwch, ai nid oes i bleser ei hun ei flinder, a mwy o golyn nac o fel?

Ac yn gymmaint ag mai yn yr olwg o Dduw, y mae pob dedwyddwch yma isod, pa fodd y rhwystrir ein llygad ysbrydol, megis y corph oddiwrth ei wrthddrych, gan dywyllwch, gan oleuni gau, neu droiad ymaith! Gan dywyllwch; y neb a becha, mewn tywyllwch y mae: gan oleuni gau; tra y mesurom bethau tragywyddol wrth rai tymmorol: trwy droiad ymaith; tra, fel y mae llygaid gweinion yn cashau'r goleuni, yr ydym yn troi ein golygon oddiwrth yr hyn sydd wir a digyfnewid dda, at yr hyn sydd anwadal ac ansicr.

Nid ydym ar y mynydd, eithr yn y dyffryn: lle y mae gennym bebyll, nid o'n gwneuthuriad ein hunain, eithr o bridd, ac

yn y rhai yr ydym yn dystion i Grist, nid' wedi ein gweddnewidio i ogoniant, eithr wedi ein anurddo âg anmharch, wedi ein dianrhydeddu â llwon a rhegfeydd, a'n hail-groeshoelio â'n pechodau ; tystion i seintiau Duw, nid yn llewyrchu ar Tabor, eithr yn galaru mewn tywyllwch, ac yn lle y disgleirdeb nefol hwnnw, yn amdoedig â sachliain a lludw. Yno, a'r pryd hynny, y cawn bebyll, *nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd*, lle y canfyddwn anwyled yw'r Arglwydd ; cawn weled buddugoliaethau Crist, cawn glywed a chanu Haleluiahs y seintiau.

Quæ nunc nos angit vesania, vitiorum sitire absinthium, medd un hen Dad duwiol, "O, fel y dallodd llygredd ni i sychedu am y wermwd hwn," i garu llong-ddrylliadau'r byd hwn, i orhoffi trueni y fuchedd ddarfodedig hon : yn lle ehedeg at wynfydedigrwydd y seintiau, at gymdeithas angclion, i'r olwg hyfryd honno, yn yr hon y canfyddwn Dduw ynddo ei hun ; Duw ynom ni, a ninnau ynddo yntau !

Ni fydd gofid mwy, poen, achwyniad, ofn, nac angau. Ni fydd malais i'n gwrthsefyll, na thrueni i'n gofidio : na newyn, na syched, na lludded, na phrofedigaethau i'n haflonyddu ! Yno gwell yw un dydd na mil : y mae yno orphwysfa oddiwrth ein llafur, llonyddwch oddiwrth ein gelynion, rhyddhad oddiwrth ein pechodau. Pa nifer o gymmylau o anfoddlonrwydd a dywyllant haul ein llawenydd, tra yr ydym ar y ddaear. Achwyniadau oherwydd drygau a aethant heibio, teimlad o rai presennol, ofn rhai dyfodol a rannasant ein bywyd yn eu mysg. Yno y byddwn *semper læti, semper satiati*, "bob amser yn llawen, bob amser yn llawn ;" pan welwn Dduw, *ger bron yr hwn y mae digonolrwydd llawenydd a digrifwch ar ei ddeheulaw yn dragywydd.*

A edrychwn ar y pagan hwnnw, Cleombrotus, yn ymwrthod â bywyd, ac yn bwrw ei hun i lawr dros y graig, oherwydd rhyw obaith ansicr o anfarwoldeb : ac oni chawn ni, Gristionogion, ymwrthod à phechadurus ormodedd, mwyniant pechod, er mwyn y bywyd hwnnw, yr hwn sydd sicrach gennym na'r un presennol ? Beth a'n lluddia, Frodyr ? A oes nefoedd, ai nid oes ? A oes in' Waredwr, ai nid oes ? Gwyddom fod nefoedd, mor sicr a bod daear danom : gwyddom fod in' Geidwad yno, mor sicr a bod dynion â'r rhai yr ymddiddanwn ar y ddaear. O, ein hurtrwydd a'n hanffyddiaeth truenus, os na

ddibrisiwn gynnygion disgleiria'r byd, a dywedyd, gan dderchafu ein llygaid i'r nef, *Bonum, &c.* "Da yw i ni fod yma."

Felly tyred ar frys, Arglwydd Iesu. Iddo Ef a bwrcasodd, ac a ddarparodd y gogoniant hwn i ni, yn nghyd â'r Tad a'r Ysbryd Bendigedig, un Duw anamgyffredadwy y byddo'r holl fawl yn oes oesoedd. Amen.

MATTHEW XVII. MARC IX. LUC IX.

PARHAD Y GWEDD-NEWIDIAD.

O'R blaen, llygaid y disgyblion a orchfygasid â gogoniant; yn awr, disgleirdeb y gogoniant hwnnw a gysgodir â chwmmwl. Nis gall llygaid dynion egwan marwol edrych ar ddisgleirdeb nefol.

Y cwmmwl hwnnw a ddynoda Fawrhydi a Thywylliad:—

Mawrhydi; canys hyn a ardystiai bresennoldeb Duw gynt: y cwmmwl a orchguddiodd y mynydd, y babell, a'r arch. Efe, yr hwn a wna'r cymmylau'n gerbyd iddo, a gyflewyd mewn cwmmwl i'r nef. Pa le y cawn hanes am unrhyw ymddangosiad dwyfol, heb fod cwmmwl yn rhan o hono? Beth sydd yn nes i'r nef, o ran sefyllfa, a thebygolrwydd?

Tywylliad; canys megis y dangosodd fod yno Fawrhydi, a hwnnw yn un nefol: felly dangosodd iddynt nad oedd yr olwg ar y mawrhydi nefol hwnnw i olygon corphorol. Megis pan rodia rhyw dywysog mawr dan gysgod-len, y llen honno a ddengys fod un mawr o dani, eithr a attal y llygad oddiwrth lawn olwg ar ei berson. Ac er bod y cwmmwl yn oleu, etto, cysgodai rhagddynt. Paham, ynte, yr oedd y cwmmwl hwn rhwng y weledigaeth ogoneddus hon a hwy, ond er attalfa i'w golygon eofn?

Pe syllasent yn rhy faith ar yr olygfa ysplenydd hon, megis y dallesid eu llygaid, efallai yr aethai eu calonau yn rhy eofn a chynnefin â'r gwrthddrych nefol. Mor brydlawn y daeth y cwmmwl! Y Duw doeth a wyr ein bod mewn angen am y cyfnewidiadau a'r pethau cymmedrolol hyn. Os cawn oleuni, rhaid in' gael cwmmwl; os goleuni i'n llonni, cwmmwl i'n darostwng. Felly yr oedd yn Sinai, felly yn Sion, felly yn yr Olewydd: ac nis byth y bydd ond fel hyn. Nid yw'r dydd a'r nos naturiol yn cyfnewid yn fwy rheolaidd na'r goleuni a'r

cwmmwl hyn. Cawn y goleuni yn y nef heb y cwmmwl: golwg eglur a mwynhad o Dduw, heb unrhyw beth tywyll a gofidus rhyngom ag Ef: ond yma isod, nis gallwn fod yn rhydd oddiwrth y niwlau a'r cymmylau hyn o drallod a gau-amgyffrediadau.

Ond *cwmmwl goleu* oedd yma. Y mae gwahaniaeth rhwng y cwmmwl ar Tabor a'r hwn oedd ar Sinai: Hwn yn oleu, hwnnw yn dywyll. Y mae tywyllwch yn y ddeddf, a goleuni yn ngras yr Efengyl. Llefarwyd yno wrth Moses mewn tywyllwch, llefarwyd yma ag ef mewn goleuni. Yn y cwmmwl tywyll hwnnw yr oedd braw; yn hwn cyssur. Er ei fod yn gwmmwl, yr oedd yn oleu, ac er ei fod yn oleu, cwmmwl oedd. Gyda llawer o oleuni, yr oedd cysgod rywfaint. Ni lefarai Duw wrthynt am Grist allan o dywyllwch, ac ni amlygai ei hun ychwaith iddynt mewn perffaith ddisgleirdeb. Ei holl ymddangosiadau ydynt fel hyn yn gymmysgedig. Pa raid am esampl ond y ddau sant hyn? Llefarasai Moses yn fynych wrth Dduw wyneb yn wyneb, etto, nid mor ddigyfrwng, fel nad oedd rhyw beth fel llen yn cael ei dynnu rhyngddo ag ef: naill ai tân yn Horeb, neu'r mwg ar Sinai: fel nad oedd ei wyneb â mwy llen arno i'r bobl nag oedd ar wyneb Duw iddo yntau. Llefarir wrth Elias gan Dduw, ond yn y graig, a than fantell. Calonau daearol ydynt mewn hollol dywyllwch: ni chanfyddant y gip-olwg lleiaf o'r pelydron nefol hyn—gymmaint a phelydr o'r goleuni ni ellir dyfod atto. Y rhagoraf o'r seintiau a'i canfyddant yma, ond mewn cwmmwl, neu mewn drych. Dedwydd ydym os anrhydeddodd Duw ni â'r gweledigaethau dwyfol hyn o hono ei hun. Rhyw dro, *yn ei oleuni y canfyddwn oleuni.*

Gallaf yn hawdd ddirnad y syndod, ar hwn y safai'r tri disgybl hyn yn amgylchynedig â'r cwmmwl goleu hwnnw—gan ddisgwyl am ryw ddiwedd gwyrthiol i'r fath weledigaeth nefol; pan yn ddisymwth y clywsant lais yn swnio o'r cwmmwl hwnnw, yn dywedyd, *Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm llwyr boddlonwyd, gwrandewch Ef.* Nid oedd angen dywedyd wrthynt llais pwy ydoedd; y lle, a'i sylwedd, a eglurhaent. Mor llawen ar ol hyn y cyfeiria Petr atto. *Derbyniodd gan Dduw Dad barch a gogoniant, pan ddaeth y cyfryw lef atto oddiwrth y mawr-ragorol ogoniant, Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm llwyr boddlonwyd, gwrandewch Ef.*

Y glust a ddysgwyd yma, nid y llygad. Megis am Horeb, felly am Sinai, felly am Tabor, y gallasai Duw ddywedyd, Ni welsoch lun dim yn y dydd y llefarodd yr Arglwydd wrthych. Efe, yr hwn a wyr ein tueddiad i eulun-addoliad, ni rydd achlysuron, trwy y rhai y gallem gam-ddefdyddio ein dychymygion.

Llefarodd Duw ddwywaith y geiriau hyn wrth ei Fab o'r nefoedd: unwaith yn ei Fedydd, ac yn awr, eilwaith, yn ei wedd-newidiad: ond nid yma, heb ryw gydmariad gwrthwynebol; nid Moses, nid Elias, ond *Hwn*. Moses ac Elias oeddynt weinidogion: Hwn *yn Fab*. Moses ac Elias oeddynt feibion, ond trwy ras a dewisiad: Hwn yw'r *Mab hwnnw*, Mab trwy natur. Meibion eraill ydynt anwyl megis o ffafr a rhydd etholiad; Hwn yw'r *Anwylyd*, megis yn undeb hanfod. Eraill ydynt mor anwyl fel ei boddlonir ganddynt: Hwn mor anwyl fel yr ymfoddlona *ynddo* ac *erddo* yn nynolryw. Megis y mae'r berthynas rhwng y Tad a'r Mab yn anfeidrol, felly y mae'r cariad. Mesurwn ddyben cariad wrth ei ëangiad: y cariad a orphwys ar y person, yr hwn yw ei wrthddrych, nid yw ond cyfyng: gwir gariad a ddisgyna fel olew Aaron o'r pen hyd odreu'r wisg—hyd at blant, cyfeillion, cymdeithion. O, anfesuredig gariad Duw'r Tad at y Mab fel yr ymfoddlona yn y byd er ei fwyn. O, ymfoddloniad perffaith a dedwyddol! Allan o Grist nid oes ond gelyniaeth rhwng Duw a'r enaid: ynddo nis gall fod dim ond heddwch. Pan gyferfydd y pelydron mewn un canol-bwynt, nid ydynt yn unig yn gwresogi, ond llosgi. Ein hegwan gariad ni a ëangir at lawer; rhan a â at Dduw, mwy at y byd; ac ynddo at wragedd, plant, cyfeillion: ond yr anfeidrol gariad hwn o eiddo Duw sydd a'i holl belydron yn unedig mewn un gwrthddrych, sef Mab ei gariad. Ac nis car unrhyw beth ond yn nghyfrannogiad ei gariad Ef, a'r deilliad o hono. O Dduw, caffer fi yn Nghrist, ac yna, pa fodd lai na fydd it' fod yn foddlon i mi?

Yr unig lais hwn a gyhoeddodd Grist ar unwaith yn Fab Duw, Cymmodwr y byd, Athraw a Deddfwr ei Eglwys. Megis Mab Duw, y mae ganddo ran hanffodol yn ei gariad: megis Cymmodwr y byd, yn yr hwn y llwyr foddlonir Duw, geilw yn dra chyfiawn am ein cariad a'n hymlyniad wrtho: megis Athraw a Deddfwr, geilw'n dra chyfiawn am ein gwrandawiad a'n hufudd-dod. Felly, O Arglwydd, dysg ni i wrando ac i ufuddhau

it', fel ein hunig Athraw; i'th garu ac i gredu ynot megis ein Cymmodwr; ac, megis tragywyddol Fab y Tad, i'th addoli.

Y goleuni a barodd i'r disgyblion ryfeddu: eithr y llais ddirfawr syndod. Syrthiasant oll ar eu hwynebau. Pwy all feio ar ddyn marwol am deimlo fel hyn wrth lais ei Wneuthurwr? Etto nid oedd y llais hwn ond annogaethol. O Dduw, pa fodd lai na lyngcer i fynu gig a gwaed â'th frawychus ddedryd o farwolaeth! Rhuodd y llew, pwy nid ofna? Pa fodd y geilw'r sawl a ddiystyrant felus lais dy wahoddiadau, ar y creigiau i'w cuddio rhag dy farnedigaethau ofnadwy!

Duw'r trugareddau a dosturia wrth ein gwendidau. Nis clywaf ein Gwaredwr yn dywedyd, "Gorweddwch weithiau ar y ddaear, gan gysgu, yn awr gorweddwch gan syndod: ni chewch ddihuno i ganfod, na sefyll i wrando: yn awr gorweddwch, a chrynwch." Ond yn rasol Efe a gyffwrdd â hwynt, ac a'u cyssura, *Cyfodwch, nac ofnwch.* Y llais hwnnw, yr hwn a'u cyfyd allan o'r ddaear, hawdd oedd iddo eu codi oddiar y ddaear. Hawdd i'r llaw honno, yr hon â'r cyffyrddiad lleiaf, a adferasai olwg, aelodau, a bywyd, adferu ysbrydoedd y dychrynedig. O Waredwr, cyffyrdded dy law benarglwyddiaethol ni, pan orweddom yn llewygfeydd ein gofid, yn ngwelyau ein diogelwch, yn meddau ein pechodau, ac ni a gyfodwn.

A gwedi iddynt dderchafu eu llygaid, ni welsant neb ond yr Iesu yn unig: a hynny yn ddiau, yn ei wedd gynnefinol. Y cwbl yn awr oedd wedi diflannu; Moses, Elias, y cwmmwl, y llais, y gogoniant. Nis gall Tabor ei hun gael ei fendithio yn hir â'r goleuni dwyfol hwnnw, a'r fath ymwelwyr disglaer. Ni chaniatta'r nef i'r ddaear ryw hir barhad o ogoniant. Fry yn unig y gellir disgwyl a mwynhau parhaol ddedwyddwch, lle y canfyddwn ein Ceidwad yn ei lewyrch digyfnewid: lle ni chymmylir ac ni newidir y goleuni.

Moses ac Elias a ddiflanasant: Crist yn unig a adewir. Nid oedd gogoniant y Ddeddf a'r Prophwydi ond dros amser, ïe, am funud; fel yr arosai Crist yn unig i ni yn gyflawn a disglaer. Ni ddaethent ond i roddi tystiolaeth i Grist: yn ol gwneuthur hynny, aethant o'r golwg.

Ac nis gallasai'r disgyblion hyn, a godasid oddiar y ddaear, gŵyno oblegid colli Moses ac Elias, tra yr oedd Crist o hyd gyda hwynt. Pe buasai'r Iesu wedi myned, a gadael yno y naill neu'r llall, neu ynte'r ddau, ar y mynydd gyda'i ddisgyblion,

nis gallasai'r presennoldeb hwnnw eu cyssuro er cymmaint ei ogoniant: yn awr ar eu hymadawiad hwy, am ei fod Ef yn ol, nis gallant fod yn anniddan. O Iesu, ni waeth pwy fydd bell os byddi di gyda ni. Tydi wyt Dduw Holl-ddigonol: beth a allwn fod mewn angen o hono, tra na fyddom mewn angen o honot ti. Dy bresennoldeb a wna Tabor ei hun yn nefoedd: ïe, nis gall uffern ein gwneud yn annedwydd, os byddwn mewn mwynhad o honot ti.

MATTHEW XVII. MARC IX. LUC IX.

Y WRAIG A DDALIASID MEWN GODINEB.

Y FATH fywyd llafurus oedd yr eiddo Crist! Treuliasai'r nos yn Mynydd yr Olewydd; y dydd yn y Deml: tra y mae'r nos er gorphwysdra, a'r dydd er cyfeillgarwch. Ei unigrwydd oedd er gweddi, ei gymdeithasgarwch er pregethu. Gwylia dros yr holl nos yn y mynydd: treulia'r holl foreu yn pregethu yn y deml. Nid er mwyniant yr oedd Ef ar y ddaear: ei holl fywyd oedd gospedigaethol a llawn lludded. Pa fodd yr ymdebygwn iddo, os ei holl fywyd Ef oedd boen a llafur, a'r eiddo ninnau oll yn bleser?

Nis cawsai ryw lwyddiant mawr y dydd blaenorol. *Aeth ymrafael yn mysg y bobl am dano Ef.* Anfonasid a llogasid rhai i'w ddal: er hynny dychwel i'r deml. Y diogyn neu'r annewr a ddywaid fod *llew ar y ffordd.* Pan eilw Duw, rhaid in' ddiystyru holl falais a gwrthwynebiad dynion. Rhaid in' hau, îe, ar ol cynhauaf drwg, ac yn ol cael naccad, rhaid ymbil dros Dduw. Haul y cyfiawnder a ragflaena'r llall: llewyrcha'n foreu âg athrawiaethau iachus ar eneidiau ei wrandawyr.

Ei wrandawyr ydynt dra nifeiriol ac astud: etto nid oll gyda'r un bwriadau. Os y bobl a ddaethent i gael eu dysgu, y Phariseaid a'r ysgrifenyddion a ddaethent i feio ar ei athrawiaeth.

Gyda pha ryw ymddangosiad o zel a chyfiawnder y deuant i wyddfod Crist? Megis rhai yn caru diweirdeb ac yn cashau aflendid, *hwy a ddygasant atto wraig, yr hon a ddaliesid yn* ngwarth *ei godineb.*

A phaham y wraig yn hytrach? am fod y dyn mor ddwfn os nid dyfnach yn y trosedd; oherwydd y dylasai fod ganddo

fwy o nerth i wrthsefyll, mwy o ras i ochelyd rhag temtio. Ai o angenrheidrwydd? Efallai i'r dyn, gan ganfod ei berygl, ddefnyddio ei rym i ddiangc trwy drais o ddwylaw y rhai a geisient ei ddal. Neu ai o gyfrwysdra? am y disgwylient am le mwy tebygol i gyhuddo Crist yn achos y wraig na'r eiddo'r dyn: am y tybient y tueddai ei dymmer drugarog ef i dosturio wrth ei gwendid hi yn hytrach na'r eiddo Ef. Neu ai nid oedd yn hytrach o bartiaeth? Ai nid y gwanaf yn yr oes honno megis yn yr eiddo ninnau sy'n dyoddef gyntaf? Onid yw anallu yn gwneuthur yn agored i falais gelynion? Mân bryfed a ddelir yn y wê, tra y tyr caccwn trwyddynt yn ddirwystr. Troseddwyr tlodion a gospir, tra y mae y rhai mawrion yn gwrthsefyll eu gweithredoedd gwarthus, neu'n dyfod allan o honynt trwy wobrau. Meddwyn, os cardottyn fydd, a lusgir i'r cyffion, tra y gosodir y cyfoethog mewn ystafell gyssurus i gysgu allan ei aflywodraeth.

Oherwydd yr achosion hyn y dygir y wraig hon at Grist; nid i Fynydd yr Olewydd, nid i'r ffordd, nid i'w letty, eithr i'r Deml: a hynny nid i ryw gongl dywyll o hono, eithr i wyddfod y gynnulleidfa.

Gofynent am ei marwolaeth. Y gosp a fynnent ei osod arni oedd gwaradwydd; yr hwn oedd yn gymmaint yn fwy ag oedd nifer y llygaid a ardystient ei drygioni. Holl hiliogaeth pechod a ddeisyfa dywyllwch a dirgelwch, ond hwn yn neillduol: y wawr, y nos, yw tymmor y godinebwr. Nis gellir ei drin yn addasach na'i lusgo i oleu'r haul, a'i gyhoeddi gyda hwttiadau a chroch-lefau. O ddigywilydd-dra'r dynion hynny y rhai a ymddigrifant yn y cyfaddefiad o'u hymddygiad anifeilaidd: ac a ymffrostiant yn nghof-nodau buddugoliaethus eu nwydau.

Tybiaf y canfyddaf modd y saif yr odinebwraig druenus hon yn llawn gwaradwydd yn mhlith y lluaws diystyrllyd hwnnw: y modd y cuddia ei phen, ac y sycha ei hwyneb chwyddedig, a'i llygaid wylofus.

Yn y cyfamser y mae'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid o ddifrif yn y peth sydd ganddynt mewn llaw. Deuant yn mlaen yn ëofn i'w chyhuddo. *Athraw, y wraig hon a ddaliwyd ar y weithred yn godinebu.*

Mor deg y dechreuant! Pe buaswn yno, yn eu clywed, oni ddywedaswn, "O, 'r fath ddynion pur, onest, cydwybodol, yw

y rhai'n. Dilynwyr defosiynol Crist ydynt! Gyda pha barch y deuant atto! Pa mor zelog ydynt dros gyfiawnder!" Tra y dywaid, yr hwn a chwilia'r galon ar hyd ac ar draws, wrthyf, wneuthur hyn oll *i'w demtio.* Y calonau gwaethaf sydd ganddynt y geneuau teccaf: megis carn-buttain Solomon, ei gwefusau a ddefnynant megis dil mel: a'i genau sydd dynerach nag olew, eithr ei diwedd sydd chwerw megis wermod.

Phariseaid gau a thwyllodrus! Eich Meistr yw'r sawl a wasanaethwch, nid y sawl a demtiwch: yn hyn yn unig y bydd Ef feistr i chwi, am y tâl eich cyflog i chwi, gan osod eich rhan gyda rhagrithwyr.

Y weithred o odineb oedd ei throsedd: Ei dal yn y weithred nid oedd ran o'i phechod, eithr prawf o gyfiawnder ei chyhuddiad: er hynny ei dal fel hyn a sonir er cynnyddu ei gwaradwydd. Cyfryw yw barn lygredig y byd. Gwneud drwg, ni therfysga hyn ddynion, eithr eu dal yn ei wneuthur. Aflendid anadnabyddus a â heibio yn hawdd: y wybyddiaeth ac nid y beiusrwydd o hono a bar derfysg. Ond O bechaduriaid ffol, nis gall eich holl ddyfais a'ch ymddirgeliad eich cadw rhag eich dal yr un wedd: eich cydwybod a'ch deil felly. Duw'r nef a,ch deil felly: a chanfyddwch ryw ddydd fod eich cydwybod yn fwy na thystion fil, a Duw yn fwy na mil o gydwybodau.

Y rhai, a achwynant ar y weithred, a alwant am gospedigaeth. *A Moses yn y gyfraith a orchymynodd i ni labyddio y cyfryw.* Yn mha le y gorchymynodd Moses hynny? Diau nad yw y neillduol gosp hon yn y llyfr: traddodiad ac arfer a'i sefydlasent, ac nid y Gyfraith. Gorchymynodd Moses farwolaeth i'r ddau: ac nid y dull o hono i un o honynt. Trwy gyffelybiaeth fel hyn y mae: Gorchymynwyd hyn yn bendant, pan fyddai morwyn wedi ei dyweddio i ŵr, a'i chael heb fod yn forwyn: pan fyddai morwyn wedi ei dyweddio i ŵr, ac a lygrasid heb waeddi allan: traddodiad ac arfer a wnaeth i fynu'r arall oll, gan gasglu oddiyma y dylasai pob godineb-wraig gael ei llabyddio. Y gosp henaf oedd llosgi: marwolaeth o hyd, ond mewn amryw ddull. Cywilydd gennyf feddwl fod cristionogion yn cyfrif y pechod hwnnw yn beth ysgafn, yr hwn a gyfrifid gan Iuddewon a Phaganiaid yn haeddiannol o farwolaeth.

Y fath gau-ddyfnodiad yw hwn! *Moses a orchymynodd.* Eiddo Duw oedd y ddeddf, nid yr eiddo Moses. Os defnyddiwyd Moses i gyfryngu rhwng Duw ac Israel, nid oedd y ddeddf

yn eiddo ef oherwydd hynny. Llaw Duw oedd ef i estyn y ddeddf i Israel; llaw Israel i'w derbyn oddiwrth Dduw. Nid ydym yn enwi'r dwfr oddiwrth y pibellau, ond oddiwrth y ffynnon. Nid iawn i wir Israel aros yn yr ail foddion, ond esgyn at oruchel ffynnonell cyfiawnder. Pa mor barchus bynnag oedd eu barn am Moses, nis gellir dywedyd fel hyn am dano, heb y diystyrwch mwyaf cywilyddus i freiniol ddeddf ei Greawdwr. Nid oes dyn marwol yr hwn nis dichon ei awdurdod syrthio i ddiystyrwch: nis gall yr eiddo y byth-fywiol Dduw lai na bod byth yn sanctaidd ac annichonadwy. Y mae yn awr gyda'r Efengyl megis yr oedd gynt gyda'r ddeddf: gair Crist ydyw, er y traddodir gan ein gwendid ni: pwy bynnag fyddo'r cyhoeddwr, y cyhoeddiad ydyw eiddo Duw'r nefoedd. Tra y golygir fel yr eiddo ni, nid rhyfedd os yw agored i ddiystyrwch.

Y fath air dichellgar yw hwn! Dywedodd Moses fel hyn, *Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd?* Os nad ydynt sicr ddywedyd o Moses felly, paham yr haerent hynny? Ac os ydynt sicr, paham yr anmheuant yr hyn a wyddant ei fod wedi ei sicrhau? Ni ddymunent amgenach mantais yn ei erbyn, na'i gael yn gwrthddywedyd y Deddfroddwr anrhydeddus hwnnw. Eu proffes oedd hyn, *Disgyblion Moses ydym ni:* a gwyddom *i Dduw lefaru wrth Moses.* Buasai'n dramgwydd ddigon gwrthwynebu prophwyd mor adnabyddus: etto canfyddaf mai amcan gelynion y gwirionedd yw gosod Moses a Christ yn erbyn eu gilydd; o ran y sabboth, yr enwaediad, priodas ac ysgar, arferyd y ddeddf, cyfiawnhad trwy'r ddeddf, ystyr ac ëangder y ddeddf—a pha le na wnaent hyn? Ond nis gallant byth lwyddo: y maent eill deuodd yn gyfeillion trwyadl ac anwahanedig, o bob tu, dros byth: y naill a lefara dros y llall, y naill a gadarnha'r llall: y mae'r naill yn îs na'r llall, ond nid yn groes i'w gilydd. Moses yn ffyddlon megis Gwas, Crist megis Mab. Nis gall gwas ffyddlon lai na bod yn ufudd i'r Mab. Yr iawn ddefnydd a wnawn o Moses yw ei gymmeryd yn Athraw i'n dysgu, i'n fflangellu at Grist: yr iawn ddefnydd a wnawn o Grist yw diwallu Moses. *Trwyddo Ef y cyfiawnheir pob un sydd yn credu oddiwrth yr holl bethau, y rhai ni allent trwy gyfraith Moses gael eu cyfiawnhau oddiwrthynt.* Felly y cyttunwn â'r ddau, os cymmerwn yr iawn ran yn mhob un: felly Crist a'n dwg at Grist, a Christ i ogoniant.

Pe gofynasai'r Phariseaid hyn y cwestiwn hwn i'r Gwaredwr, o symledd ac o ddymuniad cael cyfarwyddyd mewn matter dyrus, buasent i'w canmol yn gymmaint ag y maent yn awr i'w beio. O Iesu, i ba le yr awn ond attat ti? Tydi wyt Air y Tad, Athraw yr Eglwys. Tra y clywom gan ereill "Beth a ddywaid y Tadau, Beth a ddywaid Cynghorau cyffredin." Clywent gennym ni, *Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd?*

Ond yma yr oedd yn llwyr groes i hyn: daethent nid i ddysgu ond i demtio: ac i demtio fel y gallent gyhuddo. Fel eu tad y diafol, yr hwn a annogai bechu, fel yr edliwio ein hymroddiad iddo yn ein herbyn; dymunai'r gwrthwynebwyr gwenieithgar hyn dynnu Crist i lefaru yn groes i Moses, fel y gallent gymmeryd mantais ar ei wrthddywediad. Ar un llaw, canfyddent ei barodrwydd i gondemnio gau esboniadau eu hathrawon rhyfygus ar y gyfraith, gydag, *Yr wyf fi yn dywedyd wrthych:* ar y llaw arall, canfyddent ei duedd i drugaredd a thosturi yn ei holl ffyrdd, fel ag i ddibrisio rhai amgylchiadau o'r gyfraith, megis cyffwrdd â'r gwahanglwyfus, iachau ar y sabboth, bwytta gyda phechaduriaid, gollwng ymaith droseddwr gwarthus ond edifeiriol, dewis a chefnogi dau bublican nodedig; ac oddiyma gallent feddwl, efallai, y perasai ei dosturi iddo groesi'r sefydliad Mosiaidd hwn.

O'r abwyd cyfrwys a gynnygir yma i'n Gwaredwr! Y fath a'r nis gallesid gafaelu ynddo heb ei ddal. Tybient yn annichonadwy iddo beidio drygu naill ai ei gyfiawnder, na'i drugaredd, canys dychymygent fel hyn, "Naill ai Crist a gefnoga Moses trwy ddedfrydu'r wraig hon i farwolaeth; neu fe â yn groes i Moses trwy ei gollwng ymaith yn ddigosp. Os gorchymyna iddi gael ei llabyddio, cyll anrhydedd ei dosturi; os gorchymyna iddi gael ei rhyddhau, dianrhydedda ei gyfiawnder." Yn wir, os diosgir Ef o un o rhai'n, nis gall fod yn Waredwr.

O wâg gyfrwysdra dynion ffol, y rhai a feddyliant faglu doethineb ei hun!

Distawrwydd a diystyrwch a gaiff derfysgu y dynion hyn yn gyntaf, y rhai wedi hynny a anfonir ymaith wedi eu gwaradwyddo gan ei atteb. Yn lle agoryd ei enau, yr Iesu a blyga ei gorph: ac yn lle dychwelyd geiriau o'i wefusau, ysgrifena lythyrennau ar y llawr â'i fys. O Waredwr, rhyfeddaf yn hytrach mewn distawrwydd wrth dy ystum, na chwilio yn gywrain i'r geiriau a ysgrifenaist, neu i ddirgeloedd yr ysgrifen

yn unig; yn hyn bwriedit amlygu dy ddiystyrwch o'r ceccrwyr maleisus hyn. Weithiau distawrwydd a diystyrwch yw'r atteb-ion cymmwysaf. Tydi, yr hwn a orchymynaist in' fod *yn gall fel y seirph*, a roddi i ni yr enghraifft gogoneddus hwn o'th gallineb. Tra diogel oedd cadw'r temtwyr hyn mewn ympryd fel hyn ar ddiystyrwch distaw, fel y dygai eu hawyddfryd arnynt y gwarth a ddilynodd.

Po mwyaf anfoddlon y canfyddent Grist i roddi atteb, mwyaf oll y gwasgent arno am ei gael. Yn awr, megis wedi ei gymmell gan ei zelog daerineb, ein Iachawdwr a gynhyrfa ei hun, ac a'i hatteb hyd adref gydag ymfoddloniad beiusgar a brathlyd; *Yr hwn sydd ddibechod o honoch, tafled yn gyntaf garreg atti;* megis pe llefarasai, hyd yn oed ei agwedd, "Yr oeddwn yn anfoddlon i'ch gwaradwyddo; am hynny yn dymuno peidio gwrando ar eich cais anngharedig, ond yn gymmaint ag y rhoddwch orfod arnaf trwy eich haerllugrwydd i roddi i chwi atteb cyfiawn, rhaid im' hysbysu i chwi, nad oes un o honoch nad yw mor feius a'r hon a gyhuddwch: nid oes gwahaniaeth ond fod eich pechod chwi yn cael ei fogi mewn dirgelwch, a'r eiddo hithau wedi ei ddwyn i'r amlwg. Rheitiach i chwi ymofyn am dangnefedd i chwi eich hunain trwy ostyngedig edifeirwch, na chymmell toster yn erbyn arall. Nid wyf yn gwadu na ddarfu Moses yn gyfiawn osod y gosp o farwolaeth oddiwrth Dduw, am y cyfryw droseddau gwaradwyddus; ond beth felly a ddeuai o honoch chwi? Os yw angau yn ddyledus iddi hi, etto nid trwy eich dwylaw aflan chwi; eich calonau a ŵyr nad ydych yn ddigon gonest i gyhuddo."

Wele'r adarwr wedi ei ddal, ac nid yr aderyn. Ni ddywaid "Llabyddier hi," buasai hyn yn erbyn ei drugaredd. Ni ddywaid "Na lybyddier hi," buasai hyn yn erbyn deddf Moses. Yn awr rhydd y cyfryw atteb fel na wna gam â'i drugaredd na'i gyfiawnder: hi a ollyngir ymaith, hwythau a waradwyddir.

Arfer yr Iuddewon yn y troseddau ysgeler a gospid trwy labyddio, oedd i'r tystion a'r cyhuddwyr yn gyntaf osod eu dwylaw ar yr euog: iawn ynte y moga ein Hiachawdwr y cyhuddwyr hyn â chydwybod oherwydd eu ffiaidd annghymmwysder i'r gwaith. Gyda pha wyneb, gyda pha galon y llabyddient eu pechod eu hun yn arall?

Onestrwydd sydd air ry isel. Yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid hyn oeddynt en wog am sancteiddrwydd annghyffredinol. Y tu

allan o'u bywyd nid oedd yn unig yn ddidramgwydd, ond fel yr eiddo'r Saint a phatrynol. Er hynny, holl-weledig lygad Mab Duw, yr hwn a genfydd *ffolineb mewn angelion*, a ganfyddodd lawer mwy o ddrygioni yn y proffeswyr gogoneddus hynny. Nid er ddidim *y mae ei lygaid fel y fflam dân.* Pa ddirgelwch na chwilia Ef? Ciliwch, O bechaduriaid ffol, i'ch ystafelloedd mwyaf mewnol: ïe, os gellwch, i eigion y ddaear: ei lygad a'ch dilyna, ac a sylwa ar eich holl ymddygiad. Nid oes clo, na throsol, na thywyllwch a all ei gadw allan. Ni fu lleidr erioed mor ddigywilydd a lledratta yn wyneb y Barnwr. O Dduw, bydded im' weled fy hun yn cael fy ngweled gennyt ti, ac nis meiddiaf droseddu.

Heblaw sylw, y mae yma ymliwiad. Pechodau'r bobl hyn am eu bod yn ddirgel a anghofiasid. Y mae amser mawr er pan y cyflawnwyd hwy: ac nis meddyliasant glywed dim mwy yn eu cylch. Ac yn awr wedi i amser a diogelwch eu gweithio yn llwyr o'u cof, Efe, yr hwn a'u barna, a'u geilw i gyfrif am yr hyn a aeth heibio. Ryw dro neu gilydd, y Barnwr cyfiawn a osoda ein beiau ger ein bron, ac a bar i ni feddiannu pechodau ein hieuengctyd. *Hyn a wnaethost, a minnau a dewais; tybiaist dithau fy mod yn gwbl fel ti dy hun; ond mi a'th argyhoeddaf, ac a'u trefnaf o flaen dy lygaid.* Pechodau'r edifeiriol ydynt ger ei fron er ei ddarostwng; eiddo'r anedifeiriol er ei gywilydd a'i warth.

Gweithred bechadurus sydd dros funud, ond nid felly yr euogrwydd. Hwnnw a lyn wrthym, ac a ddychwel arnom, naill ai yn uchder ein diogelwch, neu ddyfnder ein trallod, pan fyddom leiaf galluog i'w gynnal. Pa mor gyfiawn fyddai i Dduw gymmeryd mantais arnom, ac yna gafaelu ynom, pan y'n cyhuddir o fai blaenorol!

Iawn ymorol am ddiniweidrwydd yn y sawl a gyhuddant ereill o feiau. Haedda'r droseddwraig labyddiad, ond pwy a deifl feini atti? Mor anaddas fyddai hyn i ddwylaw mor aflan a'r eiddo hithau! Pwy ond eu hunain a darawant hwy, y rhai a gospant eu pechodau eu hunain mewn dynion ereill. Nid oes un peth annghyfiawnach nac ynfytach nag i'r trawst feio ar y brycheuyn, neu'r ffwrn ar yr odyn. Zel grwydraidd gau yw'r hon ni ddechreua gartref.

Gwych y gwyddai ein Hiachawdwr gryfed a chwerwed y belen a roddasai i'r hunain-gyfiawnion hyn: ac yn awr cymmer

hamdden i weled y modd y gweithia. I roddi iddynt gan hynny amser i'w llyngcu, dychwel i'w ystum flaenorol o anystyriaeth ymddangosiadol.

Pa fodd y llwyddodd y cyfferi? Nis gwelaf un o honynt yn sefyll ar ei ddiniweidrwydd: ac etto, yr hyn sydd dra rhyfeddol, gesyd y bobl hyn gyflawniad neu droseddiad o'r ddeddf mewn gweithred allanol. Eu calonau a fynegent, pe haerasent eu diniweidrwydd ger bron Crist, y buasai yn eu llwyr waradwyddo, trwy ddwyn i'r goleu eu hen a'u cuddiedig bechodau: ac yn eu hargyhoeddi felly trwy amgylchiadau anwadadwy, fel na allasent byth ysgwyd ymaith eu gwarth. *Hwythau pan glywsant, wedi eu hargyhoeddi gan eu cydwybod, a aethant allan o un i un, gan ddechreu o'r henaf hyd yr olaf.*

Ymddengys rhyw fath ar drefn foesgar yn yr ymadawiad beius hwn: nid oll ar unwaith; rhag ymddangos fel wedi eu gyrru ymaith trwy drais gan gyhuddiad Crist: ynawr yr ymadawiad lledradaidd hwn, bob yn un, a ymddengys fel ymadawiad hybwyll a gwirfoddol. Yr *henaf* yn gyntaf: y mae'r henaf yn addasach i roddi nac i ddilyn esampl; ac nis gallasai'r ieuangaf ei dybied yn warth dilyn camrau rhagflaenor difrifol.

O ryfeddol rym cydwybod! Nis gall dyn ei wrthsefyll mwy na gwrthsefyll Duw. Yr Hollalluog, Swyddog yr hwn ydyw'r gydwybod, a'i cynhyrfa i gyhuddo. Nid gwiw gwadu, pan ddywedo honno ein bod yn euog: pan gondemnir ni ganddi, yn ofer y'n rhyddheir gan yr holl fyd. Gyda pha wroldeb yr ymosododd y rhagrithwyr hyn ar Grist! Gyda pha orfoledd yr ymosodasant ar yr euog honno? Ynawr teflir hwy i lawr megis â tharan gan eu cydwybod eu hunain, ac ymadawant mewn terfysg: ac ef yw'r gwychaf, yr hwn a all ddiangc bellaf oddiwrth ei waradwydd ei hun. Nid rhaid i'r drygionus chwilio allan o hono ei hun am Farnwr, Cyhuddwr, Tyst, Arteithiwr.

Nid cynt y clyw'r rhagrithwyr hyn am eu beiau o enau Crist, nag yr ânt ymaith. Pe buasai ynddynt wir ofid, daethent atto yn hytrach ar eu gliniau, gan ddywedyd, "Arglwydd, gwyddom dy fod yn hysbys o'n beiau cuddiedig. Mynega hyn dy Hollwybyddiaeth. Tydi, yr hwn a elli wybod am ein holl bechodau, a elli eu maddeu. O, maddeu bechodau dy weision. Tydi, yr hwn a'n cyhuddi, rhyddha ni hefyd." Ond yn awr, yn lle hyn, troant eu cefnau ar y Gwaredwr, gan ffoi ymaith. Nis gwaeth gan yr anedifeiriol leied a gaffo o bresennoldeb Duw, neu o gry-

bwylliad o'i bechodau. O ynfydion! Pe gallech redeg ymaith oddiwrth Dduw, byddai yn rhywbeth: ond tra yr ymsymmudwch ynddo, beth a wnewch? I ba le yr ewch? Gallwch redeg oddiwrth ei drugaredd, ond nid oddiwrth ei farn.

Crist a adewir yn unig. Yn unig gyda golwg ar yr achwynwyr hyn; ond nid yn unig gyda golwg ar y dyrfa. Y mae'r odineb-wraig alarus yn sefyll yno etto. Gallasai fyned ymaith gyda hwy: ni chymmellodd neb iddi aros: ond yr hyn a'u gyrodd hwy ymaith, a'i cadwodd hithau yno, sef Cydwybod. Gwyddai ei bod wedi ei chyhuddo o'i bai yn gyhoeddus, ac nis gallasai ei wadu: megis un gan hynny a rwymasid yno gan ei chalon euog ei hun, nis syfla nes yr anfonir ymaith.

Nid oedd Iesu mor ddiwyd yn ysgrifennu nas darllenasai yn y cyfamser euogrwydd ac absennoldeb y cyhuddwyr hynny. Yr Hwn a wyddai yr hyn a wnaethent, a wyddai yr hyn oeddynt yn ei wneuthur, a'r hyn a wnaent. Etto megis pe nas gwyddai, *Efe a ymuniawnodd ac a ddywedodd, Ha wraig pa le y mae dy gyhuddwyr?*

Mor ddedwyddol i hon gael ei gadael yno! A allasai fod mewn sefyllfa ddiogelach na cher bron Gorseddfaingc Gwaredwr? Pe gallasai ddewis ei noddfa, i b'le yn hytrach y gallasai ffoi? Dedwydd ydym, os, pan argyhoedder ni o'n pechodau ynom ein hunain, y gallwn osod ein hunain ger bron y Barnwr hwnnw, yr Hwn yw ein Machniydd, ein Dadleuwr, ein Gwaredwr, ein Pridwerth, a'n Tangnefedd.

Diau ei bod yn petruso rhwng ofn a gobaith: gobaith am fyned ymaith o'i chyhuddwyr: ofn o ran y gwyddai yr hyn a haeddai: ac yn awr tra y crynai gan ddisgwyl y ddedfryd, clyw, *Ha wraig pa le y mae dy gyhuddwyr?* Yn hyn bwriada Iesu foddloniad ei holl wrandawyr: fel y gallent weled euogrwydd, ac yn ganlynol, annghymmwysder ei chyhuddwyr; ac nad oedd tir teg iddo fyned rhagddo â'i hachos.

Dau beth ydynt reidiol er dihenyddiad drwg-weithredwyr, amlygrwydd—dedfryd: un oddiwrth dystion, y llall oddiwrth y Barnwr. Gofyn ein Gwaredwr am y ddau. Rhaid i'r cyhuddiad a'r prawf ddwyn yn mlaen y ddedryd: rhaid i'r ddedryd orphwys ar amlygrwydd y prawf. *Pa le y mae dy gyhuddwyr? Oni chondemniodd neb di?*

Pe rhoisid dedryd yn ol y ddeddf yn erbyn yr odineb-wraig,

diau nas gollyngasai Crist hi yn rhydd: canys, fel nad oedd yn dymuno ymwthio i swydd un arall, felly nid aethai yn groes i gyfiawnder a wnaethid gan ereill. Ond yn awr gan gael pob peth yn rhwydd, dywaid, *Nid wyf finnau yn dy gondemnio.* Beth, Arglwydd! A wyt yn ffafrio troseddwyr aflan? A ydyw hoff gennyt gannu beiau ffiaidd a'u gadael i bassio trwy gyd-ddygiad esmwyth. Pell, pell fyddo hyn oddiwrth dy gyfiawnder perffaith. Yr hwn oddiwrth hyn a ddywaid na ddylid cospi godineb â marwolaeth, haered fod yn annghyfreithlon rannu ẹtifeddiaeth, am ddweud o'r Iesu, yn achos y ddau frawd ymrysongar, Pwy a'm gosododd i yn Farnwr arnoch chwi? Ni ewyllysiaist gymmeryd y swydd arnat: nid cas gennyt y weithred o gospi troseddwr, neu o rannu tiroedd. Nid oedd yma chwaith ryddhad o'r wraig rhag y ddedryd o farwolaeth, ond oddiwrth dy ddedryd di: yr hon gwyddet ei fod yn anaddas it' ei chyhoeddi. Yn hyn golygid dy alwad a'th brif amcan yn dy ddyfodiad i'r byd: yr hyn nid oedd er sefydlu achosion gwladol, neu i farnu beiau o'r cyfryw natur, ond i achub dynolryw: nid er distrywio'r corph, ond achub yr enaid. A gofalet am hyn yn achos y drosedd-wraig druenus hon: *Dos, ac na phecha mwyach.* Pa mor ofalus y dylem fod i gadw o fewn terfynau ein galwedigaeth, heb dreisio ar swyddau rhai ereill! Pa fodd y gallwn fawrhau yn ddigonol dy drugaredd di, O Iesu, yr hwn nid oedd gennyt hoffder yn marwolaeth pechadur? Yr hwn a ddaethost felly i achub fel dy fod yn ein cyfrif yn anfwyn am barhau o honom yn ein trueni. *O dŷ Israel, Paham y byddwch feirw?*

Ond, O Fab Duw, er na fyddet y pryd hwn yn farnwr, etto, byddi felly ryw ddydd. Ni fynnet farnu pechodau dynion yn dy ddyfodiad cyntaf: deui i'w barnu yn yr ail. Yr amser a ddaw, pan ar dy orseddfaingc gyfiawn a gogoneddus y berni bob dyn yn ol ei weithredoedd. Fel na'th glywom yn dywedyd un dydd, *Ewch ymaith rai melldigedig,* bydded in' yn awr dy glywed yn dywedyd, *Dos, ac na phecha mwyach.*

Ioan viii.

YR EDIFEIRIOL DIOLCHGAR.

Unwaith canfyddaf Grist yn cael ei wahodd gan Bublican ; yn awr gan Pharisead. I ba le bynnag yr ae, gwnae'r fan yn hyfryttach nag oedd, trwy gyfnewid mewn gwedd ddedwyddol wledd gorphorol i un ysbrydol.

Pwy wyr nad oedd y Phariseaid yn elynion i Grist—yn ddynion â thyb ry wych am danynt eu hunain, gan ddirmygu eraill—syml mewn ymddangosiad, rhagorol mewn gweithred : ymneillduwyr caeth : hunain-gyfiawnion, beilchion. Etto, un o honynt a wahodda Grist, mewn modd taer. Nid oedd hwn, fel y lleill, yn geccrus a seremoniol : pe buasai o'r un argraph a hwy, buasai esgeuluso golchi traed yn beth marwol yn ei olwg. Nid oes broffes nad oes rhyw ddaioni wedi tarddu o honi. Yr oedd Nicodemus a Gamaliel o'r un dymmer. Ac yr oedd rhyw ddyben gan yr Efangylwyr, yn ol condemnio'r sect hon am ddiystyru cynghor Duw yn eu herbyn eu hunain, yn gosod i lawr yn ebrwydd wedi'n hanes Simon y Pharisead, megis un annhebyg i'w frodyr. O Iesu, medri gael allan Phariseaid da, a Phublicanod da, ïe, lleidr da ar y groes : ac fel y gellit eu cael allan, gelli eu gwneuthur y cyfryw.

Pharisead ar y goreu oedd ef, at ford yr hwn nis gommeddaist fyned. Mewn doethineb a thrugaredd ymddyget yn y cyfryw fodd ag *i fod yn bob peth i bawb, fel yr achubet rai.* Dy ragflaenor oedd arw, megis yn ei wisg, felly yn ei dymmer—trwy broffes yn erwin a sarrug, tithau yn addfwyn a chyfeillgar. Felly yr oedd yn addas i'r ddau. Efe oedd Bregethwr edifeirwch ; Tydi, awdwr diddanwch ac iachawdwriaeth. Gwnae ef ffordd i ras, tithau a'i cyfrennaist. Gorchymynaist in' dy ddilyn di, ac nid ef. Yr hyn, gan hynny, a wna'r cyfrwys a'r twyllodrus er elw daearol, a wnawn ni er un ysbrydol : cydffurfio ein hunain â phob cwmni, mewn pethau amgylchiadol, nid yn yr hyn sydd ddrwg, ond yr hyn sydd dda. Pa ryfeddod yw os darfu it' gyd-ffurfio dy hun â gwahanol dymmerau dynion ar y ddaear, yr hwn a ddaethost iddi i gyd-ffurfio dy hun a'n natur? Na cham-ddefnyddiwch hyn, Ragrithwyr nwyfus, dynion o bob oriau, y rhai a allent fwytta gyda'r glythion, yfed gyda'r meddwon, canu gyda'r aflan, gwatwar gyda'r gwatwarwyr annuwiol, a siarad yn dduwiol gyda chrefyddwyr : megis pe caech oddiyma esgus am eich cyd-ymffurfiad â phob

arferiadau. Ni phechodd Iesu, er mwyn neb, er ei fod er ein mwyn yn gyfeillgar, fel y gallai ein cadw rhag pechu. A fedrwch felly ymgyfeillachu â chymdeithion aflan, fel ag i attal eu pechodau, rhwystro eu gormodedd, a'u hennill at Dduw? Os gellwch, dilynwch Ef, yr hwn nis gommeddodd eistedd i lawr yn nhŷ'r Pharisead.

Yno'r eisteddodd'r Iesu, *Ac, wele wraig yn y ddinas, yr hon oedd bechadures.* Nid rhyfedd gennyf y sonir am dani gyda syndod; o'i thu hi, a'r eiddo Crist. I bechadures nwyfus, yr hon a ymgaledasai mewn crefft nodedig o ddrygioni, ddyfod o honi ei hun, mewn gofid am ei thrythyllwch, at y Gwaredwr, sydd beth addas i beri syndod. Swn yr Efengyl sydd gyffredin ddigon, ond lle mae ei gallu? Y mae ganddi luoedd o wrandawyr, eithr ychydig o droedigion. Etto, ni fyddai syndod yn ei chylch, pe na chyfeiriem at allu a thrugaredd Crist—at ei allu, yr hwn a'i tynnodd atto ei hun: at ei drugaredd, yr hwn a'i derbyniodd. O Iesu, rhyfeddaf o'i hachos hi, ond bendithiaf di o'i herwydd; trwy ras yr hwn yn unig y cynhyrfasid ac y derbyniasid hi.

Pechadures! Och, pwy nad oedd, pwy nad yw, felly? Nid yn unig *mewn llawer o bethau yr ydym bawb yn llithro:* ond pechwn lawer, yn mhob dim. Pe buasai gwraig heb fod yn bechadures, buasai hyn tu hwnt i syndod. Un gwr a fu heb fod yn bechadur—sef yr hwn oedd fwy na dyn—y Duwddyn hwnnw, yr hwn oedd noddfa'r bechadures hon: ond ni fu erioed wraig ddibechod.

Etto, ni ddywaid, gwraig a fu, ond oedd, yn bechadures. Nid gweithred a rydd gyfenwad, eithr celfyddyd. Dichon, hyd yn nod, doeth gariad Cristionogion, llawer mwy trugaredd Duw, wahaniaethu rhwng pechodau o wendid, a'r ymarferiad o bechod: a barnu am danom, nid wrth weithred funudol, eithr wrth ein sefyllfa barhaol.

Yr oedd y wraig yn nodedig am ei buchedd foethus a thrythyll Y fath amrywiaeth sydd o bechodau! Yr hwn ni pharha, nis gellir ei gyfrif. Pob pechod a lynir wrtho a ddylai roddi'r titl hwn i'r enaid. Yma dewisir un allan o lawer: nid yw enwog am lofruddiaeth, lledrad, neu eilun-addoliad: ond ei chwantau a'i gwnant yn bechadures. Nid oedd pechodau eraill arferol o roddi'r enw hwn i'r gweithredwr o honynt, er y gallent fod yn fwy ysgeler Gall y trythyll wenieithu iddynt eu hunain oddi-

wrth ysgafnder y pechod hwn: ni fydd ar eu heneidiau eisiau dim arall i'w dwyn i uffern: yr hwn nis gall foddio natur gymmaint ag yr anfoddia Dduw, yr hwn a lefara am dano, megis pe na byddai pechodau heblaw hwn—*gwraig, yr hon oedd bechadures.*

Yr oedd yn bechadures; yn awr nid yw felly: ei phresenoldeb yma a ddengys ei throedigaeth. Pe parhausai o hyd yn ei hen gelfyddyd, nis gallasai oddef yr olwg o Grist, mwy na'r cythraul hwnnw a waeddodd allan, *a ddaethost i'm poenydio?* Buasai ei llygaid yn lampau o chwantau, ac nid yn ffynnonau o ddagrau: buasai ei gwallt yn rhwydau i ddal cariadau ffol, ac nid tywel i sychu traed ei Gwaredwr: etto, dwg arni o hyd yr enw o'r hyn a fuasai: y graith a erys, yn ol i'r archoll gael ei iachau. Bydd Simon byth y gwahanglwyfus, a Matthew y publican. Pa mor ofalus a ddylem fod i ochelyd y gweithredoedd hynny, y rhai a allant byth ein dianrhydeddu!

Rhyfedd y gwahaniaeth rhwng ymddygiad Duw a dynion! Trugaredd Duw, megis *y geilw y pethau nid ydynt megis pe byddent*, felly geilw y pethau a fuont, megis pe na byddent. *Eich anwireddau ni chofiaf ddim o honynt mwyach;* megis y gesyd y meddyg scilgar yr asgwrn, neu a wellha'r dolur, fel nas canfyddir lle yr oedd yr achwyniad. Gair dyn yw—yr hyn a wnawd, nis gellir ei ddadwneud: ond hollalluog ddaioni Duw a ddadwna ein pechodau gwneuthuredig, *Cymmer ymaith fy anwiredd, ac nis cai ddim.* Yr hyn oeddym ynom ein hunain, nid ydym hynny iddo Ef, am iddo ein cyfnewid o fod yr hyn oeddym.

O Dduw, paham y byddwn yn gryntachlyd, tra yr ydwyt ti yn haelionus? Paham y darllenwn y llinellau hynny, y rhai nid yn unig a groesaist, ond a lwyr ddileaist.

Gair Duw oedd—*yr hon oedd bechadures.* Ein bod yn awr yn ddrygionus, sydd ffiaidd ger bron Duw, angelion, seintiau, a dynion: ein bod wedi bod felly sydd ogoneddus a gwynfydedig. Llawenychaf edrych yn ol, a chanfod fy Aiphtiaid yn feirwon ar lan y môr, fel y molwyf awdwr fy ngwaredigaeth a'm buddugoliaeth: heblaw hyn, nid gwaeth beth oeddynt, beth oeddwn innau. O Dduw, yr hwn addygi yr enw *Ydwyf*, a ystyri yr hyn a berthyni'r amser presennol. Tirion ac anrhydeddus ydyw Efo honom, yr hwn a ddywaid, *Hyn fuoch chwi, eithr chwi a olchwyd.*

Y lle a gynnydda ddrygioni'r pechod—*yn y ddinas.* Po

mwyaf cyhoeddus y bai, mwyaf oll y trosedd. Pechod yw pechod, er yn y diffaethwch. Ni wna llygaid eraill y bai yn waeth ynddo ei hun, ond lluosogir ef yn ol nifer y sawl a edrychant arno.

Nis clywaf enw y ddinas na'r wraig; yr oedd yn rhy adnabyddus yn ei hamser. O, gymmaint gwell yw bod yn anadnabyddus na gwaradwyddus! Ni anmheuaf nad oedd Duw yn hyn am beidio bwrw gwarth ar enw da y gredadyn edifeiriol hon. Efe, yr hwn ni chasha'r dyn, ond ei fai, a enwa'r bai yn unig, ac nid ei wneuthurwr. Cyfiawn yw erlid y pechod, trugaredd arbed y pechadur. Mor niweidiol y rhyfyg yr hwn a'i henwa hi, yr hon y myn Duw ei chelu! ac i fwrw anmharch ar y sawl a enwogodd Duw o ran eu sancteiddrwydd!

Y mae'r gwaethaf a berthyna i'r wraig hon wedi myned heibio, *Yr oedd yn bechadures.* Y goreu sydd wedi dyfod, *Ceisiodd yr Iesu.* Yn mha le? Yn nhŷ Pharisead—y lle mwyaf anghyfleus ar y ddaear i droseddwr mawr geisio Crist ynddo.

Ni feddyliai neb gymmaint am eu cyfiawnder eu hunain a hwy: ni ddiystyrai neb bersonau gwarthus gyda chymmaint o wawd. Cyffyrddiad Iuddew cyffredinol, er yn wr onest, a'u halogai: pa faint mwy presennoldeb puttain! Y fath olwg iddo Ef oedd pechadures nodedig, i'r hwn nid oedd ei gymmydog puraf ond pechadur. Pa fodd y mae ef, er un o'r Phariseaid goreu, yn edrych ar wŷr wrth ganfod y cyfryw yn ei dŷ, tra y dywaid, *Pe bai hwn Brophwyd, efe a wybuasai pwy, a pha fath wraig ydyw hon.* Ac nis gallasai hithau ddisgwyl llai pan feiddiodd groesi trothwy Pharisead: etto, ni allodd sarrugrwydd y gwr, na'i gwael groesawiad i'r lle, ei dychrynu rhag ceisio ei Gwaredwr yno. Ni all yr anfantais fwyaf gadw'r enaid edifeiriol rhag ffoi ar frys at Grist. Ni ddywedodd, Pe buasai Crist yn yr heol, neu yn y maes, neu yn nhŷ rhyw bublican gostyngedig, neu'n rhyw le ond yn nhŷ Pharisead, awn atto: yn awr oedaf fy mynediad atto, yn hytrach na'i geisio, lle y caf fy ngwawdio a'm dirmygu." Ond fel un na ofnai ŵg y llettywr balch, gwthia ei hun i dŷ Simon i gael Iesu. Nid yw i'r gofidus fod yn wylaidd: nid yw i gredadyn fod yn ofnog. O Iesu, os dy briod a'th golla, chwilia am danat yn yr heolydd: ergydion y gwylwyr nis brawychant hi. Os byddi'r ochr draw i'r dwfr, Petr a neidia i'r môr, ac a nofia attat: os yr ochr arall i'r tân, dy Ferthyron bendigedig a redant trwy'r fflamau attat. Nid

ŷm deilwng o'th bresennoldeb cyssurus, os na frysiwn i'th fwynhau, lle bynnag y gwyddom dy fod, pa un bynnag ai yn y carchar, neu alltudiaeth, neu wrth y pawl.

Nid anaddasach yr amser na'r lle. Nid oedd tŷ Pharisead yn fwy annghymmwys i bechadures, nag oedd gwledd i ymostyngiad. Dagrau mewn gwledd ydynt megis dawns mewn cynhebrwng. Y mae amser i bob peth. Buasai miwsig yn addasach i wledd na galar.

Y galon, yr hon a brofodd unwaith golyn pechod, a melusder maddeuant, nis gall oedi mynegiad o'r hyn a deimla, ac nis gellir ei rhwymo wrth amgylchiadau.

O ba le, ynte, y mae'r dirfawr awydd hwn am fynediad atto? Diau glywedo honio enau Crist, yn ei bregethau nefol, lawer gwahoddiad grasol i eneidiau terfysglyd a blinderog; sylwasai y modd yr ymostyngai ddyfod dan gronglwydydd publicanod dirmygedig, gelynion proffesedig: sylwasai ar holl weithredoedd ei allu a'i drugaredd: ac yn awr, dwys ofid a wasgai ar ei meddwl, am ei drygioni blaenorol. Llyn ei chydwybod a aflonyddasid gan yr angel disgynedig: ac yn awr, â i mewn i gael iachad. Y saeth a lynai yn ei henaid, yr hon nis gallasai ysgwyd ymaith, ac yn awr, daw at y llysieuyn anffaeledig hwn i'w dynnu allan. Pe na weithiasai yr Ysbryd Glan ar ei chalon cyn ei dyfod, ac er peri iddi ddyfod—byth ni chwiliasai ac ni chawsai Grist. Yn awr, daw i mewn, a chaiff y Gwaredwr hwnnw y mae yn ei geisio.

Daw i mewn, eithr nid yn waglaw. Er yn llygredig, yr oedd yn Iuddewes. Rhaid clywed o honi na ddylasai *ymddangos ger bron yr Arglwydd yn waglaw*. Beth gan hynny a ddwg hi? Nid oedd modd dwyn anrheg mwy cymmeradwy gan Grist na'i henaid edifeiriol ei hun: etto, er tystio hynny, dwg un arall, teg o ran y llestr a'r hyn oedd ynddo. *Blwch o alabaster*, marmor sylweddol, caled, pur, tryloyw, addas i ddal ennaint mor werthfawr; ennaint costus a hyfryd; cyfansoddedig o amryw ber-aroglau, nid er meddygyniaeth, ond hyfrydwch.

Yr enaid a wir deimla ei bechod ei hun, nis barna ddim yn rhy dda, yn rhy ddrud i'w roddi i Grist. Y pechadur edifeiriol a ddechreua gyda'r aberth *o boeth offrymau a diniwaid:* yna â rhagddo at *filoedd o feherin*, ac yn uwch etto at *fyrddiwn o ffrydiau olew*—ac nid erys yma ychwaith, byddai foddlon i *roddi ei gyntaf-anedig* i wneud iawn dros *bechod ei enaid.*

Y mae unrhyw beth, ïe, pob peth, yn bris ry fychan am heddwch. O Iesu, yn gymmaint a phrofi o honom felused ydwyt, wele ni yn dwyn i ti ber-aroglau hyfryttaf, mwyaf costfawr ein gostyngedig ufudd-dod, ïe, pe byddai gymmaint o'n gwaed yn dderbyniol gennyt ag a ddygodd y wraig hon o ennaint, cyssegrem ef yn dra siriol i ti. Os nad ydym am feddwl y tybi'r nef yn rhy dda i ni, paham y grwgnachwn wneud unrhyw adtaliad daearol i tithau, am dy fawrion drugareddau?

Ond canfyddaf yma ryw beth mwy na'r gwerth. Hwn oedd y per-arogl â'r hwn y byddai arferol o wneud ei hun yn ddymunol gan ei chariadau nwyfus: yn awr, daw yn fwriadol i'w offrymmu i'w Gwaredwr.

Yn gymmaint a throi o'i serch ffordd arall, o fod yn gnawdol i fod yn ysbrydol, felly, gwneir defnydd arall o'r ennaint. Yr hwn a gam-ddefnyddiasid yn dra nwyfus a gyssegrir yn awr i grefydd. *Megis ag y rhoddasom ein haelodau yn weision i aflendid ac anwiredd, felly yn awr, ni a roddwn ein haelodau yn weision i gyfiawnder, i sancteiddrwydd.* Os merched Israel, y rhai ni farnent ddim yn deilyngach i edrych arno na'u hwynebau eu hunain, a dreuliasant ormod o amser yn eu drychau, yn awr, bwriant y cyfryw fetteloedd i wneuthur golch-lestr, er symmud ymaith eu haflendid. Os bu im' dreulio brasder fy nerth a'm dealltwriaeth arnaf fy hun, ac ar wagedd, defnyddiais fy mlwch o ennaint megis nas dylaswn. O, dysg fi yn awr, fy Nuw a'm Iachawdwr, ddefnyddio fy holl amser a'm pwerau er dy ogoniant. Hyn yw'r holl adtaliad tlawd a ellir ei wneud it', am y dianrhydedd cywilyddus a dderbyniaist ar fy llaw.

Y mae'r wraig oddi mewn: ac nis wyneba Crist yn eofn, eithr *safodd o'r tu ol*, fel un annheilwng o'i bresennoldeb. Pa fodd y gallai, yn y sefyllfa honno, olchi ei draed â'i dagrau? ai oherwydd nad eisteddodd Iesu yn y wledd yn ol ein harferiad ni, eithr gorwedd o hono ar un ystlys, yn ol defod yr Iuddewon a'r Rhufainiaid? neu, ai oherwydd nad arwydda'r ymadrodd hwn sefyllfa gymmaint a phresennoldeb? Diau mai gwylder a chywilydd, yn tarddu o deimladau o'i drygioni gynt, a'i gosodasent hi yma. Wyched y cyfnewidiad! Buasai arferol o edrych yn eofn yn wyneb ei chariadau: yn awr, nis meiddia edrych ar ofnadwy wynebpryd ei Gwaredwr: buasai arferol o saethu ei dengar phelydron i olygon ei chariadau trythyll: yn awr, sefydla ei golygon ar y ddaear, heb feiddio eu

derchafu i ganfod y llygaid hynny, oddiwrth y rhai yr edrychai am dosturi. Iawn y casglodd y prophwyd—*Y mae i ti wyneb puttain, ni fedri gywilyddio.* Nis gall fod cadarnach prawf o butteindra na digywilydd-dra. Gall y wraig hon yn awr gywilyddio: Peidiodd a bod yn buttain, ac y mae'n wir edifeiriol. Gwylder sydd arwydd o ras a'i effaith. O Dduw, pe gallem ganfod druenused ydym wrth natur, ffieiddied ydym oherwydd ein pechodau, pa Dduw gogoneddus pur, a galluog ydwyt ti, ger bron yr Hwn y cuddia'r angelion disgleiraf eu hwynebau, nis gallem ddyfod i'th wyddfod ond gyda braw sanctaidd.

Wele yma alar yn nglyn â chywilydd: galar ardystiedig gan ddagrau: dagrau mor lluosog, fel y golchant draed ein Iachawdwr â'r ffrydiau hynny o edifeirwch; *dechreuodd olchi ei draed ef â dagrau.* Clywn pan y dechreuodd, ond nid pan adawodd heibio. Pan wasgir y grawn, y nôdd a red allan: felly, pan wasgir y meddwl, dagrau a ddylifant—gwir nôdd edifeirwch a galar. Nid oedd y llygaid hyn gynnefin â'r fath gymmylau, neu'r fath gawodydd: nid oedd gynt ddim ynddynt eithr pleser yn llewyrchu, chwant yn pelydru: yn awr, toddir hwy i ddafnau o ofid ac yssigrwydd. Beth a barodd y cyfnewidiad hwn, ond dirgel weithrediad Ysbryd Duw? *Parodd i'w wynt chwythu, a'r dyfroedd a lifasant: tarawodd y graig, a'r dyfroedd a ddaethant allan.* O Dduw, taro fy nghalon greigiog hon, a dyfroedd edifeirwch a redant allan yn helaeth.

Ni wlychwyd erioed dy draed, O Iesu, âg un peth gwerthfawroccach na'r dagrau hyn. Nis gellir eu defnyddio heb i ti eu costrelu; ïe, dychweli hwynt gyda llôg o wir gyssur. *Y sawl a hauant mewn dagrau, a fedant mewn gorfoledd. Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru.* Wele'r adeg wlithog hon o hau a ddilynir â chynhauaf o wynfyd a gogoniant.

Fel y byddai'r gwasanaeth hwn yn gyflawn, ei llygaid oedd yr ystên, a'i gwallt y tywel, i draed Crist. Diau nad oedd prinder lliain tra chywrain i'r dyben hwn mewn gwledd. Nid oedd hyn oll ddim iddi hi: defnyddia ei gwallt yn y gwaith gogoneddus hwn, er amlygu ei gwir ostyngeiddrwydd. Y gwallt yw prif addurn merch: y traed, megis y maent y rhan iselaf o'r corph, ydynt y rhan anmharchediccaf, a gwaelaf o ran eu gwaith: ac, wele, 'r edifeiriol hon a ddefnyddia brif addurn ei phen i gyflawni'r swydd waelaf i draed ei Gwaredwr. Y gwallt,

a fuasai arferol o'i daenu fel rhwyd i ddal ei chyfeillion aflan, a berchir â'r swydd o sychu ei draed prydferth ef, yr hwn a ddygasai'r newyddion da o heddwch a gwaredigaeth ; a phe buasai o ryw wasanaeth iddo lyfu y llwch oedd danynt, pa mor siriol y gwnaethai hi hynny ! Nis gall dim fod yn wael a wneir er anrhydeddu'r Gwaredwr.

Ni pharchwyd gwallt erioed fel hwn. O, fel y cenfigennaf wrth y cydynau hynny, a anrhydeddasid trwy gyffwrdd â'r traed sanctaidd hynny, eithr yn fwy o lawer, wrth y gwefusau hynny a gusanasant Iesu ! Y gwefusau a gynnefinasid gynt â chyffyrddiadau aflan trythyll gariadau, a ymsancteiddiant yn awr trwy dystio ei pharch gostyngedig a serchog i Fab Duw.

Fel hyn y cyssegrir i wasanaeth Crist ei Gwaredwr, yr hwn a ddigiasai, ei hennaint, ei dwylaw, ei llygaid, ei gwallt, a'i gwefusau. Os na fydd ein hadtaliad, mewn rhyw fesur, yn gyfattebol i'n trosedd, nid yw ein hedifeirwch yn wirioneddol.

Nis clywaf yr holl amser hyn un gair yn syrthio o enau'r wraig hon. Pa raid i'w thafod lefaru, pan y llefarai ei llygaid, ei dwylaw, ei hagwedd, ei hwynebpryd, a'i holl ymddygiad ? Mawr hoffaf y llefaru distaw hwn—pan y mae'n gweithredoedd yn llefaru, a'n tafodau yn ddistaw. Yr arferiad cyffredin sydd groes i hyn. Tafodau dynion ydynt ddiwyd, ond eu ddwylaw yn llonydd. Eu crefydd oll sydd yn eu tafodau ; eu dwylaw ni wnant ddim, neu yr hyn sydd ddrwg : felly eu proffes sydd wynt, megis eu geiriau. Beth yw dyben geiriau, ond er mynegi'r meddwl? Pe gallid dirnad hwnnw trwy'r llygad neu'r llaw, cyffelyb fyddai iaith y ddau. Nid oes geiriau yn mhlith ysbrydion : er hynny, deallant eu gilydd yn berffaith. *Y nefoedd sy'n datgan gogoniant Duw.* Ni all yr holl dafodau lefaru mor uchel a hwy, y rhai ydynt heb un. Y Cristion hwnnw i mi, yr hwn a welir, ond nis clywir. Y swn a wna ein tafod yn ein proffes ffurfiol a'n condemnia, oherwydd distawrwydd ein dwylaw, megis rhagrithwyr.

Canfyddodd y Pharisead hyn oll, ond gyda llygad drwg. Pe na fuasai ryw faint o ras ynddo, ni wahoddasai'r Iesu i'w dŷ : a phe buasai ganddo ras ddigon, ni feddyliasai fel hyn am yr hwn a wahoddasai—*Pe bai hwn Brophwyd, efe a wybuasai pwy, a pha fath wraig yw'r hon sydd yn cyffwrdd âg ef ; canys pechadures yw hi.*

Gymmaint o gamsyniadau mewn un anadl! O Simon, cyfiawn yr yspeiliodd y dyb hon yn unig dydi o ddiolchgarwch am dy wledd.

Ar y goreu, ni ferhaist Grist ond Prophwyd: ac yn awr, anmheui ei fod, hyd yn nod, yn brophwyd. Heblaw'r tan-gyfrifiad hwn, mor annghyfiawn yw sylfaen yr anmheuaeth hwn! Nis gwyddai pob prophwyd bob peth: ïe, ni wybu Prophwyd erioed bob peth. Gwyddai Eliseus ddirgeloedd cyfrin-gyngor Assyria: etto, nis gwyddai adfyd ei barchus letty-wraig. Gwybodaeth terfynol y Prophwyd rhagoraf, a gyrhaedda mor belled ag a rhynga bodd i Dduw ei estyn. Gallasai fod yn Brophwyd, gan hynny, o'r goreu, ac yn nghanol ei wybodaeth o bethau mwy, bod yn anwybodus o hyn.

Mor anaddas y tybiaist, am i'r Iesu yn ddistaw ganiattau i'r wraig ddyfod atto, na wyddai pa fath ydoedd! Megis pe byddai gwybodaeth bob amser i gael ei fesur trwy swn geiriau. Aros ychydig, a chei weled yr adnabyddai'n drwyadl ei buchedd hi, a'th galon dithau.

Heblaw hyn—Pa fodd y drygi'r wraig hon drwy feddwl ei bod yn awr yr hyn a fuasai; heb ystyried, megis y dylaset—"Pe nas dychwelasid y wraig hon, ni ddaethai byth i bresennoldeb Iesu." Ei gwylder a'i dagrau a fynegant ei throedigaeth: ac os trowyd hi, paham y beiir arni am yr hyn nid yw?

Yn olaf, gryfed yr aroglodd o surdoes dy broffes; dy fod yn tybied, os ydoedd yr hyn yr oedd wedi bod, na chydsyniai â gwybodaeth a sancteiddrwydd prophwyd, ganiattau iddi gyffwrdd ag ef yn y mesur lleiaf, ïe, dyfod i'w wyddfod! Tra, ar un llaw, nid yw cyfeillach allanol, ynddo ei hun, yn aflanhau neb, ond yn ol tymmer y cyfeillachwr: ar y llall, cyfryw oedd purdeb a pherffeithrwydd y gwahoddedig gogoneddus hwn, fel nad oedd modd i'w lygru, neu i'w niweidio trwy bechodau rhai eraill. Efe, yr hwn a ddywedodd unwaith, *Pwy a gyffyrddodd â mi?* mewn perthynas i rinwedd a aethai allan o hono, ni ddywedodd erioed, "Pwy a gyffyrddais i âg ef," o ran unrhyw effaith heintus a ddigwyddasai iddo. Nyni, greaduriaid pechadurus, y w y rhai y mae gan Dywysog y byd hwn ormod ynom, a allwn yn hawdd gael ein niweidio trwy bechodau rhai eraill, Efe, yr hwn a ddaeth i gymmeryd ymaith bechodau'r byd, nid ellid ei lygru gan bechod. Pe buasai'r wraig hyd hyn yn bechadures,

dy waith yn ceryddu Crist a darddai o falchder ac annghyfiawnder.

Y Pharisead a lefarodd, ond ynddo ei hun: ac yn awr, *yr Iesu gan atteb, a ddywedodd wrtho.* Yr hyn a feddyliwn, a lefarwn wrth ein calonau ac wrth Dduw: a chlyw ef megis pe daethai allan o'n geneuau. Nid yw meddyliau'n rhyddion. Pe gallai dynion eu gwybod a'u hargyhoeddi, byddent mor ddarostyngedig i gondemniad, a phe deuent allan wedi eu gwisgo â geiriau. Duw, yr hwn a'u clyw a'u barna'n gyfattebol. Felly yma, calon Simon a ddywaid, *yr Iesu a atteb.*

Iesu a'i hatteba, ond mewn dammeg. Atteba lawer meddwl â barn: cabledd y galon, llofruddiaeth y galon, godineb y galon a attebir ganddo â gwir ddialedd. O ran Simon, canfyddai Crist darddu o'i gamsyniad o anwybodaeth yn unig, neu gyfeiliornad egwan: lle na welodd falais, gan hynny, digon yw atteb âg addfwyn argyhoeddiad.

Atteb argyhoeddol Crist a roddwyd yn ddammegol. Gwyr doethineb Duw y modd i'n twyllo er ein lles; ac a all ddweud hynny yn hyfrydaidd trwy gall gylch-ymadrodd, yr hyn, a'i ddweud yn eglur, nis derbynid. Pe dywedasai Crist mewn geiriau eglur, "Simon, pa un ai tydi ai'r bechadures hon sydd yn fy ngharu fwyaf?" nis goddefasai balchder y Pharisead iddo lai na sefyll ar ei gymmeriad: a chan ddirmygu'r gydmariaeth, gwnaethai broffes helaeth o'i barch i Grist. Yn awr, yn ddiarwybod iddo, dygir ef i roddi'r ddedryd yn ei erbyn ei hun, ac o'i thu hi, yr hon a gondemniasai. O Iesu, gwnaethost ni'n bysgodwyr dynion: pa fodd y dylem ddysgu gennyt ti felly i abwydo ein bachau, fel y byddont debyccaf i ddal. Tydi, Penteulu mawr yr Eglwys, a ddarperaist ymborth i'th deulu: ordeiniaist ni i'w arlwyo: os na fydd in' felly eu trin fel y byddont addas i archwaith y sawl y bwriedir hwynt iddo— collir ein llafur ni, a'th draul dithau.

Y ddammeg sydd yn nghylch ddau ddyledwr i'r un Echwynwr. Yr oedd dyled un yn fwy na'r eiddo'r llall: maddeuwyd hi i'r ddau. Nid amcan yr hwn a'i llefarodd oedd i ni lynu wrth y rhisgl. Duw yw ein Hechwynwr: ein pechodau yw ein dyledion: yr ydym oll yn ddyledwyr, ond rhai yn ddyfnach mewn dyled na'r lleill. Nis gall un dyn dalu'r ddyled hon ei hun: nis gall wneuthur iawn am dano: maddeuant yn unig a all ein rhyddhau. Duw, yn ei drugaredd, a faddeua'r pech-

odau mwyaf yn gystal a'r lleiaf. Ein cariad atto sydd yn ol ein teimlad o'r maddeuant. Felly nis gall y Pharisead lai nac addef, mai po mwyaf y bai, mwyaf oll y drugaredd sydd mewn maddeuant: a po mwyaf yw trugaredd y maddeuwr, mwyaf oll yw rhwymedigaeth a chariad y maddeuedig.

Y mae gwirionedd, syrthied o'r genau y mynno, yn werth ei gymmeryd i fynu. Ein Iachawdwr a ganmola iawn farn y Pharisead. Ffolineb niweidiol ydyw gwrthod y gwir, o gasineb at y rhai a'i llefarant. Efe, yr hwn ni fynnai ddiffodd y llin yn mygu, a gefnoga'r daioni lleiaf. Megis y mae'r llaw-feddyg doeth yn tynnu ei law dros y fraich, cyn taro'r wythien; felly y gwnaeth Crist yma: cyn argyhoeddi'r Pharisead o'i ddiffyg o gariad, boddia ef trwy ddatgan ei gymmeradwyaeth o'i farn: etto, gan droi ei wyneb a'i ymadrodd at y druan edifeiriol, fel un yn prisio gwir ymostyngiad am bechod, yn hytrach na gwag broffes o barch a diniweidrwydd.

Gyda pha wynebpryd gwridedig, gyda pha olygon daear-sicrhaedig y safodd, yn ol ein tyb, y wraig hon, druan, pan ganfyddodd Iesu yn cyfeirio ei olwg a'i eiriau tuag atti! Gyda pha syndod gwridog yr edrycha ar ei wynebpryd serenog yn troi atti, yr hon ni feiddiai ond sefyll o'i du ol, gan dywallt ei dagrau yn lledradaidd ar ei draed!

Tra y troai ei wyneb at yr edifeiriol hon, cyfeiriodd ei iaith mewn perthynas iddi at y Pharisead, yr hwn a'i cam-farnasai, *A weli di y wraig hon?* Efe, yr hwn o'r blaen a ddywedasai, *Pe bai hwn Brophwyd, efe a wybuasai pwy, a pha fath wraig yw hon;* yn awr a glyw, *A weli di y wraig hon?* Ni chanfyddai Simon ond ei thy allan. Par Iesu iddo weled ei fod Ef yn canfod ei chalon: ac a argyhoedda'r Pharisead fel hyn, ei fod ef yn fwy na Phrophwyd, yr hwn oedd hysbys, nid o'i bucheddiad yn unig, ond o'i henaid hefyd.

Caiff y Pharisead, yr hwn a farna'n gwbl wrth yr ymddangosiad, weled, trwy ei hymddygiad, brawf o'i thymmer sanctaidd: par gywilydd dedwyddol iddo ef glywed diffygion ei groesawiad ef i Grist yn cael eu cydmaru â'r helaethrwydd o'i heiddo hi. Rhyfedd fod neb o'r sect ffurfiol hon yn ddiffygiol o ran golchiadau. Ni roddasai Simon ddwfr i berson mor fawr: hi a olchodd ei draed â dagrau. O gymmaint ag yr oedd dwfr y llygad yn fwy ei werth na dwfr y ddaear, yr oedd parch yr edifeiriol hon yn fwy nag esgeulusdod y Pharisead. Pa raid am

dywel lle nid oedd dwfr? Hi, yr hon a wnaethai ffynnon o'i llygaid, a wnaeth liain gwerthfawr o'i gwallt: y llin rhagorach hwn a berai gywilydd i'r lliain yn nghist y Pharisead. Cusan ar y rudd fuasai arwydd arferol o groesaw i'r gwahoddedigion. Esgeulusa Simon ddedwyddu ei hun trwy hyn: hi a luosoga ei chusanau gostyngedig a diolchgar ar draed bendigedig ei Phrynwr. Esgeulusa'r Pharisead yr olew cyffredinol i'r pen: hi a rydd yr ennaint gwerthfawroccaf a phereiddiaf ar ei draed. Yn awr, darllena'r Pharisead ei gerydd yn ei chlodydd hi; a dechreua genfigennu lle y gwawdiasai.

Ein bai ni, Iesu, yw, os cam-gymmerwn di. Parod ydym i feddwl, os rhoddir i ti sylwedd triniaeth dda, nad wyt yn edrych a m moes-eiriau a defodau: tra yn awr y'th welwn, er cael ymborth a chroesaw yn nhŷ'r Pharisead, yn beio ar ei esgeulusdra o ran golchi, cusanu, ac enneinio. Diau os esgeuluswn amgylchiadau dyladwy yn y derbyniad o honot, ein bod yn annheilwng o ddiolch. A weddiwn arnat? A wrandawn arnat yn pregethu i ni? Yn awr, derbyniwn di yn ddyladwy i'n tyau: ond os na wnawn y pethau hyn gydag ymddygiad allanol gweddus, ni roddwn it' dy ddwfr, dy gusanau, dy ennaint. Y mae, ïe, gosodiadau seremoniol addas yn rheidiol er dy lawn groesawiad.

Etto, leied a fuasai'r pethau hyn yn cael eu hystyried, pe na fynegasant gariad diolchgar y wraig tuag attat, a sylfaen y cyfryw gariad, sef teimlad o'i maddeuant, y diffyg Pharisead o ran y ddau!

Cariad a gweithred o angenrheidrwydd a amlygant eu gilydd. Nis gall gwir gariad lechu yn hir heb ddyfod i'r amlwg: Bydd yn edrych allan trwy'r llygaid, yn ymlusgo allan trwy'r geneu, yn torri allan o ben y bysedd, mewn rhyw weithredoedd o anwyldeb: yn enwedig y rhai hynny, yn y rhai y mae poen ac anhawsder i'r carwr, elw a hyfrydwch i'r hwn a gerir. O Arglwydd, ofer ein proffes o gariad attat ti, os na wnawn ddim erot. Yn gymmaint ag na chyrhaedda ein daioni attat ti, ein gogoneddus Farnwr, o boed i ni roddi i'th draed (dy aelodau tlodion ar y llawr) ein dagrau, a'n dwylaw, a'n hennaint, a phob rhyw roddion ac ymdrechion a ddatguddiant ein diolchgarwch a'n cariad attat ti ynddynt hwy.

O, air hyfryd! *Maddeuwyd ei haml bechodau.* Meddyliaf y canfyddaf y wedd yr adfywiodd yr edifeiriol hon gyda'r anadl

hwn: p'odd y daeth bywyd newydd i'w llygaid, gwaed newydd i'w gruddiau, bywiogrwydd newydd i'w hwyneb: megis y ddaear mam, pan, yn yr ymderfysgiad cyntaf hwnnw, *y dywedodd Duw, egined y ddaear egin, sef llysiau yn hadu had, a phrennau ffrwythlawn yn dwyn ffrwyth:* pob peth a red allan yn flodau, yn ddail, a ffrwythau. Ei dagrau gynt a ddywedasant, *Pwy a'm gwared oddiwrth gorph y farwolaeth hon?* Yn awr, ei gwenau siriol a ddywedant, *Yr wyf yn diolch i Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.*

Anaml y cyfarfyddwn âg edifeiriol mor berffaith: anaml y canfyddwn ollyngiad ymaith mor rasol. Beth all un creadur marwol ei ddymuno ond maddeuant, diogelwch, ffydd, tangnefedd? Y rhai'n oll a gydgyfarfyddant yma, er gwneud calon yssig yn happus. Maddeuant, sylfaen ei diogelwch; ffydd, sylfaen ei gobaith; diogelwch ac iachawdwriaeth, canlyniadau ei maddeuant; tangnefedd, bendigedig ffrwyth ei ffydd.

O wraig, yr ennaint a ddygaist sydd dlawd a gwael, a'i gydmaru â pheraroglau yr esmwythdra a'r dedwyddwch a ddychwelir it'. Defnyddiwyd yr olew hwnnw yn dda, â'r hwn y pereiddir dy enaid i bob tragywyddoldeb.

LUC VII.

MARTHA A MAIR.

GALLWN ddarllen digon heb ganfod Crist mewn tŷ o'i eiddo ei hun. *Y mae gan y llwynogod ffauau, a'r adar nythod:* Efe, yr hwn bia'r cwbl, ni feddianna ddim. Un tro canfyddaf Ef yn nhŷ Publican: yna yn nhŷ Pharisead: ac yna yn nhŷ Martha.

Yr oedd yn nglyn â'i groesawiad olaf ryw esgeulusdra: yn nglyn â hwn yr oedd gofal gormodol.

Yr oedd Iesu yn awr ar ei daith. Buasai mor hawdd i'r haul aros yn llonydd ag iddo yntau. Po mwyaf yr ymsymmudwn, tebyccaf ydym i'r nefoedd a'i Gwneuthurwr.

Yr oedd yn myned i Jerusalem i ryw ŵyl sanctaidd. Efe, yr hwn ni esgeulusa un o'r ordinhadau sanctaidd hynny, ni esgeulusa chwaith gyfleusderau addas i adfywio ei gorph: gan ei dybied yn anaddas teithio a phregethu heb gynnaliaeth, try i bentref Bethania, lle y gwyddai fod iddo roesaw. Yno y

trigai dwy chwaer grefyddol gyda'u brawd, ei gyfaill Lazarus. Eu cronglwyd a'i derbynia. O dŷ dedwydd, yn yr hwn y teilyngodd Mab Duw osod ei droed! O wragedd dedwydd, i'r rhai y rhoddasid y ffafr o lettya Duw'r nefoedd! Pa fodd y cenfigenwn wrthych, pe na chanfyddwn yr unrhyw ffafr, os na fyddaf esgeulus o'm lles fy hun, yn gyrhaeddadwy gennyf finnau.

Y mae i mi ddwy ffordd i groesawi fy Ngwaredwr: yn ei aelodau, ac ynddo ei hun: yn ei aelodau, trwy elusen a llettygarwch. *Yr hyn a wnaf i un o'r rhai bychain hyn, iddo Ef y gwnaf:* ynddo ei hun, trwy ffydd. *Os egyr neb, mi a ddeuaf i mewn, ac a swpperaf gydag Ef.* O Iesu, sefi wrth ddrws ein calonau, a churi trwy daer wahoddiadau dy genhadon, trwy dy geryddon, a chynhyrfiadau dy Ysbryd: os agorwn it', trwy dy roesawi yn ewyllysgar a ffyddlon, byddi sicr o lenwi ein heneidiau â'th rasol bresennoldeb: ac nid eistedd gyda ni am un bwydpryd, ond trigo ynom yn dragywydd. Ni ddarfu it' ond troi i mewn yn Bethania: ond yma bydd dy breswylfod yn oes oesoedd.

Martha, tebygol, am ei bod y chwaer henaf, a elwid Meistres y tŷ. Mair a'i cynnorthwyai yn ei swydd. Par bendigedig! Chwiorydd, nid mwy mewn natur na gras, nid llai yn yr ysbryd nag yn y cnawd. Hyfrytted yw pan y cyttuna'r holl deulu i roesawi Crist!

Nid cynt yr aeth Crist i'r tŷ, nag y dechreua bregethu: fel na chollid dim amser, nid yw'n aros, ïe, hyd y parottoid ei ymborth: ond tra yr oedd hwn mewn llaw, darpara luniaeth ysbrydol i'w lettywyr. *Ei fwyd a'i ddiod oedd gwneuthur ewyllys ei Dad.* Ei roesawiad goreu oedd eu canfod hwy yn ymborthi'n ysbrydol. Ymborthai fwy ar ei fwyd ei hun nag oedd bossibl iddo ar yr eiddo hwy. Pa fodd y dylem ni, a alwyd ganddo i'r swydd sanctaidd, *fod yn daer mewn amser, allan o amser!* Yr ydym, trwy ei sanctaidd ordeiniad, yn oleuadau'r byd. Nid cynt y rhoddir tân ar y ganwyll, nag y gwasgara'r goleuni sydd ganddi: ac ni phaid, nes ei threulio allan.

Y ddwy chwaer, am dro, a eisteddasant gan wrando yn astud ar eiriau Crist. Achosion y tŷ a eilw Martha ymaith. Mair o hyd a eistedda wrth ei draed, ac a wrandawa. Pa un a ganmolwn fwyaf, ei gostyngeiddrwydd, ai ei hawydd i ddysgu? Nis gwelaf hi yn cymmeryd ystol, ac yn eistedd wrth ei ymyl, na chadair i eistedd uwchlaw iddo; ond gan ddymuno dangos ei

chalon mor isel â'i gliniau, eisteddodd wrth ei draed. Yr oedd ei sefyllfa yn isel, ac yn wresog gan y pelydron nefol hynny. Os bydd un lle yn y dyffryn yn is na'r lleill, yno y rhed y dyfroedd.

Tŷ Martha a ddaeth yn ysgol duwinyddiaeth: Iesu, megis y Doctor, a eisteddodd yn y gadair: Martha, Mair, a'r lleill, a eisteddasant megis ysgolheigion wrth ei draed. Sefyll a arwydda fod un yn barod i fyned ymaith; eistedd, ymosodiad sefydlog i'r gwaith sanctaidd hwn.

Pe darparasai'r chwiorydd hyn bob moethau i Grist, gan weini arno gyda phob diwydrwydd, ac er hynny heb wrando ar ei addysg, ni fuasent yn ei iawn roesawi, ac ni fuasai eu llettygarwch mor hoff ganddo yntau. Y ffordd i roddi gwledd iddo Ef, oedd gwledda eu hunain â'i nefol athrawiaeth. Ei frasaf fwyd yw'n cynnydd ysbrydol ni: a'n brasaf fwyd ninnau yw ei air Ef. O Iesu, portha fy enaid fel hyn: a phortha dy hun drwy fy mhorthi i. Y dwbl ymborthiad hwn fydd fawl i ti, a gwynfyd i minnau.

Er parhau o Martha am dro yn wrandawr astud, etto ar fyr ei gofal am roesawi Crist a'i dygodd i'r gegin: Mair a eisteddа o hyd. Nid mwy defosiynol Mair na ffwdanus Martha. Yr oedd Martha am roi gwledd i'r Iesu, Mair am gael gwledd ganddo. Yr oedd mwy o ofal yn rhan weithredol Martha, mwy o dduwioldeb yn eisteddiad llonydd Mair: nis gwn yn mha un yr oedd mwyaf o zel. Martha ddaionus oedd fawr ei hawydd i amlygu ei llawenyd a'i diolchgarwch am bresennoldeb un mor fendigedig dan ei chronglwyd, trwy ei gofal am ddigonol ddarpariad ar ei gyfer. Nis gwn pa fodd i feio ar y wraig sanctaidd am ei gormodol ofal i roesawi ei Gwaredwr. Diau ei bod hi ei hun yn tybied ei bod yn gwneud yr hyn oedd dda: ac yn y grediniaeth hon nid ofna achwyn wrth Grist ar ei chwaer.

Nis canfyddaf hi yn dyfod at ei chwaer, ac yn sibrwd yn ei chlust, fod arni fawr angen am ei chynnorthwy: eithr daw at Iesu, ac mewn math ar ymliwiad anfwynaidd oherwydd ei hesgeulusdra, a gŵyna wrtho, *Arglwydd, onid oes ofal gennyt am i'm chwaer fy ngadael i fy hun i wasanaethu?* Paham na annerchasai ei chwaer yn gyntaf? Ai am y gwyddai fod ei chlustiau wedi eu rhwymo â'r cadwyni adamantaidd hynny a ddeuent o enau Crist, fel nad oedd o fewn ei gallu i symmud hyd y tawai ac y gollyngai hi ymaith? Neu ai o barch i Grist, am na ryfygai alw ymaith ei chwaer, heb ei ganiattad Ef?

Po'dd bynnag nis gallaf lai na chyhuddo'r wraig dda o rai

gwendidau. Yr oedd yn feius am fesur ei chwaer wrthi ei hun: a chan olygu ei gweithred ei hun yn dda, credu nas gallasai ei chwaer wneud yn dda, heb ymddwyn fel hi: tra y mae daioni yn beth llydan iawn. Drwg a wrthwyneba ddaioni; ac nid un daioni ddaioni arall. Nid yw esampl yn rhwymo neb mewn pethau cyfreithlon nac anhanffodol. Gallasai Mair wrando, a Martha wasanaethu; a'r ddwy wneud yn dda. Nis beiodd Mair ar Martha, am godi oddiwrth draed yr Iesu i ddarparu lluniaeth iddo: ac nis dylasai Martha feio arni hithau am eistedd yno o hyd i wledda ei henaid. Yr oedd i'w beio am feddwl fod gofal gormodol i wneud gwledd oludog i Grist, yn rhagorach na derbyn gyda diwydrwydd ei wledd ysbrydol Ef iddynt hwy. Yr oedd i'w beio am ryfygu drwg-dybio bod Iesu i ryw radd yn diystyru ei llafur. *Arglwydd, onid oes ofal gennyt?* Beth a ddywedi, Martha? A roddi yn erbyn Arglwydd nef a daear anfeddylgarwch ac esgeulusdra? A gymmeri arnat gyfarwyddo'r doethineb anfeidrol hwnnw, yn lle cymmeryd dy gyfarwyddo ganddo? Da it' gyfarfod â'r fath Waredwr grasol, addfwynder yr hwn a ŵyr p'odd i faddeu, a thosturio wrth, gamsyniadau dy zel.

Etto rhaid im' addef fod rheswm teg yma mewn ymddangosiad am dy ymliwiad hwn. Tydi, y chwaer henaf, yn gweithio, a Mair, yr ieuangaf, yn eistedd. A beth oedd dy waith namyn croesawus dderbyniad dy Waredwr a'i gyfeillion? Pe buaset yn llafurio am wledd it' dy hun, neu i ryw gymdeithion cnawdol, buaset yn fwy diesgus: yn awr llafurit i Grist, yr hwn nis gallaset byth ei wasanaethu yn ormodol.

Ond nis gall hyn oll dy waredu oddiwrth yr euogrwydd o'r cyhuddiad hwn. *Arglwydd, onid oes ofal gennyt?* Pa mor barod ydym, yn ein gwendid, ar bob peth bychan a'n hanfoddia, i syrthio allan â'n cyfaill goreu, ïe, â'n Duw daionus: a, po mwyaf y gwasgir arnom, ystyried ein hunain yn derbyn mwy o ddiystyrwch, a chyhuddo Duw o'r cyfryw! A ocheneidiwn ar wely cystudd, a chan nychu mewn poen, a gŵynwn oherwydd oriau hirfaith, ac ystlysau dolurus? meddyliwn yn uniongyrchol, "Arglwydd, onid oes ofal gennyt am fy mod yn dyoddef?" A ydyw Eglwys dlawd Duw yn myned yn llongddrylliau, tra y mae'r arddwyr yn aredig cwysau hirion ar ei chefn? "Arglwydd, onid oes ofal gennyt?" Ond gwybydd, enaid gwan ac anhyderus, po mwyaf a weithredi, ac y goddefi,

mai mwyaf y gofalir am danat: ac nad yw Duw un amser mor dyner o'i eglwys, a phan y trallodir hi. Pob loes a gwŷn, a deimlir yn gyntaf ganddo Ef yr hwn a'u hanfona. O Dduw, adwaeni ein gweithredoedd, ein llafur, a'n hamynedd: gallwn ni fod yn anwybodus ac anhyderus: nis gelli di lai na bod yn rasol.

Nis gallai achwyniad anamyneddgar Martha lai na gofidio Mair ddefosiynol: achwyniad wrth Grist gyda'r fath daeredd, megis pe buasai'r ddwy chwaer mor elynol i'w gilydd fel na wnai un ddim dros y llall, heb gymhelliad oddi allan gan un uwch na hwynt. P'odd y gallasai lai na meddwl, "Os troseddais, paham na chyhuddasid fi'n ddirgel, gyda charedigrwydd chwiorol? Beth os bu ychydig omeddiad? A raid i'r holl dŷ seinio ganddo ger bron fy Arglwydd a'i ddisgyblion? A ydyw'r ymddygiad hwn yn deilwng o chwaer? A ydyw fy nefosiwn yn teilyngu annghydfod? Arglwydd, onid oes ofal gennyt fy mod yn cael fy meio yn ddiachos?" Er hynny ni chlywaf air allan o'r genau gwylaidd hwnnw. O Fair sanctaidd, canmolaf dy ddistawrwydd amyneddgar. Dy chwaer a feia ar dy dduwioldeb; y disgyblion, ar ol hyn, a'th feiant am dy haelioni: ni syrth gair oddiwrthyt, er cyfiawn amddiffyniad o'th anrhydedd a'th ddiniweidrwydd: eithr mewn distawrwydd gostyngedig gadewi i'ţh Waredwr atteb drosot. Pa fodd y dylem ddysgu oddiwrthyt selio ein gwefusau, pan orchymynir arnom am wneuthur daioni, gan ddisgwyl am iawnder oddiuchod!

Ac O mor barod wyt, O Iesu, ac O mor sicr, i lefaru dros y mud! *Martha, Martha, gofalus, a thrafferthus wyt yn nghylch llawer o bethau; eithr un peth sydd angenrheidiol, a Mair a ddewisodd y rhan dda.* Pa raid i Mair lefaru drosti ei hun, tra yr oedd ganddi y fath ddadleuwr?

Diau fod Martha fel wedi ymrannu oddiwrth ei hun gan amledd ei gofalon. Ein Hiachawdwr gan hynny a ddybla ei henw yn ei annerchiad fel, yn y cyfryw derfysg, y gallai afaelu yn, a sefydlu, ei chalon.

Tybiodd y wraig dda yn hollol, yr anfonasai'r Iesu ei chwaer ymaith gyda cherydd, a hithau gyda diolchgarwch. Ond yn awr ei gobaith a'i twylla: ac er na cheryddir hi mewn modd uniongyrchol, etto clyw ei chwaer yn cael ei chanmol yn hytrach na hi. *Martha, Martha, gofalus a thrafferthus wyt yn nghylch llawer o bethau.*

Derbyniasai Grist hynawsedd ganddi, trwy'r diwydrwydd a'r draul, â'r rhai y gwleddasai hi Ef: etto nid âe heibio ei bai, gan ei gadael yn dawel yn ei chamsynied. Ni ddylai unrhyw rwymiadau ein cylymmu i fynu, fel na fyddo ein tafodau yn rhyddion i geryddu'r hyn sydd feius yn mhob man. Ffiaidd a chaethiwaidd y sawl y rhwymir eu tafodau wrth eu dannedd.

Y tebygolrwydd hwn i gerydd a arwydda'r anhebygolrwydd rhwng cyflyrau'r chwiorydd. Nid oeddynt yn nes mewn natur, nag yr ymbellhaent oddiwrth eu gilydd o ran eu tymmerau presennol.

Un a roddir mewn cyferbyniad i lawer; *angenrheidiol* i'r hyn sydd dros ben hynny: *gofal* i lonyddwch: *gofalus a thrafferthus wyt yn nghylch llawer o bethau; un peth sydd angenrheidiol.* Pa mor belled ynte y dylai ein gofal fyned, gyda golwg ar y pethau daearol hyn? Ar un llaw, O Iesu, gorchymynaist in' *na ofalom beth a fwyttaom, beth a yfom, a pheth a wisgom:* ar y llaw arall, dy lestr etholedig a ddywedodd wrthym, fod *yr hwn nid yw'n darbod dros yr eiddo yn gwadu'r ffydd, ac yn waeth na'r diffydd.* Rhaid in' ofalu am lawer o bethau; ond yn y cyfryw fodd ag y byddo'n gofal am dda, ac yn dda; am dda, mewn rhyw a mesur; yn dda, fel y byddo rydd oddiwrth derfysg ac anffyddiaeth: oddiwrth derfysg, fel na rwystro in' gyflawni dyledswyddau angenrheidiol ein galwedigaeth gyffredinol; oddiwrth anffyddiaeth, fel na anmheuom ragluniaeth Duw, tra y defnyddiom yr eiddom ein hunain. Nis gallwn ofalu am danat ti, os na ofalwn y wedd hon drosom ein hunain, a'r sawl ydynt eiddo ni.

Och! gymmaint o ofal a ganfyddaf yn mhob man, ond mor anfynych y canfyddaf Fartha? Ei gofal hi oedd am wledda ei Gwaredwr: yr eiddo ni am wledda ein hunain. Csiff un anhwyldeb yn ei feddiannau, y rhai a ddymuna eu tynnu allan o hono: arall a boena ei ymenydd i dderchafu ei dŷ: un a ddefnyddia ei feddyliau yn nghylch cyflwr peryglus yr amserau, yn ol ei dyb ef, ac a rag-gasgla mewn pryder poenus, ganlyniadau yr oll a ddygwyddant, gan osod ei obaith ar gyfer ei ofnau: y llall a ddwys-fyfyria pa fodd y gall ochelyd croes-ergydion adfyd. *Martha, Martha, gofalus a thrafferthus wyt yn nghylch llawer o bethau.* Ddynion ffol! Paham, pan nad oes angenrheidrwydd, y poenydiwn ein calonau? Paham y parhawn i grynu dan y baich hwnnw, yr hwn y mae un o ysgwyddau grymmusach yn

cynnyg ei ddwyn er ein hesmwythau? Gorchymynaist in', O Dduw, fwrw ein gofalon oll arnat ti, gyda'r addewid y byddai it' ofalu am danom. Dilwythwn ein hunain yn llawen arnat ti. O, bydded ein gofal am ymddibynnu arnat ti, megis y mae'r eiddo ti i ddarparu ar ein cyfer ni.

Pa un ai bod Martha yn deilwng o dosturi neu o gerydd am ei diwydrwydd, sicr wyf y canmolir Mair am ei duwioldeb. *Un peth sydd angenrheidiol.* Nid mewn ffordd o wadiad, megis pe na bai dim arall felly; ond mewn cydmariaeth, fel nad oes dim mor angenrheidiol a hwn. Rhaid i bethau daearol roi ffordd i rai ysbrydol. O'r tri prif achosion hyn o'n holl weithredoedd, angenrheidrwydd, buddioldeb, pleser, ymddercheafa r naill uwch y llall. Buddioldeb a ragora ar bleser, angenrheidrwydd ar fuddioldeb, ac un gradd o angenrheidrwydd ar un arall. Y graddau ydynt yn ol pwys y pethau angenrheidiol. Pwys y pethau daearol angenrheidiol hyn yw nas gallwn fyw yn dymmorol hebddynt. Pwys y rhai ysbrydol nas gallwn fyw yn dragywyddol hebddynt. Cymmaint ynte ag yw'r gwahaniaeth rhwng amser a thragywyddoldeb, cyfryw raid fod rhwng angenrheidrwydd y cyflawniadau corphorol hyn, a'r sawl sydd ysbrydol, y ddau ydynt angenrheidiol yn eu rhyw: ac ni ddylai fod gwrthwynebiad, eithr is-osodiad. Rhaid i'r corph a'r enaid fod yn gyfeillion, ond nid cyd-ymgeiswyr: nid ydym i actio'r cristion fel ag i annghofio'r dyn.

O, wagedd y sawl a esgeulusant yr un peth angenrheidiol, gan ymdrafferthu yn nghylch llawer o bethau nad ydynt felly! Nid oes dim yn afreidiol gyda'r bydol-ddyn ond yr un peth angenrheidiol hwn, sef gofal am ei enaid. Pa mor gyflawn y collant yr hyn ni ofalant am dano, tra y mae eu gofal yn ormodol am y pethau hynny y rhai nis gellir, a'r rhai nid ydynt deilwng, o'u cadw!

Ni chymmeradwyir gorchwyl Mair mwy na Mair ei hun. *Dewisodd y rhan dda.* Ni chymmellwyd hi trwy drais, ond dewisodd. Gallasai Martha eistedd fel hithau: gallasai hithau fyned oddiamgylch yn gystal a Martha. Ewyllys Mair a wnaeth y dewisiad hwn, nid heb iddo Ef ei thueddu, yr hwn a'i cyfranodd ac a'i canmolodd. Yr ewyllys hwnnw a adnewyddasid o'r blaen: dim rhyfedd iddo ddewis y da: er nad oedd mewn mater rhwng da a drwg, ond rhwng da a'r hyn oedd well. Y mae gennym o hyd y rhydd-did sanctaidd hwn, trwy

ei weithrediad Ef, yr Hwn a'n rhyddhaodd. Dedwydd ydym os defnyddiwn y rhydd-did hwn er lles i'n heneidiau.

Parhad a sefydlogrwydd y da a'i gwna yn llawer mwy gwerthfawr. Rhan Martha a ddiflannodd yn fuan: diolch am, a mwynhad o, ychydig lettygarwch allanol nis gallent barhau yn hir; ond rhan *Mair nis dygir oddi arni.* Ei gweithrediad yn gwrando oedd funudol; ei ffrwyth yn arosol: gwrendy yn awr ar yr hyn a lŷn gyda hi yn dragywydd.

Beth a allaset glywed, Mair sanctaidd, o'r gwefusau sanctaidd hynny, y rhai nid ydym ninnau yn ei glywed o hyd? Yr athrawiaeth nefol honno sydd bob amser yr un; nid yw mwy darostyngedig i gyfnewidiad na'i Hawdwr. Nid yw anmhossibl i'r Efengyl, o ran ei hordinhadau, gael ei chymmeryd oddiwrthym: ond ei lles a'i rhinwedd ydynt mor anwahanedig oddiwrth ein heneidiau, a'u hanfod eu hunain. Glynant wrthym yn yr amserau calettaf, a gwnant ni yn ddedwydd hyd angau, yn angau, ac yn ol angau.

Luc x.

Y CARDOTTYN A ANESID YN DDALL, YN CAEL EI IACHAU.

Y dyn a *anesid yn ddall.* Nid celfyddyd, ond gallu sydd reidiol er iachad yma: gallu dim llai nag anfeidrol a Dwyfol. Natur a rag-dybia ddefnydd, eithr yn afluniaidd: celfydd a edrych am ddefnydd wedi ei ffurfio at ein llaw. Nid oes ar Dduw eisiau un o'r ddau. Lle nad oedd llygad i'w iachau, beth a allasai'r llygad-Feddyg wneud. Duw yn unig a all greu. Cyfryw ydym ni, O Dduw, i bob peth ysbrydol: nid golwg, ond llygaid sydd arnom eisiau. Tydi yn unig a elli ein haddasu i weled.

Y dall oedd yn eistedd *yn cardotta.* Y sawl y mae ganddynt lygaid, a dwylaw, a thraed, o'u heiddo eu hunain, a allant gynnorthwyo eu hunain: y rhai sydd heb y cyfryw, rhaid iddynt fod yn rhwymedig i lygaid, dwylaw, a thraed ereill. Bwrir yr analluog ar ein trugaredd: dedwydd ydym os gallwn roi benthyg aelodau a synwyrau i'r rheidus. Cardottyn gau sydd ffiaidd; y sawl a wneir felly gan Dduw, sydd ganddo hawl gyfiawn i'n cynnorthwy.

P'le y cardottai'r dall hwn ond wrth y deml? Wrth un drws eistedd un cloff, un dall wrth un arall. Hawdd y gallasai y rhai annedwydd hyn gredu fod duwioldeb a thosturi yn byw yn agos at eu gilydd: y ddwy lech oeddynt o'r un gloddfa. Dyna'r pryd y'n tueddir fwyaf i drugarhau wrth ein brodyr, pan fuom naill ai yn erfyn am drugaredd gan Dduw i ni ein hunain, neu yn diolch am dano. Os awn yno i erfyn ar Dduw, pa fodd y naccawn hatlyngau, pan obeithion am dalentau?

Ni symmudodd Crist droed erioed ond i ryw ddyben da. Aeth heibio ond yn y cyfryw fodd fel yr arosodd ei rinwedd: fel yr ymsefydlodd ei lygad. Nis gallai'r dall ei ganfod Ef, ond Efe a ganfyddodd y dall. Ei ddaioni a'n rhagflaena, ac a ddiwalla yn well ein hangenion. Canfyddodd yn dosturiol heb gau ei lygaid, na'u troi draw, ond gan eu gosod ar y gwrthddrych tywyll digyssur ger ei fron. Yr hyn a ddywedir am yr haul sydd lawer gwirach am yr hwn a'i gwnaeth. *Nid ymgudd dim rhag ei wres.* Ond o bob peth, trueni, ac o bob trueni yr eiddo ei bobl ei hun a dŷn ei sylw pennaf. Pe gallem fod yn druenus heb ein gweled, buasai in' achos i fod yn ddigalon. O Iesu, paham na thebygwn i ti yn yr arferiad defnyddiol hwn o'n synwyrau? Gwae'r llygaid hynny, unig bleser y rhai ydyw syllu ar eu harddwch, eu dewrder, eu golud eu hunain: heb aros i daflu cip-olwg ar gornwydydd Lazarus, gofidiau Joseph, carchardy Jeremi, neu'r cardottyn dall wrth borth y Deml.

Y disgyblion hefyd a welant y gŵr dall, ond â gwahanol olygon: ein Iachawdwr er tosturi a meddyginiaeth; hwythau er ymliwiad *Rabbi, pwy a bechodd, ai hwn, ai ei rieni fel y genid ef yn ddall?* Hoffaf yn ddirfawr eu canfod yn ymofyn â'u Meistr, pan yr anmheuant am ddim. O Iesu, tra yr ydwyt ti yn y nefoedd, ar y ddaear y mae dy ysgol. I ba ddyben y mae *gwefusau'r offeiriad,* os nid i gadw *gwybodaeth?* Onid er llefaru gair mewn pryd, y rhoddodd Duw i ti dafod y dysgedig? Ti a'n dysgu ni etto; ac etto yr anmheuwn, y gofynwn ac y dysgwn.

Mewn un cwestiwn byr, canfyddaf ddau wirionedd a dau gelwydd: y gwirioneddau a arwyddocceir, y celwyddau a fynegir. Gwir yw mai am bechod, yn gyffredin, y mae yn dyoddef: y gallwn yn gyfiawn, ac yr ydym yn fynych, yn dyoddef, ïe, am bechodau ein rhieni: anwir ydyw, nad ydym yn dyoddef am un achos arall ond pechod: y gall dyn bechu,

mewn gweithred cyn ei fod, neu fod cyn ei eni, neu ddyoddef yn mlaen llaw, am bechodau yn ol llaw. Mae yn dra debygol i'r dyb ddireswm hwnnw o drawsfudiad eneidiau, feddiannu hyd yn oed y disgyblion eu hunain. Mor hawdd ac mor belled y gall y goreu gyfeiliorni mewn camsyniad cyffredinol! Nid ydym ddiolchgar am ein goleuad ein hunain, os na edrychwn gyda chariad a thosturi, ar gamsyniadau gwrthun ein brodyr.

Ein Iachawdwr a ganfydda, ond etto a edrycha heibio, y fath gamgymmeriad mawr o eiddo ei ddisgyblion. Ni chlywaf na cherydd nac argyhoeddiad. Yr Hwn a allasai oleuo eu meddyliau ar unwaith, fel y gwnaeth i'r byd, a'i gwna yn bwyllog: ac a foddlona ei hun â rhoddi atteb mwynaidd, *Nid hwn na'i rieni chwaith.* Ni ddysgwn ddim gennyt, O Iachawdwr, oni ddysgwn fwyneidd-dra. Fath dymmer addfwyn y dylem ddangos tuag at wendid barnau rhai ereill! P'odd y dylem eu dysgu heb chwerwder; ac heb angerdd neu ddrwg anwyd ddisgwyl yr amser cyfaddas o'u rhagorach ddysgeidiaeth! Nid yw'r fam dyner, neu'r fammaeth, yn ceryddu ei bychan am nad yw yn rhodio yn dda, ond dyry ei llaw iddo fel y gallo fyned yn well. Ysbryd addfwynder a ddychwela ac a gryfha'r gwrthgiliwr

Rhydd atteb gymmwys a chywir: nid pechod y dyn, na'i rieni, a'i hamddifadodd o'i lygaid: yr oedd achos rhagorach am yr amddifadrwydd hwn, sef y gogoniant a fwriadodd Duw ennill iddo ei hun trwy ei adgyweiriad. Ei rieni a bechasant ynddynt eu hunain: y dyn a bechodd yn ei rieni cyntaf; nid yw trosedd un o'r ddau yn euog o'r dallineb hwn. Ni chospa Duw bob amser pan y cystuddia; cystuddia weithiau er lles y creadur, naill ai er profiad, neu er attaliad, neu er diwygiad: bob amser er clod, naill ai ei Ddwyfol allu, neu ei gyfiawnder, neu ei drugaredd.

Addas oedd i weithred mor fawr gael ei dwyn i fewn â rhagymadrodd. Ni fuasai ymddangosiad disymmwyth a byrbwyll yn weddus i'r fath amlygiad gogoneddus o Hollalluogrwydd. Y ffordd a wnaethpwyd: ein Iachawdwr a ymrodda i wneuthur y wyrth, nid mwy 'n wyrth yn yr hyn a wnaid, nag yn y modd o'i gyflawni.

Y defnydd oedd clai. A allasai fod un gwaelach, un anaddasach? O Iesu, pa mor fynych yr iacheaist ddallineb â'th air yn

unig, â'th gyffyrddiad! Pa mor hawdd y gallesit wneuthur felly yn awr! Ai i ddangos dy rydd-did, neu'th allu yr oedd hyn? Dy rydd-did, o ran y gelli, fel y mynni, ddefnyddio amrywiaeth o foddion, heb gael dy gylymmu i un: dy allu, o ran y gelli ddefnyddio pethau gwrthwynebol? Pe tynesit flwch allan, gan gymmwyso eli meddyginiaethol i'r llygaid, fe roddasid ychydig o glod i'th fedrusrwydd di, ond mwy i rinwedd naturiol dy eli: ond yn awr gan y defnyddi glai, yr hyn a fuasai yn ddigon i gau i fynu lygaid yr hwn oedd yn gweled, rhaid fod yr holl rinwedd ynot ti, a dim yn y moddion. Yr annghyfartaledd mawr rhwng y feddyginiaeth a'r iachad, a chwanega glod i'r gweithiwr o honi.

Pa mor eglur y dangosaist i'r byd yn hyn, mai Tydi, yr hwn a allesit wneuthur llygaid o glai, oedd yr hwn o glai a wnaethost ddyn; gan nad oes un rhan o'r corph mor annhebyg i glai, a'r llygad! Y mae disgleirdeb hwn yn wrthwynebol i annhryloywder y llall. Pe na buasai yr Iuddewon yn fwy dall na'r dyn a iacheaist ti, ac yn galettach ac yn fwy ystyfnig na'r clai a feddalheaist, canfyddasent a chydnabyddasent dy Dduwdod yn yr un weithred hon.

Beth a allasai'r clai wneuthur heb i ti ei dymheru? Dy boeryn di a roddodd rinwedd yn y clai: dy enau sanctaidd a wnaeth y poeryn yn feddyginiaethol. Ni chaiff dwfr Siloam ond golchi ymaith y clai hwnnw, a wnaed yn rhinweddol gan y gwlybaniaeth tumewnol hwn. Rhaid cymmwyso'r clai a dymmerwyd fel hyn gan y llaw a'i gwnaeth, onide, ni wna ddim lles.

Beth a feddyliodd y dyn dall pan deimlodd y clai oerllyd ar dyllau ei lygaid? Neu, gan nad allai efe ddychymygu beth oedd llygaid, beth oedd teimladau yr edrychwyr, pan welsant y ceuleoedd hynny yn cael eu llenwi i fynu? Ai fel hyn y mae rhoddi llygaid neu olwg? Pa fodd na welsai'r ddacar a'r clai hwn yn gystal a'r dyn? Beth a rwystra olwg, os hyn a'i rhydd? Etto, â'r gwrthwynebiadau hyn, rhaid ymarferu ffydd, lle mae Duw yn bwriadu rhoddi iachad.

Ni fwriadwyd erioed i'r clai hwn aros yn nhyllau y llygaid: yn unig, fe'i gosodir arnynt, iddo gael ei olchi ymaith: a hynny, nid gan bob math o ddwfr: ni wna ond dwfr Siloam y tro, yr hwn a arwydda Anfonedig, a phe nas danfonasid y dyn i Siloam, fe fuasai etto yn ddall. Pob peth a dderbyn eu rhinwedd oddiwrth ordinhad Ddwyfol. Onide, pa fodd y gall tammaid o fara

gwenith gynnal yr enaid, a dwfr ffynnon olchi ymaith fudreddi ysbrydol? Pa fodd y gall ffolineb bregethu achub eneidiau? Pa fodd y gall gollyngdod gweinidog Duw fod yn fwy effeithiol nag anadl Cristion cyffredin? Tydi, O Dduw, a neillduaist yr ordinhadau hyn: y mae dy fendith di yn gyssylltiedig â hwy; am hynny y defnyddiwn hwy, ac y maent yn rhinweddol. Pe ordeiniasit felly, iachauasai'r Iorddonen ddallineb, a Siloam y gwahanglwyf.

Fel y gallai'r dyn dderbyn y fath wyrth, fe osodir ei ffydd ar waith. Mae'n rhaid ei arwain â'i lygaid yn iredig i lyn Siloam. Ymolcha, a gwêl. Arglwydd, beth oedd teimladau'r dyn pan roddwyd ei lygaid iddo yn awr am y tro cyntaf? O, 'r fath fyd newydd y teimlodd ei hun ynddo'n awr! P'odd y rhyfedda wrth ganfod nefoedd a daear, a wynebau a llun yr holl greaduriaid, pelydrau bywioccaol yr haul, hyfryd amrywiaeth lliwiau, sirioldeb goleuni, ëangder mawr yr awyr, gloywder hyfryd y dwfr, colofnau hardd y Deml, a phalasau ardderchog Jerusalem. Fe barodd bob peth fwy o hyfrydwch nag o syndod iddo. Wele, fel hyn, ac yn well, y teimlwn ni, pan, wedi taflu ymaith gèn ein marwolder, y cawn weled megis ag y'n gwelir: pan ganfyddwn wynfyd y byd arall, gogoniant y seintiau a'r angelion, Mawredd anfeidrol Mab Duw, a disgleirdeb an amgyffredadwy yr holl-ogoneddus Dduwdod. O, na'th lyngcid i fynu, fy enaid, yn mlaen llaw, gan ryfeddod wrth yr hyn nas gelli etto ei ragweled.

Rhaid fod llawer o lygaid yn dystion o eisiau llygaid gan y dyn hwn. Eisteddodd yn cardotta wrth un o byrth y deml. Rhaid, gan hynny, yr adweinid ef, nid yn unig gan yr holl ddinas, eithr gan yr holl wlad. Deuent i fynu i Jerusalem dair gwaith yn y flwyddyn: ac nis gallasent fyned i'r deml heb ei ganfod. Ei ddallineb yn unig a'i hynodai. Anffurfiad a gwendid corph a dynnant yn hawddach y llygad attynt na chymmesurwydd cyffredinol ei rannau. Heblaw ei ddallineb, ei grefft a'i gwnae'n nodedig. Ei daerineb yn cardotta a dynnai atto lygaid y rhai a aent heibio. Eithr y lle, uwch pob peth, a'i gwnae'n hynod. Pe eisteddasai mewn rhyw bentref anhynod yn Judea, neu ryw heol dywyll yn Jerusalem, efallai na fuasai gymmaint yn sylwi arno: ond yn awr, am ddewis o hono ei eisteddle yn nghalon, yn mhen y brif ddinas, i'r hon y dylifai'r bobl o bob parth, pa Iuddew a allasai fod na adweinai'r cardottyn dall wrth borth y deml?

Dewisiodd Iesu, yn fwriadol, y cyfryw un i wneuthur gweithred wyrthiol arno: gwr mor dlawd, gwr mor adnabyddus. Nis gallasai gogoniant y weithred fyned mor bell pe'i gwneithid i'r dinesydd goludoccaf yn Jerusalem.

Ac nid heb ryw ddyben mawr yr anmheuir o ran y dyn a'r weithred: ac yr ymofynir yn eu cylch gan yr edrychwyr, *Onid hwn yw'r un oedd yn eistedd, ac yn cardotta? Rhai a ddywedasant, Hwn yw efe: ac eraill, y mae'n debyg iddo.* Ni dderbyn unrhyw wirioneddau gyflawned dystiolaeth a'r sawl y bu anmheuaeth yn eu cylch.

Rhaid fod diffyg llygad, neu y cyfranniad o hono, yn ddisymmwth, llawer mwy o'r ddau, yn gwneuthur cyfnewidiad nid bychan yn y wyneb. Y pellennau bychain hynny o oleuni, y rhai, yn ddiau, oeddynt eglurach nag y gallai natur eu gwneuthur, nis gallent lai na rhoddi bywyd newydd i'r wynebpryd. Nid rhyfedd gennyf os yw ei gymmydogion, y rhai fyddent arferol o weled y wyneb tywyll hwn yn cael ei dywys gan arweinydd, a'i gyfarwyddo â ffon, ond yn awr yn ei ganfod yn rhodio yn hyderus ei hunan, trwy rinwedd goleuni tumewnol, ac yn edrych yn siriol yn eu hwynebau, yn ammeu ai hwn oedd y dyn. Meddyginiaethau gwyrthiol Duw a barant gyfnewidiad teimladwy mewn dynion, nid mwy yn eu hamgyffrediad eu hunain, nac yn marn rhai eraill.

Fel hyn, yn y symmudiad o ddallineb ysbrydol, holl agwedd y dyn a newidir. Lle yr ymddangosai ei wynebpryd o'r blaen yn drymmaidd a daearol, yn awr, y mae ynddo fywiogrwydd siriol trwy ei gyssurlawn adnabyddiaeth o Dduw, a phethau nefol. Lle, o'r blaen, yr oedd ei galon wedi ei gosod ar bethau daearol, yn awr, defnyddia hwynt, ond nis mwynha: a defnyddia hwynt, am fod yn rhaid iddo, ac nid am ei fod yn dewis hynny. Lle o'r blaen yr ofnai ac yr ymofidiai am boenau ei gorph yn unig, neu, am golli ei gyfoeth neu ei enw da: yn awr, llid Duw, a pherygl ei enaid, a'u cynhyrfant. Fel y gall y cymmydogion yn awr ddywedyd, *Ai hwn yw'r dyn? eraill, y mae'n debyg iddo.*

Y gwr oedd ddall yn ddiweddar, a glyw ac a wêl anmheuon yn cael eu codi yn ei gylch: ond rhydd derfyn iddynt yn fuan. *Myfi yw efe.* Efe, yr hwn a welai oleuni haul, nis cuddiai oleuni'r gwirionedd rhag eraill. Distawrwydd anniolchgar ydyw mogi gweithredoedd Duw mewn dirgeliad. Colledi Duw, oherwydd ei haelioni i ni, fyddai'r annghyfiawnder mwyaf gwarthus.

Ni hoffwn ein hunain yr yspyngau hynny a sugnant i fynu gymmwynasgarwch heb ei hysbysu. O Dduw, nid ydym deilwng o'n golwg ysbrydol, os na chyhoeddwn dy drugareddau ar benhau tyau, ac onis moliannwn di yn y gynnulleidfa fawr.

Y mae dyn wrth natur yn ymofyngar. Chwiliwn yn astud i ddirgeloedd natur, ac i ansawdd doeth ddyfeisiau celfyddyd: ond os oes rhywbeth yr hyn sydd uwchlaw natur a chelfyddyd, po mwyaf uchel a dirgelaidd y cyfryw, mwyaf diwyd ein hymofyniad yn ei gylch. Costiodd syched am wybodaeth geledig a gwaharddedig yn ddrud in' unwaith: ond canmoladwy yw ymofyngarwch am yr hyn y mae'n gyfreithlon a buddiol ei wybod; megis yma, yn yr Iuddewon hyn, *Pa fodd yr agoroyd dy lygaid?* Defnyddioldeb cyntaf rheswm dynol, ydyw ymofyniad: y nesaf, gwybodaeth a phenderfyniad: ac os nad â'r pethau mwyaf dibwys heibio in', heb in' ymorol yn eu cylch, pa faint llai y dylai y rhai hynny, y rhai ydynt ryfeddol a manteisiol!

Efe, yr hwn a addefai ei hun mor rhwydd fel y gwr a iachesid, a gyhoedda mor rhwydd awdwr ei iachad. *Dyn a elwir Iesu a wnaeth glai, ac a irodd fy llygaid, ac a'm hanfonodd i Siloam, i ymolchi, a chefais fy ngolwg.* Nis gwyddai'r dall fwy nag a ddywedodd, a dywedodd yr hyn a wyddai. *Dyn.* Clywsai'r Iesu'n llefaru, teimlasai ei law: nis gallai etto weled yn mhellach: pan gyfarfyddodd âg ef y tro nesaf, canfyddodd Dduw yn y dyn hwn. O ran gwybodaeth, rhaid in' ymfoddloni ymlusgo cyn rhodio. Megis y canfyddodd y dall arall iachâedig hwnnw ddynion, yn gyntaf, megis prennau'n rhodio, yna, megis dynion: felly, nid rhyfedd os y dyn hwn a ganfyddodd yn gyntaf y Duw hwn megis dyn yn unig, ac yna, y dyn hwn megis Duw hefyd. Tybia ef, ar unwaith, yn wr rhyfeddol, yn brophwyd galluog. Yn ofer y disgwyliwn ddirnad yn berffaith, yn ddiattreg, bethau dwyfol, ac y beiwn ar y sawl sydd heb y cyfryw berffeithrwydd.

Pa fodd y gwyddai hwn beth a wnaeth yr Iesu? Yr oedd yn gwbl ddall yr amser hynny: p'odd y gallai wahaniaethu rhwng personau a gweithredoedd? Gwir, ond etto, llygaid rhai ereill a'i cynnorthwyodd: eu hadroddiad hwy a'i sicrhaodd o ddull ei iachad. Heblaw hynny, ei synwyrau eraill a'i sicrhaodd. Gallai ei glust glywed y poeryn yn syrthio, a'r gorchymyn a roddwyd iddo: ei deimlad a ddirnadodd y clai oerllyd a llaith ar ei amrantau. Y rhai hyn yn nghyd a'i hawdurdododd i gredu, ac i fynegu

hyn. Y glust a'n tywys ni oreu i ddirnad gweithredoedd Crist. Gweithredoedd Duw Dad, ei greadigaeth a'i lywodraeth, a ddeallir oreu gan y llygaid: ond gweithredoedd Duw'r Mab, ei brynedigaeth a'i gyfryngdod, a ddeallir oreu gan y glust. O Iachawdwr, ni allwn weled yn bersonol beth a wnaethost yma. Beth yw coffadwriaethau dy Apostolion a'th Efangylwyr, onid adroddiad arweinydd y gwr dall, beth, a pha fodd y gweithredaist drosom? Ar y rhai'n yr ymddiriedwn yn gadarn, ac y credwn mor hyderus a phe buasem yn llygad-dystion o'r hyn a wnaethost ac a ddyoddefaist ar y ddaear. Ni fuasai lle i ffydd, oni buasai'r glust yn deilwng o gymmaint grediniaeth a'r llygad.

P'odd y gallasai'r cymmydogion lai na gofyn, yn mha le'r oedd yr hwn a wnaethai y fath iachad ryfeddol? Etto, anmheuaf yn nghylch eu dyben: ofnaf nad oedd o gariad. Pe buasent yn ddiduedd, ni allasent beidio a bod yn llawn syndod distaw, a thueddol i gredu yn y fath Weithredwr Hollalluog. Yn awr, gan fod yn llawn o ragfarn yn erbyn Crist, a thueddol i'r Phariseaid, dygent y dyn a fuasai'n ddall ger bron y gelynion proffesedig hynny i Grist. Crefydd ffol y werinos yw addoli y sawl a ormesant ar eu heneidiau: er eu bod yn esgeuluso, ïe, 'n dirmygu gair Duw yn eu gweithredoedd. Ni fydd ar awdurdod annghyfiawn fyth eisiau ei attegu, beth bynnag fydd yr hyn a wna: er mewn gwrthwynebiad i'r gwirionedd, a chyda dianrhydedd iddo. Dynion llygredig ni chwiliant am iawnder lle y mae meddiant.

Ein Iachawdwr a ddewisa'r Sabboth i wneuthur yr iachad hwn. Anhawdd enwi un adeg pan y mae gweithredoedd o dosturi yn anmhrydlon. Megis y mae trugaredd yn ras rhagorol; felly, ei gweithredoedd ydynt addasaf i'r diwrnod rhagoraf. Genir ni oll yn ddeillion: y bedydd-faen (os bydd y gras tumewnol yno, yn gystal a'r arwydd allanol) yw ein Siloam: nid oes un diwrnod yn anmhriodol: etto, dydd Duw yw'r addasaf in' ymolchi a chael ein glanhau. Achos digonol o gwerylu i'r ceccrynod hyn, i weithred o drugaredd gael ei gwneuthur ar y dydd hwnnw, yn yr hwn yr oedd eu cenfigen yn bob peth ond prydlawn.

Nis canfyddaf y dyn yn cardotta yn ol cael ei lygaid: nid oedd dinesydd yn Jerusalem yn gyfoethoccach nag ef. Clywaf ef yn amddiffyn yn gadarn, grasol awdwr ei feddyginiaeth, yn

erbyn dadleuon y Phariseaid maleisus: canfyddaf ef megis Cyffeswr penderfynol, yn goddef esgymmundod er mwyn Crist, gan faentumio diniweidrwydd, ac anrhydedd cymmwynaswr mor fendigedig: clywaf ef yn rhoddi darlith duwinyddol i'r sawl a eisteddent yn nghadair Moses, gan eu hargyhoeddi hwy o ddallineb, y rhai a'i cospent ef am weled.

P'odd y gallaf lai na chenfigennu wrthyt, O ddyn, yr hwn, o fod yn glaf dan law'r Iesu, a droi yn ddadleuwr drosto: yr hwn y gwnaeth yr adferiad o olwg corphorol ffordd i'th lygaid ysbrydol; yr hwn a gollaist Synagog, ond a gefaist y Nef: yr hwn a wrthodir gan bechaduriaid, ac a dderbynir gan Arglwydd y gogoniant!

Ioan ix.

Y CYTHRAUL CYNDYN YN CAEL EI FWRW ALLAN.

Pa mor annhebyg a gwahanol i'w gilydd, ein cyflyrau yma ar y ddaear! Tra y gwedd-newidir ein Gwaredwr ar y mynydd, ei ddisgyblion a gythryblir yn y dyffryn. Tri o'i ganlynwyr dewisedig oeddynt gydag Ef uchod, yn llawn o hoffder oherwydd gwyrthiol brofion o'i Dduwdod: y naw eraill a drallodir oherwydd cythraul cyndyn isod.

Llawer o bobl a ymgasglasant at Grist, ac yno yr arosasant hyd disgyn o hono o Tabor. Eu zel a'u defosiwn a'u dygasent yno: eu parhad amyneddgar a'u cadwasai yno. Nid ydym yn deilwng o'n galw'n ganlynwyr iddo, os na chwiliwn yn llafurus am dano, disgwyl yn ostyngedig am ei amser.

Efe, yr hwn am ychydig a giliai i'r mynydd i gymdeithasu â'i Dad, ac i dderbyn gweinyddiadau Moses ac Elias, a ddychwela i'r godrau at y dyrfa. Ymneillduasai am ychydig i weddio a myfyrio: yn awr, unodd â'r dyrfa i'w hiachau'n wyrthiol, a'u haddysgu'n nefol. Nyni, y rhai ydym ei weision ysbrydol, rhaid in' fod naill ai'n ymbarottoi yn y mynydd, neu'n gweithredu yn y dyffryn: yn awr, ar fynydd myfyrdod, yna, yn nyffryn gweithrediad: yn awr, ar ein pennau'n hunain yn astudio, yna, yn pregethu yn y gynnulleidfa: wele, amrywiaeth mawr, ond gwaith yw'r oll.

Moses, yn ol dysgyn o'r mynydd, a glywodd fiwsig yn y

dyffryn: Crist, yn ol disgyn, a glywodd anghynganedd. Yr ysbrydion a ymosodent yn galed ar ei ddisgyblion. Canfyddent Grist yn absennol—naw o'i ddilynwyr yn y dyffryn ar y rhai yr ymruthrent. Megis y diafol, felly ei blant, a ddisgwyliant am bob manteision. Nid oes un gelyn cyfrwys na fydd sicr o ymosod ar y rhan honno lle y mae'r amddiffynfa leiaf, a'r gwendid fwyaf. Pan gollo y ddyweddi ef, yr hwn sydd hoff gan ei henaid, pawb o'r gwylwyr a'i tarawant. O Iesu, pan gili o'r neilldu y mymryn lleiaf, yr ydym yn sicr o gael rhuthro arnom gan demtasiynau cryfion.

Y rhai ni feiddiant ddywedyd dim wrth y Meistr, pan droa ei gefn a syrthiant ar y disgyblion gwanaf. Defnyddiodd Satan, ar y cyntaf, y cyfrwysdra hwn, gan ddechreu gyda'r llestr gwanaf. Nid yw ymarferiad ac amser wedi lleihau ei gallineb. Os gweithreda o hyd ar wrageddos ffol, wedi eu llwytho âg amryw chwantau, ac ar anwybodusion tywyll ac annysgedig, nid yw ond ei hen arfer.

Gwyddai Crist yn dda, ar ochr y mynydd, yr hyn a gymmerai le wrth ei waelod: gan hynny, brysia i waered i waredu ei ddisgyblion. Nid cynt yr ymwasgara'r cymmylau a'r niwl pan dorra'r haul allan, nag y diflanna'r dadleuon hyn wrth bresennoldeb Crist. Yn lle gwrthwynebu yn hwy, wele hwynt ddiattreg ar eu gliniau. Wele, nid oedd yma gwerylu yn hwy, ond cyfarchiadau gostyngedig: a phe na pharasai cwestiwn Crist yr eiddo hwy, ni chawsai'r ysgrifenyddion eu tafodau.

Diau fod llawer o rai trallodedig yn y dyrfa: ni wnaeth un gymmaint swn a thad y cythreulig. Tebygol mai o'i achos ef y cyd-ymholai'r ysgrifenyddion a'r disgyblion. Os ymgeccrent hwy, yntau a ddeisyfa ar ei liniau. Pwy na wna angen yn ostyngedig a ffraeth? Yr oedd yr achos yn wae-lawn, a mynegir ef yn gyfattebol. Mab sydd enw hoffus, eithr hwn oedd ei unig Fab. Pe buasai ei drallod ond un cyffredin, buasai ei alar yn llai: ond y mae yn olygfa ddychrynllyd o farn, canys lloerig oedd. Pe tarddasai ei loerigrwydd etto o achosion naturiol, buasai'n hawddach ei oddef: eithr chwanegir at ei ofid trwy ei feddiannu gan ysbryd creulon, yr hwn a'i trina yn y dull echryslonaf. Etto, pe buasai yn yr un radd ag eraill dan feddiant yr ysbryd aflan, buasai'r annghyssur yn llai: ond gwaeth yr ysbryd hwn na'i holl frodyr: eraill, yn gyffredinol, a ddifeddiannir gan y disgyblion, y mae hwn tu hwnt i'w gallu. *Mi a'i*

dygais ef at dy ddisgyblion di, ac ni allent hwy ei iachau ef. Am hynny, *Arglwydd, trugarha wrth fy Mab.* Yr anobaith am gymmorth o bob lle arall a'n hanfona'n brysur at y Duw galluog. Yma yr oedd ei noddfa: y cryf-arfog a gymmerasai feddiant: y cryfach nag ef yn unig a allasai ei fwrw allan. O Dduw, drygau ysbrydol, wrth natur, ydynt mewn meddiant o'n heneidiau: egwan pob cynnorthwy daearol: dy allu yn unig, trwy'th drugaredd, a all ein gwaredu.

Pa ymysgaroedd a allent lai nag ymgynhyrfu wrth drallod y dyn ieuangc hwn? Gwall-bwyll a feddiannasai ei ymenydd: nid oedd hyn ond iechyd mewn cydmariaeth i ormesol feddianniad yr ysbryd drwg, yr hyn a chwanegasid atto. Nis gallasai fod dwysach gofid allan o uffern: y mae ei synwyrau naill ai wedi ymadael âg ef, neu, ynte, eu gadael iddo i'w boenydio: dirdynnir, fel ei fod yn ewynu, yn ysgyrnygu â'i ddannedd, ac yn dihoeni: teflir ef weithiau i'r tân, weithiau i'r dwfr. O, fel yr ymhyfryda'r Gormeswr maleisus hwnnw yn gwneuthur drwg i greadur Duw! Pe buasai gan ddaear unrhyw beth mwy niweidiol na ddwfr a thân, yno y taflasai ef: er i'w boenydio'n hytrach na'i ddifetha. Gormod ffafr oedd cael marw ar unwaith. O Dduw, pa mor farwol y gelynion y'n hamgylchaist â hwynt! Lleiha eu gallu, am na leihant ddim o'u malais.

Pa nifer a feddyliant am yr achos hwn gyda thosturi a braw, ac, yn y cyfamser, ydynt lwyr annheimladwy o'u cyflwr eu hunain, yr hwn sydd fwy dychrynllyd! Mynych yn unig y bwriai'r diafol y gwr ieuangc hwn i dân tymhorol: mynnai fwrw'r pechadur i dân tragywyddol, llosgfeydd tragywyddol, y rhai ydynt yn ddidor. Y mae pob tân wrth ei fodd ef: tân cystudd, tân chwant, tân uffern. O Dduw, llenwa ni âg ofn pechod, a gwna ni'n ddiogel rhag ei ganlyniadau ofnadwy. Yr holl effeithiau hyn a ddilynant ei feddianniad ysbrydol. Pa fodd y dirdynna hwy, y rhai a derfysga ac y boenydia gan ofalon a galar annghymmedrol. Pa fodd y bwriant hwy ewyn, ac yr ysgyrnygant ddannedd, y rhai a dynnodd ef i anamyneddgarwch dan law gystuddiol Duw! Pa fodd y dihoenant hwy, y rhai bob awr a ânt wannach wannach mewn gras! O, alaethus gyflwr eneidiau pechadurus; y rhai ydynt gymmaint mwy enbydus oherwydd na theimlir hwynt!

Ond pa ran sydd gan y lloer yn nhrallod y dyn hwn? Pa fodd y daw enw'r blaned harddwych honno i mewn i'r matter

hwn? Diau fod clefydau yr ymenydd yn mawr ddilyn rhedfa hon brenhines y gwlybaniaeth. Y gallu sydd ganddi mewn pethau dyfrllyd a ddefnyddir yn fanteisiol gan yr ysbryd maleisus: cam-ddefnyddia ei llywodraeth er peri gofid: er rhwyddach cyfleusdra i boenydio, neu er dwyn gwarth ar greadur mor ardderchog. Nid arferiad newydd gan y gelyn cyfrwys hwnnw, priodoli ei weithredoedd i ail achosion, y rhai a draws-ddefnyddia er ei amcanion ei hun. Beth bynnag yw'r moddion, efe yw'r poenydiwr. Rhaid wrth ddoethineb lawer i wahaniaethu rhwng yr ysbryd drwg yn cam-ddefnyddio'r creadur da, a'r creadur da yn gam-ddefnyddiedig gan yr ysbryd drwg.

Efe, yr hwn a wyr bob peth, a ofyn gwestiynau; *Beth sydd o amser, er pan ddarfu hyn iddo?* Nid i hysbysu iddo ei hun: nis gallasai'r diafol hwnnw wneud dim heb wybodaeth a chaniattad Duw'r ysbrydion: ond fel y gallai, trwy addefiad y tad, egluro gofidus sefyllfa'r plentyn: fel y byddai diolchgarwch a gogoniant am y waredigaeth yn gymmaint yn fwy ag oedd y clwyf yn fwy gofidus: *yntau a ddywedodd, er yn fachgen.*

O, fel yr addolaf, O Dduw, ddyfnder dy ddoeth, a chyfiawn, a galluog oruwchwiliaeth! Tydi, yr hwn a fedraist ddywedyd, *Jacob a gerais, ac Esau a gaseais, cyn i'r plant wneuthur da nzu ddrwg*, a welaist hefyd yn dda roddi'r plentyn hwn yn ngallu yr Un drwg, cyn ei fod yn alluog i wneuthur na drwg na da. Pa raid gofyn am reswm arall na'th ewyllys, yr hwn yw rheol pob cyfiawnder? Er hynny, y golygon gweiniaid hyn a ganfyddant gyfiawn sylfaen dy weithrediad. Y plentyn hwnnw, er yn Israeliad, a luniasid ac a anesid yn y pechod hwnnw, yr hwn a allasai roddi, ac a roddodd, i Satan ran ynddo. Heblaw hyn, pechodau gweithredol y rhieni a haeddasant y dial hwn ar y rhan honno o'u hunain. Yn hytrach, O Dduw, boed im' fawrygu dy drugaredd, am ein bod ni a'r eiddom yn diangc rhag y farn hon, nac ammau dy gyfiawnder, am fod rhai nad ydynt yn diangc rhagddi. Pa mor gyfiawn a fyddai i ti ein rhoddi ni'n llwyr i Satan o ran cospedigaethau, y rhai a roisom ein hunain iddo o ran ein pechodau! Y mae mawl yn ddyledus it' am fod rhai o honom yn rhyddion: nid wyt i feio arnat am fod rhai yn dyoddef.

A ryfeddaf ganfod Satan yn meddianu corph y dyn ieuangc hwn er yn fachgen, pan welaf ef mewn meddiant ysbrydol o bob

plentyn i Adda, nid yn unig er yn fachgen, ond o'r bru, ïe, ynddi? Paham na feddiannai Satan ei eiddo ei hun? Yr ydym oll, wrth naturiaeth, yn blant digofaint. Y mae ganddo hawl in' yn ein genedigaeth cyntaf: ein genedigaeth newydd a'n rhyddha oddiwrtho, ac a'i hyspeilia o'i holl hawl. O, druenused y sawl nad oes ganddynt ddim ond natur. Gwell bod heb ein geni, na bod heb ein hail-eni.

Ac os y truan hwn a driniwyd yn y modd creulon hwn, er yn blentyn, heb fod yn euog o un pechod gweithredol: pa mor addas i ni ofni'r cyfryw farnedigaethau, y rhai, trwy droseddau ffiaidd, a haeddasom gael dwyn arnom y dihenyddwr hwn! O fy enaid, nid oes gennyt le ddigon i ddiolchgarwch i'r Duw da hwnnw, yr hwn ni'th roddodd di i fynu i'r cyfryw ysbryd maleisus.

Nid eistedda'r tad gofidus yn llonydd: ni esgeulusa foddion. *Mi a'i dygais at dy ddisgyblion.* Diau i'r dyn ddyfod ar y cyntaf i chwilio am Grist ei hun: pan wybu ei fod yn absennol, erfynia ar ei ddisgyblion. At bwy y dylem fyned â'n holl achwyniadau ysbrydol, ond at weinidogion a chenhadon Duw? Y son am gyffelyb feddyginiaethau a ddygasai'r dyn hwn, gyda mawr hyder, i erfyn am gynnorthwy: ac yn awr, mor ddigalon oedd pan welodd ei obaith wedi cael ei siomi! *Nis gallent ei fwrw ef allan.* Diammau i'r disgyblion wneud eu goreu: gorchymynasent i'r ysbryd mud hwn, yn ol eu harfer: ond yn llwyr ofer. Y rhai a ddaethant gynt at eu Meistr mewn llawenydd a gorfoledd, gan ddywedyd, *Hyd yn oed y cythreuliaid ydynt ddarostyngedig i ni,* a gyfarfyddant yn awr âg ysbryd cyndyn ac ystyfnig. Eu ffordd, hyd yma, oedd deg a dirwystr. Ac yn awr, diau nad oedd tad y plentyn yn fwy trallodus wrth hyn na hwythau. P'odd y gallent lai nag ofni fod eu Meistr ei hun wedi tynnu oddiwrthynt y gallu ysbrydol, yr hwn gynt a ddefnyddient! Rhaid fod eu calon yn methu, pan fethodd eu llwyddiant.

Ni achwynodd y dyn rhag eu hanallu. Beius iawn fuasai eu cyhuddo o'r hyn nid oedd ganddynt rym i'w gyflawni. Pe buasai'r diffyg yn eu hewyllys, haeddasent iaith achwyngar: nid bai oedd eisiau gallu. Achwyna yn unig ar gyndynrwydd yr ysbryd drwg, ac a alara oherwydd ei annorchfygolrwydd.

Gwnawn gam â chwi, fendigedig ganlynwyr Crist, pe dywedwn i chwi, tra yr oedd eich Meistr oddiwrthych ar fynydd Ta-

bor, golli eich ffydd ynddo, megis y collodd Israel eu hyder a'u Harweinydd ar unwaith, pan esgynodd Moses i'r mynydd. Yn hytrach, rhyngodd bodd i Dduw, yn ei ddoethineb, roddi adtalfa ar eich hyder gormodol: i dynu lawr eich calonau trwy gyfiawn ymostyngiad oherwydd eich gwendid, a'u codi i weithrediadau newyddion o hyder ar y gallu penarglwyddiaethol hwnnw, oddiwrth yr hwn y deilliasai eich gallu terfynol chwi.

Beth oedd y disgyblion yn fwy gynnefinol ag ef, na bwrw allan gythreuliaid? Yma yn unig y nacceir hyn iddynt. Gwel ein Duw da weithiau'n ddoeth i'n cwttogi o ran y galluoedd hynny yr ydym yn sicraf o honynt: fel y teimlom o ba le y derbyniwn hwynt. Ni chaiff Duw ei ogoneddu'n llai yn y pethau nis gallwn eu gwneuthur, na'r pethau a allwn eu gwneuthur. Pe byddai ei ddoniau ef yn wastadol wrth ein hewyllys, a phob amser yr un fath, ymddangosent yn naturiol, a buan y dirmygid hwy: yn awr, delir ni mewn ymddibyniad ofnadwy ar y llaw rasol honno, yr hon a rydd, fel na'n llanwer i ormodedd, ac y nacca fel ag i beidio a'n digaloni.

Pwy, yn awr, a allasai lai na disgwyl y tosturiasai ein Iachawdwr wrth sefyllfa y tad gofidus, a'r mab truenus, ac y dywedasai rywbeth er eu diddanu? Yn lle hynny, clywaf ef yn ceryddu ac yn achwyn. *O genhedlaeth anffyddlon a throfaus, pa hyd y byddaf gyda chwi? pa hyd y dyoddefaf chwi.* Achwynai, nid ar y tad gofidus, a'r mab etto mwy gofidus: nid ei arfer oedd chwanegu at drallod y cystuddiedig, dryllio y cyfryw gorsenau gweinion: ond ar yr ysgrifenyddion hynny, y rhai, ar aflwyddiant y cais hwn, a ymorfoleddent yn anallu disgyblion Crist: er, o bossibl, y gallasai fod y tad anamyneddgar hwn, trwy rym eu gorfoledd hwy, wedi llithro i ryw feddyliau anhyderus.

Nis gallasai fod cyhuddiad trymach na *anffyddlon a throfaus:* anffyddlon, o ddiffyg credu; trofaus, oherwydd eu cyndynrwydd mewn annghrediniaeth. Diau nad oeddynt ryddion oddiwrth feiau mawrion eraill: yr oll a foddid yn eu hangrediniaeth. Aflendid neu drais moesol a ymddangosant yn ffieiddiaf o bob peth i ddynion: nid oes unpeth mor ffiaidd gan Dduw, a'r drygioni meddyliol hyn.

Pa gyfnewidiad hyfryd sydd yma, mewn un anadl o eiddo Crist! Pa hyd y dyoddefaf chwi? *Dygwch ef yma attaf fi.* Un gair o lid, a'r llall o ffafr. Ei gyfiawn ddigter nid â dros ben ei ddaioni, ac nis gwarthrudda ef. Y fath gymmysgedd

hyfryd sydd yn mherffaith symledd yr anian ddwyfol! *Yn nghanol barn cofia am drugaredd,* ïe, gweithreda hi. Ei haul a ddisgleiria yn nghanol y dymhestl hyn. Pa un ai edrycha'n wgus, ac y gwena, y ddau sydd i'r un dyben, fel yr ennillo'r anffyddiog a'r anufudd. Beth a ddylai fod ein dyben ninnau yn ein holl geryddon llymion, ond adeilad, ac nid dinystr? Nyni ydym feddygon, ac nid dihenyddwyr: rhoddwn gyfferi i lanhau, ac nid gwenwyn i ladd. Swydd y Barnwr cyfiawn ydyw dywedyd un dydd wrth eneidiau gwrthodedig, *ewch oddiwrthyf:* yn y cyfamser, ein llen yw gwahodd pawb a feddiannir yn ysbrydol, i gyfrannogi o'i drugaredd—*dygwch ef yma attaf fi.*

O Iesu, nid allai pellder rwystro dy weithred di: paham oedd raid dwyn y lloerig attat ti? ai er eglurach ymddangosiad o'i waredigaeth; ac fel y canfyddai'r edrychwyr mai nid er diddim y cafodd y disgyblion eu gwrthsefyll gan ysbryd mor gyndyn? neu, ai fel y byddai'r ysgrifenyddion yn dystion o'r dirfawr elyniaeth sydd rhyngot ti a'r ysbryd aflan hwnnw, ac y cywilyddient oblegid eu henllib cableddus? Neu, ai fel y cadarnheid tad y lloerig yn y ffydd honno, yr hon, yn awr, trwy haeriadau yr ysgrifenyddion, a ddechreuai wanhau: pan y canfyddai ac y clywai Grist yn gwneuthur mor siriol, yr hyn yr ymdrechent beri iddo annobeithio y cae ei gyflawni?

Y lloerig a ddygwyd atto. Ceryddir y diafol, a bwrir ef allan. Yr ysbryd cadarn hwnnw, yr hwn a safodd allan yn eofn yn erbyn llais y disgyblion, nis gall ond plygu i lais y Meistr. Y gallu, yr hwn a'i taflodd ar y cyntaf allan o'r nefoedd, a'i bwrw yn hawdd allan o dŷ o glai. *Yr Arglwydd a'th gerydda, Satan,* yna nis gelli lai na diangc.

Y disgyblion, y rhai nid oeddynt arferol â'r attalfeydd hyn a derfysgir wrth eu haflwyddiant. *Paham na allem ni ei fwrw ef allan?* Pe buasent deimladwy o unrhyw ddiffyg ynddynt eu hunain, nis gofynasent fyth y cwestiwn. Ychydig y meddyliasant glywed am eu hangrediniaeth. Pe na buasai eu ffydd yn fawr, nis gallasent fwrw allan unrhyw gythreuliaid: pe na buasai rhyw ddiffyg ynddi, bwriasent hwn allan. Y mae modd i ni fod yn ddiffygiol mewn rhai grasau, ac, etto, heb deimlo hynny.

Er mai nid eu gwendid hwy yw'r achos o'u haflwyddiant, yn gymmaint a grym yr ysbryd drwg. *Nid â y rhywogaeth hon allan, ond trwy weddi ac ympryd.* Ysbrydion gwannach a

fwrid allan trwy orchymyn: y diafol hwn oedd ffyrniccach a mwy ffromwyllt. Megis y mae graddoldeb yn maintioli dynion, felly y mae yn ngrym a gwrthryfelgarwch drygau ysbrydol. Yma ni wna gorchymyn y tro: rhaid gweddio; ac ni wna gweddio y tro heb ymprydio. Rhaid iddynt weddio ar Dduw, fel y llwyddont: rhaid iddynt ymprydio er gwneud eu gweddiau'n daerach, a mwy effeithiol. Nis gallwn ni yn awr orchymyn; gallwn ymprydio a gweddio. Pa mor dda yw ein Duw wrthym, am barhau i ni y moddion effeithiolaf o ddifeddiannu galluoedd y tywyllwch, tra na welodd yn addas barhau in' y rhai lleiaf eu grym! Tra y gweddiom ac ymprydiom, Duw a orchymyna drosom; Satan nis gall lwyddo i'n herbyn.

MATTHEW XVII. MARC IX.

HATLINGAU'R WEDDW.

YR oedd trysor sanctaidd y deml yn gynnwysedig mewn dodrefn neu arian. I un, yr oedd gan yr Iuddewon dŷ, i'r llall, gist. Yn nghynnulliad yr holl wrywiaid yn y deml, dair gwaith yn y flwyddyn, ar y gwyliau gosodedig, gwnaethid anrhegion haelionus o'r ddau ryw. Ein Iachawdwr, fel yn ymbleseru yn yr olwg, a'i gosoda ei hun i edrych ar y cyfryw gyfraniadau crefyddol neu gardodol. Hoff gennym sylwi ar y pethau sydd hyfryd gennym. Y galon a'r llygad a ânt efo'u gilydd.

Ac a feddyliwn, O Iesu, i'th ogoneddiad leihau dim o'th sylw grasol ar ein haelioni? neu, fod dy dderbyniad o'n helusen wedi cael ei gyfyngu i'r ddaear? Canfyddi yn awr, ïe, ar ddeheulaw gogoniant dy Dad, bob llaw a estynnir allan i gynnorthwyo'r seintiau tlodion ar y llawr: ac os gall balchder gynhyrfu ein haelioni, o dd'wnniad cael ein gweled gan ddynion, p'odd y cynhyrfir ef gan ffydd, am wybod o honom dy fod di, O Dduw, yn ei ganfod ac yn ei gymmeradwyo! Och! beth well ydym, am y'n canfyddir gan y golygon darfodedig gweiniaid hynny, y rhai a welant y tu allan o'n gweithred yn unig, neu o ran y gwynt mawr hwnnw o glod, yr hwn a ddiflanna ar wefusau'r neb a'i traetha? Dy lygad di, O Dduw, sydd dreiddgar ac adtaledigol. Megis y mae dy weled di yn berffaith ddedwyddwch, felly, caffael ein canfod gennyt sydd wir foddlonrwydd a gogoniant.

Ac aganfyddi di, O Dduw, yr hyn a roddwn it', ac oni chanfyddi yr hyn a gymmerwn oddiwrthyt? A sylwir ar ein rhoddion yn fwy na'n cyssegr-ladradau? Diau nad yw dy drugaredd yn graffach na'th gyfiawnder.

Yn y ddau beth, sylwir ar ein gweithredoedd, a chedwir ein cyfrif: ac yr ydym yn sicr o'n gwobrwyo am ein hanrhegion, a dial am yr hyn yr yspeiliasom.

Canfyddi'r oll a wnawn â llygad dy wybodaeth: ond canfyddi â llygad o gymmeradwyaeth yr oll a wnawn yn dda. Felly y canfyddaist yn awr yr offrymau crefyddol a chardodol hyn. Mor hyfryd gennyt oedd yr amrywiaeth hwn! Canfyddaist lawer o rai goludog yn rhoddi yn helaeth: ond un gweddw dlawd yn rhoddi mwy na hwy, mewn llai o le.

Yr Iuddewon yn awr oeddynt dan gaethiwed y Rhufeiniaid: yr oeddynt oll dan dreth, etto llawer o honynt oeddynt gyfoethog, y rhai oeddynt haelionus tuag at y drysorfa gyffredinol. Pe canfyddaset y cyfoethogion hynny yn rhoddi ychydig, clywsem di yn beio: derbyni gyfartalwch rhwng y rhoddwr a'r rhodd, rhwng y rhodd a'r derbyniad: lle nid yw, y mai bai yn bod.

Y genedl honno, er yn feius ddigon mewn pethau ereill, etto yn hyn yr oedd i'w chanmol. Pa mor agored eu dwylaw yn eu cyfraniadau haelionus i dŷ Dduw! Bu amser pan oedd raid attal eu haelioni trwy gyhoeddiad: ac yn awr nid oedd eisiau eu cynhyrfu: y cyfoethog a roisant lawer, y tlawd fwy.

Efe a ganfyddodd weddw dlawd yn bwrw i mewn ddwy hatling. Gofid digon ei bod yn weddw. Gwraig briod sydd dan ddarpariadau gofalus ei gŵr: os gwaria hi, ennilla yntau: pedair llaw a weithiant drosti: yn ei gweddwdod, dwy yn unig. Tlodi a chwanegir at ei gweddwdod. Gwneir i fynu'r golled am y gŵr weithiau trwy gael golud ar ei ol. Lleiheir y trallod ryw faint, os gadewir y llaw yn llawn, tra y mae'r gwely yn wâg. Nid oedd hon yn fwy unigol na rheidus. Etto'r weddw dlawd hon a gyfranna. A pheth a rodda? Rhodd tebyg iddi ei hun: *dwy hatling*, neu yn ein hiaith ni, dau hanner ffyrlling "Och! wraig dda, pwy oedd dlotach na thi? I ba ddyben y corban, ond er cynnorthwyo dy fath di? Pwy ddylai dderbyn, os y cyfryw a rodda? Dy hatlingau oeddynt rywbeth i ti, nid y'nt ddim i'r drysorfa. Pa mor anaddas y rhodd, yr hon a'th dloda di, heb chwanegu dim at yr ystor gyffredinol!" Efallai i ryw

gymmydog cynnil ymdrechu fel hyn ei thueddu yn erbyn cyfrannu. Crist a gyhoedda ac a ganmola ei haelioni. *Ac efe a alwodd ei ddisgyblion atto, ac a ddywedodd wrthynt, yn wir yr wyf yn dywedyd i chwi, fwrw o'r wraig weddw dlawd hon i mewn fwy na'r rhai oll a fwriasant i'r drysorfa.*

Pan oedd y cyfoethogion yn cyfrannu, nis gwelaf y disgyblion yn cael eu galw: digon i Grist sylwi ar eu rhoddion wrtho ei hun: ond pan ddaw y weddw â'i dwy hatling, yn awr gwysir gweision Crist yn nghyd, a dysgir hwy i ryfeddu wrth yr haelioni hwn: rhagymadrodd pwysig a wna ffordd i'w chlod, a'i hatlingau a gyhoeddir yn werthfawroccach na thalentau rhai ereill. *Roddodd fwy na hwy oll.* Mwy: nid yn unig o ran meddwl y rhoddwr, ond o ran cyfartalwch y rhodd, megis ei heiddo hi. Yr oedd hatling iddi hi yn fwy na phunnoedd iddynt hwy: nid oedd punnoedd iddynt hwy ond ychydig: dwy hatling oedd ei holl hi: hwy a roisant o'u llawnder, hi o'i phrinder. Yr hyn a roisant hwy a wnaeth eu pentwr yn llai, etto yr oedd yno bentwr o hyd: hi a roddodd y cwbl ar unwaith, gan adael dim iddi ei hun. Felly hi a roddodd nid mwy nag un, *ond mwy na hwynt oll.* Ni olyga Duw gymmaint yr hyn a gymmerir allan, â'r hyn a adewir yn ol.

O Dad y trugareddau, edrychi ar unwaith i waelod ei chalon, a gwaelod ei phwrs: ac a brisi ei rhodd yn ol y ddau. Megis na chanfyddi fel dyn, felly ni phrisi fel ef: dyn a brisia wrth werth y rhodd: tydi yn ol amcan y rhoddwr, a chyfartalwch yr hyn a adewir yn ol. Byddai yn ddrwg i ni, pe barnet yn ol maintioli. Och! beth sydd gennym ond hatlingau, a rheiny wedi eu benthycca oddiwrthyt ti? Cyssur in', yn ein gwaelder, mai ein serchiadau a brisir, ac nid ein hoffrymau: ac ni ddywedaist, *Rhoddwr* haelionus, ond *Rhoddwr* llawen *y mae Duw yn ei garu.*

Pe byddai gennyf fwy, O Dduw, tydi a'i caet ef: pe byddai gennyf lai, nis dirmyget ti ef, *yr hwn a dderbyni y rhodd, yn ol yr hyn sydd gan un, ac nid yn ol yr hyn nid yw ganddo.* Arglwydd, beth sydd gennyf ond dwy hatling, corph ac enaid? gwir hatlingau, ïe, llai mewn cydmariaeth â'th anfeidredd di. O, na allwn eu hoffrymu yn llwyr i ti, yn ol dy hawl iddynt, ac nid yn ol yr eiddo fi. O, mor sicr fyddet yn dy raslonrwydd o'u derbyn! A pha mor ddedwydd fyddwn ninnau yn dy dderbyniad o honynt!

BALCHDER DAU FAB ZEBEDEUS.

Efe, yn llaw'r hwn yr oedd ei amser Ef a'r eiddo ninnau, a ragwyddai ac a rag-ddywedodd ddynesiad ei farwolaeth.

Pan y mae dynion yn agos i'w diwedd, ac yn barod i wneuthur eu hewyllys, yna y mae'n iawn bryd i edrych am gymmunroddion. Fel hyn y gwnaeth mam y ddau Zebedeaid: gan egluro yn hyn ei doethineb a'i ffydd: ei doethineb yn yr iawn ddewisiad o'i chyfleusdra: ei ffydd yn ei gwaith yn cymmeryd mantais ar y cyfryw gyfleusdra.

Y mae'r cais wedi hanner ei dderbyn, yr hwn a wneir yn brydlon. Gwneuthur y cais hwn yn nechreuad eu gweinidogaeth a fuasai yn ffolineb: ac ymddangosasai yn gyfiawn fel yn gofyn am naccad. Ar ymadawiad yr Angel y mynnai Jacob gael ei fendithio. Ni ofynir am ddeuparth o ysbryd Elias, nes oedd yn myned i esgyn.

Ond O ffydd glodadwy y wraig hon! Pan glywodd son am ddyoddefiadau Crist a'i angau, llefara am ei ogoniant: pan glywo am ei groes, sonia am ei goron. Pe canfyddasai Herod yn dyfod ac yn cynnyg ei deyrnwialen i Grist, neu Henuriaid yr Iuddewon ar eu gliniau yn cynnyg iddo eu gostyngedig ufudd-dod, buasai ganddi ryw achos i lettya meddyliau am deyrnas: ond yn awr tra y mae son am fradychu, dyoddef, a marw yn ei chlustiau, erfyn am le yn ei deyrnas a ddatguddia ffydd, yr hon a allai orchfygu pob digalondid.

Nid oedd ddim i'r disgyblion pan welsant Ef, yn ol ei goncwest ar angau wedi codi o'r bedd, i ofyn iddo—*Meistr, a adferi yn awr y deyrnas i Israel?* Ond i wraig ffol edrych trwy ei farwolaeth a'i ddyoddefiadau dyfodol, at ei adgyfodiad a'i ogoniant, nid yw'n llai rhyfeddol na chanmoladwy.

Clywed dyn yn ei iechyd a'i nerth goreu yn son am ei hyder yn Nuw, a'i sicrwydd o'i ffafr, nid yw beth o fawr werth: ond os gallwn, yn y gofid mwyaf gredu uwchlaw gobaith, ac yn ei erbyn, ein ffydd sydd gymmaint odidoccach ag yw'r anhawsderau yn fawrion. Ni esgynnodd pereiddiach arogl oddiar unrhyw allor, na'r hwn a esgynnodd o dommen Job. *Myfi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw.*

Pa ryw enw rhyfedd a roddir i'r wraig hon? Buasai mor hawdd dywedyd, gwraig Zebedeus, neu chwaer Mair neu Joseph, neu ei galw yn Salome, yr hyn oedd ei henw: ond yn

awr trwy ddesgrifiad anarferol, gelwir hi *mam meibion Zebedeus.* Yr oedd Zebedeus yn anenwog: hi, megis ei wraig, oedd anenwog hefyd. Yr anrhydedd fwya gafodd, neu a allasai ei gael, oedd bod yn fam i'r fath ddau fab ag Iago ac Ioan: rhydd y rhain enwogrwydd i'w dau rieni. Anrhydedd a esgynna yn gystal ag y disgynna. Plant duwiol a roddant anrhydedd i'r lwynau a'r bru, o'r rhai y tarddant, yn gymmaint ag y trosglwydda eu rhieni anrhydedd iddynt hwy. Gallai Salome fod yn wraig dda, hyswi dda, dynes a chymmydoges dda: nis gall hyn oll eu henwogi gymmaint a bod *yn fam meibion Zebedeus.*

O gymmaint o boen, lludded, gofal, a thraul sydd yn ngenedigaeth plant, a'u dygiad i fynu! Os troant allan yn dda, atdal ant y cwbl yn helaeth. Yn nesaf i fod yn ddedwydd ynom ein hunain, yw bod yn ddedwydd mewn hiliogaeth rasol.

Y cais oedd eiddo'r meibion, ond trwy enau eu mam. Eu doethineb oedd llefaru trwy eu gwefusau hi. Hyd yn oed y pysgodwyr hyn a ddysgasent yn barod i bysgotta yn gyfrwys am dderchafiad. Nid oedd balchder mor ëofn ynddynt hwy ag i ddangos ei wyneb ei hun. Cenfigen y cais a ochelir y wedd hon, yr hwn nis gallasai eu herfyniad personol lai na'i gynhyrfu. Os caniatteid, cawsent eu dymuniad: os na chawsent, nid oedd ond gwrthod cais mam: yr hwn nis gallai lai na bod yn gymmaint yn fwy maddeuadwy, am mai deisyfiad mam dros ei meibion ydoedd.

Nid yw rhieni i'w beio am geisio derchafiad eu plant. Paham nas gall Abram weddio dros Ismael. Nid yw'r cais hwn yn feius, os bydd yn unol â moddion cyfreithlon, yn ol mesur cymmedrol, ac mewn iawn drefn. Esgeuluso amgylchiadau a wna'r deisyfiadau hyn yn bechadurus. O, ynfydrwydd y rhieni hynny, y rhai nis gwaeth ganddynt pa fodd y codant dŷ: y rhai a ewyllysiant adael eu plant yn fawrion, yn hytrach nag yn dda: y rhai a ddeisyfant fod eu plant yn arglwyddi ar y ddaear, yn hytrach na brenhinoedd yn y nefoedd!

Er hynny canmolaf di, Salome, am fod dy fwriadaeth cyntaf i gael dy blant yn ddisgyblion i Grist: yna i'w derchafu i'r sefyllfaoedd goreu perthynol i'r cyfryw ddisgyblaeth. Gwir drefn doethineb dwyfol, O Dduw, yw gwneud ein plant yn gyntaf yn ddedwydd âg anrhydedd dy wasanaeth, ac yna ymdrechu am eu haddas dderchafiad ar y ddaear.

Rhoddir y fam ar waith gan ei meibion: eu calon hwy oedd

yn ei gwefusau hi. Nid oeddynt wedi eu marweiddio gan eu didor gyfeillach â Christ, trwy wrando ar ei athrawiaeth nefol, a chanfod ei ymddygiad dwyfol, fel nad oedd eu meddyliau etto yn ehedeg ar ol anrhydedd daearol. Balchder yw'r wisg mwyaf mewnol, yr hon a ddiosgwn olaf, ac a wisgwn yn gyntaf. Pwy all ryfeddu canfod rhyw wreichion o ddymuniadau gweinion a bydol yn eu hathrawon sancteiddiaf, pan nad oedd yr Apostolion bendigedig ryddion oddiwrth ryw feddyliau beilchion, tra yr eisteddent wrth draed, ïe, yn mynwes eu Gwaredwr?

Gallai'r berthynas agos a allai'r wraig hon honni â Christ, ymddangos fel yn rhoddi iddi'n gyfiawn fwy o gyfeillgarwch ag Ef: etto yn awr am y daw i erfyn, defnyddia ystum iselaf erfynwyr. Nid rhaid ein dysgu mai addas i'r sawl a erfyniant ar fawrion gyflwyno eu deisyfiadau ar eu gliniau. O Iesu, os y wraig hon, yr hon oedd berthynas mor agos i ti, o ran y cnawd, pan ddaeth hyd yn oed à'r achos daearol attat, pan oeddyt amgylchynedig â gwendidau dynol, a'th addolodd cyn meiddio deisyf arnat: pa barch sydd ddigonol i ni, y rhai a ddeuwn attat ar achosion ysbrydol, pan yr ydwyt yn eistedd yn uchder dy nefol fawrhydi a'th ogoniant!

Dywaid gan hyny, Tydi, wraig Zebedeus, beth a geisi gan dy *gar* Hollalluog? *rhywbeth*. Llefara allan, wraig: beth yw y rhywbeth hyn a ddeisyfi? Pa mor dlawd a gwan yw y tywyll ragfynegiad hwn o'th ddeisyfiad ger ei fron Ef, yr hwn a wyddai dy feddyliau cyn it'eu mynegi, cyn it'eu ffurfio! Yr ydym ollyn yr un dôn: mynai pawb gael rhywbeth, yr hwn beth, efallai, y mae arnom gywilydd ei amlygu. Mynai'r balch rywbeth; sef anrhydedd yn y byd: y cybydd hefyd a fynai rywbeth; cyfoeth a digonedd: mynnai'r maleisus rywbeth; sef dial ar ei elynion: mynnai'r gloddestwr fywyd hir a phleserus: yr anmhlantadwy blant: y trythyll brydferthwch. Mynnai pawb gael ei ddymuniad ei hun: er, mewn amrywiaeth, ïe, mewn gwrthwynebiad, nid llai i ewyllys Duw, na'u lles eu hunain.

Rhyfedd fel y glyna'r cais hwn wrth ei dannedd, ac nis meiddia ddyfod allan, oherwydd ei fawr feiusrwydd. Mawr yw y gwahaniaeth rhwng gweddiau ffydd a chynhyrfiadau hunangariad ac annghrediniaeth! Daw y rhai cyntaf allan yn eofn, gan wybod eu bod yn gyfreithlon a chymmeradwy: y lleill a safant yn gwrido wrth y drws, heb fentro ymddangos, megis rhyw gais diystyredig, teimladwy o'i annheilyngdod a'i gyf-

iawn wrthodiad. Y mae ein dymuniadau annghymedrol yn deilwng o gael eu hattal: pan wyddom fod ein herfyniadau'n sanctaidd, nis gallwn neshau'n rhy hyderus at orseddfaingc y gras.

Efe, yr hwna ddeallai eu meddwl o bell, etto, felun yn anhysbys o'u hamcanion, a ofyn, *Pa beth a fynni?* Ein gwendidau a'n cywilyddiant oreu, pan dynnir hwy allan o'n geneuau ein hunain, fel nad yw ein gweddiau yn gwasanaethu, er hysbysu i Dduw ein hangenion, ond er ein gwneuthur ni'n fwy cymmwys i dderbyn ei drugareddau.

Y cais a dynnir allan o honi. Yn awr, rhaid iddi lefaru—*Dywaid am gael o'm dau fab hyn eistedd, y naill ar dy law ddehau, a'r llall ar dy law aswy, yn dy frenhiniaeth.* Anhawdd dywedyd pa un ai balchder ai anwybodaeth a ganfyddir yma fwyaf. Yr oedd y dyb mor gyffredinol ag oedd yn gyfeiliornus, y cyfodai ef deyrnas dymhorol ar Israel ardrethol a chaethiwus. Y Rhufeiniaid oeddynt yn awr eu Meistraid: tybient yr ysgydwasai eu Messia yr iau hon, ac a'u hadferasai i'w rhydd-did blaenorol. Mor gadarn oedd y gred hon, fel y dywedodd y ddau ddisgybl, wrth fyned i Emmaus, yr oeddym ni yn gobeithio mai efe oedd yr hwn, a waredai Israel: a phan, yn ol ei adgyfodiad, yr oedd yn rhodio tua'r nef ar fynydd yr Olewydd, hyd yn nod ei apostolion a ofynasant iddo, os yr adferai y pryd hynny y deyrnas honno, y disgwyliasent cyhyd am dani. Pa fodd y dylem gymhedroli ein ceryddon o'n brodyr Cristionogol, pan gamsyniant, neu, pan na wyddant iswirioneddau crefydd, pan yr oedd canlynwyr cysson Crist, y rhai a'i clywsant yn feunyddiol hyd ei Esgyniad, yn dywyll am brif achos ei ddyfodiad i'r byd, a natur ei deyrnas! Os na all ein cariad oddef beiau bychain, paham y proffeswn ei enw Ef, yr hwn a ae heibio i rai mwy. Y mae gwirionedd megis yr haul; disglaer ynddo ei hun: er hynny, y mae conglau lawer i'r rhai ni anfonodd ei oleuni erioed. O Dduw, os agori ein calonau, cymmerwn i fewn y pelydron hynny: hyd y gwnei hynny, dysg ni i ddisgwyl wrthyt yn amyneddgar tuag attom ein hunain, a bod yn dirion a chariadlawn tuag at eraill.

Y pysgodwyr hyn oeddynt lyswyr digonol i wybod mae llaw ddehau ac aswy'r tywysog, oedd y sefyllfaoedd parchediccaf. Dywedasai ein Iachawdwr y cai ei ddeuddeg ganlynwyr eistedd ar ddeuddeg teyrn-gadair, a barnu deuddeg llwyth Israel. Y

wraig dda hon a fynnasai gael ei dau feibion agosaf at ei berson —prif-arglwyddi ei deyrnas. Pawb sydd dueddol i ddymuno'r goreu i'w eiddo ei hun. Nid yw anrhydedd bydol yn werth ein cais, na theilwng o'i wrthod. Yn wir, Salome, pe buasai dy feddwl yn y nef, pe dymunasit i'r blaenoriaeth hwn fod yn ystad y nefol ogoniant, etto, nis gwn pa fodd i gyfiawnhau dy drachwant. A fynnet i'th feibion gael eu gosod o flaen *tad y ffyddloniaid*, a mam fendigedig dy Brynwr? Y cyfryw ddymuniad fuasai ryfygus. O'm rhan fy hun, Arglwydd, fy nymuniad a gaiff fyned mor bell ag im' fod yn sant yn y nef, a byw mor dduwiol a'r goreu ar y ddaear: ond o ran blaenoriaeth mewn anrhydedd yn y nef, nid ydwyf yn, ni feiddiaf, ei ewyllysio. Digon i mi os gallaf godi fy mhen yn mhlith sodlau dy rai gwynfydedig.

Y Fam a gais: y meibion a gant yr atteb. Nid oedd hi ond eu tafod hwy: cânt hwythau fod ei chlustiau hithau. Priodola Duw'n wastadol y weithred i'r ymsymmudydd cyntaf, yn hytrach nag i'r offeryn.

Adtalfa lym oedd, *Ni wyddoch beth yr ydych yn ei ofyn.* Mewn ymddiddanion cyffredin, llefaru'n segur sydd bechod, ond bod mor ddifeddwl fel ag i fod yn anwybodus o'n hymbiliau ein hunain, a raid fod yn drosedd dirfawr.

Megis mai ffydd yw sylfaen ein gweddiau, felly, gwybodaeth yw sylfaen ein ffydd. Os agoshawn âg erfyniadau heb eu hiawn ystyried, halogwn yr enw a alwn arno.

I'w hargyhoeddi o'u annghymmwysder i ogoniant, anfonir hwynt at eu hanallu i ddyoddef. *A fedrwch chwi yfed o'r cwppan yr yfaf fi o hono; a chael eich bedyddio â'r bedydd y bedyddir fi âg ef?* O Iesu, y mae gennyt ti, yr hwn oeddyt un â'r Tad, gwppan o'th eiddo dy hun. Ni fu diod erioed mor chwerw a'r hon a gymmysgwyd i ti. Ië, dy ddarlwngc a ragfesurir. Nid digon it' lymmeitian o'r cwppan hwn, rhaid it' ei yfed hyd at y gwaddod. Pan gynnygwyd y finegr a'r bustl it' gan ddynion, ni ddarfu it' ond cussanu'r cwppan, ond pan roddodd dy Dad yn dy law ddiod, anfeidrol gwaeth ei archwaeth, er ein hiechyd ni, ti a yfaist yn ddwfn o hono, hyd y gwaelod, a dywedaist, *Gorphenwyd.* Ac a fydd i ni rwgnach wrth y cwppaneidiau anhoffaidd o gystudd a gynnygir i ni, ddynion pechadurus, pan y canfyddwn di, Mab cariad dy Dad, yn cael y fath luniaeth. Yfwn attat, O Iesu bendigedig, yfwn attat ti yn ol ein gwendid,

yr hwn a ddechreuaist yfed attom ni yn dy alluog ddyoddefiadau, yn unig nertha ni, yn ol rhai wynebau sirion yn ein gwrthymdrechiad o'r diwedd i yfed attat ti yn ewyllysgar, yn ein dyoddefiadau diysgog er dy fwyn.

Fel y mae'n rhaid it' gael dy drochi oddi mewn: felly, rhaid it' gael dy fedyddio oddi allan. Dy fedydd nid yw o ddwfr, eithr o waed: y ddau hyn a ddeilliasant o honot yn dy ddyoddefaint: nis gallwn fod yn eiddo ti, heb gyfrannogi o'r ddau. Os na rwgnechaist roddi dy werthfawr waed i ni, gwych y gelli honni hawl i rai diferion diwerth oddiwrthym ni.

Pan lefarant hwy am dy deyrnas, lleferi dithau am dy gwppan chwerw, dy fedydd gwaedlyd. Trwy ddyoddef y teyrnesir —*Trwy lawer o orthrymderau y mae'n rhaid i ni fyned i deyrnas nefoedd.* Ni fu cun erioed o aur heb fyned yn gyntaf trwy'r tân: ni fu erioed rawn pur, heb fyned yn gyntaf dan y ffust. Yn ofer y breuddwydiwn am fynediad uniongyrchol o bleserau dacar i ogoniant y nefoedd. Gobeithied y neb a fynno fyned i orseddfaingc nefol ar rosynau a blodau, O Iesu, boed i mi dy ddilyn yn ol llwybr dy waed, a'th gamrau cochion, i'th orphwysfa a'th ddedwyddwch dragywyddol.

Gwn mai nid gorchwyl hawdd yw hwn: onide, ni ddywedasit byth, *a ellwch chwi?* Pwy fyddai abl, os na fyddent hwy, y rhai a fendithiasid cyhyd â'th bresennoldeb, a oleuasid â'th athrawiaeth, ac a feddiannasent yn mlaen llaw eu nefoedd ynot ti? Ni fuaset byth yn eu gwneuthur yn farnwyr o'u gallu, pe nas gallaset eu hargyhoeddi o'u gwendid. Och, lawned o wendid yw ein corph, ac o anamynedd ein henaid. Os gwenynen yn unig a fratha'n cnawd, fe a chwydda: os oes gwŷn mewn dant, y galon a'r pen a achwynant. O, fel y mae pethau bychain yn ein gwneuthur yn flinedig o'n bywyd! Beth a allwn ei wneud hebot ti? Beth a allwn ei ddyoddef hebot? Os na fyddi di, O Dduw, yn gadarn yn fy ngwendid, nis gallaf fod hyd yn oed yn wan: nis gallaf gymmaint a bod. O, parottoa fi i'm dydd, a nertha fi yn erbyn fy mhrofedigaethau. *Gallaf wneuthur pob peth trwot ti yn fy nerthu.*

Nid llawnach o wendid oedd cais y ddau ddisgybl na'u hatteb, *Gallwn.* O ddirfawr awydd am yr anrhydedd, y maent yn barod i fyned dan yr ammod. Gall y goreu gamsynied o ran eu galluoedd eu hunain. Och! ddynion tlodion, pan ddaeth y wasgfa, rhedasant ymaith: ac nis gwn na ffodd un heb ei wisg.

Un peth yw dyoddef mewn meddwl, peth arall mewn gweithred. Nis gall fod arwydd gwaeth, na bod dyn, mewn rhyfyg cnawdol, yn ymffrostio yn ei alluoedd. Mor gyfiawn y goddef Duw i'r cyfryw gael ei daflu i lawr, fel y cywilyddio oherwydd ei wag hunan-hyder. O Dduw, boed im' byth fod yn isel a gostyngedig dan deimlad o'm hannigonolrwydd. Boed im' roddi y gogoniant oll i ti, gan gymmeryd dim i mi fy hun, oddieithr fy ngwendidau.

O, ryfedd addfwynder Mab Duw! Ni ddwrdia'r ddau ddisgybl am eu trachwant yn ceisio, na'u rhyfyg yn ymrwymo: ond gan adael y rhan waelaf, cymmer i fynu y rhan oreu o hono. *Diau yr yfwch o'm cwppan, ac y'ch bedyddier â'r bedydd y'm bedyddier ag ef: eithr eistedd ar fy neheulaw, ac ar fy llaw aswy, nid eiddof ei roddi: ond i'r sawl a ddarparwyd gan fynhad.*

Nis gwn pa un fwyaf, trugaredd y caniattad, neu diriondeb anrhydedd y naccad. Pe na buasai'n mawr yfed o'th gwppan, O Iesu, ni rag-addawset ef fel ffafr. Twyllir fi, os oedd yr hyn a roddaist yn llawer llai na'r hyn ni roddaist. Yfed attat yn dy gwppan dy hun, sydd gymmaint anrhydedd a chyfeillgarwch ag eistedd gyda thi. *Os dyoddefwn gyda thi, ni a deyrnaswn hefyd gyda thi.* Pa barch uwch a all cig a gwaed gyfrannogi o hono, na chydffurfiad âg Arglwydd y gogoniant? Nertha fi i yfed o'th gwppan, ac yna gosoda fi lle y mynni.

Ond, O Iesu, tra y perchi hwynt yn yr hyn a roddi, a anmherchi dy hun yn dy naccad? *Nid eiddof ei roddi.* Eiddo pwy os nid yr eiddo ti? Os eiddo dy Dad, dy eiddo dithau hefyd. Tydi, yr hwn wyt wirionedd, a ddywedaist, *Myfi a'm Tad un ydym.* Ië, am dy fod yn un â'r Tad, nid yr eiddot yw rhoddi i neb, oddieithr i'r sawl y darparwyd ganddo. Darpariad dy Dad oedd eiddot, ei roddiad sydd felly hefyd: arfaeth y ddau ydynt un. Y cynghor tragywyddol hwnnw nis gellir ei gyfnewid yn ol ein dymuniadau gweigion ni. Y Tad ni rodda'r parch nefol hwn i neb, ond trwot ti: ni roddi dithau'r cyfryw i neb, ond yn ol arfaeth dy Dad. Y mae gwahanol raddau o wynfyd yn y nef. Y trigfannau uchod nid ydynt oll o'r un uchder. Y rhagluniaeth hwnnw a wahaniaethodd ein sefyllfaoedd ar y ddaear, a rag-drefnodd ein heisteddleoedd yn y nefoedd. O Dduw, derbyn fi o fewn muriau dy Jerusalem newydd, a gosod fi ynddi lle bynnag y gweli'n oreu.

ARIAN Y DEYRNGED YN CAEL EI DALU.

Yr holl hanesion eraill hyn a amlygant allu Crist. Hwn a ddengys ei allu a'i ufudd-dod: ei allu ar y creadur, ei ufudd-dod i'r awdurdodau gwladol.

Capernaum oedd un o'i ddinasoedd ei hun. Yna, yn nhŷ Petr, yr oedd ei brif breswylfod (Luc iv. 31—a'i gydmaru â 38) at ei lettywr hwnnw, ynte, y daw y trethwyr am y deyrnged. Pan ddywedodd y disgybl mawr hwnnw, *Nyni a adawsom bob peth, ac a'th ganlynasom di:* ni ddywedodd, "Nyni a ymwrthodasom â phob peth, neu, nî a werthasom neu a roisom bob peth, ond nyni a adawsom pob peth, o ran trefnu, nid meddiannu: nid o ran hawl, eithr defnyddiad a mwynhad presennol: a adawsom fel y gallom, ar adeg addas, eu cymmeryd etto: fel eu bod o hyd yn ddyledus in', ond nid ein gorchwyl." Diau ei fod yn rhy ddoeth i roddi ymaith ei eiddo ei hun i fenthycca gan estron. Ei gronglwyd a roddodd iddo loches am yr amser, ac i'w Feistr hefyd gŷdag ef. Ganddo ef, megis gwr y tŷ, y gofynnir am y deyrnged, a chanddo a throsto y telir.

Nid wyf yn ymofyn am yr achlysur na'r swm. Paham y gwnawn y gofyniad hwn yn gyyssegr yspeilad? Megis pe cesglid i drysor-dŷ y Rhufeiniaid yr hanner sicl hwnnw a orchymynasid gan Dduw i gael ei dalu gan bob Israeliad, er gwasanaeth y Tabernacl a'r Deml. Nid oedd raid i Arglwyddi'r Rhufeiniaid gael eu cylymmu wrth gyfrifiad yr Iuddewon. Yr oeddynt ryddion i osod y taliadau a fynnent ar y bobl a orchfygasent. Pan orchymynodd Augustus fawr drethu'r byd, gosodwyd i fynu'r gofyniad hwn.

Y casglwyr, yn gyntaf, yn weddus a'i gofynant ganddo ef, gyda'r hwn y gallent arferyd mwy hyder—*Onid yw eich athraw chwi yn talu teyrnged?* Gwyddai holl Gapernaum fod Crist yn Brophwyd mawr: ei athrawiaeth a barasai iddynt hoffder, ei wyrthiau, syndod: etto, pan ddeuir at arian, y mae ei ran ef mor ddwfn a'r eiddo hwythau. Matterion o elw ni oddefant wahaniaeth. Etto, y llwyth sanctaidd o hyd a eilw am barch: pwy a ofala leied, a dderbynia gymmaint a dâl. Etto, nis gŵyr neb gyda pha ryw ddyben y gwnawd y gofyniad hwn; pa un ai o rwgnachrwydd crintachlyd oherwydd rhyddhad Crist, neu, mewn annerchiad o'r gwas, oherwydd arswyd, yn hytrach na'r meistr.

Yr oedd gan Petr ei atteb yn barod. Nis clywaf ef yn gofyn ganddynt i aros, hyd yr ai i mewn i ddysgu penderfyniad ei Feistr; ond fel un a wyddai yn dda ei feddwl a'i arferiad, dywaid, *Ydyw.* Nid oedd neb yn talu teyrnged y Brenhin yn fwy gwirioneddol nag ef, yr hwn oedd Brenhin y brenhinoedd. Gwych y gwyddai Petr ei fod, nid yn unig yn talu, ond yn pregethu, teyrnged. Pan osododd yr Herodiaid fagl iddo, gan dybied y buasai Prophwyd mor fawr oll dros ryddhad etholedig bobl Dduw, tagodd hwy â'u bath eu hun, gan ddywedyd fod yr argraph yn cyhoeddi'r hawl. *Rhoddwch i Cesar yr hyn sydd eiddo Cesar.* O Iesu, pa fodd y gall dy weision gleimio y rhydd-did hwnnw, yr hwn ni feddiannaist dy hun? Pwy a'th addefa di, a all ofyn parch gan y sawl y rhoddaist di barch iddynt. Os tydi, trwy'r hwn y teyrnasa brenhinoedd, ni omeddaist dalu teyrnged i dywysog Paganaidd, pa allu danat ti a all ei naccau i'r sawl a lywodraethant erot?

Gwnawd y gofyniad y tu allan i'r drws. Nid cynt y daw Petr i mewn, nad yw'r Iesu yn ei ragflaeuu a'i gwestiwn, *Beth yr wyt ti yn ei dybied, Simon? Gan bwy y cymmer brenhinoedd y ddaear deyrnged neu dreth? gan eu plant eu hunain, ynte, gan estroniaid?* Y cwestiwn hwn yn unig oedd atteb digonol i'r un a fwriadai Petr ei ofyn. Nid oedd Efe, yr hwn a allai y wedd hon adnabod y galon, mewn gwirionedd, yn agored i drethau dynol.

Ond, O Iesu, a allaf fentro gofyn, beth yw hyn i ti? Dywedaist, *Nid yw fy nheyrnas i o'r byd hwn.* Beth, ynte, a berthyna i ti yr hyn a wneir gan frenhinoedd y ddaear, neu a osodir ar feibion brenhinoedd daearol? Mynnet fod yn Fab i wyrryf ostyngedig, a chymmeraist, nid agwedd frenhinol, eithr un wasaidd. Nid wyf yn ammau dy iawn naturiol i'r orsedd, trwy dy ddisgyniad lin o lin o lwynau Judah a Dafydd: paham y dadleuaf o barth yr hyn a roddi di i fynu? Dy frenhinoldeb a'th Faboliaeth ddwyfol, yw'r hyn y pwysi arno yma.

Y rheswm sydd annhoradwy ac argyhoeddiadol—"Os brenhinoedd y ddaear a freiniant eu plant, fel eu bod yn rhyddion oddiwrth deyrnged a threth, pa faint mwy y rhydd Brenhin y nef y rhyddhad hwn i'w unig a'i naturiol Fab? Felly, ar iawn sylfaen, gallaf gleimio hyn i mi, a'm dilynwyr."

Gallaset wneuthur hyn, O Waredwr: a gallaset yn llawn cymmaint ofyn am deyrnged oddiwrth holl frenhinoedd y

ddaear i ti dy hun, yr hwn a ordeini yr holl awdurdodau. Nis gall rheswm ddweud gair yn erbyn y cais hwn. Y mae'r creadur yn rhwymedig am dano ei hun, a'r hyn oll sydd eiddo, i'w Wneuthurwr: nid yw'r Gwneuthurwr rwymedig iddo ef am ddim.

Gan hynny, y mae y plant yn rhyddion. Yr hwn y mae ganddo hawl i'r cwbl, nid rhaid iddo dalu am ddim: pe amgen byddai darostyngiad mewn pen-arglwyddiaeth, a byddai dynion yn ddyledwyr iddynt eu hunain. Ond yr iawn hwn oedd eiddo ti yn neillduol, ac ni oddefai gyd-gyfrannogwyr: paham y llefari am blant, megis am fwy, a, chan estyn y fraint hon i Petr, am, *Rhag i ni eu rhwystro hwy.* Ai y dywedi, gan fod dy ddisgyblion o'r un wisg, y gallent ymddangos yn gyfiawn â rhan ganddynt yn mreintiau eu Meistr? Diau nad oeddynt blant unrhyw ffordd arall, nac mewn unrhyw dull arall yn rhyddion. Ymaith â'r dyb benboeth, yn ol yr hon y mae maboliaeth ysbrydol a mabwysiadol yn rhydd oddiwrth gyfreithiau a threthau gwladwriaethol. Nis gall unrhyw seindod daearol ein gwaredu rhag rhoddi teyrnged i'r hwn y mae teyrnged yn ddyledus. Y mae rhydd-did, O Iesu, yr hwn y mae'r Efengyl yn galw arnom ei ddymuno—sef oddiwrth iau Satan a phechod, rhag caeth-wasanaeth ein nwydau llygredig: nis gallwn fod yn blant heb y rhydd-did hwn. O, rhyddha ni â'th hael Ysbryd rhag caethiwed truenus ein natur: felly y bydd y plant yn rhyddion: ond o ran y dyledswyddau gwladol hyn, nid oes neb yn llai rhydd na hwy.

O Iesu, yr oeddit yn rhydd, ac ni fynnet fod felly: rhydd trwy hawl naturiol, ond ni fynnet fod yn rhydd trwy oruwchwiliaeth wirfoddol, *Rhag i ni eu rhwystro hwy.* Diammau pe buasai rhwystr yn dilyn, y cymmerasid ef, ac nas rhoddasid. *Gwae i'r dyn trwy yr hwn y daw rhwystr:* daw trwy'r hwn a'i rhydd: daw trwyddo ef a'i cymmer, pan nas rhoddir: nis gallasai unrhyw ran o'r bai hwn lynu wrthyt ti, yn un o'r ddau ystyr.

Etto, cyfryw dy ddaioni, fel na oddefet i rwystr gael ei gymmeryd wrth hynny, yn annghyfiawn, yr hyn a allaset ei naccau yn gyfiawn. Pa mor eiddigus a ddylem fod, ïe, yn nghylch peryglon rhai eraill. Pa mor ofalus am gymmedroli ein rhydd-did yn ein harferiad o bethau cyfreithlon, fel y rhwystro ein cariad eraill rhag tramgwyddo—neu am beidio a myned i eithaf

ein braint er diogelu eraill. O, alarus gyflwr y dynion cyndyn hynny, y rhai nis gwaeth ganddynt faint o rwystrau a roddant ar y ffordd i'r nef, heb ymattal trwy drythyllwch adnabyddus, rhag tynnu eraill i'w dammedigaeth eu hunain!

Iesu a wna wyrth er gochelyd rhoddi tramgwydd diachos, hyd yn nod, i bublicanod. Anfonir Petr i'r mor: ond nid â rhwyd, ond gyda bach. Yr oedd yr Apostol yn awr yn ei gelfyddyd ei hun: gwyddai y gallai rhwyd gau i mewn lawer o bysgod, nis gallai bach ond dal un: â'r bach hwnnw rhaid iddo fyned a physgotta am arian y dreth. Caiff pysgodyn ddwyn arian iddo y n ei safn: a'r pysgodyn hwnnw, y cyntaf a afaela yn ei fach! Y fath glududd anarferol sydd yma! Mor annhebyg yr elfen i roddi darn o arian bathol darparedig!

O, 'r gallu Hollalluog hwnnw, yr hwn a allasai orchymyn y pysgodyn i fod yn drysorwr i gadw ei arian, a'i gludydd i'w ddwyn iddo. Yn awr, O Iesu, pa un ai y peraist i'r pysgodyn hwnnw gymmeryd i fynu'r hanner sicl hwnnw o waelod y môr, neu, pa un ai y creaist ef mewn moment yn ei enau, trwy dy Hollalluog air, nid oes modd penderfynu, nac achos i ymofyn. Yn hytrach, addolaf dy anfeidrol wybodaeth a'th allu, yr hwn a allesit ddefnyddio y moddion anhebyccaf; yr hwn a allesit beri, ïe, i bysg y môr dy wasanaethu mewn achos daearol a gwladwriaethol.

Nid oherwydd angen y gwnaethost hyn: er na chanfyddaf it' erioed ddymuno cod lawn: pa wythiennau o aur, neu gloddfeydd o arian, nad oeddynt ddarostyngedig i'th orchymyn di! Ond oherwydd dy ewyllys i ddysgu Petr, tra y byddai ef dan dreth i Cesar, y byddai'r môr dan dreth iddo yntau. Pa fodd y dylai hyn ein hannog i hyderu ar dy law Hollalluog honno, yr hwn y mae nef, daear, a môr wrth dy orchymyn? Yr ydwyt o hyd i'th aelodau yr hyn oeddit i ti dy hun y Pen. Yn hytrach nag i dramgwydd gael ei roddi i'r byd, trwy esgeulusdra ymddangosiadol o'th anwyl blant, peri, ïe, i ehediaid y nef ddwyn iddynt fara, a physgod y môr, arian. O, am i ni edrych i fynu yn wastadol attat ti, trwy lygad ein ffydd: heb fethu yn yn ein hyder arnat ti, yr hwn nis gelli ein hesgeuluso yn dy ragluniaeth drosom.

MATTHEW XVII.

LAZARUS WEDI MARW.

O DDOETHINEB Duw, yn ysgrifenu ei hanes ei hun! Y disgybl a garai'r Iesu a ddaw yn ol ei gyd-Efengylwyr, fel y gallai loffa y tywysennau goludog hynny o hanes, y rhai yr aethai'r lleill heibio iddynt.

Yr eryr hwn, sef Ioan, a eheda yn uchel, ac a esgynna yn raddol. Peth mawr oedd troi'r dwfr yn win, ond peth mwy porthi pum mil â phum torth. Peth mawr oedd adferu mab y pendefig; peth mwy oedd ei iachau ef, yr hwn a fuasai ddeunaw mlynedd ar hugain yn gloff. Peth mawr oedd ei iachau ef, yr hwn a anesid yn ddall: peth mwy oedd cyfodi Lazarus, yr hwn a fuasai cyhyd yn farw. Megis y rhed y ffrwd yn llettach a dyfnach o hyd, fel yr agosha at y môr, o'r hwn y tarddodd: felly tithau, O Iesu, a weithredaist gyda mwy o rym, fel yr oeddit yn tynnu yn nes at dy ogoniant. Hwn, megis yr oedd un o'th wyrthiau olaf, oedd hefyd yn mhlith y rhai mwyaf. Pan oeddit ar fin marw dy hun, cyfodaist ef i fywyd, yr hwn a aroglai mor drwm o'r bedd. Nid oes un o'r hanesion sanctaidd mor gyflawn a neillduol â hwn, yn y traddodiad o bob amgylchiadau. Nid yw y gwyrthiau ereill fwy yn uwch na natur, nag yw hwn yn uwch na hwy.

Yr oedd hwn yn unig yn brawf digonol o'th Dduwdod, Wynfydedig Waredwr. Nis gallasai ond gallu anfesuredig fyned gymmaint yn mhellach na natur, fel ag i ad-alw dyn, wedi marw er's pedwar diwrnod, nid yn unig o lwyr amddifadiad, ond o lygredigaeth sefydlog. Rhaid mai'th eiddo yw'r ddaear, o'r hon y codaist ei gorph: rhaid mai'th eiddo yw'r nefoedd, o'r hon y dygaist yn ol ei ysbryd. Nis gallasai neb ond yr hwn a greodd ddyn ei ail wneuthur.

Saldra yw rhagymadrodd arferol angau. Nid oes un marwol yn rhydd oddiwrth hwn. Hyd yn oed Lazarus yr hwn a hoffai'r Iesu sydd glaf. Beth all nerth gras, neu anwyldeb wneud yn erbyn clefyd, yn erbyn marwolaeth?

Cenadwri gyffrous a anfonodd Mair at Iesu. *Y mae'r hwn sydd hoff gennyt ti yn glaf:* fel yn arwyddo fod ganddo Ef gymmaint yn Lazarus a hithau. Ni ddywaid ychwaith, "Yr hwn sy'n dy hoffi di sydd glaf," ond *yr hwn sydd hoff gennyt:* gan bledio nid rhinwedd cariad Lazarus at Grist, eithr trugaredd a ffafr Crist iddo ef. Yr adlewyrchiad arall o gariad ni

fuasai yn gynhyrfiad gwan; canys dywedaist, O Arglwydd, *am iddo osod ei serch arnaf, am hynny y gwaredaf ef.* Ni fydd dy ddaioni di yn eisiau lle y mae cariad attat, yr hwn a broffesi eu caru hwy a'th garant di. Etto cryfach yw'r dymmer o'th gariad di attom ni: am fod gennyt achos i barchu pob peth o'th eiddot dy hun, yn fwy na dim a all ddeillio oddiwrthym ni. Beth na wnawn ni, ddynion gweiniaid, lle y carom. Tydi, yr Anfeidrol Dduw, wyt gariad ei hun. Beth bynnag a wnaethost erom sydd o gariad. Y mae ffynhonell a gwreiddiol achos dy holl drugareddau ynot dy hun, nid ynom ni: ac os oes ynom unrhyw beth teilwng o'th gariad, dy eiddo di yw, ac nid yr eiddo ni: rhoddi yr hyn a gymmeradwyi.

Clywodd Iesu yn dda ochenaid gyntaf ei anwyl Lazarus. Pob anadl fer a dynnodd, pob ochenaid a roddodd oedd dan gyfrif. Arglwydd y bywyd hwn a âd i'w Lazarus glafychu, a marw: nid oherwydd esgeulusdod neu anallu, eithr oherwydd gallu a phenderfyniad. *Nid yw'r clefyd hwn i farwolaeth.* Efe, i'r hwn y perthyn diangfa rhag marwolaeth, a ŵyr y ffordd iddo, ac allan o hono. Bwriadodd i'r clefyd fod i farwolaeth o ran y cyflwr presennol, nid o ran parhad: i farwolaeth yn nhrefn natur, nid i farwolaeth o ran llwyddiant ei ddwyfol allu: *fel y gogonedder Mab Duw trwy hynny.*

O Iesu, dy enw cyffredinol yw Mab y dyn: Tydi, yr hwn oeddit foddlon i gymmeryd arnat ein gwendidau, a ewyllysit fel hyn guddio dy Dduwdod dan wisgoedd geirwon ein dynoliaeth, ond yma dywedi *fel y gogonedder Mab Duw.* Er y mynnet guddio dy ddwyfol ogoniant, ni fynnet ei fogi. Weithiau mynet i'th haul dorri allan mewn disglaer belydron, er dangos nad yw ei oleuni ddim llai, hyd yn nod pan yr ymddengys fel yn cael ei gadw i mewn gan gymmylau. Yr oeddit yn awr yn agos i'th ddyoddefaint. Yr oedd yn dymmor tra addas it' osod allan dy wir enw. Ac nid oedd hon yn weithred ychwaith a allasai dy ddyndod honni hawl iddi; eithr yr oedd yn mhell uwchlaw pob galluoedd meidrol. Marw oedd weithred Mab y dyn: codi o farw oedd weithred Mab Duw.

Ac ni ddywedaist yn unig fel y gogonedder Duw, ond *Mab Duw.* Nis gall Duw gael ei ogoneddu, oddieithr i'r Mab gael ei ogoneddu. Mewn perthynasau naturiol, y cam neu'r anmharch a wneir i'r plentyn a syrth ar y tad, fel yn y gwrthwyneb, eiddo'r tad ar y plentyn: pa faint mwy, lle y mae'r cariad a'r parch yn anfesuredig!—lle y cyfrannir yr holl hanfod yn

nghyd a chyflawnder perthynas! O Dduw, yn ofer y cyflwynwn it' ein gwasanaeth yn gyffredinol, megis i Fawrhydi gogoneddus ac annealladwy, os na chyssanwn y Mab, yr hwn yn dra iawn a ddywedodd, *Yr ydych yn credu yn Nuw, credwch ynof finnau hefyd.*

Y fath deulu dedwydd oedd hwn! Nis canfyddaf arall ar y ddaear yn cael cymmaint parch. *Hoff oedd gan yr Iesu Martha, a'i chwaer, a Lazarus.* Nid oes golygiad yma ar flaenoriaeth. Nid yw Ysbryd Duw yn gywrain yn nhrefniad lleoedd. Bu amser pan addefid i Mair ddewis y rhan oreu: yma Martha a enwir yn flaenaf, fel un â'r rhan bennaf yn nghariad Crist: o ran dim a welwn, yr oeddynt oll mor anwyl a'u gilydd. Crist, fel cyfaill, a lettyasai dan eu cronglwyd. Pa mor addas oedd y tŷ hwnnw i'w dderbyn, trigolion yr hwn oeddynt mor llettygar, duwiol, unfrydig! Llettygar yn y croesawiad siriol a roisent i Grist a'i ganlynwyr: duwiol yn eu defosiwn: unfrydig yn eu cydgordiad. Megis i'r gwrthwyneb, y gochela a chasha'r tŷ hwnnw, yr hwn sydd lawn o annghariad, halogrwydd, a chynnen.

Ond O Iesu, pa fodd y cyttuna hyn? Caret y teulu hwn; etto pan glywaist am ei drallod, ymgedwaist yn mhell oddiwrthynt am ddau ddiwrnod. A elli garu y rhai ni ofalu am danynt? A elli ofalu am y rhai yr wyt yn wirfoddol yn absennol oddiwrthynt yn eu hangen? Wele dy gariad, megis y mae yn uwch na'r eiddo ni, felly y mae yn fynych yn groes iddo. Yr wyt yn aml yn absennol o wir gariad. Nid oes neb o'r eiddot, nad ydynt weithiau yn llefain, *Pa hyd, Arglwydd?* Pa raid am esampl pan y trodd dy dragywyddol Dad ei wyneb oddiwrthyt ti o fwriad, nes gorfu arnat lefain allan oherwydd dy adael?

Oedaist yma yn wirfoddol: pa un ai er mwyhau'r wyrth, ai er cadarnhau ffydd dy ddisgyblion.

Pe buaset yn myned yn gynt, a rhwystro'r farwolaeth, pwy allasai wybod pa un ai nerth natur, ai dy allu gwyrthiol di, a wnelsai hynny. Pe goddiweddasit ei angau trwy gyflymu dy ymweliad, pwy allasai wybod pa un ai rhyw lewygfa oedd, neu ynte berffaith farwolaeth? Yn awr y bwlch mawr hwn o amser a sicrha dy waith, ac a'i gwna yn ogoneddus.

A pha brawf eglur oedd hwn yn mlaenllaw i'th ddisgyblion, dy fod yn alluog i ddwyn i ben dy adgyfodiad dy hun ar y trydydd dydd, yr hwn a fedraist godi Lazarus ar y pedwerydd!

Po anhawddaf y gorchwyl, mwyaf oll yr angen am gadarnhad hollalluog.

Efe, yr hwn oedd Arglwydd ar ein hamser ni a'r eiddo ei hun, a all ddywedyd yn awr, am fod yr adeg yn addas, *Awn i Judea drachefn.* Paham y gadawodd Judea o'r blaen? Ai nid oherwydd creulondeb penderfynol ei elynion? (Gwel pen. x. adn. 31 39.) wele feini'r Iuddewon yn ei yrru oddiyno: cariad at Lazarus, a gofal am ei ddwyfol ogoniant, a'i dygant yn ol. Dylem fod yn ddoethion fel y seirph, er ein cadwraeth: rhaid in' ddibrisio peryglon, pan eilw Duw ni iddynt. Pell ydyw oddiwrth fwriad Duw roddi caniattad i ni ofalu drosom ein hunain fel ag i'w esgeuluso Ef. Bydded Judea oll yn faglau a chroesau, rhaid in', O Iesu, roddi ein bywyd yn ein dwylaw, a myned yno, pan elwi arnom.

Amcenaist a threfnaist y daith hon: ond pa angen hysbysu dy fwriad i'th ddisgyblion? Pa bryd ond y tro hwn y dangosaist iddynt dy deithiau? Ni ddywedaist ychwaith, "Beth a feddyliwch chwi, os af," ond "*awn.*" Ai am y gwyddet ti eu gwendid hwy, yr hwn a wyddet dy allu dy hun? Yr oeddit ti yn benderfynol; hwy yn ofnog: meddylient am eu perygl diweddar, ac ofnent un arall. Yr oedd angen i'w harfogi yn mlaenllaw â disgwyliad o'r gwaethaf, ac ymbarottoad gyferbyn ag ef. Drygau disymmwth a all derfysgu'r gwroldeb mwyaf. Parod yw'r galon i ballu, pan ganfydda ei hun wedi ei maglu mewn enbydrwydd annisgwyliedig.

Carai'r disgyblion Lazarus yn ddirfawr: dysgasent garu lle y carai eu meistr: er hynny, pan y sonia'r Iesu am ddychwelyd i'r fro enbydus honno, ymaflant yn ei lawes, a dygant i'w gof y trais a wnaethid âg ef yno,—*Rabbi, yr oedd yr Iuddewon yn awr yn ceisio dy labyddio di; ac a wyt ti yn myned yno drachefn.*

Yr Iuddewon, yn y bennod o'r blaen, a godasant eu dwylaw dim llai na thair gwaith i'w ladd trwy labyddiad creulon. Beth a gynhyrfodd eu cynddaredd a'u hymdrechion gwaedlyd? Ei waith yn dysgu iddynt y gwirionedd yn nghylch ei natur ddwyfol, ac yn galw ei hun wrth ei briodol enw, Mab Duw. Pa mor annoddefadwy yw gwirioneddau nefol i galonau cnawdol! Nis gall dim derfysgu'r ysbryd maleisus hwnnw, yr hwn a reola yn y mynwesau hynny, gymmaint ag i Grist gael yr hyn sydd eiddo. Os erlidir ni am y gwirionedd

hwn, nid ydym ond *dyoddef* gydag Ef, *gyda'r hwn y teyrnasŵn.*

Er y plediai'r disgyblion dros ddiogelwch eu Meistr, yr eiddo eu hun oedd yn eu golwg. Gwych y gwyddent fod ei berygl Ef yn tynnu ar ei ol yr eiddo hwythau. Nid yw ond lliw da a roddant ar eu hofnau. Cyfrifir ofn yn nwyd egwan a gwael. Byddai yn dda gan bawb beidio gael ei ddrwg-dybio o honi, ac i roddi'r wyneb goreu ar ei wendid. Fel hyn ni fydd eisiau rhesymau teg ar yr ofnog, y rhai a giliant oddiwrth y groes, am ei llwyr adael. Pledia un y perygl o lawer o ymddibynwyr; y llall amddifadiad yr eglwys o lawer o gynnalwyr llwyddiannus: bydd gan bob un ryw esgus teg er cadw ei groen yn gyfan.

Pa gyfeiliornad na ddarfu i Grist gael achos ei symmud oddiwrth ei ddisgyblion? Hyd yn oed yr ofn, yr hwn a ddymunent ei guddio, a ymlidir yn rasol, trwy ddwys ystyriaeth ar sicr ac anocheladwy Ragluniaeth. "*Onid oes deuddeg awr o'r dydd*, y rhai a osodir yn ddyladwy, ac a ânt rhagddynt yn rheolaidd, er cyfarwyddo holl ysgogiadau a gweithredoedd dynion? Felly yn fy ngyrfa innau ar y llawr, y mae amser neillduol pennodedig, yn yr hwn y mae yn rhaid i mi weithio, a gwneuthur ewyllys fy Nhad. Yr haul, yr hwn a lywia'r oriau hyn, ydyw rhag-derfynedig gynghor Duw fy Nhad, a'i alwad Ef i gyflawni fy swydd: tra y canlynwyf y rhai'n nis gallaf gyfeiliorni mwy na theithiwr ar hanner dydd: yn ofer ynte y pryd hwn yw eich cynghorion chwi, ac ymdrechion fy ngelynion: nis gallant fy niweidio, ac nis gellwch chwithau fy nhroi oddiwrth fy mwriad."

Rhaid ynte myned i Judea: hysbysir i'w ganlynwyr yr achos. Efe, yr hwn yn ddiweddar a wadai fod clefyd Lazarus yn farwol, ni addefai ar fyr ei farwolaeth: ac nis llwyr gelai Ef ychwaith: addefa Ef, gan hynny, fel i'w gysgodi â gair benthycedig. *Y mae ein cyfaill Lazarus yn huno.*

Pa enw hyfryd a roddir yma i Lazarus ac i angau! Angau yw hun: Lazarus yw ein cyfaill. Wele ni ddywaid "fy nghyfaill," eithr *ein*, er eu dwyn i gymdeithas grasol a chymmundeb cyfeillgar âg Ef ei hun: canys beth a arwydda hyn ond, "yr ydych chwi'n gyfeillion i mi, ac y mae Lazarus yn gyfaill i mi ac i chwithau? *Ein cyfaill.* O Waredwr addfwyn a thrugarog, yr hwn a ymostyngi mor isel fel, pan na chyfrifi'n

drais, fod yn ogyfuwch â Duw, na thybiaist yn warth wneud dy hun yn gydradd â dynion gweiniaid a thruenus! *Ein cyfaill Lazarus.* Y mae math ar gystadledd mewn cyfeillgarwch. Gall fod cariad lle y mae'r anghystadledd mwyaf: ond cyfeillgarwch a arwydda gyfartaledd: er hynny dywaid Mab Duw am feibion dynion, *Ein cyfaill Lazarus.* O,'r fath gyflwr uchel a dedwydd yw hwn, i ddyn marwol i lafurio am dano. Nid oes ar Dduw'r nefoedd ddim cywilydd eu harddel yn gyfeillion! Ni ddywaid ychwaith yn fyrbwyll, "Y mae ein cyfaill Lazarus wedi marw;" ond, *Y mae ein cyfaill Lazarus yn huno.*

O Iesu, nis gall neb wybod cyflwr y byw a'r marw fel Tydi, yr hwn wyt Arglwydd y ddau. Digon dy fod di yn dywedyd nad yw angau ond hun. Yr hwn oedd arferol cael ei gyfrif yn gefnder i angau, ydyw yn awr angau ei hun. Camsyniasom hyd yma, o ran achos ein hymddattodiad. Cyfrifem ef yn elyn, try allan yn gyfaill: y mae hoffder yn yr hyn y meddyliwn fod ynddo fraw. Pwy a ofna, yn ol lludded y dydd, orphwys y nos? Neu beth a adfywia'r teithiwr blinedig yn well na chwsg melus? Ein hannghrediniaeth, ein hanmharodrwydd, a wna angau yn unrhyw beth ond mantais. Felly Arglwydd, pan ganfyddi weithio o honof ddigon, boed im' huno yn dangnefeddus: a phan ganfyddi gysgu o honof ddigon, dihuna fi megis Lazarus, *Yr wyf fi yn myned i'w ddihuno ef.*

Ni ddywedaist, "Gadewch in' fyned a'i ddihuno." Y rhai a ganiattei i fod yn gwmni ar y ffordd, ni chaniattei iddynt fod yn gyfrannogion o'th waith. Gallant fod yn dystion, ond nid gweithwyr. Nis gall neb ddihuno Lazarus o'r cwsg hwn, ond y neb a'i gwnaeth. Gall pob llygoden neu wybedyn ein codi o'n cwsg arall: dim ond Hollalluogrwydd o hwn. Nid yw'r cwsg hwn heb ymddattodiad. Pwy all orchymyn i'r enaid ddisgyn a chyfarfod â'r corph, neu orchymyn i'r corph gasglu ei ddarnau at eu gilydd, a chyfodi at yr enaid, ond y Duw a wnaeth y ddau? Ein cyssur a'n sicrwydd, O Arglwydd, yn erbyn dychrynfeydd angau a gafaelgarwch y bedd yw nad yw ein hadgyfodiad yn dibynnu ar neb, ond dy Hollalluogrwydd di.

Pwy all feio ar y disgyblion, os oeddynt yn anfoddlon i ddychwelyd i Judea? Yr oedd eu croesawiad diweddaf y cyfryw, fel ag i'w cyfiawn ddigalonni. Pe hyn yn llythyrennol oedd achos holl daith beryglus yr Iachawdwr, ymresyment yn iawn. *Os huno y mae, efe a fydd iach.* Cwsg, mewn saldra,

sydd arwydd da o adferiad: canys y mae dirfawr boen yn ymlyd ymaith esmwythder: pan gaiff natur gan hynny gymmaint o lonyddwch, gobeithia yn gyfiawn am iachad. Etto, ni chanlyna bob amser—*Os huno y mae, efe a fydd iach.* Pa nifer a fuont feirw mewn llewygfeydd! Pa nifer a gollasant yn eu cwsg, yr hyn ni ymadawsent âg ef yn effro! Adda a hunodd, a chollodd ei asen. Samson a gysgodd, a chollodd ei nerth. Saul a gysgodd, a chollodd ei offeryn. Isboseth a Holofernes a gysgasant, a chollasant eu pennau. Yn y cyffredin, gwir yw: yma cyfeiliornasant. Eu gau esboniad ar eiriau Crist, a barodd iddynt wneuthur cynnygiad annhymmorol a chyfeiliornus. Nid oes dim yn fwy peryglus na chymmeryd ymadroddion Crist yn ol swn y llythyren: un camsyniad fydd sicr o ddwyn eraill ar ei ol; ac os gall fod y cyntaf yn ddibwys, gall fod yr olaf o bwys dirfawr.

Beth yw dyben geiriau, ond er mynegi meddyliau? I ba beth y llefarwn, ond er ein deall? Pan ganfyddodd Iesu nad oedd ei eiriau yn cael eu hiawn ddirnad, dywaid yn eglur, *Bu farw Lazarus.* Cyfryw yw dy arferiad, O dragywyddol Air y Tad, yn dy holl ddywediadau sanctaidd. Dy enau dy hun yw'th esboniad goreu. Yr hyn a ddywedaist yn lled dywyll mewn un man, dehongli ef yn eglurach mewn man arall. Tydi yw'r haul, yr hwn a roddi y goleuni hwnnw, trwy'r hwn y'th ganfyddwn dy hun.

Ond pa mor wylaidd y datguddi dy Dduwdod i'th disgyblion! Nid ar y mynegiad cyntaf o farwolaeth Lazarus, gan grybwyll yn ddiattreg am dy allu a'th ewyllys i'w adfywio: ond gan ymfoddloni rhoddi rhyw led-arwydd o'th Hollalluogrwydd, trwy allu, er yn absennol a phell, gwybod a mynegi am ei ymadawiad, cânt hwy gasglu'r llall; ac nis gallant ond meddwl, "Gwasanaethwn Feistr, yr hwn a wyr bob peth: a'r hwn a wyr bob peth, a all wneuthur pob peth."

Nid oedd pellder Iesu oddiwrth wely angau Lazarus yn ddamweiniol, eithr bwriadol, ïe, y mae yn llawen o'i blegid. *Llawen wyf er eich mwyn chwi nad oeddwn i yno.* Pa mor groes i'w gilydd y gall teimladau Crist a'r eiddo ni fod, ac, etto, 'r ddau yn eu lle! Y ddwy chwaer grefyddol a ymofidient oherwydd absennoldeb Crist, gan dybied ei fod yn lled-arwyddo esgeulusdod. Yr oedd Crist yn llawen o'i achos, er mantais ffydd ei ddisgyblion: nis gallaf feio ar eu tristwch, na llai na'i

fendithio yntau am ei lawenydd. Yr oedd ennill eu ffydd hwy trwy wyrth mor Ddwyfol, yn fwy nag y gallasai eu gofid munudol ei wrthbwyso. Nid y w'r un dygwyddiadau yn effeithio ar Dduw a ninnau yn yr un modd. Y mae ef yn chwerthin lle yr ydym ni yn galaru : y mae yn ddig pan fyddom ni wrth ein bodd.

Gwahaniaeth y teimladau a gyfyd oddiar wahaniaeth y gwrthddrychau, y rhai a ddirnadir gan Grist a hwythau yn yr un dygwyddiad. Paham y galara'r chwiorydd? Am i Lazarus farw trwy fod Crist yn absennol. Paham y llawenhai'r Iesu nad oedd yno? Oherwydd y fantais a ganfyddai a ddeilliai i'w ffydd. Y mae gwahanol olygiad ar bob gweithred, yn ol ei gwahanol amcanion a'i chanlyniadau : hyd yn oed, i'r un llygaid. Gwel tad ei fab yn ymladd dros ei wlad : canfydda ergydion a chlwyfau ar un llaw : buddugoliaeth ac anrhydedd ar y llall : ymofidia oherwydd y clwyfau ; ymlawenycha yn yr anrhydedd. Fel hyn y gwna Duw yn ein holl gystuddiau : gwel ein dagrau, clyw ein griddfannau, a thosturia wrthym : edrycha hefyd ar ein hamynedd, ein ffydd, a'n coron, a llawenycha oherwydd ein cystudd. O Dduw, paham na chyd-ymffurfiwn â thi? Pan orweddom mewn poen, nis gallwn lai na dihoeni dano : ond a gawn ein bod yn cynnyddu mewn gwir farweiddiad, amynedd, gobaith, a gwastadol hyder yn dy drugareddau di? Paham na orfoleddwn yn y rhai'n yn fwy nag yr ymofidiwn am y llall? Gan fod y gronyn lleiaf o gynnydd mewn gras yn fwy ei werth nag y gellir ei gyfartalu à phwysau lawer o ofid corphorol.

O, gasgliad rhyfeddol! *Lazarus a fu farw :* er hynny, *awn atto ef.* Rhaid eu bod yn meddwl, "Beth a wnawn â dŷn marw? Beth a ysgara, os na wna angau?" Gochelwn, ïe, y rhai a hoffwn fwyaf, pan fyddont feirw. Yn awr, gosodwn hwy heibio dan yr astyllen, ac oddi yno anfonwn hwynt allan o'n tyau i'w beddau. Ac nid yw angau'n fwy brawychus na ffiaidd : a phe gallem erfyn ar ein llygaid oddef edrychiad brawychus ar y wyneb a garem, etto, a allwn berswadio ein harogliad hoffi'r arogl a gyfyd oddiwrth eu llygredd? *O, gariad cryfach nag angau!* Wele yma gyfaill, yr hwn nis gall y bedd ei ysgaru. Y sawl a ysgrifennant y parhad hwyaf a gwresoccaf o'u cyfeillgarwch, a dan-ysgrifant ond, *Eich cyfaill hyd angau :* ac os cyfeillgarwch dynol a ymestyn etto ychydig yn mhellach,

nid â ond at fin y bedd: gall cyfaill ein dilyn hyd yma, a'n canfod yn cael ein dodi yn y tŷ gwael hwn: ond gâd ni yno i'n pryfed a'n llwch. Ond, O Iesu, nid yw'r bedd-faen, y pridd, yr arch, yn terfynnu dy gariad di: y mae dy rasol serch ar y sawl a gerí, ïe, ar ol eu marw, a'u claddu, a'u llygru. Heblaw yr enaid, (am yr hwn ni ddywedi, "gadewch i ni fyned atto," ond "deued ef attom ni,") y mae gennyt ofal grasol am y llwch hwnnw, yr hwn oedd, ac a fydd, yn ddiau, yn rhan o aelod y corph dirgelaidd hwnnw, o'r Hwn Tydi yw'r pen. Ni fedd na nef na daear y fath gyfaill a thydi. O, par i mi ddymuuo dy gariad, a bod yn anesmwyth hyd y teimlwyf fy hun mewn meddiant o honot ti.

Buasai'r gair hwn, *Bu farw Lazarus, ond awn atto ef*, yn annghymmwys yn ngenau dyn yn unig: yn yr eiddo ti, O Iesu Hollalluog, nid oedd yn fwy cariadus na phrydlon: yn gymmaint ag y gallaf yn gyfiawn ddywedyd am danat, fod i ti fwy a wneli â'r meirw na'r byw: canys y mae iddynt anfeidrol mwy cymmundeb â thi, a thi â hwythau. Nis gall angau rwystro ein mynediad attat ti, na'th ddychweliad attom ni. Llawen wyf am fod yr amser yn neshau, pan y deui i bob'un o'n beddau, a'n galw i fynu o'n llwch, *ac ni a glywn dy lais, a byddwn fyw.*

Ioan xi.

LAZARUS YN CAEL EI GODI.

Mawr oedd tyb y chwiorydd hyn am allu Crist: megis pe nas meiddiasai angau ddangos ei hun iddo, credasent y rhwystrasai ei bresennoldeb ymddattodiad eu brawd. Ac yn awr, y newydd ei fod yn agos, a gynhyrfa ryw obaith ddiweddar ynddynt.

Martha oedd bob amser y mwyaf heini. Hi, yr hon gynt a ymsymmudai mor ddiwyd yn ei thŷ i roesawi'r Iesu, sydd yn awr mor esgud i fyned allan o hono, i'w gyfarfod. Hi, yn wyneb yr hon y buasai llawenydd yn arferol o wenu ar letty-edig mor wynfydedig, yn awr a'i cyfarcha âg ocheneidiau, a dagrau, a gruddiau chwyddedig, ac nyddwasgiadau galar-wraig ddigyssur.

Nis gwn pa un ai oedd ei chyfarchiad yn fwy galarus na chre-

fyddol. Cawsai ei chateceisio'n dda o'r blaen. Eisteddasai hithau hefyd wrth draed yr Iesu: a gall yn awr roi hanes da am ei ffydd yn ngallu a Duwdod Crist, a sierwydd yr adgyfodiad yn ol llaw. Y cyd-ymddiddan hwn a ddysgodd iddi etto fwy, ac a dderchafodd ei chalon i ddisgwyl rhyw weithred ryfeddol.

Ac yn awr ni erys yn llonydd, eithr brysia yn ol i'r pentref at ei chwaer: dygwyd hi yno â dwy aden ei gobaith ei hun, a gorchymyn ei Gwaredwr. Bu amser, pan y galwodd ei chwaer oddiwrth yr Athraw nefol, i ofalu am orchwylion y tŷ: yn awr, rhed i'w dwyn allan o'r tŷ at draed Crist.

Diammau i bresennoldeb Crist fawr effeithio ar Martha, ac megis y gorlenwasid â gorfoledd trwyddo, gwyddai y buasai lawn mor hyfryd i'w chwaer: etto, nid yw yn ei floeddio allan yn y cyntedd cyhoeddus, ond sibrwda yn ddirgel y newydd cyssurus yn nghlust Mair, *Fe ddaeth yr Athraw, ac y mae yn galw am danat:* naill ai o wylder neu gallineb. Nid gweddus i wraig fod yn llais-uchel a bloeddgar. Nid gweddusach dim i'r rhyw hon na distawrwydd a gwylder: fel nas gwelid yn ormodol, ac nas clywyd o bell. Ac ni phrydferthodd gwylder ei thafod yn fwy na challineb, pa un ai gyda golwg ar yr ymwelwyr, neu ar Grist ei hun. Pe clywsent fod Crist yno, ymneillduasent oddiwrtho, naill ai oherwydd ofn neu ragfarn: ac nis meiddiasent fod yn dystion o'r wyrth ryfeddol honno, gan y buasent yn llawn braw oherwydd y gorchymyn a roddasai'r Iuddewon allan yn ei erbyn; neu, efallai, y cadwasent y chwiorydd rhag myned atto Ef, yn erbyn yr Hwn gwyddent pa mor llidiog oedd eu llywodraethwyr. Nid oedd chwaith yn anwybodus o'r perygl yr oedd Ef ei hun ynddo, gan y fath ymosodiad creulon gael ei wneuthur yn ei erbyn, mor ddiweddar, gan ei elynion yn Jerusalem. Gwyddai eu bod o fewn cyrhaedd mwg y ddinas waedlyd honno, sef nyth ei gaseion: nis barnodd yn ddoeth, gan hynny, gwneuthur eglur gyhoeddiad o bresennoldeb Crist, ond mynega ef yn ddirgel i'w chwaer. Nid yw Cristionogrwydd yn ein rhwymo i daflu ymaith ein gochelgarwch a'n onest gyfrwysdra: ïe, gorchymyna fod ynom gymmaint o'r sarph ag o'r golommen. Y mae amser pan raid in' bregethu Crist ar ben y tŷ: y mae amser pan y mae'n rhaid in' son am dano yn y glust, ac, megis â gwefusau cauedig. Y mae i ddirgelwch ei ddefnyddioldeb yn gystal ag i amlygiad.

Dywedodd ddigon, *Daeth yr Athraw, ac y mae'n galw am danat.* Y fath air hyfryd oedd hwn! Y fath ffafr fawr a ddangoswyd yma—fod i Arglwydd y bywyd ddyfod yn bersonol, a galw am Fair! Etto, nid yw'r ffafr hon yn briodol iddi hi. Deui attom ni o hyd, O Iesu; os nid yn dy bresennoldeb corphorol, etto yn dy un ysbrydol: gelwi am danom o hyd; os nid à'th lais personol, etto, yn dy ordinhadau. Ein bai ni yw, os, fel y wraig hon, na chodwn ar unwaith, a myned attat. Ei chyfeillion oeddynt o'i hamgylch, y rhai a ddaethent i'r dyben o gyd-alaru â hi: ei chalon a lenwasid â gofid; er hynny, mor gynted ag y clywodd son am Grist, annghofia gyfeillion, brawd, gofid, gofalon, meddyliau, gan brysuro i'w bresennoldeb.

Safai'r Iesu etto yn y lle y gadawsai Martha ef: dywedir hyn, naill ai er dangos cyflymdra Mair, neu ei benderfyniad doeth a grasol ei hun: gallasai ei bresennoldeb yn y pentref, efallai, beri perygl, ac anfon ymaith y rhai a fwriedid i fod yn dystion o'r weithred: neu, ysgatfydd, er amlygu ei fawr awydd i gyflawni'r neges y daethai yn ei gylch: fel, megis na dderbyniai gwas Abraham garedigrwydd o dŷ Bethnel, hyd y cyflawnai waith ei Feistr, mewn perthynas i Rebecca: felly, O Iesu, ni wnaet gymmaint a myned i dŷ'r chwiorydd hyn yn Bethania, hyd y cyflawnet y gwaith gogoneddus, oherwydd yr hwn y daethet yno. *Dy fwyd oedd gwneuthur ewyllys dy Dad.* Dy wledd bennaf oedd ynot dy hun. Pa fodd y dilynwn di, os goddefwn i bleser neu elw daearol fod o flaen dy wasanaeth gennym?

Felly, menywaid da a deilyngent gyfeillion tyner. Diammau, gan nad oedd Bethania ond dwy filldir o Jerusalem, fod ganddynt lawer o gydnabyddiaeth yn y ddinas. Y rhai'n, gan wybod anwyled oedd Lazarus, pan glywsant am ei farwolaeth, a ddaethant drosodd i ddiddanu'r chwiorydd gofidus. Tynerwch, yn gystal ag arferiad y genedl honno, a'i galwodd i'r ddyledswydd hon. Disgwiliwn yn mhob trallod am y tiriondeb hwn oddiwrth y sawl a'n carant: ond yn enwedig mewn angau, megis y gofid mwyaf, ac a wna'r galanastra mwyaf echryslon mewn teuluoedd, dinasoedd, teyrnasoedd, a bydoedd. Blin yr achwyniad hwnnw, *Edrychais am gyssurwyr, ac nid oedd neb.* Y mae cael rhai i gyfrannogi o'n trallod, i ryw fesur, yn ei ysgafnhau: megis yr ysgafnheir baich trwy lawer o ysgwyddai:

neu megis y troa'r cymmylau eu gwlybaniaeth yn hawdd i awyr, pan wasgerir hwy i amryw ddafnau. Y mae, hyd yn nod, presennoldeb cyfeillion yn lleihau galar. Y perygl a gyfyd i'r galon, oherwydd ein teimladau, a dardda oddiwrth ei sefydlogrwydd, pan, fel eli ysgol, y bwytty i'r dolur.

Y cymmydogion cyfeillgar hyn, pan welsant Mair yn myned allan, a'i dilynasant ar frys. Aethai Martha allan o'r blaen; nis gwelaf neb yn ei dilyn: Mair a â allan, ac y maent yn ddiattreg wrth ei sodlau. Ai oherwydd y gallai Martha, am ei bod y chwaer henaf, a llywodraeth-wraig y tŷ, fyned oddiamgylch heb beri cymmaint sylw? neu, am mai Mair, am ei bod yn fwyaf ei theimlad, oedd yn gofyn y gofal mwyaf? P'odd bynnag, eu gofal a'u hystyrioldeb ydynt dra chanmoladwy: daethent i'w chyssuro: gwnant yr hyn y daethent i'w wneuthur. Nid ymfoddlonant ar eistedd a siarad yn y tŷ, ond dilynant hi i bob lle. Terfysgiadau'r meddwl ydynt glefydau. Gweinyddwyr da ni ofalant am y claf ar ei wely yn unig, ond pan yr eistedda i fynu, ac yr ymdrecha rodio. Rhoddant iddo eu cynnorthwy'n ofalus yn ei holl symmudiadau. Nid y'm gyfeillion cywir, os nad yw ein hymdrechion i symmud ymaith ofid y sawl a garom yn ddiwyd a diflino.

Tyb gariadus oedd, *Y mae hi yn myned at y bedd, i wylo yno.* Gwych y gwyddent mor dueddol yw'r galon deimladwy i geisio achlysuron i newyddu ei gofid. Y mae pob gwrthddrych yn effeithio arni. Pan ganfyddai ystafell ei brawd marw, meddyliai yn y fan, "Dyna'r lle yr arferai Lazarus orwedd ynddo," ac yna dagrau o'r newydd a ddylifent. Pan edrychai ar yr ardd, "Dyna'r fan y rhodiai Lazarus ynddo," ac wylai drachefn. Pa faint mwy, yn ol tyb y cyfeillion hyn, y cyffroisid ei theimlad trwy olwg ar ei fedd, pan y meddyliai, "Dyna'r fan y mae Lazarus ynddo!" O Iesu, os gall gorweddle corph marw ein cyfaill dynnu ein calonau atto, ac effeithio arnynt yn ddwys, pa fodd y dylai'r nefoedd dynnu ein calonau atti, lle yr eisteddi di ar ddeheulaw dy Dad. Yno y mae dy gorph a'th enaid di, *yr hwn a fuost farw, ac ydwyt fyw,* yn unedig â'th ogoneddus Dduwdod. O, bydded ein tynfa tua'r lle hwn: nid i alaru, lle nid oes lle i alar: eithr i lawenhau â llawenydd anrhaethadwy a gogoneddus, a bydded i'n hiraeth gynnyddu am dy wyddfod dedwyddol.

Eu tyner gariad a gamsynia yn nghylch neges Mair. Er

tirioned eu meddyliau, yr oeddynt o lawer yn rhy isel. Tra y tybiant fyned o honi at frawd marw, aethai hithau at Waredwr byw. Y mae'r byd yn barnu cyflawniadau ac ymddygiad yr ail-anedig yr hyn ni amcenir hwynt, gan eu deongli yn ol eu rheswm cnawdol eu hunain. Barnant eu bod yn farw, ac, wele, byw ydynt: yn alarus, a hwythau yn wastad yn llawen; yn dlodion, a hwythau yn cyfoethogi llawer. Mor gyfiawn yr appeliwn oddiwrthynt, megis barnwyr annghymmwys: ac y tosturiwn wrth y gau ddarluniadau, y rhai nis medrwn eu gochelyd!

Y ddwy chwaer a gyfarfuasant â'r Iesu: ond nid yn yr un agwedd. Y mae Mair o hyd yn enwog, megis am gryfach teimlad, felly am ddwysach defosiwn: yr hon gynt a eisteddai, yn awŕ a syrthia wrth draed yr Iesu. Buasai gynt yn gynnefin â phresennoldeb Crist, ac i ryw fesur yn ëofn âg Ef: yn awr gosoda hi ar ei gliniau gyda'r parch dwysaf. O, addefiad anrhydeddus o'i ddirgel ragoroldeb a'i allu; neu O, ddistaw arwyddoccad o'i chais o ran ei brawd marw, yr hwn a ofnai ei fynegu. Yr oedd, ïe, ei ystum yn erfyniol. Pa agwedd gorphorol a all fod yn addasach in', wrth ymbil â'n Gwaredwr? Anfoesgarwch digrefydd yw gwneuthur llai. Lle y mae mawrhydi yn peri braw i'r galon, nis gall y corph lai nag ymgrymmu.

Syrthia Mair fel hyn wrth draed yr Iesu yn ngwydd ei holl gymmydogion o Jerusalem. Yr oedd yno gynnifer o yspiwyr ag oedd o dystion o'r parch gwaharddedig hwnnw. Nid llai nag esgymmundod oedd cyffesu Crist: er hynny Mair dduwiol, heb ofni'r copinod a allesid ei roddi gan y clecciaid Iuddewaidd hynny, a'i haddola: a thrwy ei hagwedd ddistaw, dywaid gymmaint ag a ddywedasai ei chwaer o'r blaen, *Ti yw y Crist, Mab Duw.* Y sawl a fynnant roddi yr hyn sydd ddyledus i Grist, rhaid iddynt osod heibio eu hofnau. A ydym ofnog wrth natur? Paham nad ofnwn ein gwrthodiad gan yr Hollalluog. *Oddi allan y mae'r ofnog.*

Chwanega gwŷn galarus at ei gostyngedig ymgrymiad. *Arglwydd, pe buaset ti yma, ni fuasai marw fy mrawd.* Y mae'r ddwy chwaer o'r un farn, o'r un ymadrodd: a'r ddwy, yn yr un iaith, a amlygant nerth a gwendid: nerth ffydd, yn priodoli gogoniant i Grist, sef y gallai ei bresennoldeb gadw angau draw: gwendid, trwy dybied ei bresennoldeb yn rheidiol er hynny. Paham, Mair, na allai dy Waredwr Hollalluog yn

gystal yn ei absennoldeb orchymyn i Lazarus fyw? A ydyw ei law mor egwan fel na all wneud dim ond trwy gyffyrddiad? Pe meidrol fuasai ei allu, pa fodd y gallasai wahardd angau? Os anfeidrol, pa fodd y galled ei gyfyngu at le, neu ei rwystro trwy bellder? Gwendid ffydd yw mesur llwyddiant wrth foddion, a moddion wrth bresennoldeb, ac uno effeithiau â'r ddau, wrth sôn am Weithydd Hollalluog. Achosion terfynol a weithiant o fewn eu cylch eu hunain: pob lle sydd mor agos a'u gilydd, a'r naill orchwyl mor hawdd a'r llall i anfeidroldeb. O Iesu, tra yr eisteddi yn awr mewn gogoniant yn y nef, ni chyfrannu dy hun ddim llai i ni, na phe safet yn weledig yn ein hymyl, na phe safem ni wrthyt ti. Nis gall un lle beri gwahaniaeth o ran dy rinweddau, o ran dy gynnorthwyon.

Hyn oedd cwyn Mair: ni erfyniodd ddim mewn geiriau ar ein Iachawdwr. Ei distaw gais a attebir yn ddistaw hefyd. Ni sylwir ar ei chyfeiliornad. O drugaredd ryfedd, yr hwn a â heibio i'n gwendidau beius! Yr holl atteb a glywaf yw, ochenenaid gyd-ymdeimladol ynddo ei hun. O Iesu bendigedig, yr Hwn oeddit rydd oddiwrth bob pechod, ni fynnet fod yn rhydd oddiwrth deimladau grymmus. Byddai eisiau llawer o waith ar ddoethineb a sanctteiddrwydd, pe cyfrifid teimladau cryfion yn feius. Mair a wylodd: ei dagrau a dynnent ddagrau oddiwrth ei chyfeillion: eu dagrau oll a dynnasant ocheneidiau oddiwrth yr Iesu. Ni thosturi lai wrth ein gofidiau yn dy nefoedd. Dy ogoniant sydd rydd oddiwrth ocheneidiau, ond llawn yw o dosturi a thrugaredd. Os yw'n dagrau yn lluosog, nis gelli lai na theimlo ein trallodion. Pa fodd y tebygolwn it' os na attebwn ddagrau, fel ein drych, gan wylo ar y sawl sy'n wylo arnom ni!

Arglwydd, gwyddet, er yn absennol, fod Lazarus wedi marw: ac oni wyddost lle y claddesid ef? Diau dy fod yn mhellach, pan welaist ac yr hysbysaist ei farwolaeth, nag oeddit oddiwrth ei fedd, yr hwn yr ymofynaist am dano. Ti, yr hwn a wyddost bob peth, etto a ymofyni am yr hyn a wyddost. *Pa le y dodasoch chwi ef?* Nid o angenrheidrwydd, ond o ewyllys: fel y gallet iselhau dy hun, dros yr amser, trwy dy ymofyniad yn gystal a'th alar, yn ngolwg yr edrychwyr, fel y byddai gogoniant y wyrth a wneid yn y fan yn fwy, po leiaf y disgwylid am dani. Yr un peth i'th Hollalluogrwydd fuasai gwneud Lazarus newydd o ddiddim, neu, yn y pellder hynny, gorchymyn Laz-

arus, lle bynnag yr oedd, i ddyfod allan: ond nid oeddit am wneuthur mwy o wyrthiau nag oedd angenrheidiol, ac ewyllysiet gyffroi meddyliau i ddisgwyl rhywbeth rhyfeddol ag oedd yn dy fwriad i'w gyflawni: am hynny gofynnir, *Pa le y dodasoch chwi ef?*

Nid yw eu llawenydd yn fwy oherwydd y cwestiwn, na'u parodrwydd i'w atteb, *Tyred a gwel.* Arfer yr Iuddewon, megis yr Aiphtiaid, yn mhlith y rhai y trigasent, oedd trin cyrph eu cyfeilliion gyda pharch mawr. Aed i fwy o draul ar rai o'u beddau, nac ar eu hanneddau. Megis rhai heb gywilydd arnynt, nac anfoddlonrwydd ynddynt, i ddangos gweddeidd-dra eu claddfa, dywedant, *Tyred a gwel.* Disgwylid mwy oddiwrth Grist, na'r olwg yn unig. Disgwyliasant y tynnasai ei lygad ef i wneuthur rhyw weithred fawr. O Iesu, tra y dymunom ein hadgyfodiad ysbrydol, pa fodd y dylem lafurio dy ddwyn at ein bedd! Pa fodd y dylem osod ger dy fron ein marwoldeb, a'n gwendid, a'n hannheimladrwydd! Tyred Arglwydd, a gwel y fath ysgerbwd truenus wyf, a thrwy rym dy drugaredd, cyfod fi o'm llygredigaeth.

Ni fu'r Iesu erioed yn fwy ymddarostyngedig nag yn awr, yn ddiattreg yn flaenorol iddo amlygu a derchafu ei dduwdod. Chwanega ei ddagrau at ei ocheneidiau a'i alar tumewnol. Yn y fan cânt ei addef yn Dduw, a'r teimladau amlygiedig hyn a eglurant ei ddyndod.

Deongla'r Iuddewon hyn yn dda, *Wele, fel yr oedd yn ei garu ef.* Ni ddygodd ddim erioed ond cariad ddagrau oddiwrth Grist. Ond cam-ddeonglant yn ddirfawr yn y peth arall. *Oni allasai hwn, yr hwn a agorodd lygaid y dall, beri na buasai hwn farw chwaith?* Gallasai, gwybyddwch, O ymofynwyr ffol, wneuthur hynny yn hawdd. Agoryd llygaid un a anesid yn ddall, oedd fwy na chadw dyn claf rhag marw: ni fuasai hyn ond cynnal natur rhag methu: hynny fuasai creu synwyr newydd, ac adferu i natur yr hyn oedd ddiffygiol ynddi. Gwneud llygad oedd lawn mor anhawdd a gwneud dyn: yr hwn a wnaeth y mwyaf, a allasai wneud y lleiaf. Cewch weled yn fuan mai nid oherwydd eisiau gallu oedd hyn. Pe dywedasech, "Paham nas mynnai ei wneuthur,"—"paham nas gwnaeth," buasai eich cwestiwn yn deccach, a'r atteb yn llawn mor hawdd. Er mwyn mwy o ogoniant iddo ei hun. Ychydig a wyddoch am amcanion Duw yn ei weithredoedd neu ei oediadau,

a gwyddoch gymmaint ag a deilyngwch. Boed yn ddigon i chwi wybod y gwna Ef, yr Hwn a all wneud pob peth, yr hyn fydd fwyaf er ei anrhydedd ei hun.

Nid annhebyg i'r Iesu, yr hwn a ochneidiodd ynddo ei hun o dosturi at eu dagrau, yn awr, ocheneidio oherwydd eu hanghrediniaeth. Nis gallai dim drallodi Iachawdwr dynion gymmaint a phechodau dynion. Pe gallesid ysgaru eu cam allanol â'i gorph oddiwrth droseddau yn erbyn ei Berson dwyfol, ni effeithiasai eu gwawd a'u hanmarch gymmaint arno. Nid oes un cam mor ddwfn a hèr ysbrydol i Dduw. Ddynion annedwydd! Paham y tristhaem Ysbryd Duw ynom? Paham y gwnaem iddo ef ocheneidio drosom, yr Hwn a drengodd er ein hachub?

Gyda'r ocheneidiau hyn daethost, O Iesu, at fedd Lazarus: Yr oedd drws y tŷ angau hwnnw yn gadarn ac anrheiddadwy. Dy air cyntaf oedd, *Codwch ymaith y maen.* O, ddechreuad egwan o wyrth alluog! Os bwriedaist godi'r meirw, pa gymmaint hawddach fuasai symmud y bedd-faen! Un gronyn o ffydd, ïe, yn dy ddisgyblion, oedd ddigon i symmud mynyddoedd; ac a ddywedi, *Codwch ymaith y maen?* Meddyliaf fod pwys trymach ar gorph Lazarus na'i fedd-faen; pwys angau a llygredigaeth: nid oedd mynyddoedd a chreigiau filoedd mor drymmed baich: ac, er hynny, a gyfrifi y rhawied hon yn rhyw beth? Pa mor hawdd a fuasai it' godi corph Lazarus trwy'r maen, trwy beri i'r marmor hwnnw roddi ffordd trwy deneuhad disymmwth! Ond bernaist yn oreu defnyddio eu dwylaw hwy yn hytrach: naill ai er eu hargyhoeddi'n ddwysach: canys pe symmudasid y maen gan dy ddisgyblion, a phe daethai Lazarus allan, gallasai hyn ymddangos i'th elynion maleisus yn gyngrair rhyngot ti a'th ddisgyblion, a Lazarus: neu er cadarnhad ein ffydd, fel y dysget ni i hyderu ynot dan ymddangosiadau gwrthwynebol.

Dy orchymyn i symmud y maen a ymddangosai fel yn arwyddo gwendid: yn union-gyrchol y gwendid hwnnw a dyr allan mewn gweithredoedd o hollalluog allu. Yr ymddangosiadau gwaelaf o'th wendid dynol ydynt yn nglyn â phrofion cedyrn o'th Dduwdod; a'th wyrth a bar gymmaint mwy syndod ag oedd absennoldeb o ddisgwyliad am dano.

Iawn yr ewyllysi bob amser i ni wneud a allom. Symmud y maen, neu ddattod y napcyn, oedd o fewn eu gallu: hyn, gan hynny oedd raid iddynt ei wneuthur: codi'r marw oedd tu

hwnt i'w gallu, hyn, gan hynny, a wnei'n unig. Rhaid i'n dwylaw wneud eu goreu, cyn yr arferi yr eiddo ti.

O Iesu, yr ydym bawb yn feirw a chladdedig yn medd ein hanian lygredig. Rhaid i faen ystyfnigrwydd gael ei symmud oddiwrth ein calonau, cyn y gallwn glywed dy adfywiol lais: nis gallwn symmud y maen hwn, mwy na Lazarus ei faen yntau. Gall wn chwanegu pwys at ein beddau. O, bydded i'th alluog weithwyr, trwy rym dy gyfraith, a gras dy Efengyl, symmud y maen, fel yr elo dy lais i mewn i fedd llygredigaeth truenus.

Ai oherwydd math ar foesgarwch gwylaidd yn Martha, am na fynnai i Grist gael ei drallodi âg arogl y gelain wael honno? neu am y gwanffyddiai yn nghylch adferiad ei brawd, gan fod ei gorph wedi myned trwy bob gradd o lygredigaeth—y dywedodd, *Arglwydd, y mae weithian yn drewi; oherwydd y mae'n farw er ys pedwar diwrnod?* Yr hwn a adwaenai galonau, a ganfyddodd ryw fai yn ei dywediad. Ni thueddasai ei atteb i ddiwygio yr hyn nid oedd feius. Ofnaf i'r wraig dda hon wneuthur y sylwad hwn, megis rhwystr i unrhyw amcan neu weithrediad pellach o du Crist. Y mae ffydd fechan yn barod o hyd i osod i lawr anhawsderau ar lwybr mawrion weithredoedd Duw.

Digon oedd pedwar diwrnod i wneuthur unrhyw gorph yn ffiaidd: nid yw angau ei hun âg arogl ansawrus arno: yn union ar ei farwolaeth y corph a feddianna ei brydferthwch arferedig: parhad dan law angau a'i gwna'n anhyfryd. Fel hyn y mae hi hefyd yn ein sefyllfa ysbrydol: po hwyaf y gorweddom yn ein pechod, mwyaf oll yw ein pydrni a'n llygredd. Yr hwn a edifarha'n ddiattreg yn ol y pechod, nid yw ffiaidd ei arogl yn ffroenau Duw. Y ganwyll a chwythir i fywyd yn ddioed ni flinaneb: ei golosg, yr hwn a fogir gan ei gwlybaniaeth ei hun, yw'r hyn a enfyn i fynu darth afiachus a ffiaidd. O Iesu, ymroddaset i angau, ond ni ymroddet i lygredigaeth: erbyn y pedwarydd dydd yr oeddyt wedi adgyfodi. Nis gallaf lai na derbyn llawer codwm marwol; eithr cyfod di fi cyn im' fyned trwy raddau llygredigaeth yn fy mhechodau a'm camweddau.

Y sawl a osodasent eu dwylaw ar y maen, yn ddiau a safent yn llonydd yn awr am dro: gan edrych yn awr ar Grist, ac yna ar Martha, i ganfod beth fyddai canlyniad yr hyn y lefarasai hi: canfyddant Martha'n cael cerydd ysgafn, *Oni ddywedais i ti, pe's credit, y caet ti weled gogoniant Duw?* Y wraig

hon a addefasai o'r blaen ei chred, megis yr addefasai Crist ei fawrion fwriadau: annghofid y ddau yn awr: a rheidiol yw i'r Iesu adfywio ei chof a'i chrediniaeth. *Oni ddywedaist i ti?* Y seintiau rhagoraf ydynt agored i lewygfëydd o annghrediniaeth ac annghof: y rhai a symmudir yn unig trwy gadw yn y meddwl diugarog addewidion Duw o gynnaliaeth a chynnorthwy. O Dduw, os tydi a ddywedaist, beiddiaf gredu, gallaf fentro fwrw fy enaid ar bob gair o'th eiddot. *Ffyddlon wyt ti, yr hwn a addewaist, yr hwn hefyd a'i gwnai.*

Rhaid in' ufuddhau gorchymynion Crist er gwaethaf holl annyladwy wangalondid natur. Beth bynnag a ddywaid Martha, symmudant y maen: ac yn awr, canfyddant ac aroglant ef yn farw, yr hwn, ar fyr, a ganfyddant yn fyw. Nid yw arogl y corph mor anmhuraidd iddynt hwy, ag yw eu hufudd-dod yn beraidd i Grist. Ac yn awr, yn ol symmud pob rhywstr, a phob calon yn barod i'r gwaith, ein Iachawdwr a â at y wyrth.

Ei *lygaid* a ddechreuasant: codasid hwy i'r nef. Maleisus gelwydd ei elynion oedd, yr edrychai i lawr at Beelzebub: yr edrychwyr yn awr a gânt weled o ba le y disgwylia ac y derbynia ei allu, a dysgu o ba le y maent eu hunain i obeithio am lwyddiant. Rhaid i'r llygad a'r galon gyd-fyned. Yr hwn a fyn ymwneud â Duw, rhaid iddo wahanu ei hun oddiwrth y ddaear, ac ymdderchafu uwchlaw iddi.

Ei dafod a eilia ei lygad. *Y Tad.* Ni thramgwyddai dim yr Iuddewon gymmaint a bod Crist yn cyfenwi ei hun yn Fab Duw: cyfrifid hyn yn gabledd ynddo, haeddiannol o labyddiad. Mor brydlon y dywedir y gair yn ngwydd yr Iuddewon, ger bron y rhai profir ar fyr ei fod felly. O rai ceccrus, a feiwch ar yr enw hwnnw, yr hwn a gewch ei weled yn cael ei gyfiawnhau i'r eithaf? Gwych y geilw ef Dduw yn Dad, yr hwn a ddichon godi'r meirw o'r bedd. Yn ofer y chwyrnwch wrth y titl, pany'ch argyhoedder o'r effaith.

Nis clywaf weddi, eithr diolch am wrando. O, fel y gwrendy'r Tad arnat, Iesu, pan nad ydwyt yn dywedyd dim. Onid oedd gyda'th Dad a thithau, megis y buasai gyda thi a Moses? Dywedaist, *Gad lonydd im', Moses*, pan nad oedd yn llefaru. Dy ewyllys oedd dy weddi. Geiriau a fynegant ein calonau i ddynion—ein meddyliau i Dduw. Gwych y gwyddet, am fod ewyllys y Tad yn un a'r eiddot ti, pe meddyliaset yn unig yn dy galon y cyfodasai Lazarus, y cawsai yn awr ei gyfodi. Nid oedd

achos i ti weddio mewn llais, yn glywedig, rhag dywedyd o'r gwrandawyr ceccrus hynny it' wneuthur y cwbl trwy erfyniad, ac nid trwy allu. Dy ddiolch a oddiwedda dy ddymuniadau: yr eiddo ni a ofynant am amser a phellder: ein diolch a gyfyd oddiar adlais ein gweddiau yn swnio o'r nef i'n calonau: Tydi, am dy fod ar unwaith yn y nef a'r ddaear, ac yn gwybod fod y rhodd yn teithio mor gyflym a'r erfyniad, a ddiolchi yn dra chymmwys wrth weddio.

Yn awr tybiwch chwi, Iuddewon ceccrus, ar unwaith, "A oes y fath bellder rhwng y Tad a'r Mab? A ydyw'n beth mor ddyeithr i'r Mab gael ei wrando, fel ei fod yn diolch am hynny megis bendith anarferol? Oni chanfyddwch bod y gwr a wnaeth eich calonau yn eu hadnabod, ac yn rhagflaenu eich meddyliau â'r un anadl? *Myfi a wyddwn dy fod di yn fy ngwrando bob amser, eithr er mwyn y bobl sydd yn sefyll o amgylch, y dywedais, fel y credont.*

P'odd, Iesu grasol, y rhyfeddwn dy ddaioni yn ddigonol, yr hwn a wnai ein crediniaeth yn wrthddrych dy athrawiaeth a'th weithrediadau? Beth gwell a fuaset ti, pe credasent dy ddyfod oddiwrth Dduw? Beth waeth pe nas credasent? Ni saif dy berffeithrwydd a'th ogoniant ar sail ein cymmeradwyaeth neu'n hannghymmeradwyaeth ni: eithr y mae'n wirioneddol ynot dy hun, ac anfeidrol, fel na allwn ni chwanegu atto, na chymmeryd oddiwrtho. Nyni, nyni yn unig a gawn golled neu ennill trwy dy ddérbyn neu'th wrthod: etto, cyfryw dy awydd am i ni gredu, fel, pe bai'n fwy mantais i ti nag i ni.

O Iesu, tra'r oeddit yn llefaru wrth dy Dad, dyrchafit dy lygaid: yn awr, pan y lleferi wrth Lazarus marw, derchafi dy lais, gan *lefain a llef uchel, Lazarus, tyred allan.* Ai fel y byddai grym y llais yn gyfattebol i rym dy ddymuniad? Oherwydd mai isel yw ein cais am yr hyn ni phrisiwn ond ychydig, a mai uchel yw'n llef am yr hyn y mawr-ewyllysiwn ei fwynhau. Ai fel y byddai i fawrder y llais fod yn gyfattebol i fawrder y weithred? Ai, fel y byddai'r gwrandawyr yn dystion o'r geiriau a ddefnyddid mewn gweithred mor wyrthiol? Nid iaith gyfaredd, ond gorchymynion awdurdodol a Dwyfol? Ai er arwydd o alw enaid Lazarus o le pell? Rhaid fod y llais yn uchel a glywir mewn byd arall. Ai mewn perthynas i gyflwr corph marw Lazarus oedd hyn, yr hwn y dywedasit am dano ei fod yn huno: am na ellir deffroi y rhai a

hunant yn drwm a marwol, oddieithr trwy lais uchel? Neu, ai fel darluniad o lais uchel yr udgorn hwnnw, yr hwn a dreiddia'r beddau oll, ac a y gyfoda bob cnawd o'r llwch? Felly yn awr, O Arglwydd, pan y mynnet godi enaid o angau pechod, a bedd llygredigaeth, ni wna llais esmwyth y tro. Nid yw dy orchymynion grymmusaf, dy gyhoeddiadau uchelaf o farnedigaethau, a'r melusaf o'th drugareddau, ond digonol i'r peth.

Y fath air cyfeillgar yw hwn, *Lazarus, tyred allan*, yr un a arferai pan oeddynt yn byw ynghyd. Ni ddywaid chwaith, "Lazarus, adfywia," ond megis ei olygu'n barod yn fyw, *Lazarus, tyred allan:* er peri iddynt wybod fod y sawl sydd yn feirw i ni yn fyw iddo a chydag ef; ïe, mewn cyfeillach mwy perffaith a theimladwy na phan y dygent eu clai o'u hamgylch. Paham yr ofnaf yr ysgariad, yr hwn a'm gwna'n fwy unedig â'm Iachawdwr?

Nid mwy cyfeillgar y gair na gorchymynol, *Lazarus, tyred allan.* Nid oes yma un erfyniad ar ei Dad: na thynghediad ar y marw, eithr gorchymyn penderfynol—*Tyred allan.* O Iesu, dyna'r llais a glywaf finnau unwaith yn swnio i waelod fy medd, ac yn fy nghodi o'm llwch: dyna'r llais a dreiddia'r creigiau, ac a wahana'r mynyddoedd, ac a ddwg y meirw i fynu o'r dyfnderoedd iselaf. Dy air a wnaeth bob peth: dy air a adgyweiria bob peth. Ymaith, gan hynny, âg ofnau anhyderus: yr hwn y credaf ynddo sydd Hollalluog.

Arfer yr Iuddewon oedd amgylchynu'r corph â lliain, cylymmu'r dwylaw a'r traed, a chuddio wyneb y marw. Cwymp dyn a ddygodd arno, nid gwendid yn unig, eithr gwaradwydd hefyd: er hynny, ïe, tra y mae bywyd ynddo, cuddir ei holl gorph: ond yr wyneb, am yr erys ynddo ryw wreichion o fawrhydi ymadawedig, a adewir yn agored. Yn angau, am yr ymadawa yr holl weddillion gwael hynny, gan adael gwrthyni a gwelwedd yn eu lle, cuddir yr wyneb hefyd.

Accw y gorwedd Lazarus, wedi ei rwymo â dwy gadwyn. Un gair Hollalluog a ddattoda'r ddwy. Ac yn awr, efe, yr hwn oedd yn rhwym, a ddaeth allan; efe, yr hwn ni rwystrir gan gadwynau angau, nis gellir ei rwystro gan linynau lliain. Yr hwn a roddasai fywyd a roddodd rym i symmud. Efe, yr hwn a arweiniasai enaid Lazarus i'w gorph, a arweiniodd ei gorph heb ei lygaid, a barodd i'r traed symmud heb gyflawn rydd-did i gammu'n rheolaidd. Diau i'r unrhyw

allu laccau ychydig ar ffunenau angau, fel y byddai i'r traed rywfaint o le i ysgogi, er nad gyda'r rhydd-did a ddilynodd.

Ni chodaist gorph Lazarus yn unig, O Iesu, eithr ffydd yr edrychwyr hefyd. Nis gallant wadu ei fod ef yn farw, yr hwn a welsant yn codi. Canfyddasant arwyddion angau, a phrofion o fywyd. Y ffunenau hynny a'u hargyhoeddent mai efe oedd y gwr a godasid. Dy wyrth leiaf a gadarnha'r fwyaf: y ddwy, ffydd y gwyddfodolion.

O, esampl eglur ac annhoredig o'n hadgyfodiad! Dywedwch yn awr, chwi Saduceaid digywilydd, gyda pha wyneb y gwadwch adgyfodiad y corph, pan ganfyddwch Lazarus, yn ol marw er's pedwar diwrnod, yn codi o'i fedd? Ac os cododd Lazarus fel hyn wrth frefiad Oen Duw, yr hwn oedd yn feunyddiol yn ymbarottoi i'r lladd-dŷ, pa fodd y cyffroir y meirw o'u beddau trwy ruad y llew gogoneddus anfarwol hwnnw, llais yr Hwn a ysgydwa nerthoedd y nefoedd, ac a symmuda sylfaenau'r ddaear.

Gyda pha syndod, y gallwn feddwl, yr edrychodd Martha a Mair, yr Iuddewon a'r disgyblion, ar Lazarus yn dyfod allan yn ei amdo, yn gylymmedig gan ei linynau lliain, ac yn rhodio tuag attynt! Diau i ofn a braw eu gorlenwi. Carwn ein cyfeillion yn anwyl: ond eu canfod yn ol eu marwolaeth, a hynny yn nillad y bedd, o angenrheidrwydd a bar i'n gwallt godi mewn garwedd annhrefnus.

Ac yn awr, er y buasai y peth hawddaf iddo Ef, yr hwn a dorrasai lyfetheiriau adamantaidd angau, dorri yn ddrylliau y llinynau lliain hyn, â'r rhai y rhwystrid ei Lazarus adfywiedig; etto, nis gwna hyn ond trwy eu dwylaw hwy. Efe, yr hwn a ddywedodd, *Symmudwch y maen*, a ddywedodd, *Gollyngwch Lazarus yn rhydd.* Nid ydym i ddisgwyl ei gymmorth digyfrwng Ef, yn yr hyn a allwn gyflawni drosom ein hunain. Syrthni ac annog Duw yn rhyfygus i ddigter, ydyw edrych am help anarferedig a goruwch-naturiol oddiwrth Dduw, yn yr hyn y'n gwna ni'n ddigonol â'i help cyffredinol.

Pa gyfarchiadau rhyfedd a feddyliwn fod rhwng Crist a Lazarus, yr hwn a gyfodasai; rhwng Lazarus a'i chwiorydd, ei gymmydogion a'i gyfeillion! Y fath edrychiadau syn! Y fath gyfarchiadau anarferol! Canys yr oedd Lazarus yn berffaith fel o'r blaen ar unwaith: nid oedd yma hamdden raddol er ei ddwyn i'w berffeithrwydd arferol: ac ni safodd i rwbio ei

lygaid, ac i estyn ei aelodau sythedig, neu i roddi heibio'r cwsg marwol â'r hwn y meddiannasid, ond yn ddiattreg y mae'n fyw, yn fywiog, a grymmus. Os gwnant ond gadael iddo fyned, rhodia megis pe na fuasai wedi bod yn yr afiechyd lleiaf. Rhodda a derbynia gyfarchiadau. Gadawaf hwynt yn ymhyfrydu, gan gofleidio eu gilydd, a chan ddatgan glodydd y Duw hwnnw, yr hwn a'i dygasai yn ol i fywyd.

IOAN XI.

CRIST YN MYNED I'R DEML.

Ni chymmerodd Iesu gymmaint rhwysg arno ag yn awr, pan oedd yn myned tua ei ddyoddefaint. Siwrneiau eraill a wnaeth ar ei draed, heb swn, na gosgordd: hon gyda ymdeith-drecc tywysogaidd, a lleisiau uchel. Etto, O Iesu, nis gwn pa un iw ryfeddu fwyaf—dy Fawrhydi, neu'th ostyngeiddrwydd: y mawrhydi Dwyfol hwnnw, yr hwn oedd guddiedig dan ymddangosiadau mor wael: neu'r ymostyngiad diragrith hwnnw, yr hwn a guddiai ogoniant gymmaint!

Tydi, O Arglwydd, *Cerbydau yr hwn ydynt ugain mil, sef miloedd o angelion*, a ddewiset yr hurtaf o'r creaduriaid i'th gario yn dy siwrnai olaf Frenhinol. Mor hynod y cyttuna dy enedigaeth â'th orfoledd! Hyd yn oed, yr asyn y marchogaist arno a brophwydasid yn ei gylch: ac nis gallesit gyflawni'r rhag-ddywediadau prophwydol heb dy gludo fel hyn. O, rwysg gogoneddus ond cartrefaidd.

Ni fynnet golli dim a berthynai it': Tydi, yr hwn oeddit Frenhin, a fynnet gael dy gyhoeddi felly: ond, fel yr ymddangosai nad oedd dy deyrnas o'r byd hwn, Tydi, yr hwn a allet orchymyn pob gogoniant daearol, a dybiaist yn oreu ei roddi o'r neilldu.

Y bobl yw'th ragflaenwyr yn lle brenhinoedd y ddaear, y rhai, gan y teyrnasant trwot ti, a allasent gael eu defnyddio yn dy wasanaeth hwn. Eu gwael wisgoedd hwy ydynt dy lawrlen di: Eu canghenau irion danfeydd dy ffordd. Y palmydd hynny, y rhai a arferid gael eu dwyn yn nwylaw y sawl a orfoleddent, a daenir dan draed dy anifail. Dy fawredd a'th anrhydedd ydoedd dirmygu y gogoniant hwnnw, ag yr oedd calonau bydol yn arferol o barchu.

Yn gyfiawn y tybiodd dy ganlynwyr, fod addurnau harddaf y ddaear yn haeddu dim gwell nag i ti sathru arnynt: ac ni chyfrifasant eu gwisgoedd erioed mor wychion, a phan sathrwyd arnynt gan dy gerbyd. Mor ewyllysgar y rhoddasant eu gwisgoedd oddiar eu cefnau ar hyd dy ffordd! Mor llawen y treuliasant eu hanadl yn dy ganmoliaeth. *Hosannah i Fab Dafydd—Bendigedig ywr hwn sydd yn dyfod yn enw'r Arglwydd.* P'le 'nawr y mae doctoriaid mawrion y Synagog, y rhai a wnaethent gyfraith i esgymuno pwy bynnag a addefai mai'r Iesu oedd y Crist? Wele yma, ganlynwyr dewr a di-arswyd y Messia, yn anturio ei addef ar y ffordd fawr, yn yr heolydd cyhoeddus. Yn ofer y gobeithia gelynion gweinion Crist i attal ei ogoniant: mor gynted y cuddiant â'u dwylaw wyneb yr haul rhag disgleirio i'r byd, ag yr attaliant belydron gwirionedd Dwyfol oddiwrth olygon dynion, trwy eu gwrthwynebiadau cenfigenus. Er gwaethaf drwg-anian yr Iuddewon, ei deyrnas a addefir, a ganmolir, ac a fendithir. *O tydi, yr hwn wyt deccach na meibion dynion, yn dy Harddwch marchoga'n llwyddiannus oherwydd lledneisrwydd, a gwirionedd, a chyfiawnder: a'th ddeheulaw a ddysg i ti bethau ofnadwy.*

Gyda'r rhwysg tywysogaidd, ond gwael a dirmygedig hwn, yr aeth ein Iachawdwr i enwog ddinas Jerusalem: Jerusalem nodedig, er cynt, am ei bod yn drigfan Brenhinoedd, Offeiriaid, a Phrophwydi: Brenhinoedd, oherwydd yno'r oedd gorseddfaingc Dafydd: Offeiriaid, oherwydd yno'r oedd y deml: Prophwydi, oherwydd yno y traethent eu negesau, ac y gadawent eu gwaed. Ac nis gwn pa un oedd y rhyfeddod fwyaf—i brophwyd farw allan o Jerusalem, neu fod yn ddiogel ynddi. Yno y deuai'r Iesu, megis Brenhin, Offeiriad, a Phrophwyd: Cyhoedded ef megis Brenhin: dysgai'r bobl, a rhag-ddywedai ei difrod ofnadwy, megis Prophwyd—ac megis Offeiriad, cymmerodd feddiant o'r deml, a gwahanodd hi oddiwrth ffiaidd halogiadau cyssegr-yspeiliadau Iuddewig.

Daethai yn fynych cyn hyn i Jerusalem, heb unrhyw gyfnewidiad nodedig: am nad oedd unrhyw ymddangosiad o fawrhydi. Yn awr yr ymgynhyrfodd yr holl ddinas, am iddo roddi cip-olwg ar ei frenhiniaeth. Pan ddygodd doethion y Dwyrain y newydd cyntaf am frenhin yr Iuddewon, *Herod a gythryblwyd, a holl Jerusalem gydag ef:* ac yn awr, pan y mae Brenhin yr Iuddewon ei hun yn dyfod, er gwaeled ei wedd,

y mae terfysg o'r newydd. Nid yw distawrwydd Crist, a'i anenwogrwydd yn blino'r byd: gall fod yn is-raddol heb beri terfysg: ond, os gesyd ei hun i wneud y rhwysg lleiaf yn mhlith dynion, y mae eu gwaed yn poethi: yr holl ddinas a gynhyrfir. Nid yw amgen yn matterion personol yr enaid. O Iesu, tra yr ymguddi, ac yr arosi yn llonydd yn y galon, gan gymmeryd pob peth gennym fel yn foddlon, rhoddwn it' roesawiad gwresog: ond pan unwaith y dechreui ymryson â'n llygredigaethau, ac i ddefnyddio dy allu ysbrydol, er darostwng ein cnawdol anwydau, yn awr, y mae'r cwbl mewn terfysg dirgelaidd, holl gonglau'r galon a aflonyddir.

Er nad achoswyd y terfysg hwn gymmaint gan gythrwfl a rhyfeddod. Megis pan ganfyddir rhyw wrthddrych anarferol yn yr heol boblogaidd, y rhed dynion, y llygad-ruthant, ac yr ymofynant: y traed, y tafod, y llygaid a rodiant: un edrychwr a ddwg arall yn mlaen, un a ymofyna â'r llall, ac a wasga arno: y swn a gynhydda gyda'r ymgasgliad, y naill a gynhyrfa ddisgwyliad y llall: fel hyn yr oedd yn Jerusalem.

Beth yw'r peth dyeithr hwn? Ai nid dyweddi Crist oedd Jerusalem? Oni etholasai hi allan o'r holl fyd? Oni chenedlasai blant lawer o honi, megis gwystlon o'i gariad? Pa mor gyfiawn y gallesit gwyno, O Iesu, gyda'r esampl hwnnw o amynedd. *Dyeithr oedd fy anadl i'm gwraig, er ymbil o honof a hi, er mwyn fy mhlant o'm corph.* Ynot ti y cyflawnid yr hyn a ddywedodd dy lestr etholedig am dy weinidogion, *Tydi wyt yn ddrych i'r byd, ac i'r angelion, ac i ddynion.*

Megis yr oedd yr holl fyd yn rhwymedig it' am dy ymgnawdoliaeth a'th breswyliad ar wyneb y ddaear: felly Judea yn neillduol, o fewn cyffiniau'r hon yr ymgedwaist, ac o fewn, uwchlaw pob man arall, y tair dinas, Nazareth, Capernaum, a Jerusalem: ceri yrhai ycyfrenaistiddynt fwyaf o'thamser,y pregethaist amlaf, ac y gwnaethost fwyaf o wyrthiau. Etto, yn y tair hyn ni dderbyniaist oerfelgarwch yn unig, eithr gelyniaeth. Yn Nazareth, yr oeddynt am dy fwrw i lawr bendramwnwgl o'r bryn: yn Capernaum, mynnent dy rwymo: yn Jerusalem, croeshoeliasant di o'r diwedd, ac yn awr, rhyfeddant wrth dy bresennoldeb. Nid yw'r lleoedd a'r personau hynny, i'r rhai y mae y breintiau mwyaf, bob amser yn cyfatteb iddynt, yn nychweliad eu diolchgarwch. Nid yw Crist yn ein plith yn

ein gwneuthur yn ddedwydd, ond ein croesawiad o hono. Gallwn glywed am dano bob dydd yn ein heolydd, ac, etto, bod mor ddyeithr iddo, a gofyn gyda dinaswyr Jerusalem, *Pwy yw hwn?*

Ai cymmeradwyaeth, ai diystyrwch, neu anwybodaeth, a barodd y cwestiwn hwn? Cymmeradwyaeth ei gyfeillion; diystyrwch yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid; anwybodaeth y lluaws? Diau na chynhyrfwyd ei gyfeillion â'r olygfa hon: yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid a genfigenent yn hytrach na diystyru: y lluaws, yn ddiau a ofynasant yn bryderus, am eu bod yn dymuno cael gwybodaeth. Diau i'r cwestiwn hwn gael ei ofyn gan y rhan honno o'i ddilynwyr, yr hon oedd flaenaf cyn dyfod o'r Iesu i'r golwg; yr hwn ar fyr a attebwyd trwy ei bresennoldeb. Eu dyledswydd oedd adnabod Crist, a'i ddilyn, ïe, ei gyhoeddi i eraill: yn gymmaint ag na wneir hyn ganddynt, da eu bod yn treulio eu hanadl mewn ymofyniadau. Diau fod llawer, y rhai ni adawent eu masnach-dŷ, ac nad aent mor belled a'r ffenestr a'r drws, gan ddywedyd, *Pwy yw hwn?* O Iesu, buost cyhyd yn ein plith, fel ei fod yn achos o gywilydd in' os nad ydym yn dy adnabod. Os buom yn ddifraw yn hyn, boed i'n hymofyniadau zelog wneud iawn am dano. Bydddd i rwysg allanol, a gogoniant daearol, dynnu calonau a thafodau dynion cnawdol attynt: bydded fy nghofal a'm dedwyddwch i, i ymofyn am ddim ond am danat ti.

Nid oedd angen ar y disgyblion gwyddfodol i chwilio am atteb. Pa un o'r prophwydi, yr hwn ni roddodd Ef yn eu geneuau? *Pyw yw hwn?* Gofynwch i Moses, a dywaid wrthych, *Had y wraig yr hwn a yssiga ben y sarph.* Gofynwch i'n Tad Jacob, a dywaid, *Y Silo o lwyth Judah.* Gofynwch i Ddafydd, a dywaid, *Brenhin y gogoniant.* Gofynwch i Esay, a dywaid, *Immanuel, Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tragywyddoldeb, Tywysog tangnefedd.* Gofynwch i Jeremiah, a dywaid wrthych, *Y Blaguryn cyfiawn.* Gofynwch i Daniel, efe a ddywaid wrthych, *Y Messia.* Gofynwch i Ioan Fedyddiwr, efe a ddywaid wrthych, *Oen Duw.* Os gofynwch i Dduw'r prophwydi, efe a ddywedodd wrthych, *Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd.* Ië, os rhy dda y rhai'n oll i chwi ofyn iddynt, y cythreuliaid eu hunain a wnawd i ddywedyd, *Myfi a wn pwy ydwyt, sant Duw.* Ni adawodd Crist mo hono ei hun o un tu heb dystiolaeth: yn ganlynol,

y lluaws yma sydd a'u hatteb yn barod, *Hwn yw Crist, y Prophwyd o Nazareth yn Galilea.*

Ni phrisiwch yn ddigon uchel eich Meistr, O ganlynwyr Crist, er bod eich amcan yn dda. *Prophwyd? ïe, mwy na phrophwyd?* Yr oedd Ioan Fedyddiwr felly, etto, nid oedd ond Rhagflaenor y Messia. Hwn oedd y Duw, gan yr hwn yr anfonasid ac yr ysbrydolid y prophwydi. *O Nazareth*, a ddywedwch chwi? Yr ydych yn ei gamgymmeryd. Bethlehem oedd lle ei enedigaeth, y prawf o'i lwyth, tystiolaeth ei Fessiadod. Os anrhydeddwyd Nazareth â'i bregethiad, nid oedd hynny'n achos i'w ddianrhydeddu ef â Nazareth. Diammau i'r hwn a addefasoch, faddeu yr hyn oedd feius yn eich addefiad. Ni ddarfu i chwi lefaru ond yn ol y drefn gyffredinol: y ddau ddisgybl, wrth fyned i Emmaus, yn ol ei adgyfodiad, a roddasant iddo enw arall. Y gred hon oedd gyffredin yn mhlith y bobl: a gallodd meddyliau'r werin ymgodi cyfuwch a hyn: a diammau fod hyn, ag ystyried yr amser, yn dra derbyniol gan Dad y trugareddau. Os proffeswn y gwirionedd yn ol ein gwybodaeth, er y dichon fod diffyg lawer yn ein hamgyffrediad a'n traddodiad, trugaredd ein Duw a'i derbynia, gan beidio ein barnu am yr hyn ni feddwn, eithr ein derbyn yn yr hyn sydd gennym. Pe byddai it', O Dduw, sefyll yn ddwys ar gyflawn radd o wybodaeth, O, galetted fyddai ar eneidiau filoedd! Canys, heblaw camsynied mawr mewn llawer, y mae anwybodaeth mwy. Ond yn hyn y cyfiawn fawrygwn ac addolwn dy ddaioni, am dy fod yn myned heibio ein diffygion anfoddol, ac yn coroni ein haddefiadau cywir, lle y canfyddi ymgais diwyd am ragorach gwybodaeth, yn nghyd âg onest symledd calon.

Ond, O, ryfeddol law Duw yn holl drefniad y matter hwn! Y bobl, yn gyntaf, a gyhoeddasant Grist yn Frenhin: ac yn awr, cyhoeddasant Ef yn Brophwyd. Paham nad ymarfogodd y lluoedd Rhufeinig ar un o'r achlysyron hyn? Paham nad ymderfysgodd yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid cenfigenus ar y llall? Gwnaethent gyfreithiau yn ei erbyn, cynllwynasent, er hynny, yn awr, â mewn rhwysg trwy eu hystrydoedd, gan gael ei gyhoeddi yn Frenhin a Phrophwyd, heb neb yn ei wrthwynebu. I ba beth y priodolwn hyn ond i alluog a goruwchlywiol law ei Dduwdod. Efe, yr hwn a attaliodd gynddaredd Herod a'i lyswyr, pan glywyd yn gyntaf y newydd o Frenhin wedi ei eni, yn awr a attalia holl wyrthwynebol alluoedd Jeru-

salem rhag derchafu bys yn erbyn yr amlygiad olaf a chyhoeddus hwn o swyddau Prophwydol a Brenhinol Crist. Yn ol i gig a gwaed wneud eu gwaethaf, nis gallant fod ond yr hyn a wna ef hwynt. Os llengoedd uffern a gyd-unant â phennaethiaid y ddaear, nis gallant fyned yn mhellach na'u cadwyn: pa un bynnag ai cyfodant neu eisteddant yn llonydd, cânt, trwy ordeiniad annheimladwy, gyflawni'r ewyllys hwnnw o eiddo'r Hollalluog, yr hwn a feddyliant leiaf am dano, ac a wrthwynebant fwyaf.

Gyda'r rhwysg gostyngedig, a'r fawl-floedd ddyladwy hon, yr wyt yn myned, O Iesu, trwy heolydd Jerusalem i'r deml. Dy gerddediad cyntaf nid oedd i balas Herod, neu i farchnadfaoedd neu fasnachdŷau'r ddinas boblogaidd honno, eithr i'r Deml: naill o ddyledswydd neu o angen: megis mab daionus, pan ddel o bell, ei ddisgyniad cyntaf sydd wrth ddrws ei dad: a barnai yn eithaf anaddas ymweled âg estroniaid o flaen ei gyfeillion, ac â'i gyfeillion o flaen ei dad. Heblaw hyn, yr oedd dy bresennoldeb yn fwy defnyddiol yn y deml: yno yr oedd yr annrhefn mwyaf, ac oddiyno, megis o ffynhonell lygredig, y dylifai allan i holl ffosydd Jerusalem. Meddyg doeth, yn gyntaf, a chwilia i gyflwr y pen, y galon, yr afu, y cylla, y rhanau pennaf a bywydol, cyn ymofyn yn nghylch arwyddion yr aelodau gwaelach a llai eu pwys. Diammau y dechreua pob drwg a da yn y deml. Os bydd gan Dduw ei eiddo yno, os caiff dynion yno ddim namyn athrawiaeth iachus, esampl sanctaidd, nis gall fod ar y wladwriaeth angen am ryw daenelliad o ddedwydd dduwioldeb, defosiwn, a sancteiddrwydd: megis y gwna'r arogl hyfryd o ben Aaron odrau ei wisgoedd yn hyfryd. O'r tu arall, nis gall annhrefn y Deml lai nag effeithio ar y wladwriaeth. Megis, gan hynny, y mae'r hwsmon da, pan ganfydda'r dail yn melynu, a'r canghenau yn ddiflagur, yn edrych yn ddiwyd at y gwreiddyn: felly tithau, Iesu sanctaidd, pan welaist yr annrhefn yn ymwasgaru dros Jerusalem, a Judea, a ymroddaist i ddiwygio'r deml.

Nid cynt y disgyna Crist wrth borth cyntedd allanol tŷ ei Dad, nad yw'n dechreu gweithio. Diwygiad oedd ei neges—ymdrecha ei effeithio'n rymmus. Y tir sanctaidd hwnnw a halogasid â masnach cyssegr-halogol. Cynnelid marchnad yn gyhoedd o fewn trydydd cyntedd y lle sanctaidd hwnnw. Wele yma dorf o brynwyr a gwerthwyr, er nid o bob nwyfau, (canys yr Iuddewon nid oeddynt mor ddigrefydd) ond o'r cyfryw beth-

au yn unig ag oedd o ddefnydd i'r aberthau. Daethai llawer o'r Israeliaid o bell: yr oedd o leiaf wyth ugain milldir o Ddan i Beerseba: ac nis gallent ddwyn eu hychain, y defaid, y geifr, yr ŵyn, y peilliaid, yr olew, a'r cyfryw ddarpariadau sanctaidd gyda hwynt i Jerusalem, heb anghyfleusdra mawr. Gorchymynasid gan yr offeiriaid, fod cael y rhai'n am arian yn yml yr allor; er esmwythdra i'r aberthwr, ac elw'r gwerthwr, ac, efallai, heb fod dim colled iddynt hwy eu hunain. Yr esgus oedd deg, ond yr arferiad oedd annoddefol. Meddiannydd mawr y Deml a ddaw i gynnal parch ac iawnderau ei dŷ ei hun: ac mewn digter, am y fath gamarferiad gwarthus, a chwipia allan â fflangell dair, cainge y masnachwyr cyssegr-lygrawl hynny, a ddadymchwel eu hyrddau, a dafla ymaith eu basgedau, a wasgara eu pentyrrau, ac a anfona ymaith eu cwsmeriaid gyda dolur a dychryn.

Gyda pha fraw a syndod yr edrychodd y troseddwyr hyn ar gyfiawnhawr mor annisgwyliadwy: tra y fflangellid hwy gan eu cydwybodau'n fwy na chan y rheffynau hynny, a dychryn y ceryddwr llariaidd hwnnw a'u brawychai'n fwy na'i ergydion! Ai hwn yw'r Gwaredwr addfwyn hwnnw, yr hwn a gymmerodd arno ein cleisiau, ac i fyned *dan gospedigaeth ein heddwch?* Ai hwn yw'r oen llonydd, yr hwn nid agorai ei enau dan law ei gneifwyr? Gwelwch fel y gwreichiona ei lygaid gan ddigter sanctaidd, gan anfon allan belydron llidiog i wynebau'r newidwyr arian hyn. Gwelwch fel y disgyn ergydion a dinystr oddiwrth ei ddwylaw! Fel hyn y gweddai it', O rasol Waredwr dynion, adael i'r byd weled na chollaist dy gyfiawnder yn dy drugaredd: nad oes mwy tynerwch yn dy attaliadau nag o erwindeb yn dy digter cyfiawn—y gelli di daranu yn gystal ag ymddisgleirio.

Nid hwn oedd dy weithred gyntaf o'r natur hyn. Dechreuaist dy waith cyhoeddus megis yn awr y dibenni ef, trwy buro dy dŷ. Unwaith o'r blaen y chwipiwyd y troseddwyr hyn allan o'r llehwnnw, yr hwn etto a feiddiant ei lygru. Nid digon yw gwarth a dolur i ddiwygio troseddwyr caled. Nid hawdd attal pechodau o elw, anhawddach eu gorchfygu. Y gwybed eofn hyn a ddisgynnant drachefn ar y man yr ymlidir hwy o hono. *Yr hwn sydd frwnt, fydd frwnt etto.*

Aml cyn hyn y buasai'r Iesu yn y deml: ac aml y canfyddodd yr un annrhefn: nid yw'n ei dybied yn addas fflangellu'n

wastadol; digon eu rhybyddio a'u ceryddu ddwywaith fel hyn cyn eu difetha. Y Duw sy'n cashau pechod yn wastadol, ni chospa'n wastadol—a thery etto'n fwy anfynych: ond mynnai i'r ychydig ergydion hynny fod yn rhybuddwyr parhaus: ac os ni thyccia rheiny, ni thery ond unwaith. Ei lwybr gwastadol yw, yn gyntaf, y fflangell; ac os ni lwydda honno, yna'r cleddyf.

Y mae parch yn ddyledus i dŷ Dduw, er mwyn ei berchenog a'i wasanaeth. Nid addas gwelthredoedd bydol i'r grong-lwyd sanctaidd honno; llawer llai rhai anifeilaidd. Beth ond sancteiddrwydd a weddai i'r lle hwnnw, yr hwn yw *harddwch sancteiddrwydd.*

Ni chyfiawnha'r esgusion goreu bechod ger bron Duw: nid oedd modd rhoddi amgenach lliw ar unrhyw weithred; y cyfleustra, yr angen am ddarparu ar gyfrif yr aberthau: er hynny, canfydda llygaid tanllyd yr Iesu, trwyddynt oll, ariangarwch ffiaidd yr offeiriaid, twyll y newidwyr arian, gau-ddefnyddiad annoddefol o'r deml. Gellir twyllo llygaid cyffredin âg esgusion teg, ond Efe, yr hwn a edrych trwy'r galon at y wyneb, a'u hatteba hwy'n gyfiawn â fflangellau.

Nid dim ond awdurdod cyhoedd a all ddiwygio yr hyn sydd feius yn y deml. Os yw pob peth allan o drefn yno, pawb a ymofidiant, ond y gallu i adferu a gyrhaedda at y sawl y perthyna iddynt. Cwestiwn cymmwys, er ei roddi mewn agwedd annghymmwys i Moses, oedd, *Pwy a'th wnaeth di yn Farnwr ac yn rheolwr?* Rhaid in' oll debygoli i Grist, o ran zel, ond nid o ran cerydd. Os tarawn heb ein gorchymyn, tarewir ninnau'n gyfiawn am ein rhyfyg. Diwygiad annrhefnus a all droi allan yn feddygyniaeth gwaeth na'r clwyf.

Ond beth a ddywedaf am weithred mor llym ac awdurdodol gan weithydd mor llariaidd? Paham na ddiffynodd yr Offeiriaid a'r Lefiaid (canys eu helw hwy ydoedd) y newidwyr arian hyn, ac ymuno yn erbyn Crist? Paham na ddiffynodd y lluoedd o bobl hyn eu hunain, gan dynnu'r fflangell honno allan o law Prophwyd, yr hwn, mewn ymddangosiad, oedd mor egwan ac anarfog: ond yn lle hynny, rhedant ymaith fel defaid oddiwrtho, heb feiddio sefyll ger ei fron, pe buasai ei law'n llonydd? Diau pe buasai'r dynion hyn yn gynifer o fyddinoedd, ïe, o lengoedd o ddiefliaid, pan frawycha ac yr erlidia Duw hwynt, nis gallant sefyll na gwrthsefyll. Pa mor hawdd iddo Ef, yr

hwn a wnaeth y galon, ei llenwi â gwroldeb neu ddychryn pan y mynno! O Iesu, nid y lleiaf o'th wyrthiau oedd it' yrru allan fyd o droseddwyr galluog, er gwaethaf eu helw a'u penderfyniadau beilchion: nis gallodd, hyd yn oed, eu helw beri iddynt aros yn erbyn dy wg. *Pwy a wyrthwynebodd dy ewyllys?* Nid eiddo dynion eu calonau: y maent, a rhaid iddynt fod, yr hyn y gwneir hwynt gan eu Crewr.

MATTHEW XXI.

MELLDITHIO'R FFIGYSBREN.

PAN rodiodd ein Gwaredwr y wedd hon trwy heolydd Jerusalem, ni lettyodd yno'r nos honno. Pa un ai nis gwnai, fel, yn ol cyhoedd-floedd y bobl, y gallai ochelyd pob drwg-dybiaeth o gyngrair, neu o chwennych ffafr y bobl (rhaid gochelyd, hyd yn oed, cenfigenau annghyfiawn: ac nid oes llai doethineb yn y gwaith o rwystro drygau, nag yn eu symmudiad) neu am nas gallai o eisiau cael ei wahodd, nis gwyddom. Hawddach dweud Hosanna iddo, na'i lettya: ac, efallai, i'r cenfigen a barodd y cyfryw ddiwygiad wangalonni ei luoedd. P'odd bynnag, Efe a â'r nos honno, heb ei swpper, allan o Jerusalem. O ddinaswyr anniolchgar! A ymadewch fel hyn â'ch Brenhin, yr hwn sydd gymmaint ei larieidd-dra a'i ogoniant? Ni chyhoeddwyd ei ditl yn uwch yn eich heolydd nac'h anniolchgarwch eich hunain. Os glanhaodd y deml, er hynny, y mae eich calonau chwi etto'n aflan.

Nid rhyfeddol yw annheilyngdod dynion, y mae'th drugaredd di yn fwy rhyfeddol. O Waredwr dynion, yr hwn a ddychwelet yno drachefn, lle y cefaist y fath ddirfawr anmharch: os na roisant hwy dy swpper i ti, rhoddaist di eu boreu-fwyd iddynt hwy: os na elli dreulio'r nos gyda hwy, tydi a dreuli'r dydd gyda hwy. O gariad at eneidiau anniolchgar, yr hwn nis gellid ei wangaloni gan yr anmharch ffieiddiaf—gan y gwrthodiad atgasaf. Pa faich y llewygi dano, yr hwn a elli ddal dan bwys anniolchgarwch?

Tydi, yr hwn a roddi ymborth i bob peth byw, ydwyt dy hun yn newynog. Ni chadwai Mair, a Martha, a Lazarus, dŷ mor dlawd, fel na allaset gael rhyw beth i'w fwytta yn Bethania. Pa un ai darfu i'th frys rag-redeg dy chwant am fwyd; neu

pa un ai'r ymgedwaist oddiwrth ymborth yn fwriadol, er cael cyfle i'r wyrth ganlynol, nid ydwyf yn gofyn, nac yn deongli. Nid hwn yw'r tro cyntaf it' newynu. Megis y mynnet fod yn ddyn, felly mynnet oddef y gwendidau sy'n nglyn â dynoliaeth. Daethost i fod ein Harchoffeiriad: dy weithred a'th fwriad oedd, nid yn unig eiriol dros dy bobl, ond i drosglwyddo it' dy hun, megis eu pechodau, felly eu gwendidau a'u hachwyniadau. Gwyddost y modd i dosturio wrth yr hyn a deimlaist. A ydym yn anghenus? Ni oddefwn ond yr hyn a oddefaist dithau: dylem fod yn amyneddgar: goddefaist yr un pethau a ninnau, dylem fod yn ddiolchgar.

Ond beth a ddywedwn am dy newyn boreuol hwn? Y boreu, megis y mae'n rhydd oddiwrth ormodedd, felly y mae oddiwrth angen. Nid yw chwant bwyd yn arferol o godi gyda'r corph. Diau, megis yr oedd dy gyfleusderau, nid oedd un tymmor yn rhydd oddiwrth dy angen. Treuliaset y dydd o'r blaen mewn sanctaidd ddiwygiad o'r deml: yn ol ymadawiad heb swpper, treuliaset y nos mewn gweddiau: nid oedd ymborth i'th gynnal dan dy lafur. Beth, a dybiwn yn fawr ymwrthod a'n hymborth ac a'n cwsg er dy fwyn di, yr hwn a esgeulusaist dy hun y wedd hon erom ni?

Megis pe na buasai ymborth yn un rhan o'th ofal, megis y gwnaethai rhywbeth y tro i ddiwallu dy angen, disgwyli dy foreu-fwyd oddiwrth y pren agosaf. Tyfai ffigysbren yn yml y ffordd, yn ei lawn faintioli, yn llawn dail, ac yn addaw digonedd i'r llygaid o bell: daethost atto i geisio yr hyn nis cefaist: a chan nas cefaist, megis un yn anfoddlon i'w siomedigaeth, melldithiaist y planhigyn a dwyllasai dy obaith. Dy anadl yn ddiattreg a grinodd y pren twyllodrus hwnnw. Gwnaeth, nid amgen nag sydd raid i'r holl fyd ei wneud, gwywo, a marw dan dy felldith.

O Iesu, gwell gennyf ryfeddu wrth dy weithredoedd, na'u chwilio. Pe dywedaswn na wyddet am, neu nad ystyriet fel dyn, yr anffrwythlondeb hwn, nis gallai hyn mewn un modd gymmylu dy Hollwybodaeth Dwyfol. Y gwendid hwn nid oedd waeth na'th ludded neu'th newyn. Nid oedd yn fwy anghlod it' gynnyddu mewn gwybodaeth nac mewn maintioli: ac nid oedd yn fwy gwarth i'th berffaith ddyndod, na wyddet, fel dyn, bob peth ar unwaith, na nad oeddyt, yn dy faboed, yn dy gyflawn faintioli. Ond yn hyn nis petrusaf ddywedyd ei

fod yn fwy tebygol it' ddyfod at y pren hwn o fwriad, gan wybod am ei ddiffrwythder cyfattebol i'r tymmor, a rhag-fwriadu yr hyn a ganlynai, fel y gallet sylfaenu ar hyn wyrth mor addysgiadol: megis y gwyddet fod Lazarus yn marw, wedi marw, ac etto heb gymmeryd sylw o'i ymddattodiad, fel y gallet ogoneddu'n fwy dy allu yn ei adfywiad. Dy siomedigaeth ewyllysgar rhagbenderfyniedig ydoedd er dyben mwy ei bwys.

Ond paham y melldithiaist bren gwael, am nad oedd arno'r ffrwyth nad oedd y tymmor yn ei ddwyn? Os rhyngodd bodd it' alw am yr hyn nis gallasai ei roddi, y planhigyn oedd ddifeius: ac os felly, paham y melldithiaist ef? O Iesu, addasach in' addoli na chwilio. Gallwn fod yn haerllug wrth ymofyn ar dy ol di, a choegion wrth atteb drosot.

Os nad oedd ffrwyth aeddfed i'w gael yn y tymmor hwnnw, etto, dylasai fod rhyw ffrwyth. Pwy na wyr am natur y ffigysbren, ei fod yn wastadol yn ffrwytho? Y planhigyn hwn, os nid yn llwyr anffrwythlon, a rydd ddidor olynoliad o gynnydd. Tra y mae un ffigysen yn aeddfed, y mae'r llall yn îr: yr unrhyw ganghen a all foddloni ein harchwaith a'n gobaith. Y pren hwn oedd ddiffygiol o ran y ddau: yn rhoddi dim ond cysgod gwag i'r gau-obeithiol deithiwr.

Heblaw hynny, dysgais, o Iesu, dy fod yn arferol, nid yn unig i lefaru, eithr gweithredu dammegion. A pheth oedd hyn ond gwir ddammeg o'th eiddot. Rhoddasit lawer prawf o'th drugaredd yr holl amser hwn y buaset yn y byd, (yr oedd y ddaear yn llawn o'th ddaioni) ond dim o'th farnedigaethau: yn awr, yn y man, o flaen dy ddyoddefaint, tybiaist yn ddoeth roddi'r amlygrwydd dyblig hwn o'th gyfiawn doster. P'odd arall y gallasai'r byd weled y gelli fod yn llym yn gystal ag addfwyn a thrugarog?

A phaham na allet ti, yr hwn a wnaethost bob peth, ddinystrio planhigyn er dy ogoniant dy hun? I ba beth y gwasanaetha dy greaduriaid goreu, ond er mawl dy gyfiawnder a'th drugaredd? Ai peth mawr os dywedi yn awr, *crined y ffigysbren diffrwyth hwn*, yr hwn a ddywedaist unwaith, *Egined y ddaear egin, sef llysiau yn hadu had, a phrennau ffrwythlawn yn dwyn ffrwyth, wrth eu rhywogaeth?*

Hyn oll a wnawd mewn dammeg. Yn dy weithred hon, canfyddaf gysgod a phrophwydoliaeth. P'odd y dysgaist dy ddisgyblion trwy hyn, y modd y ffieiddi broffes anffrwythlon, a'r

barnedigaethau a fwriedet eu dwyn ar y genhedlaeth ddiffrwyth honno! Unwaith o'r blaen cydmeraist y genhedl Iuddewig i ffigysbren yn nghanol gwinllan, yr hwn, yn ol tair blynedd o ddisgwyliad a choledd, ni ddygodd ffrwyth, ac a farnwyd gennyt ti ei pherchennog i gyflym dorriad i lawr: yn awr, gweithredi yr hyn a ddywedaist y pryd hynny. Nid oes i un pren fwy o ddail a chysgod: ni fu i un genhedl fwy o ddefodau a phethau arwyddoccaol o dduwioldeb. Ni wna proffes allanol, lle nid oes gwirionedd tumewnol, ac ymarferiad sanctaidd, ond cynnorthwyo i dynnu i lawr a chynnyddu'r farn. Pe buasai'r ffigysbren hwn yn llwyr noeth a diddail, efallai y diangasai rhag y felldith. Clywch hyn, ragrithwyr, y rhai y mae eich gofal oll am ymddangosiad teg: gan ddirmygu ufudd-dod diragrith a chydwybodol: eich hardd ymddangosiad a'ch darostynga i'r felldith.

Bai'r pren hwn yw ei gosp—*diffrwythder. Na thyfed ffrwyth arnat byth mwyach.* Pe ordeiniasid i'r canghenau gael eu torri i lawr, a'r corph gael ei hollti'n ddarnau, buasai'r farn yn ysgafnach: gallasai y planhigyn noddlawn hwnnw gael ei adfywio, a gwneud iawn am y diffyg hwn: yn awr, caiff fod yr hyn ydoedd—*yn ddiffrwyth.* Gwae'r eglwys a'r enaid hynny a gosper â'u pechod eu hunain. Pläau allanol nid ydynt ond ffafr mewn cydmariaeth i farnedigaethau ysbrydol.

Gallasai'r felldith honno gydsefyll yn dda á hir barhad: gallasai'r pren, er yn ddiffrwyth, fyw'n hir: ond nid cynt y dywedir y gair, nad yw'r dail yn edwi, ac yn melynu—y canghenau yn crebychu ac yn cwttogi, y rhisgl yn diliwio, y gwreiddyn yn sychu, a'r planhigyn yn gwywo. O Dduw, pa greadur a all sefyll o flaen malldod anadl dy ddigofaint? Nis gallodd, hyd yn oed, angelion mwyaf a gogoneddusaf y nef sefyll munud o flaen dy lid, ond buont feirw dan dy ddigofaint yn dragywydd! Arglwydd, cerydda fy niffrwythder, ond na chospa ef: o leiaf, na felldithia ef, rhag im' grino a chael fy nifetha.

MATTHEW XXI.

CRIST YN CAEL EI FRADYCHU.

Y CYFRYW ofid oedd Crist a godasai Lazarus, â Lazarus, yr hwn a godasai Crist, i'r Offeiriaid, Ysgrifenyddion, a Henuriaid

cenfigenus yr Iuddewon, fel yr ymgynghorasant i ladd y ddau. Tra y byddo un o'r ddau yn fyw, nis gall gogoniant y wyrth farw, na chywilydd y gwrthwynebwyr.

Y pennau maleisus hynny a roddir at eu gilydd yn mharlwr Caiaphas; dedwydd fuasent pe treuliasent hanner y meddyliau hynny ar eu iachawdwriaeth eu hunain, y rhai a gam-dreuliasent ar ddinystr y diniweid. Casglant, o'r diwedd, na thycciai trais: rhaid i ddichell a thwyll wneud hynny, yr hyn nis gallant, ond yn ofer, ymdrechu ei gyflawni trwy rym.

Pwy mor addas i weithredu y gamp hon yn erbyn Crist ag un o'i eiddo ei hun? Nis gall fod brad ond lle y mae rhyw fesur o hyder. Pwy-mor addas yn mhlith y gweinidogion ag ef, yr hwn a gariai'r god, ac a garai'n ormodol yr hyn oedd ynddo? Gellir gwneuthur unrhyw beth o'r galon honno, yr hon unwaith a'i gwnaeth ei hun yn gaethes i ddaear goch a gwŷn. Pwy all hyderu mewn moddion da, pan nad oedd Judas ond lleidr ar y goreu, ac, yn y diwedd, yn fradychwr—er clywed Crist yn feunyddiol, er fod eraill yn ei glywed ef yn ei bregethu'n feunyddiol, er canfod ei wyrthiau'n feunyddiol, a gwneuthur y cyfryw yn ei enw'n feunyddiol. Yr ysbryd cyfrwys a meleisus, a lywiai yn y cynghor gwaedlyd hwnnw, a gafodd allan yn hawdd offeryn addas i'w ddyfais uffernol. Megis y gwyr Duw, felly, Satan a dybia pwy sydd eiddo ef: a bydd sicr o'u defnyddio. Os oedd Judas yn un o deulu Crist, etto, gwas Mammon ydoedd: nis gallai ond cashau'r Meistr hwnnw, yr hwn a gymmerai arno ei wasanaethu, tra y gwasanaethai, mewn gwirionedd, y meistr hwnnw, a broffesai Crist ei ffieiddio. Nid yw ond yn ei fasnach ei hun, tra y mae'n bargenna, hyd yn oed, am ei Feistr. *Pa beth a roddwch i mi, ac mi a'i traddodaf ef i chwi.* Onid da y dywedaist, O Iesu, *Dewisiais chwi y deuddeg, ac y mae un o honoch yn gythraul.* Tydi, yr hwn a fedret wahaniaethu rhwng dynion ac ysbrydion, a elwi Judas wrth ei iawn enw. Wele, daeth yn demtiwr i'r drwg gwaethaf.

Judas annedwydd! Pa un sydd fwyaf i'w ryfeddu, dy dwyll, neu'th ffolineb? Beth a roddant—beth allant ei roddi, mor werthfawr a'r Gwr hwn, yr hwn a broffesi ei werthi? Pe gallasent hwy dalu, a thithau dderbyn, yr holl fetteloedd prisfawr hynny, a roddir i fynu yn holl ogofau yr holl ddaear, p'odd y gallai y rhain fod yn gydwerth à'r hwn a'u gwnaeth? Pe gallasent ddwyn i lawr i'th law, oludog a disglaer ser y nef, beth

a fuasent, a'u pwyso â Duw? . Mor ffiaidd, gan hynny, dy eiriau am ei werthi ef, yr hwn a bia'r byd. *Pa beth a roddwch i mi?* Och! beth oeddynt? Beth oedd ganddynt, ddynion truenus, i'w roddi am y fath wrthddrych? Bu amser pan ddywedodd ef, yr hwn sydd yn dy gynhyrfu, *Holl deyrnasoedd y byd a'u gogoniant ydynt eiddo fi, ac i buy bynnag y mynwyf y rhoddaf hwynt: hyn oll a roddaf i ti.* Pe gwnaethai y cynnygiad hwn i ti, yn y fargen ofnadwy hon, gallasai roddi rhyw liw ar ei demtasiwn: ond, buasai, hyd yn oed, y wedd hon, yn fasnach golledfawr. Ond yr oedd dy waeledd gymmaint a'th ddrygioni, pan y cynnygaist nwyf mor anmhrisadwy i'r masnachwyr ffiaidd hyn am ddeg ar hugain o ddarnau gwael o arian.

Ac mi a'i traddodaf ef i chwi. O, Judas dwyllodrus a rhyfygus—mwy oedd hyn nag y gallet ei wneuthur: nid oedd dy bris gymmaint yn rhy isel ag oedd yr hyn a gymmeraist arnat yn rhy uchel. Pe unasai holl alluoedd uffern â thi, nis gallasent draddodi dy Feistr i ddwylaw dynion. Y weithred oedd ei eiddo ei hun yn unig. Yr oll a wnaeth ac a ddyoddefodd oedd lwyr wirfoddol. Pe buasai am wrthsefyll, hawdded fuasai iddo ag un anadl dy chwythu di a'th gyd-weithredwyr lawr i'w huffern. Nid i ti y mae'r diolch o'i draddodiad. O Iesu, ein holl ddiogelwch a'n cyssur a ddibynna, nid yn gymmaint ar dy weithred ag ar dy ewyllys: yn ofer y disgwyliasem y ddawn o waredigaeth trwy drais.

Gwnawd y fargen, talwyd y pris. Judas a ddychwela: ac a edrych mor dawel ar ei Feistr a'i gyfeillion a phe buasai heb wneud bai. Beth waeth ganddo ef? Dywaid ei galon wrtho ei fod yn oludog, er y dywaid ei fod yn dwyllodrus.

Y Pasg sydd yn agos: nid oes neb yn fwy diwyd i'w barottoi, na mwy awyddus i'w dderbyn, na Judas. O, ynfydrwydd a chaledwch hwn, mab y golledigaeth! Pa sawl prawf a gawsai gynt o Hollalluogrwydd ei Feistr! Nid oedd diwrnod yn yr hwn ni chanfyddai fod meddyliau a phethau pellenig yn hysbys iddo ef: etto, 'r adyn hwn a feiddia ffurfio ysgelerder dirgelaidd yn erbyn ei berson, a'i wynebu. Os na all fod yn onest, etto, bydd yn ddirgel.

Fel y byddai ei haerlligrwydd yn fwy nodedig, caiff wybod fod rhywun wedi ei ganfod: tra y tybia ef yn addas gelu ei dwyll, ni thybia Crist yn addas gelu ei wybodaeth o'i gyngrair twyll-

odrus, *Yn wir, meddaf i chwi, un o honoch chwi a'm bradycha i.* Pwy na feddyliasai y buasai'r drygionus hwnnw, yn ol ei ddatguddio, yn cywilyddio am dano ei hun? A ddarfu i Judas, a feddyliwch chwi, wyneblasu, gan edrych i lawr, a throi ymaith ei wyneb cythryblus wrth hysbysiad mor ofidus? Pechod, os parheir ynddo, a hiarna'r talcen, gan ei wneud yn rhy galed i unrhyw argraphiadau toddedig.

Pe canfyddasai y disgyblion eraill unrhyw newidiad yn wyneb un o honynt, ni fuasai'r cyhuddiad yn eu gwneud mor athrist. Meddyliaf y canfyddaf fel y gosodent eu llygaid ar eu gilydd, megis yn edrych trwy'r ffenestri hynny i lawr i'r fynwes: gyda pha hunan-hyder, a drwg-dybiaeth o'u gilydd, y darllenent wynebau y naill y llall: ac yn awr, gan ei farnu'n gymmwysach drwg-dybio eu diniweiddrwydd eu hunain, yn hytrach na haeriad eu Meistr, pob un a ofyn yn grynedig, *Arglwydd, ai myfi ydyw?* Y mae'n bossibl fod rhyw ddrygioni dirgelaidd yn llechu mewn rhyw gongl dywyll o'r galon, yr hwn nis gwyddom am dano: y mae'n bossibl i amser a phrofedigaeth, yn gweithredu ar ein llygredd, ein denu o'r diwedd i'r cyfryw bechod ag na chredem rhagllaw. I be le na syrthiwn, os gadewir ni i'n nerth ein hunain? Doeth a duwiol drwg-dybied y gwaethaf, *Arglwydd, ai myfi yw?*

Yn y cyfamser, rhyfedd mor deg yr ymddygodd Judas yn ngolwg ei gyfeillion! Pe dangosasai ei fywyd o'r blaen unrhyw ffalsder neu gam-ymddygiad, gwybuasent yn gyflym pwy i'w ddrwg-dybied: yn awr, cyfrifir Judas mor onest, fel fod pob disgybl yn ei ofni ei hun yn hytrach nag ef. Gwir ei fod yn lleidr; ond pwy wyr hynny heblaw ei Feistr? Y mae'r tu allan i ddynion yn dwyllodrus fel eu tu mewn. Nid yw ddiogelach barnu wrth yr olwg allanol, nag yw'n annghareddig peidio a barnu felly.

O, benderfyniadau cyndyn drygioni, y rhai nis attebir gan unrhyw wrthwynebiad! Pwy allasai lai na meddwl, os na allasai gwybyddiaeth o ddrwg rhag-amcanedig ei rwystro, etto, y dychrynasai bygythion o farn y troseddwr eofnaf. Gall Judas eistedd, a chlywed ei Feistr yn dywedyd, *Gwae'r dyn hwnnw, trwy'r hwn y bradychir Mab y dyn: da fuasai i'r dyn hwnnw pe na's ganesid ef,* ac nis cynhyrfir ef a mwy na phe buasai'n llwyr diniweid: eithr tybia, "Beth waeth gennyf? Mae'r arian gennyf, a diangaf rhag y gwarth: caiff y weithred fod

yn gêl, a'r fargen fydd un o elw: byddai'n hir cyn y gallwn ennill cymmaint trwy fy ngwasanaeth: os llwyddaf dros yr amser presennol, gwnaf o'r goreu yr amser a ddaw." Fel hyn yn sydyn y gwna i fynu fargen arall: gwna gyngrair âg angau, a chyttundeb âg uffern. O Judas, a glywaist erioed ond gwirionedd yn syrthio o enau dy Feistr dwyfol? A fedri ammau sicrwydd y bygythiad echryslon hwnnw o ddialedd? Pa fodd, ynte, y parhai yn dy fwriad i gyflawni peth mor ysgeler a damniol? Pechaduriaid penderfynol a redant yn mlaen yn ddiarswyd yn eu llwybrau drygionus: a gosodasant eu bryd ar elw neu bleser eu hamcanion pechadurus, fel na welant uffern yn ymagor o'u blaen ar y ffordd.

Y dyn digywilydd hwnnw, fel yn bwriadu sefyll i fynu yn erbyn pob cyhuddiad, a'i galon ei hun hefyd, a feiddia ofyn, *Arglwydd, ai myfi yw?* Ni chaiff un disgybl ffieiddio'r bai'n fwy zelog na'r hwn a'i coledda yn ei fynwes. Beth bynnag a wyr Chwiliwr y galon am dano a gloir i fynu yn ei galon ei hun: nid yw bod yn dwyllodrus ddim os gall fod yn guddiedig: gwyr ei Feistr ei fod yn Fradychwr, ond ni fydd byw yn hir i achwyn: ei gyfeillion a'i barnant yn onest: pob peth yn dda, tra y tybir yn dda am dano. Enw da yw'r unig beth a ofalir am dano gan galonau gau: nid gwirionedd na theimlad o deilyngdod: os gallant ymddangos yn deg i ddynion, ni phrisiant pa mor ffiaidd y maent ger bron Duw.

Pe cawsai'r Iesu'r wybodaeth hon oddiwrth ereill, buasai'r eofndra hwn yn ddigon, er peri iddo ammau yr hysbysiad goreu. Pwy allasai ddychymyg, y meiddiasai'r euog fel hyn ddirmygu cyfiawn gyhuddiad? Yn awr, gall Ef, llygaid treiddgar ac anffaeledig yr hwn a ganfyddant bethau fel ag y maent, ac nid fel yr ymddangosant, argyhoeddi yr Ymofynydd gwâg a digywilydd hwn, gyda haeriad uniongyrchol, *Tydi a ddywedaist.*

Fradychwr ffol! A allaset feddwl y gallasai dy olygon coegddeillion oddef pelydron yr haul? Ai nid digon it' fod yn ddrygionus mewn dirgeliad, heb ymgyndynnu â Chyhuddwr Hollwybodol? Tybiaist na wyddid am dy ddrygioni: ni wyddai dynion am dano: pe na fuasai dy Feistr yn fwy, ni wybuasai yntau am dano: yn awr ei wybodaeth a eglura ei Dduwdod. Pa fodd y meiddiaist godi dy law yn ei erbyn Ef, i'r hwn y mae dy fai yn hysbys, a'r hwn a all ei rwystro, neu roddi dial am dano?

Hyd hyn yr oedd y cyhuddiad yn bersonol, heb ei glywed, neu

heb ei ystyried gan dy gyfeillion: caiff ei sibrwd yn gyntaf i un, yna hysbysir ef i bawb. Addas yw celu pechod y gwylaidd a'r edifeiriol: addas yw cywilydd i'r sawl sydd hebddo.

Bod yn gywrain i wybod, yw hen afiechyd y natur ddynol: heblaw hyn, ni oddefai zel Petr iddo aros dan y perygl o gyhuddiad mor anmheus: nis gallai ond eistedd ar ddrain, hyd y gwybyddai pwy oedd y dyn. Ei arwyddion a ofynant, yr hyn ni feiddiai ei lais.

Pa gyfraith sy'n gofyn i'r holl ganlynwyr gael eu caru yn ogymmaint? Paham na allwn roddi ein ffafr lle y mynnom, heb gynhyrfu cenfigen na rhagrith? Nis gallai neb o ddilynwyr Crist achwyn ei fod yn cael ei esgeuluso. Ioan sydd uwchaf mewn ffafr. Gwaed, serchogrwydd, zel, a diwydrwydd, a'i gwnant yn anwyl, tu hwnt i'w gyfeillion.

Efe, yr hwn sydd anwylaf, sydd agosaf mewn lle: Yn y dull hwnnw o ystlys-eistedd wrth y ford, pwysai ar fynwes Iesu.

Lle y mae cariad lawer, gall fod llawer o eofndra. Rhydd yr agosrwydd ar anwyldeb hyn y fraint i Ioan i ofyn hynny yn ddiogel, yr hyn nis gallasai Petr ei ofyn heb lawer o annghyfleusdra, a pherygl o gael ei attal. Y disgybl anwyl a ddeall yn dda yr iaith ddistaw hon, a meiddia roddi meddyliau Petr mewn geiriau. Cariad a gaua allan ofn. O Iesu, dy ddaioni a faga ynom hyder, heb gilio yn ol rhag unrhyw gais. Dy gariad wedi ei daenu ar led yn ein calonau, a bar in' ofyn yr hyn ni ymddangosai mewn estron amgen na rhyfyg.

Unwaith pan ofynodd Petr gwestiwn yn nghylch Ioan, *Beth a wna hwn?* Cafodd attebiad byr, *Beth yw hynny i ti?* Yn awr, pan y mae Ioan yn gofyn it' gwestiwn, mewn ymddangosiad yn llawn mor gywrain, ar ddeisyfiad Petr, *Pwy yw'r hwn a'th fradycha di?* er y gallet ddychwelyd yr un atteb, etto ymostyngaist i roddi un addfwyn a llawn er dirgel foddlonrwydd. Nid oedd cymmaint gwahaniaeth rhwng y dynion, ag oedd yn yr hyn yr ymofynid yn ei gylch. Nid oedd achos gan Petr ofyn y cwestiwn gyda golwg ar Ioan: yr oedd achos digonol gan Ioan ofyn y cwestiwn o'i ran ei hun a Phetr. Yr hyn, gan hynny, a ofynwyd gydag ofn, a attebir yn rasol. *Hwnnw yw Efe, i'r hwn y rhoddaf fi dammaid wedi i mi ei wlychu. Ac wedi iddo wlychu y tammaid, Efe a'i rhoddodd i Judas Iscariot, mab Simon.* Mor anewyllysgar oedd ein Iachawdwr ei enwi ef, yr hwn nid oedd anfoddlon i'w nodi allan! Pob peth a

wneir trwy arwyddion mudion. Y llaw a lefara, yr hyn ni wnai'r tafod. Yn y iaith y gofynodd Petr y cwestiwn i Ioan, y dychwela Iesu atteb i Ioan. Yr hyn a ofynwyd trwy amnaid, a attebwyd trwy dammaid.

O Iesu, nis clywaf di yn dywedyd, "Edrych ar yr hwn yr edrychaf yn wgus arno, neu y dangosaf ddirmyg cyhoeddus iddo; dyna'r dyn," *ond i bwy bynnag y rhoddaf y tammaid.* Diau y tybiasai edrychwr fod hwn yn ddwfn yn dy lyfrau, a deonglasai'r weithred hon, megis dy ddagrau dros Lazarus. *Wele, fel y mae yn ei garu.* Rhoddi tammaid i ddyn allan o'th ddysgl dy hun, beth a allasai hyn ddangos ond parch neilldual? Etto nid oes un a gashei, ond un bradychwr wrth y ford: ac iddo ef y rhoddi dammaid. Nid yw anrhegion allanol Duw bob amser yn brofion o'i gariad, ïe, cyfrennir hwy weithiau mewn digofaint. Oni fuasai ef yn ddisgybl doeth, yr hwn a genfigenasai wrth y ffafr a ddangosid i Judas, gan ymddigio oherwydd myned heibio iddo Ef? Cyfryw yw eu ffolineb hwy, y rhai, gan fesur cariad Duw wrth ddoniau tymhorol, ydynt barod i ganmol drygioni llwyddiannus: ac i warafun bendithion allanol i'r sawl a'r na fedrant dderbyn rhai rhagorach.

Ar ol y tammaid, yna'r aeth Satan i mewn iddo. Buasai well i'r disgybl anffyddlon hwnnw fod heb y tammaid hwnnw: nid am fod unrhyw falais yn y bara, neu fod gan y tammaid allu i drosglwyddo Satan i'r derbyniwr o hono, neu fod yr Ysbryd drwg yn y bara, neu gydag ef, trwy gyd-fynediad angenrheidiol. Y doniau a gamddefnyddir, a wnant y galon yn addas i dderbyn drygau mwy. Yr ysbryd drygionus hwnnw a gymmer achlysur yn gyffredinol i ruthro arnom yn rymmus trwy roddion Duw. Ar ol ein tammaid Sacramentaidd, os na fyddwn well, diau y byddwn waeth. Nis meiddiaf ddywedyd, ond meiddiaf feddwl, i Judas, gan gydmaru iaith ei Feistr, a sibrwd Ioan, a rhoddiad y tammaid, a chan ganfod ei hun yn cael ei nodi allan y wedd hon, gael ei gynhyrfu'n fwy i gyflawni ei amcan drygionus. Cymmerodd Satan, fel hyn, fantais trwy'r tammaid i gymmeryd cryfach meddiant o hono. Dwywaith o'r blaen yr aeth Satan i'r galon drachwantus honno: yn gyntaf, yn ei gybydd-dod a'i ledrad; yr arferion pechadurus hynny, nis gallasent fod heb yr awdwr hwnnw o ddrygioni: yna, yn ei benderfyniad damniol, a'i gyngrair ysgeler, yn erbyn Crist. Etto, yn awr, megis pe hwn fuasai'r tro cyntaf—*aeth Satan i*

mewn. Megis y llettywn yr ysbryd aflan yn mhob pechod gwarthus a wnawn; felly yn mhob gradd o gynnydd mewn drygioni, cymmer afael newydd ar y galon. Nid cynt y mae'r droed dros y trothwy, nad ydym yn myned i'r tŷ; ac yna, pan awn i'r 'stafelloedd mewnol, nid ydym ond gwneuthur perffeithiach mynediad i mewn. Satan a aeth i mewn, ar y cyntaf, i wneud calon Judas yn dŷ iddo ei hun: yn awr, â i mewn fel i'w annedd ei hun. Y bwriad cyntaf i bechu a agora'r pyrth i Satan; cydsyniad a'i derbyn i'r cyntedd; llawn ymroddiad i bechu a rydd yr allweddau yn ei law, ac a'i rhydd mewn llawn berchenogiad.

Pa wahaniaeth eglur sydd rhwng yr adgenedledig a'r galon ddrygionus! Satan a ruthra ar y goreu â'i demtasiynau: ac, weithiau, gwna rwyg, ac â i mewn: y llall a'i gollynga i mewn o'i fodd. Pan â i mewn i'r ail-anedig, y mae ymladd parhaus yn ei erbyn, a thrwy drais sanctaidd ymlidir ef allan o'r diwedd: yn y llall, derbynir ef yn rhwydd, a rheola fel y mynno.

O, addfwynder hyfryd Oen Duw! Nis gwelaf ŵg, nis clywaf gerydd: ond—*Hyn yr wyt yn ei wneuthur, gwna ar frys.* Paham yr ymderfysgwn wrth y camwri bychan a wneir in', gan chwyddo gan lid, a thorri allan i ddialedd cynddeiriog ar bob achlysur, tra nid oes un gair garw yn tarddu oddiwrth Grist, esampl ein hamynedd, wrth Fradychwr mor aflan a gwaedlyd? Ië, y mae'r cwbl yn myned yn mlaen mor dawel, fel nachanfydd-a'r disgyblion etto unrhyw newidiad: meddyliant yn eu diniweidrwydd am nwyfau i gael eu prynu; pan lefara Crist am eu Meistr yn cael ei werthu, ac, megis un yn hiraethu bod allan o boen, a brysura gamrau ei Fradychwr anniwygiadwy—*Hyn yr wyt yn ei wneuthnr, gwna ar frys.* Un peth yw dywedyd, "Gwna yr hyn a amceni," a pheth arall, *Gwna ar frys yr hyn a wnei.* Yr oedd ysgelerder yn y weithred: nid oedd pechod yn y brys. Yr amser oedd ddifeius, tra yr oedd y dyn a'r weithred yn bechadurus. O Judas, ddedwydded fuaset, pe nas gwnaethet yr hyn a fwriedasit yn dy fra: ond am y gwnai ef, nid yw oediad ond poen.

Ni thodda'r galon haiarnaidd honno etto. Y bradychwr caled a wyr ei ffordd i neuadd yr archoffeiriad, ac i'r ardd. Yr arwydd-air a bennodir yn barod, *Henffych well,* Meistr, *â chusan.* Ai mwy o ragrith etto? Mwy o ryfyg ar gefn llarieidd-dra mor ormodol? Pa fodd y gwyddet, O fradychwr

twyllodrus, y goddefai'r rudd sanctaidd honno gael ei halogi â'th gyffyrddiad anmhuraidd? Cefaist wybod yn dda fod dy dwyll yn hysbys iddo. Nis gallasai dy galon fod mor dwyllodrus it', a pheidio mynegi ffieiddied oeddyt. Dos, a chusana, ac addola dy ddarnau arian, y rhai a sicrheaist i ti dy hun i'r eithaf: y meistr a werthaist, nid eiddo ti yw.

Ond, O ddigywilydd-dra pechadur truenus! Y tafod a gyttunodd i werthi ei Feistr, a fentra ddywedyd, *Henffych well.* A'r gwefusau hynny a wnaethant gyngrair ei farwolaeth, a fentrant gynnyg cusan iddo Ef, yr hwn a ymgyfammodasent i'w ladd. Gorchymyn Duw, er cynt, oedd, *Cusanwch y Mab rhag iddo ddigio.* O Iesu, yr oedd it' achos i ddigio wrth y cusan hwn: y fflangell, ŷ drain, yr hoelion, a gwaywffon dy lofruddion nid oeddynt mor boenus, mor drywanus a'r cyffyrddiad hwn o eiddo Judas. Nis gall dwfn archollion gelyn fod mor ofidus a chroen-ysgraffiniad disgybl.

MATTHEW XXVI. MARC XIV. LUC XXII. IOAN XVIII.

YR ING.

Y FATH ragymadrodd a ganfyddaf i ddyoddefaint fy Ngwaredwr! Emyn ac ing! Emyn siriol, ac ing llawn mor drallodus. Emyn a ddechreua, er codi ac ardystio ei lwyr benderfyniad i ddyoddef: Ing a ddilyna, er dangos ei fod yn llwyr deimladwy o'r chwerwon bethau yr oedd i fyned danynt.

Yr holl ddisgyblion a gymmerasant eu rhan yn yr emyn honno: addas iddynt oll ganfod ei wroldeb cyssurlawn a dwyfol, â'r hwn y dechreuodd ef yr ymladdfa: tri yn unig o honynt a gânt fod yn dystion o'r Ing: y tri hynny yn unig a fuont dystion o'i Weddnewidiad. Yr olwg honno a'u rhagarfogodd ac a'u parottodd erbyn hon. P'odd y gallent hwy ymderfysgu wrth ganfod ei drallod, y rhai a welsent yno ei Fawrhydi? P'odd y gallent ymderfysgu wrth ganfod ei gorph yn awr mewn chwys, yr hwn a welsant y pryd hwnnw yn ymddisgleirio? Pa fodd y gallent frawychu, wrth ganfod Judas a'i ganlynwyr yn ei annerch Ef, yr hwn a welsant y tro hwnnw a Moses ac Elias yn gweni iddo? P'odd y gallent wangaloni wrth glywed gwaradwyddiadau dynion gwael, pan oeddynt wedi clywed llais Duw wrtho, allan o'r

tra ragorol ogoniant, *Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd.*

Yn awr, o flaen y llygaid hyn, yr haul hwn a ddechreua gael ei guddio gan gymmylau. *Dechreuodd dristhau ac ymofidio.* Llawer o feddyliau trist am ddynolryw a godasent ynddo, ond mogasai hwynt yn ei fynwes. Ond, yn awr, y mae ei ofid yn ormod i'w gadw i mewn, *Trist iawn yw fy enaid hyd angau.* O Iesu, beth oedd dy deimladau, pan leferaist felly? Cwyna ysbrydoedd gweiniaid ar achlysuron dibwys: rhaid i'r gofid fod yn ddirfawr, yr hwn a bar i galon gref dorri allan i gwynfannau dwys. Gwae fi, O, 'r fath air yw hwn oddiwrth Fab Duw! P'le mae'r Diddanydd hwnnw, yr hwn a addewasit ei anfon i eraill? P'le mae'th Dad, *Tad yr holl drugareddau, a Duw phob diddanwch, ger bron yr hwn y mae digonolrwydd llawenydd, a digrifwch ar ei ddeheulaw yn dragywydd?* P'le y mae'r penderfyniadau dibaid a chyssurlawn hynny o rodio'n ddiofn trwy ddyffryn cysgod angau? Och! pe nas cuddiasid yr wyneb hwnnw oddiwrthyt, yr hwn, yn hanffodol, nis gallesid ei wahanu oddiwrthyt, nis gallasai'r gloesion hyn gymmeryd lle. Ciliasai'r haul am adeg, fel y byddai nos oerllyd, er nid tywyll: fel yn y byd, felly yn dy fynwes dithau: ciliasai o ran goleuni, nid o ran hanfod. Y rhan galettaf o'th ddyoddefiadau oedd bod yn rhaid it' fod yn ddigyssur.

Ond wrth bwy y cwynfanni fel hyn, O Waredwr dynion? Caled yw ar y sawl sy'n gorfod cwynfan wrth rai iselach nag ef ei hun. Pe cwynfanasai Petr, neu Iago, neu Ioan, fel hyn wrthyt ti, cawsai eu heneidiau esmwythder yn y cyfryw ddylifiad o honynt eu hunain: buaset ti'n dueddol o dosturio wrthynt, a gall-uog i'w gwaredu. Ond yn awr, pan wyt ti yn gwneud galarnad wrthynt hwy, Och! pa effaith a allaset ddisgwyl? Gallasai dy ofid beri syndod ynddynt, ond nid oedd yn eu dwylaw allu i'th waredu oddiwrth dy ofidiau, nac yn eu tosturi i'w hysgafnhau. Beth yn wir a allasai holl angelion y nef, o honynt eu hunain, wneud er dy gynnorthwyo yn yr amgylchiad hwn? Pa nerth a allasent hwy gael ond oddiwrthyt ti? Pa greadur a all helpu, pan fyddi di yn cwynfan? Y cryfach nag ef yn unig a all gynnorthwyo'r gwan.

Gallodd yr hen Simeon dduwiol rag-ddweud wrth dy Fam fendigedig, yr ai cleddyf trwy ei henaid: ond, Och! pa sawl cleddyf a drywana'r eiddo ti ar unwaith! Pob un o'r geiriau

hyn sydd lym ac awchus. *Trist iawn yw fy enaid hyd angau.* Pa enaid dynol a all, yn y mesur lleiaf, amgyffred y lleiaf o'r gofidiau, â'r rhai y'th orthrymasid? Nid dy gorph oedd yn dyoddef yn awr: poen y corph nid yw amgen na chorph y poen: ing yr enaid yw enaid yr ing. Pa le y maent hwy, y rhai a anmharchant dy dristwch, trwy ddywedyd i'th enaid ddyoddef yn unig o gyd-deimlad â'th gorph: nid yn union-gyrchol, ond trwy gyfrannogiad: nid ynddo ei hunan, ond yn ei gydymaith? Tydi a wyddit oreu beth a deimlaist, a thydi, yr hwn a deimlaist dy boen dy hunan, a elli lefain allan oherwydd dy enaid. Ni ddywedaist, "Fy enaid a dristeir:" fe fu felly yn fynych, hyd at ddagrau: ond, *Trist iawn yw fy enaid;* fel pe rhuthrasid arno o'r blaen, ond yn awr, wedi ei feddiannu â gofid. Nid yw'r gofid hwn ychwaith mewn cymmedroldeb goddefadwy: y mae cyfnewidiadau o ran dyoddefaint yn perthyn i bob enaid dynol: ond, *Trist iawn.* Etto, y mae graddau, ïe, yn eithafoedd gofid. Y gofid mwyaf dygn a ellir ei feddyginiaethu, o leiaf, ei esmwythau; yr oedd dy eiddo di tu hwnt i'r gobeithiau hyn, *Trist iawn hyd angau.*

Beth oedd hynny, beth allai fod, O Iachawdwr, a bwysodd mor drwm ar dy enaid Dwyfol? Ai ofn angau ydoedd? Ai rhag-deimlad o'r poen, o'r cywilydd, a'r arteithiau o'th groeshoeliad oedd ar ddyfod? O, feddyliau gwael ac isel calonau culion marwolion ofnus ac egwan! Pa sawl mil o'th Ferthyron bendigedig a groesawasant arteithiau dim llai, â gwenau a gorfoledd; ac a chwerthasant am ben y creulonderau dygnaf, a farnesid yn annioddefadwy gan eu gorthrymwyr eu hunain. O ba le y cawsant y gallu hwn, onid oddiwrthyt ti? Os oedd eu gwendid fel hyn yn galonog ac yn rymmus, beth oedd dy allu di? Na, na: pwys ofnadwy pechod dynolryw ydoedd: baich trwm llidiawgrwydd dy Dad am ein pechod ni, a wasgodd dy enaid i lawr, ac a'i cymmelloedd i draethu'r ymadroddion chwerwon hyn.

Beth dâl i ti, O Iachawdwr, i adrodd dy ofid i ddynion? Pwy a all esmwythau arnat, onid yr Hwn, am yr Hwn y dywedaist, *Fy Nhad sydd fwy na myfi.* Wele, atto Ef yr ai. *O Dad, os yw bossibl, aed y cwppan hwn heibio oddiwrthyf.*

Onid y weddi hon, O anwyl Iesu, *a offrymaist yn nyddiau dy gnawd, trwy lefain cryf, a dagrau, at yr Hwn oedd abl i'th achub oddiwrth farwolaeth?* Yn ddiammau, hon ydoedd.

Ni fu erioed lefain mor gryf: erioed ni thaer-erfyniwyd fel hyn ar Dduw. P'odd y gallai'r nefoedd lai na siglo wrth y fath weddi oddiwrth y gallu a'i gwnaeth? P'odd y gall fy enaid lai na chrynu, wrth glywed yr erfyniad hwn, oddiwrth *Gadpen ein iachawdwriaeth?* O Tydi, yr hwn a ddywedaist, *Myfi a'm Tad un ydym*, a oddefi di unrhyw beth oddiwrth Dad, ond yr hyn a fynnit, a benderfynnit? A oedd dy gwppan yn ddamweiniol neu yn gymmelledig? A ellit ddymuno yr hyn a wyddit nad oedd bossibl i ti ei gael? Pell, pell fyddo y camsyniadau hyn a darddant o'n hanwybodaeth a'n gwendid. Ti a ddaethost i ddyoddef, ac ewyllysi wneuthur yr hyn oblegid yr hyn y daethost: etto, am y mynnit fod yn ddyn, ti a fynni gymmeryd yr oll o ddyn, ond ei bechod: dynol, nid pechadurus ydyw, bod yn anfoddlon i ddyoddef yr hyn a allwn ochelyd. Yn y dymuniad hwn, ti a fynnit ddangos tueddiad ein natur ni, yr hon a gymmeraist: ond yn dy benderfyniad, ti a fynnit ddangos i ni, pa beth a lawn-fwriedaist yn dy feddyliau buddugoliaethus, a gynhyrfwyd ac a gynnorthwywyd gan dy Ddwyfol allu: *Etto, nid fel yr wyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt ti.* Fel dyn, yr oedd gennyt ewyllys o'th eiddo dy hun: ni all un enaid dynol fod yn berffaith heb y gynneddf bennaf hon. Yr ewyllys honno, a all yn naturiol fod yn foddlon i ddymuno rhyddhad oddiwrth ofid, a ymostwng i'r ewyllys Dwyfol hwnnw, gan yr hwn y'th fwriadwyd i fod yn gospedigaeth ein heddwch ni. Y poenau hynny y rhai oeddynt ynddynt eu hunain yn ofidus, a gofleidir gennyt, megis yn arfaethedig. Fel hyn y mae dy ofn wedi rhoddi lle i'th gariad a'th ufudd-dod. P'odd y gallem wybod fod y drygau hyn mor resynus, oni buasai i ti dueddu, er ond ychydig i'w gochelyd? Pa fodd y gallem ochelyd ddrygau mor echryslon a marwol, oni buasai i ti o'th fodd eu dyoddef? Cyfaddefwn dy ofn sanctaidd, addolwn dy galondid dwyfol.

Tra yr oedd dy feddwl yn y terfysg dirfawr hwn, nid rhyfedd, os nad oedd dy draed yn sefydlog. Dy le a newidir yn fwy na'th feddyliau. Yn awr, cerddi at dy gyfeillion cysglyd, ac a'u cynhyrfi i wiliadwriaeth angenrheidiol: yna y dychweli at dy ddwys ddefosiwn, syrthi drachefn ar dy wyneb.

Os dy gorph a grymwyd i'r ddaear, iselach fyth yw dy enaid: dy weddiau ydynt mor daerion ag yw dy boen yn ddygn—*Ac efe mewn ymdrech meddwl, a weddiodd yn*

ddyfalach. a'i chwys oedd fel defnynau gwaed yn disgyn ar y ddaear.

O fy Ngwaredwr, y fath ing yr wyf ynddo, wrth feddwl am yr eiddo ti! O, 'r poen, yr ofn, yr ymryson, a'r braw, oeddynt yn dy fynwes! O fel yr ymdrechaist dan bwys ein beiau, pan y chwyset, y gwaedet fel hyn! Yr oedd oll yn heddwch gyda thi: yr oeddyt yn un â'th Dad gogyd-dragywyddol a chydhanffodol; yr holl angelion a'th addolent: holl alluoedd nef a llawr a addefent, gyda braw, dy anfeidroldeb. Nyni yw y rhai a'th osodasent yn y truenu a'r arteithiau hyn, am gynnal o honot lid dy Dad, a'n melldith ninnau. Os annoddefol angau tragywyddol, ac os yw pob pechod yn ei haeddu, beth, O beth oedd i'th enaid, yn yspaid fer dy ddyoddefaint chwerw, atteb y miliynau hynny o farwolaethau tragywyddol, y rhai a haeddasai holl bechodau holl blant dynion oddiar gyfiawn law dy Dduwdod! Nid rhyfedd gennyf os gwaedest chwys, os chwysaist waed! Os gwlybaniaeth y chwys hwnnw oedd o'th gorph, ei liw oedd o'th enaid. Megis na fu erioed y cyfryw chwys, felly nis gall fyth fod y cyfryw ddyoddefaint. Nid rhyfedd fod y chwys yn fwy na natur, tra yr oedd y dyoddefiadau yn fwy na dynol. O Iesu, mor barod oedd dy waed gwerthfawr i lifo allan drosom, fel iddo ragflaenu dy erlidwyr: a tharddodd trwy'r chwys-dyllau, cyn agoryd dy glwyfau gan dy boenydwyr. O na allai fy nghalon waedi i ti gan wir ofid tumewnol am fy meiau hynny, y rhai a barasant dy ing hwn, ac y dynnasant waed allan o honot, yn yr ardd, ac ar y groes. Gwae fi. Buaswn ni yn uffern oni buaset ti yn dy ing—Llosgasid fi pe buaset ti heb chwysu. O, boed im' ffieiddio fy nrygioni fy hun, a rhyfeddu wrth, a chanmol dy drugaredd di.

Ond, O, ysbrydion bendigedig, y rhai a ddaethoch i gyssuro fy Ngwaredwr trallodedig, pa wedd yr edrychasoch ar Fab Duw, pan welsoch ef yn llafurio am ei fywyd dan y profedigaethau grymmus hynny? Gyda pha syndod y canfyddasoch Ef yn gwaedu, yr hwn a addolwch! Daethoch a gweiniasoch iddo yn yr anialwch, yn ol ei ymdrech â Satan: ac yn awr yn yr ardd, mewn ymdrech galettach, ymddangoswch i'w nerthu. O! ddoeth a rhyfedd oruwchwyliaethau Duw! Yr hwn a drallodda Ef, angel a'i cynnorthwya. Caiff y Mab oddef, caiff y gwas ei ddiddanu. Duw'r angelion a lesga, angel Duw a'i cynnalia.

Fendigedig Iesu, os fel dyn y mynnet *fod ychydig îs na'r angelion*, pa fodd y mae'n anmharch it' gael gweini it', a'th gyssuro, gan angel? Ni ddiystyret yn dy ymostyngiad gyssur o ddwylaw gwaelach. Onid oedd rydd-did i'th Dad drosglwyddo cyssuron prydlon i'th enaid trallodus, trwy'r moddion a fynnai. Wele, os nid â dy gwppan heibio, etto, caiff ei felusu. Beth os na chanfyddi, dros yr amser, wyneb dy Dad, etto, cei deimlo ei law. Beth a allasai'r ysbryd hwnnw ei wneuthur heb Dduw'r ysbrydion? O Dad y trugareddau, gelli ddwyn yr eiddot i ingau, ond byth nis gadewi hwynt yno. Yn amlder fy meddyliau o'm mewn, dy ddiddanwch di a lawenycha fy enaid. Trwy ba foddion bynnag y'm cynnelir, adwaen, ac addolaf, yr Awdwr.

MATTHEW XXVI. MARC XIV. LUC XXII.

PETR A MALCHUS—NEU CRIST YN CAEL EI DDAL.

PAHAM, O Iesu, y cymmeraist y tri disgybl dewisedig hyn gyda thi allan o'u cyfeillion, ond am y disgwyliet ryw gyssur oddiwrth eu presennoldeb? Gall gair diddanus syrthio weithiau oddiwrth y gweinidog gwaelaf: ac, hyd yn oed, cwmniaeth y sawl a hyderwn ynddynt a ddwg gydag ef ryw fath ar foddlonrwydd.

Och! y fath gorsennau drylliedig yw dynion! Tra y chwysi yn dy ing, chwyrnant yn ddiofal. Nis gall rhybuddion, bygythion, erfyniadau, gadw eu llygaid yn agored. Dywedi wrthynt am berygl, breuddwyddiant hwythau am esmwythder: ac er eu deffro ddwywaith, megis rhai yn bwriadu bod yn esgeulus, cysgant allan dy ofid di yn ddiofal, a'u perygl eu hunain. Pa gymmorth a ddaw it' oddiwrth y cyfryw ddilynwyr? Cysgasant ar Fynydd dy Wedd-newidiad, ac heblaw hyn, syrthiasant ar eu hwynebau, pan ddylasent edrych ar dy ogoniant, ac nid oeddynt yn eu pwyll oherwydd eu hofn: yn nghardd dy ing, syrthiasant ar y ddaear oblegid cysgadrwydd, pan ddylasent dosturio wrth dy drallod, a chollasant eu hunain mewn cysgadrwydd.

Diammau i'r esgeulusdod hwn wneud dy weddiau'n daerach. Po leiaf o gyssur a gawn ar y ddaear, mwyaf oll y chwiliwn am

dano oddi uchod. Ni cheisiaist chwaith fwy nag a gefaist. Fe'th *wrandawyd yn yr hyn a ofnet.* Angel a ddiwalla ddynion: yr ysbryd hwnnw oedd wiliadwrus, tra yr oedd dy ddisgyblion yn drymllyd. Dedwydd y newidiad.

Nid cynt y diflannodd yr angel da hwn, nag yw'r diafol teuluol hwnnw yn ymddangos. Judas a ddaw i fynu, a dengys ei hun ar ben y lluoedd drygionus hynny. Efe, i'r hwn yr oedd yn ormod anrhydedd dilyn Meistr mor fendigedig, sydd yn awr yn arweinydd i'r llu maleisus hwn. Cnu'r ddafad sydd yn awr wedi ei fwrw ymaith: a'r blaidd a ymddengys yn ei lun ei hun

Efe, yr hwn a fynnai fod yn dwyllodrus i'w Feistr, sydd gywir i'w Fargenwyr. Hyd yn oed, yr ysbrydion aflan ydynt ffyddlon iddynt eu hunain.

Meiddia'r bradychwr eofn gymmysgu rhagrith â'i ysgelerder: hyd yn oed, ei gyfarchiadau a'i gusanau a laddant. O Iesu, nid yw hyn newydd i ti: pawb, y rhai dan rith duwioldeb ydynt annuwiol, a'th fradychant y wedd hon.

Tydi, yr hwn a ddywedaist, *Y mae un o honoch yn gythraul,* ni ddywedaist yn awr, "Gochel Satan," ond, *Gyfaill, paham y daethost.* Nid oedd yn rhy ddiweddar etto, Judas. Pe buasai'r wreichionen leiaf o ras yn aros yn y fynwes dwyllodrus yna, dygasai'r gair hwn di ar dy liniau. Nis gall yr holl dywyn haul hwn doddi calon galed.

Yr arwydd a roddir: Iesu a gymmerir. Fradychwr annedwydd! Paham y mynnet y fath ganlynwyr i'r perwyl hwn? A chwithau Offeiriaid a Henuriaid ffol! paham yr anfonasoch y fath lu, wedi eu harfogi fel hyn, i ddal y person hwn? Buasai un cennadwr yn ddigon i ddwyn gydag ef garcharor gwirfoddol. Pe buasai fy Mhrynwr yn anfoddlon i gael ei ddal, eich holl luoedd, a holl lengoedd uffern yn gynnorthwy iddynt, a fuasent annigonol: am ei fod yn ewyllysgar, yr oedd dau yn ormod. Pan y darfu iddo ond dywedyd, *Myfi yw,* yr anadl esmwyth honno a orchfygodd eich llu oll, gan eu bwrw hwy i'r ddaear, y rhai a allasai'n llwyr mor hawdd eu bwrw i uffern. Beth pe dywedasai, "Nid wyf am gael fy nghymmeryd," p'le y buasech chwi? neu beth a allasai eich cleddyfau a'ch ffyn wneuthur yn erbyn Hollalluog rwydd.

Y disgyblion, y rhai a fethasant o ran gwiliadwriaeth, nis methasant o ran dewrder. Clywsent eu Meistr yn son am

gleddyfau, a meddyliasant yn awr ei bod yn bryd i'w defnyddio, *A darawn ni*? Boddlon oeddynt i ymladd drosto Ef, gyda'r hwn nid oeddynt ofalus am wylied. Ond Petr oedd y parottaf: yn lle agoryd ei wefusau, diweinia ei gleddyf, ac yn lle, *a darawaf*, tarawa. Nodasai Malchus, diwyd was yr Archoffeiriad, yn rhy barod i gynnorthwyo Judas, ac i osod ei ddwylaw geirwon ar Arglwydd y bywyd: yn ei erbyn, cyfyd ei galon, a'i law a godir. Y glust honno, yr hon fu ry barod i wrando ar gyhuddiad annghyfiawn a chreulon ei feistr dryglonus, yn awr a wahennir oddiwrth y pen gwaeth hwnnw, yr hwn a gam-wasanaethasai.

Caraf ac anrhydeddaf dy zel, O ddisgybl bendigedig: nis gallet oddef y cam a wnaed â'th Feistr Dwyfol. Pe buasai dy fywyd yn anwylach it' na'i ddiogelwch Ef, ni thynnaset dy gleddyf yn erbyn llu cyfan. Yn ddiragrith y dywedasit, *Pe pawb, etto nid Myfi*, a, *Pe gorfyddai i mi farw gyda thi, ni'th wadaf ddim.* Wele, parod wyt i farw arno ef, yr hwn a gyffyrddai â'r Person sanctaidd hwnnw: Beth yn awr a fuasai dy fywyd mewn cydmariaeth i fod yn euog o'i wrthod Ef?

Gan dy fod mor boethlyd, paham na syrthiaist yn hytrach ar y twyllwr a'i bradychasai Ef, na'r swyddog a'i daliodd Ef. Diau fod y pechod yn fwy, yn gymmaint a bod dyfeisio drygionu yn atgasach na'i gyflawni: yn gymmaint ag yw un o'r teulu yn agosach nag estron: a twyll cyfaill yn ffieiddiach na gelyniaeth treisgar cyflog-ddyn. Ai, oherwydd i'r adyn euog, yn ol gwneud y weithred, dynnu yn ol, gan amdoi ei ben twyllodrus âg adenydd y tywyllwch? Ai oherwydd nas gallesit yn sydyn ddirnad dyfnder ffiaidd yr ysgelerder hwnnw, a chashau ar unwaith yr hwn a fuasai hen gyfaill i ti? Ai am na fedret etto, oherwydd dy syndod, ddeall amcanedig ddiwedd y ddalfa hon, gan ddisgwyl yn synllyd am y dyben? Ai am mai Malchus oedd y creulonaf, er mai Judas oedd y mwyaf ei fai?

Po'dd bynnag, dy wroldeb a ddihunodd, pan ddihunaist dithau: ac nid llai pur dy galon, nag oedd dy law yn ehud. *Dod dy gleddyf yn y wain.* Ni chyfiawnha dybenion da ein gweithredoedd. O Iesu, medri gymmeradwyo ein bwriadau, a beio ar ein gweithredoedd. A allasai fod nwyf teilyngach o gael ei noddi na serch tuag at y fath Feistr? A allasai fod achos cyfiawnach i ddefnyddio cleddyf ynddo, nag yn dy ymdrech di? Etto, 'r cariad a'r ymdrech hyn, nis gallant gadw Petr rhag

cerydd: dy dafod addfwyn a'i tarawa ef yn esmwyth, yr hwn a darawsai dy elyn yn rymmus. *Dod dy gleddyf yn y wain.*

Cleddyf Petr ydoedd: ond i'w weinio, ac nid i'w arferyd: y mae cleddyf, yr hwn a all Petr ddefnyddio, eithr y mae o fettel arall. Ein harfau megis ein rhyfel, ydynt ysbrydol: os na tharawa â hwn, y mae mor feius ag am daro â'r llall. O ran y cleddyf gweledig hwn, beth a wna ef âg ef, os na chaniatteir iddo daro âg ef? Pan orchymynodd Tywysog tangnefedd, i'w ddilynwyr werthu eu pais, a phrynu cleddyf, arwyddai angen am yr arfau hyn, ond nid eu defnyddiad: a dysgai iddynt berygl yr amser, ac nid y dull o'i wrthsefyll. Pan, gan hynny, y dywedasant, *Wele yma ddau gleddyf*, attebodd, *Digon yw:* ni ddywedodd, "Ewch a phrynwch fwy." Ni buasai mwy yn ddigon, pe soniasai am amddiffyniad corphorol. Buasai twŷr Dafydd yn rhy gyfyng i roddi dodrefn ddigon o'r natur hyn. Pan ddeuir at y defnyddiad, y mae un cleddyf Petr yn ormod. *Dod dy gleddyf yn y wain.* Y mae cleddyf tymmorol yn wir; a rhaid ei dynnu: onide, i ba ddiben y mae? Ond rhaid ei dynnu gan y sawl a'i dyga, ac efe a'i dyga, yr hwn a ordeiniwyd i fod yn *ddialydd llid, i'r hwn sydd yn gwneuthur drwg. Nid yw efe yn dwyn y cleddyf yn ofer.* Os arall a'i tyn o'i wain, torra ei fysedd: a dwg allan waed gymmaint oddiwrth yr hwn a'i defnyddia heb ganiattad, fel *y difethir ef â chleddyf, yr hwn a gymmer gleddyf.*

A allaf lai na rhyfeddu, p'odd y gallodd Petr daro fel hyn, heb gael ei archolli ei hun? P'odd y gallai ef, yr hwn a ddechreuodd yr ymladdfa, ddiangc rhag cael ei ddarnio gan y fath fyddin farbaraidd? Nis gallasai hyn fod, pe nas attaliasai dy allu eu cynddaredd, O Iesu.

Yn awr, hyd y gwelaf fi, Petr a ofidia gymmaint a Malchus: ac nis tarewir clust Petr yn llai, gan dafod addfwyn ei Feistr, na'r eiddo Malchus gan law Petr. "O ddisgybl gwan! *Y mae gennyt zel, ond nid yn ol gwybodaeth.* Nid oes mwy enbydrwydd yn dy weithred hon, nag o anystyriaeth ac anwybodaeth. *Y cwppan a roddes y Tad i mi, onid yfaf ef?* Tynni dy gleddyf i'm gwaredu rhag dyoddef. Och, pe nas dyoddefwn, beth a ddeuai o honot ti? Beth a ddeuai o ddynolryw? Beth a ddeuai o gyfiawn a thragywyddol arfaeth fy Nhad, yn ol yr hon wyf, *Yr Oen a laddwyd er dechreuad y byd?* A ydwyt ar fedr rhwystro dy Iachawdwriaeth dy hun, a'r eiddo'r holl fyd? Oni

elwais di unwaith o'r blaen, Satan, am it' fy nghyngori i ochelyd dyoddefaint? Ac a ydwyt yn awr yn meddwl fy ffafrio â gwrthwynebiad i'r gorchwyl mawr a rheidiol hwn? A ydwyt mor wan a dychymyg, nad yw fy nyoddefiadau hyn yn rhydd ac ewyllysgar? A elli fy niweidio gymmaint, a meddwl fy mod yn rhoddi fy hun i fynu, am fod arnaf eisiau help i wrthsefyll? Oni roddais i ti, ac i'r byd, lawer o brofion anwadadwy o'm Hollalluogrwydd? Oni welaist hawdded fuasai im' chwythu ymaith luoedd gwael fy ngwrthwynebwyr? Oni wyddost, pe bai arnaf angen am danynt, y byddai holl luoedd gogoneddus angelion y nef, un o'r rhai sydd fwy na bydoedd o ddynion, yn barod i'm cynnal a'm gwaredu? Pe cydsafai hyn â chyfiawnder fy arfaeth, â gogoniant fy nhrugaredd, a gwaredigaeth dyn, cai ei wneuthur: fy ngallu a gai orfoleddu ar falais egwan fy ngelynion: ond, yn awr, am fod yn rhaid cwblhau yr arfaeth dragywyddol honno, rhaid i'm trugaredd ddisgleirio, a dynolryw gael eu hachub: ac nis gellir hyn heb i mi ddyoddef. Dy wroldeb, yn yr hwn y mae dy amcan yn dda, nid yw ond cam â thi dy hun, â'r byd, â mi, ac â'm Tad."

O Iesu grasol, tra y tarewi fel hyn dy ddisgybl, meddyginiaethi ef, yr hwn a darawyd gan y disgybl hwnnw. Gwnaethesit lawer o wyrthiau mwy: ond nid un a ddangosodd fwy o drugaredd ac addfwynder na'r iachad hwn. O honynt oll, clust Malchus a feddianna'r tafod uchelaf, er taenu ar led glod dy diriondeb a'th ddaioni, hyd yn oed, i'th elynion. I ba ddyben y daethai'r dyn hwnnw, ond mewn ysbryd gelynol i'th ddal di? Heblaw er mwyn ei hun, pa ffafr a deilyngai er mwyn ei Feistr? A phe na buasai'n fwy awyddus na'i gyfeillion, paham na fuasai ei groen mor gyfan a'r eiddo hwythau? Etto, yn mhlith y llu a'th ddalient yn mhoethni eu llid, yn uchder eu malais, a'th berygl dy hun o farwolaeth union-gyrchol, iachei y glust afreidiol honno, yr hon a fuasai euog o wrando ar gabledd yn dy erbyn, a derbyn cyhuddiadau creulon ac annghyfiawn hefyd yn dy erbyn.

O Malchus, a allasai dy glust fod yn gyfan, a'th galon heb ei dryllio gan ofid, am godi i fynu yn erbyn gwr mor drugarog a grymmus? A ellaist lai na dywedyd, "O Iesu bendigedig, canfyddaf mai dy ragluniaeth a gadwodd fy mhen, pan darawyd fy nghlust: dy Hollalluogrwydd di yw a adferodd, yn wyrthiol, fy nghlust, yr hon, yn gyfiawn, a fforffetiaswn: ni chaiff y pen

hwn fyth mwy fod yn euog o ddyfeisio unrhyw ddrygioni yn dy erbyn: ni chaiff y glust hon byth etto wrando mwy ar neb yn gwaradwyddo dy enw. Caiff fy nghalon byth addef a mawrygu dy drugareddau, dy Hollalluogrwydd Dwyfol." A allasai dy gyfeillion ganfod y cyfryw allu a daioni, heb galonau toddedig? O, Malchus anniolchgar, a milwyr creulon! Clwyfasid chwi yn waeth, ac ni theimlech. Tarawsai Duw eich calonau a chaledwch ofnadwy, cyn y gallech barhau o hyd yn eich amcan gwaedlyd. *A'r rhai a ddaliasant yr Iesu, a'i dygasant ef, &c.*

IOAN XVIII.

CRIST GER BRON CAIAPHAS.

Y BRADYCHWR, yr hwn yn fuan wedi'n a ddaliwyd gan ei gadwyn ei hun, a roddasai'r gorchymyn hwn am yr Iesu, *Deliwch ef.* Ofn a wna ei fyddin yn greulon: rhwymant ei ddwylaw, gan dybied nad oes gadwyn yn ddigon cref i'r Samson hwn. O, Iuddewon a milwyr ffol! Pe nas rhwymasid ef gan ei ewyllys ei hun, yn fwy na chan eich cadwynau chwi, pe buasent y rhaffau cadarnaf, neu'r haiarn grymmusaf, ni fuasent amgen na edau o garth.

Pa lygaid na orlenwir wrth weled y dwylaw hynny a wnaeth y byd, wedi eu cylymu ynghyd, a'u cleisio gan y rhwymau didrugaredd—wrth ei ganfod Ef yn rhwym, yr hwn a ddaethai i adferu in' rydd-did meibion Duw—wrth ganfod Arglwydd y bywyd yn cael ei lusgo'n anmharchus trwy'r heolydd, yn gyntaf i dŷ Annas, ac yna i dŷ Caiaphas, yna at Pilat, ac oddiwrtho ef at Herod, oddiwrth Herod yn ol drachefn at Bilat, ac oddiwrth Bilat i'w Galfaria; tra y rhedai ysgubion y lluaws cynddeiriog ar ei ol, gan floeddio a'i ddirmygu! Nid oes yn y weithred o farw gymmaint trueni a braw ag sydd yn y rhwysg o honi.

A pha angen am y creulonder rhwysgfawr hwn! I ba ddyben y gohiriwyd y rhwysg hwn o ddihenyddiad annghyfiawn? Ai am y tybiai eu malais ddihenyddiad cyflym yn ormod trugaredd? Ai am y mynnent ymddangos yn gyfiawn, tra yr amcanent fod yn waedlyd? Buasai trais brysiedig yn llofruddiaeth eglur: yn awr, rhoddir lliw o ymddygiad cyfreithlon ar eu malais angeuol: a thueddai i'w dangos yn onest, a'r cyhuddiedig yn euog.

Gwir orchwyl y nos oedd dal y dieuog fel hyn: nid oedd gorchwyl o gymmaint tywyllwch i'w wneud yn y goleuni. Y mae'r pen Annas, a'r faingc ddrygionus honno o ysgrifenyddion ac henuriaid penllwyd, yn foddlon i ymadael â'u cwsg i wneud drygioni. Gall cenfigen a malais wneud canol nos yn ganol dydd.

Penderfynir ar ei farwolaeth, a rhaid chwilio am esgusion am ei farwolaethu yn gyfiawn.

Pob drwg a ddechreua yn y Cyssegr. Yr offeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a'r henuriaid, ydynt y rhai blaenaf yn y gorchwyl gwaedlyd hwn. Maent wedi talu am y pen hwn: ac, yn awr, y maent yn awyddus i weled beth a gânt am eu deg-arugain darnau arian.

Y faingc a osodir yn llys Caiaphas. Chwilir am, a llogir gau dystion: nis cydunant a chywilyddiant eu llogwyr. Och! pa ddiogelwch a all fod i ddiniweidrwydd, pan lygrir y dystiolaeth o wirfodd? Pa deyrnas a fu erioed mor bur, fel na byddai ynddi ryw adynod, y rhai a werthent neu fenthyccient lw? Y fath anmharch a osododd Duw ar gelwydd, sef annghydgordiad a chroesdyniad, tra y mae'r gwirionedd yn dal yn nghyd, heb annghyttuno, tra y mae ei hun. O Iesu, y fath berffaith ddiniweidrwydd oedd yn dy fywyd, y fath burdeb manol oedd yn dy athrawiaeth, cyn na wyddai malais ei hun beth i'w ddyfeisio er dy enllibio!

Caled fyddai, pe na chai uffern ryw weithwyr ar y ddaear. O'r diwedd, dygir i mewn ddau dyst, y rhai a ddysgasant gyduno a'u gilydd, tra yr annghyttunant â'r gwirionedd. Dywedant yr un peth, er yn gelwyddog—*Hwn a ddywedodd, mi a allaf ddinystrio teml Dduw, a'i hadeiladu mewn tri diwrnod.* Adynod geu-lw! Ai y rhai'n oedd y geiriau a glywsoch o'r geneu sanctaidd hwnnw? A ddywedodd ef yn gymmwys megis yr hysbysasoch? Gwir iddo son am deml, am ddinystrio, am adeiladu, am dridiau: ond a lefarai ef am y deml honno, am ei hun yn dinystrio, am deml ddaearol, yn yr yspaid hwnnw? Dywedasai ef, *Dinystriwch chwi*, dywedwch chwithau, *mi a allaf ddinystrio.* Dywedasai ef, *y deml hon*, sef ei gorph; chwithau a ddywedwch, *Teml Dduw.* Dywedasai ef, *Adeiladaf y deml hon*, o'm corph, *mewn tridiau*; dywedwch chwithau, *mi a allaf mewn tridiau adeiladu'r deml* ddefnyddiol hon *o eiddo Duw.* Y geiriau oeddynt eiddo ef; yr ymadrodd oedd

eiddo chwi: y geiriau oeddynt wir, y dystiolaeth yn gau. Felly, tra y traddodwch y geiriau, gau-draddodwch y synwyr, tyngwch wir ffalsedd, ac ydych anudonwyr.

Lle y mae'r penderfyniad wedi ei wneuthur, unrhyw liw a wna'r tro. Pe llefarasid y geiriau hyn, nid oeddynt feius: pe buasai ef yr hyn a dybiasent, sef dyn yn unig, y geiriau a fuasent ymffrostgar, ond nid cableddus: etto, rhyfedd awydd Caiaphas am gael atteb! megis pe buasai'r geiriau hynny eisoes wedi bwrw i lawr y pentwr sanctaidd hwnnw, neu'r broffes o'i allu y teyrn-fradwriaeth pennaf yn erbyn Duw'r deml.

Gwyddai anfeidrol ddoethineb yn dda leied o foddlonrwydd a roddai attebion, lle yr oedd y ddedryd wedi ei sefydlu. *Iesu a dawodd.* Lle y mae'r cwestiynwr yn annheilwng, a'r cwestiwn yn ddichellgar, a geiriau'n ddiles, yr atteb goreu yw distawrwydd.

Ychydig o'r blaen, ei atteb cyfiawn a mwynaidd i Annas a ddychwelwyd âg ergyd ar ei rudd: yn awr, nid yw ei ddistawrwydd yn rhoddi mwy o foddlonrwydd. Nid oedd Caiaphas yn fwy ei falais na'i gyfrwysdra: yr hyn a ymdrechwyd yn ddilwydd ei gael trwy dystion, a dynnir allan o enau Crist ei hun. Yr hyn ni allai cyhuddiad ei wneuthur, a wneir trwy dyngheddiad. *Yr ydwyf yn dy dynghedu di trwy'r Duw byw ddywedyd o honot i ni, ai tydi yw y Crist, Mab Duw.* Ië, hon oedd y ffordd i dynnu allan atteb llofruddiol. Caiaphas, dy enau sydd aflan, ond dy orchymyn yn ddychrynllyd. Yn awr, os Iesu a fydd ddistaw, croch-lefir yn ei erbyn megis diystyrwr llygredig o'r Enw Ofnadwy hwnnw: haeriad sydd farwolaeth, gwadiad sydd waeth nag angau. O Caiaphas, cei wybod yn dda mai nid ofn a gauodd y genau sanctaidd hwnnw yr holl amser hyn. Llefari wrtho Ef, yr hwn ni all ofni y wynebau a wnaeth. Yr hwn a orchymynodd i ni ei addef ef, nis gall lai na'i addef ei hun. *Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Ti a ddywedaist.*

Y mae amser i ddywedyd, ac amser i fod yn ddistaw. Efe, yr hwn yw doethineb ei Dad, a roddodd in' yma esampl o'r ddau: nid ydym i lefaru fel ag i roddi mantais i wrth-ddadleuon: nid ydym i fod yn ddistaw fel ag i fradychu'r gwirionedd.

Ni chei achos mwy, O Gaiaphas balch a sarhaus, i gwyno oherwydd carcharwr mud: yn awr, cei glywed mwy nag a ofynaist. *Yn ol hyn, cewch weled Mab y dyn yn eistedd ar ddeheulaw'r gallu, ac yn dyfod ar gymmylau'r nefoedd.* Yna y llefarodd

fy Ngwaredwr; *llais Duw ac nid dyn.* Clyw, yn awr, archoffeiriad balch, a gwaradwydder di. Mab y dyn yna a ganfyddi yw Mab Duw, yr Hwn ni elli ei ganfod: Mab dyn hwnnw, Mab Duw hwnnw, y Duw a'r dyn hwnnw, yr hwn a ganfyddi'n sefyll yn ddirmygedig ger bron dy gadair orseddol, mewn gwael ymostyngiad, a ganfyddi etto, gyda braw a chryndod, yn eistedd mewn mawrhydi ar orseddfaingc y nef, a miloedd o angelion o'i amgylch, ac yn dyfod mewn cymmylau i'r farn arswydus honno, yn yr hon, tydi dy hun, yn mhlith drwg-weithredwyr damniol eraill, a gyflwynir ger bron ei frawdle ogoneddus ef, ac a'th fernir i'th gyfiawn arteithiau.

Dos yn awr, ragrithiwr truenus, a rhwyga dy ddillad: tra, yn y cyfamser, y teilyngi cael rhwygo dy enaid oddiwrth dy gorph, am dy gabledd gelyniaethol yn erbyn Mab Duw.

Dos rhagot—dy *esgus* sydd deg, a'r cyfryw a'r nis gall lai na chael ei ganmol gan dy giwed gyssylltiedig. *Pa raid i ni wrth dystion, wele, 'r awrhon y clywsoch ei gabledd ef. Beth debygwch chwi? A hwythau gan atteb a ddywedasant, y mae efe'n euog o farwolaeth.*

Pa bwys a ellir ei roddi ar farn dynion? Y maent mor ysgafn yn y glorian, fel bod un wns o ragfarn a rhagfeddianniad yn troi'r fantol. Pwy oedd y rhai'n ond dwys farnwyr Jerusalem; cymmanfa o ddewisiedig Rabbiaid Israel. Etto, rhoisant ddedryd yn erbyn Arglwydd y bywyd: dedryd o'r farwolaeth honno o'i eiddo ef, trwy'r hon y rhyddheir hwy, os rhyddheir hwy er hynny, oddiwrth lofrudddiaeth eu dedryd eu hunain.

O Iesu, nid hwn yw'r tro olaf it' dderbyn dedrydau creulon gan y sawl a broffesant ddysgeidiaeth a duwioldeb. Pa ryfeddod os dy aelodau gweiniaid a oddefant yr hyn a oddefwyd gan ben mor berffaith? Paham y prisiwn gael ein barnu gan farn dyn, pan y cefaist ti, Cyfiawn Farnydd y byd, dy gau-farnu gan ddynion?

Yn awr, gollyngir yn rhydd gynddaredd dy elynion maleisus arnat: pa driniaeth sydd ry galed iddo ef, yr hwn a farnwyd yn euog o farwolaeth? Yn awr, y geneuau aflan hynny a halogant dy wyneb bendigedig â'u poer ffiaidd—gwenwynol ewyn eu malais: yn awr y cyfodir i fynu y dwylaw creulon hynny i daro dy rudd sanctaidd: yn awr, dirmyg a orfoledda ar dy amynedd gostyngedig. *Prophwyda i ni, O Grist, pwy yw'r hwn a'th darawodd.* O anwyl Iesu, y fath ddechreuad o'th ddyodd-

efaint sydd yma! Yna y sefi'n rhwym, yn gondemniedig, wedi poeri arnat, dy daro, yn wawd gan bechaduriaid. Rhwym ydwyt ti, yr hwn a ddaethost i ddattod rhwymau marwolaeth: yr wyt ti'n gondemniedig, dedryd yr hwn sydd raid rhyddhau'r byd: poerir arnat ti, yr hwn *wyt deccach na meibion dynion:* Tydi a darewir, *yn ngenau yr Hwn nid oedd twyll:* Tydi a ddirmygir, yr hwn a ymwisgi *â ogoniant a mawrhydi.*

Yn y cyfamser, p'odd y rhyfeddaf yn ddigonol wrth dy anfeidrol drugaredd, yr hwn, yn nghanol dy ddirfawr warthrudd, a ellaist gael amser i daflu dy olygon yn ol ar dy ddisgybl gwael ac anniolchgar: yn dy glust rasol swnia ceiliog Petr yn uwch na'u holl waradwyddiadau hwy? O Iesu, yr hwn, pan oeddyt yn cael dy ddal, a annghofiaist dy holl berygl, i geryddu ac i iachau ei zel annghymedrol, yn awr, yn nghanol dy gyhuddiad a'th gondemniad, a annghofi dy holl druenu, er ei ddwyn o'i gyfeiliornad: a thrwy dafliad prydlon dy lygad, daro ei galon â gofid angenrheidiol.

Efe, yr hwn yn ddiweddar oedd mor wrol i ymladd drosot, yn awr, y bore canlynol, sydd ddigon annwrol i'th wadu: cilia *ef* yn ol, wrth lais morwyn, yr hwn nis dychrynai wrth ganfod llu maleisus. O Petr, pe buasai dy lithriad yn sydyn, buasai dy gwymp yn esmwythach.

Rhag-rybudd a chwanega at ddrygioni dy weithred: rhagddangoswyd y garreg it', ar yr hon y syrthiaist: ac ni chwanegodd y rhybudd at dy euogrwydd'n fwy na'th rag-benderfyniad. O, fel yr addunedaist beidio gwadu dy Feistr, pe buasai raid it' farw drosto! Pe nas dywedasit ddim, eithr atteb gyda distawrwydd crynedig, buasai dy warth yn llai. Bwriadau da, os na chedwir hwynt, a droant yn elynion, yn y cyfryw fodd ac i gynnorthwyo i ddyblu'r bai a'r gosp.

Etto, buasai un gwadiad yn esmwyth: yr eiddo ti, ofnaf ei ddywedyd, a wisgid oddimewn â chabledd a rhegfeydd.

O ba le, ynte, y tarddodd yr ymwrthodiad grymmus hwn a Meistr mor raslawn? Beth oedd y perygl o gyffesu dy fod gyda Christ? Gwyddai'r Archoffeiriad am un o'th gyfeillion, ei fod yn canlyn Iesu; er hynny, efe a ddaethai, nid yn unig i'r llys yn gyhoeddus, yn ngwydd y Barnwr, ond llefarodd wrth forwyn am dy adael dithau hefyd i ddyfod i mewn yno. Gwyddai hi beth ydoedd ef: gan hynny, gallasai lefaru wrthyt ti, fel wedi dy ddwyn i mewn ganddo ef—*onid wyt dithau hefyd yn un o ddis-*

gyblion y dyn hwn? Tithau hefyd, a arwydda fod y cyntaf yn cael ei gyfaddef y cyfryw: etto, pa fai, pa berygl, a rodded yn ei erbyn am hyn? Pa beth mwy a roisid yn dy erbyn dithau? Ai am dy fod yn ofni y galwesid di i gyfrif o achos Malchus? Nid oedd diolch i ti fod ei glust wedi ei iachau: ac yr oedd yno rai a feddylient agosed oedd y glust honno i'r pen. Diau nad oedd y gwr diwyd hwnnw ei hun yn mhell: a buasai ei gyfeillion a'i berthynasau'n dueddol o'th ddilyn, heblaw am dy fod yn ddis gybl, o achos tywalltiad gwaed, a gwaredigaeth. Dy gydwybod a'th wnaeth fel hyn yn rhy ofnog; ac yn awr, er diangc, rhag cael dy ystyried megis â llaw yn y cythrwfl hwnnw, ymwrthodi â phob gwybodaeth o hono Ef, yn achos yr hwn yr ymleddasit.

P'odd bynnag, yr oedd y pechod yn ysgeler. Crynaf wrth y fath godwm i Apostol mor fawr. O Petr, ti a gernodiaist dy Feistr yn fwy na'r holl Iuddewon: attat ti y trodd ei rudd oddiwrthynt hwy, fel yn edrych ar yr hwn a barasai iddo'r poen mwyaf: Teimlai tydi o bell, ac attebodd di trwy droi ei lygad attat, â chyfryw edrychiad ag a laddai ac a adfywiai ar unwaith. "Clwyfaist fi," gallasit ddywedyd yn awr, "O fy Ngwaredwr, *archollaist fy nghalon âg un o'th lygaid*. Yr un llygad hwnnw o'th drugaredd a ddoluriodd fy nghalon â gofid dwys am fy mhechod mawr, ac â digofaint oblegid fy anniolchgarwch: dy un edrychiad a'm toddodd i ddagrau edifeiriol. *O, na bai fy llygaid yn ffynnonau*, a'm gruddiau yn rhychiau na sychid i fynu byth. *Ac efe a aeth allan, ac a wylodd yn chwerw-dost.*

MATTHEW XXVI.

CRIST GER BRON PILAT.

LLAWN yr haeddai'r Iuddewon hyn fod dan ardreth. Taflasent ymaith iau eu Duw, ac a lwyr ennillasent y caethiwed Rhufeinig hwn. Tiberius a fu ry dirion wrthynt, trwy roddi iddynt lywydd mor ffafriol a Philat. Pe buasai ganddynt awdurdod i ladd ac i gadw'n fyw, ni fuasent rwymedig i genhedlddyn am lofruddiaeth gyfreithlon. Nis gwn pa un fwyaf, eu gofid oherwydd y caethiwed hwn, neu eu llawenydd wrth feddwl lwyred y gallent dafliu'r gwaed hwn i law un arall. Y Meistraid

mawrion hyn o Israel a redant o'u gorsedd eu hunain i lys Pilat. Yr eiddo hwy oedd y ddedryd, rhaid i'r cyflawniad o honi fod yn eiddo ef: ac yn awr, gobeithiant orchfygu Iesu gan ffrwd y mynych gyd-lefiad hwnnw.

Ond beth ddarfu i chwi, Lywyddion Israel, gan eich bod yn gwasgu at y drws? Paham nad ewch i mewn i'r frawdlys gyhoeddus, i alw am y cyfiawnder a geisiwch? Ai am na fynnech halogi eich hunain trwy gyffwrdd â thŷ Pagan? O, ddynion sanctaidd! ni oddefai eich cydwybodau i chwi gymmeradwyo gweithred mor aflan. Rhaid i'ch pasg gael ei gadw, rhaid i'ch personau fod yn lân: tra y disgwyliwch am gyfiawnder oddiwrth y dyn, ffieiddiwch halogrwydd y lle. Gwae chwi Offeiriaid, Ysgrifenyddion, Henuriaid, Rhagrithwyr: a all fod un man mor aflan a'ch mynwesau chwi? Nid anmhur muriau Pilat, eithr eich calonau chwi. Ai llofruddiaeth yw eich neges, ac a gythryblir chwi gan halogrwydd lle. Duw *a'ch tery chwi, furiau wedi eu gwyn-galchu.* A ydych yn hiraethu llychwino eich hunain â gwaed—â gwaed Duw? Ac a ofnwch ymhalogi trwy gyffwrdd â phalmant Pilat? A ydyw gwybedyn mor fychan yn glynu yn eich safnau, tra y llyngcwch gamel mor fawr o ddrygioni mor ysgeler? Ewch allan o honoch eich hunain, O ragrithwyr, os ydych am fod yn lân. Y mae i Bilat achos mwy i ofni, rhag i'w furiau gael eu halogi â phresennoldeb y fath anghenfilod o annuwioldeb.

Y Llywydd teg hwnnw a ymddarostwng i gydsynio a'u coelgrefydd. Nis meiddiant fyned atto ef, ymostynga ef fyned attynt hwy. Hyd yn nod, Pilat a ddechreua'n gyfiawn. *Pa achwyn yr ydych chwi yn ei ddwyn yn erbyn y dyn hwn?* Nis gellir barnu am grefydd oddiwrth ymagweddiad allanol dynion: y mae mwy o gyfiawnder yn mysg Rhufeiniaid nag Iuddewon. Tybiai'r Rabbiaid hyn ei fod yn ddigon eu bod wedi dedfrydu Iesu: nid oedd mwy yn awr i'w ddisgwyl ond dioed dihenyddiad—*Oni bai fod hwn yn ddrwg-weithredwr, ni thraddodasem ni ef attat ti.* Rhaid i gyfiawnder gwladol fod eu dihenyddwr. Y mae'n ddyfarniad digonol ei fod wedi ei draddodi i'r awdurdodau gwladol: Hwynthwy a gondemniasant, rhaid i'r rhai hyn ladd.

Pilat a Chaiaphas a newidiasant le: y pagan hwn a lefara'r gyfraith a'r cyfiawnder hynny, y rhai a ddylesid gael eu llefaru gan yr archoffeiriad hwnnw: a'r archoffeiriad hwnnw a lefara'r

annghyssonderau llofruddiog, y rhai a fuasent gymmwysach i enau pagan. "Pa raid profiad newydd? A wyddost, Pilat, pwy ydym? Ai hyn yr anrhydedd a roddi i'n hoffeiriadaeth sanctaidd? Ai fel hyn y prisi ein sancteiddrwydd? Pe achwynasai y gwaelaf o'r werin wrthyt, nis gallesit ond chwilio eu cwyn. Ni ddylai ein sefyllfa a'n sancteiddrwydd ni gael eu gwan-dybio. Os yw ein cydwybodau'n drwg-dybio, hyd yn oed, dy furiau, gelli'n hawdd ddirnad nad oes achos meddwl yn wan am ein cydwybodau. Yr ydym wedi dedfrydu'r drwgweithredwr hwn i farwolaeth, yn ol olrhain ei achos yn gyflawn, ac ymddwyn yn y matter yn eithaf barnedigol: nid oes eisiau mwy oddiwrthyt ti na rhoddi gorchymyn am ei ddihenyddio." O, anghenfil o falais neu o annghyfiawnder! A raid ei fod ef a gondemnier gennych chwi yn ddrwg-weithredwr? A ydyw eich gair chwi yn unig yn ddigon er tywallt gwaed? Pwy a laddasoch erioed ond y rhai cyfiawn? Trwy ddwylaw pwy y syrthiodd y prophwydi? Cam-ddywedasoch: dylasech ddywedyd, "Pe na buasem ni ddrwg-weithredwyr, ni thraddodasem y dieuog hwn i ti."

Rhaid fod y peth hwnnw yn eithaf annghyfiawn, yr hwn y mae natur ei hun yn dysgu Paganiaid i'w ffieiddio. Pilat a ganfydda, ac a gasha'r amcan a'r weithred waedlyd hon. "A gymmerwch chwi arnoch fod yn sanctaidd, y rhai a elwch am drais mor niweidiol? Os yw Ef y cyfryw ag a ddywedwch, p'le mae ei gyhuddiad? Os na ellir ei gyhuddo'n gyfreithlon, paham y dylai farw? A feddyliwch y cymmeraf eich achwyniad chwi yn lle bai? Os rhaid i mi farnu drosoch, paham y barnasoch drosoch eich hunain? A allasech feddwl y condemniaswn un heb ei holi? Os rhydd eich cyfreithiau Iuddewig y rhydd-did hwn i chwi, ni rydd y rhai Rhufeinig y cyfryw i mi. Nid wyf i farnu yn ol eich cyfreithiau chwi, ond yr eiddo ein hunain. Nis gall eich rhagfarn fy llywio i. Gan i chwi fyned mor bell, torrwch allan gyfiawnder i chwi eich hunain. *Cymmerwch chwi Ef, a bernwch Ef yn ol eich cyfraith chwi.*" O Pilat, ddedwydded fuaset, pe ymddygaset fel hyn. Golchaset dy ddwylaw yn lanach, nag yn dy holl phiolau. Pe buasai cyfraith yn llywio'r farn hon, ac nid malais, ni thywalltesid y gwaed hwn.

Mor eglur y dadguddia eu tafod eu calonau. *Nid cyfreithlon i ni ladd neb.* Pilat a sonia am farnu, hwythau am ladd. Hyn oedd eu holl amcan. Nid oedd cyfraith namyn lliw:

barn ond defod: angau oedd eu dyben a dim arall. O, offeiriaid a henuriaid gwaedlyd, da fod eich gallu hwn dan attalfa: nis gallasai unrhyw ddiniweidrwydd fod yn ddiogel, pe na fuasai derfynau i eich ewyllys di-gyfraith. Truenu fod y cleddyf hwn yn llaw neb ond y cyfiawn a'r ystyriol. Ni phrisiodd eich llid gyfraith bob amser: pa gyfraith a oddefodd eich trais ar Stephan, Paul, a Barnabas, a'ch ymgais marwol yn erbyn yr Iesu bendigedig hwn, yr hwn a erlidiwch yn awr? Pa fodd yr oedd hi'n gyfreithlon i chwi ddwyn oddiamgylch yr angau hwnnw, yr hwn ni allasech ei effeithio eich hunain? Holl ofal rhagrithwyr, yw ceisio esgusion i'w bwriadau ffiaidd, ac i ddefnyddio cyfreithiau dynol a dwyfol, yn unig er eu gwasanaeth eu hunain.

Lle y rhag-bwriedir angau, nid oes angen am achwynion. Nid yw malais mor ddiffrwyth, fel ag i beidio dyfeisio beiau ddigon. *Ni a gawsom hwn yn gwyr-droi'r bobl, ac yn gwahardd rhoi teyrnged i Cesar, gan dywedyd mai Efe yw Crist Frenhin.* Pa achwynion a ddywedaist, Pilat? Rhai ysgeler a marwol. Gallesit gredu ein hawgrymiad hyderus: ond am y cymhelli in' fod yn neilluol, gwybydd fod gennym y cyfryw gyhuddiad, ag a bar i'th glustiau wresogi wrth ei glywed. Heblaw'r cabledd hwnnw, o'r hwn y cyhuddasom Ef, y mae'r dyn yn dwyllwr y bobl, yn derfysgwr, ac am draws-feddiannu'r llywodraeth." O iaith ddigywilydd! Pa ryfedd, O Iesu, os llwythir dy onest weision âg enllib, pan na ddiangodd dy berson di, y mwyaf dieuog, rhag cyhuddiadau mor warthus? Tydi yn gwyr-droi'r bobl, yr hwn a ddysget ffordd Duw mewn gwirionedd! Tydi yn gwahardd teyrnged, yr hwn a'i telaist, yr hwn a'i gorchymynaist, yr hwn a brofaist ei fod yn ddyledus i Cesar! Tydi yn honni hawl i'r llywodraeth, yr hwn a'i gochelaist, a'i gwrthodaist, ac a broffesaist dy ddyfod i wasanaethu! O dalcen malais! Ewch athrodwyr cywilyddus, a thyngwch fod gwirionedd yn euog o bob ffalsedd, cyfiawnder o bob cam: ac mai'r haul yw'r unig achos o dywyllwch, a thân o oerfel-garwch.

Yn awr, Pilat a gyffröddwrth y cyhuddiad. Sonir am deyrnged, sonir am Cesar: gall y swyniau grymmus hyn ei ddwyn yn ol i'r dadleudy, a galw'r Iesu at ei faingc. Yno, y sefi, O Iesu, yn addfwyn i gael dy farnu, yr hwn a ddeui ryw dro i farnu'r byw a'r meirw. Yno y saif ef ger bron dy Fawrhydi ofnadwy, yn euog a chrynedig, ger bron yr hwn y sefaist di yn ddieuog.

Y mae enw Brenhin, enw Cesar, yn ddyladwy yn dyner, a brawychus. Y son lleiaf am draws-feddiannu, neu aflonyddu, a glywir gyda gofal eiddigeddus. Cymmer Pilat sylw yn ddiattreg o hyn. *Ai tydi yw Brenhin yr Iuddewon?* Teimla ei awdurdod ei hun yn cael cyffwrdd âg Ef: yr oedd yn amser iddo i ymsymmud. Nodedig oedd, fod wythnosau Daniel yn awr ar ddarfod. Llawer o rai diwyd a beilchion (megis Judas o Galilea, Theudas, a'r Twyllwr Aiphtaidd hwnnw) gan gymmeryd mantais ar hyn, a godasant amryw fradwriaeth, a honnasant hawl newydd i'r goron, ac a gasglasant luoedd i amddiffyn y cyfryw. Efallai i Pilat dybied, fod rhyw beth fel hyn yn awr ar droed; gan hynny gofynna mor gywrain, *Ai Tydi yw Brenhin yr Iuddewon?*

Efe, yr hwn yw Doethineb, ddim llai na Gwirionedd, ni thybiodd yn oreu i gadarnhau, nac i wadu ar unwaith. Gall weithiau, fod niweid mawr oddiwrth lefaru pob gwirionedd. Gwrthod y titl hwnnw ar unwaith, yr hwn a roddasid iddo er cynt gan y prophwydi, ar ei enedigaeth, gan y doethion o'r dwyrain, ac yn awr, ar ei fynediad i Jerusalem, gan y lluaws bloedd-lefawl, a fuasai'n niweid iddo ei hun: ei broffesu, a honni llwyr hawl iddo, a fuasai'n beryglus heb ddiachos. Llefara'r gwirionedd hwn gan hynny, yn raddol mewn cyfiawnder a doethineb, yn y cyfryw fodd, fel y boddlona'r ymofynydd, gan waredu ei eiriau oddiwrth bob rhagfarn ac enbydrwydd. Caiff Pilat wybod ei fod Ef yn Frenhin: ond y cyfryw Frenhin, a'r na ddylai un brenhin ei ofni, ond a ddylai pob brenhin ei arddel a'i addoli. *Nid yw fy mrenhiniaeth o'r byd hwn.*

Eich camsynied, O fawrion daearol, yw achos eich ofnau. Clyw Herod am Frenhin yn cael ei eni, ac a'i cythryblir. Clyw Pilat am Frenhin yr Iuddewon, ac y mae'n llidiog. Pe na buasech anwybodus, ni fuasech genfigennus. Pe dysgasech wahaniaethu rhwng teyrnasoedd, y drwg-dybiadau hyn a ddiflanasent. Y mae teyrnasoedd daearol ac ysbrydol: nid yw rhai'n yn gormesu ar eu gilydd. Yr eiddo chwi sydd ddaearol, yr eiddo Crist sydd ysbrydol: gall y ddwy, ïe, rhaid iddynt gyd-sefyll. Ei gyfreithiau ef ydynt Ddwyfol, yr eiddo chwi gwladwriaethol. Ei deyrnas ef sydd dragywyddol, yr eiddo chwi'n dymhorol: gogoniant ei deyrnasiad ef sydd dumewnol, yn ngrasau sancteiddrwydd, cariad, tangnefedd, cyfiawnder, a llawenydd yn yr Ysbryd Glan; yr eiddo chwi sydd mewn rhwysgallanol,

cyfoeth, a mawredd. Ei elynion ef ydynt y diafol, y byd, a'r cnawd; yr eiddo chwi ydynt traws-feddianwyr corphorol, a thorwyr heddwch allanol. Ei gleddyf ef ydyw gallu'r gair a'r Ysbryd; yr eiddo chwi sydd fettelaidd: Llywodraetha ef ar y gydwybod, chwithau ar gyrph a bywydau. Cospa ef âg uffern, chwithau a gospwch âg angau tymhorol neu boen. Ië, y mae Ef mor belled oddiwrth wrthsefyll eich teyrnasiad chwi, fel mai trwyddo ef y teyrnasa brenhinoedd. Eich teyrnwialennau ydynt eiddo ef: i'w cynnal, nid yw dwyn, na'u gwrthsefyll. O, ofnau disail dynion gwageddus! Ni chymmer ef ymaith eich teyrnasoedd daearol, yr hwn a rydd i chwi un nefol. Nid yw Ef yn digoroni'r corph, yr hwn sydd yn coroni'r enaid. Ei ddyben yw, nid lleihau eich mawredd, ond cynnyddu eich dedwyddwch.

Attebir y cyhuddiad mor gyflawn, fel fod Pilat yn rhyddhau y carcharor. Pennaethiaid yr Iuddewon a safant etto oddi allan: er cymmaint eu malais, ni feiddiant ymhalogi trwy fyned i mewn i amddiffyn eu cyhuddiad. Pilat a'i holodd o fewn y dadleudŷ, ac yn awr, daw allan at y cyhuddwyr a wchus hyn, âg atteb oerllyd i'w disgwyliadau tra gwresog, *Nid wyf yn cael ynddo un bai.* O, dystiolaeth anrhydeddus o ddiniweidrwydd Crist o'r genau hwnnw, yr hwn, yn ol hyn, a'i dedfrydodd i farwolaeth.

Mor fawr y gwahaniaeth rhwng dyn, fel y mae ynddo ei hun, ac fel y mae'n was i eraill! Tafod Pilat a ddywaid, *Nid wyf yn cael ynddo ddim bai:* tafod yr Iuddewon yn ngenau Pilat, a ddywedodd, *Croeshoelier ef.* Nis gall y ddedryd greulon honno ei wneud Ef yn feius, yr Hwn a gyhoeddir yn ddifai gan y cyfryw dystiolaeth.

Ni ddywaid ychwaith, "Nid wyf yn ei gael yn euog o'r hyn y cyhuddir ef:" ond rhyddha holl ymddygiad Crist, *Nid wyf yn cael ynddo ddim bai.* Er gwaethaf malais, caiff diniweidrwydd attegwyr. Yn hytrach na bod eisiau tystion ar Grist, caiff genau Pilat ei agor er ei gyfiawnhau. Pa fodd y tarawyd â syndod yr Iuddewon gwaedlyd hyn gan atteb mor annisgwyliadwy! Ei bardwn ef oedd eu marwolaeth hwy—ei ryddhad ef eu cyhuddiad hwy. *Dim bai,* lle canfyddasom ni feiau! *Dim bai,* a ninnau wedi ei gondemnio am feiau haeddiannol o farwolaeth. Mor eglur y gwna Pilat ni'n gelwyddwyr! Mor gywilyddus y dibrisia ein hawdurdod, ac y dirmyga ein cyfiawnder! Diau i gyffes diduedd Pilat gyffroi cynddaredd yr

Iuddewon hyn. Cynnyddodd eu llid i'r eithaf, trwy deimlad o'u haflwyddiant.

Crynaf wrth feddwl mor gyfiawn oedd Pilat hyd hyn, ac mor fuan yr ymlygrodd, ïe, mor drugarog yn gystal a chyfiawn! O, fel y dymunai ryddhau yr Iesu, yr hwn a gafodd heb fai ynddo!

Yn ol arferiad llygredig, mewn coffadwriaeth o'u gwaredigaeth o gaethiwed yr Aipht, caniatteid i'r Iuddewon gael rhyddhau rhyw un carcharor. Traddodiad sydd drawsfeddiannol. Yr oedd oen y pasg yn goffadwriaeth digonol o'r waredigaeth werthfawr honno: dymuna dynion osod i fynu ryw beth o'u heiddo eu hunain. Dymunai Pilat gymmeryd mantais ar hyn, er rhyddhau'r Iesu. Fel y gallai lwyddo, enwa Grist gyda drwg-weithredwr mor nodedig ag a dybiai fod tu draw i gyrhaeddiad pob trugaredd: Barabbas, lleidr, llofrudd, terfysgwr: ffiaidd am bob peth, ffiaidd gan bawb. Pe enwasai ryw garcharor diniweid arall, gallasai ofni'r dewisiad a wnaent: nis gall ofni yn awr, gan fod Barabbas y fath erchyll ddrwg-weithredwr. *Yna y llefasant oll drachefn, nid hwnnw, ond Barabbas.* O, falais heb ei ail, gwarthus a gwaedlyd! Pwy all ond gwrido tra yr oedd Pagan yn canfod Iuddewon mor ffyrnig mewn annghyfiawnder, mor farbaraidd yn eu creulondeb! Gwyddai ef nad oedd bai yn Iesu: gwyddai nad oedd bai yr hwn nid oedd yn Barabbas, etto, clyw, ac wrth glywed, gwrida, clyw hwynt yn dywedyd, *Nid hwnnw, ond Barabbas.*

Ai nid oedd hyn oherwydd tebygolrwydd o ran sefyllfa? Pob peth a gar ei debyg, a chadwraeth yr hyn a hoffa. Pa ryfedd, ynte, O Iuddewon, os ffafriwch Barabbas, y rhai a broffeswch eich hunain yn llofruddion y Cyfiawn hwnnw?

O Iesu, y fath anmharch marwol oedd hwn—sef i ti glywed hyn oddiwrth dy genedl dy hun! A wrthodaist bob gogoniant i wisgo gwarth â thrueni, er eu mwyn hwy? A ddibrisiaist dy hunan bendigedig, er eu hachub hwy? Ac a ydynt yn dy wrthod di am Barabbas? A ddywedaist ti, "Nid nefoedd ond daear: nid brenhiniaeth, eithr gwasanaeth: nid y Cenedl-ddyn, ond yr Iuddew?" Ac a ddywedant hwythau, *Nid hwn, ond Barabbas? Ai hyn a delwch i'r Arglwydd, bobl ynfyd, annghall, ac annghyfiawn!* Fel hyn y croeshoeliwyd dy lygaid a'th glustiau'n gyntaf: a thrwyddynt clwyfwyd dy enaid hyd farwolaeth, cyn dy farwolaeth: tra y canfyddit eu cynddaredd, ac y clywet eu llef, *Croeshoelia, croeshoelia ef.*

Mynnai Pilat ei geryddu. Buasai hyd yn oed hyn yn drugaredd greulon oddiwrtho: canys pa ddrwg a wnaethost? Ond buasai'r creulondeb yn wir drugaredd wrth gais yr Iuddewon, y rhai ni foddiai unrhyw waed, ond gwaed dy galon. Geilw Pilat am dy fai, hwythau am dy gospedigaeth: gan gyhoeddi nas bwriedir dy groeshoeliad er boddloni cyfiawnder, ond malais, *Hwythau a lefasant yn fwy, gan ddywedyd, Croeshoelia ef.*

Megis y cynnyddodd eu llef y gwanhaodd cyfiawnder y llywydd. Y grasau hynny, y rhai a orweddant yn rhyddion, ac heb wraidd iddynt, a olchir ymaith yn hawdd gan y gorlif cyntaf o ddymuniad i fod yn boblogaidd. Tair gwaith y cyhoeddasai'r dyn hwnnw ei ddiniweidrwydd Ef, yr hwn yn awr a gondemnia, *gan chwennych boddloni'r bobl.* O, ffoled yw dybenion alchder! Nid yw Duw, nid yw ei gydwybod yn ei feddwl: dim ond y bobl. O, yr eulun tlawd a addolir gan y balch! Hyd yn oed, y werin, y rhai a ddibrisir, ïe, gan y gwael. Beth yw eu clod ond gwynt diles? Beth yw eu llid ond tân wedi ei liwio? O Pilat, pa le yn awr yr ydwyt dy hun, a'th bobl—pan y glynasai cydwybod dda wrthyt yn dragywydd, a rhoddasai it' hyder ger bron wyneb y Duw hwnnw, yr hwn ni chai di na'th bobl bythyr happusrwydd o'i weled?

Yr Iuddewon a wnaethant y rhan gyntaf: rhaid i'r Cenhedloedd, yn awr, wneuthur eu rhan hwythau. Pilat creulon, yr hwn a wyddai mai *o genfigen y traddodasid ef,* y cam gyhuddiasid, yr erlidiasid ef yn faleisus, a drodd y cerydd a gynnygiasai i fflangelliad. *Yna y cymmerodd Pilat yr Iesu, ac a'i fflangellodd ef.* Gwae fi, anwyl Iesu, teimlaf dy ergydion: ciliaf yn ol dan dy fflangelliadau poenfawr: dy noethni a'm cuddia â gwarth. Dy gorph tyner a gwerthfawr a ddryllir â rheffynau. Tydi, yr hwn yn ddiweddar a ddyfrheaist ardd Gethsemane â'th chwys gwaedlyd, a liwi yn awr balmant tŷ Pilat â chawodydd dy waed. Mor llwyr y cyflawnaist dy air. *Rhoddais fy nghefn i'r curwyr, a'm cernau i'r rhai a dynnai y blew: ni chuddiais fy wyneb oddiwrth waradwydd a phoeredd!* Pa fodd y gallaf deimlo'n ddigonol fy nghleisiau? Yr ergydion hyn ydynt eiddo fi: fy mhechodau a'u rhoisant, a rhoddant hwy feddygyniaeth i'm pechodau. *Efe a archollwyd am ein camweddau ni, efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni: cospedigaeth ein heddwch ni a roddwyd arno ef, a thrwy ei*

gleisiau ef yr iachawyd ni. O Iesu, paham y cyfrifwn ef yn beth dyeithr cael fy flangellu â thafod neu law, pan y'th ganfyddaf di yn gwaedu? Pa ergydion a ofnaf o'r nef neu o'r ddaear, yn gymmaint ag it' oddef dy fflangelliadau drosof, ac a'u sancteiddio im'.? Anwyl Iesu, pa fath fyd o waradwyddiadau a phoenau yr wyt yn awr ar fyned iddo! Y mae dirmyg yn ofid digonol i dymmer dyner a charedig; ond yma, poen a helpia i berffeithio dy drueni.

Pwy a weithredai yn yr achos gwaedlyd hwn, ond milwyr geirwon a barbaraidd: dynion cynnefin â chreulondeb, yn wynebau y rhai yr oedd yn ysgrifenedig lythyrenau o lofruddiaeth, crefft y rhai oedd lladd, a'u golwg oedd ddigon i ragflaenu eu dwylaw. Y rhai hyn, er gwneud dychryniad eu cyd-gynnulliad yn fwy, a elwir yn nghyd, ac a gydunant i ragflaenu ei farwolaeth â gwawd, yr hwn a gwblhant ar fyr trwy drais, naill ai trwy oddefiad neu orchymyn eu llywydd drygionus, neu trwy annogiad yr Iuddewon maleisus.

O fy Ngwaredwr bendigedig, ai nid digon i'th gorph sanctaidd gael ei ddiosg o'i ddillad, a'i nodi gan gleisiau gwaedlyd: ond bod yn rhaid i'th berson fod yn wawd i'th elynion: dy gefn ei dwyll-wisgo â gwisg o borphor, dy arleisiau eu clwyfo â choron ddrain, dy wyneb ei ddifwyno â phoeredd, dy gernau eu curo, a'th ddwylaw gael corsen fel teyrnwialen: ac i ti dy hun gael dy wawdio gan safnau ar ŵyr, gliniau plygiedig, a llefau dirmygus!

O filwyr digywilydd! I ba ddyben yr holl gellwair a'r gwawdio hyn, ond er dirmygu mawrhydi? Y rhai'n oll ydynt addurnau a defodau coroniad brenhinol, y rhai a osodwch mewn gwawd ar fy Ngwaredwr dirmygedig. Ewch rhagoch: ymddifyrwch fel hyn. Och, yn mhell cyn hyn yr ydych wedi profi pwy a ddirmygasoch. Ai Brenhin yw'r hwn a wawdiasoch? Edrychwch gyda braw ar yr hwn yr edrychasoch arno gyda gwawd a dirmyg? Onid oedd y pen hwnnw yn gymmwys i'ch drain, yr hwn a welwch yn awr yn goronedig â gogoniant a mawredd? Onid oedd y llaw honno yn gymmwys i gorsen, teyrnwialen haiarn yr hon a'ch dryllia i farwolaeth? Onid oedd y wyneb hwnnw yn gymmwys i boeredd, oddiwrth edrychiad brawychus yr hwn yr ydych yn barod i ddeisyf ar y mynyddoedd eich cuddio?

Yn y cyfamser, i ba le yr ymostyngi, Tydi gogyd-tragywydd-

ol Fab dy dragywyddol Dad, er fy mwyn i? Myfi a bechais, tithau a gospir: derchefais i fy hun, a thithau a deflir i lawr: ymwisgais i â chywilydd, a thithau a ddiosgir: myfi a ddinoethais fy hun, a thithau a wisgir â gwisgoedd o ddianrhydedd: fy mhen a ddyfeisiodd ddrwg, a'r eiddo tithau a bigir â drain: myfi a'th darewais di, a thi a darewir o'm hachos: myfi a'th anmherchais di, ac er fy mwyn fe'th waradwyddir. Gwneir di yn wawd gan ddynion er fy mwyn i, yr hwn a haeddais fod yn wawd gan gythreuliaid.

Dygir di allan at y lliaws cynddeiriog, wedi dy gau-wisgo yn waedlyd, yn archolledig y wedd hon, naill ai er cynhyrfu tosturi, neu er mwy gwawd, gydag *Ecce homo, Wele y dyn.* Edrychwch arno, Iuddewon didrugaredd: gwelwch ef yn ei gywilydd, yn ei glwyfau, yn ei waed: a gwelwch yn awr pa un ai bernwch ef yn ddigon truenus. Chwi a ganfyddwch ei wyneb yn las ac yn ddu gan gernodiau, ei lygaid yn chwyddedig, ei ruddiau wedi eu difwyno gan boeredd, ei groen yn dorredig gan fflangellau, ei holl gorph yn guddiedig gan waed: ac a fynnwch gael rhywbeth yn rhagor? *Wele y dyn:* y dyn y cenfigenasoch wrtho am ei fawredd, yr hwn a ofnasoch rhag ei drawsfeddianniad: onid yw'n edrych fel Brenhin? Onid yw ei wisg yn frenhinol? Gwelweh pa un ai yw ei fawredd yn tynnu parch oddiwrthych. A ddymunech ddisgleiriach brenhin? Onid ydych yn ofni y dwg ef y deyrn-wialen allan o law Cesar? *Wele y dyn.*

Ië, a sylwch arno yn dda, O Pilat falch, O filwyr creulon, O Iuddewon anniwall. Gwelwch ef yn wael, yr hwn a gewch ei weled yn ogoneddus. Yr amser, yn ddiau, a ddaw, pan ganfyddwch ef mewn gwisg arall. Ymddisgleiria ef, yr hwn a welwch yn ei waed yn awr. Nis gall ei goron fod yn awr mor ddianrhydeddus ag y bydd yn fawr a disglaer ryw ddydd. Chwi, y rhai a blygwch eich gliniau yn awr ger ei fron mewn diystyrwch, a ganfyddwch bob glin yn plygu iddo yn y nef, a'r ddaear, a than y ddaear, mewn addoliad ofnadwy. Chwi, y rhai a'i gwelwch yn awr yn ddirmygedig, a'i canfyddwch mewn braw.

Pa ryfel a welaf hyd yma yn mynwes Pilat. Dywaid ei gydwybod wrtho am arbed; ei falchder, am ladd. Ei wraig wedi ei rhybuddio mewn breuddwyd, a'i rhybuddia yntau oddiwrth fod â llaw ganddo yn ngwaed y gwr cyfiawn hwnnw: y lluaws

a'i taer-gymhella i'w ddedfrydu i farwolaeth. Defnyddiodd bob dyfais er rhyddhau'r dyn, yr hwn a gyhoeddasai'n ddieuog: defnyddir, yn awr, bob moddion treisgar er condemnio'r dyn hwnnw, yr hwn a ffugia malais yn feius.

Yn nghanol yr ymryson hwn, pan dueddid calon derfysglyd Pilat gan gydwybod a chyfiawnder i ryddau yr Iesu, yr Iuddewon a lefant allan, *Os gollyngi di hwn, nid wyt ti ffyddlon i Cesar.* Dyna'r gair a lwyddodd: nid oes amser i oedi'n hwy. Yn ofer y disgwyliwn y bydd i galon gnawdol ofalu am yr enaid o flaen am ddiogelwch ac anrhydedd: gosod Duw o flaen Cesar. Yn awr, rhaid i'r Iesu farw. Pilat a frysia i'r dadleuddŷ: ni lyna'r ddedryd yn hwy rhwng ei ddannedd, *Croeshoelier ef.*

Er hynny, pa mor frynted bynnag y bydd ei enaid trwy'r weithred hon, caiff ei ddwylaw fod yn lân. *Efe a gymmerth ddwfr, ac a olchodd ei ddwylaw ger bron y bobl, gan ddywedyd, Dieuog ydwyf fi oddiwrth waed y cyflawn hwn; edrychwch chwi.* Yn awr, y mae pob peth yn ddiogel, tybiaf. Dyma ddigon o gymmod. Gall dwfr olchi ymaith waed: gall y dwylaw lanhau'r galon. Proffesa dy fod yn ddiniwed, ac nis gelli fod yn euog. Ragrithiwr ofer! a feddyli y gelli ddiangc fel hyn? Ai nid oes lliw dyfnach i lofruddiaeth? A elli freuddwydio yn effro i ochelyd fel hyn freuddwyd dy wraig? A ydyw dy euogrwydd am dywallt gwaed Mab Duw i gael ei dynnu ymaith gyda'r fath hawsder? Y fath ddyfeisiau gwael a ddefnyddir gan bechaduriaid ffol i dwyllo eu hunain! Gwna unrhyw beth y tro er swyno'r gydwybod, pan fyddo'n dymuno cysgu.

Ond, O Iesu, tra y meddyliai Pilat am olchi ymaith euogrwydd dy waed â dwfr, gwn nad oes dim a all olchi ymaith euogrwydd ei bechod ond dy waed di. O, golch fy enaid yn y ffynnon werthfawr honno, a byddaf lân. O Pilat, os na olcha y gwaed a dywelltaist dy euogrwydd am dywallt gwaed, nid yw dy ddwfr ond halogi dy enaid yn fwy, a chynhyddu'r tân hwnnw, yr hwn sydd yn awr yn dy losgi.

Ychydig a wyddai'r Iuddewon drygionus am bwys y gwaed hwnnw, yr hwn a ddymunasant fod arnynt hwy a'u plant. Pe gweddiasent yn erbyn eu rhan yn y llofruddiaeth erchyll hwnnw, nis gallasent mor rhwydd ddiangc rhag y dialedd: ond yn awr, am eu bod yn ei ddwyn arnynt eu hunain trwy ddeisyf-

iadau ewyllysgar, beth a ddywedaf ond eu bod yn hiraethu am felldith? Trueni iddynt beidio a bod yn druenus.

Ac onis teimlasoch etto, O genedl deilwng o blaäu, pa waed oedd yr hwn y dymunasoch fod eu euogrwydd arnoch! Pedwar cant ar bymtheg o flynyddoedd a aethant heibio er pan y deisyfiasoch y wedd hon eich annedwyddwch. Onid ydych wedi bod er yr amser hwnnw yn wawd a ffieidd-dra'r ddaear? Oni fu llawer o honoch fyw i ganfod eich dinas yn gladdedig mewn lludw, ac yn foddedig mewn gwaed? I ganfod eich hunain yn peidio a bod yn genedl? A fu erioed bobl dan y nef, yr hwn a fu yn olygfa mor nodedig o ddinystr? A gawsoch bellach ddigon o'r gwaed hwnnw, yr hwn a alwasoch arnoch eich hunain ac ar eich plant? Eich creulonderau gynt, eich aflendid, eich eulun-addoliaeth, a barodd i chwi ond rhyw fyr gaethiwed: nis gall Duw lai na bod yn gyfiawn: rhaid fod y pechod hwn, dan yr hwn yr ydych yn gorwedd mewn ochneidiau ac yn ddigyssur, o angenrheidrwydd yn fwy na'r lleill, yn gymmaint ag y mae eich galanastra chwi'n fwy: a pheth a all hwnnw fod ond llofruddiaeth Arglwydd y bywyd? Cawsoch yr hyn a ddymunasoch—byddwch druenus hyd y byddwch edifeiriol.

MATTHEW XXVII.

Y CROESHOELIAD.

DEDRYD marwolaeth a roddwyd yn ei erbyn: ac yn awr, pwy gyda llygad sych a all edrych ar rwysg gofidus gwaedlyd ddihenyddiad fy Ngwaredwr! Yr heolydd oll ydynt lawn o edrychwyr yn syllu, gan ddisgwyl am yr olygfa alarus hon. O'r diwedd, O Iesu, deui allan trwy borth Pilat, gan ddwyn ar dy ysgwyddau yr hyn yn fuan a'th ddwg di. Disgwyl am dy groes nid yw yn ddigon o boen, rhaid it' ei ddwyn. Yr holl amser hwn cei, nid yn unig weled, ond teimlo dy farwolaeth cyn iddo ddyfod: a rhaid it' fod yn weithredwr yn dy ddyoddefaint dy hun.

Nid o ffafr y cafodd y gwisgoedd a roddasid am danat er dy wawdio, eu cymmeryd ymaith, ac y cefaist dy arwain i angau yn yr eiddot dy hun. Yr oedd dy wyneb wedi ei lychwino felly â

phoer, ac mor chwyddiedig gan y cernodiau a gawsit, fel nas gallesid dy adnabod ond yn dy wisgoedd arferedig.

Yn awr, y mae dy elynion sarhaus yn gymmaint yn fwy creulon ag ydynt yn sicr o lwyddo. Eu harteithiadau didrugaredd a'th wnaethant yn hanner marw yn barod: ac yn awr, megis pe buasent heb wneuthur dim, dechreuant o'r newydd, a gyrrant dy natur, yr hon a wanychwyd, i arteithiau newyddion. Y mae y darn croes o'th groes o leiaf ar dy ysgwydd: tra prin y gelli gerdded, rhaid it' gludo. Un a'th dery â'i droed, y llall â'i ffon, arall a'th lusga'n gyflym gerfydd dy gadwyn, a llawer a'th orchymynant yn llidiog i brysuro, heb dosturio wrth dy ludded.

O wir ffurf a chyflwr gwas! Dy holl weithredoedd blaenorol, O Iesu, oeddynt ryddion (er yn boenfawr): hon, megis y mae'n wasaidd ynddi ei hun, felly, hi a gymhellir arnat gyda gormes: a gymhellir arnat etto'n fwy gan dy gariad at ddynolryw, na chan eu gallu a'u malais hwy. Dy Dad oedd yr hwn a roddodd arnat *ein hanwiredd ni oll.* Dy drugaredd dy hun a barodd it' ddwyn ein pechodau ar y groes, ac i ddwyn y groes, a'r felldith yn nglyn â hi, am ein pechodau ni.

Pa faint mwy ewyllysgar a raid dy fod yn y peth hynny, yr hyn a orchymyni i ni ei gymmeryd arnom yn ewyllysgar! Dy orchymyn oedd, *Os myn neb dyfod ar fy ol i, ymwaded âg ef ei hun, a chyfoded ei groes a chanlyned fi.* Ni ddywedaist, "Dyged ei groes," megis yn cael ei rhoddi arno trwy drais gan eraill: ond, *cyfoded ei groes*, megis ei faich gwirfoddol: gwirfoddol o ran ei galon, nid o ran ei law: mor wirfoddol, fel yr â yn ewyllysgar dano, pan osodir arno: nid mor wirfoddol fel ag i'w osod arno ei hun, heb neb yn gofyn hynny. O Iesu, ni chippiaist y groes allan o ddwylaw'r milwyr, gan ei gosod ar dy ysgwydd: ond pan osodasant hwy hi ar dy wddf, aethost o'th fodd dani: y trais oedd yr eiddo hwy, a'r ewyllysgarwch yr eiddo ti.

Nid oedd mor drymmed iddynt hwy, neu i Simon, ag oedd i ti. Ni theimlent hwy ond y pren: teimlaist di ef, a phechodau'r holl fyd yn nglyn âg ef. Nid rhyfedd os llewygaist dan y cyfryw faich. Tydi, yr hwn a gynneli'r holl fyd trwy dy air, a chwysaist, a ddyheuaist, ac a ocheneidiaist dan dy faich annoddefol. O Iesu gwynfydedig, p'odd y cythryblasid fi, pe buaswn yn dy ganfod yn llewygu dan y pren marwol hwnnw,

yn ol colli cymmaint o waed, a dyoddef cymmaint o boen! Ac etto, paham yr ymderfysgaswn fwy wrth dy ganfod yn llewygu dan dy groes yn awr, nag wrth dy ganfod yn hongian arni yn ol hyn? Gwnaet dy hun yn wan a thruenus yn y ddau, fel y gallet yn fwy ogoneddu dy anfeidrol drugaredd trwy dy ddyoddefaint.

Ni chymhellir Simon o Cyrene i gario dy groes oherwydd tosturi wrth dy drueni, neu ofal am dy esmwythder: ond oherwydd eu hawydd am dy farwolaeth: dy gamrau gweinion oeddynt ry araf ganddynt: eu syched am dy waed a'u gwnaent yn analluog i oddef oediad. Os ymleddaist yn flinedig â'th faich gwaradwyddus ar hyd heolydd Jerusalem, pan y deui unwaith allan o'r pyrth, rhoddir it' gynnorthwywr: yr oedd prysurdeb dy farwolaeth yn felusach iddynt na'r poen o fynediad arafaidd tuag atto. Yr hyn a ddywedaist wrth Judas, dywedant hwythau wrth y dihenyddwr, *Yr hyn yr ydwyt yn wneuthur, gwna ar frys.* Nis gallant ymlonyddi, tra y byddo ynot fywyd, ac nis gallant fod yn ddiogel: ysgafnhant dy faich er prysuro dy angau.

Pe gwnaethet o ddewisiad yr hyn a wnaethost o drais, cenfigenaswn wrthyt, O Simon: megis un yn rhy ddedwydd, oherwydd yr anrhydedd o fod y cyntaf a ddygodd groes dy Waredwr, yn yr hyn y mae miloedd o ferthyron duwiol, er yr amser hwnnw, wedi bod yn awyddus i'th ddilyn! Yr oedd dwyn dy groes fel hyn drosot, O Iesu, yn fwy na dwyn coron gennyt. Pe cyfrifid fi'n deilwng o'r ffafr hon, dirmygwn bob gogoniant arall.

Tra y cerddi y wedd hon, anwyl Iesu, yr heolydd a'r ffyrdd a adseiniant oll gan un llais. Os oedd yr Iuddewon maleisus, a'r milwyr creulon, yn cynnyg sarhad it', gan dy lusgo, a'th ddifenwi, gyda dirfawr greulondeb, nid iselach oedd llef wylofus dy ffyddlon ganlynwyr: ac ni oddefent ychwaith i'w galarnadau gael eu boddi gan swn y gwaradwyddiadau hynny: ond dy Fam Fendigedig, a'i chyfeillesau zelog o'r un rhywogaeth, oeddynt fwyaf eu gwylofain. A phaham y meddyliwn nad oedd i'r lluaws defosiynol, yr hwn mor ddiweddar a lefodd Hosanna yn yr heolydd, ran yn y cwynfanau cyhoeddus hyn.

Dy glustiau, O Iesu, oeddynt yn fwy agored i lais galar na malais: ac felly y mae dy wefusau'n fwy agored hefyd i'r naill nag i'r llall. *Merched Jerusalem, na wylwch o'm plegid i,*

eithr wylwch o'ch plegid eich hunain, ac oblegid eich plant. Pwy allsai feddwl, O Iesu, lai na fuaset yn hollol wedi dy lyncu i fynu gan dy ofidiau dy hun? Yr oedd disgwyliad am angau mor chwerw yn ddigon i ddadymchwelyd unrhyw enaid ond yr eiddo ti: er hynny, gall dy lygad grasol, ïe, yn awr, edrych tu hwnt i'th drallod dy hun ar yr eiddo hwy; a thosturio wrthynt hwy, y rhai a alarant am dy gyflwr presennol di, gan fod yn annheimladwy o'u cyflwr dyfodol eu hunain. Gwelant dy drallod di, rhagweli dithau yr eiddo hwythau: tywalltant eu galar arnat ti, yr hwn a droi dithau yn ol arnynt eu hunain. Nyni, greaduriaid disynwyr, a rodiwn mewn dallineb yn y dyffryn wylofain hwn; heb wybod pa ddrwg sydd o'n blaen: yr hyn a deimlwn yn unig a wyddom: a phan nad ydym yn teimlo dim, cawn hamdden i dosturio wrth y sawl, efallai, a'r sydd arnynt lai o eisiau tosturi na ni ein hunain. Gelli yn awr, O Iesu, ïe, yn ngolwg Calfaria, rag-ganfod a thosturio wrth ddifrod dy Jerusalem, a thraddodi prophwydoliaeth echrydus o'r dinystr sy'n hongian wrth ben y ddinas honno, yr hon yn ddiweddar a barodd it' ddagrau, ac yn awr dywalltiad dy waed. Nis gall holl greulondeb dynion dy yspeilio o'th drugaredd.

Ni allasai fod eisiau drwg-weithredwyr ar Jerusalem, er gollwng Barabbas yn rhydd. Fel y gallai'r holl ddihenyddiad hwn ymddangos yn gyfiawn, dau o rai yn haeddu eu cospi â marwolaeth, ac wedi eu dedfrydu i'r crogpren, a gânt fod, O Iesu, yn gyd-ddyoddefwyr â thi. Arweinir hwy yn rhwym ar dy ol, megis yn llai beius: ac nid oedd dim fflangelliadau wedi eu hanalluogi hwy i ddwyn eu croesau. Rhag-ddywedasid y gymdeithas annghymmwys hon er's hir amser gan y Prophwyd Efangylaidd, *O garchar ac o farn y cymmerwyd ef: efe a dorrwyd o blith y rhai byw: efe a wnaeth ei fedd gyda'r rhai anwir.* O Iesu bendigedig, buasai'n anmharch digonol it' i gael dy uno gyda'r dynion rhagoraf, yn gymmaint a bod pechod lawer yn y perffeithiaf, ac nis gallasai fod pechod ynot ti: ond cael dy uno ag ysgubion dynolryw, y rhai nis goddefai dialedd iddynt fyw, sydd y fath anmharch ag a orchfyga fy meddyliau. Diau nad oes angel yn y nef a'r na fuasai'n hyfryd ganddo fod gyda thi; a pheth a all y ddaear ei roddi a'r sydd deilwng o fod yn gyfaill it'? Etto, malais a'th daflodd i fysg y rhai nesaf i uffern: fel y gallai eu hymhalogiad dy waradwyddo, a'u pechod lychwino dy ddiniweidrwydd.

Yr ydych wedi eich twyllo, Farnwyr ffol: dyna'r ffordd i barchu eich drwg-weithredwyr, ac nid y ffordd i'w anmharchu Ef, diniweidrwydd a pherffeithrwydd yr hwn a orfoleddasant ar eich hannghyfiawnder. Yr oedd ei bresennoldeb yn ddigon i wneud eich lladron yn ddedwydd: nis gallasai eu presennoldeb hwy mwy na'r eiddo chwithau ei niweidio Ef.

Arweinir di, Fendigedig Iesu, gyda'r wiliadwriaeth a'r cymdeithion hyn, i'r bryn ffiaidd hwnnw, yr hwn yn awr a sancteiddir gan dy waed diweddaf. Yn awr y gosodir dy droed ar y mynydd hwnnw, yr hwn a ragflaena dy fynydd yr Olewydd, o'r hwn yr ymdderchafa dy enaid yn gyntaf i'th ogoniant.

Yno, tra yr ymddarperi ar gyfer dy weithred olaf, y rhoddir it' y ddiod chwerw olaf honno, yr hon y byddai drwg-weithredwyr arferol ei chael, er pwlu eu teimladau, fel na theimlent boenau eu dihenyddiad. Trugaredd gyffredinol dynion oedd ysgafnhau marwolaeth troseddwyr: yn gymmaint ag mae dyben pennaf eu cospedigaeth oedd, nid poen, eithr ymddattodiad.

Nid oedd y ddiod honno, O Iesu, yn fwy derbyniol gan yr euog nag oedd yn gas gennyt ti. Mynnet wynebu angau yn ei holl rym, mewn llawn feddiant o'th synwyrau tumewnol ac allanol: a dirmyget bwlu dy deimladau yn y radd leiaf. Gwych y gwyddet fod y gwaith oedd gennyt mewn llaw yn gofyn i'th holl alluoedd gael eu defnyddio ynddo. Nid dy esmwythder dy hun oedd yn dy olwg, eithr ein gwaredigaeth ni. Ac ni amcenaist roi ffordd i'r gelyn olaf, ond ei wrthsefyll a'i orchfygu: yr hyn, fel y gallet ei wneud yn fwy gogoneddus, gelwi arno wneud ei waethaf: ac, yn y cyfamser, ni roddet heibio un o'th gynneddfau galluog. Y frwydr hon, y fwyaf erioed, a gaiff ei dwyn yn mlaen yn deg: ac ni fynnet ladratta'r fuddugoliaeth honno, yr hon yn awr a ennillaist ar angau ac uffern.

Ni ddarfu it' ond cyffwrdd â'r cwppan hwn: yfi yn awr un llawer chwerwach na hwn hyd ei waelod. Gwrthodaist yr hwn a gynnygwyd it' gan ddynion, ond yfaist yr hwn a gymmysgwyd gan dy dragywyddol Dad, er mai bustl a wermwd ydoedd, hyd y diferyn olaf. Ac yn hyn, O Iesu, y mae'n gynnwysedig ein holl iachawdwriaeth. Nis gwn pa un fwyaf fy ngofid oherwydd dy boen, na'm llawenydd oherwydd canlyniadau dy ddyoddefaint.

Yn awr, ïe, yn awr, O Waredwr, yr ydwyt yn myned i'r ymladdfa echryslon, ac i frwydro â'r gelyn ddiweddaf. Megis

pe buaset heb ddyoddef hyd yn hyn, yn awr y dechreua dy ddyoddefaint gwaedlyd.

Dechreuir y trais hwnnw trwy yspeiliad creulon. Y milwyr sarrug hynny etto a roddant eu dwylaw barbaraidd arnat, gan dy ddinoethi: agorir etto'r clwyfau gwaedlyd hynny: rhaid i'th gorph sanctaidd etto fyned dan y gwarth o ddinoethiad. Wele dydi, yr Hwn a wisgi ddyn â dillad, yr anifeiliaid â chrwyn, y pysgod â chen a chregin, y ddaear â blodau, y nefoedd â ser, a yspeilir o'th wisgoedd, ac a sefi yn wawd i'r holl edrychwyr. Megis yr aeth yr Adda cyntaf i'w baradwys yn noeth, felly tithau. Ac megis yr oedd gwisg o ddiniweidrwydd am yr Adda cyntaf, pan nad oedd dillad am dano, felly yr ail: a mwy na hyn hefyd: dy noethni, O Grist, a ddillada ein heneidiau, nid yn unig â diniweidrwydd, ond â phrydferthwch. Pe buaset heb dy ddinoethi, gwisgasid ni â gwarthrudd. O ddinoethiad gwerthfawr! trwy yr hwn y'n gwaredir rhag cywilydd! O gywilydd gwerthfawr, trwy'r hwn y'n prydferthir â gogoniant! Yr holl edrychwyr sydd â gwisgoedd cludion am danynt: Tydi yn unig a ddinoethir i sathru'r gwin-wryf dy hun. O, fel y dymunodd dy Fam Fendigedig fod ei llen yn awr ar dy ysgwyddau! a'r disgybl hwnnw, yr hwn a redodd oddiwrthyt yn noeth, i'w dosturi allu gwneud hynny erot, yr hyn a barodd ofn iddo wneud er ei fwyn ei hun.

Cywilydd a ddilynir â phoen. O, arteithiau'r groes! Meddyliaf fy mod yn canfod ac yn teimlo, fel, yn ol rhoddi'r groes at eu gilydd, a'i gosod ar y llawr, y dirdynnant dy aelodau tyner a sanctaidd, er peri iddynt atteb y mesur a rag-arfaethasid iddynt: ac, wedi estyn dy freichiau yn mhellach na'u hestyniad naturiol, fel y cylymasant hwy, hyd y darfu i'r hoelion haiarn cryfion, y rhai a yrrid hyd y pen trwy gledrau dy ddwylaw bendigedig, dy sicrhau wrth y groes gyda chymmaint o boen ac o gadernid. Y groes a godir i fynu, ac a sefydlir yn ei lle, ond nid heb ysgydwad dirfawr. Och, fel y dryllir dy gymmalau â'th iau, y rhai a estynir hyd y torrant trwy'r cyfryw estyniad arteithfawr! O fel y mae dy bwys dy hun yn dy boeni, tra yr hongia dy gorph wrth y gafael dolurus hwn, hyd y mae dy draed hoeliedig yn gallu dwyn eu rhan yn yr ymgynhaliad poenfawr hwn! O, fel y trywanodd yr haiarn garw dy enaid, tra y gwthiai dy gnawd o'i flaen, wrth fyned trwy y rhannau tyner teimladol hynny, ac a'i sicrhai wrth y pren gwaradwyddus hwnnw!

Yna yn awr, anwyl Iesu, yr hongi rhwng nef a llawr: yn noeth, yn waedlyd, yn ddirmygedig, yn olygfa o'r truenusaf, gwarthrudd y bobl. Cywilyddwch, nefoedd a daear, a chwithau greaduriaid oll ymwisgwch mewn braw, wrth ganfod cywilydd, a phoen, amelldith eich Crewr pura f a hollalluog! Pa fodd y gallech hanfodi, tra y mae Ef, yn yr hwn yr ydych, yn ddyoddef fel hyn! O Iesu, a gymmeraist gnawd er ein gwaredigaeth, i gael y driniaeth anhaeddiannol hon, i gael dy ddryllio a'th arteithio fel hyn? A oedd yn addas trin y wedd hon, y corph sanctaidd hwnnw, yr hwn a gaed trwy'r Ysbryd Glan, o sylwedd pur Morwyn ddihalog? Och, yr hwn nid oedd arno frycheuyn pechadurus, a orchuddir gan greulondeb dynol, ac y mae wedi ei anffurfio mor ddirfawr, fel na allai'r Fam Fendigedig, yr hon a esgorodd ei adnabod: mor waedlyd oedd ei gernau, mor chwyddedig ac amliwiedig ei wyneb, mor frith oedd ei holl gorph gan gleisiau cochion a gleision, mor guddiedig oedd ei wynebpryd nefol gan y goron ddrain, tra yr oedd ffrydiau ei waed yn lliwio ei holl gorph. Nis gallasai llygad natur dy ddirnad, O anwyl Brynwr, ïe, yn yml dy groes: llygad ffydd a'th ganfydda yr holl bellder hyn: a po mwyaf o warth, poen, ac anffurfiad a wel ynot, mwyaf oll y rhyfedda ogoniant dy drugaredd. Och, ai hwn yw'r pen, yr hwn a addurnir gan dy Dad tragywyddol â choron o aur pur, o fawrhydi anfarwol ac annirnadwy, yr hwn yn awr sydd mewn perth o ddrain! Ai hwn y llygad a welodd y nef yn ymagoryd, a'r Ysbryd Glan yn disgyn ar y pen yna, yr hwn a welodd y fath ddisgleirdeb nefol ar Fynydd Tabor, yr hwn yn awr a gymmylir gan angau! Ai rhai'n y clustiau, y rhai a glywsent dy Dad yn dy arddel allan o'r nef, y rhai yn awr a ferwinant gan gernodiau, a wresogant gan waradwyddiadau, a waedant gan ddrain! Ai rhai'n y gwefusau, y rhai *a lefarasant fel na lefarodd dyn erioed*, yn llawn gras a gallu; y rhai a alwasant Lazarus o'i fedd, a anfonasant ymaith y cythreuliaid grymusaf, y rhai a orchymynasant iachad pob clefydau, y rhai yn awr a ymchwyddant gan ergydion, ac a amliwir gan gleisiau a gwaed! Ai hwn y wyneb, yr hwn y ddylasai fod *yn deccach na meibion dynion*, yr hwn yr oedd angelion nef mor awyddus i'w weled, a rhai nis boddlonir byth ar yr olwg arno, yr hwn sydd aflan gan gymmysgedd o chwys, gwaed, a phoer! Ai rhai'n y dwylaw, *y rhai a estynasant y nefoedd megis llen*, y rhai, trwy gyffyrddiad, a iachasant y claf, y byddar, y dall, y rhai yn awr a waedant gan yr hoelion!

Ai rhai'n y traed, y rhai yn ddiweddar a rodiasant ar balmant dyfrllyd y môr, ger bron troed-faingc y rhai y gorchymynir i holl genhedloedd y ddaear addoli—y rhai yn awr a sicrheir mor boenfawr wrth y groes! O, ddynolryw creulon ac anniolchgar, y rhai a driniasoch Arglwydd y bywyd yn y fath fodd! O anfeidrol drugarog Waredwr, yr hwn a ymfoddlonaist ddyoddef fel hyn dros ddynolryw anniolchgar! Cyfiawn (er mai ofnadwy) yw i gythreuliaid wneuthur y pethau hyn i eneidiau euog: ond bod i ddynion drin bendigedig Mab Duw yn y fath fodd, a bar fraw annrhaethadwy.

Bu y rhai mwyaf gelyniaethol yn foddlon ar lofruddiaeth: hwn a ddigonodd y malais mwyaf: dy elynion di, O Iesu, nid oeddynt foddlon, heb fywnhau dy arteithiau. Dau leidr a bennodir yn gymdeithion it' yn dy farwolaeth: Tydi a fwriedir i fod yn y canol megis y pennaf o honynt: i ba law bynnag y troi dy olwg, canfyddi gydymaith ffiaidd.

Ond, O Iesu bendigedig, pa fodd y clodforaf yn ddigonol dy drugaredd anfeidrol, yr hwn a wnaethost ddefnydd mor ddeddwyddol o falais yr Iuddewon, fel ag i'w wneuthur yn achlysur o waredigaeth i un, o gyssur i filoedd! Onid yw dy waith yn achub y lleidr, ac â'th ddwylaw hoeliedig gippio enaid o safn uffern, fel y weithred olaf, felly'r fwyaf o'th ryfeddol dosturi? Arglwydd, bendithiaf di am y weithred hon! Rhyfeddaf wrth hwn uwchlaw holl amlygiadau eraill dy ddaioni a'th drugaredd! Daeth y troseddwr i farw: nid oedd dim yn ei feddyliau ond ei euogrwydd a'i boen. *Tra yr oedd etto yn ei waed, dywedaist, caiff yr enaid hwn fyw.* Cyn i'r ddiod syfrdanol gael amser i weithio ar ei ymenydd, tywalltodd dy Ysbryd ffydd i'w enaid. Efe, yr hwn nid oedd ganddo o'r blaen ddim yn ei olwg ond angau ac arteithiau presennol, a ddercheﬁr yn awr uwchlaw ei groes, mewn dymuniad gwynfydedig, *Arglwydd, cofia ﬁ, pan ddelych i'th deyrnas.* Ai llais lleidr yw hwn, ai, ynte, llais disgybl? Caniatta im', O Iesu, fenthyccia dy eiriau dy hun, *Ni chefais gymmaint ffydd, na ddo yn yr holl Israel.* Canfyddodd di yn hongian yn druenus wrth ei ochor, ac, etto, geilw di *yn Arglwydd:* canfyddodd di yn marw, etto, llefara am *dy deyrnas:* teimlodd ei hun yn marw, etto, sonia am *goffadwriaeth* yn ol llaw. O, ffydd gadarnach nag angau, yr hon a all edrych tu draw i'r groes ar y goron: tu draw i angau at goffadwriaeth bywyd a gogoniant! Pa un o'th un-ar-ddeg hyn a glywid yn

llefaru wrthyt air mor rasol, yn dy boenau olaf hyn? Yn ol dy adgyfodiad, a gwybod o honynt nad oeddyt i ddyoddef mwy, nid rhyfedd eu bod yn llefaru am dy deyrnas, ond i ddrwgweithredwr, yn ngafael marwolaeth, son am dy deyrnas yn nghanol dy angau gwarthus, ac erfyn arnat ei gofio yn dy deyrnas honno, a ddengys y fath ffydd rymmus ag a leinw fy enaid â syndod. O leidr bendigedig, yr hwn a ledrettaist y nef yn y wedd ddedwyddol hon! Mor addas y gwnaeth dy Waredwr di yn gyfrannog o'i ddyoddefiadau, yn esampl o ffydd annorchfygol, yn olygfa o drugaredd annrhaethol! *Heddyw y byddi gyda mi yn Mharadwys.* O'r blaen rhyfeddais wrth dy ffydd: yn awr cenfigennaf wrth dy wynfyd. Erfyniaist am gael dy gofio: sonia dy Waredwr am feddiant dioed—*Heddyw:* erfyniaist am dy gofio fel ffafr iddo'n absennol: sonia yntau am dy fod gydag ef: llefari di am deyrnas, yntau am baradwys. Megis nas gallasai un disgybl fod yn fwy ffyddiog; felly nis gall un sant fod yn fwy ei ddedwyddwch. O Iesu, y fath esampl sydd yma o'th rad a'th alluog ras! Lle y rhoddi, pa annheilyngdod a all ein cadw oddiwrth dy drugaredd? Pan y rhoddi, pa amser a all rwystro ein galwedigaeth? Pwy all annobeithio am dy drugaredd, pan y mae ef, yr hwn yn y bore oedd yn brysio i uffern, gyda thi yn yr hwyr yn Mharadwys? Arglwydd, nis gallasai lefaru hyn wrthyt, ond trwot, ac oddiwrthyt. Pa fodd y gallasai lleidr feddwl am dy deyrnas heb dy Ysbryd? Dy Ysbryd daionus a anadlodd ar y dyn hwn, ac nid ar ei gyd-ddyoddefydd. Yr un oedd eu crefft, yr un eu pechod, yr un eu cyflwr, yr un eu croes: dy drugaredd di yn unig a'u gwnaeth yn annhebyg: un a gymmerir, a'r llall a adewir. Bendigedig fyddo dy drugaredd am gymmeryd, bendigedig dy gyfiawnder am adael y llall. Pwy all annobeithio am y drugaredd honno? Pwy all lai na chrynu wrth y cyfiawnder hwnnw?

Yn awr, O offeiriaid ac henuriaid creulon, y mae gennych lawn hamdden i ddifyrru eich llygaid â'r olwg yr hiraethasoch gymmaint am dani. Daccw'r gwaed a brynasoch, ac oni foddlonir eich malais etto? Onid yw hyn oll yn ddigon heb eich gwawd wrth druenu mor fawr?

Dysgir y bobl a'r fforddolion i waradwyddo, lle y dylasent dosturio. Y mae pob un yn barod i wawdio'r Diniwed Hwn yn ei farwolaeth. Archollir dyn o deimlad cyflym yn fwy gan y tafod na chan y llaw. O Iesu, trywanwyd dy glust gyda mwy o

ofid na'th gernau, na'th ddwylaw, na'th draed. Nis gallasai gwaradwyddiadau chwerwon, y rhai y daeth i'w hachub, lai na suddo i ddyfnderoedd dy enaid.

Ond, och, y fath bigiadau ysgafn oedd y rhai'n, a'u cydmaru â'r arteithiau tumewnol, y rhai a deimlai dy enaid, dan faich digter dy Dad am feiau'r holl fyd, y rhai yn awr a orweddant mor ddwys arnat, pan wnaet iawn am danynt. Hyn, ïe, hyn a wasgodd dy enaid i ddyfnderoedd uffern. Tra yr edrychodd dy dragywyddol Dad yn garedig arnat, ni phrisiaist, ac nid oedd achos ychwaith it' brisio, gwg dynion na chythreuliaid: ond pan unwaith y trodd ef ei wyneb oddiwrthyt, hyn, hyn oedd waeth nag angau!

Nid rhyfedd os oedd tywyllwch yn awr ar wyneb yr holl ddaear, pan guddiai ein beiau wyneb dy Dad oddiwrthyt. P'odd y gallai fod goleuni yn y byd oddiallan, pan y cwynai Duw'r byd, Tad y goleuni, oherwydd diffyg goleuni o'i fewn? Y gair hwnnw o'th eiddot, O Iesu, oedd ddigon i dynnu'r haul o'r nefoedd, ac i ddattod holl gyfansoddiad natur, pan lefaist, *Fy Nuw, Fy Nuw, paham y'm gadewaist?* O, 'r arteithiau, anwyl Iesu, a dynnasant oddiwrthyt yr achwyniad hwn! Gwyddet yn dda na allasai dy elynion gael hoffder mwy na chlywed y fath iaith ofidus oddiwrthyt: nis gallent ganfod ond y tu allan o'th ddyoddefiadau: nis gallasent fyth ddirnad fod dy enaid yn y fath ing, oni buasai i'th wefusau dy hun ei draethu. Er hynny, fel un heb sylwi ar eu gorfoledd, tywellti'r wedd hon dy ofid: a phan y traethir cymmaint, pwy all ddirnad yr oll a deimlir?

Pa fodd y mae arnat, O Iesu, pan y peri syndod i ddynion ac angelion, trwy achwyniad mor waelawn? A adawsai dy Dad di? Ychydig cyn hyn y dywedaist, *Myfi a'm Tad, un ydym.* A ydych yn awr wedi eich gwahanu? Bydded y meddwl hwn mor belled oddiwrth fy enaid, ag yw fy enaid o uffern. Nis gall dy Dad bendigedig gael ei wahanu oddiwrthyt, mwy nag oddiwrth ei hanfod ei hun. Ei undeb â thi sydd dragywyddol: Ei wyneb a drodd oddiwrthyt; nis gallasai dynnu ymaith ei bresennoldeb, ond yn unig y cyssuron o hono. Tydi, yr ail Adda, a sefaist dros holl ddynolryw ar dy Groes, megis y safasai ac y syrthiasai yr Adda cyntaf dan bren y tramgwydd. Dyget ein pechodau: dy Dad a'n canfyddodd ni ynot, ac a'n cospodd ni ynot. P'odd y gallai lai nag attal cyssur, lle y bwriadai geryddu.

Yn hyn, ynte, ymddengys fel yn dy adael am yr amser presennol, am na waredai di oddiwrth y ddyoddefaint chwerw, yr hwn y daethost i'r byd i fyned dano er ein mwyn. O Iesu, pe nas gadewsit di fel hyn, collasid ni: dy adawiad di yw ein diogelwch: ac er nas gall ein meddyliau culion ddirnad dy boen a'th fraw, etto, gwyddom nad oes berygl, tra y gelli ddywedyd, *Fy Nuw.* Y mae yn Dduw it' yn y fath fodd a'r nas gall fod yn Dduw i ni: ein holl hawl ni sydd trwy fabwysiad: yr eiddo ti trwy anian: yr ydwyt ti yn un âg ef mewn hanfod dragywyddol: nyni trwy ras ac etholedigaeth raslawn: etto, tra y galluogi fi i ddywedyd, *Fy Nuw*, gobeithiaf na bydd i mi byth suddo dan dy adawiadau.

Ond tra y dirfawr synnaf wrth ddyfnder dy ddyoddefiadau, O Iesu, na fydded im' anghofio y trugareddau hyfryd, y rhai a dywelltaist ar dy erlidwyr. Ymlawenychant yn dy farwolaeth, ac ymorfoleddant yn dy ofid, a gwawdiant di yn y ddau: yn lle galw am dân i lawr o'r nefoedd arnynt, pentyrri farwor tanllyd ar eu pennau. *O Dad, maddeu iddynt, canys ni wyddant beth y maent yn ei wneuthur.* Cablant hwy di, gweddïi dithau drostynt hwy: gwawdiant hwy, tosturi dithau: pechant hwy yn dy erbyn di, erfyni dithau am iddynt gael maddeuant: proffesant hwy eu malais, pledi dithau eu hanwybodaeth. O dosturi heb ei ail, anfesuredig, teilwng o Fab Duw, Gwaredwr dynion. O Iuddewon drygionus ac ynfyd; mynnech fod yn druenus, ond Ef nis goddefai i chwi fod felly: mynnech dynnu arnoch eich hunain yr euogrwydd o dywallt ei waed: gweddia Ef yn erbyn hynny: chwi a leddwch, gofyn yntau am faddeuant i chwi a'ch bywyd. Ei dafoda lefa'n uwch na'ch gwaed. *O Dad, maddeu iddynt.* O Iesu, nis gallet lai na chael dy wrando. Y rhai a'th erlidiasant fel hyn, mewn anwybodaeth, a brofant ffrwyth dedwyddol dy eiriolaeth. Yn awr, canfyddaf paham y trowyd tair mil o eneidiau yn fuan ar ol un pregeth. Nid pregeth Petr, eithr dy weddi di, a lwyddodd fel hyn. Yn awr, y mae ganddynt y gras i wybod ac i gyfaddef o ba le y tardd eu maddeuant a'u hiachawdwriaeth, a gallant wneud ad-daliad am eu cableddau trwy eu diolchgarwch. Pa bechod sydd, Arglwydd, o'r hwn y gallaf annobeithio am faddeuant, neu, pa drosedd y dylwn fod yn anewyllysgar i'w faddeu, tra yr ydwyt ti yn gweddio am faddeuant i'th lofruddion a'th gablwyr?

Nid oes diwrnod mor faith nad oes ei brydnhawn iddo.

Tynni, o'r diwedd, O Waredwr bendigedig, at derfyniad dy ddirfawr ddyoddefiadau, pan yn llewygu gan ludded ac arteithiau y llefaist allan, *Y mae syched arnaf.* Pa fodd y gallaset fod heb sychedu? Treuliaset y nos mewn gwiliadwriaeth, mewn gweddi, mewn ing, yn dy fynediad o'r ardd i Jerusalem, o Annas at Caiaphas, o Caiaphas at Pilat, yn dy attebiadau dibaid, yn dy gernodiau: y dydd, mewn cyhuddiadau, yn y gwaith o gael dy lùsgo o fan i fan, mewn fflangelliadau, mewn diosgiadau, mewn rhoddi gwisgoedd am danat, a'u rhoddi heibio, mewn gwaedi, mewn dyheu o dan dy groes, mewn archolliadau, mewn poen a dyoddefiadau: nid rhyfedd dy fod â syched arnat: er fod mwy yn y syched hwn na'th angen. Nid llai angenrheidiol it' sychedu na marw. Y ddau oeddynt o'r un rag-benderfyniad, ac o'r un rag-ddywediad. *Fel dwfr y'm tywalltwyd, a'm hesgyrn oll a ymwahanasant: fy nghalon sydd fel cwyr, hi a doddodd yn nghanol fy mherfedd. Fy nerth a wywodd fel pridd-lestr: a'm tafod a lynodd wrth daflod fy ngenau, ac i lwch angau y'm dygaist.*

P'odd arall y gallasai'r gair hwnnw gael ei wirio? Pe na buasai dy ddyben o gyflawni'r gair hwnnw, o'r hwn nis gall un iota fyned heibio, er teimlo syched, etto, ni fuasai it' ei amlygu. Och, beth well fuaset er cwyno rhag dy anghenion wrth elynion gwawdlyd, y rhai a ymorfoleddent yn dy ofid? P'odd y gallent hwy dosturio wrth dy syched, y rhai ni thosturiasent wrth dywalltiad dy waed? Nid eu ffafr oedd dy amcan yn hyn, ond eu hargyhoeddiad. O Iesu, paham y tybiwn ni ef yn beth mawr, dy weision pechadurus, cael ein trallodi â newyn a syched, pan y clywom di yn cwyno fel hyn?

Tydi, yr hwn yn ddiweddar a lefaist allan yn y deml, "Os oes ar neb syched, deued attaf fi ac yfed: yr hwn a gredo ynof fi, afonydd o ddwfr bywiol a ddylifant o'i groth ef," yn awr a sychedi dy hun. Tydi, yn yr hwn y credwn, a achwyni fod arnat eisiau rhai defnynnau. Yr oedd yr holl ddyfroedd oddiar ac odditan y ffurfafen wrth dy lywodraeth, etto, mynnet sychedu. Felly, Arglwydd, Tydi, yr hwn a fynnet farw drosom, a fynnet sychedu drosom. O, par im' sychedu am y dyfroedd hynny, y rhai a addewi, beth bynnag a ddaw o'r rheiny, y rhai a fynnet fod mewn angen am danynt. Bu amser, sef, pan erfyniaist am ddwfr gan y wraig o Samaria, pan y rhoddaist ddwfr rhagorach na'r hwn a geisiet. O par im' sychedu am y dwfr gwerthfawr-

occach hwnnw: a chyfranna felly im' o'r dwfr bywiol hwnnw, fel na sychedwyf drachefn.

O wynfydedig Arglwydd, mor rhyfeddol y dygi yn mlaen dy achosion dy hun! Dy elynion, tra y mynnent dy ddirmygu, a gânt, yn ddiarwybod iddynt, dy gyfiawnhau di, a chondemnio eu hunain. Megis y rhag-ddywedaist, diodasant fi yn fy syched â finegr. Pe rhoisent it' win, ni chymmeraset ef. Cenaist yn iach y noswaith o'r blaen á'r ddiod gyssurus honno, gan benderfynu nad yfet mwy o'r nodd melus hwnnw, hyd yr yfet ef yn newydd gyda'th ddisgyblion yn Nheyrnas dy Dad. Pe rhoddasent it' ddwfr, nis cyflawnasent y brophwydoliaeth honno, trwy'r hon y condemniasant eu hunain.

Nis gwn yn awr, anwyl Iesu, pa un oedd fwyaf gennyt, ai hyfrydwch ai anhyfrydwch, y ddarlwngc ddiweddaf hon: anhyfryd ynddi ei hun; canys pa ddiod a allasai fod yn fwy anarchwaethus? hyfryd, o ran ei bod yn gwneuthur i fynu ran o'r dyoddefiadau yr oeddyt i fyned danynt, ac o'r prophwydoliaethau yr oeddyt i'w cwblhau.

Yn awr, nid oes mwy i'w wneuthur. Dy lwyr gyflawniad o'r holl rag-ddywediadau, o'r holl gysgodau a'r defodau, o'r holl ddyoddefiadau, o'r holl gymmodau a orphenwyd ac a gyhoeddwyd. Nid oes yn awr ond cyflwyniad gwirfoddol, hyfryd, a nefol, o'th enaid bendigedig i ddwylaw dy Dad tragywyddol, a chrymiad o'th ben, er derbyn amgenach coron, a hunad tangnefeddol yn dy wely esmwyth ac anrhydeddus, a mynediad union-gyrchol i esmwythdra gorfoledd a gogoniant.

Ac yn awr, Iesu bendigedig, pa fodd y camsyniodd llygaid cnawdol yr holl amser hyn, yr hyn a fwriedid yn dy waith olaf gogoneddusaf hwn! Ein gwendid ni nis gallasai ganfod dim yma ond poen a gwaradwydd: yn awr, fy ngolygon wedi cyfrannogi o ragorach goleuni, a ganfyddant, yn dy dderchafiad hwn, anrhydedd a dedwyddwch. Wele, Tydi, yr hwn wyt y Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, Cymmodwr nef a daear, a dderchefir rhwng nef a daear, fel y gallet uno'r ddau. Tydi, yr hwn wyt gadpen mawr ein hiachawdwriaeth, gorchfygwr holl wrthwynebol alluoedd angau ac uffern, a dderchefir ar gerbyd rhwysgfawr dy groes, fel y gallet sathru ar angau, a llusgo yr holl dywysogaethau uffernol hynny mewn cadwynau ar dy ol. Y Breichiau hynny, y rhai a fwriadai dy elynion eu hestyn yn

greulon, a estynir i gofleidio holl ddynolryw, y rhai a ddeuant attat am waredigaeth holl-ddigonol.

Teyrnasi, ïe, tra y dyoddefi. O ynfydrwydd egwan dynion ffol! Bwriadant dy waradwyddo â wynebau ceimion, a thafodau estynedig, a dirmyg chwerw—a phob anmharch gwael: tra, yn y cyfamser, *y mynega'r nefoedd dy gyfiawnder, O Arglwydd, a'r ddaear dy allu.* Yr haul a dynna i mewn ei oleuni, fel yn methu edrych ar ddyoddefiadau ei Grewr: y ddaear a gryna dan deimlad o'r annghyfiawnder a ddangosir i'w Lluniwr: y creigiau a holltant, llen y deml a ymrwyga oddi fynu hyd i waered: ïe, holl gyfansoddiad y byd a addefa lywodraeth Mab Duw, yr hwn y mae dyn yn ei ddirmygu.

Daear ac uffern a wnaethant eu gwaethaf. O Iesu, yr wyt yn dy Baradwys, ac ymorfoleddi ar falais dynion a diefliaid. Y relyw o'th berson sanctaidd nid yw etto'n rhydd. Y Milwyr a rannasant dy ddillad, ac a fwriasant goelbren ar dy wisg ddiwniad: (nis gall yr yspail wael hon eu cyfoethogi hwy gymmaint a'th ogoneddu di, ysgrythyrau yr hwn a gyflawnir trwy eu rhanniadau barbaraidd.) Yr Iuddewon a ofynant am gael gwahanu dy esgyrn; ond yn ofer. Nis gallasai dy wisgoedd fod yn gyfain, mwy na'th gorph gael ei dorri. Un arfaeth annhoradwy a oruwchlywia'r ddau.

Ddihenyddwyr ffol! Edrychwch i fynu ar y corph croeshoeliedig yna, megis pe byddai'n llwyr o fewn eich gallu a'ch trugaredd: ni ymddengys dim i chwi namyn gwendid ac angau. Ychydig a wyddoch am y wiliadwriaeth annorchfygol a amgylcha'r corph sanctaidd yna: y cyfryw, a phe byddai holl alluoedd y tywyllwch yn ymfyddino i'w erbyn, ag y caent eu gwaradwyddo. Er gwaethaf holl byrth uffern, saif y gair hwnnw—*Ac ni thorrir asgwrn o hono.*

Er hynny, arfaeth anffaeledig yr Hollalluog a'ch tywysa at ei ddybenion ei hun, ar hyd eich ffyrdd eich hunain. Canfyddasoch Ef yn farw'n barod, yr Hwn y daethoch i'w ladd: yr esgyrn hynny, gan hynny, a gânt fod yn gyfain, y rhai nid oedd gennych allu i'w torri. Ond etto, fel na byddai un rhan o'ch creulondeb chwi, neu o'r brophwydoliaeth ddwyfol, fod heb ei chyflawni, Efe, esgyrn yr Hwn nis gallent gael eu drygu, a gaiff ei archolli yn ei ystlys. Efe, ysbryd yr hwn a roddwyd i fynu, sydd raid iddo roddi i fynu ei waed olaf. *Un o'r milwyr, a'i*

waywffon, a drywanodd ei ystlys, ac yn y fan y daeth allan waed a dwfr.

Y mae malais yn arferol o derfynu gyda bywyd: ond yma, gweithreda ar ei ol. Ddyn creulon! I ba ddyben yr archoll olaf hon? Pwy a'th awdurdododd i gyflawni'r weithred waedlyd hon? Rhoddasai Pilat ganiattad i dorri esgyrn y byw, ni roddasai gennad i dyllu ystlys y marw. Pa ddrygioni gormodol yw hwn! Pa helaethrwydd malais! I ba ddyben y trywanodd dy waywffon gymmaint o galonnau yn yr un honno! Paham y lladdet ddyn marw?

Meddyliaf i'r Forwyn Fendigedig, a'i chyfeillesau caredig, y disgybl a garai'r Iesu, ynghyd à'i gyfeillion eraill, cyfeillion a chanlynwyr Crist, ac yn enwedig ef, yr hwn oedd mor barod i dynnu ei gleddyf yn erbyn y llu a ddaethai i ddal ei Feistr, gael digon o waith i aros o fewn terfynau amynedd, wrth ganfod ergyd mor farbaraidd. Nis gallasai eu galar lai na throi'n ddigter, ac nis gallasai eu calonnau lai nag ymchwyddo, megis yr eiddo fi yn awr, wrth ysgelerder mor afreidiol. Pa mor hawdd y gallwn ymgynddeiriogi wrth law mor greulon! Ond, O Dduw, pan edrychwyf arnat ti, ac yr ystyriwyf p'odd y goruwch-lywodraetha dy ddoeth a'th sanctaidd Ragluniaeth greulonaf gyflawniadau dynion, fel eu bod, yn erbyn eu hamcan hwy, yn troi'n elw, gallaf yn awr eu cashau hwy, a'th fendithio dithau. Y mae i'r archoll hon enau i gyhoeddi mai Crist yw'r Messiah, a gwirionedd yr Ysgrythyr honno, *Edrychant arno Ef, yr Hwn a wanasant.*

Wele yn awr yr Ail Adda'n cysgu, a Mam y byw, sef yr Eglwys Efangylaidd, yn cael ei llunio o'i ystlys. Wele'r Graig, yr hon a darawyd, a dyfroedd y bywyd a ddylifant. *Wele'r ffynnon a agorwyd i dŷ Ddafydd, i bechod ac aflendid.* O Iesu, trwy dy ddwfr y'n golchir: trwy dy waed y'n gwaredir. Y ddau Sacrament a ordeiniaset yn dy fywyd, a darddasant o honot yn ol dy farw, megis y coffadwriaethau diweddaf o'th gariad at dy Eglwys: dwfr bedydd, yr hwn yw *golchiad yr adenedigaeth; a gwaed y Testament Newydd, yr hwn a dywalltwyd er meddeuant pechodau:* a rhai'n, yn nghyd a'r Ysbryd, yr hwn a rydd fywyd i'r ddau, ydynt y tri tystion ar y ddaear, tystiolaeth y rhai nis gall ein twyllo. O archoll werthfawr, trwy'r hwn yr iacheir ein heneidiau! I'r agen hon

o'r graig aed fy ngolommen: ac ymguddied yno rhag ewinedd yr holl adar ysglyfaethus.

Nid oedd modd na fyddai i angau Crist, yr hwn a arfaethesid ac a gyflawnesid yn Jerusalem, ar wyl mor bwysig, dynnu atto edrychwyr lawer. Y Rhufeiniaid, y Canwriaid, a'r fyddin oeddynt yno yn gweithredu, ac yn edrych arno yn cael ei chwblhau. Y dieithriaid hyn ni wnaent fwy na chyd-weithio yn deg â'r dinaswyr hynny, lle yr oeddynt yn sefydledig. Eu rhyddhad oddiwrth ragfarn a'u galluogai i roddi teccach esboniad ar yr holl ddygwyddiadau: *Ond y Canwriad, a'r rhai oedd gydag ef, yn gwylied yr Iesu, wedi gweled y ddaeargryn, a'r pethau a wnaethid, a ofnasant yn fawr, gan ddywedyd, Yn wir, Mab Duw oedd hwn.*

Tra rhyfedd yr argyhoeddiadau cryfion a grymmus a gyd-ymgyfarfyddant yma! Addfwynder mewn dyoddefiadau, gweddi dros ei lofruddion, ffyddlon gyflwyniad o'i enaid i ddwylaw ei nefol Dad, yr haul yn y nef yn duo, y ddaear yn crynu, y beddau yn ymagor, y creigiau'n hollti, llen y deml yn ymrwygo: pwy allasai lai na myned mor belled â hyn, *Yn wir Mab Duw oedd hwn.* Y mae'n dyoddef yn amyneddgar, trwy rym gras: llawer o rai da a wnaethant felly trwy ei rym Ef. Cyfansoddiad natur a gyd-ddyoddef àg ef: hyn sydd briodol i Dduw natur, i Fab Duw.

Nid wyf yn rhyfeddu am eu cyfaddefiad: rhyfeddaf na fuasai pob edrychwr yn cyfaddef yr un modd. Y profion hyn oeddynt ddigonol er gosod yr holl fyd ar eu gliniau, ac i droi holl ddynolryw. Ond nid yw pob calon yr un: nis gall unrhyw foddion weithredu ar y sawl a ymgaleda'n wirfoddol. Hyd yn oed, ar ol hyn, trywanodd y milwr yr ystlys fendigedig honno: a thra yr oedd Paganiaid yn toddi, yr Iuddewon a barhausant yn anedifeiriol.

Etto, dirfawr a dyladwy syndod a feddiannodd o'r genedl honno, y sawl a'r na chymmerasant ran yn y llofruddiaeth hwn trwy genfigen: hwy a gurasant eu dwyfron, ac a ysgydwasant eu pennau, a thrwy ystumiau cyffröus a lefarasant, yr hyn ni feiddient â'u tafodau. Rhaid fod llawer yn y cyd-gynhulliad cyffredinol hwn o'r sawl a iachesid ganddo o'u clefydau, neu a waredasid oddiwrth gythreuliaid, neu a borthasid yn wyrthiol, neu a'r oeddynt dan rwymau o'u rhan eu hunain neu eu cyfeillion! Y rhai'n, megis y cynhyrfid hwy'n fawr gan yr anmharch

marwol, yr hwn a ddangoswyd i'r hwn a gyfaddefent y Messiah; felly, nis gallasent lai na bod wedi eu llenwi a syndod wrth y fath amlygiadau o Dduwdod ynddo Ef, yn yr hwn y credent: a'u meddyliau a derfysgid yn ddyeithr wrth gydmaru y cyfryw ddyoddefiadau à'r Hollalluogrwydd hwnnw. Hyd yma, nid oedd eu ffydd a'u gwybodaeth ond yn yr eginyn. P'odd y gallent lai na meddwl, "Os nad Mab Duw oedd, p'odd y gallai'r pethau hyn fod? Ac os Mab Duw ydoedd, p'odd y gallai farw?" Ei adgyfodiad a'i esgyniad yn fuan wedi'n a berffeithiant eu ffydd: ond, yn y cyfamser, nis gallai lai na bod eu calonnau'n llawn o feddyliau anhawdd eu cyssoni. P'odd bynnag, gogoneddant Dduw: a rhyfeddant, gan ddisgwyl yr hyn a ganlyn.

Ond uwchlaw pawb eraill, pa sawl cleddyf a drywanodd dy ystlys di, O Forwyn Fendigedig, sanctaidd Fam ein Harglwydd, pan safet wrth ei groes, a chanfod dy anwyl Fab a'th Waredwr yn cael ei drin gyda'r fath anmharch, yn cael ei ddiosg o'i ddillad, ei estyn, ei hoelio, yn gwaedu, yn marw, yn drywanedig fel hyn? P'odd yr adfeddyliodd dy galon gythryblus yr hyn a ddywedasai Gabriel yr Angel wrthyt oddiwrth Dduw, pan draethodd wrthyt am ffurfiad Hwn, sef Mab Duw yn dy groth! O, fel y meddyliaist am y ffurfiad gwyrthiol hwn o'th faich Dwyfol trwy allu'r Ysbryd Glan! Oni ddarfu it' alw i gof rag-ddywediadau Anna a Simeon yn ei gylch: a'i holl oruwchnaturiol weithredoedd, y rhai oeddynt ddigonol brofion o'i Dduwdod! A chan grynhoi y rhai'n oll yn nghyd gyda gwendidau dirfawr ei ddyoddefaint, O fel y cefaist dy groeshoelio gydag ef! Y gofal a gymmerodd am danat yn ei ofid mwyaf nis gallsai lai na thoddi dy galon i alar. Ond, och! pan y clywaist Ef yn ei boen mwyaf yn gwaeddi allan, *Fy Nuw, Fy Nuw, paham y'm gadewaist,* pa fraw oeraidd a feddiannodd dy enaid! Nis gallaf yn awr ryfeddu wrth dy drallod a'th lewygfëydd: ond rhyfeddaf it' allu byw heibio i'r awr ofidus honno. Ond pan, wrth ail feddwl, y canfyddaist y nef yn cymmeryd rhan yn dy alar, ac y teimlaist y ddaear yn crynu fel tithau, ac y cefaist bod ysgydwad natur oll yn cyhoeddi Duwdod yr Hwn a fynnai ddyoddef a marw fel hyn, a phan yr adgofiaist ei fynych rag-ddywediadau, yr yfai o'r cwppan chwerw hwn, ac y bedyddid ef fel hyn mewn gwaed: dechreuaist gymmeryd calon, a chyssuro dy hun â disgwyliad sicr o ddiweddiad gogoneddus.

Rhag-ddywedasai it' fwy nag unwaith ei adgyfodiad buddugoliaethus. Efe, yr hwn a gyhoeddodd Jona'n gysgod o hono ei hun, a rag-addawsai, mewn tri diwrnod, godi adfeiliedig Deml ei gorph, a roddasai, yn ddiau, fynegiad cyflawnach i ti, yr hon a feddianet ran mor fawr yn ei gorph sanctaidd. *Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd.* Wele'r ffyddd honno o'th eiddot yn ei adgyfodiad, a'i fuddugoliaeth ar angau, a rydd it' fywyd, a ddiddana dy ysbryd llewygus, ac a orchymyna iddo orfoleddu mewn hyder duwiol ar dy holl ofnau a'th ofidiau; ac a'i dengys ef, yr hwn a ganfyddi'n awr yn farw ac yn ddirmygedig, yn fyw, ac anfarwol, a gogoneddus.

MATTHEW XXVII. MARC XV. LUC XXIII. IOAN XIX.

YR ADGYFODIAD.

NID yw gras bob amser yn ymddangos lle y mae. Y mae cyfoeth lawer yn guddiedig yn y ddaear, yn y môr, yr hwn ni welodd llygad. Nis clywais unrhyw newydd hyd yn awr am Joseph o Arimathea: yr oedd yn dra chyfoethog, a doeth, a da, teilwng ddisgybl i'r Iesu, er yn ddirgelaidd. Gellir cadw yn ol wir ffydd gyda doethineb, ond nid yw i fod yn ofnog. Yn awr, amlygai ei hun, a chais gorph yr Iesu.

Y mae angau'n arferol o derfynu pob cweryl. Dywaid calon Pilat wrtho ei fod wedi gwneuthur gormod yn barod, trwy ddedfrydu'r Diniwed i farwolaeth. Diammau i'r Canwriad hwnnw draethu wrtho arwyddion gwyrthiol ei ddyoddefaint. Efe, yr hwn a gondemniodd ddiniweidrwydd o'i anfodd, a ddymunai'n hytrach fod y cyfiawn hwnnw'n fyw, na'i naccau yn ol ei farw.

Rhoddir y corph iddo, a chymmerir ef i lawr oddiar y groes: ac yn awr, yr hwn a hongiai'n noeth ar y groes, a amdoir â lliain glan: yr hwn a lygrasid gan chwys a gwaed, a olchir yn ofalus, ac a ber-aroglir.

Daw Nicodemus yn awr yn mlaen am ran: ac nid ofna wneud proffes dda. Angau a ryddhaodd y gwr hwnnw, yr hwn a attelid gynt gan ddychryn y ddeddf. Ffieiddia fod yn aderyn y nos yn hwy: eithr eheda yn eofn allan, gan edrych ar wyneb yr haul: a bydd yn awr mor haelionus yn ei beraroglau, ag a fuasai gynt yn gynnil yn ei broffes.

O Iesu, y ddaear oedd eiddo ti, a'i chyflawnder; etto, am nad oedd gennyt dŷ o'th eiddo dy hun yn dy fywyd: felly nid oedd gennyt fedd pan fuaist farw. Joseph, y Cynghorwr goludog hwnnw, a fenthycciodd it' yr eiddo ef; yn y cyfryw fodd ag na adferasid ef erioed. Meddiannaist ef ond dros ychydig amser: ond y cyffyrddiad bychan hwnnw ag ef gan dy gorph sanctaidd a'i gwnaeth yn rhy dda i'w Feddiannydd.

O Joseph bendigedig, cefaist yr anrhydedd o fod yn arglwydd tir Arglwydd y bywyd. O fel yr atdelir it' am roddi dy fedd i'r Iesu, *a thŷ, nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd!* Yr oedd dy dŷ a'th ardd yn agos i Galfaria, lle nis gallet lai na chael rhybuddion lawer o barth dy freuolder. Pa mor aml y tymherasit y bedd newydd hwnnw â myfyrdodau dwys ac archwaethus. "Yma y gorweddaf, ac y disgwyliaf fy adgyfodiad." Ychydig a feddyliaist y pryd hynny cael dy siommi gan feddiannydd mor fendigedig; neu y buasai dy fedd mor fuan wedi'n yn wag, ac yn anaddas bellach i lettya unrhyw ddyn marwol. O mor siriol y rhoddi i fynu dy fedd iddo Ef, yn yr hwn yr wyt yn byw, a'r hwn sydd yn byw'n dragywydd; enaid yr hwn sydd yn Mharadwys, a'i Dduwdod yn mhob man. Pe na fuaset yn gyfoethog o'r blaen, y ddawn hon yn unig a'th wnaethai felly, ac a roddasai it' anrhydedd, uwchlaw dy anrhydedd daearol oll. Yn awr, tywysogion mawrion a genfigenasant wrth dy haelioni; a chyfrifasant eu hunain yn ddedwydd am gael cusani cerrig y graig honno, yr hon a neddaist ac a gyfrennaist.

Gorwedda gwerthfawr gorph ein Gwaredwr yn medd newydd Joseph, wedi ei amdoi yn lan, a'i berarogli fel hyn. A ydych chwithau'n awr yn esmwyth, Lywyddion Iuddewaidd? A ydyw eich malais wedi marw a'i gladdu gydag ef? A wnaeth Pilat ddigon er boddloni eich cenfigen a'ch dialedd? Diammau mai gelyniaeth cyffredinol a all farw: yr eiddo chwi sy'n fyw ar ol angau, ac a gynhyrfa ynoch ddyfais yn mhellach. *Ymgynhullodd yr Archoffeiriaid a'r Phariseaid at Pilat, gan ddywedyd, Arglwydd, y mae'n gof gennym ddywedyd o'r Twyllwr hwnnw, ac efe etto'n fyw, gwedi tridiau y cyfodaf: gorchymyn gan hynny gadw'r bedd'n ddiogel hyd y trydydd dydd: rhag dyfod o'r ddisgyblion o hyd nos, a'i ladratta ef, a dywedyd wrth y bobl, efe a gyfododd o feirw.*

O lawned o ddychrynfeydd a dyrysedd annocheladwy yw

euogrwydd! Ni ofidiwyd y dynion hyn yn fwy â chenfigen wrth Grist yn ei fywyd, nag yn awr âg ofn ei adgyfodiad. A pha beth yn awr a'u boddlona? Rhoddodd Pilat ei gymmorth i'w ladd: ond pwy a'i ceidw rhag codi?

O Iuddewon drwg ac ynfyd! Barotted ydych i ymladd yn erbyn Duw a'ch calonnau eich hunain! O mor dda fyddai gennych dwyllo eich hunain, trwy gredu ei fod Ef yn dwyllwr, yr hwn gwyddai eich cydwybodau ei fod mor wirioneddol ag oedd alluog. Yr oedd Lazarus o hyd yn eich llygad. Nid cysgod oedd y gwr hwnnw. Nis gellid gwadu ei farwolaeth na'i adfywiad.

Diweddar adfywiad y corph marw hwnnw, ar ol pedwar diwrnod o ymddattodiad, oedd brawf amlwg o Hollalluogrwydd. O mor ofer eich disgwyliad am iddo eich twyllo yn rhag-ddywediad ei adgyfodiad ei hun! Heb feddu ar ddwyfol allu, nis gallasai godi na Lazarus nac Ef ei hun: trwyddo, gallasai godi ei hun yn gystal a Lazarus. Pa raid am dystion amgen na'ch gwefusau eich hunain? Yr hyn yr oedd ar fedr ei wneuthur, addefwch iddo ei rag-ddywedyd; fel y byddai gwirionedd ei air yn gyfattebol i allu ei weithred, ac fel yr amlygai'r ddau Ef yn Dduw'r Gwirionedd a'r Gallu, a chwithau yn elynion i'r ddau.

Ac yn awr, beth a wneir? Rhaid diogelu'r bedd, a chwithau gydag ef. Rhaid i faen mawr, a gwiliadwriaeth gref, wneud y gwaith: a rhaid selio'r maen hwnnw, a rhaid i'r wiliadwriaeth honno fod o'ch dewisiad eich hunain. Meddyliaf fy mod yn clywed y milwyr a'r swyddogion diwyd, pan oeddynt yn treiglo'r maen dirfawr hwnnw at enau'r bedd gyda mawr ludded, yn ymffrostio yn niogeliad y lle; a phan osodwyd gwiliadwriaeth mor rhagorol, yn ymorfoleddu yn eu gwroldeb a'u gofal, gan ddywedyd y rhwystrent hwy ef rhag codi, a chael ei ledratta.

O, ynfydrwydd dynion gweiniaid, y rhai a amcanant, trwy dwyll neu drais, ddymchwelyd ewyllys ac arfaethau'r Hollalluog! Mor gyfiawn y gwawdir hwy gan alluog Lywydd y byd, ac a'u gwneir yn ynfyd yn eu bwriadau ofer! O Iesu, gymmaint o dystiolaeth o'th adgyfodfad a fuasai'n eisiau, pe na fuasai dy elynion yn rhag-ofalu fel hyn yn eu malais! O fel y cadarnheir dy adgyfodiad trwy eu hymdrechion aflwyddiannus i'w rwystro!

Erys y ddwy Fair yr holl amser hyn gartref: a threuliant eu

Sabboth yn ddistaw, mewn cymmysgedd o alar a gobaith. O fel y treuliasant yr oriau gofidus hynny, gan gwyno wrth eu gilydd: a son am ddyoddefiadau amyneddgar, ac ymadawiad dedwydd, eu Gwaredwr: y dygwyddiadau rhyfeddol, yn y nef a'r ddaear, a gymmerasent le ar ei groeshoeliad; a'i fynych a'i eglur rag-ddywediadau o'i adgyfodiad! Ac yn awr, cyttunasant yn siriol, mor gynted ag y caniattai'r amser, ar wawr y Sabboth, i ymweled â'r bedd anwyl hwnnw.

Ac nid ânt yno'n waglaw. Yr hon a roddasai i'w Gwaredwr, tra'n fyw, y blwch gwerthfawr hwnnw o ennaint, a ddarparodd ber-aroglau llawn mor werthfawr iddo yn ol ei farw.

Y mae cariad yn llawn o aflonyddwch a diofn. Y gwragedd duwiol hyn a ânt i brynu per-aroglau yn nhywyllwch y nos: a chyn torriad y dydd, ânt rhagddynt tua bedd yr Iesu, i'w rhoddi arno. Y rhyw-fenywaidd sydd, yn gyffredinol, yn ofnus: peth mawr oedd iddynt rodio wrthynt eu hunain yn yr adeg beryglus honno: etto, gan ddiystyru pob ofn ac enbydrwydd, treuliant, y wedd hon, y nos yn ol eu Sabboth. Pe caniattesid iddynt brynu eu per-aroglau ar y Sabboth, neu i ymweled â'r bedd yn gynt, a allwn gredu yr oedasent cyhyd? A gredwn y buasent yn fwy eu gofal am y Sabboth, nag am *Arglwydd y Sabboth*, yr hwn yn awr a gadwai ei Sabboth yn y bedd? Nis gallent fyned yn gynt, nid aent yn ddiweddarach, i dalu eu parch olaf i'w Gwaredwr marw. Pe gwybuasai'r gwragedd sanctaidd hyn fod eu Hiachawdwr yn fyw, pa fodd y prysurasent hwy, y rhai a frysiasent gymmaint i gyflawni eu dyledswydd olaf i'w gorph sanctaidd! Gyda golwg arnom ni, *gwyddom ni fod ein Prynwr yn fyw:* gwyddom lle y mae. O Iesu, rhyfedd mor oerllyd ein cariad tuag attat, os na frysiwn i'th gael yn dy air a'th sacramentau; os na heda ein heneidiau attat, mewn pob serchiadau sanctaidd, yn dy nefoedd!

Mair Magdalen a enwir gyntaf o'r holl wragedd, ac mewn rhai Efangylwyr, hi yn unig a enwir. Nodedig yw uwchlaw ei chyfeillesau. Nid oedd un o honynt dan gymmaint rhwymau, nid oedd un mor zelog yn ei diolchgarwch. Bwriesid saith gythraul allan o honi, trwy air yr Iesu. Y galon honno, yr hon a ryddhasid oddiwrth Satan, trwy'r difeddianniad galluog hwnnw, a feddiannir yn awr gan haelioni grasol tuag at ei Gwaredwr. Dwywaith, o leiaf, y tywalltodd ei haroglau per a drudfawr arno. Lle bynnag y mae teimlad ein bod wedi derbyn

ffafr a daioni, nid oes modd na byddo dymuniad i at-dalu. O Iesu bendigedig, pe gallem deimlo perygl pob pechod ac erchylldod yr ysbrydion maleisus hynny, oddiwrth y rhai y darfu it' ein gwaredu, O fel yr ymdawelltem mewn diolchgarwch i ti!

Yr oedd pob peth yma'n frawychus. Y lle yn unigol, ac yn feddrod: natur a ffieiddia diriogaeth angau a llygredigaeth, yn gystal a'i wedd: yr amser—y nos; y lloer yn unig a roddai iddynt ryw oleuni gwan, canys y dydd hwn, yr ail-ar-bymtheg o'i hoed, a roddai rywfaint o oleuni i'r rhan olaf o'r nos: y gwaith—ymweled â'r marw. Gorchfygodd eu cariad zelog y rhai'n oll. Canlynasent ef yn ei ddyoddefiadau, pan y gadawodd ei ddisgyblion ef: aethent gydag ef at ei groes gan wylo: canlynasent ef i'w fedd, a gwelsent p'odd y gosododd Joseph ef: nis gadawsant ef yno chwaith, ond, cyn y wawr, dychwelant i dalu iddo y deyrnged olaf o'u dyledswydd. Pa faint *cryfach yw cariad nag angau?* O Iesu bendigedig, paham na efelychem dy gariad tuag attom? Y rhai a geri, *ti a'u ceri hyd y diwedd*, ïe, yn y diwedd hefyd—ïe, ac ar ei ol: hyd yn oed, pan fyddom feirw, perchi, nid yn unig ein heneidiau, eithr ein llwch hefyd. Beth a ddylai wahanu ein serchiadau oddiwrthyt ti yn y nef, neu oddiwrth dy aelodau ar y ddaear?

Gwych y gwyddai'r gwragedd duwiol hyn, yr hyn a wnaethai Joseph o Arimathea a Nicodemus i ti. Gwelsent mor ofalus y'th amdoisent, a'th ber-aroglasent: etto, gan ystyried nad oedd haelioni eraill yn achos cyfiawn am iddynt hwy beidio dangos yr unrhyw, dygent eu haroglau at dy fedd, i'w pereiddio trwy gyffwrdd â'th gorph sanctaidd. Pa ddiolch i ni, os yw eraill yn dangos tiriondeb it', os na wnawn ninnau hynny? Gallwn lawenhau yn mrwdfrydedd eraill: ond os aroswn ynddo, leied fydd ein gorfoledd eu canfod yn myned i'r nef hebddom!

Pan yr aethent gyda Joseph, ar brydnhawn y gwener, i gladdu'r Iesu, sylwasant ar y lle; ar y ffordd; ar y bedd-faen tumewnol, yr hwn a addasasai ei berchennog i enau'r bedd hwnnw, yn nghylch symmudiad yr hwn y mae eu holl ofal yn awr. *Pwy a dreigla ymaith y maen?* Y maen mwyaf hwnnw, à'r hwn y diogelid y bedd, y sel, a'r wiliadwriaeth ar y ddau, ni wyddent o bossibl ddim am danynt. Hyn oedd cyngrair dirgelaidd Pilat a'r offeiriaid, yr hwn ni feddyliasant am dano.

Nis clywaf hwy yn dywedyd, "P'odd y gallwn gael yn ol draul

ein haroglau?" "P'odd y gallwn ochelyd cenfigen a cherydd ein Henuriaid llidiog, am ei barchu ef, yr hwn a farnodd llywyddion ein cenedl yn euog o farwolaeth?" Yr unig beth a ofalent am dano oedd, *Pwy a dreigla ymaith y maen?* Ni arosant gartref ychwaith: ond tra y maent wedi myned yn dra phell ar y ffordd, penderfynant weled y canlyniad. Nis gall calon dda fod mor ofalus am ddim dan y nef ag am symmud ymaith y rhwystrau a'r sydd rhyngddi a'r Gwaredwr. O Iesu bendigedig, Tydi, yr hwn a ddatguddir yn eglur yn y nefoedd, ydwyt guddiedig a seliedig rhag gormod o ddynion ar y ddaear: nid rhyw lèn deneu 'chwaith sydd rhyngot ti a hwynt, ond maen dirfawr: ei gwir faen-tramgwydd sydd wedi ei dreiglo ar ddrws eu calonnau. Ië, os chwanegwyd yr ail faen at dy fedd yma, nid oes llai na thri o farrau ysbrydol rhyngddynt a thydi yn y nef—syrthni, anwybodaeth, annghrediniaeth. Pwy a dreigla ymaith y meini hyn, ond yr unrhyw allu a symmudodd yr eiddo ti? O Arglwydd, symmud ein hanwybodaeth, fel yr adnabyddom di: ein syrthni, fel y ceisiom di: ein hannghrediniaeth, fel y'th fwynhaom.

Rhyfedd fel y llwyddwn, pan awn at ein gwaith yn foddlon ac yn gydwybodol, gan adael y canlyniad gyda Duw! Wele, yn awr, Dduw wedi symmud gofalon y gwragedd sanctaidd hyn gyda'r bedd-faen. Dygwydda i'r drygionus yr hyn a ofna; i'r da yr hyn a ddymuna, ïe, mwy. Terfyna gofalon sanctaidd bob amser yn dda: y rhai daearol a sychant yr esgyrn, a siommant obeithion.

Pe gwybuasai yr ymwelwyr dŵiol hyn am y maen mwyaf seliedig, a'r wiliadwriaeth gadarn a osodasid yno, dyblasid eu hanmheuon: yn awr, â Duw tu hwnt i'w meddyliau, ac a symmud ar unwaith yr hyn a ofnasent, a'r hyn a allasent ei ofni. Y maen a symmudir, y sêl a dorrir, y wiliadwriaeth a ffodd.

O fel y gwawdia Duw amcanion gweiniaid dynion! Tybiasent, "Y maen a ddiogela'r bedd, y sêl a ddiogela'r maen, a'r wiliadwriaeth a ddiogela'r ddau." Yn awr, pan dybiant bob peth yn ddiogel, anfona Duw ei angel oddi uchod: y ddaear isod a gryna, y maen a ymdreigla ymaith, y milwyr a safant fel celaneddau, a phan y maent yn ddigon calonnog i ffoi, tybiant eu hunain yn wrol. Y bedd a agorir, Crist a gyfoda, hwythau a warthruddir. O amcanion gweigion dynion ffol!

megis pe cauent i fynu'r môr â rhawiaid o laid, neu y rhwystrent i'r haul dywynu drwy hongian cadach ger ei fron! Nid ydynt amgen na gweau'r pryf coppyn, neu dyau o bapur, y rhai, yn ol eu tyb eu hunain, a gafansoddodd plant yn gywrain, y rhai a deflir i lawr ac a ddinystrir gan yr anadl leiaf! Pwy ydym ni, bryfed gwael, i ddisgwyl am lwyddo mewn un peth yn erbyn ein Creawdwr? Pa greadur mor wael, a'r na all ymarfogi yn ein herbyn ni, a'n gwaradwyddo? Caiff y llai a'r llyffaint fod yn rhy gadarn i Pharaoh, y pryfed i Herod. *Nid oes doethineb na chyngor yn erbyn yr Arglwydd.*

Rhyfedd mor fawreddog oedd adgyfodiad ein Gwaredwr! Y ddaear a gryna: yr angel a ymddangosa: fel y byddai'n amlwg fod gan yr hwn a godai lywodraeth ar y nef a'r ddaear. Ar farwolaeth dy anian ddynol, O Iachawdwr, yr oedd daear-gryn, ar ei hadfywiad yr oedd daear-gryn hefyd; er hysbysu i'r byd fod Duw natur y pryd hwnnw yn dyoddef, a'i fod yn awr wedi gorchfygu. Tra y gorweddaist yn llonydd yn y ddaear, yr oedd y ddaear hithau'n llonydd: pan ddeuaist i geisio'r eiddot, *y ddaear a grynodd wrth bresennoldeb yr Arglwydd, wrth bresennoldeb Duw Jacob.* Pan y darfu it', ein gwir Samson, ddihuno, a chael dy hun wedi dy gylymmu â'r rhaffau Philistaidd hyn, a phan y torraist y cyfryw gadwynau cedyrn, â'th allu mawr mewn moment, nid rhyfedd os crynodd yr ystafell danat.

Yr oedd achos da gan y ddaear i grynu, pan oedd y Duw a'i gwnaethai yn galw'n rymmus am ei gnawd ei hun, allan o'i hymysgaroedd. Yr oedd ganddi achos da i agoryd ei beddau, a rhoddi i fynu ei meirw i weini i Arglwydd y bywyd, yr hwn a ryfygasai ddal yn ei 'stafell dywyll.

Rhyfedd y fath ymddangosiad o wendid oedd yma, pan y gorweddaist di, yr hwn wyt wir Graig yr oesoedd, yn anenwog, yn dy amdo yn nghraig Joseph! Pan y cauwyd arnat ti, gwir gonglfaen dy Eglwys, â dau faen—un ar dy fedd, a'r llall ar ei enau! Pan y seliwyd di, *trwy'r hwn y'n selir hyd ddydd y pryned-igaeth*, mewn ogof dywyll yn y ddaear! Ond yn awr, pa amlygrwydd o allu a ganfyddir gan y byd a minnau yn dy adgyfodiad! Y creigiau a rwygir, y beddau a ymagorant, y meini a ymdreiglant ymaith, y meirw a godant ac a ymddangosant, y milwyr a ofnant ac a ffoant, seintiau ac angelion a ddeuant yn nghyd ar dy adgyfodiad. O Iesu, gorweddaist i lawr mewn,

gwendid; cyfodi mewn gallu a gogoniant: gorweddaist megis dyn; cyfodaist megis Duw.

Pa gynllun cyffrõus a roddi yma o fawrhydi ofnadwy yr adgyfodiad cyffredinol, a'th ail ymddangosiad! Yno, nid y ddaear yn unig, *ond galluoedd y nefoedd a ysgydwir:* nid rhyw ychydig o feddau a agorir, a rhyw ychydig o'r seintiau a ymddangosant; eithr holl farrau'r bedd a dorrir, a phawb a hunant yn eu beddau a ddeffroant, ac a safant ger dy fron di: nid rhyw un angel a ddisgyna; ond Tydi, *angel* mawr *y cyfammod*, a mil miloedd o'r ysbrydion nerthol hynny gyda thi. Ac os llanwyd y milwyr dewr hyn â braw wrth deimlo'r ddaear-gryn, a chanfod angel, fel mai prin yr oedd anadl ynddynt i fod yn dystion byw o honynt; pa le, O Arglwydd, yr ymddengys dy elynion yn nydd dy ymddangosiad dychrynllyd, pan droa'r ddaear fel meddwyn, ac y diflanna, a phan y fflamia'r elfennau oddeutu eu clustiau, ac y bydd y nefoedd megis plyg-llyfr?

O Dduw, gallaset symmud y maen hwn trwy rym dy ddaear-gryn, yn gystal a hollti creigiau eraill: etto, mynnet yn hytrach ddefnyddio angel; neu buasai'n hawddach i ti, yr hwn a roddasit fywyd i ti dy hun, a hanfod i'r maen a'r ddaear, symmud y maen na'r ddaear; ond dy ewyllys oedd defnyddio llaw angel. Ac yn awr, os myn neb ofyn paham y gwnaethost hyn trwy angel yn hytrach na thrwot dy hun, gall ofyn yn llawn mor addas paham na roddaist y gyfraith trwy dy law ddigyfrwng dy hun, yn hytrach na thrwy weinidogaeth angelion: paham y tarewaist yr Israeliaid â phlaãu trwy angel, a'r Assyriaid â chleddyf: paham yr ymddangosodd angel i'th gyssuro yn ol dy demtasiwn a'th ing, pan y gallesit gyssuro dy hun: paham y defnyddi'r nefoedd i ffrwythloni'r ddaear: paham yr arferi ail-achosion yn mhob digwyddiad, tra y gallet wneud pob peth dy hun. Rhesymol iawn it' beri i'th eiddo dy hun dy wasanaethu: ac nid addas holi am eu symmudiadau na'u llonyddwch, ond eu priodoli i'th ewyllys di.

Cyfodaist dy hun: yr angelion a symmudasant y maen. Cânt hwy, y rhai nis gallasai fod ganddynt law yn dy adgyfodiad, ran yn symmudiad y rhwystrau allanol: nid oherwydd angen, ond dy ewyllys di: fel, pan godaist Lazarus dy hun, y gorchymynaist i eraill ei ollwng yn rhydd. Cyflawni weithredoedd sy'n gofyn Hollalluogrwydd dy hun, yn ddigyfrwng: gweithredoedd cyffredinol a gyflawni trwy ail-achosion.

Er na pherthynai'r weithred hon o eiddo'r angelion i ti yn unig; eithr mewn rhan i'r gwragedd defosiynol hynny, er eu llonyddu dan eu gofal, a mynegu iddynt dy adgyfodiad: mor rhwydded a hyn ydyw'r ysbrydion gogoneddus hynny i wasanaethu, nid Tydi eu Creawdwr yn unig, ond y gwaelaf o'th weinidogion, yn neillduol er dwyn yn mlaen eu hamcanion ysbrydol. Boed i ni ddwyn ein per-aroglau; byddant hwythau'n sicr o dreiglo ymaith y maen. Paham na thebygolwn iddynt yn ein parodrwydd i ddwyn yn mlaen iachawdwriaeth ein gilydd. Gweddiwn am wneuthur dy ewyllys di yma, megis y gwnant hwy yn y nefoedd: os na weithredwn ein dymuniadau, nid ydym ond cellwair â thi yn ein defosiwn.

Mor ogoneddus yr ymddangosodd dy angel hwn! Y milwyr dychrynedig a welsant ei wyneb megis mellten: hwy a'r gwragedd a welsant ei wisgoedd yn disgleirio, ac mor wynned a'r eira; y cyfryw bresennoldeb oedd addas i'w neges. Megis y tywyllwyd yr haul pan oeddit yn ddyoddef, ac y gwisgwyd y creaduriaid oll â thrymder, addas oedd, yn dy adgyfodiad, i'r creaduriaid rhagoraf dystio eu llawenydd trwy ddisgleirdeb eu gwisgoedd, fel, megis y rhoddwn ein dillad goreu am danom ar ŵyliau, y cadwai'r angelion y wledd fendigedig hon, trwy arddangosiad priodol o ogoniant.

Nis gallent lai na mwynhau ein llawenydd ni, wrth ganfod gwaredigaeth dyn fel hyn wedi ei gorphen; ac *os oes llawenydd yn y nef am un pechadur a edifarhao*, pa faint mwy pan brynir byd o bechaduriaid oddiwrth angau, ac yr adferir i iachawdwriaeth! Diau, os un neu ddau a ymddangosodd, iddynt oll lawenhau a gorfoleddu!

Nis gallent hwy chwaith, lai na theimlo dros eu dedwyddwch eu hunain, y rhai, trwy dy gyfryngdod a gadarnheir yn eu sefyllfa gogoneddus: yn gymmaint ag i ti, trwy waed dy groes, a grym dy adgyfodiad, gymmodi y pethau, nid yn unig ar y ddaear, ond yn y nef hefyd.

Eithr uwchlaw pob peth arall, rhaid fod eu cariad attat ti, eu Duw a'u Gwaredwr, yn cynnyddu eu llawenydd, a gwneuthur dy ogoniant yn eiddo hwy. Eu gorchwyl parhaus yw dy ganmol di: pa faint mwy yn awr, ar y fath achlysur, na fu ei fath er dechreuad y byd, ac nas gall fod ei gyffelyb byth mwy? Pan y darfu i ti, Duw'r ysbrydion, orchfygu holl alluoedd ysbrydol y tywyllwch: pan y darfu i ti, Arglwydd y bywyd, orchfygu

angau it' dy hun a'th eiddo oll, fel y gallant yn awr roddi hèr i'w gelyn diweddaf—*O angau, pa le y mae dy golyn*; *O uffern, pa le y mae dy fuddugoliaeth.*

Diau, os gall fod cynnydd ar lawenydd y nef, na chafodd yr ysbrydion gogoneddus hynny gymmaint achos am orfoledd ag yn nydd dy ogoneddus adgyfodiad. Pa faint mwy, anwyl Iesu, y dylem ni ddynion—cnawd y rhai a gymmeraist, ac a unaist, ac a adfywiaist, er mwyn, ac yn lle y rhai y buost yn foddlon i ddyoddef a marw, dyled y rhai delaist yn dy angau, ac a'u rhyddheaist yn dy adgyfodiad, cyrph y rhai a godir trwy rinwedd dy godiad di—pa faint mwy y dylem ni orfoleddu yn nghoffadwriaeth dedwyddol y gorchwyl mawr hwn o'th Ddwyfol allu, a'th annrhaethol drugaredd!

Wele! pa wanned bynnag ydwyf ynof fy hun, etto, trwy hyderu yn muddugoliaethus adgyfodiad fy Ngwaredwr, gallaf yn eofn roddi hèr i chwi, yr holl alluoedd sydd i'm herbyn. Gwnewch eich gwaethaf i'm henaid, diangol fydd.

Ai pechod a'm bygythia. Wele adgyfodiad fy Mhrynwr yn cyhoeddi fy rhyddhad. Gafaelwyd yn fy Machnïydd, a bwriwyd Ef i garchar y bedd. Pe nas talasai'r hatling eithaf o'm dyled, nis gallasai ddyfod allan. Efe a ddaeth allan, y ddyled a dalwyd. Pa berygl a dardda o ddyled wedi ei thalu?

Ai llid Duw a'm bygythia? Am beth onid am bechod y mae hwn? Os gwnawd iawn am fy mai, y mae'r ymrafael drosodd: ac os dyoddefodd fy Iachawdwr ef drosof, paham yr ofnaf y caf ei ddyoddef fy hun? Ffieiddia y cyfiawnder anfeidrol hwnnw gael taliad ddwywaith. Adgyfododd, am hynny boddlonodd. *Pwy yw'r hwn sy'n damnio? Crist yw'r hwn a fu farw, ïe, yn hytrach, yr hwn a gyfodwyd hefyd.*

Ai angau ei hun a'm bygythia? Wele fy Mhrynwr, yr hwn a orchfygodd angau trwy farw, yn gorfoleddu arno yn ei adgyfodiad. Pa raid im' yn awr ofni gelyn gorchfygedig? Pa niweid sydd yn y sarph ond yn ei cholyn—*Colyn angau yw pechod:* hwn a dynwyd allan gan fy Ngwaredwr grymmus, nis gall yn awr fy nrygu: gall dwyn y sarph oerllyd hon yn fy mynwes fy adfywio.

Gan hynny, Waredwr anwyl, bendithiaf di am dy angau; ond yn fwy am dy adgyfodiad. Y cyntaf oedd orchwyl o ymostyngiad rhyfeddol, o drugaredd anfeidrol; yr olaf, o allu anfeidrol: yn y cyntaf yr oedd gwendid dynol; yn yr olaf,

Hollallogrwydd Dwyfol: yn y cyntaf, buost farw *dros ein pechodau;* yn yr olaf, *cyfodaist er ein cyfiawnhau.*

Ac yn awr, pa fodd y'm cyd-ffurfir â thi, os wyf yn gorwedd yn llonydd yn medd fy llygredigaethau, tra yr wyt ti wedi adgyfodi? Pa fodd yr wyf yn aelod o'th gorph, os, tra y mae gennyt ti gyflawn awdurdod ar angau, y mae gan angau awdurdod arnaf fi—os, tra yr ydwyt ti'n fyw a gogoneddus, y gorweddaf fi yn llygredig yn llwch angau? Gwn mai yn y pen y mae y gallu ymsymmudol: trwy rym adgyfodiad ein pen nis gall fod na'n codir ninnau, yr holl aelodau. Megis nas gall y ddaear attal fy nghorph oddiwrthyt yn nydd yr ail adgyfodiad, felly, nis gall pechod attal fy enaid oddiwrthyt yn y cyntaf. Pa fodd yr wyf yn eiddo ti' os wyf heb adgyfodi? Ac os *cyd-gyfodais gyda thi,* paham *na cheisiaf y pethau sydd uchod, lle yr eisteddi di ar ddeheulaw Duw?*

Yr ogof a naddasai Joseph yn y graig oedd fawr, galluog i gynnwys deg o ddynion. Ar ei eneu, o du'r dwyrain, yr oedd y maen mawr hwnnw wedi ei dreiglo. O'i fewn, ar y llaw ddeheu, yn y rhan ogleddol o'r ogof, naddesid lle i'r corph, lled tair llaw oddiwrth y gwaelod: ac yr oedd maen wedi ei ffittio ar wyneb y bedd hwnnw.

I'r ogof hon disgynnodd y gwragedd duwiol, yn ol cael y maen wedi ei dreiglo ymaith, i geisio corph yr Iesu, ac ynddi canfyddasant angelion. Hwn oedd y lle y rhedasai Petr ac Ioan atto, lle y cawsant yspail angau, y bedd-wisgoedd wedi eu plygu, a'r napcyn a fuasai am y pen wedi ei blygu, a'i osod o'r neilldu; ac megis y daethent mewn brys, felly, dych-welasent mewn syndod.

Nid wyf yn rhyfeddu wrth eich brys, O ddisgyblion bendigedig, os, pan glywsoch gan y gwragedd, y rhedasoch, ïe, yr ehedasoch ar adenydd o zel, i weled beth a ddaethai o'ch Meistr. Arferasech rodio yn nghyd yn gyfeillgar gyda'ch Arglwydd: yn awr, annghofir cyfeillach, a phob un a dreia frys ei goesau, megis am gamp, a chan esgeuluso'r llall, a ymdrecha yn gyntaf i gyrhaeddyd y bedd.

Pwy na ymdrechasai eich gorchfygu yn hyn, ac i gyd-redeg â chwi, gan gyffwrdd yn ysgafn â'r ddaear? Yr oedd eich dymuniad yn ogymmaint, eithr Ioan yw'r ieuangaf: y mae ei aelodau yn fwy ystwyth, ei anadl yn rhyddach. Efe'n gyntaf a edrych i'r bedd, ond Petr yn gyntaf a â iddo. O gyd-

gais dedwyddol, pwy a fydd fwyaf ei zel yn chwilio am Grist!

Gwelsoch ddigon i beri i chwi synnu: nid digon i sefydlu eich ffydd. Mor gymmwys y gallasech feddwl, "Ni ddygwyd ein Meistr ymaith, ond efe a gyfododd. Pe cymmerasid ef ymaith gan ddwylaw eraill, ni adawsid y lliain glan hwn ar ol. Pe nas codassai ei hun o'i wely daear, nis plygasid fel hyn ei noswisgoedd, gan eu gosod yn ol eu rhyw wrthynt eu hunain. P'odd y gallwn ammau, ac yntau wedi rhag-ddywedyd y cyfodassai?" O Iesu bendigedig, fel y maddeui ein camsyniadau! O fel y dylem ninnau faddeu, a thosturio wrth, gamsyniadau ein gilydd mewn pethau o is bwys: pan na wyddai dy brif a'th anwylaf ddisgyblion, yn ol cymmaint o addysg ddwyfol, *yr Ysgrythyrau, fod yn rhaid it' godi oddiwrth y meirw!* Aethant ymaith yn llawnach o syndod nag o hyder, nag o grediniaeth.

Y mae zel yn gryfach, lle yr ennynir, yn y rhyw wannaf. Y gwragedd duwiol hynny, megis y daethent yn gyntaf, felly yr arosasent yn ddiweddaf: yn enwedig, defosiynol Mair Fagdalen a safa o hyd wrth enau'r ogof, gan wylo. Hawdd y gallasai arbed y dagrau hynny, pe buasai ei gwybodaeth yn gyfattebol i'w serchogrwydd: ei ffydd i'w gwresogrwydd. Megis y bydd ein llygad yn y lle a garwn, ymgryma, ac edrycha i lawr i'r bedd anwyl hwnnw.

Dymuniadau sanctaidd a lwyddant bob amser. Yno y canfyddodd *ddau angel* gogoneddus *yn eistedd, un wrth ben, ac un wrth draed, y lle y dodasid corph yr Iesu.* Eu disgleirdeb a ddangosodd nad creaduriaid marwol oeddynt: heblaw fod Petr ac Ioan newydd ddyfod allan o'r bedd, ac a'i cawsant ac a'i gadawsant yn wag yn ei gwydd, yr hwn yn awr a lanwyd â'r ymwelwyr nefol hyn. Y lliain glân, â'r hwn yr amdoasai Joseph gorph sanctaidd yr Iesu, a gywilyddwyd yn awr gan wynder disgleiriach.

Etto, nis caf y wraig dduwiol yn ddychrynedig gan y gogoniant annisgwyliedig hwn. Yr oedd ei chalon mor llawn o feddyliau am ei Gwaredwr, fel yr ymddangosodd yn annheimladwy o bob gwrthddrych arall. Y dagrau hynny, y rhai a ddisgynnodd o'i llygaid i'r bedd, a enfyn yn ol atti lais yr angelion hynny, *O wraig, paham yr wyt ti yn wylo?* Sylwa Duw a'i angelion ar ein holl ddagrau defosiynol. Y syndod sydyn ni sychodd ei dagrau, ac ni swynodd ei thafod. Addefa'n rhwydd mai achos ei gofid oedd, ei bod yn methu caffael ei

Gwaredwr, *Am ddwyn o honynt fy Arglwydd i ymaith, ac nis gwn pa le y dodasant ef.* Och! Mair sanctaidd, fel y colli dy ddagrau! Ar bwy yr achwyni, ond ar dy Gyfaill goreu? Pwy a symmudodd dy Arglwydd ond ef ei hun? Pwy ond ei Dduwdod ei hun a gymmerodd ymaith y corph dynol hwnnw allan o diriogaeth angau? Ac nid yw'n gorwedd mwy: saif Ef yn dy ymyl, am symmudiad yr hwn yr achwyni. Fel hyn y gofidia llawer enaid gostyngedig ei hun âg angen am y Gwaredwr, yr hwn sydd ganddo, ond yr hwn nis teimla.

Nis gall synwyr farnu am absennoldeb Crist, yr hwn y galerir am dano. Tro dy lygad yn ol, enaid crefyddol, a gwel *Iesu yn sefyll wrthyt, er nas gwyddost mai yr Iesu yw.* Nid oedd yn ei wisg cyffredin. Rhynga bodd i'r Gwaredwr, weithiau, i ymddangos i'w eiddo, nid fel ei hun. Ei sanctaidd dwyllwisgoedd ydynt ein treialon. Weithiau ymddengys yn estron; weithiau'n elyn: weithiau fel gwr tlawd, weithiau fel un caeth gofidus. Gwyn ei fyd yr hwn a adwaena ei Brynwr yn mhob ffurf.

Tybiodd Mair mai'r Garddwr ydoedd. Mair dduwiol, ni chyfeiliornaist yn mhell. Megis mai crefft yr Adda cyntaf oedd trin gardd Eden, felly, crefft yr ail yw trin gardd ei Eglwys. Try y ddaear i fynu âg arfyhoeddiadau prydlon; haua ynddi hadau ei ras; planna ynddi gynhyrfiadau sanctaidd; dyfrha hi â'i air, ïe, â'i waed ei hun; chwynna hi â cheryddon iachusol. O Waredwr bendigedig, beth a esgeulusi ei wneuthur er lles i'th gaeadle dewisedig—dy Eglwys? Megis mewn un ystyriaeth, *Tydi yw'r wir wynwydden*, a'r *Tad yw'r Llafurwr:* felly mewn ystyr arall, nyni yw'r winwydden, a Thydi yw'r llafurwr. O, bydd di hynny i mi, yr hyn a ymddangosaist i Magdalen: dryllia fraenar fy natur: planna ynof ras: tor ymaith ganghennau fy llygredd: mwyda fi â'r gwlaw cynnar a'r diweddar: gwna yr hyn a fynni er fy ngwneud yn ffrwythlon.

Y wraig dduwiol hon a alara ac a gwyna o hyd, ac a ymofyna'n awyddus â thi, O Iesu, am danat dy hun. Rhyfedd mor dueddol ydym, pan yr amrywi y mesur lleiaf oddiwrth ein hamgyffrediadau, i beidio dy adnabod, ac i niweidio ein hunain trwy ein camsyniadau!

Celaist dy hun, yr holl amser hwn, oddiwrth y wraig serchog hon: canfyddaset ei dagrau, a chlywset ei hymofyniadau

pryderus: o'r diwedd, megis nas gallasai Joseph ymgadw'n hwy rhag hysbysu ei hun i'w frodyr, felly dy dosturi a'th gymhellodd i dorri allan, ac i lawn amlygu dy dun, trwy draethu ei henw ei hun wrthi, *Mair.* Yr oedd yn gynnefin â'r enw ac a'r llais. Llefarasit wrthi o'r blaen: eithr yn llais estron, yn awr, yn yr eiddo cyfaill a Meistr. Megis Bugail da, *gelwi dy daefaid wrth eu henwau, a hwy a adnabyddant dy lais.* Beth oedd dy alwad arni ond pattrwn o'th eiddo arnom ninnau?

Megis y gelwaist hi, felly ninnau—mewn modd cyfeillgar ac effeithiol. Nis gallasai hi ddechreu gyda thi, namyn trwy dy annerch megis estron: dy drugaredd oedd it' ddechreu gyda hi. Melus a hyfryd yw'r cerydd hwnnw o eiddo dy ysbryd. "Yn awr, a chwi yn adnabod Duw, ond yn hytrach yn adnabyddus gan Dduw."

Yr ydym yn dy adnabod, O Dduw: ond ein hadnabyddiaeth weithredol a ddilyna ein hadnabyddiaeth oddefiadol: yn gyntaf, fe'n hadweinir gennyt ti; yna adwaenwn di, yr hwn a'n hadnabuost ni: ac megis ein hadnabyddiaeth, felly ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth: Tydi sy'n dechreu gyda ni yn mhob peth, a tra chymmwys y dywedi, *Nid chwi a'm dewisasoch i, ond myfi a'ch dewisais chwi.* Pan y mynnet lefaru wrth y wraig dduwiol hon megis estron, siaradet o bell wrthi, *Wraig, pwy yr wyt ti yn ei geisio?* Yn awr, pan y mynnet hysbysu dy hun iddi, gelwi hi wrth ei henw—*Mair.* Rhoddir gwahoddiadau a thrugareddau cyffredinol i'n fel dynion: ond, pan y cyfrenni ras megis i'th etholedigion, deui yn agos at yr enaid, ac a'n hennilli âg arwyddion anwylaidd ac arbennig.

Yr enw hwnnw yn unig a wnaeth gymmaint a dywedyd, "Adnebydd ef, gan yr Hwn y'th adnabyddir ac a'th gerir," ac a'i try oddiamgylch i edrych arnat, ac i'th gydnabod. *Hithau a drodd ac a ddywedodd wrtho, Rabboni, yr hyn yw dywedyd, Athraw.* O'r blaen, yr oedd ei hwyneb tua'r angelion; y gair hwn a'i try oddiamgylch, gan droi ei hwyneb atto Ef, oddiwrth yr hwn y troisid ef gan ei chamsyniad. Nid ydym yn dy iawn ddirnad, O Iesu, os gall un creadur yn y nef na'r ddaear gadw ein llygaid a'n calonnau oddiwrthyt. Yr angelion oeddynt ddisglaer a gogoneddus: dy ymddangosiad di'n wael a dilewyrch: etto, pan glywodd dy lais di, troa ei chefn ar yr angelion, gan dy annerch di a Rabboni, a syrthio i lawr ger dy

fron, gan ddymuno cofleidio'n ostyngedig y traed sanctaidd hynny, y rhai gwych ganddi oedd eu gweled heb angen am ei pher-aroglau.

Tra yr oedd y cyfryw gyfeillgarwch yn yr annerchiadau, paham yr oedd y gorchymyn chymmaint o ddyeithrwch ynddo? *Na chyffwrdd â mi, oblegyd ni dderchefais i etto at fy Nhad.* Nid oeddyt arferol fod yn gymmaint yn erbyn i neb gyffwrdd â thi. Ychydig cyn hyn y cyffyrddodd y dwylaw hyn â thi yn dy enneiniad: y wraig â'r difer-lif gwaed a gyffyrddodd â thi: yr edifeiriol diolchgar yn nhy Simon a wnaeth felly. Paham y llefaraf am y rhai'n? Y lluaws a gyffyrddodd â thi: y dihenyddwyr a wnaethant hynny, ac, hyd yn nod, ar ol dy adgyfodiad, ni phetrusaist ddywedyd wrth dy ddisgyblion, *Teimlwch a gwelwch*, ac i wahodd Thomas i roddi ei fysedd yn dy ystlys: ac yn fuan ar ol hyn goddefaist i'r tair Mair gyffwrdd a chofleidio dy draed. Paham, ynte, y dywedi, *Na chyffwrdd â mi.* Ai fel cerydd esmwyth am ei chamsyniad? Megis pe dywedasit, "Nis gwyddost yn awr fod gennyf gorph anfarwol: eithr ymddygi tuag attaf megis pe byddwn yn fy nghyflr cyffredinol: yn awr, gwybydd fod fy nghyflwr wedi ei newid: er na esgynais etto at fy Nhad, etto, 'rcorph hwn, a weli ei fod yn sylweddol, sydd o ansawdd dyoddefus, wedi ei gynnysgaeddu ag anfarwoldeb, gan hynny, yn deilwng o ddwysach parch nag o'r blaen. Neu, ai cerydd esmwyth ydoedd am barhau o honi yn dy ddal yn rhy hir, gan osod ei meddyliau ar dy bresennoldeb corphorol, gan ei chyfarwyddo i osod ei serch-ogrwydd mwyaf arnat yn dy nefol ogoneddiad? Neu'n olaf, ai cerydd ysgafn ydoedd am ei gormod brys i gyffwrdd â thi; megis pe buasai raid iddi ei ddefnyddio er rhagflaenu dy esgyniad, neu, ynte, y cawsai ei siomi am ei gobaith? Megis pe dywedasit, "Na fydd mor awyddus i afaelu ynof, megis pe bawn ar fedr esgyn yn ddioed: eithr gwybydd yr arosaf ychydig yn hwy ar y ddaear, cyn myned i fynu at fy Nhad." O Iesu, gall fod ein zel yn dy geisio a'th fwynhau o ddyben da, er hynny, yn feius: os ceisiwn di lle ni ddylem—sef ar y ddaear, neu y modd ni ddylem. Gall fod math ar gnawdolrwydd mewn cyffawniadau ysbrydol. *Os buom hefyd yn dy adnabod yn ol y cnawd, etto, yn awr, nid ydym yn dy adnabod felly mwyach.* Llawen gennyf wybod i ti fyw yma, yn y ffurf, lliw, maintioli, a'r arferiad y gwnaethost: nis gall dim a berthyna it' fod heb ei

ddefnyddioldeb. Pe gallwn ddywedyd, "Yma yr eisteddaist: yma y gorweddaist: yma y'th groeshoeliwyd: yma y'th gladdwyd: yma, yn olaf, y gosodaist dy droed," edrychwn ar yr arwydd-feini hyn o'th bresennoldeb gyda mawr hoffder: ond os sefydlaf fy meddwl, yn y cyfryw fodd ar y rhai'n, fel ag i beidio edrych yn uwch at dy gyflawniadau ysbrydol, at rym a chanlyniadau dy adgyfodiad, nid yw ddim lleshad i mi.

Nid cynt yr adgyfodi nag y soni am esgyn: megis y gorweddasit i lawr i godi; felly cyfodaist i esgyn: hyn yw perffeithiad dy ogoniant, ac o'r eiddo ninnau ynot. Tydi, yr hwn a warafunaist ei chyffyrddiadau hi, a orchymyni iddi neges—*Dos at fy mroydr, a dywaid wrthynt, yr wyf yn esgyn at fy Nhad i, a'ch Tad chwithau, a'm Duw i, a'ch Duw chwithau.*

Y mae cyhoeddiad dy adgyfodiad a'th esgyniad i'w fwynhau'n gyffredinol. Hyn sydd er cyssur i un: y llall er lles i lawer. Eistedd i lawr a mwynhau sydd felusach am yr amser, eithr myned a dywedyd sydd fwyaf llesfawr yn y canlyniad. Tybiodd yr angel mawr hwnnw yn anrhydedd mawr, cael ei ordeinio i ddwyn y newydd dedwydd at y Forwyn Fendigedig, y Fam sanctaidd, yn nghylch ffurfiad y Gwaredwr yn ei chroth: pa anrhydedd mawr oedd i Fair Fagdalen, fod yn rhaid iddi hi gyfleu'r newydd o'th ail enedigaeth, dy adgyfodiad, a'th gyflym esgyniad. *Mor brydferth* yr haeddai *eu traed* hwy fod, *y rhai sydd yn efengylu tangnefedd* ac iachawdwriaeth! Beth waeth, O Arglwydd, os dynion a ddirmygant, os anrhydeddi di?

At bwy, gan hynny, yr anfoni hi? *Dos, dywaid wrth fy mrodyr.* Iesu bendigedig, pwy ydynt? Ai nid y rhai a'th ganlynasant? Iē,ai nid y rhai a'th adawsant? Er hynny, gelwi hwynt o hyd dy frodyr. O, ostyngeiddrwydd rhyfeddol! O drugaredd anfeidrol! O fel y derchefi eu titlau gyda thi dy hun! Ar y cyntaf, dy weision oeddynt—yna disgyblion; ychydig cyn dy farw, dy gyfeillion oeddynt; yn awr, yn ol dy adgyfodiad, dy frodyr ydynt. Tydi, yr hwn a dderchefasit yn anfeidrol, o farwoldeb i anfarwoldeb, a ymostyngi gymmaint yn fwy i'w galw hwynt yn frodyr, y rhai oeddynt o'r blaen yn gyfeillion, disgyblion, a gweision. Paham y meddyliwn ddim am ein huwch-raddoldeb gwael, pan yr ymostynga Mab Duw gymmaint ag i'n galw ni'n frodyr! Ond, O drugaredd anfesuredig! Paham, pa fodd y gelli eu galw hwy'n frodyr, y rhai a gefaist yn eu hymadawiad olaf yn ffoaduriaid? Oni redasant

oddiwrthyt? Oni adawodd un ei wisg nesaf at ei gorph yn hytrach na bod yn analluog i'th adael? Oni wadodd arall di, ïe, dy wadu t wy lw? Er hynny, dywedi, *Dos, dywaid wrth fy mrodyr.* Nis gall ein pechodau o wendid ein hanfrawdoli: pan yr edrychom ar y gweithredoedd eu hunain, y maent yn dra ffiaidd: pan yr edrychom ar y personau, y maent gymmaint mwy eu bai ag yw eu rhwymedigaeth: ond pan edrychom ar dy drugaredd di, yr hwn a'n galwodd, yn awr, *Pwy a'n gwahana?* Pan bechom, y mae gennym achos, oherwydd dy anwyldeb tuag attom, i alaru'n ddwys: ond yn ol galaru, y mae gan ein ffydd lawn cymmaint achos i'n cadw rhag annobeithio: brodyr ydym etto: brodyr ynot ti, O Iesu, yr hwn a esgyni erom: ynot ti, yr hwn a wnaethost dy Dad yn dad i ni, dy Dduw'n Dduw i ni. Y mae'n Dad i ti trwy dragywyddol genhedliad, y mae'n Dad i ni trwy fabwysiad grasol: yn Dduw i ti, trwy undeb hanfod; yn Dduw i ni, trwy ei ras ac etholedigaeth.

Y mae ein bywyd a'n gwynfyd yn gynnwysedig yn y priodoliad hwn. Gweiniaid y cyssuron a darddant o'th drugareddau cyffredinol. Beth well, O Iesu, fyddwn ni, am fod Duw'n Dad i ti, pe na byddai felly i ni? O cyfranna i mi deimlad priodol o'm rhan ynot ti, ac o'th ddaioni dithau i minnau. Dwg dy hun adref i mi; a gad im' brofi fod gennyf Dduw ac Iachawdwr o'm heiddo fy hun.

Cymmwys sylwi ar dy drefn. Yn gyntaf, *fy Nhad*, yna, *eich Tad chwithau.* Felly, Arglwydd, dy eiddo di ydyw'n gyntaf, ac, yn dy hawl di yn unig, yr eiddo ninnau. Ynot ti y'n mabwysiadir, y'n hetholir: hebot ti, nid yw Duw yn estron yn unig, eithr yn elyn i ni. Tydi yn unig a all ein rhyddhau, a'n gwneuthur yn feibion. Os ceir fi ynot ti, nis gall fod na fydd gennyf Dad yn y nefoedd.

Gyda pha lawenydd y derbyniodd Mair y neges hon, ac y croesawodd y disgyblion hi o'i geneu! Wele yma newydd da o wlad bell, ïe, o barthau pellaf marwolaeth.

Y disgyblion hynny, y rhai a ffoisant ac a wasgarwyd pan ddaliwyd Crist, ydynt yn awr, fel adar gwasgaredig, wedi ymgynnull yn nghyd: eu adgynhuliad sydd ddirgelaidd: *a'r drysau yn gauedig.* Yr oeddynt o hyd yn ofnog, a'r Iuddewon yn faleisus. Y newydd sicr am adgyfodiad a bywyd eu Meistr a lanwodd eu calon â llawenydd a syndod. Tra y llefarent ac

y meddylient yn unig yn nghylch peth mor hyfryd, par ei bresennoldeb gwyrthiol a disymmwth i'w synwyrau fod yn dystion o'i adfywiad ef, a'u dedwyddwch hwythau. *A'r drysau'n gauad lle yr oedd y disgyblion wedi ymgasglu yn nghyd rhag ofn yr Iuddewon, daeth yr Iesu, ac a safodd yn y canol, ac a ddywedodd wrthynt, Tangnefedd i chwi.*

O Iesu, rhyfeddaf pa fodd y deuaist i mewn yma; nid ymofynaf. Nis gwn beth a all corph wedi ei ogoneddu ei wneuthur; gwn nad oes dim a'r na elli di ei wneuthur. Pe nas gosodid i lawr dy fynediad i mewn, megis peth dyeithr a goruwch-naturiol, paham y sylwyd ar dy safiad yn y canol yn flaenorol i'th fynediad i'r ystafell? Paham y dywedir fod y drysau'n gauad, pan aethost i mewn? Paham y rhyfeddodd dy ddisgyblion dy weled, cyn iddynt dy glywed? Diau nad allent hwy, y rhai o'r blaen a'th gyfrifent yn ysbryd, pan rodiaist ar y dyfroedd, lai na synnu dy ganfod, a'r drysau á barrau arnynt, yn sefyll yn y canol, heb glywed dy swn yn dyfod i mewn: gwych y gallent gredu nad allet fod yno, pe na buaset yn Dduw'r ysbrydion.

Gallent ammau mwy yn nghylch dy fod yno mewn gwirionedd, nag am dy allu: ac yna, yn ol dy gyfarchiad cyffredinol, dangosaist iddynt dy ddwylaw a'th draed, ar y rhai yr oedd nodau dy ddyoddefiadau diweddar. Dy anadliad a gaiff egluro iddynt dy fod yn fyw mewn gwirionedd. Anadlaist arnynt megis dyn; cyfrennaist dy ysbryd megis Duw: ac, megis Duw-ddyn, anfoni hwynt ar neges fawr dy efengyl.

Holl niwl eu hanmheuon yn awr a wasgerir. Yr haul a dyr allan yn eglur: *Llawenychasant pan welsant yr Arglwydd.* Pe adnabuasent di megis dyn yn unig, nis gallasai yr ail-ymddangosiad hwn lai na'u dychrynu, yn gymmaint ag na wnaed hyn, hyd yn awr, eiriod trwy dy Hollalluog nerth—sef i'r rhai oeddynt wedi meirw er's amser maith, godi o'u beddau, ac ymddangos i lawer: ond pan adfyfyriasant ar y gwyrthiau a wnaethpwyd gennyt, ac y meddyliasant am Lazarus, yr hwn a gyfodasid mor ddiweddar, dy Dduwdod profedig a roddodd iddynt hyder, a'th bresennoldeb lawenydd.

Nis gallwn lai na chael colled trwy fod yn absennol o gynnulleidfaoedd sanctaidd. Yn mh'le yr oeddyt ti, O Thomas, pan oedd y relyw o'r frawdoliaeth sanctaidd yn nghyd? A barodd dy ofn it' ffoi mor belled, fel dy fod etto heb ddychwelyd at dy gyfeillion? Neu a oddefaist i bethau eraill dy luddias rhag y

gwynfyd hwn? Collaist yn awr yr anadl ddwyfol, â'r hwn y ddiddanir y lleill gymmaint: a goddefir it' yn awr syrthio i'r anhyder gwan hwnnw, yr hwn, pe buaset bresennol, diangasit rhagddo. Dywedasent wrthyt, *Ni a welsom yr Arglwydd.* Onid oedd hyn yn ddigon? A wnai llygaid neb y tro it' ond yr eiddot dy hun? A oedd dy glustiau o ddim defnyddioldeb i'th ffydd? *Oni chaf weled yn ei ddwylaw Ef ol yr hoelion, a dodi fy mys yn ol yr hoelion, a dodi fy llaw yn ei ystlys ef, ni chredaf fi.* Ddyn drwg-dybus, pwy a golledir, os na chredi? A oes dim sicrwydd ond yn dy synwyrau dy hun? Pa fodd nas gellir credu cynnifer o lygaid a thafodau sanctaidd yn gystal a'th lygaid a'th ddwylaw di? O, leied a wyddet hyd yma am lwybrau ffydd! *Ffydd sydd trwy glywed.* Dyma'r tafodau, y rhai sydd raid iddynt ennill yr holl fyd i gydsyniad, ac a ommeddi di yn gyntaf i wrando arnynt? Paham yr oedd y gair hwnnw mor anhawdd i'w gredu? Oni rag-ddywedasai dy Feistr dwyfol wrthyt ti a'r lleill, fod yn rhaid ei groeshoelio, ac iddo godi y trydydd dydd? A ddywedir fod unrhyw beth wedi cael ei wneuthur, ond yr hyn a rag-addawsid?—unrhyw beth tu allan i gylch Hollalluogrwydd Duw? Dos, ynte, ac ymddigrifa yn dy gallineb anffyddiog, tra y mae dy gyfeillion yn ddedwydd trwy gredu.

Thomas a dreulia wythnos gyfan yn yr anffyddiaeth digyssur hwn: tra, yn ddiammau, y clywai o hyd y gwragedd sanctaidd, y tystion cyntaf o adgyfodiad Crist, yn haeru'r peth: yn gystal a'r ddau ddisgybl, y rhai oeddynt yn myned i Emmaus, y rhai y gosodwyd eu tafodau ar dân gan eu calonnau llosgedig, i draethu gyda zel y dygwyddiadau dedwyddol hynny: clywai hefyd hanesion gwirioneddol am godiad ac ymddangosiad seintiau lawer, fel gweinyddwyr i Arglwydd a Rhoddwr bywyd: etto, ymdrecha â'i anffyddiaeth ei hun, ac annghreda'n gadarn y gwirionedd hwnnw, o'r hwn nis gall wadu ei fod wedi cael digon i'w argyhoeddi. Megis nad yw yr unrhyw gyfferi yn dueddol i weithredu ar bob corph: felly, nid yw yr un moddion ffydd ar bob enaid—y mae un yn gyndyn, tra y mae eraill yn hyblyg.

O Iesu, mor gyfiawn y gallesit adael y dyn hwn i'w gyndynrwydd! Pwy a allasai ddiolch iddo, pe buasai farw yn ei annghrediniaeth? Ond, O wych Fugail Israel, yr hwn a ymfoddlonaist adael y namyn un pum ugain i fyned ar ol un ar ddisperod yn

yr anialwch, gyda pha ofal y dygaist y crwydryn hwn at ei gyfeillion! Yr oedd dy ddisgyblion wedi ail-ymgynnull yn yr un modd, ar yr un adeg, yn yr un lle, a'r drysau'n gauedig fel o'r blaen, pan y deuaist i mewn yn yr un wedd, a'r disgybl annghrediniol yn awr gyda'r lleill, y sefaist yr un wedd, ac y dangosaist dy ddwylaw a'th draed yn yr un wedd: a chan bennodi dy ddisgybl ammheus, gwahoddaist ei lygaid i weled, a'i fysedd i deimlo dy ddwylaw, a'i law i gael ei gwthio i'th ystlys, fel na fyddai annghredadyn ond credadyn.

Iesu bendigedig, rhyfedd fel y tosturi wrth gamsyniadau a gwendidau dy weision! Hyd yn nod, pan fyddom gyndyn yn ein opiniynau, ac yn teilyngu dim ond cael ein gadael, O, fel y dilyni ni a'n gorddiwesi a'th drugaredd, gan ein dychwelyd a'n hachub yn dy anfeidrol dosturi, pan na feddyliom am hynny, ac nas dymunom. Yr oedd dy ddaioni yn ymostwng i foddloni yr annghrediniaeth cywrain hwnnw yn gymmaint yn fwy rhyfeddol, ag oedd y llygaid a'r dwylaw hynny yn annheilwng o gael gweled a theimlo y Corph anfarwol a gogoneddus hwnnw.

Ac nis clywaf di gymmaint ac yn ceryddu y cildynrwydd gwan hwnnw. Ychydig cyn hyn y cymmeraist i fynu'n llym y ddau ddisgybl, y rhai oeddynt yn myned i Emmaus, *O ynfydion a hwyrfrydig o galon, i gredu'r holl pethau a ddywedodd y Prophwydi*: ond hyn oedd dan rith-deithiwr anadnabyddus ar y ffordd, pan oeddynt wrthynt eu hunain: yn awr, pan y llefari â'th dafod dy hun, ger bron dy holl ddisgyblion, yn lle ceryddu, annogi yn unig, *Na fydd annghredadyn, ond credadyn.*

Wele dy drugaredd, ddim llai na'th allu, a doddodd galon rewllyd dy ganlynwr annghrediniol. *Yna'r attebodd Thomas, ac a ddywedodd wrtho, Fy Arglwydd a'm Duw.* Ni chlywaf i Thomas ddefnyddio ei ddwylaw. Rhoddai ei lygaid yn awr sicrwydd digonol. Y teimlad o Hollwybodaeth ei Feistr, yn y sialens arbennig a roddasai iddo, a'i harbedodd, efallai, rhag pellach ymofyniad. A pha mor ddedwyddol y cyfrannesid yr anmheuaeth hwnnw, yr hwn a barodd gyfaddefiad mor ffyddlon. *Fy Arglwydd a'm Duw.* Nis clywaf y fath air oddiwrth y rhai a gredasent. Da i ni, ac i tithau dy hun, Thomas, i ti ammau: onide, ni dderbyniasai'r byd dystiolaeth mor berffaith o'r adgyfodiad, ar yr hon yr ymddibynna'r holl hiachawdwriaeth; ac ni roddaset tithau dystiolaeth mor gyflawn

a dwyfol i'th fendigedig Waredwr. Yn awr, cyfaddefi, nid yn unig ei adgyfodiad, ond ei Dduwdod hefyd—a'th hawl ddedwyddol i'r ddau. Ac yn awr, os ydynt hwy yn fendigedig, y rhai ni welsant, etto a gredasant, bendigedig wyt tithau hefyd, yr hwn a gredaist fel hyn wedi gweled: a bendigedig fyddo tithau, O Dduw, yr hwn a wyddost y modd i gymmeryd mantais ar wendidau dy etholedigion, er dwyn yn mlaen eu hiachawdwriaeth, cadarnhad dy Eglwys, a gogoniant dy enw. Amen.

MATTHEW XXVIII. MARC XVI. LUC XXIV. IOAN XX.

YR ESGYNIAD.

NID oedd yn unol a'th ddyben, O Iesu, i esgyn yn ddioed o'r bedd i'r nefoedd. Amcenaist gymmeryd y ddaear ar dy ffordd: nid i fyned trwyddi'n gyflym, ond i gymmeryd hamdden i ymddiddan arni. Ar dy ddydd pasg llefaraist am dy esgyniad; ond mynet i ddeugain niwrnod fyned heibio'n gyntaf. Pe meddyliaset yn unig am dy ogoniant dy hun, buaset yn union-gyrchol yn cyfnewyd dy fedd am dy baradwys: canys cymmaint a hynny'n gynt y buaset yn mwynhau llawenydd dy Dad: ni arosem ni mewn carchar-dŷ pan allem fod mewn palas: ond Tydi, yr hwn a deilyngaist o honot ddisgyn o'r nef i'r ddaear erein mwyn, a fynnet olygu ein lles ni yn dy ddychweliad.

Dy angau a drallododd galonnau llawer o ddisgyblion, y rhai a dybiasent y cyflwr hwnnw yn rhy wael i fod yn gysson a gogoniant y Messia: a meddyliau drwg-dybus a feddiannent y mynwesau sancteiddiaf. Arosaist, gan hynny, cyhyd ar y ddaear nes y cafodd y byd dystiolaeth anffaeledig o'th adgyfodiad: o'r cyfryw amser oll, Tydi yn unig a elli roddi hanes. Nid oedd i gig a gwaed olrhain ffyrdd anfarwoldeb: nid oedd chwaith ein natur egwan, lygredig, bechadurus, yn gydymaith addas i'th ddyndod wedi ei ogoneddu: gogoneddus angelion y nef oeddynt yn awr dy addasaf gymdeithion. Ond, etto, pa mor aml y rhyngodd bodd it' dy gyfrannu dy hun yn rasol i ddynion yn yr yspaid hwn: ac nid yn unig i ymddangos i'th ddisgyblion, ond i adnewyddu iddynt dy ddull cyffredinol o gyfeillachu â hwynt trwy lefaru, rhodio, a bwytta gyda hwynt? Ac yn awr, pan nesheaist at dy ymadawiad olaf, Tydi, yr hwn a ddan-

gosaist dy hun yn fynych i'th ddisgyblion ar wahan, a dybiaist yn oreu yn awr eu cynnull yn nghyd er ffarwel cyffredinol.

Pwy all geryddu anwybodaeth duwiolion yn rhy lym, pan ganfydda wastadol ganlynwyr Crist, hyd yn nod, ar ol ei adgyfodiad, yn cam-gymmeryd prif ddyben ei ddyfodiad i'r byd? *Arglwydd, ai'r pryd hyn y rhoddi drachefn y frenhiniaeth i Israel?* Canfyddant eu Meistr yn awr allan o gyrhaeddiad cenfigen yr Iuddewon; a'i allu'n annherfynol ac anwrthwynebol: canfyddant Ef yn aros cyhyd ar y ddaear, fel y gallent feddwl ei fod yn bwriadu gwneuthur ei drigfa yma: a pheth a wnaethai yma ond teyrnasu? A phaham y cynnullwyd hwy'n awr yn nghyd ond i gael swyddau dano, ac er trefnu achosion y deyrnas honno, yr hon oedd yn awr i gael ei hamddiffyn? O feddyliau gweiniaid disgyblion a gawsent addysg dda! Beth a wnae corph nefol ar orsedd-faingc ddaearol? P'odd y gellid treulio bywyd ysbrydol mewn gofalon daearol? Y fath beth gwael yw teyrnas dymhorol Israel i Frenhin y nefoedd!

Ac etto, nis clywaf di, fendigedig Iesu, nis clywaf di'n beio'n drwm ar y camsynied hwn o eiddo dy ganlynwyr: dy addfwyn gerydd a berthyna'n hytrach i'r amser, na chamsyniedig sylwedd, yr adferiad hwnnw. Dy amcan grasol oedd i'th ysbryd yn raddol ddiwygio eu barn, a'u goleuo â'th wirioneddau dwyfol: yn y cyfamser, digon oedd cynhyrfu eu calonau i ddisgwyl am yr Ysbryd Glan hwnnw, yr hwn ar fyr a'u tywysai i bob gwirionedd angenrheidiol.

Ac yn awr, gydâg addewid rasol o'th Ysbryd, gydag adnewyddiad gofalus o'r gorchymyn i gyhoeddi dy Efengyl, gyda bendithiad nefol o'th ddilynwyr, ymadewaist â'r ddaear. *Ac wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, a hwynthwy yn edrych, efe a dderchafwyd i fynu, a chwmmwl a'i derbyniodd ef allan o'u golwg.* O, ymadawiad gwynfydedig, addas i Waredwr dynolryw: cyfattebol i'w ymarweddiad dwyfol, i'w ogoniant dyfodol! O Iesu bendigedig, bydded im' dy efelychu mor belled ag i ymadael fel hyn â bendith yn fy ngenau. Boed im' henaid, wrth gammu dros drothwy'r nef, adael ar ei ol gymmun-rodd o dangnefedd a dedwyddwch.

O fynydd yr Olewydd y cymmeraist dy esgyniad tua'r nef. Gallaset esgyn o'r dyffryn: yr holl ddaear oedd yr un i ti: ond am dy fod i esgyn i fynu, cymmeret gymmaint mantais ag a roddai y ris honno o ddaear it': ni ddefnyddiet wyrth lle y cyn-

nygiai natur ei gwasanaeth cyffredinol. Pa anhawsder a fuasai it' fyned i fynu o ganolbwynt y ddaear? Ond am wneuthur o honot y mynyddoedd gymmaint yn nes i'r nef, ni esgeuluset y lles a darddai o'th greadigaeth dy hun. Lle y mae gennym gynnorthwyon cyffredinol, nid ydym i edrych am ddarpariadau goruwch-naturiol: nid ydym i gymmell Rhagluniaeth Ddwyfol i ddywallu ein hesgeulusdra, neu i foddio ein rhyfyg. Tydi, yr hwn a allaset rodio ar y môr, a rodiaist felly ond unwaith, sef, pan oedd eisiau llong arnat: Tydi, i'r hwn yr oedd y bryniau uchaf ond megis dyffrynoedd, a ddringaist i ben bryn, i esgyn oddiarno i'r nef. O Dduw, dysg fi i'th fendithio am foddion, pan y caffwyf hwynt: ac i hyderu ynot am y cyfryw, pan wyf hebddynt: ïe, i hyderu ynot heb foddion, pan nad oes gobaith i'w meddiannu.

Pa fynydd a ddewisiaist ond mynydd yr Olewydd? A gaf ei gyfenwi dy bwlpud, neu'th erfynle? Y lle, o'r hwn arferet gawodi dy nefol athrawiaeth ar dy wrandawyr: y lle, o'r hwn byddet arferol o anfon i fynu dy weddiau at dy Dad nefol: y lle, yr hwn a gyfrannogai â'r deml o'r ddau: yn y dydd pregethet yn y deml; yn y nos gweddiet ar fynydd yr Olewydd. Ar y mynydd hwn y dygwyddodd chwys gwaedlyd dy ing: yn awr, mynydd dy orfoledd yw. O'r mynydd hwn y dylifodd yr olew gorfoledd hwnnw, â'r hwn y bywiocceir dy Eglwys yn dragywydd. Y Duw hwnnw, yr hwn sydd arferol o'n cospi yn y cyfryw fodd ag y troseddwn, a dâl hefyd in' yn yr un modd ac amgylchiadau ag y'n trallodwyd. Cyfrenni hefyd i ninnau, ïe, i ninnau, dy annheilwng aelodau, mewn iawn byd, lawenydd cyfattebol i'n trallod: chwerthin cyfattebol i'n galar: gogoniant cyfattebol i'n dirmyg a'n gwaradwydd. Ein hingau a ddilynir â derchafiad.

I ba le, O Iesu bendigedig, yr esgyni? I ba le ond i'r nefoedd? Cymmerwyd di i fynu o'r mynydd: a pheth ond y nefoedd sydd uwch na'r mynyddoedd? Wele, y rhai'n yw mynyddoedd y per-lysiau, y rhai yr hiraethodd dy Briod er's oesoedd maith i ti eu dringo. Dringaist yn awr y serthedd anfeidrol hwnnw, a gadewaist bob uchelder islaw it'. Dangosaist dy hun yn barod yn Arglwydd a llywydd daear, môr, ac uffern. Addefodd y ddaear di'n Arglwydd iddi, pan y rhoddodd i fynu Lazarus wrth dy lais: pan grynodd wrth dy ddyoddefaint, gan ryddhau ei seintiau meirwon: gwnaeth y môr yr

unrhyw, pan ddaeth yn balmant i'th draed, ac, wrth dy orchymyn, i draed dy ddisgybl: a phan ddaeth yn drysor-dŷ o'r hwn y cefaist arian y deyrnged: uffern a'th addefodd, trwy it' orchfygu holl alluoedd y tywyllwch: ïe, ef, yr hwn y mae nerth marwolaeth ganddo—sef y diafol.

Nid oedd dim yn ol yn awr ond it', fel Arglwydd yr awyr, fyned trwy barthau'r elfen ymroddgar honno: ac, megis Arglwydd y nef, myned trwy ei ogoneddus nen-ffurfiad, *fel y plygai pob glin it', o'r nefolion, daearolion, a than-ddaearolion bethau.*

Yr oedd it' dragywyddol hawl i'r nefoedd honno, yr hon a fyddai; meddianniad sicr o honi er pan ydoedd; ïe, pan oeddyt yn llefain ac yn ymdroi yn y preseb, ac yn hongian ar y groes, ac yn gorwedd dan sel yn y bedd: ond ni chymmerodd dy natur ddynol feddiant arni hyd yr awr hon. Megis yn dy wir gysgod Dafydd, yr hwn yr oedd ganddo hawl i deyrnas Israel mor gynted ag yr enneiniasid ef: etto, aeth trwy anhawsderau lawer, cyn caffael o hono gyflawn feddiant o honi, pan esgynodd i Hebron.

Canfyddaf yn awr, Fendigedig Iesu, lle yr ydwyt: yn mhell uwchlaw'r holl nefoedd, ar ddeheulaw gogoniant dy Dad. Hon yw'r wlad bell, i'r hon yr aethai'r Pendefig i dderbyn teyrnas iddo ei hun—pell oddiwrthym, agos i ti, ïe, o'th fewn. O, cyfod fy nghalon yno attat. Gosod fy serchiadau arnat uchod; a dysg fi gan hynny i garu'r nef, am dy fod di yno.

Pa fodd, ynte, Iesu bendigedig, yr esgynaist? *A hwynthwy yn edrych, efe a dderchafwyd i fynu, a chwmmwl a'i derbyniodd ef allan o'u golwg.* Cymmerwyd di i fynu, fel fod y weithred yn eiddot dy hun; a'r gallu, trwy'r hon y cyflawnwyd, yn eiddot hefyd. Tydi, yr hwn a esgynaist, yw'r hwn a ddisgyaist: megis na ddefnyddiwyd yn dy ddisgyniad unrhyw allu nac ewyllys ond yr eiddot dy hun; felly hefyd yn dy esgyniad. Yr oeddyt, ac yr ydwyt o hyd, yn Arglwydd ar dy weithrediadau dy hun. Rhoddaist i lawr dy fywyd; ni chymmerodd neb hi oddiarnat: cyfodaist dy hun o'r bedd, nis cynnorthwyodd un llaw di, ac nis gallasai chwaith: dygaist i fynu dy gnawd gogoneddus, ac a'i gosodaist yn y nef. Yr angelion oeddynt bresennol, ond nid yn gynnorthwyol: o ba le ond oddiwrthyt ti y cawsent hwy eu grym? Esgynodd Elias i'r nef, ond cyflewyd ef mewn cerbyd o dân, fel y byddai'n eglur

oddiwrth hyn, fod ar ddyn angen am gymmorth eraill, yr hwn hebddo nis gall gymmaint a chodi ei hun i'r nefoedd wybrennol, llawer llai i nef y nefoedd. Ond, nid oedd arnat ti, O Waredwr, angen am gerbyd, na chyflead angelaidd: Tydi wyt awdwr bywyd a symmudiad: ymsymmudant hwy oddiwrthyt, ac ynot ti. Megis, gan hynny, yr ymsymmudaist tuag i fynu, felly, trwy'r unrhyw allu, y cyfodi ninnau i fod yn gyd-gyfrannogion o'th ogoniant. *Gwneir y cyrph gwael hyn yn gyffelyb i'th gorph gogoneddus di, yn ol y nerthol weithrediad, trwy'r hwn y gelli ddarostwng pob peth i di dy hun.*

Nid oedd gan Elias ond un tyst o'i esgyniad i'r nef. Nid oedd gan St. Paul un—nac oedd gymmaint ag ef ei hun; canys, *pa un ai yn y corph ai allan o hono, nis gwyddai.*

Ni fynnet ti, O Iesu, i bawb i fod yn llygad-dystion o'th esgyniad, na chwaith rhy ychydig. Megis na osodaist dy droed ar binnacl y deml, yn ol dy adgyfodiad, ac nad ymddangosaist ychwaith yn gyhoeddus o'i mewn, i wneuthur dy bresennoldeb yn rhy gyffredin: ond dewisaist y llygaid hynny, y rhai a fynnet fendithio â golwg arnat dy hun: canfyddwyd di gan bum cant ar unwaith, ond brodyr oeddynt: felly yn dy esgyniad, ni ddygaist Jerusalem oll allan i ganfod dy ogoneddus ymadawiad, ond dy ddisgyblion dewisedig, y rhai a'th ganlynasent yn dy fywyd. Y rhai hynny, a ddychwelasent i Jerusalem yn union-gyrchol ar dy esgyniad, oeddynt gant ac ugain o bersonau: nifer digonol o dystion i wirio dy fynediad gwyrthiol a gorfoleddus i'th ogoniant. Wele, y rhai'n yn unig a fernid yn deilwng i weled dy esgyniad mawreddog, y rhai a fuasent gyd-gyfrannogion â thi yn dy ymostyngiad. Fel hyn y mynni iddi fod gyda ninnau, a chofleidiwn y sefyllfa: os dilynwn di yn dy gyflwr isel yn y byd, gan forio gyda thi trwy ddirmyg a gofidiau lawer, cawn ein dedwyddu â golwg a rhan o'th ogoniant yn y nefoedd.

O fy enaid, ymhoffa yn awr, os byth, mewn myfyrdod, yn yr olwg gyssurus a bendigedig hon o eiddo dy Waredwr. O, 'r fath olwg oedd hon! O, lawned oedd o sicrwydd llawen, o gyssur ysbrydol! Meddyliaf fy mod yn ei ganfod o hyd a'u llygaid hwy: sef y modd arafaidd yr ymderchefaist oddiar dy Olewydd: gan ganu'n iach i'th ddisgyblion, y rhai a adawset islaw it', â llygaid graslawn, a bendithion nefol. Meddyliaf fy mod yn eu gweled yn dy ddilyn â llygaid awyddus ac

hiraethlon, a'u breichiau i fynu: fel pe dymunent eu bod yn adenydd, i esgyn ar dy ol. Ac os sicrhaodd Elias i'w was Eliseus, os gwelai ef wrth esgyn, y dysgynai deuparth o ysbryd ei Feistr arno: pa chwanegiad o ysbryd llawenydd a hyder a ddaeth ar dy ddisgyblion gwynfydedig, wrth dy ganfod yn ymgodi'n raddol tua'r nefoedd! O mor anfoddlon oedd eu llygaid i golli golwg ar wyrthddrych mor Fendigedig! Leied y croesawasant y cwmmwl hwnnw, yr hwn a ddaeth rhyngddynt ag ef; a chan ymgau, a adawai ddisgleirdeb gogoneddus yn unig o'i ol, megis llwybr ysplenydd dy esgyniad! Gogoniant Duw gynt a ymddangosai yma isod yn y cwmmwl: yn awr, yn mhell yn yr awyr, cwmmwl a guddiodd ei nefol ogoniant: os nid pellder yn hytrach na'r cwmmwl disglaer hwnnw a'i gwnaeth. Eu llygaid a'th ganlynasant yn dy ffordd, mor belled ag y gallent fyned: pan na allent fyned yn mhellach, cwmmwl a'th dderbyniodd. Wele, nid oedd y llen honno, trwy'r hon y'th gymmerwyd allan o olwg pawb daearolion, amgen na gogoneddus. Pa faint mwy y gosoda'r holl edrychwyr hyn eu llygaid ar y cwmmwl hwnnw, na'r darn rhagoraf o'r wybren! Ni edrychwyd erioed ar yr haul gyda chymmaint o astudrwydd. Gyda pha hir lygaid, gyda pha seiniau rhyfeddol, y dilynodd y syn-edrychwyr hyn dydi, eu Gwaredwr esgynol! Megis pe edrychent trwy'r cwmmwl a'r nefoedd hynny, a'th guddient rhagddynt.

Ond, O, pa dafod o eiddo'r Archangel disgleiriaf yn y nef a all ddatgan dy groesawiad di, Brenhin y gogoniant, i wynfydedig fröydd anfarwoldeb? Diau na adseiniodd y drydedd nef erioed o'r blaen gan lawenydd gymmaint. *Yr Arglwydd a esgynodd gyda bloedd, yr Arglwydd gyda sain udgorn.* Nid addas i ni, greaduriaid gwan a meidrol, ddymuno dirnad y croesawiadau annirnadwy ysbrydol a dwyfol a roddodd y Drindod i'r fuddugoliaethus, ac yn awr ogoneddus natur ddynol. Diau, os dywedodd, *pan ddygodd ei gyntaf-anedig i'r byd, addoled holl angelion Duw ef,* llawer mwy yn awr, pan yr esgyna *i'r uchelder, gan gaethiwo caethiwed, y rhoddodd iddo enw, yr hwn sydd goruwch pob enw, fel yn enw'r Iesu y plygai pob glin.* Ac os canodd yr angelion, ar ei anedigaeth, y fath garol, ar ei fynediad i'r cyflwr hwnnw o ymostyngiad a gwendid; gyda pha orfoledd y derbyniasant ef yn awr, wrth ddychwelyd wedi llwyr berffeithio gwaredigaeth dyn! Ac, os,

pan orchfygodd ei gysgod, sef Dafydd, Goliath, a dwyn ei ben i Jerusalem, dy aeth y llancesau i'w gyfarfod â dawnsiau ac â thympanau, pa fodd y gorfoleddodd yr ysbrydion angelaidd, wrth gyfarfod â Gorchfygwr mawr uffern a marwolaeth! Pa fodd y canasant, *O byrth derchefwch eich pennau, ac ymderchefwch ddrysau tragywyddol, a Brenhin y gogoniant a ddaw i mewn.*

Diau y dychwel megis yr ymadawodd, ac, wele, *Efe a ddaw gyda miloedd o'i saint: mil o filoedd a'i gwasanaethant, a myrdd fyrddiwn a safant ger ei fron.* Oddiwrth y rhai'n oll tybiaf y clywaf y sain hyfryd hwnnw, *Teilwng yw'r Oen a laddwyd i dderbyn gallu, a chyfoeth, a doethineb, a nerth, ac anrhydedd, a gogoniant, a mawl: mawl ac anrhydedd, a gogoniant a gallu, a fyddo iddo Ef, yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc, ac i'r Oen yn oes oesoedd.*

A phaham, fy enaid, na chymmeri dy ran gyda'r côr nefol dedwydd hwnnw? Paham na'th orlenwir â llawenydd, wrth ganfod ein natur ddynol yn dderchafedig uwch holl alluoedd y nef: yn cael ei haddoli gan Angelion, Archangelion, Cerubiaid, Seraphiaid, a'r holl ysbrydion grymmus a gogoneddus hynny— ac yn eistedd yno'n goronedig âg anfeidrol fawredd a gogoniant!

Er mai ychydig les fyddai it' fod ein natur wedi ei hanrhydeddu fel hyn, pe na ddeuai'r fendith o'i esgyniad arnat ti. Pa nifer sydd druenus ddigon, er fod eu natur wedi ei gogoneddu yn Nghrist! Nid neb ond y sawl a geir ynddo a wneir yn ddedwydd ganddo: pwy ond yr aelodau sydd well er gogoniant y Pen? O Iesu, p'odd y gallasai ein gwendid fyth obeithio dringo i'r nef, pe nas rhagflaenaset di, gan agoryd y ffordd o'n blaen? Er ein mwyn ni yr aethost i mewn megis rhagflaenor: yn awr, cafodd yr Eglwys ei dymuniad. *Tyn fi, a rhedaf ar dy ol.* Felly, O Iesu, pa mor awyddus y dylem dy ddilyn mewn camrau ffydd a chariad, gan hiraethu am ran yn dy ogoniant! Tydi, yr hwn *wyt y ffordd*, a wnaethost ffordd i ti, ac i ninnau. *Dibrisiaist dy hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ïe, angau'r groes: am hynny, Duw a'th dra-dderchafodd dithau.* Ac ni phaid a'u derchafu ninnau yn yr unrhyw fodd. Canfyddwn dy lwybro ostyngeiddrwydd ac ufudd-dod ger ein bron. O dysg fi i'th ddilyn yn llwybrau garwaf ufudd-dod, yn llwybrau gwaedlyd angau: fel y gallwyf o'r diwedd dy orddiwes yn nghamrau uchel anfarwoldeb.

Yn mhlith y miloedd o angelion, y rhai a'th wasanaethasant

yn dy esgyniad gorfoleddus, rhai a bennodir i'r is swydd o ddiddanu dy ddisgyblion synllyd, trwy sicrhau iddynt y byddai it' ddychwelyd mewn modd llawn mor ogoneddus. *Dau wr a safodd gerllaw iddynt mewn gwisg wen.* Safasant ger llaw iddynt: nid oeddynt o honynt: ymddangosasant yn ddynion, angelion oeddynt: *dynion*, o ran eu cyfeillgarwch—*dau*, er sicrach tystiolaeth; mewn *gwisg wen*, o ran llawenydd dy esgyniad.

Yr angelion gynt a ganasant ar dy anedigaeth: ond nis cawn iddynt ymddangos yn wynion y pryd hwnnw. Yr oeddyt yr amser hwnnw à llawer o ofid o'th flaen, llawer o ymdrechion. Mor gynted ag y codaist, y wraig a welodd angel ar wedd gwr ieuangc, mewn gwisg wen: ac yn awr, mor gynted ag yr esgynaist, *dau wr mewn gwisg wen* a safodd ger llaw y disgyblion: dy waith yn awr oedd wedi ei orphen, a'th fuddugoliaeth wedi ei hennill: ac nid oedd dim yn ol ond coron, yr hon a osodwyd yn awr ar dy ben. Cymmwys, ynte, y gwisgwyd yr angelion bendigedig hynny mewn gwisgoedd o oleuni a llawenydd. A phaham y byddai ein gwisgoedd ninnau o unrhyw liw arall? Paham na fyddai olew ar ein pennau pan y mae llygaid ein ffydd yn dy ganfod yn esgyn y wedd hon?

I barottoi lle i ni yn y trigfannau nefol hynny yr aethost, O Iesu: ac er ein mwyn ni yr eisteddi ar ddeheulaw'r Mawredd. Un gwrthddrych o'th weddi at dy Dad yw, ar fod i'r sawl a roddodd i ti fod gyda thi. Dywedi wrth bob enaid archolledig, megis y dywedaist wrth Petr, *Lle yr ydwyf yn myned, nis gelli fy nilyn yr awrhon, ond yn ol hyn y'm dilyni.* Paham na orfoleddaf yn sicr obaith y gogoniant hwn, a rhodio yn mlaen llaw mewn gwisg wen gyda'th angelion, fel o'r diwedd y gallwyf rodio gyda thi felly!

Ychydig o les a darddasai oddiwrth yr angelion hynny, pe nas clywsid yn gystal a'u gweled. Nid ydynt fudion gan hynny, ond gan gyfeirio eu hiaith at y syllwyr synllyd, dywedant, *Chwi wyr o Galilea, paham y sefwch yn edrych tua'r nef?* Pa gwestiwn rhyfeddol oedd hwn? A allasai un o'r dau cant a deugain o'r llygaid hynny droi ei hun at unrhyw wrthddrych ond y cwmmwl hwnnw, a'r rhan hynny o'r nef, lle y gadawsant eu Gwaredwr esgynedig? Diau fod pob un o honynt wedi ei sefydlu yn y cyfryw fodd, fel, pe nas galwasai'r angel hwynt ymaith, yr arosent yno hyd ddyfodiad tywyllwch y nos. Maddeuwch im' O angelion dedwydd; pe buaswn gyda hwynt,

buaswn innau hefyd yn anfoddlon i gael tynnu fy llygaid oddiwrth y gwrthddrych anwyl hwnnw, a'u troi attoch chwi. Nis syllasant erioed mor hyfryd ag yn awr. Os codir rhyw wr mawr i anrhydedd uwch ein pennau, pa mor dueddol ydym i syllu arno megis rhyw berson annghyffredinol? Gadewch i'r haul dywynu ond ychydig ar y deialau hyn, pa fodd y try'r teithwyr oll i edrych arnynt! Etto, beth a all derchafiad daearol ein gwneud ond yr hyn ydym—llwch a lludw, y rhai'n, po uwchaf y codir, mwyaf oll y gwasgerir hwy? O mor deilwng ywBrenhin y nef o'n llygaid, yn awr yn ei dderchafiad uchelaf! Arglwydd, nis gallaf fyth edrych digon ar y man lle'r ydwyt: ond pa lygad a ellid ei foddloni a gweled y ffordd yr aethost?

Nid amcan yr angelion hyn oedd attal y disgyblion ffyddlon hyn rhag edrych yn hiraethlon ar ol eu Meistr esgynedig: newid llygaid oedd yn eu meddwl—rhai ysbrydol yn lle rhai cnawdol: llygad ffydd yn lle llygad synwyr. "*Yr Iesu hwn, yr hwn a gymmerwyd i fynu oddiwrthych i'r nef, a ddaw felly yr un modd ag y gwelsoch Ef yn myned i'r nef.* Nac edrychwch ar ei ol, O ddisgyblion gweiniaid, megis wedi ymadael fel na welwch ef byth mwy. Os ymadawodd, etto nis collwyd. Y nefoedd hynny a'i derbyniasant Ef a'i hadferant: ac nis gall y trigfannau nefol hynny leihau ei ogoniant. Canfyddasoch Ef yn esgyn mewn cerbyd cwmmwl disglaer: a chewch ei ganfod yn disgyn etto ar gymmylau'r nefoedd, i'r farn ddiweddaf. Ymadawodd: a ydyw'n ofid i chwi wybod fod i chwi Eiriolwr yn y nef? Ymdrechwch yn awr, nid i arferyd eich llygaid corphorol i edrych ar ei ol, yn gymmaint a llygaid eich eneidiau i edrych am dano."

Nis gellwch, ysbrydion bendigedig, lai na dymuno llwyddiant dynolryw. O'r fath droiad dedwyddol o'r llygaid a'r meddyliau a gynghorwch! Os yw'n ofid in' ymadael â'n Gwaredwr; etto, ymadael ag Ef i fyned i'r nefoedd yw ein cyssur a'n dedwyddwch: os gall ei absennoldeb fod yn drallodus in', bydd ei ddychweliad yn ddedwydd a gogoneddus.

Felly, Arglwydd Iesu, tyred ar frys. Yn y cyfamser, nis gall y nefoedd dy gadw oddiwrthyf fi, na'r ddaear dithau oddiwrthyf finnau. Derchafa fy enaid i fyw trwy ffydd arnat: bydded im' fwynhau dy gymdeithas, tra y disgwyliwyf dy ddychweliad.

ACTAU I.

DIWEDD.